



Cynllun Datblygu Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033

Dogfen Ymgynghori Adnau



Pennod	Tudalen
1. Cyflwyniad	1
1.1 Cynllunio Datblygu Lleol(CDLI)	1
1.2 Cefndir a Phwrrpas y CDLI Adneuo	3
1.3 Asesiadau Statudol	3
1.4 Y Cytundeb Cyflawni	5
1.5 Dogfennau Ategol	5
1.6 Sut i Ddweud eich Dweud	11
2. Y Cyd-destun Gofodol	13
2.1 Proffil a Throwolwg o'r Ardal	13
2.2 Patrwm Aneddiadau	13
2.3 Poblogaeth	16
2.4 Yr Economi	17
2.5 Cyd-destun Deddfwriaeth	18
2.6 Cyd-destun Polisi	20
3. Materion ac Ysgogwryr Allweddol	25
3.1 Materion ac Ysgogwryr Allweddol	25
4. Fframwaith Strategol CDLI	34
4.1 Gweledigaeth CDLI (2018-2033)	34
4.2 Amcanion Strategol ac Amcanion Penodol	35
4.3 Strategaeth Twf a Gofodol y CDLI	39
SF1: Hierarchaeth Aneddiadau a Rheolaeth Drefol	40
SP1: Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy	47
SP2: Dryraniadau Strategol ar Gyfer Ardaloedd Twf Adfywio ac Ardaloedd Twf Cynaliadwy	58
5. Gweithredu a Chyflawno	60
5.1 Cyflwyniad	60

5.2	<u>Cynllunio Da a Chreu Lleoedd yn Gynaliadwy</u>	60
	SP3: Cynllunio Da a Chreu Lleoedd yn Gynaliadwy	62
	PLA1: Glannau Porthcawl, Ardal Twf Adfywio Porthcawl	65
	PLA2: Tir i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr (Fferm Ynys), Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr	69
	PLA3: Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr	73
	PLA4: Tir i'r Dwyrain o Ben-coed, Ardal twf Cynaliadwy Pen-coed	78
	PLA5: Tir i'r Dwyrain o'r Pil, Ardal Twf Cynaliadwy y Pil, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli	81
	SP4: Lliniaru Effaith y Newydd yn yr Hinsawdd	86
	SP5: Trafnidiaeth Gyn Aliadwy A Hygyrchedd	88
	PLA6: Datblygu Mewn Coridorau Cludiant	91
	PLA7: Datblygiad i'r Gorllewin or Rheilffordd, Pen-coed	93
	PLA8: Cynigion Trafnidiaeth	93
	PLA9: Datblygiad sy'n effeithio ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus	96
	PLA10: Diogelu Seilwaith Rheilffordd Segur	97
	PLA11: Safonau Parcio	97
	PLA12: Teithio Llesol	98
5.3	<u>Creu Cymunedau Egniol, Iach, Cydlynol a Chymdeithasol</u>	101
	SP6: Strategaeth Tai Cynaliadwy	103
	COM1: Dyraniadau Tai	109
	COM2: Tai Fforddiadwy	111
	COM3: Darparu Tai Fforddiadwy ar y Safle	113
	COM4: Darparu Tai Fforddiadwy oddi ar y Safle	115
	COM5: Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy	116
	COM6: Dwysedd Preswyl	118
	COM7: Tai Amlfeddiannaeth	119
	SP7: Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn	122
	COM8: Llety Or Gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn	123
	SP8: Iechyd a Llesiant	125
	SP9: Seilwaith Cymdeithasol a Chymunedol	127

COM9: Diogelu Cyfleusterau a Chymunedol	129
COM10: Darparu Cyfleusterau Adloniant Awyr Agored	130
COM11: Darparu Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-Naturiol (gan Gynnwyd Manau Gwyrdd Amwynder)	132
COM12: Darparu Rhandiroedd a Rhwydweithiau Bwyd Cymunedol	133
COM13: Darparu Mynwentydd	133
SP10: Seilwaith	134
COM14: Seilwaith Telegyfathrebu a Thechnoleg Ddigidol	136
5.4 <u>Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus</u>	136
SP11: Strategaeth Tir Cyflogaeth	140
ENT1: Dyraniadau Cyflogaeth	141
ENT2: Diogelu Safleoedd Cyflogaeth	145
ENT3: Defnyddiau Nad Ydynt Yn Rhai B ar Safleoedd Cyflogaeth Neilltuedig	147
ENT4: Y Economi Wledig	149
ENT5: Hen Safle Ford, Pen-y-bont ar Ogwr	150
SP12: Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth	151
ENT6: Datblygiadu Manwerthu a Masnachol	156
ENT7: Datblygiadau Mewn Canolfannau Masnachol	159
ENT8: Defnyddiau nad ydynt yn rhai A2, A2 ac A3 y Tu Allan i Ardaloedd Siopa Cynradd	160
ENT9: Datblygiadau Manwerthu Y Ty Allan i Ganolfannau Manwerthu a Masnachol	161
SP13: Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel	166
ENT10: Technolegau Gwresogi Carbon Isel Ar Gyfer Datblydiadau Newydd	171
ENT11: Darpariaeth Effeithlanrwydd Ynni Yn Nyluniad Adeiladau	172
ENT12: Parc Stormy	174
SP14: Datblygu Adnoddau Mwynol Yn Gynaliadwy	174
ENT13: Datblydiadau Mewn Parthau Diogelu Mwynau	177
ENT14: Datblydiadau Mewn Clustogfeydd Mwynau	178
SP15: Rheoli Gwastraff Cynaliadwy	179
ENT15: Gwastraff Anadweithiol	182

ENT16: Symud Gwastraff Mewn Datblygiadau Newydd	183
SP16: Twristiaeth	185
ENT17: Cyfleusterau, Llety ac Atyniadau Twristiaeth Newydd Neu Estynedig	187
ENT18: Diogelu Llety Twristiaeth Presennol	188
5.5 <u>Diogelu A Gwellu Lleoedd Nodedig A Naturiol</u>	189
SP17: Conservation and Enhancement of the Natural Environment	190
DNP1: Datblygu Yng Nghefn Gwlad	194
DNP2: Trosi Adeiladau Gwledig	196
DNP3: Anheddau Newydd Yng Nghefn Gwlad	198
DNP4: Ardaloedd Tirwedd Arbennig	199
DNP5: Safleoedd Cadwraeth Natur Lleol a Rhanbarthol	201
DNP6: Biomrywiaeth, Rhwydweithiau Ecolegol, Cynefinoedd o Rhywogaethau	202
DNP7: Coed, Gwrychoedd a Datblygiad	204
DNP8: Seilwaith Gwyrdd	209
DNP9: Diogelu Adnoddau Naturiol ac Iechyd Y Cyhoedd	211
SP 18: Cadwraeth yr Amgylchedd Hanesyddol	216
DNP10: Amgylchedd Hanesyddol Adeiledig ac Adeiladau Rhestredig	218
DNP11: Ardaloedd Cadwraeth	220

Appendices

Atodiod 1: Taflwybr Tai
Atodiod 2: Amserlen Tir Cyflogaeth
Atodiod 3: Manylion O Coridorau Trafnidiaeth A Nodwyd Yn PLA5
Atodiod 4: Monitor ac Adolygu
Atodiod 5: Gweithredu a Chyflawni
Atodiod 6: Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyedd
Atodiod 7: Mapiau Cynigion

Rhestr o Dablau, Ffigurau a Mapiau		Tudalen
Tabl 1:	Dogfennau Ategol	6
Tabl 2:	Y Materion Cenedlaethol a Rhanbarthol Allweddol	26
Tabl 3:	Materion Amgylcheddol	28
Tabl 4:	Materion Cymdeithasol	30
Tabl 5:	Materion Economaidd	31
Tabl 6:	Dosbarthiad Gofodol Tai a Chyflogaeth	55
Tabl 7:	Crynodeb O Ddosbarthiad Gofodol Tai	107
Tabl 8:	Cydrannau Cyflenwi Tai Fforddiadwy	112
Tabl 9:	Anghenion Sipsiwm Theithwyr dros Gyfnod Y Cynlun	122
Tabl 10:	Targadau ar Gyfer Defnydd Adnoddau Seiliedig ar Ardal	168
Tabl 11:	Targedau Uchel Ac Isel A Awgrymir Ar Gyfer Gwresogi Domestig Carbon Isel	169
Tabl 12:	Mathau O Goertiroedd	208
Ffigur 1:	Proses Y CDLI Newydd	2
Ffigur 2:	Diagram Strategol	51
Ffigur 3:	Ardaloedd Sy'n Addas Ar Gyfer Datblygiad Ar Gyfer Gwres Ardal, Hybrid A Gwresogi Trydan	172

1 Cyflwyniad

1.1 Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI)

1.1.1 Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) sy'n nodi ei amcanion o ran datblygu a defnyddio tir ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros gyfnod y cynllun hyd at 2033, a'i bolisiau i'w gweithredu nhw.

1.1.2 Paratowyd y Cynllun Adneuo hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn tanategu'r gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Newydd 2018-2033. Paratowyd y ddogfen hon ac mae'n ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus yn unol â Rheoliad 17 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Ar ôl ei gwblhau a'i fabwysiadu, bydd y CDLI Newydd yn disodli'r CDLI presennol (2006-2021) gan weithredu fel Cynllun Datblygu statudol y Fwrdeistref Sirol. Yn unol â gofynion statudol, polisiau a chanllawiau, bydd yn ofynnol i'r CDLI Newydd gyflawni'r canlynol:

- darparu datblygu cynaliadwy sy'n seiliedig ar systemau trafndiaeth;
- gwneud y mwyaf o lesiant a chreu mannau cynaliadwy drwy greu lleoedd;
- adeiladu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a pholisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru, gan ychwanegu gwerth atynt;
- adlewyrchu dyheadau lleol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, yn seiliedig ar weledigaeth y cytunwyd arni gan y Cyngor a rhanddeiliaid eraill;
- mynegi mewn termau defnydd tir amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a blaenoriaethau Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr. Galluogir hyn drwy ddangos y Pum Ffordd o Weithio (cynnwys, cydweithio, integreiddio, atal a ffactorau cydbwyso hirdymor) yn natblygiad y Cynllun;
- darparu sail ar gyfer penderfyniadau rheoli datblygu rhesymegol a chyson;
- arwain twf a newid, gan ddiogelu amrywiaeth, cymeriad ac amgylcheddau sensitif lleol;
- sicrhau cadernid cymdeithasol ac economaidd aneddiadau a'u gallu i addasu i newid yn yr hirdymor; a
- dangos pam, sut a ble y bydd newid yn digwydd yn ystod cyfnod y cynllun.


1.1.3 Mae Cynllun Adneuo'r CDLI Newydd yn adeiladu ar y Strategaeth a Ffefrir, yr ymgynghorwyd arni rhwng 30 Medi 2019 ac 8 Tachwedd 2019 yn unol â Rheoliad 15 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Wrth wneud hynny, mae'r Cynllun Adneuo yn darparu fframwaith strategol wedi'i ddiweddarau i danategu'r CDLI Newydd, ac mae'n darparu'r canlynol:

- diffiniad gofodol gwell;
- cyfres lawn o ddyraniadau safleoedd i ddiwallu anghenion a nodir;
- fframwaith polisi gwell (gan gynnwys polisiau rheoli datblygu); a

- dulliau darparu a monitro.

1.1.4 Bydd y CDLI Newydd, y dylid ei ddarllen yn ei gyfanrwydd, yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i arwain a rheoli datblygiad, gan ddarparu sail ar gyfer gwneud penderfyniadau cyson a phriodol. Dangosir trosolwg bras o broses y CDLI Newydd yn y diagram llif isod, ac amlygir y Cam Adneuo cyfredol mewn oren.

Ffigur 1: Proses y CDLI Newydd



1.2 Cefndir a Phwrrpas y CDLI Adneuo

- 1.2.1 Er mwyn amlinellu sut y cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gyfranogiad ac ymgynghoriad cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffeirir ei hun, paratowyd Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol yn unol â Rheoliad 16a o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005. Mae'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol yn nodi'r camau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd i'r broses o baratoi cynlluniau, yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, cyn amlinellu'r cyrff penodol yr ymgysylltwyd â nhw, gan grynhoi'r prif fater a godwyd a nodi sut yr aed neu yr eir i'r afael â'r ymatebion. Mae'r cyfnod ymgynghori allweddol hwn, sy'n cynnwys ystod eang o gyrff ac unigolion, wedi dylanwadu'n sylweddol ar ddatblygiad y Cynllun Adneuo hwn.
- 1.2.2 Mae'r Cynllun Adneuo yn cynnwys Datganiad Ysgrifenedig a Map Cynigion. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn amlinellu polisiau cynllunio lleol, dyraniadau defnydd tir a chyfiawnhad cysylltiedig yn seiliedig ar y dystiolaeth ategol. Mae'n cynnwys fframwaith monitro hefyd, sy'n nodi sut y caiff Strategaeth, Amcanion, Polisiau a Chynigion y Cynllun eu monitro o'u cymharu â dangosyddion priodol a sbardunau ar gyfer gweithredu (sy'n gysylltiedig ag adolygu/diwygio'r cynllun). Mae'r Map Cynigion yn dangos y dyraniadau defnydd tir, ffiniau aneddiadau a dynodiadau cynllunio a gynigir yn y Cynllun, sy'n allweddol i gyflawni'r Strategaeth Ofodol.
- 1.2.3 Mae'r Map Cynigion yn dangos dynodiadau amgylcheddol presennol a nodwyd a chyfyngiadau ffisegol eraill. Dylid nodi bod y Map yn gywir ar adeg ei gyhoeddi ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei ddiweddarau yn y dyfodol. At ddibenion dangosol yn unig y mae ef a dylai cynigion datblygu manwl gael eu llywio gan yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfyngiadau gan yr awdurdod dynodi cyfrifol megis Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a/neu CADW.
- 1.2.4 Mae holl amcanion a pholisiau'r Cynllun Adneuo yn gydgyssylltiedig o ran eu natur ac mae angen eu darllen ar y cyd â'i gilydd er mwyn cael dealltwriaeth o gyfeiriad polisi cyffredinol y CDLI Newydd. Mae cyfres o bolisiau Rheoli Datblygu manwl wedi eu datblygu hefyd er mwyn cefnogi'r Polisiau Strategol.
- 1.2.5 Cefnogir y Cynllun Adneuo gan Asesiad Darpar Safleoedd, sydd wedi nodi'r darpar safleoedd sy'n addas i'w dyrannu yn y CDLI Newydd. Mae pob darpar safle wedi bod yn ddarostyngedig i asesiad pedwar cam dilyniannol. Yn gyntaf, mae hyn wedi ystyried gallu pob safle i gefnogi'r Strategaeth a Ffeirir cyn craffu ar asesiadau safle manwl (o ran y gallu i gyflawni, cynaliadwyedd ac addasrwydd) ac ymgynghori â chyrff ymgynghori penodol priodol. Mae pedwerydd cam yr asesiad hwn wedi ceisio gwybodaeth ychwanegol oddi wrth hyrwyddwyr safleoedd, pan fo hynny'n briodol, er mwyn cefnogi safleoedd i'w cynnwys, a'u dyrannu yn y Cynllun Adneuo hwn ar ôl hynny.

1.3 Asesiadau Statudol

- 1.3.1 Yn unol â gofynion statudol, caiff y gwaith o baratoi'r CDLI Newydd sy'n datblygu ei lywio gan gyfres o asesiadau effaith:
- Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol – sef asesiad o effeithiau amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach arwyddocaol

tebygol. Mae Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n tanategu'r asesiad hwn yn cynnwys pwyslais cryf ar faterion llesiant sy'n gysylltiedig â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – asesu effeithiau sylweddol tebygol ar safleoedd a ddynodwyd ar lefel Ewropeaidd ('Safleoedd Ewropeaidd') am resymau sy'n ymwneud â phwysigrwydd ecolegol.
- Asesu'r Effaith ar Iechyd – asesu effeithiau tebygol y Cynllun ar ystyriaethau iechyd a chydaddoldeb, yn enwedig y rhai a allai effeithio ar iechyd trigolion y Fwrdeistref Sirol.
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb - adolygu a nodi effaith debygol y Cynllun ar gymunedau presennol ac yn y dyfodol, gan ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol polisiau ac arferion ar grwpiau gwarchodedig.

1.3.2 Mae'r asesiadau effaith hyn wedi eu cynnal mewn modd integredig a'u defnyddio fel dulliau llunio cynlluniau i lywio'r CDLI Newydd, yn hytrach na bod yn ymarferion adrodd statudol yn unig. Mae hyn wedi caniatáu i oblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd holl gydrannau'r cynllun gael eu profi cyn gynted â phosibl ac i unrhyw ansicrwydd, materion neu ofynion lliniaru a nodwyd yn ystod y prosesau asesu effaith gael sylw wrth baratoi'r cynllun. Yn ogystal â bodloni gofynion statudol, mae'r broses ailadroddol hon wedi helpu i wneud y gorau o berfformiad y CDLI Newydd sy'n datblygu ac i wella ei ansawdd yn fwy cyffredinol.

1.3.3 Mae'r Cynllun Adneuo yn cynnwys:

- Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol): Asesu cynaliadwyedd ac effeithiau amgylcheddol sylweddol tebygol yr holl gydrannau sylweddol yn y Cynllun Adneuo (strategaeth, polisiau, dyraniadau safleoedd ac ati) ac unrhyw ddewisiadau eraill rhesymol a nodwyd. Mae hyn yn adeiladu'n uniongyrchol ar adroddiadau blaenorol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd gan gynnwys Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd (2018) ac Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Interim (2019) a oedd yn dod gyda'r Strategaeth a Ffeirir gan y CDLI Newydd. Mae Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Adneuo yn dangos sut mae proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol, wedi llywio datblygiad y Cynllun Adneuo, gan gynnwys ymgorffori newidiadau a argymhellir yn y ddogfen. O ganlyniad, daw Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd i'r casgliad bod

Y Cynllun Adneuo'n rhoi sylw da i'r holl faterion cynaliadwyedd allweddol, gyda chydannau cynllun yn perfformio'n dda o'u cymharu â Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Mae hefyd yn nodi cydnawsedd cryf rhwng Gweledigaeth/Amcanion y CDLI a Fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yn ogystal â diffyg unrhyw effeithiau andwyol sylweddol tebygol (gan ystyried lliniaru o bob math).

- Adroddiad Asesu Priodol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd: Nododd Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd Strategaeth a Ffeirir CDLI Pen-y-bont ar

Ogwr (2019), heb ystyried mesurau lliniaru posibl, fod rhai elfennau o'r CDLI Newydd sy'n datblygu yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd perthnasol¹. Yn unol â gofynion statudol a chyfraith achosion, roedd angen symud ymlaen felly at ail gam proses yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a chynnal Asesiad Priodol o'r Cynllun Adneuo. Felly, mae Adroddiad Asesu Priodol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn ystyried a fyddai gweithredu'r Cynllun Adneuo, ynghyd â chynlluniau a phrosiectau perthnasol eraill, yn cael effaith andwyol ar uniondeb ac amcanion cadwraeth Safleoedd Ewropeaidd, gan ystyried eu nodweddion cymhwys. Gan ystyried lliniaru sy'n ymwneud â dyrannu safleoedd a geiriad polisïau, daw Adroddiad Asesu Priodol Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd y Cynllun Adneuo i'r casgliad na fyddai gweithredu'r Cynllun Adneuo yn arwain at effeithiau andwyol ar unrhyw un o'r Safleoedd Ewropeaidd.

1.4 Y Cytundeb Cyflawni

1.4.1 Mae'r Cytundeb Cyflawni Newydd (a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ar 5 Hydref 2020) yn rhoi manylion y gwahanol gamau sy'n gysylltiedig â'r broses o lunio'r Cynllun a'r amser y mae pob rhan o'r broses yn debygol o'i gymryd, yn ogystal â'r adnoddau y bydd y Cyngor yn eu hymrwymo ar gyfer paratoi'r Cynllun. Mae hefyd yn nodi'r ffordd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnwys y gymuned leol a rhanddeiliaid eraill wrth baratoi'r CDLI Newydd. Mae'r Cytundeb Cyflawni wedi ei rannu'n ddwy adran allweddol:

1. Yr Amserlen ar gyfer cynhyrchu'r CDLI diwygiedig. Mae hyn yn rhoi syniad clir o ba bryd y bydd pob un o wahanol gamau paratoi'r cynllun yn digwydd. Darperir dyddiadau pendant hyd at y cam adneuo a dyddiadau dangosol ar gyfer camau diweddarach. Dyma enghraifft o ddull rheoli prosiect i sicrhau bod gan y cynllun ddigon o adnoddau a'i fod yn cael ei gyflawni'n brydlon. Mae'r amserlen wedi ei chynnwys yn 'Adran 2' o'r Cytundeb Cyflawni; ac
2. Y Cynllun Cynnwys Cymunedau – mae hwn yn amlinellu egwyddorion yr Awdurdod o ran ymgysylltu â'r gymuned; ei ddull o weithredu mewn cysylltiad â phwy, sut a phryd y mae'n bwriadu ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid, sut y bydd yn ymateb i sylwadau a sut y bydd y cynrychiolaethau hyn yn llywio camau diweddarach y broses o baratoi'r cynllun. Cynhwysir hyn yn 'Adran 3' o'r Cytundeb Cyflawni.

Gellir gweld y Cytundeb Cyflawni drwy'r ddolen hon:

<https://www.bridgend.gov.uk/cy/preswylwyr/cynllunio-a-rheoli-adeiladu/cynllunio-datblygiadau/cynllun-datblygu-lleol-newydd-pen-y-bont-2018-to-2033/cytundeb-cyflawni-newydd/>

¹ Fel y nodwyd yn Adroddiad Sgrinio Cychwynnol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a oedd yn dod gydag Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd Adolygiad CDLI Pen-y-bont ar Ogwr (2018).

1.5 Dogfennau Ategol

- 1.5.1 Mae nifer o ddogfennau technegol ategol wedi eu cynhyrchu er mwyn llywio'r Cynllun Adneuo. Rhestrir y rhain yn Nhabl 1 drosodd ynghyd â'u swyddogaeth a'u diben, a dylid eu darllen ochr yn ochr â'r Cynllun Adneuo.

Tabl 1: Dogfennau Ategol

Dogfen Ategol	Diben
Adroddiad Adolygiad CDLI (2013) Presennol	I nodi maint arfaethedig y newidiadau tebygol i'r CDLI presennol (2006-2021) ac i gadarnhau'r weithdrefn adolygu i'w dilyn wrth baratoi'r CDLI Newydd.
Cytundeb Cyflawni CDLI Newydd	I ddarparu cynllun prosiect i baratoi'r CDLI a nodi'r mesurau yn y Cynllun Cynnwys Cymunedau yn nhermau ymgynghori ac ymgysylltu.
Adroddiad Cwmpasu Arfarniad Cynladwyedd (AC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)	I amlinellu'r dull gweithredu arfaethedig o ran Arfarniad o Gynladwyedd y CDLI, yn cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol. Yr adroddiad hwn yw cam cyntaf proses AC i nodi, asesu ac i ymdrin ag unrhyw effeithiau sylweddol tebygol ar yr amgylchedd o Adolygiad datblygol CDLI Pen-y-bont ar Ogwr.
Adroddiad Cychwynnol Adroddiad Cwmpasu AC/AAS	I nodi, o asesiad o ddulliau amgen rhesymol, pa un a fydd gan y CDLI unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd a hefyd i benderfynu a fydd y Cynllun yn cyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'r Adroddiad Cychwynnol yn cynnwys asesiad cymesur o safleoedd ymgeisiol. Ymgynghorir ar Adroddiadau ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar yr un pryd â Chynllun Adnau'r CDLI.
Adroddiad yr AC Adnau	I nodi unrhyw effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol tebygol y CDLI, ac i awgrymu mesurau lliniaru perthnasol. Mae'r broses hon yn integreiddio ystyriaethau cynladwyedd ym mhob cam paratoi'r CDLI, ac yn hybu datblygu cynaliadwy.
Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd	Mae'n ofynnol o dan Reoliad 63 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 i weithredu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) i ddangos cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol a nodir yng

	Nghyfarwydddeb Cynefinoedd ac yn Rheoliadau Cynefinoedd pan ystyrir bod cynllun neu brosiect yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar Safleoedd Ewropeaidd ac nad yw'n gysylltiedig yn uniongyrchol â rheoli'r safle nac yn angenrheidiol. Diben yr adroddiad hwn yw dogfennu cam ffurfiol cyntaf o'r broses HRA hon, yn bennaf i ganfod a fyddai unrhyw effeithiau sylweddol tebygol (LSE) ar Safleoedd Ewropeaidd perthnasol o CDLI Newydd datblygol Pen-y-bont ar Ogwr, ac sydd ar hyn o bryd yn cynnwys Cam Adnau'r CDLI.
Arfarniad Llawn o Gynladwyedd y Strategaeth a Ffeirir	Darperir yr Arfarniad Llawn o Gynladwyedd y Strategaeth a Ffeirir mewn dogfen ar wahân sydd wedi'i chynnwys yn nogfen ymgynghorol Y Strategaeth a Ffeirir.
Cofrestr y Safleoedd Ymgeisiol	Cofnod o safleoedd a gyflwynwyd gan dirfeddianwyr, datblygwyr a'r cyhoedd, a fydd yn cael ei ddefnyddio fel pwynt cyfeirio i asesu pob safle yn erbyn y Strategaeth ar gyfer eu cynnwys o bosibl yn y cynigion cyn-adnau a/neu'r CDLI Adnau.
Adroddiad ar Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol (2020)	Mae'r CDLI yn cael ei gefnogi gan Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol, sydd wedi nodi'r safleoedd posibl ar gyfer eu dyrannu yn y CDLI Newydd. Mae pob safle ymgeisiol wedi bod yn destun asesiad pedwar cam dilyniannol. Ystyriodd hwn yn gyntaf botensial pob safle i gefnogi'r Strategaeth a Ffeirir cyn craffu ar asesiadau manwl o safleoedd (o ran cyflawnadwyedd, cynladwyedd ac addasrwydd) ac ymgynghori â chyrff ymgynghori penodol priodol. Mae pedwerydd cam yr asesiad hwn wedi ceisio gwybodaeth ychwanegol gan hyrwyddwyr safleoedd, pan fo'n briodol, i gefnogi safleoedd er mwyn eu cynnwys ac wedi hynny eu dyrannu yn y Cynllun Adnau hwn.
Astudiaeth o Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019)	I ddarparu argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar raddfa a dosbarthiad angen cyflogaeth a'r tir mwyaf addas i ddiwallu'r angen hwnnw, gan hefyd wneud argymhellion polisi /dyrannu tir i lywio polisïau datblygol a dyraniadau safleoedd.
Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021)	I adolygu'r data aelwydydd newydd, nodi'r newidiadau ers yr amcanestyniadau blaenorol ac ystyried sut y mae hyn yn cael effaith ar

	ragolygon economaidd a'r angen am swyddi a thir.
Astudiaeth Fanwerthu (2019)	I nodi argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch anghenion manwerthu, dosbarthiad yr angen a'r diffiniad o ardaloedd siopa sylfaenol i lywio polisiau datblygol a dyraniadau safleoedd.
Asesiad Ynni Adnewyddadwy (2019)	I ddarparu sylfaen dystiolaeth ynni adnewyddadwy gadarn a fydd yn llywio gwaith cynhyrchu'r CDLI a nodi llinell sylfaen ar gyfer monitro ynni adnewyddadwy yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.
Cynllun Ynni Clyfar Pen-y-bont ar Ogwr (2019)	I ddarparu map trywydd o brosiectau a gweithgareddau a fydd yn galluogi Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i ymateb i her datgarboneiddio gwres yn y system ynni ehangach.
Astudiaeth o Asesiad Aneddiadau (2019, diwygiwyd 2021)	I sefydlu hierarchaeth aneddiadau cynaliadwy a all lywio'r CDLI Newydd. Bydd hon yn nodi'r lleoliadau mwyaf priodol i ddarparu ar gyfer datblygiad yn y dyfodol er mwyn cyflawni patrwm twf cynaliadwy, lleihau patrymau symud anghynaliadwy a chefnogi gwasanaethau a chyfleusterau lleol.
Adroddiad Dadansoddiad Demograffig a Rhagolygon (2019)	I ddarparu crynodeb o dystiolaeth ddemograffig, yn cynnwys cyfres o ganlyniadau poblogaeth, tai a thwf economaidd i lywio'r papur Opsiynau Twf Strategol i'w ystyried wrth lywio'r CDLI.
Diweddariad Demograffeg yr LDP Atodiad (2020)	I ddiweddu'r Adroddiad Dadansoddiad Demograffig a Rhagolygon (2019) gyda dadansoddiad wedi'i adnewyddu o'r ystadegau a'r rhagolygon demograffig diweddaraf.
Archwiliad Chwaraeon Awyr Agored a Mannau Chwarae Plant (2021)	I ddarparu archwiliad o'r ddarpariaeth bresennol o fannau chwaraeon a chwarae awyr agored yn y Fwrdeistref Sirol, o'i chymharu â Safonau Meysydd Chwarae, i nodi diffygion yn y ddarpariaeth a llywio strategaethau a pholisiau cysylltiedig y CDLI.
Asesiad Seilwaith Gwyrdd (2021)	I ddarparu dadansoddiad gofodol cyfannol o seilwaith gwyrdd a Rhwydweithiau Teithio Llesol ar draws y Fwrdeistref Sirol.
Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021)	I ddarparu cipolwg manwl o fecanwaith marchnadoedd eiddo preswyl lleol ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Asesiad yn cynnwys asesiad meintiol o anghenion tai a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio polisiau tai'r CDLI yn nhermau'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy,

	deiliadaeth a'r mathau o lety sydd eu hangen ar draws y Fwrdeistref Sirol.
Dynodiadau Tirwedd Arbennig (2010)	I gynnal adolygiad o'r dynodiad Ardaloedd Tirwedd Arbennig yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r fethodoleg yn defnyddio dull gweithredu iterus strwythuredig i nodi ardaloedd a ystyrir yn deilwng o gael eu cadw fel dynodiadau Tirwedd Arbennig yn y CDLI.
Asesiad Cymeriad Tirwedd ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (2013)	Mae'r ddogfen hon yn darparu sylfaen dystiolaeth gadarn i ddatblygwyr ystyried cymeriad a sensitifrwydd y gwahanol dirweddau yn y Fwrdeistref Sirol wrth ystyried datblygiadau newydd. Mae hefyd yn hybu dealltwriaeth o sut y mae tirweddau'r Fwrdeistref Sirol yn newid (o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau naturiol, economaidd a dynol), a sut y gellir eu cryfhau mewn ymateb.
Adroddiadau a Phapurau Technegol, Testun Cefndirol	Mae'r rhain yn darparu gwybodaeth ategol a sail resymegol ar gyfer y CDLI Newydd. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n fanylach ar y prif faterion sy'n berthnasol i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r CDLI.
Asesiadau Effaith Iechyd a Chydraddoldebau	I asesu effeithiau tebygol y CDLI Newydd ar ystyriaethau iechyd a chydraddoldeb.
Asesiad o Lety Sipsiwn a Theithwyr (2020)	I asesu anghenion llety Cymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol yn y dyfodol a phenderfynu a oes gofyniad ar gyfer darpariaeth ychwanegol o safleoedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd hyn yn llywio unrhyw ddyraniadau safleoedd a pholisïau sy'n seiliedig ar feini prawf cysylltiedig yn y CDLI.
Map o Rwydwaith Integredig Teithio Llesol Pen-y-bont ar Ogwr	Mae'r ddogfen hon yn nodi cynlluniau ar gyfer rhwydwaith o lwybrau a chyfleusterau Teithio Llesol dros y 15 mlynedd nesaf. Ceir y rhain yn y Mapiau Rhwydwaith Integredig (INM). Bwriad y cynigion yw: gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol gan gynnwys canol trefi, canolfannau trafndiaeth, yn ogystal ag ardaloedd cyflogaeth a manwerthu; datblygu mynediad at gyfleusterau addysg fel ysgolion a cholegau; a gwella ac ehangu'r rhwydwaith strategol presennol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
Cynllun Rheoli Cyrchfan Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2022	Datganiad o fwriad i reoli'r Fwrdeistref Sirol er lles twristiaeth, gan ystyried anghenion ymwelwyr, trigolion lleol, busnesau a'r

	amgylchedd. Mae'n ddull gweithredu systematig a chyfannol ar gyfer gwneud i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr weithio fel cyrchfan i ymwelwyr. Mae'n cofleidio'r syniad o gynladwyedd, gan ganolbwyntio ar dwristiaeth sy'n dod â manteision economaidd, gan hefyd nodi'r ffyrdd y gallai gwahanol randdeiliaid gydweithio i gyflawni effaith gadarnhaol.
Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd (ASGLI) Pen-y-bont ar Ogwr (2020)	Mae'r ASGLI diweddaraf yn creu fframwaith strategol i ystyried y risg o lifogydd wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Cafodd ei ddatblygu yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 15 – Datblygu a Pherygl o Llifogydd (NCT15), yn ogystal â chanllawiau ychwanegol a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).
Asesiad Hyfywedd y Cynllun Cyfan (2021)	I ddeall sut y gall gwahanol ardaloedd marchnad effeithio ar hyfywedd y gwaith o gyflawni tai preifat a fforddiadwy yn ogystal â seilwaith cysylltiedig er mwyn llywio'r gwaith o ffurfio polisiau, mynegiant gofodol a chymhwyso.
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI) Pen-y-bont ar Ogwr (2014)	I fapio a meintioli bioamrywiaeth a'r gwasanaethau ecosystem sylfaenol Pen-y-bont ar Ogwr (hynny yw, y swyddogaethau gwerthfawr y mae ein hamgylchedd yn eu darparu). Cynlluniwyd y CGBLI yn benodol i weithio ar y cyd â pholisiau allweddol eraill sy'n cefnogi polisi cynllunio yn y Fwrdeistref.
Adolygiad Lletem Las (2021)	I adolygu'r dynodiadau lletem las presennol yn CDLI Pen-y-bont ar Ogwr 2006-2021 a fabwysiadwyd ac ystyried yr angen iddynt barhau yn y CDLI Newydd datblygol 2018-2033.
Adolygiad Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur (SBCN) (2020)	I gynnal dadansoddiad yn canolbwyntio ar SBCN presennol y gellir dyraniadau arfaethedig effeithio arnynt.
Asesiad Trafnidiaeth Strategol (2021)	I ddadansoddi'r rhwydwaith ffyrdd strategol, asesu effaith dyraniadau strategol posibl ac ystyried y gofynion lliniaru.
Nodyn Technegol Asesu Trafnidiaeth Strategol (2021)	Gellir cynnwys nodyn technegol i gadarnhau'r lefel arfaethedig o ddatblygiad y manylir arno yn y CDLI diwygiedig yn Rhwydwaith Priffyrdd BCBC gyda lliniaru addas.
Cynllun Cyflawni Seilwaith (2021)	I nodi anghenion seilwaith y fwrdeistref Sirol dros gyfnod y cynllun.
Astudiaeth Capasiti Trefol (2020)	I ddarparu dadansoddiad o gapasiti trefol posibl aneddiadau ar gyfer tai'r Fwrdeistref Sirol i

	amlygu cyfradd lwfans safleoedd bychain a hap-safleoedd a ddisgwylir.
Profion Cadernid (2021)	I asesu sut a pham y mae'r Cyngor yn ystyried bod y Cynllun wedi bodloni'r Profion Cadernid, a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.
Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol (2020)	Dylai'r adroddiad nodi'r cyrff a gaiff eu cynnwys neu eu hysbysu neu yr ymgynghorir â nhw yn ystod y cam cyn adneuo, gan gynnwys safleoedd, y prif faterion a godwyd a sut maent wedi dylanwadu ar y CDLI adneuo

1.6 Sut i Ddweud eich Dweud

1.6.1 Byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn croesawu eich safbwyntiau ar y Cynllun Adneuo a chynhelir cyfnod ymgynghori statudol o **1 Mehefin a 27 Gorffennaf**. Mae'r dogfennau ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor. Hefyd, mae copïau ar gael i'w harchwilio yn ystod oriau agor arferol yn Swyddfeydd a llyfrgelloedd y Cyngor. (Ile bo hynny'n bosibl) Byddwch hefyd yn gallu archebu apwyntiadau ffôn gyda Swyddogion Cynllunio'r Cyngor yn ystod y cyfnod hwn.

1.6.2 Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau ynghylch CDLI Adneuo Pen-y-bont ar Ogwr yw 5pm 27 Gorffennaf. Cyflwynwch unrhyw sylwadau inni ar y ddogfen hon, yn ysgrifenedig, drwy e-bost neu drwy'r post (gan ddefnyddio'r Ffurflen Sylwadau safonol (ar gael ar-lein)) fel a ganlyn:



Ewch i: www.bridgend.gov.uk/ymgyngghoriadCDLI



Anfon Copi o'r Ffurflen Ymgynghori mewn e-bost at:
consultation@bridgend.gov.uk



Postio Copi o'r Ffurflen Sylwadau at:
Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB



Ffoniwch y Tîm Cynllunio Datblygu ar 01656 643168
i gael rhagor o wybodaeth

1.6.3 Dylai'r holl sylwadau ymwneud â'r cwestiynau a gynhwysir ar ddiwedd pob Adran o'r Cynllun Adneuo, sydd wedi eu cynllunio i'ch cynorthwyo chi gyda'ch sylwadau.

1.7 Y Camau Nesaf

1.7.1 Nodir manylion llawn yr ymgynghoriad a gynhaliwyd wrth baratoi'r Cynllun yn adroddiad yr ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo. Mae'n rhaid i'r adroddiad hwn gyd-fynd ag Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLI Newydd a'r dogfennau ategol eraill ynghylch adneuo, yn unol â Rheoliad CDLI 17 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005.

- 1.7.2 Yn unol â Rheoliad 22, bydd y Cynllun yn cael ei gyflwyno wedyn i Lywodraeth Cymru a fydd yn penodi Arolygydd annibynnol i archwilio'r cynllun. O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r Cynllun a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad adneuo, mae'n rhaid i'r Arolygydd benderfynu a yw'r CDLI yn bodloni'r 'prawf cadernid' a nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu a baratowyd gan Lywodraeth Cymru.
- 1.7.3 Yn dilyn yr archwiliad, bydd yr Arolygydd yn cyhoeddi adroddiad yn argymhell newidiadau gofynnol i'r CDLI. Os yw'r Arolygydd o'r farn nad yw'r Cynllun yn sylfaenol bendant, ni fydd yn cael ei argymhell i'w fabwysiadu. Bydd casgliadau'r Arolygydd yn gyfrwymol ac oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau a mabwysiadu'r CDLI fel y'i diwygiwyd. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CDLI Newydd yn disodli'r CDLI presennol a fabwysiadwyd yn 2013, a bydd yn dod yn fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

2. Y Cyd-destun Gofodol

2.1 Proffil a Throsolwg o'r Ardal

- 2.1.1 Lleolir Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth galon ddaearyddol y De, rhwng dinasoedd Caerdydd ac Abertawe, ac mae'n cwmpasu ardal o tua 25,500 hectar. Mae'n ffinio â Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i'r gorllewin a'r gogledd, Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain, a Bro Morgannwg i'r dwyrain. Mae gwreiddiau'r ardal yn tarddu o'i lleoliad strategol yn y man pontio isaf ar Afon Ogwr, a arweiniodd at ei sefydlu'n dref farchnad yn wreiddiol cyn iddi ehangu yn sgil llwyddiant y diwydiant glo i'r gogledd. Datblygwyd y rhwydwaith ffordd a rheilffordd lleol i ddarparu mynediad i gymunedau o ardaloedd eraill y De, gan fanteisio ar leoliad strategol y Fwrdeistref Sirol. Mae lleoliad yr ardal ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r cysylltiadau trafniadaeth hanesyddol yn hwyluso cysylltiadau allweddol â Chaerdydd ac Abertawe. Mae'r cysylltiadau hyn wedi bod yn allweddol i ddatblygiad y Fwrdeistref Sirol fel canolfan gyflogaeth ranbarthol bwysig, yn enwedig ym maes gweithgynhyrchu uwch.
- 2.1.2 Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn sefyllfa unigryw fel porth at Ranbarth Bae Abertawe a Rhanbarth Prifddinas Caerdydd. Mae'r rhyngddibyniaethau a'r berthynas rhwng y ddau ranbarth yn enwedig o bwysig i'r Fwrdeistref Sirol, ac yn wir, i lwyddiant y rhanbarthau ehangach yn fwy cyffredinol. Bydd sefyllfa ganolog Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn allweddol i hybu cynllunio strategol cydweithredol, rhyngranbarthol drwy gydgyssylltu seilwaith tai, twf economaidd a chysylltedd.
- 2.1.3 Mae'r Fwrdeistref Sirol yn ymestyn o Afon Cynffig yn y gorllewin i Afon Ewenni yn y dwyrain, gan gymryd Cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr o'u ffynonellau yn y gogledd hyd at Fôr Hafren yn y de. Felly, gellir categorioeddio cymeriad ffisegol yr ardal yn dri pharth eang; Ucheldir, Iseldir ac Arfordirol. Llwyfandir tywodfaen Pennant yw'r rhan fwyaf o Barth yr Ucheldir, ac mae sawl afon yn torri drwyddo sy'n rhedeg i'r de neu'r de-orllewin yn gyffredinol i ffurfio cyfres o gymoedd dwfn. Nodweddir Parth yr Iseldir gan ei dirwedd donnog o dir amaethyddol o ansawdd uwch yn gyffredinol, sy'n ffurfio ystod drwy rannau canolog a de-ddwyreiniol y Fwrdeistref Sirol. Gwastadedd yw Parth yr Arfordir ar y cyfan; mae'n ymestyn i'r mewn o Fôr Hafren ble mae'n cwrdd â Pharth yr Iseldir. Mae'n cynnwys systemau twyni tywod Twyni Cynffig yn y gorllewin a Chwningar Merthyr Mawr yn y de; mae'n terfynu yn y de-ddwyrain yn aber Afon Ogwr.
- 2.1.4 Mae gan y Fwrdeistref Sirol fioamrywiaeth gyfoethog ac amrywiol gydag ystod eang o rywogaethau, cynefinoedd a thirweddau unigryw, cyfoethog. Yn benodol, mae'r rhain yn cynnwys Arfordir Treftadaeth Morgannwg sydd o bwysigrwydd cenedlaethol, Merthyr Mawr, Twyni Cynffig a Margam sy'n Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru, ac ardaloedd eraill o bwysigrwydd ranbarthol a lleol a ddynodwyd yn Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Hefyd, mae gan y Fwrdeistref Sirol Dreftadaeth Adeiledig ac Amgylchedd Hanesyddol cyfoethog fel yr adlewyrchir gan ei 16 Ardal Gadwraeth, 373 o adeiladau rhestredig, 60 o Henebion Cofrestredig sydd o bwysigrwydd cenedlaethol a 6 Pharc a Gardd Hanesyddol.

2.2 Patrwm Aneddiadau

- 2.2.1 Yn gyffredinol, mae strwythur aneddiadau'r Fwrdeistref Sirol yn adlewyrchu ei threftadaeth amaethyddol a diwydiannol. Pen-y-bont ar Ogwr yw'r dref ganolog, ac

mae'n cysylltu â'r tri Chwm, hen borthladd Porthcawl a'r ardaloedd twf ger Porth y Cymoedd, y Pîl a Phencoed. Amlinellir pob anheddiad yn ei dro.

Pen-y-bont ar Ogwr

- 2.2.2 Pen-y-bont ar Ogwr yw'r anheddiad mwyaf, ac mae'n cynnwys nifer o gymdogaethau preswyl unigryw sy'n cael eu gwasanaethu gan ganolfannau lleol bach. Mae'r cymdogaethau hyn wedi'u clystyru o gwmpas Tref Pen-y-bont ar Ogwr, sef prif ganolfan weinyddol y Fwrdeistref Sirol. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn hygyrch iawn, ac mae'n agos i gyffordd 36 y M4 a choridor yr A48/A473. Mae gwasanaeth trên cyflym iawn rhwng Llundain (Paddington) ac Abertawe yn stopio yn y dref hefyd. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn brif ganolfan gyflogaeth sy'n gwasanaethu'r Fwrdeistref Sirol gyfan a'r ardal ehangach, ac mae'n cynnwys nifer o ystadau diwydiannol mawr. Seilwaith trafniadaeth yr ardal yw un o'r prif resymau am ddenu prosiectau mewnfuddsoddi ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan wneud yr ardal yn ddeniadol i adeiladwyr tai, manwerthwyr a chyflogwyr. Gall tagfeydd lleol amharu ar hygyrchedd ceir trwy'r prif lwybrau, yn ystod adegau prysur yn benodol, ond yn ddiweddar mae buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud i greu llwybrau cerdded a seiclo pwrpasol i ganol y dref.

Maesteg a Chwm Llynfi

- 2.2.3 Yr ail dref fwyaf yn y Fwrdeistref Sirol yw Maesteg, sef y brif ganolfan fasnachol a siopa ar gyfer Cwm Llynfi. Lleolir y dref yn ardal gogledd-orllewinol y Fwrdeistref Sirol. Lleolir yr ardal ger yr A4063, sy'n cysylltu'r ardal â Phen-y-bont ar Ogwr i'r de, ac i gyfeiriad y dwyrain trwy Gyswllt Sarn i Gyffordd 36 yr M4. Hefyd, mae cyswllt rheilffordd ar gael rhwng Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae nifer o ganolfannau cyflogaeth a gweithgynhyrchu ac ystadau diwydiannol pwysig wedi'u lleoli yng Nghwm Llynfi. Mae'r ardal hon yn cynnwys nifer o safleoedd adfywio mawr a allai gael eu defnyddio ar gyfer datblygiadau cymysg, ond mae angen goresgyn sawl rhwystr yn y lle cyntaf (halogi a hyfywedd safleoedd yn bennaf).

Porthcawl

- 2.2.4 Lleolir Porthcawl yn ardal dde-orllewin y Fwrdeistref Sirol ac mae'n cynnwys tref lan môr Porthcawl a'i chefnwlad. Lleolir y dref rhwng is-ardal Pen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain a'r Pîl, Cynffig a Chorneli i'r gogledd-orllewin. O safbwynt hygyrchedd, lleolir y dref o fewn milltir i gyffordd 37 yr M4, ac mae modd cyrraedd y draffordd trwy deithio ar hyd yr A4229. Nid oes unrhyw gysylltiad rheilffordd i Borthcawl. Porthcawl yw'r trydydd anheddiad mwyaf yn y Fwrdeistref Sirol ar ôl Pen-y-bont ar Ogwr a Maesteg, ac mae'n cynnwys nifer o gymdogaethau unigryw sy'n canolbwyntio ar ganol y dref; Newton, Notais a Rest Bay. Lleolir y dref lan môr tua hanner ffordd rhwng Caerdydd ac Abertawe, ac yn ogystal â bod yn gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr, mae wedi dod yn prif leoliad ar gyfer pobl sydd wedi ymddeol, ac adlewyrchir hyn ym mhroffil poblogaeth yr ardal. Y tu allan i anheddiad Porthcawl, mae'r ardal wledig yn hynod sensitif, ac mae ardaloedd sylweddol wedi'u diogelu oherwydd ansawdd eu tirwedd.

Porth y Cymoedd

- 2.2.5 Mae gan is-ardal Porth y Cymoedd le canolog yn y Fwrdeistref Sirol, gan greu ardal drefol bron yn ddi-dor i'r gogledd o'r M4 hyd at y fynedfa i Gymoedd Ogwr, Garw a Llynfi. Mae'n cynnwys aneddiadau Abercynffig, Bryncethin, Brynmenyn, Coytrahen, Sarn, Ton-

du ac Ynysawdre. Gwasanaethir Porth y Cymoedd gan ddwy orsaf reilffordd a chyfleusterau parcio a theithio yn Sarn a Thon-du, y mae gwasanaethau trên rheolaidd yn gweithredu ohonynt rhwng Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr, ac mae ganddynt gysylltiadau â Chaerdydd, Abertawe a thu hwnt. Hefyd, mae'r is-ardal wedi'i gwasanaethu'n dda gan y rhwydwaith priffordd lleol a strategol, gyda chysylltiadau i gyffordd 36 o'r M4, Bryncethin, y prif ystadau diwydiannol lleol (yn Nhon-du, Brynmenyn ac Abergarw) yn ogystal â Chwm Garw i'r gogledd. O safbwynt manwerthu, prif ganolfan fasnachol yr ardal yw Abercynffig, sy'n ganolfan fasnachol ffyniannus, ynghyd â rhai canolfannau lleol eraill sydd â chyfleusterau masnachol a chymunedol. Mae Pentref Siopa Nwyddau wedi'u Dylunio Pen-y-bont ar Ogwr wrth law hefyd, sy'n darparu cynnig manwerthu ar gyfer dalgylch eang ar hyd a lled y De a thu hwnt. Mae Porth y Cymoedd wedi llwyddo i fod yn ganolbwynt datblygiadau preswyl newydd dros y blynyddoedd diwethaf, er bod problemau capasiti wedi datblygu o'r gogledd i'r de yng nghyffordd 36 o'r M4, a fyddai'n rhwystro datblygiadau preswyl arwyddocaol eraill yn yr ardal hon.

Y Pîl, Mynydd Cynffig a Chorneli

- 2.2.6 Lleolir aneddiadau gorllewinol y Pîl, Mynydd Cynffig a Chorneli ger Castell-nedd Porth Talbot, ac mae ganddynt fynediad i gyffordd 37 o draffordd yr M4. Mae'r A48 yn pasio trwy'r ardal gyffredinol hefyd, gan greu cysylltiadau â Phen-y-bont ar Ogwr a Margam. Mae yna orsaf drenau yn y Pîl sy'n darparu gwasanaethau i reilffordd Abertawe a Chaerdydd. Mae nifer o safleoedd cyflogaeth wedi'u lleoli yn yr ardal hon, gan fanteisio ar leoliad rhagorol yr ardal a'r rhwydwaith priffordd strategol.
- 2.2.7 Lleolir y rhan fwyaf o fwynau sy'n cael eu cloddio yn y Fwrdeistref Sirol yn yr is-ardal hon hefyd. Mae Chwareli Corneli, Llwyn a Gaens yn cynhyrchu calchfaen o ansawdd uchel, ac mae tywodfaen yn cael ei gloddio'n achlysurol yng Nghefn Cribwr. Yn ogystal, mae glo yn cael ei echdynnu ym Mharc Slip/Margam, i'r gogledd o Fynydd Cynffig a Chefn Cribwr, ar safleoedd glo brig eang sy'n ymestyn i Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gerllaw.
- 2.2.8 Mae'r is-ardal yn gartref i Warchodfa Natur Genedlaethol Cynffig, sy'n Ardal Cadwraeth Arbennig, yn Warchodfa Natur leol ac yn safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Hefyd, mae'n rhan o Dirwedd Hanesyddol rhagorol dynodedig.

Penceod a Heol-y-Cyw

- 2.2.9 Lleolir Penceod yn nwyrain y Fwrdeistref Sirol ac mae'n cynnwys anheddiad Penceod a phentref Heol-y-Cyw. Mae'n rhannu ffin ddwyreiniol ag ardal weinyddol Rhondda Cynon Taf. Gwasanaethir yr is-ardal hon gan Gyffordd 35 o draffordd yr M4, sy'n cysylltu Penceod yn uniongyrchol â Chaerdydd, Abertawe a Llundain. Mae'r A473 yn osgoi Penceod er mwyn cyrraedd yr M4, ac mae'n cysylltu Pen-y-bont ar Ogwr â Phontypridd. Mae modd cyrraedd Heol-y-Cyw o'r A473 trwy deithio ar hyd y B4280, sy'n pasio trwy'r pentref a'i gysylltu â Bryncethin i'r gorllewin. Gwasanaethir Penceod gan orsaf drenau ar brif Reilffordd y De, sy'n darparu gwasanaethau i Ben-y-bont ar Ogwr a Maesteg, i gyfeiriad y gorllewin a'r dwyrain i Gaerdydd, Casnewydd a Cheltenham. Fodd bynnag, mae'r groesfan yn rhwystr sylweddol, ac ar hyn o bryd mae'r Cyngor wedi gwahardd unrhyw ddatblygiadau newydd i'r gorllewin o'r groesfan.

- 2.2.10 Mae is-ardal Pencoed yn cynnwys ardaloedd cyflogaeth arwyddocaol, ac mae cyflogwyr lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o sectorau amrywiol wedi'u lleoli ym Mharc Bocam. Yn ogystal, mae Parc Technoleg Pencoed yn safle hynod ddeniadol sy'n gallu cynnig cartref i fusnesau a chynhyrchwyr uwch-dechnoleg, y sector ymchwil a datblygu a'u swyddfeydd cysylltiedig. Prif gyrchfan siopa'r is-ardal yw Canolfan Ddosbarth Pencoed. Mae cyfradd lleoedd gwag y ganolfan yn gymharol isel, ond mae darpariaeth busnesau gwasanaeth yn uwch na'r cyfartaledd.
- 2.2.11 Mae ardal wledig yr is-ardal yn hynod sensitif, ac mae rhannau sylweddol wedi'u diogelu oherwydd ansawdd eu tirwedd, eu bioamrywiaeth neu eu statws tir comin. Mae'r buddiannau hyn yn gorgyffwrdd mewn llawer o achosion ac maent yn rhwystrau sylweddol i ddatblygiadau'r dyfodol. Trwy gyd-ddigwyddiad, mae gan ardal sy'n sensitif yn amgylcheddol i'r gogledd o Bencoed gronfeydd glo sylweddol.

Cwm Garw a Chwm Ogwr

- 2.2.12 Lleolir Cwm Garw a Chwm Ogwr i'r dwyrain o Gwm Llynfi, ac maent yn cynnwys llawer o hen bentrefi glofaol, wedi'u cysylltu â Phorth y Cymoedd gan yr A4064 a'r A4061, yn y drefn honno. Nid oes gan y naill anheddiad na'r llall wasanaeth rheilffordd i deithwyr, ond mae Rheilffordd Cwm Garw yn cael ei chynnal a'i chadw, a gallai gael ei defnyddio at ddibenion twristiaeth. Mae gan y ddwy ardal ganolfannau masnachol sy'n darparu ystod o wasanaethau manwerthu, hamdden a masnachol ar gyfer eu poblogaethau lleol. Mae llawer o'r stoc dai yn aneddiadau'r cwm uchaf yn dai teras glofaol traddodiadol, ac mae rhai ohonynt mewn cyflwr gwael. Felly, mae dewis tai yn broblem arwyddocaol yn yr ardaloedd hyn, a byddai datblygiad dan arweiniad adfywio yn fanteisiol iawn. Fodd bynnag, fel sy'n wir am Gwm Llynfi, mae materion yn ymwneud â halogi, topograffi a hyfywedd wedi llesteirio gwaith datblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Gellir hwyluso twf cynaliadwy yn y dyfodol ar raddfa fach trwy fentrau sy'n galluogi pobl i adeiladu eu tai eu hunain, ac adeiladu tai pwrpasol. Mae mynyddoedd dramatig gydag ochrau serth yn nodwedd amlwg o'r dirwedd, ac maent yn cynnig golygfeydd trawiadol a chyfleoedd i gerdded yn y brynau a chymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored mwy eithafol.

2.3 Poblogaeth

- 2.3.1 Roedd gan y Fwrdeistref Sirol boblogaeth o 139,178 ar adeg Cyfrifiad 2011, ac amcangyfrifir ei bod wedi cynyddu i 147,049 yn seiliedig ar Amcangyfrif Poblogaeth Canol Blwyddyn 2019. Mae hyn yn dwf o dros 5% yn ystod y cyfnod hwn. Mae ychydig dros draean o'r boblogaeth gyfan yn byw yn anheddiad Pen-y-bont ar Ogwr, a'r aneddiadau mwyaf poblog eraill yw Porthcawl (11% o'r boblogaeth gyfan), Porth y Cymoedd (9%), Maesteg (7%) a Phencoed a Heol-y-cyw (7%). Mae strwythur oedran amcangyfrifedig cyffredinol y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys 18% rhwng 0 a 15 oed, 62% rhwng 16 a 64 oed ac 20% yn 65 oed a throsodd, sy'n cyd-fynd yn fras â strwythur cyfartalog Cymru gyfan.
- 2.3.2 Fodd bynnag, mae'r sefyllfa mewn aneddiadau penodol ledled y Fwrdeistref Sirol yn wahanol i'r cyfartaledd hwn. Er enghraifft, mae poblogaeth Betws yn gymharol ifanc, ac mae cyfran trigolion hŷn Porthcawl a Threlales / Merthyr Mawr yn gymharol uchel. Mae angen sicrhau cydbwysedd iach ym mhob anheddiad rhwng pobl iau, pobl o oedran gweithio a phobl sydd wedi ymddeol. Bydd hyn yn helpu i hyrwyddo cymunedau cynaliadwy, sicrhau bod digon o drigolion economaidd weithgar ar hyn o bryd ac yn y

dyfodol i gynnal cyflogwyr lleol, a helpu i gynnal seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae amrywiaeth o senarios twf yn ystod holl gyfnod y CDLI Newydd wedi eu dadansoddi a'u trafod ym Mhapur Cefndir y Dewisiadau Twf Strategol. Mae hyn wedi ystyried sut mae sefyllfa ddemograffig y Fwrdeistref Sirol yn debygol o newid o 2018-2033 ac wedi llywio'r ymateb mwyaf priodol ar gyfer y CDLI Newydd.

2.4 Yr Economi

- 2.4.1 Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth wraidd economi De Cymru ac mae'n ganolfan gyflogaeth ranbarthol sylweddol. Nododd yr Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth fod 75% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn weithgar yn economaidd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2019, ac roedd 72% ohonynt mewn cyflogaeth. Mae hyn yn cyd-fynd yn fras â chyfartaledd Cymru. Yn gymharol, nododd Arolwg Cofrestr Busnes a Chyflogaeth 2018 fod 58,000 o gyflogeion mewn gwaith (amser llawn neu ran-amser) ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gyda'r meysydd nodedig canlynol: iechyd (15.5%), gweithgynhyrchu (15.5%), a manwerthu (10%). Mae canran cyflogeion Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gweithio yn y sector gweithgynhyrchu dros 4% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru gyfan ac mae gan y Fwrdeistref Sirol gryfderau penodol mewn gweithgynhyrchu uwch. Er i Ford gau ei ffatri peiriannau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Medi 2020, mae hyn yn rhoi cyfle i'r Cynllun ddarparu fframwaith ar gyfer ailddatblygu tymor hwy er budd y Fwrdeistref Sirol a rhanbarthau ehangach.
- 2.4.2 Yn ôl y patrymau teithio i'r gwaith a nodwyd yng Nghyfrifiad 2011, mae'r lefel gymudo i mewn i'r Fwrdeistref Sirol ac allan ohoni yn gymharol gytbwys. Mae'r ardal yn denu cymudwyr o Rhondda Cynon Taf (23% o'r holl gymudwyr), Castell-nedd Port Talbot (21%) a Bro Morgannwg (14%). Mae trigolion y Fwrdeistref Sirol sy'n gadael yr ardal i weithio yn cymudo i Gaerdydd (27% o'r holl gymudwyr), Castell-nedd Port Talbot (18%) a Rhondda Cynon Taf (15%). Hefyd, mae'n bwysig pwysleisio bod 68% o'r trigolion yn byw ac yn gweithio ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
- 2.4.3 Mae nifer y mentrau (wedi'u diffinio fel busnesau cyffredinol, yn cynnwys eu safleoedd neu eu gweithleoedd unigol) yn y Fwrdeistref Sirol wedi cynyddu o 3,175 yn 2014 i 3,685 yn 2018 yn ôl Cyfrifiad Busnesau'r DU. Mae hyn yn gynnydd o 16%, sydd ychydig yn uwch na chynnydd cyfartalog Cymru (14%) yn ystod yr un cyfnod. Mae llawer o'r twf lleol yn perthyn i'r band trosiant £100-199,000, er bod nifer y busnesau sydd â throsiant o dros £5,000,000 wedi cynyddu yn nhermau absoliwt (o 55 i 80) a thermâu cymharol (45%) ers 2014-2018. Yn nhermau diwydiant, mae'r newid yn nifer y mentrau ledled y Fwrdeistref Sirol yn deillio'n bennaf o weithgynhyrchu (25% o'r twf cyffredinol) a busnesau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (20% o'r twf cyffredinol). O ran diwydiant, gweithgynhyrchu (45% o'r twf cyffredinol) a phroffesiynau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (31% o'r twf cyffredinol) sy'n bennaf gyfrifol am y newid yn nifer y mentrau ledled y Fwrdeistref Sirol.
- 2.4.4 Yn 2018/19, nodwyd 689 hectar o dir cyflogaeth ar gyfer Defnyddiau Dosbarth B1, B2 a B8 yn y Fwrdeistref Sirol, y bernir bod 36 hectar o'r tir hwn ar gael i'w datblygu ar unwaith a bernir bod 15 hectar arall yn debygol o fod ar gael o fewn y 12 mis nesaf. Er bod 3.73 hectar o dir cyflogaeth wedi ei ddatblygu yn 2018/19, oddeutu 2 hectar y flwyddyn oedd y gyfradd ddiweddar o dir diwydiannol a gymerwyd ac mae angen cydbwysu hyn â rhagolygon economaidd y galw posibl am lafur ac amcanestyniadau demograffig o'r cyflenwad llafur posibl er mwyn llywio gofynion tir cyflogaeth yn y dyfodol.

- 2.4.5 Yn nhermau gofodol, mae'r sylfaen gyflogaeth bresennol yn canolbwyntio ar ddeddfwriaeth y Fwrdeistref Sirol (tua 70% o'r holl ardal a nodwyd), ac nid yw hyn yn syndod o ystyried agosrwydd coridor yr M4. Mae hyn yn cynrychioli diffyg cyfatebiaeth rhwng lleoliad daearyddol tir cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol a'r ardaloedd o amddifadedd, sy'n tueddu i fod yn y gogledd. Heb os, mae'n bwysig bod twf y dyfodol yn canolbwyntio ar y lleoliadau mwyaf effeithlon a chynaliadwy, gyda seilwaith trafnidiaeth ategol, er mwyn hyrwyddo safleoedd cyflogaeth hygyrch sy'n manteisio ar gyfleoedd teithio llesol. Fodd bynnag, bydd y CDLI Newydd hefyd yn cynorthwyo adfywiad economaidd-gymdeithasol cymunedau difreintiedig ledled yr ardal weinyddol.

2.5. Cyd-destun Deddfwriaethol

- 2.5.1 Paratowyd y CDLI Newydd yng nghyd-destun sawl darn allweddol o ddeddfwriaeth y ceir crynodeb ohonynt isod er gwybodaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 2.5.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn o ddeddfwriaeth allweddol sy'n ceisio gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ar hyn o bryd ac yn fwy hirdymor. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno 'egwyddor datblygu cynaliadwy' sy'n rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i "weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau". Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar saith nod llesiant y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithio i'w cyflawni (Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang). Felly, mae gan y Ddeddf ddylanwad mawr ar holl agweddau'r CDLI Newydd, a fydd yn cysylltu â phob nod llesiant ac yn darparu cyd-destun polisi sy'n sicrhau bod modd cyflawni'r nodau.

- 2.5.3 Rhoddir sylw dyledus i'r nodau hyn ac i'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn ehangach yn ystod pob cam o baratoi'r Cynllun trwy'r 'Bum Ffordd o Weithio' a nodir yn y Ddeddf. Mae'r nodau hyn yn ei gwneud yn ofynnol ystyried cynnwys, cydweithio, integreiddio, atal a ffactorau cydbwyso hirdymor yn y broses o wneud penderfyniadau, ac mae pob un o'r rhain wedi bod yn rhan allweddol o ddatblygiad y CDLI, a byddant yn parhau i fod yn y dyfodol. Bydd pob polisi strategol yn cyfeirio at y nod/nodau sy'n berthnasol i'w ddiben a'i weithredu, gyda phwyslais ar sicrhau manteision cymdeithasol, economaidd a diwylliannol er mwyn sicrhau bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd datblygu cynaliadwy. Bydd y weledigaeth a'r amcanion yn cael eu gwella'n gyson yn ystod y broses adolygu ar sail ymgysylltiad â rhanddeiliaid a chanlyniadau sylfaen dystiolaeth ddiwygiedig. Mae 'asesiad o gydweddoldeb' amcanion y CDLI Newydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a nodau ac amcanion y Cynllun Llesiant Lleol wedi'i gynnwys yn y 'Papur Cefndir Gweledigaeth ac Amcanion'.

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

- 2.5.4 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn cyflwyno cyfres o newidiadau deddfwriaethol er mwyn diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, gan sicrhau ei bod yn deg, yn gadarn a'i bod yn hwyluso datblygiad. Mae'r Ddeddf yn mynd i'r afael â 5 amcan allweddol gan gynnwys cryfhau'r dull o gynllunio trwy gyflwyno sylfaen gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) a Chynllun Datblygu Strategol (SDP), sy'n cael

eu trafod yn fanylach isod.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru), 2016

- 2.5.5 Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chysylltiedig. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) adrodd ar adnoddau naturiol Cymru a'u gallu i ymateb i bwysau ac addasu i'r newid yn yr hinsawdd. Felly, cyhoeddodd CNC Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) yn 2016.
- 2.5.6 Yn yr un modd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol (NNRP) yn 2017. Mae'r polisi hwn yn canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd gynaliadwy er mwyn sicrhau eu bod yn cyfrannu at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r NNRP yn cyflwyno tair Blaenoriaeth Genedlaethol i ddarparu atebion seiliedig ar natur; cynyddu ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n effeithlon; a gweithredu ar sail lleoedd. Bydd yn darparu cyddestun i CNC lunio "Datganiadau Ardal" er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn llywio darpariaeth leol. Mae saith Datganiad Ardal CNC yn cynrychioli ymateb cydweithredol i'r NRP, sy'n nodi'r heriau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy yn y dyfodol ac yn llywio darpariaeth leol. Bydd yr SoNaRR, yr NNRP a'r Datganiad Ardal (ar ôl cael ei lunio) yn cael eu hystyried wrth adolygu'r CDLI.

Deddf Teithio Llesol (Cymru), 2013

- 2.5.7 Nod Deddf Teithio Llesol (Cymru) yw hyrwyddo cerdded a seiclo fel dull teithio deniadol ar gyfer teithiau pwrpasol (h.y. mynediad i waith, ysgol neu siopau a gwasanaethau). Mae'n ceisio sefydlu gweddnewidiad parhaus wrth gynllunio datblygiadau i gynnwys seilwaith cerdded a seiclo o'r cychwyn, yn ogystal â hyrwyddo newid ymddygiad hirdymor.
- 2.5.8 Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaethau ar gyfer mapio llwybrau teithio llesol a chyfleusterau cysylltiedig sy'n cysylltu â mapiau rhwydwaith integredig. Hefyd, mae'n ei gwneud yn ofynnol gwella llwybrau a chyfleusterau o'r fath bob blwyddyn er mwyn cynyddu cyfleoedd i gerddwyr a seiclwyr gwblhau mwy o deithiau ystyrlon heb ddibynnu ar y car. Mae egwyddorion Teithio Llesol yn cyd-fynd â PPW, sy'n pwysleisio'r angen i'r system gynllunio greu mathau o amgylchedd a seilwaith sy'n galluogi pobl i gerdded a seiclo.
- 2.5.9 Mae'r system gynllunio yn gwneud cyfraniad allweddol at hwyluso teithio llesol trwy ystyried rhyngberthynas aneddiadau, sianelu twf tuag at ardaloedd cynaliadwy a chyflwyno datblygiadau newydd sy'n hyrwyddo teithio llesol trwy gynllun cynaliadwy. Yn yr un modd, bydd anghenion cerddwyr a seiclwyr yn cael eu hystyried ym mhob cynllun ffordd newydd ac mewn swyddogaethau eraill awdurdodau priffordd. Bydd cynyddu cyfraddau teithio llesol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn helpu i gyflawni pob un o saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.6 Cyd-destun Polisi

- 2.6.1 Mae'r Strategaeth a Ffeirir wedi'i pharatoi yng nghyd-destun ystod eang o gynlluniau, rhaglenni a strategaethau ar raddfeydd gofodol amrywiol. Mae rhai o'r dogfennau allweddol wedi'u crynhoi isod er gwybodaeth.

Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11

- 2.6.2 Mae Rhifyn 11 o Polisi Cynllunio Cymru (PPW 11) yn cyflwyno polisiau cynllunio defnydd tir a nodau datblygu cynaliadwy cyffredinol ar gyfer Cymru, wedi'u diwygio i gyfrannu at nodau llesiant statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae PPW yn sicrhau rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac yn ystyried dull cynllunio sy'n sicrhau datblygu cynaliadwy yn y ffordd fwyaf effeithiol trwy'r system gynllunio. Mae PPW yn canolbwyntio'n gryf ar hyrwyddo'r broses o greu lleoedd, sy'n cael ei hystyried yn allweddol i greu lleoedd cynaliadwy, sicrhau datblygiad sy'n gynhwysol yn gymdeithasol a hyrwyddo cymunedau mwy cydlynus. Nodir bod creu lle yn ddull gweithredu holistaidd sy'n "ystyried y cyd-destun, y swyddogaeth a'r berthynas rhwng safle'r datblygiad a'i gyffiniau" (PPW, 2021, t.14).

- 2.6.3 Er mwyn llywio'r strategaeth ofodol, mae PPW yn nodi bod yn rhaid i gynlluniau datblygu "gynnwys strategaeth ofodol fydd yn para oes y cynllun gan lunio patrwm datblygu sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol." (PPW, 2021, para 3.42). Mae'r cysylltiad rhwng nifer y cartrefi a fydd yn cael eu darparu a'r cyfleoedd swyddi disgwylidig yn cael ei bwysleisio'n glir, felly hefyd lleoliad unrhyw ddatblygiad newydd mewn perthynas â seilwaith presennol neu seilwaith sy'n cael ei gynllunio. Credir bod hyn yn bwysig er mwyn lleihau'r angen i deithio, lleihau dibyniaeth ar geir preifat a chynyddu cyfleoedd ar gyfer seiclo, cerdded a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Nodir mai cynlluniau datblygu "yw'r prif gyfrwng i integreiddio cynlluniau defnydd tir a thrafnidiaeth" (PPW, 2021, para. 4.1.5).

- 2.6.4 Mae PPW yn nodi proses chwilio wedi'i diffinio'n dda i nodi tir datblygu. Dylid adolygu tir a ddatblygwyd o'r blaen a/neu safleoedd segur mewn aneddiadau sydd eisoes yn bodoli cyn ystyried safleoedd maes glas addas, cynaliadwy oddi mewn i aneddiadau neu ar eu cyrion. Yn y naill achos neu'r llall, "dylid hyrwyddo cydbwysedd cyffredinol rhwng tai, cyfleusterau cymunedol, gwasanaethau a chyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd er mwyn lleihau'r angen i gymudo o hirbell" (PPW, 2021, para. 3.50). Rhoddir pwyslais sylweddol ar ddatblygu lleoedd egniïol a chymdeithasol ar ffurf cymunedau cydlynus sydd wedi'u cysylltu'n dda.

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- 2.6.5 Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ystyried y materion sy'n arwyddocaol i ffyniant a lles Cymru, megis yr economi, tai, trafnidiaeth, ynni a'r amgylchedd. Mae'n nodi ble y dylid gweithredu datblygiadau cenedlaethol, ble mae'r meysydd twf allweddol a pha seilwaith a gwasanaethau sydd eu hangen. Mae'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol wedi ei osod yng nghyd-destun gweledigaeth a fydd yn helpu i ddarparu lleoedd cynaliadwy ledled Cymru erbyn 2040, drwy gefnogi'r gwaith o wneud lleoedd a sicrhau bod ein dewisiadau'n cyfeirio datblygiadau i'r mannau cywir, gan wneud y defnydd gorau o adnoddau, creu a chynnal cymunedau iach hygyrch, diogelu ein hamgylchedd a chefnogi ffyniant i bawb.

Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer De-ddwyrain Cymru

- 2.6.6 Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 yn nodi'r broses ar gyfer sefydlu a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol. Gwahoddodd Llywodraeth Cymru bob Awdurdod Cynllunio Lleol i gyflwyno cynigion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol, gan ddatgan y byddai'r gallu i gynllunio yn strategol i gefnogi Prifddinas-ranbarth Caerdydd yn hanfodol i sicrhau bod canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol yn cael eu cyflawni mewn ffordd gydlynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ar draws y rhanbarth ehangach.
- 2.6.7 Ar 29 Ionawr 2018, cytunodd Cabinet Prifddinas-ranbarth Caerdydd y dylai gwaith gychwyn ar Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer yr ardal a dywedodd wrth Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru ar y pryd, Lesley Griffiths, bod consensws ymhlith pob un o'r 10 arweinydd ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd i gefnogi'r egwyddor o Gynllun Datblygu Strategol ar gyfer y rhanbarth, gan gydnabod bod angen i hyn gael ei gymeradwyo gan bob un o'r 10 Cyngor i fwrw ymlaen. Bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn ymgymryd â datblygu strategol a chynllunio trafnidiaeth ranbarthol yn y dyfodol, gan gynnwys paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol. Er bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn bwrw ymlaen â Chynllun Datblygu Lleol Newydd, bydd gwaith ar y cyd cydamserol yn cael ei wneud gydag awdurdodau cyfagos a'r rhanbarth ehangach i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Bydd sail dystiolaeth ar y cyd hefyd yn cael ei rhannu pryd bynnag y bo'n bosibl at y diben hwn.

Cynllun Prifddinas-ranbarth a Metro Caerdydd

- 2.6.8 Sefydlwyd Cabinet Prifddinas-ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys deg arweinydd Blaenau Gwent; Pen-y-bont ar Ogwr; Caerffili; Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf; Torfaen; a Bro Morgannwg yn 2017 i oruchwylio'r ddarpariaeth o Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Mae'r Fargen Ddinesig yn rhoi'r pwerau a'r adnoddau i bartneriaid lleol ysgogi twf economaidd sylweddol ar draws Prifddinas-ranbarth Caerdydd. Mae'r Fargen Ddinesig hefyd yn cynnig cyfle i barhau i fynd i'r afael â rhwystrau'r ardal i dwf economaidd trwy: wella cysylltedd trafnidiaeth; cynyddu lefelau sgiliau; cynorthwyo pobl i mewn i waith; a rhoi'r cymorth i fusnesau sydd ei angen arnynt i arloesi a thyfu. Bydd y fargen hefyd yn datblygu arweinyddiaeth gryfach a mwy effeithiol ar draws Prifddinas-ranbarth Caerdydd.
- 2.6.9 Un o nodau allweddol Prifddinas-ranbarth Caerdydd yw darparu Metro De Cymru, sy'n brosiect uchelgeisiol yn cysylltu pobl a swyddi ar draws y de-ddwyrain, mewn ffordd gyflym, effeithlon ac amgylcheddol gadarnhaol. Bydd yn cynnig llwyfan ardderchog i ddarparu datblygiad economaidd cynaliadwy, yn unol â menter 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol' trwy gysylltu pobl, cymunedau a busnesau â chyflogaeth, gwasanaethau, cyfleusterau a marchnadoedd trwy seilwaith dibynadwy a chydnerth. Bydd Metro De Cymru yn cynnig manteision gwirioneddol i deithwyr, gan gysylltu cymunedau â'i gilydd a helpu i weddnewid yr economi.

Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel, 2019

- 2.6.10 Mae'r Cynllun hwn yn gosod y sylfeini fel bod Cymru'n gallu newid i fod yn genedl carbon isel, gan gyflwyno dull Llywodraeth Cymru o gynyddu effeithlonrwydd a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% erbyn 2050. Mae hyn yn hanfodol er mwyn bodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gan gyfrannu at gymdeithas sy'n decach ac yn iachach. Mae'r bum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

(Cymru) 2015 yn sylfaen i gamau gweithredu datgarboneiddio Cymru, gan sicrhau cydweithrediad a chyfranogiad effeithiol gyda rhanddeiliaid er mwyn integreiddio datgarboneiddio, lleihau effeithiau eraill sy'n deillio o'r newid yn yr hinsawdd, a cheisio cyflawni pob un o'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- 2.6.11 Bydd y system gynllunio yn gwneud cyfraniad pwysig at hyrwyddo datgarboneiddio. Mae pwyslais Polisi Cynllunio Cymru ar greu lleoedd yn hyrwyddo datblygiadau wedi'u dylunio'n dda sy'n sicrhau bod yr holl wasanaethau gofynnol ar gael yn hwylus i gymunedau. Hefyd, mae amrywiaeth eang o flaenoriaethau eraill sy'n gysylltiedig â chynllunio yn hyrwyddo allyriadau carbon isel ac yn creu lleoedd lle mae pobl yn gallu byw'n dda. Mae'r rhain yn cynnwys hyrwyddo datblygiadau ynni adnewyddadwy, cyfyngu ar y defnydd o danwydd ffosil ac ymgorffori egwyddorion teithio llesol (cerdded a seiclo) mewn datblygiadau newydd. Gall seilwaith carbon isel helpu i gynyddu effeithlonrwydd trwy'r dull o gynhyrchu a thrawsyrru ynni, dylunio a chodi adeiladau, a chludo pobl a nwyddau. Mae'n rhaid i gynlluniau datblygu o bob math gefnogi'r nodau datgarboneiddio strategol hyn er mwyn hwyluso twf glân a datblygu'r gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033

- 2.6.12 Mae gan y Cynllun weledigaeth glir a syml i weithredu fel 'Un Cyngor yn Gweithio Gyda'n Gilydd i Wella Bywydau'. Mae'r weledigaeth hon yn seiliedig ar dair blaenoriaeth glir, sydd â'r bwriad i wella ansawdd bywyd pobl yn y Fwrdeistref Sirol a newid natur y Cyngor yn sylweddol:

1. Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus
2. Helpu pobl a chymuned i fod yn iachach ac yn fwy cydnherth
3. Defnyddio adnoddau'n ddoethach

- 2.6.13 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn gwneud cyfraniad sylweddol at bob un o'r tair blaenoriaeth, gan ganolbwyntio ar helpu i hyrwyddo economi lwyddiannus, gynaliadwy a chynhwysol a gefnogir gan weithlu medrus ac uchelgeisiol.

Cynllun Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr 2018 - 2023

- 2.6.14 Mae'r Cynllun Llesiant yn amlinellu sut y bydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr yn cydweithio dros y bum mlynedd nesaf i gyflawni saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Cynllun yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy ac mae'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau a helpu i sicrhau nad ydynt yn gwaethygu nac yn digwydd yn y dyfodol. Felly, mae pedwar amcan llesiant wedi'u datblygu, sef:

1. Y Cychwyn Gorau mewn Bywyd
2. Cynorthwyo Cymunedau ym Mhen-y-bont ar Ogwr i fod yn Ddiogel ac yn Gydlynol
3. Lleihau Anghydraddoldebau Cymdeithasol ac Economaidd
4. Dewisiadau Iach mewn Amgylchedd Iach

- 2.6.15 Mae system gynllunio sy'n gweithredu'n dda yn hollbwysig ar gyfer datblygu cynaliadwy ac er mwyn sicrhau lleoedd cynaliadwy. Bydd y CDLI diwygiedig yn fodd hanfodol o

sicrhau llesiant trigolion a chymunedau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan sicrhau bod y pedwar amcan uchod yn gytbwys ac yn cael eu hintegreiddio yng nghraidd y Cynllun, ac yn llywio pob cam o'r gwaith o baratoi'r cynllun.

Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2015-2030

2.6.16 Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cwmpasu ardal ddaearyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn cyflwyno blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer buddsoddi mewn trafndiaeth dros y 15 mlynedd nesaf. Prif fwriad y Cynllun yw mynd i'r afael â materion yn ymwneud â thrafnidiaeth leol, galluogi twf economaidd a newid ymddygiad teithio, a chydabod arwyddocâd Pen-y-bont ar Ogwr fel dolen gyswllt rhwng dwy Ddinas Ranbarth y De. Er mwyn lleihau effaith amgylcheddol trafndiaeth, mae'r Cynllun yn cynnwys mesurau ac ymyriadau a fydd yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, yn hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus ac yn hyrwyddo integreiddio moddol. Dyma'r blaenoriaethau allweddol penodol:

1. Cefnogi twf economaidd a diogelu swyddi â phwyslais penodol ar Ddinasranbarthau, Ardaloedd Menter ac ardaloedd twf lleol.
2. Lleihau anweithgarwch economaidd trwy gynnig mynediad diogel a fforddiadwy at safleoedd cyflogaeth.
3. Sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl y gall gwasanaethau trafndiaeth effeithiol a fforddiadwy ei wneud at leihau tlodi trafndiaeth a thargedu buddsoddiad i gefnogi gwelliannau i hygyrchedd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig.
4. Annog teithio mwy diogel, iachach a chynaliadwy.

2.6.17 Bu'r berthynas rhwng trafndiaeth a chynllunio gofodol cynaliadwy yn hollbwysig erioed, a bydd y CDLI diwygiedig yn parhau i gysylltu trafndiaeth â'r ystod lawn o themâu cynllunio strategol. Mae'r rhain yn cynnwys yr economi, cyflogaeth, yr amgylchedd, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a gweithgarwch corfforol. Wrth fynd i'r afael â'r cysylltiadau hyn, gellir defnyddio trafndiaeth fel adnodd i hyrwyddo cydraddoldeb, gwella lles a chreu cymdeithas gynhwysol, deg.

Teithio Llesol a Mapiau Rhwydwaith Integredig

2.6.18 Bydd y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ceisio hybu cysylltedd i bawb trwy sicrhau cymaint â phosibl o gyfleoedd ar gyfer llwybrau teithio llesol, gan gynnwys y rhai sydd wedi eu cynnwys mewn Mapiau Llwybr Presennol a chynigion ar gyfer y dyfodol a nodir yn y Mapiau Rhwydwaith Integredig. Bydd datblygiadau sydd wedi eu cysylltu'n dda yn cynorthwyo i hybu gwelliant iechyd a llesiant trwy annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach a mwy egniol o fyw, gan gyfrannu hefyd at greu lle llwyddiannus.

Bro Morgannwg

2.6.19 Mabwysiadodd Cyngor Bro Morgannwg Gynllun Datblygu Lleol ar 28 Mehefin 2017 ar gyfer y cyfnod 2011-2026. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen ac ar leihau'r angen am ddatblygu ar safleoedd maes glas. Mae hyn yn amlwg iawn yn y Barri, lle mae pwyslais sylweddol ar barhau i adfywio Glannau'r Barri. Mae ardaloedd eraill â thwf sylweddol wedi'u lleoli yn Ne-ddwyrain Bro Morgannwg, ynghyd â'r Rhws, Sain Tathan a'r Bont-faen. Mae datblygiadau cynaliadwy wedi'u cynllunio ar gyfer cymunedau eraill hefyd, gan sicrhau eu cynaliadwyedd a'u

hyfywedd hirdymor. Mae'r Cynllun yn ceisio manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd, ac mae'n dangos cyfraniad allweddol Bro Morgannwg at lwyddiant ardal ehangach y Ddinas-Ranbarth.

- 2.6.20 Gyda'r Strategaeth hon, mae'n amlwg y bydd Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn brif ganolfan manwerthu, cyflogaeth a gwasanaethau ar gyfer cymunedau gorllewinol Bro Morgannwg.

Rhondda Cynon Taf

- 2.6.21 Mabwysiadwyd CDLI Rhondda Cynon Taf (RhCT) 2006-2021 ar 2 Mawrth 2011. Mae Strategaeth Graidd y CDLI yn hyrwyddo dull datblygu hybrid yng ngogledd a de'r Fwrdeistref Sirol. Yn y gogledd, mae'r pwyslais ar greu cymunedau cynaliadwy ac atal y broses o ddiboblogi a dirywiad a achosir gan amddifadedd lluosog. Yn y de, mae'r pwyslais ar dwf cynaliadwy, wedi'i reoli a fydd yn atgyfnerthu patrymau anheddu presennol ac yn fanteisiol i ardal RhCT yn ei chyfanrwydd. Nodir strategaeth glir ar gyfer aneddiadau, ac mae cyfleoedd datblygu newydd yn canolbwyntio ar y prif drefi a'r aneddiadau allweddol. Mae twf wedi'i gynllunio sylweddol wedi'i sicrhau yn ardal ddeheuol y Fwrdeistref Sirol, ar hyd coridor yr M4, ger yr A473 ac i'r gorllewin o'r Taf yn Nhonyrefail.
- 2.6.22 Mae RhCT wedi dechrau adolygu'r CDLI ac mae coridor Pencoed-Llanharan yn allweddol i'r berthynas rhwng Bwrdeistrefi Sirol RhCT a Phen-y-bont ar Ogwr. Yn benodol, mae Parc Technoleg Pencoed ar y ffin, ac fel y nodwyd yn gynharach, mae llawer o bobl yn cymudo o RhCT i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn gweithio. Byddai angen rhoi ystyriaeth ddyledus i'r ffactorau hyn wrth ddechrau adolygu'r cynllun, gan y byddai unrhyw dwf sydd wedi'i gynllunio ger y ffin yn cael effaith ranbarthol ar ddarpariaeth gyflogaeth a phatrymau cymudo.

Castell-nedd Port Talbot

- 2.6.23 Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Castell-nedd Port Talbot (NPT) ar 27 Ionawr 2016 ar gyfer y cyfnod 2011-2026. Yn gyffredinol, amcan y strategaeth yw creu cyfleoedd datblygu economaidd cynaliadwy ar hyd coridor yr arfordir er mwyn meithrin twf economaidd. Coed Darcy, Campws Gwyddoniaeth ac Arloesi Prifysgol Abertawe, Bae Baglan a'r Harbwr yw'r prif ganolfannau ar gyfer twf. Mae yna amcanion sy'n atgyfnerthu ei gilydd i adfywio ardaloedd y cymoedd a gwella rhagolygon economaidd, gan gydnabod rôl Glyn-nedd a Phontardawe wrth sicrhau twf cynaliadwy.
- 2.6.24 I Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae hyn yn golygu y bydd Maesteg yn parhau i fod yn brif ganolfan gwasanaethau ar gyfer Cwm Afan Uchaf, yn enwedig ym meysydd manwerthu a chyflogaeth. Hefyd, mae yna gysylltiad strategol allweddol rhwng Parc Coedwig Afan yng Nghastell-nedd Port Talbot ac adfywio llwyddiannus Maesteg a Chwm Llynfi Uchaf, o safbwynt seiclo a phrosiectau twristiaeth eraill.
- 2.6.25 Hefyd, mae yna gysylltiadau cyflogaeth ag Ystâd Ddiwydiannol Cynffig a Tata Steel, sy'n cynnal canolfannau cyflogaeth ar gyfer trigolion Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fel y dangoswyd yn y patrymau teithio i'r gwaith a drafodwyd ynghynt. Byddai mynediad gwell i'r M4 yng Ngogledd Corneli / y Pîl yn helpu i wella'r cysylltiadau hyn a lleihau tagfeydd traffig.

3. Materion ac Ysgogwyr Allweddol, Gweledigaeth ac Amcanion

3.1 Materion ac Ysgogwyr Allweddol

3.1.1 Mae'r materion a'r ysgogwyr allweddol a nodwyd drwy'r broses o baratoi'r CDLI Newydd wedi llywio'n uniongyrchol y gwaith o ddatblygu Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI, a'r CDLI Adneuo. At ddibenion cyfeirio, mae'r materion allweddol a nodwyd yn yr Adran Cyd-destun Strategol wedi eu crynhoi isod:

- Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr, Porthcawl, y Pîl a Phencoed y gallu i sicrhau twf cynaliadwy ar sail eu hygyrchedd, a'r amwynderau a'r ddarpariaeth cyflogaeth sydd ar gael yng nghyd-destun eu poblogaeth bresennol. Fodd bynnag, mae moratoriwm ar waith ar hyn o bryd ar unrhyw ddatblygiad newydd i'r gorllewin o'r groesfan reilffordd ym Mhen-coed (gweler Papur Cefndir Moratoriwm Gorllewin Pen-coed).
- Mae gan Gwm Llynfi'r potensial mwyaf ar gyfer twf ledled y tri Chwm, trwy sawl safle adfywio defnydd cymysg, yn amodol ar oresgyn y cyfyngiadau penodol sydd ar y safleoedd hyn ar hyn o bryd. Mae problemau tebyg o safbwynt halogiad, topograffi a hyfywedd wedi llesteirio datblygiadau yng Nghwm Ogwr a Chwm Garw yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond gellid hwyluso twf cynaliadwy trwy fentrau megis galluogi pobl i adeiladu eu tai eu hunain, ac adeiladu tai pwrpasol.
- Mae Porth y Cymoedd wedi llwyddo i fod yn ganolbwynt pwysig ar gyfer datblygiadau preswyl newydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er y cyfyngid ar ddatblygiadau ychwanegol sylweddol yn y cyffiniau hyn oherwydd y problemau capasiti sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de yng Nghyffordd 36 yr M4 (gweler Papur Cefndir Cyffordd 36 yr M4).
- Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gyflogwr arwyddocaol, gyda chryfderau ym maes gweithgynhyrchu uwch. Er i Ford gau ei ffatri peiriannau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Medi 2020, mae angen cynnal sylfaen weithgynhyrchu gref yr ardal mewn lleoliadau cynaliadwy, gan gefnogi'r broses o adnewyddu cymunedau difreintiedig yn economaidd-gymdeithasol.
- Byddai dyfodiad rhagor o aelwydydd iau, economaidd weithgar yn fanteisiol i'r Fwrdeistref Sirol er mwyn gwrthbwysu'r boblogaeth leol sy'n heneiddio. Hefyd, byddai hyn yn hwb i'r gweithlu medrus sy'n byw yn lleol, gan annog cyflogwyr i adleoli neu ehangu ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Yn rhanbarthol, mae gan y Fwrdeistref Sirol gysylltiadau cyflogaeth sylweddol ag awdurdodau cyfagos. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gwasanaethu cymunedau gorllewinol Bro Morgannwg, ac mae Pen-coed yn meddiannu'r ffin rhwng Pen-

y-bont ar Ogwr a RhCT, gydag Ystad Ddiwydiannol Cynffig yn tynnu o ddalgylch Castell-nedd Port Talbot.

- 3.1.2 Mae'r materion a'r ysgogwyr allweddol a nodir yn yr adran hon wedi eu nodi o'r Cyd-destun Strategol hwn ac maent yn dilyn adolygiad o wybodaeth gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sylfaenol; canlyniadau'r ymgynghoriad; a'r Arfarniad Cynaliadwyedd (Asesiad Amgylcheddol Strategol). Mae'r dadansoddiad hwn yn darparu darlun clir o'r materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y mae angen mynd i'r afael â nhw trwy'r broses CDLI. Manylir ar y materion a'r ysgogwyr allweddol a nodwyd isod.

Y Materion a'r Ysgogwyr Cenedlaethol a Rhanbarthol Allweddol

- 3.1.3 Ar ôl ystyried y cyd-destun polisi cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol, nodir y materion a'r ysgogwyr canlynol (a ragflaenir gan NR). Mae ganddynt oblygiadau defnydd tir strategol ar gyfer CDLI Pen-y-bont ar Ogwr:

Tabl 2: Y Materion Cenedlaethol a Rhanbarthol Allweddol

	Materion Cenedlaethol a Rhanbarthol Allweddol	Tystiolaeth sydd wedi llywio'r materion a'r ysgogwyr allweddol
NR1	Cydnabyddiaeth bod Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Pencoed, Porthcawl a'r Pîl/Gogledd Corneli/Mynydd Cynffig yn gweithredu fel canolfannau ar gyfer gwasanaethau, cyflogaeth, tai a datblygiadau manwerthu. Bydd eu lleoliadau canolog yn hanfodol i ledaenu ffyniant i'w cymunedau cyfagos, gan gyfrannu at lwyddiannau cyd-ddibynnol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe.	• Asesiad o Aneddiadau (2019) • Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021) • Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021)
NR2	Dylai Pen-y-bont ar Ogwr yn benodol, gan adeiladu ar ei statws presennol o fod yn brif ganolfan wasanaeth Cymoedd Llynfi, Ogwr a Garw, barhau i berfformio fel swyddogaeth isranbarthol mwy fel canolfan gyflogaeth a gwasanaeth er mwyn lleihau'r angen cyffredinol i deithio.	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021) • Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflenwi (2018)
NR3	Dylai Porthcawl, sydd mewn sefyllfa allweddol ar lannau Bae Abertawe, gynnal a datblygu ei swyddogaeth o fod yn gyrchfan twristiaeth a hamdden bywiog ac unigryw. Mae angen ailddatblygu Ardal Adfywio'r Glannau yn benodol er mwyn gwella atyniad	• Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Pen-y-bont (2018-2022) • Asesiad o Nodweddion Morwedd Lleol Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe

	y dref fel lle i fyw a gweithio ynddi, gan fod o fudd i fywiogrwydd Canol y Dref ei hun.	• Uwchgynllun Adfywio Glannau Porthcawl • Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflenwi (2018) • LANDMAP – Llinell Sylfaen Tirwedd Cymru
NR4	Er bod y cymoedd yn wynebu heriau economaidd a chymdeithasol, dylent geisio bod yn lleoedd deniadol a fforddiadwy sy'n cynnwys cymysgedd o dai, a chysylltiadau trafnidiaeth gynaliadwy â'r aneddiadau mwy o ran maint er mwyn cael gafael ar swyddi a gwasanaethau.	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021) • Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021) • Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflenwi (2018)
NR5	Yr angen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyfrannu at gyflawni targedau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel cenedlaethol, gan fanteisio ar dopograffeg y Fwrdeistref Sirol. Mae gan y Cyngor ddyhead i'r holl gartrefi newydd fod yn sero carbon net yn y lle cyntaf. Mae angen i'r CDLI Newydd nodi lleoliadau priodol er mwyn cefnogi cyfleoedd ar gyfer gwresogi ardal, prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel lleol, yn ogystal ag annog elfen o berchnogaeth leol.	• Fframwaith Datblygu Cenedlaethol • Cynllun Ynni Clyfar Pen-y-bont ar Ogwr (2019) • Asesiad o Ynni Adnewyddadwy (2020) • Cynllun Gweithredu Argyfwng Hinsawdd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
NR6	Yng nghyd-destun Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe, dylai Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gefnogi amgylchyniadau llai llewyrchus drwy gynnal cyflenwad lleol hirdymor o dir ar gyfer cyflogaeth, sydd wedi ei leoli'n dda ac sy'n hygyrch, sy'n realistig ac yn gyraeddadwy ac sy'n cynnig digon o amrywiaeth o safbwynt dewis.	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021)
NR7	Yr angen i wireddu manteision economaidd-gymdeithasol yn sgil cyflwyno Metro De Cymru a Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.	• Cyflwyno Ein Metro • Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
NR8	Dylai'r CDLI nodi a diogelu'r lefel briodol o agregau a chronfeydd glo.	• Datganiad Technegol Rhanbarthol (Ail Adolygiad – drafft, 2019)
NR9	Hyrwyddo'r defnydd effeithlon o adnoddau, gan gynnwys pontio i economi carbon isel, defnyddio gwastraff fel adnodd, adeiladau	• Cynllun Ynni Clyfar Pen-y-bont ar Ogwr (2019)

	sy'n arbed ynni, ac ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel priodol.	• Asesiad o Ynni Adnewyddadwy (2020) • Rheoliadau Adeiladu
NR10	Yr angen i sicrhau cysondeb â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a pharatoi Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.	• Dyfodol Cymru: Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Polisi Cynllunio Cymru
NR11	Yr angen i ddatrys problemau lleol o ran capasiti cyffyrdd yng Nghyffordd 36 yr M4 a Phont Reilffordd Ffordd Penprysg, Pencoed er mwyn gwella materion llif traffig sy'n bodoli a chyfleoedd twf cynaliadwy yn yr aneddiadau perthnasol yn y dyfodol.	• Papur Cefndir Cyffordd 36 yr M4 • Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru, Cam 1
NR12	Yr angen i ddiogelu a gwella llesiant pawb sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol ac i'r CDLI Newydd gynorthwyo i gyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.	• Cynllun Llesiant Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

3.1.4 Y Materion a'r Ysgogwyr Lleol Allweddol

3.1.5 Ar ôl ystyried y Cyd-destun Gofodol a Pholisi Lleol, ac adolygiad cyffredinol o'r wybodaeth sylfaenol, nodir y materion a'r ysgogwyr lleol allweddol canlynol (a ragflaenir gan LS). Mae ganddynt oblygiadau defnydd tir strategol ar gyfer CDLI Pen-y-bont ar Ogwr.

Tabl 3: Materion Amgylcheddol

Materion Amgylcheddol		Tystiolaeth sydd wedi Llywio'r Materion a'r Ysgogwyr Allweddol
LS1	Mae gan y Fwrdeistref Sirol dirweddau a golygfeydd arfordirol o bwysigrwydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, ac amrywiaeth eang o fuddiannau bioamrywiaeth a chadwraeth natur y mae angen eu nodi a'u gwarchod yn y CDLI.	• Asesiad o Nodweddion Morwedd Lleol Bae Caerfyrddin, Gŵyr a Bae Abertawe • Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (2014) • Asesiad Cymeriad Tirwedd Bwrdeistref Arfordir Treftadaeth • Ardaloedd Tirwedd Arbennig • LANDMAP – Llinell Sylfaen Tirwedd Cymru • Blaengynllun Cydnheredd Bioamrywiaeth ac

		Ecosystemau Pen-y-bont ar Ogwr 2018-22 • Asesiad Seilwaith Gwyrdd (2020)
LS2	Yr angen i nodi, diogelu a gwella treftadaeth adeiledig gyfoethog ac amgylchedd hanesyddol y Fwrdeistref Sirol yn y CDLI Newydd.	• Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 • Polisi Cynllunio Cymru • Cofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru (gydag Asesiadau Cymeriad Tirwedd Hanesyddol)
LS3	Yr angen i ystyried y pwysau datblygu cynyddol ar ffermydd gwynt yn ardaloedd y Cymoedd yng nghyd-destun lleoli a dylunio priodol er mwyn lleihau effeithiau gweledol ar dirweddau golygfaol.	• Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflenwi (2018) • Asesiad o Ynni Adnewyddadwy (2020)
LS4	Nodwyd bod ardaloedd sylweddol ar hyd pob un o'r prif afonydd a chyrsiau dŵr yn y Fwrdeistref Sirol mewn perygl o ddioddef llifogydd. Mae ardaloedd trefol presennol Abercynffig a Phencoed yn cael eu cyfyngu gan orlifdiroedd. Hefyd, ceir perygl o lifogydd llanw ac ymchwydd storm mewn rhannau o Borthcawl ac ar hyd yr arfordir.	• Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Pen-y-bont ar Ogwr • TAN15 – Datblygu a Pherygl Llifogydd • Mapiau Cyngor ar Ddatblygu - CNC
LS5	Mae llawer o afonydd y Fwrdeistref Sirol mewn perygl o fod ag ansawdd dŵr gwael oherwydd 'llygredd o un ffynhonnell'.	• CNC – Cyfarwydddeb Fframwaith Dŵr (2018)
LS6	Ceir perygl o ansawdd aer gwael ar hyd coridor yr M4 ac ardaloedd eraill sydd ag ansawdd aer gwael hysbys ledled y Fwrdeistref Sirol.	• Polisi Cynllunio Cymru • Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol • Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru – Canllawiau (2017)
LS7	Ceir tagfeydd traffig mewn rhannau o rwydwaith y briffordd, yn enwedig ar adegau prysur, ac mae hynny'n effeithio ar ddiogelwch ar y ffyrdd. Bydd y CDLI Newydd yn ceisio lleihau'r ddibyniaeth ar geir a gwella'r seilwaith teithio llesol; gwella ac ehangu cysylltiadau trafndiaeth, trafndiaeth gyhoeddus a'r seilwaith cyfathrebu ar gyfer cymunedau yn y Fwrdeistref Sirol a chyrchfannau allweddol mewn awdurdodau cyfagos.	• Polisi Cynllunio Cymru • Asesiad o Drafnidiaeth Strategol Pen-y-bont ar Ogwr (l'w gwblhau – 2020) • Deddf Teithio Llesol
LS8	Nid oes unrhyw gapasiti tirlenwi sylweddol ar gael ar gyfer gwaredu gwastraff yn y	• Polisi Cynllunio Cymru • TAN21 (2014)

	Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd. Bydd angen i'r CDLI nodi safleoedd priodol ar gyfer cyfleusterau prosesu gwastraff newydd er mwyn diwallu anghenion lleol a rhanbarthol yn y dyfodol.	• Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (2016) • Adroddiadau Monitro Blynnyddol
--	--	--

Tabl 4: Materion Cymdeithasol

Materion Cymdeithasol		Tystiolaeth sydd wedi llywio'r materion a'r ysgogwyr allweddol
LS9	Mae'r dewis o dai yng Nghwm Garw a Chwm Ogwr yn gyfyngedig, sy'n rhoi cyfle i hybu mentrau megis tai cydweithredol, plotiau i bobl adeiladu eu tai eu hunain a chyfleoedd i adeiladu tai pwrpasol, ochr yn ochr â dulliau datblygu mwy confensiynol.	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021)
LS10	Mae tystiolaeth leol wedi nodi diffyg presennol yn y ddarpariaeth tai fforddiadwy ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae angen ymateb polisi priodol i raddfa'r angen am dai a nodwyd. Mae dyrannu cwantwm ac ystod ddigonol o safleoedd tai yn y CDLI Newydd yn un ffordd arwyddocaol o fynd i'r afael â'r mater hwn, er na ddylid ystyried mai dyma'r unig ddull o ddarparu tai fforddiadwy.	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021) • Asesiad Hyfywedd ar draws y Cynllun (2021)
LS11	Ceir prinder yn y ddarpariaeth o anheddau llai o ran maint; o ran eiddo ag un ystafell wely yn y sector rhentu cymdeithasol ac eiddo â dwy ystafell wely ar lefel mynediad yn y marchnadoedd tai cyffredinol yn enwedig. Mae angen cynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ledled y Fwrdeistref Sirol.	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021)
LS12	Mae sawl rhan o'r Fwrdeistref Sirol, yn enwedig yng nghymunedau'r Cymoedd, ymhlith yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda lefelau isel o ran gallu i ddefnyddio cyfleusterau a gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer plant, pobl ifanc a phobl hŷn.	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021)
LS13	Mae Porth y Cymoedd yn ganolog i'r Fwrdeistref Sirol yn ddaearyddol, ac mae'n hygyrch iawn. Felly, hwn yw'r lleoliad a ffefrir ar gyfer llawer o gyfleusterau sy'n gallu gwasanaethu dalgylch ehangach o lawer. Fodd bynnag, gallai'r problemau capasiti a	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Papur Cefndir Cyffordd 36 yr M4

	nodir yng Nghyffordd 36 atal twf ychwanegol yn yr ardal hon.	
LS14	Ceir ddiffygion yn y ddarpariaeth chwaraeon awyr agored, mannau chwarae i blant, mannau agored naturiol hygyrch a rhandiroedd yn y Fwrdeistref Sirol, yn y canolfannau trefol mawr yn enwedig. Mae angen gwneud y gorau o gwmpas y seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol a sicrhau ei fod yn darparu rhwydwaith o goridorau bywyd gwyllt cysylltiedig (ar draws amrywiaeth eang o raddfeydd, a chynyddu gwasanaethau ecosystemau, gan gynnwys bioamrywiaeth; a gwneud y gorau o fuddiannau iechyd seilwaith gwyrdd).	• Asesiad Seilwaith Gwyrdd (2020) • Blaengynllun Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystemau Pen-y-bont ar Ogwr 2018-22 • Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol Pen-y-bont ar Ogwr • Archwiliad o Chwaraeon Awyr Agored a Mannau Chwarae i Blant (2020)

Tabl 5: Materion Economaidd

Materion Economaidd		Tystiolaeth sydd wedi llywio'r materion a'r ysgogwyr allweddol
LS15	Yr angen i fynd ar drywydd Bwrdeistref Sirol glyfar sydd wedi ei datgarboneiddio, ac sydd wedi ei chysylltu'n ddigidol. Ar yr un pryd, bydd hyn yn galluogi trosglwyddiad at systemau ynni carbon isel sydd wedi eu datganoli er budd unigolion, cymunedau a busnesau.	• Cynllun Ynni Clyfar Pen-y-bont ar Ogwr (2019) • Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021) • Asesiad o Ynni Adnewyddadwy (2020)
LS16	Bydd angen gwireddu prosiect Safle Adfywio Glannau Porthcawl er mwyn adfywio'r dref fel prif gyrchfan glan môr.	• Uwchgynllun Adfywio Glannau Porthcawl
LS17	Mae economi Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn fwy dibynnol ar y sector gweithgynhyrchu na Chymru yn ei chyfanrwydd. Mae angen diogelu a chefnogi'r sylfaen economaidd a chyflogaeth bresennol ledled y Fwrdeistref Sirol. Yn yr un modd, mae angen denu mewnfuddsoddiad, sicrhau twf economaidd cynaliadwy a galluogi amrywiaeth yn y sector cyflogaeth. Bydd angen i'r CDLI Newydd ymateb drwy ddyrannu safleoedd	• Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021) • Cynllun Seilwaith a Chyflenwi (wrthi'n cael ei baratoi)

	addas i'w datblygu, gan alluogi'r seilwaith angenrheidiol i gael ei ddarparu er mwyn cynyddu cysylltedd, gwella seilwaith cymunedol / cymdeithasol a'r gallu i gael cyfleoedd economaidd a chyflogaeth o ansawdd uchel.	
LS18	Mae angen moderneiddio ac ailwampio llawer o'r ystadau diwydiannol presennol er mwyn darparu ar gyfer y sector BBaCh.	• Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021)
LS19	Mae diffyg cyfatebiaeth o ran lleoliad presennol safleoedd cyflogaeth yn y Fwrdeistref Sirol a'r ardaloedd o amddifadedd uwch, yn enwedig yn y Cymoedd.	• Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021)
LS19	Mae prinder tir cyflogaeth cyffredinol ym Mhorthcawl a'r Cymoedd.	• Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021)
LS20	Mae canol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn gwireddu ei botensial gan weithredu fel canolfan isranbarthol, ond mae ganddo gyfran is o unedau cymhariaeth a chyfradd uwch o unedau gwag o'u cymharu â chyfartaledd y DU. Hefyd, mae angen cyfleusterau siopa ychwanegol ym Mhorthcawl er mwyn lleihau colledion mewn gwariant a hybu patrymau siopa cynaliadwy.	• Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021) • Astudiaeth Manwerthu (2019)
LS21	Mae canolfannau dosbarth Cwm Ogwr, Mynydd Cynffig a Phontycymer wedi eu gwasgaru dros ardal eang, ac maent yn cynnwys canran uchel o unedau preswyl. Weithiau, nid oes unrhyw ardal weithgarwch graidd y gellir ei nodi, ac o ganlyniad mae'r ardaloedd hyn yn dangos arwyddion o ddirywiad.	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021) • Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021) • Astudiaeth Manwerthu (2019)
LS22	Mae angen adeiladu ar lwyddiant ardaloedd manwerthu llai o ran maint ar lefel gymdogaeth neu gymunedol, yn enwedig pan fo modd eu cydgysylltu â chyfleusterau cymdeithasol, addysgol a chymunedol sydd wedi eu cydleoli.	• Astudiaeth Asesu Aneddiadau (2019) • Astudiaeth Manwerthu (2019)

LS23	Mae angen tyfu ac amrywio economi ymwelwyr y Fwrdeistref Sirol y tu hwnt i'r 'ymweliadau undydd' amlycaf drwy fanteisio ar amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig yr ardal er mwyn hwyluso datblygiadau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth.	• Cynllun Rheoli Cyrchfan Sir Pen-y-bont (2018-2022)
-------------	---	--

4. Fframwaith Strategol CDLI

4.1 Gweledigaeth CDLI (2018-2033)

4.1.1 Mae'r adran hon o'r ddogfen yn nodi'r Weledigaeth drosfwaol er mwyn ddiffinio yn y pen draw yr hyn y mae'r CDLI yn gweithio tuag ato. Datblygwyd Gweledigaeth y CDLI er mwyn ystyried Cynllun Llesiant Lleol Pen-y-bont ar Ogwr gyda'r nodweddion penodol a'r materion allweddol sy'n effeithio ar y Fwrdeistref Sirol.

4.1.2 Gweledigaeth ar gyfer 2033

Ers troad y mileniwm, mae Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fwrdeistref Sirol ehangach wedi bod ar daith i wella'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau allweddol, yr ansawdd amgylcheddol ffisegol ac ansawdd bywyd trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr. Bydd y gweddnwidiad hwn yn parhau drwy gydol cyfnod y CDLI, gan arwain at barhau i ddatblygu rhwydwaith o gymunedau diogel, iach a chynhwysol sy'n cysylltu'n ehangach â'r rhanbarthau er mwyn galluogi twf economaidd cynaliadwy.

Blaenoriaethau'r Cyngo

Mae'r Fwrdeistref Sirol eisoes yn ganolbwynt cyflogaeth rhanbarthol mawr, gyda chryfderau penodol mewn gweithgynhyrchu uwch. Bydd yr asedau economaidd-gymdeithasol hyn yn cael eu hybu er mwyn gwella ysbryd cystadleuol economaidd y Fwrdeistref Sirol yn raddol, gan gyfrannu'n sylweddol at lwyddiant Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe. Bydd annog mewnfuddsoddiad er mwyn gwella seilwaith, darpariaeth gyflogaeth a chyfleoedd dysgu gydol oes yn denu ac yn cadw gweithwyr medrus, a fydd yn eu tro yn annog busnesau i ddod â rhagor o sgiliau cyflogaeth i'r ardal. Hefyd, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr weledigaeth i wneud Pen-y-bont ar Ogwr yn Fwrdeistref Sirol glyfar sydd wedi ei chysylltu'n ddigidol a'i datgarboneiddio. Gan wneud hynny bydd yn pontio i system ynni carbon isel, ddatganoledig sy'n gweithio i'w unigolion, ei gymunedau a'i fusnesau. Wrth gyflawni ei weledigaeth o fwrdeistref sirol glyfar sydd wedi ei chysylltu'n ddigidol a'i datgarboneiddio, nod y Cyngor yw:

- datgarboneiddio'r sector ynni a cheisio cyflawni cartrefi carbon sero-net,*
- ysgogi twf economaidd,*
- darparu cyfleoedd gwaith newydd, a*
- denu busnesau newydd a chyfredol i dreialu mentrau ac i dyfu yn y fwrdeistref sirol*

Gweledigaeth Ofodol

Pen-y-bont ar Ogwr fydd y brif dref o hyd, a bydd twf atodol yn adeiladu ar ei llwyddiant fel canolfan gyflogaeth, masnachol a gwasanaeth rhanbarthol. Bydd datblygiadau cyflogaeth, masnachol a phreswyl ychwanegol yn canolbwyntio ar drefi sefydledig eraill er mwyn cyflawni patrymau twf cynaliadwy sy'n cefnogi gwasanaethau a chyfleusterau

lleol sydd eisoes yn bodoli. Bydd twf a arweinir gan adfywio yn cael ei sianelu tuag at Borthcawl hefyd drwy ailddatblygu ei glannau er mwyn manteisio ar swyddogaeth y dref o fod yn brif gyrchfan glan môr a thwristiaeth. Hefyd, bydd aneddiadau'r cymoedd yn cael eu clustnodi ar gyfer adfywio cynaliadwy, gyda chydabyddiaeth mai Maesteg a Chwm Llynfi sydd â'r capasiti a'r seilwaith mwyaf posibl i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol. Cyflawnir y weledigaeth hon drwy gynnal a datblygu aneddiadau cryf, rhyngddibynnol, cysylltiedig a chydlynol, gan ddiogelu a gwella asedau amgylcheddol a threftadaeth y Fwrdeistref Sirol hefyd. Bydd hyn yn cynnig y canlynol i bobl:

- y dechrau gorau mewn bywyd drwy ddarparu amgylcheddau dysgu effeithiol er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i ddysgwyr;*
- cyfleoedd i leihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd; ac*
- ansawdd bywyd gwell ac amgylchedd iach i bawb sy'n byw, yn gweithio, yn ymweld ac yn ymlacio yn yr ardal.*

4.2 Amcanion Strategol ac Amcanion Penodol

4.2.1 Cyflawnir Gweledigaeth y CDLI drwy gyflawni 4 Amcan Strategol, a fydd yn cael eu tanategu gan 35 o Amcanion Penodol. Mae'r rhain yn ceisio adlewyrchu polisiau a deddfwriaeth cenedlaethol diweddaedig a mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r gwaith o ddatblygu'r Amcanion wedi ei lywio gan y broses Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol hefyd, yn enwedig y gyfres gryno o faterion cynaliadwyedd allweddol y dylid mynd i'r afael â nhw yn y CDLI Newydd. Mae'r materion hyn a nodwyd wedi eu dwyn ymlaen er mwyn ategu proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan lywio'r pedwar Amcan Strategol canlynol, sy'n ganolog i'r CDLI:

- **SOBJ1: Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)**
- **SOBJ2: Creu Cymunedau Egniol, Iach, Cydlynol a Chymdeithasol**
- **SOBJ3: Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus**
- **SOBJ4: Gwarchod a Gwella Lleoedd Naturiol ac Unigryw**

4.2.2 Mae'r Amcanion Strategol wedi eu diffinio er mwyn adlewyrchu materion allweddol a nodwyd, cyd-fynd â pholisiau cenedlaethol a sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwahanol elfennau cynaliadwyedd. Maent yn drawsbynciol o ran natur, ac maent yn croesgyfeirio nodau ac amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun Llesiant Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Gan weithredu gyda'i gilydd, mae'r Weledigaeth a'r Amcanion Strategol yn darparu fframwaith troswaol sy'n tanategu holl elfennau eraill y CDLI Newydd. Gan adlewyrchu eu pwysigrwydd, mae'r Amcanion Strategol wedi bod yn destun profion a mireinio ailadroddol drwy gydol proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, ochr yn ochr â'r gwaith o baratoi'r Cynllun Adneuo. Er eu bod ar lefel uchel o reidrwydd, mae'r Amcanion Strategol dilynol yn rhoi sylw da i'r holl faterion cynaliadwyedd allweddol y mae angen i'r CDLI Newydd fynd i'r afael â nhw.

4.2.3 Yn eu tro, cefnogir y Weledigaeth a'r pedwar Amcan Strategol gan 35 o Amcanion Penodol. Dyfeisiwyd y rhain i greu'r amodau cywir i fynd i'r afael â chanlyniadau llesiant cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd amrywiol. Hefyd, bydd yr

amcanion yn rhan o'r sylfaen ar gyfer monitro'r broses o gyflwyno'r Cynllun, ar ôl iddo gael ei fabwysiadu a'i roi ar waith.

SOBJ 1	Creu Lleoedd Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleoedd)
OBJ 1a	<i>Hybu Pen-y-bont ar Ogwr fel Prif Anheddiad Allweddol y Fwrdeistref Sirol, sy'n ganolbwynt datblygiadau cyflogaeth, masnachol a phreswyl mawr.</i>
OBJ 1b	<i>Datblygu canolfan strategol yng ngogledd Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n ganolbwyntio ar safleoedd cyflogaeth, prosiectau ynni, datblygiadau preswyl, twristiaeth a diwylliant.</i>
OBJ 1c	<i>Adfywio Maesteg drwy gydnabod ei swyddogaeth fel y prif anheddiad sy'n gwasanaethu Cwm Llynfi, sydd â'r capasiti a'r seilwaith posibl i ddarparu ar gyfer twf yn y dyfodol.</i>
OBJ 1d	<i>Gwireddu potensial Porthcawl o fod yn brif gyrchfan glan môr a thwristiaeth drwy flaenoriaethu'r gwaith o adfywio ei glannau a buddsoddi mewn seilwaith allweddol. Bydd hyn hefyd yn gwella atyniad y dref fel lle i fyw a gweithio ynddi, gan wella bywiogrwydd Canol y Dref</i>
OBJ 1e	<i>Hybu aneddiadau cynaliadwy a deniadol yn y cymoedd a gwella'r gallu i gael swyddi a gwasanaethau.</i>
OBJ 1f	<i>Cydnabod potensial strategol Pencoed ym Mhrifddinas-Ranbarth ehangach Caerdydd.</i>

SOBJ 2	Creu Cymunedau Egniol, Iach, Cydlynol a Chymdeithasol
OBJ 2a	<i>Darparu fframwaith defnydd tir sy'n cydnabod anghenion ardaloedd difreintiedig yn y Fwrdeistref Sirol, gan roi cyfleoedd i'r cymunedau hynny fynd i'r afael â ffynonellau eu hamddifadedd.</i>
OBJ 2b	<i>Sicrhau mynediad cyfartal i wasanaethau cymunedol ar gyfer holl sectorau'r gymuned, gan fynd i'r afael ag anghenion penodol pobl ifanc, teuluoedd, pobl hŷn ac unigolion ag anableddau.</i>
OBJ 2c	<i>Darparu datblygiadau preswyl ar lefel briodol ac o natur sy'n diwallu anghenion nodedig y Fwrdeistref Sirol, gan sicrhau bod cyfran sylweddol ohonynt yn fforddiadwy ac o fewn cyrraedd pawb.</i>
OBJ 2d	<i>Galluogi Tref Pen-y-bont ar Ogwr i ddod yn gyrchfan adwerthu a masnachol rhanbarthol deniadol a llwyddiannus ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd hefyd yn diwallu anghenion ei dalgylch,</i>

	<i>gyda chefnogaeth rhwydwaith o ganolfannau tref, dosbarth a lleol hyfyw sy'n gwasanaethu eu cymunedau lleol.</i>
OBJ 2e	<i>Darparu ar gyfer y nifer a'r amrywiaeth ddigonol o gyfleusterau addysgol, hamddenol, iechyd, cymdeithasol a chymunedol y gellid eu defnyddio ledled y Fwrdeistref Sirol.</i>
OBJ 2f	<i>Hybu hygyrchedd i bawb drwy gefnogi'r hierarchaeth drafnidiaeth (a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru) sy'n rhoi blaenoriaeth i gerdded a seiclo (teithio llesol), wedyn trafnidiaeth gyhoeddus ac yn olaf, cerbydau modur. Dylai datblygiadau newydd gael eu lleoli a'u cynllunio yn unol â'r hierarchaeth hon er mwyn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio trafnidiaeth gynaliadwy, lleihau llygredd yn yr awyr, lleihau'r angen i deithio a lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat.</i>
OBJ 2g	<i>Sicrhau bod datblygiadau newydd yn helpu i ddarparu llwybrau teithio llesol yn y Fwrdeistref Sirol.</i>
OBJ 2h	<i>Creu cymdogaethau sy'n addas i gerddwyr lle bo cyfleusterau amrywiol o fewn pellter cerdded i fwyafrif y trigolion, a lle bo'r strydoedd yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn bleserus i gerdded a seiclo arnynt.</i>
OBJ 2i	<i>Datrys problemau capasiti lleol ger Cyffordd 36 o'r M4 a Phont y Rheilffordd Heol Penprysg, Pencoed, er mwyn gwella problemau llif traffig sy'n bodoli a chynyddu cyfleoedd twf cynaliadwy yn yr aneddiadau perthnasol yn y dyfodol.</i>
OBJ 2j	<i>Hybu datblygiadau newydd sydd wedi eu cynllunio i leihau effaith allyriadau trafnidiaeth.</i>

SOBJ 3	Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus
OBJ 3a	<i>Datblygu economi ac amgylchedd busnes mwy amrywiol, dynamig a hunanddibynnol.</i>
OBJ 3b	<i>Darparu lefel ac amrywiaeth realistig o dir cyflogaeth i hwyluso'r broses o ddarparu mannau gwaith a chyfleoedd gwaith o ansawdd uchel.</i>
OBJ 3c	<i>Darparu portffolio cytbwys o adeiladau cyflogaeth newydd a modern, gan ganolbwyntio ar fusnesau bach a chanolig a busnesau newydd.</i>
OBJ 3d	<i>Darparu amgylcheddau dysgu effeithiol er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau posibl i ddysgwyr.</i>
OBJ 3e	

	<i>Hybu a chefnogi'r gwaith o ailwampio'r arwynebedd llawr cyflogaeth presennol.</i>
OBJ 3f	<i>Datblygu clwstwr masnachol ac addysgol o amgylch gorsaf drenau Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n canolbwyntio ar fasnach ac addysg.</i>
OBJ 3g	<i>Sicrhau bod cymunedau'r cymoedd yn mwynhau manteision gwaith adfywio drwy gyfeirio datblygiadau newydd i'r ardaloedd hynny ar raddfa sy'n cydnabod eu cyfyngiadau daearyddol a'u capasiti o ran seilwaith.</i>
OBJ 3h	<i>Datblygu economi wledig gref er mwyn cefnogi cymunedau gwledig cynaliadwy a llewyrchus, gan gydnabod swyddogaeth hamdden a thwristiaeth yn benodol.</i>
OBJ 3i	<i>Cynorthwyo seilwaith trafnidiaeth a rhwydweithiau cyfathrebu cyflym i hwyluso gwelliannau a datblygiadau angenrheidiol er mwyn cefnogi dyheadau twf Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.</i>
OBJ 3j	<i>Hybu datblygiadau sydd wedi eu lleoli'n dda ac sydd wedi eu cynllunio i helpu i ateb y galw am ynni â ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel yn unol â'r hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio (a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru), gan gynnwys danfon cartrefi di-garbon net yn y lle cyntaf, gan helpu i liniaru achosion newid yn yr hinsawdd a mynd i'r afael â'r 'argyfwng hinsawdd' a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru a'r Cyngor.</i>
OBJ 3k	<i>Gwireddu ymrwymïadau rhanbarthol a lleol y Cyngor o ran adnoddau mwynol, rheoli gwastraff a gwaredu gwastraff.</i>
OBJ 3l	<i>Hybu'r economi gylchol a gwneud y defnydd gorau o adnoddau perthnasol er budd yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol.</i>
OBJ 3m	<i>Dilyn trefn flaenoriaeth yr hierarchaeth gwastraff wrth atal a rheoli gwastraff – atal, aildddefnyddio, ailgylchu, trin, adfer a gwaredu.</i>
OBJ 3n	<i>Gwrthbwyso'r boblogaeth leol sy'n heneiddio drwy ddarparu ar gyfer lefelau twf cynaliadwy i ddenu a chadw aelwydydd sy'n economaidd weithgar, gan sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn parhau i fod yn obaith deniadol y gall cyflogwyr ehangu ynddi, a symud iddi.</i>

SOBJ 4	Gwarchod a Gwella Lleoedd Naturiol ac Unigryw
OBJ 4a	<i>Hybu, gwarchod a gwella amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig y Fwrdeistref Sirol.</i>
OBJ 4b	<i>Diogelu ansawdd dŵr, aer a phridd a mynd i'r afael â ffynonellau llygredd o bob math, gan gynnwys llygredd sŵn.</i>
OBJ 4c	<i>Sicrhau cyflenwad dŵr, carthffosiaeth a seilwaith draenio digonol (gan gynnwys systemau draenio cynaliadwy).</i>
OBJ 4d	<i>Hybu seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol, gan bwysleisio'r angen i'w integreiddio â datblygiadau presennol a newydd.</i>
OBJ 4e	<i>Rheoli datblygiadau er mwyn osgoi neu leihau perygl ac ofn llifogydd, a galluogi a gwella swyddogaethau gorlifdiroedd.</i>

4.3 Strategaeth Twf a Gofodol y CDLI

4.3.1 Yr Hierarchaeth Aneddiadau

4.3.2 Mae'r CDLI Newydd yn nodi ac yn gwahaniaethu rhwng cynaliadwyedd lleoedd drwy ddiffinio hierarchaeth aneddiadau. Mae'r hierarchaeth hon wedi ei llywio gan gasgliadau Asesiad o Aneddiadau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (2019, diweddarwyd yn 2021), sy'n adlewyrchu patrwm aneddiadau hanesyddol a swyddogaethol Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn sicrhau rhagor o leoedd cynaliadwy mewn sawl ffordd. Mae graddfa a math y twf a ddosrennir i aneddiadau yn dibynnu ar eu rolau, eu swyddogaethau a'u lleoliadau unigol yn yr Hierarchaeth Aneddiadau. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y CDLI Newydd yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf tuag at ardaloedd sydd eisoes yn elwa ar seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau da, neu ardaloedd lle gellir darparu capasiti ychwanegol.

SF1: Hierarchaeth Aneddiadau a Rheolaeth Drefol

Caniateir datblygu o fewn ffiniau aneddiadau ar raddfa sy'n gymesur â rôl a swyddogaeth aneddiadau fel y nodir yn yr hierarchaeth isod:

Prif Anheddiad Allweddol

- Pen-y-bont ar Ogwr (*gan gynnwys Bracla, Broadlands, Bryntirion a Chefn Glas, Pen-y-bont ar Ogwr Canolog, Coety / Parc Derwen, Llangrallo a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr / y Llidiart*)

Prif Aneddiadau

- Maesteg
- Pencoed
- Porthcawl
- Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli
- Porth y Cymoedd (*gan gynnwys Abercynffig, Bryncethin, Brynmenyn, Coytrahen, Sarn, Ton-du ac Ynysawdre*)*

* Mae'r ardal hon yn wynebu cyfyngiadau sylweddol ac ar hyn o bryd felly, mae'n llawer llai addas ar gyfer datblygiadau cynaliadwy o'i chymharu â'r Prif Aneddiadau eraill, fel y nodir yn yr Asesiad o Aneddiadau, y Papur Cefndir Opsiynau Gofodol a Phapur Cefndir Cyffordd 36 yr M4.

Aneddiadau Lleol

- Betws
- Blaengarw
- Caerau
- Cefn Cribwr
- Evanstown a Glynogwr
- Heol-y-cyw
- Trelales a Merthyr Mawr
- Lewistown, Melin Ifan Ddu a Phantyravel
- Llangeinwyr, Lluest a Phont-yr-hyl
- Nantyffyllon
- Nant-y-moel
- Cwm Ogwr
- Pen-y-fai
- Pont-rhyd-y-cyff, Llangynwyd a Chwmmfelin
- Pontycymer

- 4.3.3 Dosberthir Pen-y-bont ar Ogwr fel y **Prif Anheddiad Allweddol**, ynghyd â phum **Anheddiad Allweddol** ychwanegol, sy'n cynnwys Porth y Cymoedd, Porthcawl, Maesteg, Pencoed ac anheddiad grŵp y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli. Mae pob un o'r chwe anheddiad hyn yn gymharol hunangynhwysol, sy'n dangos swyddogaeth gyflogaeth gref gyda chrynodiad presennol o fusnesau ynghyd ag amrywiaeth nodedig o wasanaethau siopa a chymunedol. Mae'r cyfleusterau y maent yn eu cynnwys yn diwallu anghenion unigol yr aneddiadau hyn a rhai eu

hamgylchyniadau ehangach, a ategir ymhellach gan amrywiaeth o gyfleoedd teithio cynaliadwy sy'n cysylltu ag ardaloedd cyfagos a'r rhanbarthau ehangach. Pen-y-bont ar Ogwr sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon yn fwyaf arwyddocaol. Felly, gwahaniaethir Pen-y-bont ar Ogwr fel y Prif Setliad Allweddol ar y sail ei bod yn darparu ar gyfer ychydig dros draean o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol a'i bod yn ganolbwynt cyflogaeth, gwasanaethau a manwerthu sy'n gwasanaethu'r Fwrdeistref Sirol gyfan. Felly, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn dangos y duedd fwyaf i ddarparu ar gyfer twf cynaliadwy mewn modd a fydd yn cefnogi ac yn adeiladu ar ei llwyddiant, gan weithredu fel canolfan gyflogaeth, masnachol a gwasanaeth rhanbarthol. Mae 34% o'r boblogaeth yn byw yn y Prif Aneddiadau eraill, sy'n cyflawni swyddogaethau tebyg ar raddfa lai ond arwyddocaol. Mae'r ffactorau rhyngberthynol hyn yn cyfiawnhau dosbarthiad priodol yr aneddiadau hyn fel Prif Aneddiadau y gellir eu cynnal a'u gwella drwy dwf cynaliadwy (cyfeirier at yr Asesiad o Aneddiadau).

4.3.4 Yr unig eithriad sylweddol i'r didyniad cyffredinol hwn yw Porth y Cymoedd. Yn haeddiannol, roedd yr Asesiad o Aneddiadau yn rhestru'r anheddiad hwn yn uchel oherwydd cydgysylltiad ei is-aneddiadau, hygyrchedd uchel (gan gynnwys dwy orsaf reilffordd ynghyd â chysylltiadau â'r M4), cyfleusterau manwerthu amlwg ac ystadau diwydiannol. Fodd bynnag, mae'r ardal hon wedi darparu ar gyfer twf sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac erbyn hyn mae problemau capasiti yn rhedeg o'r gogledd i'r de wrth Gyffordd 36 yr M4 (gweler Papur Cefndir Cyffordd 36 yr M4). Felly, mae'r cyfyngiadau sy'n bresennol yn yr anheddiad hwn yn ei wneud yn llawer llai addas i ddarparu ar gyfer datblygu cynaliadwy nag eraill, er gwaethaf ei ddosbarthiad fel Prif Anheddiad a swyddogaeth ehangach yn y Fwrdeistref Sirol. Felly, ni fydd twf cynlluniedig yn cael ei sianelu tuag at yr ardal hon yn ystod cyfnod y Cynllun Newydd (2018-2033) ac, yn hytrach, bydd yn cael ei gyfeirio tuag at y pedwar Prif Anheddiad arall a'r Prif Anheddiad Allweddol.

4.3.5 Mae'r **Aneddiadau Lleol** yn cyflawni swyddogaeth cyfleusterau manwerthu a chymunedol fwy cyfyngedig, gan wasanaethu eu trigolion lleol yn bennaf. Er bod gwasanaethau a chyfleusterau o bob math yn bwysig i'r wlad o'u hamgylch, mae'r rhai sydd ar gael yn yr aneddiadau hyn yn tynnu ar ddalgylch llai ac fe'u cyfyngir yn bennaf i wasanaethu'r boblogaeth leol. O ganlyniad, mae gallu Aneddiadau Lleol i gynnal datblygiadau sylweddol yn fwy cyfyngedig, ond mae cyfleoedd o hyd i gefnogi twf sy'n deillio o adfywio ar raddfa lai er mwyn hwyluso datblygu economaidd lleol.

4.3.6 Mae gan bob anheddiad ffiniau, sydd wedi eu hadolygu a'u newid fel y bo'n briodol er mwyn diffinio'n gywir yr ardal drefol ar wahân i gefn gwlad, helpu i atal aneddiadau rhag cyduno a rhoi sicrwydd o ran ble y caniateir datblygiadau priodol. Yn wir, bydd y CDLI yn blaenoriaethu ailddefnyddio ac ailddatblygu tir a ddatblygwyd o'r blaen pan a lle bo hynny'n bosibl. Ceir crynodeb o drosolwg daearyddol manylach isod.

Pen-y-bont ar Ogwr

4.3.7 Mae categoraiddio Pen-y-bont ar Ogwr fel Prif Anheddiad Allweddol y Fwrdeistref Sirol yn cydnabod cylch dylanwad is-ranbarthol yr anheddiad a'i swyddogaeth flaenllaw o fod yn ganolfan gyflogaeth a manwerthu mawr sy'n hynod o hygyrch. Mae Canol Tref Pen-

y-bont ar Ogwr hefyd wedi ei leoli ar frig hierarchaeth adwerthu a masnachol y Fwrdeistref Sirol ac fe'i diffinnir yn Ganolfan Is-ranbarthol, yr unig ganolfan yn y Fwrdeistref Sirol sy'n arddangos y swyddogaeth ddaearyddol ehangach hon. Mae dosbarthiad Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfateb â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, sy'n cyfeirio at ei leoliad strategol bwysig ar system Metro'r De-ddwyrain a gwell potensial a chyfle i weithredu fel canolfan rhanbarthol allweddol.

- 4.3.8 Bydd y CDLI Newydd yn galluogi'r broses barhaus o wella canol y dref drwy welliannau amgylcheddol parhaus dan arweiniad cadwraeth. Bydd hefyd yn ceisio atgyfnerthu defnyddiau manwerthu ar hyd y prif ffyrntiadau, ehangu'r ystod o ddefnyddiau yng nghanol y dref (gan gynyddu cyfleusterau hamdden masnachol) a hwyluso'r gwaith o ailddatblygu adeiladau pwysig sy'n wag. Gwneir hyn trwy ymestyn ffin y brif ardal siopa i gynnwys Canolfan Siopa Pen-y-bont ar Ogwr ar ei newydd wedd, a thrwy ailgynllunio'r brif ardal siopa mabwysiedig ar hyd Stryd Nolton a Stryd Wyndham fel ail ardal siopa er mwyn adlewyrchu dosbarthiad presennol y defnyddiau. Mae'r cyfuniad hwn o amcanion yn ceisio gwella ansawdd yr amgylchedd, gwella'r economi gyda'r nos a chynyddu nifer y cwsmeriaid er mwyn gwella bywiogrwydd a pherfformiad manwerthu canol y dref. Bydd Uwchgynllun Canol y Dref yn cael ei gyhoeddi hefyd er mwyn cefnogi'r CDLI Newydd yn hyn o beth, drwy amlinellu gweledigaeth ar gyfer lle bywiog y gellir byw ynddo sy'n dwyn ynghyd menter, cyflogaeth, addysg, byw yn y dref, siopa, diwylliant, twristiaeth a lles mewn lleoliad hanesyddol.
- 4.3.9 Mae Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn arddangos nifer o ymrwymadau preswyl presennol a chyfleoedd datblygu sylweddol o fewn pellter cerdded i'r dref ac yn yr anheddiad ehangach. Mae nifer o safleoedd tir llwyd ar raddfa fawr a safleoedd nas defnyddir yn ddigonol yn weddill yn ardal drefol ehangach Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â lle am estyniadau trefol cynaliadwy. Bydd yr ymrwymadau a'r cyfleoedd hyn yn golygu bod modd i'r dref dyfu mewn ffordd gynaliadwy o safbwynt darpariaeth tai a chyflogaeth yn y dyfodol, gan ddiogelu'r amgylchedd, cefn gwlad, a hunaniaeth unigol yr is-aneddiadau llai o ran maint ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr ystod amrywiol hon o safleoedd yn galluogi'r farchnad i ymateb yn hyblyg i anghenion presennol a gofynion y dyfodol. Mae'r CDLI Newydd hefyd yn cydnabod y potensial i gynyddu hygyrchedd ymhellach drwy'r holl ardal gydgysylltiedig hon drwy lwybrau cerdded a beicio gwell ynghyd â rhwydweithiau seilwaith gwyrdd sy'n cysylltu'r is-aneddiadau â chanol y dref, a gorsafoedd bysiau a rheilffyrdd (gweler Map Rhwydwaith Integredig Teithio Llesol y Fwrdeistref Sirol). Bydd y patrwm twf hwn yn gwella safle Pen-y-bont ar Ogwr fel cyrchfan hygyrch a chynaliadwy iawn sydd o fudd i'r Fwrdeistref Sirol a'r rhanbarthau ehangach.
- 4.3.10 O ran cyflogaeth, bydd y CDLI Newydd yn defnyddio lleoliad strategol Pen-y-bont ar Ogwr ar hyd coridor yr M4 i gynnal a gwella swyddogaeth yr anheddiad o fod yn ganolfan cyflogaeth rhanbarthol mawr, gyda chryfderau penodol mewn gweithgynhyrchu uwch. Mae angen cynnal sylfaen weithgynhyrchu gadarn yn yr ardal mewn lleoliadau cynaliadwy, gan gynorthwyo adfywiad economaidd-gymdeithasol cymunedau difreintiedig. Bydd yr Ystadau Diwydiannol pwysig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Waterton, Bracla a Litchfield yn parhau i gyflawni'r swyddogaeth gyflogaeth ehangach hon, ac felly, byddant yn cael eu diogelu rhag defnyddiau eraill. Mae cyfleoedd eraill ar gael i hybu safleoedd cyflogaeth strategol, yn enwedig ar Ystad Brocastle a hen Safle Ford, a bydd

hyn yn cryfhau ac yn cynyddu swyddogaeth Pen-y-bont ar Ogwr o fod yn brif ganolbwynt cyflogaeth a mewnfuddsoddi newydd. Mae'r ddau safle hyn ynghyd â'r cyfle adfywio tir llwyd defnydd cymysg pwysig ym Mharc Afon Ewenni gyda'i gilydd yn cynrychioli Porth De Pen-y-bont ar Ogwr: triawd o gyfleoedd datblygu a fydd yn caniatáu synergedd datblygiadol cynaliadwy a arweinir gan y broses o wneud lleoedd. Bydd y cyfle cyfannol hwn yn cael ei alluogi drwy uwchgynllunio dilynol a datblygu Canllawiau Cynllunio Atodol i gyfrannu at gyflawni Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy'r CDLI Newydd.

Pencoed

- 4.3.11 Mae Pencoed wedi ei diffinio'n Brif Anheddiad yn yr hierarchaeth, ac mae gan y dref ddarpariaeth fanwerthu, gwasanaethau cymunedol a chyflogaeth bwysig sy'n diwallu anghenion y boblogaeth a'r cyffiniau. Ar hyn o bryd, mae gwaharddiad ar waith ar ragor o ddatblygiadau i'r gorllewin o'r rheilffordd oherwydd cyfyngiadau o amgylch y groesfan. Fodd bynnag, gallai rhai safleoedd ym Mhen-coed ddarparu ar gyfer twf trefol cynaliadwy gan elwa arno, er mwyn cefnogi'r canolfan dosbarth presennol a manteisio ar ei leoliad hygyrch iawn. Yn wir, bydd Pencoed yn parhau i fanteisio ar y twf a'r cyfleoedd a nodir ym Mhen-y-bont ar Ogwr gerllaw, yn enwedig o safbwynt y gallu i gael swyddi a'r gallu i ddefnyddio gwasanaethau lefel uwch, a alluogir gan gysylltiadau trafnidiaeth y dref ar ffurf rheilffordd, yr M4 a'r A473. Hefyd, bydd Pencoed yn elwa ar y broses o ddatblygu cynigion a phrosiectau ar raddfa lai, gan gydnabod y potensial i wella amgylchedd, hygyrchedd a llesiant cymdeithasol y gymuned.
- 4.3.12 Gan adeiladu ar fynediad uniongyrchol Pencoed i'r M4 yng Nghyffordd 35, mae'r CDLI Newydd yn parhau i nodi Parc Technoleg Pencoed fel Safle Cyflogaeth Strategol, lle bo cyfle ailddatblygu sylweddol yn bodoli ar gyfer creu Parc Busnes B1 o ansawdd uchel yn rhan o hen safle ffatri Sony nas defnyddir yn ddigonol. Roedd yr Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd o'r farn mai'r safle hwn oedd 'lleoliad mwyaf deniadol y Fwrdeistref ar gyfer swyddfa y tu allan i'r ganolfan' oherwydd y defnyddiau cyfagos presennol, y plotiau a wasanaethir sydd ar gael a'r mynediad i'r draffordd. Hefyd, mae'r Safle hwn wedi ei leoli'n dda yn ddaearyddol i gynorthwyo'r rhanbarth ehangach yn ei gyfanrwydd.

Porthcawl

- 4.3.13 Bydd y CDLI Newydd yn cynnal swyddogaeth Porthcawl fel Prif Anheddiad yn y Fwrdeistref Sirol ac yn rhoi cyfle i'r dref ailddiffinio ei hun fel prif gyrchfan twristiaeth. Mae amgylchedd Porthcawl yn llawn golygfeydd hardd a bioamrywiaeth, ac ategir hyn gan ei leoliad arfordirol, canol tref llawn cymeriad a glan y môr. Mae'n cynnig traethau tywodlyd hygyrch a thonau môr ar gyfer gweithgareddau egniïol, ac mae'n ganolfan ar gyfer teithio ledled y De. Yr allwedd i lwyddiant yr ardal yw cydbwysu natur y datblygiad a gynigir gyda buddiannau twristiaeth a'r amgylchedd.
- 4.3.14 Rhagwelir y gallai sawl prosiect datblygu sensitif gael ei hybu a'i ddatblygu gan ddefnyddio dulliau adfywio twristiaeth cyffredinol, a ysgogir yn bennaf drwy ddarparu Ardal Adfywio Glannau Porthcawl. Bydd y prosiect adfywio pwysig hwn ar lannau'r dref yn ganolbwynt strategol ar gyfer twf preswyl ac yn gyfle i Borthcawl fanteisio ar ei lleoliad unigryw sy'n cynnig golygfeydd ar draws Tywod Porthcawl. Bydd darparu unedau

preswyl newydd, gan gynnwys anheddau fforddiadwy, yn golygu bod modd bodloni gofynion adfywio hanfodol eraill gan gynnwys amddiffynfeydd rhag llifogydd, rhagor o gysylltiadau teithio llesol, a darparu cyfleusterau addysg, manwerthu a chymunedol. Mae gan ardal y prosiect gysylltiad agos â chanol y dref, a fydd yn parhau i fanteisio ar welliannau amgylcheddol. Yn wir, ystyrir Canol Tref Porthcawl yn elfen hanfodol o'r hierarchaeth fanwerthu, sy'n elwa ar ddefnyddiau hamdden amrywiol a chynnig manwerthu da sy'n darparu canolbwynt pwysig i drigolion. Sicrheir cysylltiadau rhwng ardal y glannau a chanol y dref drwy wella hygyrchedd er mwyn integreiddio'n iawn y datblygiad newydd â'r ardal drefol amgylchynol a gwella'r cynnig manwerthu cyfleur. Fodd bynnag, bydd yr ardaloedd hynod sensitif o bwysigrwydd rhyngwladol yn cael eu diogelu'n briodol, gan sicrhau bod ystyriaeth ddyledus yn cael ei rhoi i fuddiannau tirwedd a bioamrywiaeth yng nghyd-destun capasiti trefol lleol.

Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli

- 4.3.15 Mae aneddiadau gorllewinol y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli wedi eu dynodi ar y cyd yn Brif Anheddiad. Mae hyn yn cydnabod y ffaith fod gan yr anheddiad cyfunol swyddogaeth gyflogaeth gref ac amrywiaeth dda o wasanaethau siopa a chymunedol sy'n darparu ar gyfer y wlad o'u hamgylch a'r amgylchyniadau. Mae'r anheddiad eisoes yn ganolbwynt cyflogaeth fwy traddodiadol yn Fferm y Pentref a De Corneli sy'n gwasanaethu rhan orllewinol y Fwrdeistref Sirol, a bydd y CDLI Newydd yn cynnal ac yn gwella'r swyddogaeth hon gan gynnig y posibilrwydd am ragor o ddarpariaeth cyflogaeth. Hefyd, mae gan yr ardal fynediad rhagorol i Gyffordd 37 o draffordd yr M4, i'r A48 ac i Orsaf Drenau'r Pîl, sy'n cynnig gwasanaethau o Abertawe i Gaerdydd.
- 4.3.16 Felly, bydd y CDLI Newydd yn manteisio ar y swyddogaethau a'r capasiti trefol presennol drwy ddarparu twf cynaliadwy i gefnogi'r gymuned, gan gynyddu hyfywedd busnesau a gwasanaethau lleol. Trwy sianelu twf yn yr anheddiad hwn, bydd modd sicrhau'r datblygiad economaidd gorau bosibl a chreu swyddi ar sail y sylfaen gyflogaeth sy'n tyfu a'r gweithlu medrus sydd ar gael. Yn ogystal â helpu i ddatblygu cymuned leol fwy cynaliadwy sy'n gallu gwasanaethu ei dalgylch uniongyrchol yn well, bydd hyn yn cynyddu effaith luosydd twf a arweinir gan adfywio o Borthcawl gerllaw. Yn wir, credir bod cysylltiadau a manteision twf rhwng y ddau anheddiad sydd â chysylltiad agos yn ategu ei gilydd.

Maesteg a Chwm Llynfi

- 4.3.17 Maesteg yw'r dref fwyaf ond un y Fwrdeistref Sirol, ac mae wedi ei diffinio'n Brif Anheddiad. Mae'r CDLI Newydd yn ceisio sicrhau bod Maesteg yn gallu gwireddu ei photensial fel canolfan bwysig o safbwynt gwasanaethau a diwylliant ar gyfer Cwm Llynfi yn ei gyfanrwydd drwy ddarparu cartrefi newydd, darpariaeth fanwerthu a chyfleoedd gwaith lleol, gan gynnwys swyddi ym maes twristiaeth. Felly, bydd y broses o sicrhau datblygiad a arweinir gan adfywio yr un mor fanteisiol i gymunedau amgylchynol y cymoedd ac i aneddiadau llai o ran maint gerllaw.
- 4.3.18 Un ffordd bwysig o gyflawni'r swyddogaeth hon yw drwy barhau i ddiogelu a hybu canol y dref fel canolfan bwysig ar gyfer manwerthu, gwasanaethau a diwylliant. Mae canol y dref yn perfformio'n dda o'i gymharu â mwyafrif y dangosyddion bywiogrwydd a

hyfywedd, gyda lefel dda o ddewis i ddefnyddwyr. Yn ddiweddar, mae gwaith adfywio wedi canolbwyntio ar ganol y dref, gan arwain at wella'r orsaf fysiau a'r marchnadoedd awyr agored. Felly, bydd y CDLI Newydd yn manteisio ar y gwelliannau hyn drwy alluogi rhagor o welliannau i ganol y dref, ehangu'r cynnig hamdden fasnachol ac ailddatblygu safleoedd segur at ddibenion manwerthu neu ddefnyddiau ategol eraill yn ystod cyfnod y CDLI. Hwylusir hyn trwy leihau'r brif ardal siopa ym Maesteg i adlewyrchu'r dosbarthiad presennol o ddefnyddiau, ac ailddynodi'r brif ardal siopa ar hyd Stryd Fasnachol yn ardal siopa eilaidd. Bydd hyn yn helpu i wella delwedd y dref, amrywio'r defnyddiau a gynigir a chynyddu hyder y sector preifat, gan annog rhagor o fuddsoddiadau a helpu i wireddu potensial twristiaeth ehangach yr ardal.

- 4.3.19 Er y byddai Maesteg a rhai rhannau o amgylch Cwm Llynfi yn elwa o dwf a arweinir gan adfywio, cydnabyddir y bydd angen rhagor o amser ar rai safleoedd preswyl ar yr ardal hon i gyflawni hyn o'i chymharu ag ardaloedd eraill. Felly, ni fydd y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai yn dibynnu ar ddarparu'r holl safleoedd adfywio yn yr ardal hon. Yn hytrach, bydd yn bwysig darparu hyblygrwydd i archwilio nifer o ddewisiadau er mwyn datblygu'r safleoedd hyn yn ystod oes y CDLI; gan gydnabod pwysigrwydd hwyluso'r broses o ddatblygu cymunedau defnydd cymysg newydd ar dir llwyd. Mae'r maes twf hwn yn adeiladu ar y mentrau parhaus a'r mentrau adfywio yn y dyfodol ar gyfer Canol Tref Maesteg, gan ategu'r buddsoddiad diweddar mewn ysgolion newydd yn y cwm (sydd wedi cysylltu Ysgol Gyfun newydd Maesteg ar Safle Golchfa Maesteg â'r ysgol gynradd newydd yng Nghaerau). Yn ogystal â hybu Maesteg fel canolbwynt twf adfywio yn y dyfodol, mae'r CDLI Newydd yn cydnabod pwysigrwydd amrywio'r economi leol. Ceir potensial sylweddol i fanteisio ar gymeriad gwledig ac ucheldir y dref er mwyn datblygu'r diwydiant twristiaeth, hybu ffyrdd gweithgar o fyw a hybu ynni adnewyddadwy (y tu hwnt i'r ardaloedd adeiledig ar lawr y cwm).

Cwm Ogwr a Chwm Garw

- 4.3.20 Nodir Cwm Ogwr a Chwm Garw yn Aneddiadau Lleol. Felly, er na fydd yr ardaloedd hyn yn cael eu clustnodi i ddarparu ar gyfer twf sylweddol, mae'r CDLI Newydd yn ceisio creu cymunedau cynaliadwy sy'n gysylltiedig â chyfleoedd ehangach mewn modd sy'n diogelu eu hamgylchedd o ansawdd uchel. Mae Porth y Cymoedd a Phen-y-bont ar Ogwr yn gweithredu fel 'canolfannau' gwasanaethau ar gyfer Cwm Ogwr a Chwm Garw, ac mae ganddynt swyddogaethau pwysig i'w cyfrannu at eu llwyddiant cyffredinol. Mae'r ddau gwm yn ardaloedd gwledig yn eu hanfod, ac mae ganddynt gysylltiadau priffordd da â'r ardaloedd hyn a'r M4, gan ddarparu mynediad i lawer o wasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd gwaith lefel uwch. Mae'r CDLI Newydd yn ceisio gwella'r cysylltiadau hyn drwy hybu cysylltiadau cerdded a seiclo, trafnidiaeth gyhoeddus a gwelliannau i'r rhwydwaith priffordd lleol ledled ardaloedd y cymoedd. Bydd y twf mwy sylweddol i'r de o fudd i'r ardaloedd hyn, gan eu gwasanaethu, er ei bod yr un mor bwysig meithrin cymunedau cynaliadwy yng Nghwm Ogwr a Chwm Garw yn uniongyrchol. Cydnabyddir y byddai dulliau datblygu eraill yn helpu i greu twf ar raddfa lai, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) dai cydweithredol, a chyfleoedd i bobl adeiladu eu tai eu hunain ac i adeiladu tai pwrpasol ochr yn ochr â dulliau datblygu eraill. Budd cyfleoedd buddsoddi cymunedol o'r fath yn galluogi datblygu graddfa a natur sydd wedi ei haddasu yn unol ag anghenion cymunedol, gan amrywio a chryfhau'r economïau

lleol, cysylltu cymunedau â chyfleoedd ehangach a diogelu'r amgylcheddau o ansawdd uchel.

Porth y Cymoedd

4.3.21 Lleolir Porth y Cymoedd wth galon ddaearyddol y Fwrdeistref Sirol ac mae'n cynnwys sawl cymuned wahanol sy'n creu un ardal drefol di-dor yn uniongyrchol i'r gogledd o'r M4. Er bod patrwm aneddiadau Porth y Cymoedd yn debyg i batrwm aneddiadau Pen-y-bont ar Ogwr mewn sawl ffordd, mae natur luosganolog y patrwm trefol yn lleihau swyddogaeth canolfan fanwerthu gryf. Mewn sawl ffordd, mae Porth y Cymoedd wedi dioddef oherwydd ei lwyddiant ei hun yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac mae'r datblygiadau newydd sylweddol yno wedi arwain at broblemau capasiti o'r gogledd i'r de yng nghyffordd 36 o'r M4. Mae'r cyfyngiadau hyn sy'n bresennol yn yr anheddiad hwn yn llesteirio'r potensial am ragor o dwf sylweddol yn ystod oes y CDLI Newydd, ac felly ystyrir bod Porth y Cymoedd yn llai addas ar gyfer twf cynaliadwy na'r Prif Aneddiadau eraill. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeirir at Bapur Cefndir Capasiti Cyffordd 36 yr M4 ac Asesiad o Drafnidiaeth Strategol.

4.3.22 **Strategaeth Twf a Gofodol**

4.3.23 Yn y pen draw, caiff datblygiadau eu cyfeirio at amgylchyniadau sy'n ffafriol i wneud lleoedd cynaliadwy sy'n hwyluso cydbwysedd o nodweddion ecogyfeillgar, economaidd fywiog a chymdeithasol gynhwysol, gyda'r nod o fod o fudd i drigolion cyfrefol yn ogystal â chenedlaethau'r dyfodol. Felly, mae creu lleoedd yn gynaliadwy yn gysyniad troswaol sy'n tanategu'r CDLI Newydd, a'r nod penodol yw creu lleoedd sy'n:

- Diwallu anghenion holl aelodau'r gymuned;
- Hybu twf economaidd cytbwys sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth;
- Darparu ar gyfer rhwydweithiau teithio llesol a Seilwaith Gwyrdd integredig;
- Darparu seilwaith a gwasanaethau priodol;
- Darparu amrywiaeth o dai preifat a fforddiadwy o ansawdd uchel;
- Cryf, sy'n addasu i newid ac yn cefnogi gweledigaeth y Cyngor i wneud Pen-y-bont ar Ogwr yn Fwrdeistref Sirol glyfar sydd wedi ei chysylltu'n ddigidol a'i datgarboneiddio.

4.3.24 Yn gyfatebol, ac er mwyn cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI, bydd y Cyngor yn dilyn **Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy**. Bydd hyn yn darparu'r fframwaith i helpu i wireddu blaenoriaethau adfywio'r Cyngor, gan ddosrannu twf cynaliadwy hefyd tuag at aneddiadau sy'n eisoes yn bodoli sy'n dangos swyddogaethau cyflogaeth, gwasanaeth a chludiant cryf. Mae'r dull deuol hwn yn ceisio cydbwysu tai, datblygu economaidd, cysylltedd, anghenion cymdeithasol a diogelu a gwella'r amgylchedd yn fras er mwyn galluogi'r Fwrdeistref Sirol i ffynnu, gan gyfrannu at lwyddiant Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe. Mae hyn wedi llywio ac arwain yn uniongyrchol at lunio Polisi Strategol (SP) 1 isod, sy'n amlinellu sut y bydd y CDLI yn gwneud darpariaeth i gyflawni'r Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy rhwng 2018-2033.

SP1: Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy

Er mwyn cyflwyno Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr rhwng 2018 a 2033, bydd y Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- 1) 71.7 hectar o dir cyflogaeth i ddarparu ar gyfer hyd at 7,500 o swyddi ychwanegol; a
- 2) 9,207 o gartrefi newydd i fodloni gofynion am 7,575 o dai (yn seiliedig ar Lwfans Hyblygrwydd o 20%, gan gynnwys 1,977 o gartrefi fforddiadwy.

Bydd Adfywio a Datblygu Cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol yn canolbwyntio ar yr Ardaloedd Twf canlynol:

- a) Ardal Twf Adfywio Maesteg a Chwm Llynfi
- b) Ardal Twf Adfywio Porthcawl
- c) Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr
- d) Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed
- e) Ardal Twf Cynaliadwy y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli

Bydd datblygiadau lleol yn y gymuned yn cael eu galluogi yn yr Ardaloedd Adfywio canlynol:

- f) Ardal Adfywio Cwm Garw
- g) Ardal Adfywio Cwm Ogwr

Bydd y Strategaeth hon yn cael ei galluogi drwy ddyrannu Safleoedd Datblygu Strategol Defnydd Cymysg (PLA1-PLA5), Safleoedd Tai (COM1) a Safleoedd Cyflogaeth (ENT1). Yn unol â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd a gynhaliwyd ar gyfer y Cynllun, fel gofyniad sylfaenol, mae'n rhaid i gynigion ar gyfer datblygu ar safleoedd dynodedig gyd-fynd â'r gofynion polisi perthnasol a restrir yn Atodiad 6 . Gan ddibynnu ar nodweddion lleoliadol, ffisegol, adeiladu a gweithredol cynigion datblygu (ar safleoedd a ddyrannwyd a safleoedd eraill), bydd polisiâu perthnasol eraill yn cael eu cynnwys hefyd. Anogir ymgeiswyr i ymgysylltu â'r Cyngor cyn gynted â phosibl i drafod effeithiau tebygol cynigion datblygu a gofynion dylunio a gwybodaeth gysylltiedig ar gyfer ceisiadau cynllunio.

Amcanion y CDLI	SOBJ: 1, 2, 3, 4 Pob Amcan
Cymru'r Dyfodol	Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol Darparu Cartrefi Fforddiadwy
PCC	Tai Datblygu Economaidd Gwneud Lleoedd yn Strategol
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru ffyniannus Cymru gydnherth Gwneud Lle Strategol

Cynllun Llesiant Lleol	Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd
Tystiolaeth Allweddol	Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021) Adroddiad Dadansoddiad a Rhagolygon Demograffig (2019) ac Atodiad i'r Diweddariad Demograffeg (2020) Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021) Papur Cefndir y Dewisiadau Strategaeth Gofodol Papur Cefndir Dewisiadau Twf Strategol

4.3.25 Y Strategaeth Dwf

4.3.26 Mae'r CDLI hwn yn seiliedig ar lefel gytbwys a chynaliadwy o dwf economaidd a fydd yn hwyluso'r broses barhaus o weddnewid y Fwrdeistref Sirol yn rhwydwaith o gymunedau diogel, iach a chynhwysol a fydd yn cysylltu'n ehangach â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd a Rhanbarth Bae Abertawe. Mae'r **lefel twf arfaethedig o 505 o anheddau y flwyddyn** yn deillio o Senario POPGROUP sy'n Defnyddio blwyddyn sylfaen Amcangyfrif Canol Blwyddyn ONS 2019 ac yn calibradu ei ragdybiaethau mudo o gyfnod hanesyddol o chwe blynedd (2013/14–2018/19). Gwelodd y cyfnod hwn dwf cynaliadwy yn y boblogaeth a oedd yn rhannol gysylltiedig â nifer yr anheddau a gwblhawyd ledled y Fwrdeistref Sirol, ac mae'r CDLI Newydd yn ceisio parhau â hyn.

4.3.27 Bydd cynnal y llwybr hwn yn arwain at aelwydydd mwy sefydledig (yn enwedig o amgylch **grŵp oedran 35-44**) sy'n aros yn y Fwrdeistref Sirol ac yn symud i mewn iddi, ynghyd â llai o allfudo ar draws grwpiau oedran economaidd weithgar eraill. Bydd hyn yn annog sylfaen poblogaeth fwy ifanc a medrus i **wrthbwysu'r boblogaeth sy'n heneiddio**, gan arwain at gynnydd cyffredinol yn y boblogaeth o 9.4% neu 13,681 o bobl yn ystod cyfnod y cynllun. Bydd y lefel hon o dwf hefyd yn galluogi 1,977 o gartrefi fforddiadwy i gael eu darparu, a thrwy hynny gellir sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf posibl ar y cyd â ffynonellau eraill o gyflenwad tai fforddiadwy yng nghyd-destun hyfywedd ar draws y cynllun. Bernir mai'r Strategaeth Dwf hon yw'r ffordd fwyaf priodol a chynaliadwy o gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI fel y cânt eu cyfiawnhau yn y Papur Cefndir Dewisiadau Twf Strategol. Mae pob dewis arall rhesymol wedi ei asesu'n briodol hefyd o dan broses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd.

4.3.28 Bydd y cynnydd a ragwelir yn y boblogaeth o oedran gweithio a'r gofyniad o ran anheddau cysylltiedig sy'n tanategu'r CDLI hwn yn rhoi cyfle sylweddol i breswylwyr fyw a gweithio yn yr ardal, gan gefnogi twf o hyd at 500 o swyddi fesul blwyddyn. Nid yw'r lefel arfaethedig o dwf tai wedi ei chyfyngu mewn ffordd a allai rwystro datblygiad economaidd, na'i hybu mewn ffordd sy'n annog cymudo i mewn i'r ardal. Yn hytrach, mae'r amcanestyniad sylfaenol yn hybu mathau cynaliadwy o dwf a fydd yn helpu i leihau'r angen am gymudo allan ac yn hybu cymunedau mwy hunangynhwysol a chydgyssylltiedig yn unol â Gweledigaeth y CDLI. Ystyrir bod y lefel hon o dwf yn fwyaf ffafriol i sicrhau cydbwysedd rhwng nifer y cartrefi a ddarperir a'r cyfleoedd gwaith a ddisgwylir; cydbwysedd sy'n ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru.

4.3.29 Gellir egluro'r Strategaeth Dwf yn gryno gan ddefnyddio'r acronym '**CARM**' o'r Saesneg, sy'n crynhoi bwriad y Strategaeth i **Wrthbwysu'r boblogaeth sy'n heneiddio drwy Ddenu**

aelwydydd medrus, economaidd weithgar, **Cadw** aelwydydd medrus, economaidd weithgar a sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn **Fagned** i gyflogwyr symud i mewn iddi neu ehangu.

4.3.30 Y Strategaeth Ofodol

- 4.3.31 Mae SP1 hefyd yn nodi strategaeth ofodol glir i helpu i wireddu dyheadau a blaenoriaethau adfywio'r Cyngor, gan gydbwyso'r angen i gyflawni gofynion tai yn y dyfodol hyd at 2033. Mae'r Strategaeth yn blaenoriaethu datblygiadau tir yng nghyrion, neu ar gyrion, ardaloedd trefol cynaliadwy, yn bennaf ar safleoedd tir llwyd a ddatblygwyd yn flaenorol. Mae'n parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r dyraniadau adfywio tir llwyd a nodwyd yn y CDLI presennol, felly mae Porthcawl, Maesteg a Chwm Llynfi yn dal i gael eu dynodi'n flaenoriaethau adfywio, trwy eu dynodi'n Ardaloedd Twf Adfywio. Mae'r ymrwymiad parhaus i gyfleoedd datblygu tir llwyd yn yr aneddiadau hyn yn cydfynd â'r drefn chwilio am safle a amlinellir yn Polisi Cynllunio Cymru ac mae'n ceisio lleihau'r pwysau datblygiadol ar dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrrpas. Fodd bynnag, o ystyried llwyddiant y CDLI presennol o ran datblygu tir llwyd mewn aneddiadau eraill (yn enwedig Pen-y-bont ar Ogwr a Phorth y Cymoedd), prin yw'r cyfleoedd adfywio tir llwyd eraill sy'n weddill. Felly, mae'n ofynnol i safleoedd hyfyw a chyflawnadwy ychwanegol (gan gynnwys rhai safleoedd maes glas) weithredu SP1, darparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle bo angen mawr a sicrhau y gellir gwireddu gofynion tai y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.
- 4.3.32 Felly, mae SP1 hefyd yn dosrannu twf cynaliadwy i aneddiadau sydd eisoes yn elwa ar gyfleoedd gwasanaethau, cyfleusterau a chyflogaeth sylweddol ac sydd fwyaf ffafriol i alluogi datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafndiaeth; Ardaloedd Twf Cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys Prif Aneddiadau Pen-y-bont ar Ogwr a Phencoed ynghyd â Phrif Anheddiad y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli. Mae'r Strategaeth hon yn ceisio sicrhau y gall datblygiadau newydd gyflwyno gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith, gan gynnwys rhwydweithiau trafndiaeth, cyfleustodau, seilwaith gwyrdd, iechyd, addysg, tai fforddiadwy a chyfleusterau cymdeithasol.
- 4.3.33 Mae graddfa a lleoliad twf a nodwyd gan SP1 wedi eu dylanwadu gan ganfyddiadau'r Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) a'r Asesiad o Hyfywedd y Cynllun Cyfan. Datgelodd yr AFDL ddiffygion sylweddol o ran y ddarpariaeth o dai fforddiadwy ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl, Pencoed a'r Pîl, Mynyddcynffig a Gogledd Corneli. Hefyd nodwyd bod angen cymedrol am dai ym Maesteg a Chwm Llynfi, felly hefyd yr angen i amrywio'r stoc anheddau yn Anheddau'r Cymoedd. Mae'r Strategaeth hon yn cynnig y modd gorau posibl i fynd i'r afael â'r diffygion hyn yn y ddarpariaeth o dai fforddiadwy, gan helpu ar yr un pryd i wrthbwysu'r camgymhariad rhwng cyflenwad a galw. Yn wir, dangosodd Asesiad o Hyfywedd y Cynllun Cyfan a phrofi hyfywedd safle penodol y gallai'r safleoedd yn yr ardaloedd hyn gynnal cyfraniadau tai fforddiadwy dim grant sylweddol (cyfeirir at COM2). Ystyrir y strategaeth felly yr un fwyaf priodol i sicrhau'r cyfleoedd gorau i ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd o angen mawr fel y nodwyd gan yr AFDL, gan alluogi mathau cynaliadwy o ddatblygu sy'n bodloni Amcanion y CDLI, lleihau pwysau ar dir gorau a mwyaf amlbwrrpas (BMV) a rhoi cyfle i fynd i'r afael â phroblemau capasiti seilwaith presennol. Mae'r Papur Cefndir Opsiynau ar gyfer Strategaeth Ofodol yn cyfiawnhau'r Strategaeth hon drwy werthuso amrywiaeth

o opsiynau gofodol, gyda phob un wedi ei ystyried yn ddewis amgen rhesymol ac wedi ei asesu'n bellach o dan y broses arfarniad o gynaliadwyedd (SA).


- 4.3.34 Er mwyn galluogi safleoedd adfywio tir llwyd presennol i ddod ymlaen gan hwyluso twf atodol ar safleoedd cynaliadwy mewn mannau eraill, mae SP1 yn diffinio dau fath priodol o Ardal Dwf: Ardaloedd Twf Adfywio ac Ardaloedd Twf Cynaliadwy. Nodwyd Ardaloedd Twf Adfywio wrth iddynt ddangos y gallu i capasiti ar gyfer twf mewn modd cynaliadwy, yn bennaf drwy'r cyfleoedd ailddatblygu tir llwyd sylweddol yn eu hamgylchyniadau. Lleoliadau sy'n dangos y potensial mwyaf i ddenu mewnfuddsoddiad sy'n seiliedig ar adfywio ydynt. Byddant yn mynd i'r afael ag ystod eang o faterion economaidd-gymdeithasol ac yn ategu mentrau adfywio yn y gymuned. Yn yr un modd, nodwyd Ardaloedd Twf Cynaliadwy fel yr ardaloedd sydd fwyaf ffafriol i dwf trefol cynaliadwy ac ehangu trefol priodol mewn modd a fydd yn sicrhau y gellir bodloni gofynion tai y Fwrdeistref Sirol. Mae Ardaloedd Twf Cynaliadwy wedi eu blaenoriaethu ar gyfer twf yn seiliedig ar yr angen lleol am dai a nodwyd, hygyrchedd, yr amwynderau a'r ddarpariaeth gyflogaeth sydd ar gael yng nghyd-destun eu canolfannau poblogaeth presennol a'u safle yn yr hierarchaeth aneddiadau. Mae'r ddau fath gwahanol hyn o Ardal Dwf, sy'n atgyfnerthu ei gilydd, yn ceisio cyfeirio mwyafrif y gweithgareddau mewnfuddsoddi, datblygu cynaliadwy ac adfywio i'r lleoedd mwyaf priodol. Cafodd adolygiad o gyfyngiadau cynaliadwyedd a chyfleoedd sy'n effeithio ar yr Ardaloedd Twf Adfywio a Thwf Cynaliadwy (a Safleoedd Strategol posibl ynddynt) drwy'r Arfarniad o Gynaliadwyedd. Roedd hyn yn dilysu addasrwydd eang yr Ardaloedd Twf hyn ar gyfer dynodiad o'r fath ac fe'i cynhwysir ar ffurf atodiad i Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y Cynllun Adneuo.
- 4.3.35 Mae SP1 hefyd yn nodi Ardaloedd Adfywio, sy'n wahanol i'r ddau fath o Ardal Dwf ac nid ydynt wedi eu nodi yn amgylchyniadau sy'n addas i ddarparu ar gyfer twf sylweddol drwy ehangu. Yn hytrach, mae'r dynodiad hwn yn cydnabod yr angen am ddulliau unigryw o gyflwyno datblygiadau yn yr ardaloedd hyn, sydd wedi eu galluogi ar raddfa a natur sydd wedi eu haddasu i anghenion y gymuned, gan amrywio a chryfhau economïau lleol, cysylltu cymunedau â chyfleoedd ehangach a diogelu eu hamgylcheddau o ansawdd uchel.
- 4.3.36 Mae'r Diagram Strategol ar y dudalen nesaf yn darlunio'r mathau o dwf a gynnigir ledled y Fwrdeistref Sirol, ac fe'u crynhoir yn gyffredinol fel hyn:
- **Ardaloedd Twf Adfywio**, sy'n ceisio darparu'n bennaf safleoedd y mae angen eu hailddatblygu a buddsoddi ynddynt er budd y gymuned, gan gydnabod y posibilrwydd y bydd angen amser paratoi hirach weithiau;
 - **Ardaloedd Adfywio**, sy'n cynnwys aneddiadau a fyddai'n elwa ar adfywio cymunedol, gan gydnabod bod angen dulliau gweithredu ar lefel leol er mwyn ysgogi cyfleoedd buddsoddiad cymunedol; ac
 - **Ardaloedd Twf Cynaliadwy**, sy'n cynnwys yr aneddiadau sydd fwyaf addas i'w hehangu'n rhesymegol drwy ddarparu safleoedd nas defnyddir yn ddigonol yn eu hardal weithredol a/neu ar eu cyrion er mwyn annog datblygu sy'n canolbwyntio ar ddatblygiadau pontio.

4.3.37 Er mai'r Ardaloedd Twf Adfywio a'r Ardaloedd Twf Cynaliadwy fydd prif bwyslais y datblygiadau arfaethedig, bydd yr aneddiadau a nodir yn SF1 hefyd yn darparu cyfleoedd i ddatblygu o fewn ffiniau eu priod aneddiadau. Ystyrir hyn yn yr Astudiaeth Gallu Trefol. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod gan rai lleoedd fwy o botensial nag eraill i hwyluso'r broses o greu lleoedd cynaliadwy, a bod gallu aneddiadau i hwyluso twf yn dibynnu hefyd ar eu rôl, eu swyddogaeth a'u capasiti unigol.

Ffigur 2; Diagram Strategol

CYNLLUN DATBLYGU LLEOL STRATEGAETH TWF CYNALIADWY AC ADFYWIAD

Diagram Strategol



4.3.38 Ardaloedd Twf Adfywio

- 4.3.39 Diffiniad cyffredinol adfywio yw 'proses gyffredin sy'n cyflwyno buddsoddiad a chyfleoedd cymunedol i ardaloedd er mwyn gwella eu nodweddion ffisegol, economaidd a chymdeithasol'. Mae'r gweithgareddau presennol sy'n ymwneud ag adfywio yn y Fwrdeistref Sirol yn eang, er y byddai modd gwella a diogelu'r broses o ddarparu rhai o'r gweithgareddau hyn (yn gyfan gwbl neu'n rhannol) drwy sicrhau bod datblygiadau newydd yn digwydd mewn ardaloedd penodol, sef Ardaloedd Twf Adfywio ac Ardaloedd Adfywio.
- 4.3.40 **Lleoliadau sy'n dangos gallu sylweddol i ddarparu ar gyfer twf a arweinir gan adfywio mewn modd cynaliadwy yw Ardaloedd twf Adfywio. Bydd nifer o safleoedd (tir llwyd yn bennaf) y mae angen eu hailddatblygu a buddsoddi ynddynt yn cael eu clustnodi yn yr Ardaloedd hyn yn rhan o ymgyrch i fynd i'r afael ag ystod eang o faterion economaidd-gymdeithasol ac i ategu adfywio yn y gymuned.**
- 4.3.41 Ceir dyraniadau mewn Ardaloedd Twf Adfywio â'r nod o alluogi twf mewn modd sy'n denu mewnffuddsoddiad, sy'n ysgogi nifer y bobl mewn canol trefi, sy'n gwella cydlyniaid cymunedol ac sy'n rhoi hwb i broffil yr ardaloedd yn y tymor hwy. Hefyd, bydd yr effaith luosydd sy'n dilyn yn helpu i ddenu pobl â sgiliau, ymwelwyr a busnesau i Ardaloedd Twf Adfywio er mwyn cefnogi rhagor o dwf, gan fanteisio'n llawn ar ddatblygu cynaliadwy. Ni fydd modd cyflawni hyn heb Ddull Gweithredu Un Cyngor, a bydd y CDLI yn darparu fframwaith cyffredin ar gyfer darpariaeth sy'n arwain at newid hirdymor.
- 4.3.42 Mae'r Ardaloedd Twf Adfywio wedi eu llunio ar sail lefel y datblygiad sydd ei angen i gael effaith adfywiol arwyddocaol, y safleoedd tir llwyd sydd ar gael i'w datblygu mewn ardal, patrymau aneddiadau presennol, swyddogaeth a hunaniaeth economaidd-gymdeithasol aneddiadau, a'r ystyriaethau amgylcheddol perthnasol. Bydd twf sy'n seiliedig ar adfywio yn cael ei gyfeirio'n benodol at rannau o'r Fwrdeistref Sirol a fydd yn elwa arno fwyaf ac ar ardaloedd sy'n arddangos cyfleoedd i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol mwyaf sy'n deillio o'r cyfryw dwf.
- 4.3.43 Yn benodol, dyrennir Porthcawl yn Ardal Twf Adfywio a hwylusir drwy ailddatblygu Ardal Adfywio'r Glannau. Mae'r dynodiad hwn yn ceisio cydbwysu buddiannau twristiaeth â buddiannau datblygu economaidd ac ystyriaethau amgylcheddol er mwyn hybu datblygiad cynaliadwy a arweinir gan y broses o wneud lleoedd. Bydd adfywiad sylweddol glannau Porthcawl yn manteisio ar swyddogaeth y dref o fod yn brif gyrchfan glan môr a thwristiaeth, gan wella atyniad y dref fel lle i fyw a gweithio ynddi a gwella bywiogrwydd Canol y Dref. Mae gwaith uwchgynllunio, ymarferoldeb a hyfywedd manwl wedi ei gwblhau er mwyn dangos y gall y safle hwn ddod ymlaen a chyfrannu at y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai yn ystod cyfnod y CDLI Newydd.
- 4.3.44 Ceir cydnabyddiaeth glir hefyd o'r angen i sicrhau manteision adfywio ehangach i gymunedau'r Cymoedd ar raddfa sy'n cydnabod eu capasiti seilwaith, eu topograffeg a'u cyfyngiadau daearyddol. Felly, neilltuir Maesteg a Chwm Llynfi hefyd yn Ardal Twf Adfywio, sy'n adlewyrchu'r ffaith ei bod yn dangos y capasiti mwyaf i ddarparu ar gyfer twf a arweinir gan adfywio yng nghymunedau'r Cymoedd. Mae safleoedd unigol yn yr ardal hon sydd eisoes yn cael budd o ganiatâd cynllunio neu sy'n destun

cyfarwyddiadau datblygu neu ymarferion uwchgynllunio er mwyn hwyluso'r gwaith o'u cyflawni a'u hadfywio. Hefyd, mae nifer sylweddol o'r safleoedd hyn yn safleoedd tir llwyd neu'n safleoedd nas defnyddir yn ddigonol, ac mae ganddynt gysylltiadau â chanolfannau trafniadaeth, gan amlygu potensial mawr o safbwynt datblygu cynaliadwy a creu lleoedd. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd rhai o'r safleoedd hyn yn fwy ymarferol a hyfyw ar unwaith o'u cymharu ag eraill oherwydd cyfyngiadau sy'n benodol i safleoedd. Felly, ni fydd y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai yn ddibynnol ar bob safle yn yr Ardal Twf Adfywio hon, oherwydd bydd angen amseroedd paratoi hirach ar rai, gwaith galluogi paratoadol sy'n seiliedig ar adfer a strategaethau manylach i hwyluso'r broses o gyflawni hyn (gweler COM1).

4.3.45 Nid yw Cwm Ogwr na Chwm Garw wedi eu nodi'n ardaloedd a fydd yn darparu ar gyfer twf arwyddocaol, oherwydd eu cyfyngiadau topograffaid a hyfywedd. Fodd bynnag, byddai'r ardaloedd hyn yn elwa ar adfywio yn y gymuned, ac felly fe'u dynodir yn **Ardaloedd Adfywio**, er mwyn cydnabod y ffaith fod angen dulliau gweithredu amrywiol i sbarduno cyfleoedd buddsoddi cymunedol. **Nod Ardaloedd Adfywio yw galluogi datblygiad ar raddfa a natur sy'n addas i anghenion cymunedol, gan amrywio a chryfhau'r economi leol, cysylltu cymunedau â chyfleoedd ehangach a diogelu eu hamgylchedd o ansawdd uchel.** Felly, mae Ardaloedd Adfywio yn ceisio manteisio ar eu hamgylchedd gwledig er mwyn hybu ffyrdd gweithgar o fyw, cynyddu'r diwydiant twristiaeth a hwyluso datblygiad ar raddfa lai, ar safleoedd tir llwyd, yn bennaf. Mae'r elfen olaf hon yn cydnabod bod angen dulliau gweithredu unigryw i sicrhau datblygiad yn yr ardaloedd hyn a allai gynnwys mentrau megis tai cydweithredol, plotiau i bobl adeiladu eu tai eu hunain, a chyfleoedd i adeiladu tai pwrpasol ochr yn ochr â dulliau datblygu eraill.

4.4.46 Ardaloedd Twf Cynaliadwy

4.3.47 Mae'r Strategaeth Ofodol a Arweinir gan Adfywio a oedd yn tanategu'r CDLI blaenorol wedi bod yn llwyddiannus yn gyffredinol, yn enwedig wrth ddarparu nifer o safleoedd preswyl a defnydd cymysg dynodedig (ar safleoedd tir llwyd yn bennaf) yn y Fwrdeistref Sirol. Fodd bynnag, mae llai o gyfle bellach i gyflawni strategaeth a arweinir yn llwyr gan adfywio oherwydd prin yw'r safleoedd tir llwyd nas datblygwyd sy'n weddill ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r Prif Aneddiadau eraill y bernir eu bod yn gallu darparu ar gyfer twf cynaliadwy (h.y. Pencoed a'r Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli). Felly, mae angen i'r dull hwn gael ei ategu gan dwf trefol cynaliadwy ychwanegol er mwyn darparu ar gyfer y gofyniad tai sy'n tanategu'r CDLI.

4.3.48 Felly, mae Papur Cefndir y Dewisiadau Strategaeth Gofodol wedi gwerthuso sut y gall gwahanol ddosbarthiadau gofodol o dwf leihau'r golled tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a ragwelir, gan gydnabod yr angen i gydbwyso ffactorau cyflenwi a galw eraill. Mae'r rhain yn cynnwys canfyddiadau'r Asesiad o Aneddiadau, Asesiad o'r Farchnad Dai Leol a'r Astudiaeth Hyfywedd ar draws y Cynllun. Hefyd, mae'r Papur Cefndir Lleihau Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a Gollir wedi llywio'r dyraniadau mwyaf addas mewn Ardaloedd Twf Cynaliadwy mewn modd sy'n lleihau'r tir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a gollir.

- 4.3.49 Mae'r broses hon wedi llywio'r broses o ddynodi **Ardaloedd Twf Cynaliadwy, sef yr aneddiadau sydd fwyaf addas i'w hehangu'n rhesymegol drwy ddarparu safleoedd nas defnyddir yn ddigonol yn eu hardal weithredol a/neu ar eu cyrion.** Mae'r Ardaloedd Twf Cynaliadwy wedi eu nodi ar sail eu hygyrchedd, yr amwynderau a'r ddarpariaeth gyflogaeth sydd ar gael (ystod a maint) yng nghyd-destun eu poblogaethau presennol, a'u lleoliadau yn yr hierarchaeth aneddiadau. Dosreennir twf i'r aneddiadau hyn yn seiliedig ar y ffactorau a ganlyn: eu potensial i gyfrannu at ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle bo angen mawr, a'u galluoedd trefol i hwyluso lefelau cynaliadwy a phatrymau datblygu, gan gydnabod y bydd angen darparu seilwaith cysylltiedig hefyd. Mae'r broses o ddyrannu safleoedd wedi dilyn yn llym y **Drefn o Chwilio am Safleoedd** a amlinellir yn Polisi Cynllunio Cymru, sy'n golygu bod rhai safleoedd maes glas wedi eu neilltuo i'w datblygu o ystyried y diffyg safleoedd tir llwyd nas datblygwyd sy'n weddill yn y cyffiniau hyn. Y nod cyffredinol yw hwyluso darpariaeth tai newydd sydd ar gael ar gyfer ystod o swyddi a gwasanaethau drwy ddulliau trafnidiaeth aml-foddol, sy'n golygu bod trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo yn ymarferol ar gyfer teithiau ystyrlon. Hefyd, bydd y Strategaeth hon yn cynyddu potensial cysylltedd rhanbarthol i'r eithaf ac yn sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn parhau i gyflawni swyddogaeth gyflogaeth is-ranbarthol wrth i'r gweithlu medrus gynyddu, gan ddenu cyflogwyr.

Dosbarthiad Gofodol

- 4.3.50 Mae Tabl 6 yn dangos maint a chyfran cyflenwad tai (yn cynnwys tai wedi'u cwblhau, unedau â chaniatâd cynllunio, dyraniadau tai newydd, hap-sefleoedd mawr a hap-safleoedd bychain) o'u cymharu â thir cyflogaeth gwag a ddyrannwyd yn y CDLI fesul ardal. Mae'r tabl yn dangos sut mae cyflogaeth a datblygiadau preswyl newydd yn cael eu cyfeirio at ardaloedd penodedig er mwyn mynd i'r afael â'r materion a'r amcanion sydd yn y Cynllun. Mae'r dosbarthiad gofodol hwn yn adlewyrchu'r Hierarchaeth Aneddiadau (SF1) a'r Strategaeth Ofodol er mwyn sicrhau bod lleoedd cynaliadwy yn cael eu datblygu, gan atgyfnerthu egwyddorion creu lleoedd. Bydd y rhan fwyaf o'r twf yn cael ei gynnwys yn yr Ardaloedd Twf Adfywio a'r Ardaloedd Twf Cynaliadwy, er y cydnabyddir y bydd yn ofynnol i aneddiadau eraill yn y Fwrdeistref Sirol ddarparu ar gyfer graddfeydd llai o ddatblygiad a thwf yn y dyfodol yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau. Mae hyn yn bwysig er mwyn cynnal cymunedau cynaliadwy, yn unol â'u rôl a'u swyddogaeth, er mwyn cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI.
- 4.3.51 Pen-y-bont ar Ogwr yw'r prif faes twf o hyd i adlewyrchu ei statws o fod yn anheddiad is-ranbarthol sy'n ganolbwynt ar gyfer datblygu masnachol, gwasanaethau a chyflogaeth i ddiwallu anghenion ardal eang y tu hwnt i ffiniau'r Fwrdeistref Sirol. Felly, mae cyfran y tir cyflogaeth gwag yn fwriadol uwch na thwf y tai mewn termau cymharol. Mae aliniad cymesur o ran tai a swyddi ym Mhen-coed, ac, i raddau llai yn y Pîl, Mynyddcynffig o Gogledd Corneli, er bod trigolion yr anheddau hyn yn elwa ar nifer o opsiynau teithio cynaliadwy er mwyn gweithio ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar ymhellach yn rhanbarthol. Ym Maesteg a Chwm Llynfi, mae datblygiad cyflogaeth yn cyd-fynd yn gymesur â datblygiadau preswyl er mwyn helpu i ddarparu lefel gynaliadwy a realistig o dwf. Cydnabyddir yr anghydbwysedd ym Mhorthcawl, er ei bod yn debygol y bydd mwyafrif y gyflogaeth yn y dref yn parhau i gael ei darparu drwy dwf cynlluniedig yn y sectorau masnachol, hamdden a thwristiaeth. Y tu hwnt i'r Ardaloedd Twf, bydd

Porth y Cymoedd yn cael ei gynnal fel lleoliad cyflogaeth pwysig, sy'n gwasanaethu'r wlad o'i amgylch yn ogystal â Chwm Ogwr a Chwm Garw. Fodd bynnag, mae materion capasiti trafnidiaeth yn atal datblygiad sylweddol ychwanegol yn yr ardal hon ar hyn o bryd (gweler Papur Cefndir Cyffordd 36 yr M4).

Tabl 6: Dosbarthiad Gofodol Tai a Chyflogaeth, 2018-2033

Anheddiad	Tai (Unedau)	Canran	Tir Cyflogaeth Gwag (Hectarau/Swyd di)	Canran
Ardaloedd Twf Adfywio				
Maesteg (Prif Anheddiad – Haen 2)	685	7%	3.5 ha	5%
Porthcawl (Prif Anheddiad – Haen 2)	1,277	14%	0	0%
Ardaloedd Twf Cynaliadwy				
Pen-y-bont ar Ogwr (Prif Anheddiad Allweddol – Haen 1)	4,190	46%	50.2ha	70%
Pencoed (Prif Anheddiad – Haen 2)	843	9%	6.4ha	9%
Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli (Prif Anheddiad – Haen 2)	1,190	13%	4.83	6%
Y Tu Hwnt i Ardaloedd Twf Adfywio ac Ardaloedd Twf Cynaliadwy				
Porth y Cymoedd (Prif Anheddiad – Haen 3)	675	7%	6.4 ha	9%
**Aneddiadau Eraill (Haen 3)	347	4%	0.4ha	1%
Cyfanswm	9,207	100%	71.7 ha / 7,500 o swyddi	100%

4.3.52 Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy yn ôl Teipoleg y Safleoedd

4.3.53 Yn ogystal â'r raddfa a'r ystod eang o ardaloedd twf a nodir ym Mholisi SP1, mae'n bwysig egluro'r mathau gwahanol o safleoedd a fydd yn bodloni'r gofynion twf nodedig ar y cyd. Mae angen cyfuniad o wahanol deipolegau safle er mwyn bodloni gofynion twf y CDLI. Mae'r rhain yn cynnwys nifer cyfyngedig o **Estyniadau Trefol Cynaliadwy**, a gefnogir gan **Ddyraniadau Ymyl Aneddiadau** a **Safleoedd Aneddiadau Lleol**. Bydd y Strategaeth hon yn galluogi'r Cyngor i gyflawni datblygiadau mor gynaliadwy â

phosibl, bodloni Amcanion y CDLI a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau capasiti sy'n bodoli ar hyn o bryd. Disgrifir y gwahanol deipolegau safle ymhellach isod, sy'n rhoi cyd-destun ychwanegol at ddosbarthiad gofodol twf. Priodolir hyn i ddatblygu cymaint â phosibl o dir llwyd priodol yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, gan ddarparu hefyd nifer cyfyngedig o safleoedd cynaliadwy ychwanegol i'w datblygu (gan gynnwys rhai safleoedd maes glas) er mwyn darparu ar gyfer y twf arfaethedig a nodir yn SP1.

Safleoedd Adfywio

- 4.3.54 Safleoedd tir llwyd mawr sy'n ffafriol iawn i ddatblygu cynaliadwy ac i gyflawni'r ystod lawn o egwyddorion creu lleoedd a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru yw Safleoedd Adfywio. Maent yn raddau angenrheidiol o barhad gyda'r CDLI mabwysiedig cyntaf ac maent yn hanfodol i weithredu'r strategaeth adfywio hirdymor a ymgorfforir yng Ngweledigaeth y CDLI Newydd. Neilltuir Safleoedd Adfywio mewn rhannau o'r Fwrdeistref Sirol a fydd yn elwa fwyaf o dwf a arweinir gan adfywio; lle bo cyfleoedd sylweddol yn bodoli i fynd i'r afael â halogiad, cyfyngiadau a/neu etifeddiaethau diwydiannol, gan annog twf economaidd. Fodd bynnag, ni fydd y cyflenwad o dir sydd ar gael ar gyfer tai yn dibynnu ar bob un o'r Safleoedd Adfywio hyn, sy'n cydnabod y ffaith y bydd angen mwy o amser paratoi, gwaith adfer cyn-ddatblygu a/neu uwchgynlluniau strategol manylach ar rai ohonynt cyn y gellir eu darparu.
- 4.3.55 Mae Safleoedd Adfywio, o ran eu natur, yn cael eu lleoli mewn aneddiadau presennol, a bydd ganddynt gysylltiadau agos â hybiau, gwasanaethau a chyfleusterau trafnidiaeth sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, mae lleoliad a graddfa unigol dyraniadau o'r fath yn ystyriaethau pwysig iawn o safbwynt eu gallu i sicrhau datblygu cynaliadwy drwy greu lleoedd. Felly, caiff Safleoedd Adfywio eu gwasanaethu'n dda gan y seilwaith presennol, ac mae angen iddynt fod yn ddigon mawr i gyfrannu at welliannau gofynnol i'r seilwaith a/neu helpu i ddarparu seilwaith ategol newydd.

Estyniadau Trefol Cynaliadwy.

- 4.3.56 Mae Estyniadau Trefol Cynaliadwy yn cynnwys nifer fach o safleoedd strategol a neilltuir i ddarparu hyd at 2,000 o gartrefi a seilwaith a chyfleusterau cysylltiedig, gan ddibynnu ar addasrwydd y safle a'r gofynion datblygu. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn creu cymunedau cynaliadwy a fydd yn cynnwys defnyddiau ategol ac yn gwella'r seilwaith presennol a/neu'n darparu seilwaith ategol newydd. Yn wir, mae'r ffactor olaf hwn yn enwedig o berthnasol o ystyried y problemau capasiti ysgolion ledled y Fwrdeistref Sirol a'r angen i sicrhau, ar y lleiaf, fod graddfa safleoedd strategol newydd yn ddigon mawr i helpu i ddarparu ysgol gynradd newydd. Neilltuir safleoedd Estyniadau Trefol Cynaliadwy lle gallant gefnogi orau Weledigaeth ac Amcanion y CDLI Newydd a lle gallant ddarparu datblygiad defnydd cymysg ar raddfa a fydd yn gwella cymunedau. Gwnaed y gwaith o nodi Estyniadau Trefol Cynaliadwy priodol yn llawn yn unol â'r Drefn Chwilio am Safleoedd a gofynion eraill a nodir yn Polisi Cynllunio Cymru, fel y dogfennir yn y dystiolaeth ategol i'r Cynllun Adneuo. Mae hyn yn cynnwys yr Asesiad Darpar Safleoedd, Papur Cefndir y Dewisiadau Strategaeth Gofodol a Phapur Cefndir Lleihau Colli Papur Lleihau Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas.

Ymyl Anheddiad

- 4.3.57 Mae dyraniadau Ymyl Anheddiad yn cynnwys safleoedd ar gyfer datblygiadau preswyl yn bennaf (cannoedd o gartrefi fel arfer) a fydd yn ymestyn ffin yr anheddiad mewn nifer fach o gymunedau sydd wedi eu sefydlu. Ni neilltuir y safleoedd hyn oni ystyrir bod modd sicrhau twf ychwanegol heb yr angen o reidrwydd i ddarparu cyfleusterau na seilwaith ychwanegol arwyddocaol ar y safle. Pan nodir angen ar gyfer cyfleusterau a/neu seilwaith ychwanegol er mwyn cefnogi ac ategu darpar safle Ymyl Anheddiad, gallai fod yn fwy priodol darparu hyn 'oddi ar y safle' ar y cyd â'r cynigion datblygu. Bydd safleoedd Ymyl Anheddiad yn arwain at fân estyniadau i ffiniau aneddiadau presennol pan ystyrir eu bod yn briodol yn unol ag SP1 ac er mwyn cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI Newydd. Bydd estyniadau o'r fath yn cynnwys un safle ar raddfa fawr neu nifer o safleoedd sy'n agos at ei gilydd sydd, ar y cyd, yn darparu'r cwantwm hwn o dai.
- 4.3.58 Dim ond pan ddangosid yn glir bod capasiti i ddarparu ar gyfer y lefel briodol o dwf yn yr anheddiad a/neu pan ddarperid y gwelliannau cyfleusterau a seilwaith angenrheidiol i gefnogi'r datblygiad y neilltuid safleoedd. Ystyrir bod hyn yn hollbwysig er mwyn osgoi effeithio'n negyddol ar gymunedau lleol drwy waethgu problemau lleol fel arall.

Safleoedd Aneddiadau Lleol, gan gynnwys lleoliadau gwledig/lled-wledig cyfyngedig

- 4.3.59 Cyfyngir ar safleoedd addas mewn ardaloedd gwledig/lled-wledig i fân newidiadau ffiniau aneddiadau mewn lleoliadau pentrefi a chyrion trefi priodol, mewn achosion lle byddai cymeriad presennol y pentref neu'r anheddiad yn cael ei gynnal neu ei wella. Ym mhob achos, mae'r safleoedd a nodir neu a neilltuir yn adlewyrchu hierarchaeth yr anheddiad.

Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy

- 4.3.60 Yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru, bydd Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy yn hwyluso'r broses o ddarparu cynlluniau tai fforddiadwy bach gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn neu wrth ymyl aneddiadau sydd eisoes yn bodoli yng nghefn gwlad. Er bod y Cyngor yn ffafrio datblygiadau y tu mewn i ffiniau diffiniedig yr anheddiad, mae safleoedd eithriadau yn cydnabod y gallai rhai ffactorau sy'n benodol i'r ardal (megis prinder tir i'w ddatblygu a phrisiau tir uchel) amharu ar y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn y modd hwn. Ni fydd safleoedd eithriadau yn cael eu neilltuo'n benodol yn y CDLI, a dyna pam maent yn cael eu hystyried yn eithriadau i'r ddarpariaeth tai cyffredinol. Yn hytrach, cânt eu hasesu o dan bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf COM5 ac maent yn ffordd o ddarparu tai fforddiadwy mewn ardaloedd ble gallai fod yn anodd diwallu'r angen am dai fel arall.
- 4.3.61 Dim ond pan fo angen lleol wedi ei nodi drwy Asesiad o'r Farchnad Dai Leol, pan fo'r safle y tu mewn i ffin anheddiad sydd eisoes yn bodoli, neu'n agos ati, a phan y'u rheolir gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig er mwyn sicrhau fforddiadwyedd yn y dyfodol y caniateir tai fforddiadwy yng nghefn gwlad. Hefyd, bydd angen i gynigion o'r math hwn gyd-fynd â pholisïau perthnasol y CDLI Newydd a'r CDLI Newydd pan y'i darllenir

yn ei gyfanrwydd. Rhoddir ystyriaeth ddyladwy i safle, graddfa a dyluniad datblygiadau o'r fath er mwyn sicrhau bod modd darparu ar eu cyfer yn gynaliadwy o safbwynt seilwaith, mynediad a chadwraeth cynefinoedd a thirwedd. Hefyd, dylai datblygiadau gael eu lleoli'n dda er mwyn manteisio ar y ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol presennol. Fodd bynnag, bydd datblygiadau newydd yng nghefn gwlad sy'n bell oddi wrth aneddiadau presennol yn parhau i gael eu rheoli'n llym.

4.3.62 Ni fydd Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy yn cynnwys mwy na 10 uned, sef y maint priodol ar gyfer clwstwr cynaliadwy o unedau fforddiadwy. Gall safleoedd mwy o ran maint amharu ar y broses o gynnal cymuned gytbwys â deiliadaeth gymysg, ac felly ni fyddant yn bodloni diffiniad teipoleg safle o'r fath.

4.3.63 **Dyraniadau Strategol**

4.3.64 Er mwyn galluogi gweithredu'r Strategaeth Twf a Gofodol, mae SP2 yn diffinio cyfres o Ddyraniadau Strategol lle bydd twf yn cael ei ganolbwyntio. Felly, mae SP2 yn adeiladu ar SP1 a Thabl 1 drwy gyfeirio twf at Safleoedd Adfywio ac Estyniadau Trefol Cynaliadwy yn yr Ardaloedd Twf Adfywio a'r Ardaloedd Twf Cynaliadwy a nodwyd. Mae lleoliad a graddfa'r safleoedd hyn yn cynnig cyfleoedd am ddatblygiadau newydd sylweddol yn ystod cyfnod y cynllun er mwyn helpu i fodloni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI a sicrhau bod y Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy yn cael ei gweithredu. Bydd datblygu'r safleoedd hyn ar y cyd yn arwain at ddarparu datblygiadau preswyl, cyflogaeth a masnachol cynhwysfawr gan ddarparu cyfleusterau trafnidiaeth, tai fforddiadwy, cymunedol, addysgol a hamdden newydd er mwyn gwasanaethu'r safleoedd priodol a'r cymunedau presennol. Ceir disgrifiadau o'r safleoedd a neilltuir o dan Bolisi SP2 yn PLA1-5 ac mae eu cydrannau defnydd tir unigol yn y Polisiâu CDLI dilynol ac ar y Map Cynigion. Mae'r safleoedd hyn (ynghyd â'r holl ddarpar safleoedd eraill) wedi bod yn ddarostyngedig i Arfarniad o Gynaliadwyedd cymesur, gan ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol, ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd er mwyn nodi'r effeithiau amgylcheddol a chynaliadwyedd ehangach sy'n debygol o ddeillio o'u cyflawni, gan lywio'r safleoedd a neilltuir.

SP2: Dyraniadau Strategol ar gyfer Ardaloedd Twf Adfywio ac Ardaloedd Twf Cynaliadwy

Caniateir adfywio safleoedd tir llwyd a safleoedd nas defnyddir yn ddigonol mewn aneddiadau diffiniedig sy'n darparu cymysgedd priodol o ddefnyddiau tir.

Mae'r Safleoedd Adfywio canlynol wedi eu neilltuo'n benodol mewn Ardaloedd Adfywio a Thwf fel safleoedd strategol defnydd cymysg (hamdden, manwerthu a phreswyl):

Ardal Twf Adfywio Porthcawl

SP2 (1) Ardal Adfywio Glannau Porthcawl

Ardal Twf Adfywio Maesteg a Chwm Llynfi

Gweler Polisi COM1 ar gyfer Dyraniadau Tai

Mae'r Estyniadau Trefol Cynaliadwy canlynol wedi eu neilltuo'n benodol mewn Ardaloedd Twf Cynaliadwy fel safleoedd strategol defnydd cymysg (hamdden, manwerthu a phreswyl):

Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr

SP2 (2) Tir i'r De o Ben-y-bont ar Ogwr (Island Farm)

SP2 (3) Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr

Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed

SP2 (4) Tir i'r Dwyrain o Bencoed

Ardal Twf Cynaliadwy y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli

SP2 (5) Tir i'r Dwyrain o'r Pîl

Mae'n rhaid datblygu pob un o'r Dyraniadau Strategol uchod yn unol â'r polisiau sy'n benodol i'r safle a'r egwyddorion datblygu uwchgynllun cysylltiedig a nodir yn y CDLI Newydd (PLA1-5). Bydd angen datblygu uwchgynllun manwl yn unol â hyn, gan gytuno arno gyda'r Cyngor, cyn i'r datblygiad ddechrau.

Amcanion y CDLI	SOBJ: 1, 2, 3, 4 OBJ: 1a, 1c, 1d, 1e, 1f, 2b, 2c, 2d, 2e, 2f
Cymru'r Dyfodol	Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol Darparu Cartrefi Fforddiadwy
PCC	Tai Datblygu Economaidd Gwneud Lleoedd yn Strategol
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru ffyniannus Cymru gydnerth Gwneud Lle Strategol
Cynllun Llesiant Lleol	Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd
Tystiolaeth Allweddol	Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021) Papur Cefndir y Dewisiadau Strategaeth Gofodol Papur Cefndir Dewisiadau Twf Strategol

4.3.65 Ystyrir bod y safleoedd yn SP2 yn hanfodol i gyflawni'r CDLI ac maent wedi bod yn ddarostyngedig i brofion hyfywedd a chyflawni trwyadl mewn cydweithrediad â hyrwyddwyr safleoedd penodol. Mae'r broses hon wedi ardystio bod costau'r gofynion datblygu a'r egwyddorion creu lleoedd a nodir mewn polisiau sy'n benodol i safleoedd ynghyd â dyheadau'r Cyngor ar gyfer darparu cymunedau newydd o ansawdd uchel yn realistig ac yn gyraeddadwy ar bob safle o fewn cyfnod y cynllun.

5. Gweithredu a Chyflawni

5.1 Cyflwyniad

- 5.1.1 Mae'r Weledigaeth a'r Amcanion Strategol yn darparu fframwaith trosfwaol i danategu holl elfennau eraill y CDLI Newydd a ddyfeisiwyd i greu'r amodau cywir i fynd i'r afael â'r canlyniadau cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol, economaidd a llesiant amrywiol. Mae'r Bennod ganlynol yn nodi'r Polisiâu Rheoli Strategol a Datblygu sy'n weddill, sy'n deillio o'r Fframwaith Strategol ac sy'n sail i weithredu a chyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion Strategol. Fel gyda phob elfen arall o'r CDLI, mae'r holl bolisiâu strategol yn ategu ei gilydd o ran cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Nodau Llesiant cenedlaethol, yr Amcanion Llesiant lleol a datblygu cynaliadwy. Felly, nodwyd cysylltiadau rhwng pob polisi strategol a nodau llesiant perthnasol ac mae'r holl bolisiâu strategol wedi bod yn ddarostyngedig i Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol.
- 5.1.2 Mae'r holl bolisiâu'n gydgysylltiedig o ran eu natur ac mae angen eu darllen ar y cyd â'i gilydd er mwyn cael dealltwriaeth o gyfeiriad polisi cyffredinol y CDLI Newydd. Mae pob adran yn tynnu sylw at y polisi strategol perthnasol, gan gefnogi cyfiawnhad a chroesgyfeiriadau ag Amcanion y CDLI. Ceir 'adran cyflawni a monitro' hefyd ar ddiwedd pob polisi. Bwriad y Polisiâu Strategol, a'r polisiâu Rheoli Datblygu manylach, yw sicrhau y gall cynigion datblygu gyflawni canlyniadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cadarnhaol, a'u bod yn gallu lleihau rhai anffafriol. Byddant yn sail i'r holl benderfyniadau cynllunio, ac mae dangosyddion wedi eu datblygu yn rhan o fframwaith monitro'r Cynllun er mwyn dangos effeithiolrwydd y polisiâu. Ceir 'adran cyflawni a monitro' hefyd ar ddiwedd pob polisi i'r perwyl hwn.
- 5.1.3 Nodwyd cyfres o Bolisiâu Strategol yn Strategaeth a Ffeirir y CDLI Newydd. Mae'r Polisiâu Strategol hyn wedi eu haddasu er mwyn ystyried sylwadau a dderbyniwyd ac a estynnwyd er mwyn darparu Fframwaith Polisi Strategol mwy cynhwysfawr. Ateir y gyfres ddiweddaraf o 18 o Bolisiâu Strategol bellach gan 56 o Bolisiâu Rheoli Datblygu cysylltiedig sy'n mynd i'r afael ag ystod o faterion thematig manwl fel a ganlyn:
- 5.1.4 Nod y polisiâu hyn yw hwyluso'r gwaith o gyflawni Gweledigaeth CDLI Newydd a chyfres o Amcanion, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o gyflawni ystod o Nodau Llesiant.

5.2 Cynllunio Da a Chreu Lleoedd yn Gynaliadwy

- 5.2.1 Mae cynllunio da yn hollbwysig i greu mannau cynaliadwy lle mae pobl yn dymuno byw, gweithio a chymdeithasu ynddynt. Fel y pwysleisiwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru: 'Mae mwy i ddylunio na phensaernïaeth adeilad; mae'n golygu'r berthynas rhwng holl elfennau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig a rhwng pobl a lleoedd hefyd'. Wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, mae'r CDLI Newydd yn ceisio sicrhau cynlluniau sy'n mynd y tu hwnt i estheteg er mwyn cynnwys yr agweddau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar ddatblygu. Felly, er mwyn cyflawni Dylunio Da, mae'n rhaid i ddatblygiadau ystyried sut y defnyddir lle, sut y gall adeiladau a thir y cyhoedd gefnogi'r defnydd hwn a'r berthynas â'r ardal gyfagos. Bydd cynigion datblygu yn cael eu hasesu o ran eu cydnawsedd creu lleoedd a chynllunio. Gall cynllun gwael gael

effaith andwyol ar gymeriad a golwg ardal, yn ogystal â niweidio golygfa gyfunol y stryd. Asesir elfennau amrywiol (e.e. effaith weledol, colli golau, cyfyngiadau traffig, gallu gweld i mewn i eiddo eraill) er mwyn sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol posibl. Pan fo hynny'n briodol, mae'r CDLI yn cynnwys polisïau manylach ar rai agweddau ar SP3 a bydd y Cyngor yn cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi eu diweddarau er mwyn cynorthwyo datblygwyr i lunio cynlluniau sy'n adlewyrchu nodweddion lleol y Fwrdeistref Sirol.



Cheapside, Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

- 5.2.2 Mae Dylunio Da yn rhan annatod o'r broses o Greu Lleodd yn Gynaliadwy, a ddiffinnir gan Bolisi Cynllunio Cymru fel 'dull cyfannol o gynllunio a dylunio datblygiadau a mannau, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau cadarnhaol. Mae'n tynnu ar botensial ardal i greu datblygiadau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hyrwyddo ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn eu hystyr ehangaf'. Mae'n bwysig bod pobl yn byw mewn mannau sy'n ddeniadol ac yn wahaniaethol, ac sy'n gallu ymgorffori gofynion newidiol y rhai sy'n byw yno. Mae creu lleodd yn gysyniad trosfwaol sy'n ymwneud â dyluniad a chyd-destun datblygiad. Mae'n ceisio sicrhau bod y broses ddylunio, strwythur y cynllun a'r ffurf yn darparu datblygiad sy'n briodol i'r cyd-destun lleol ac yn cefnogi cymuned gynaliadwy sy'n creu amgylchedd y gall pobl uniaethu ag ef a'i ddefnyddio'n rhwydd; gan barchu'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Mae hyn yn golygu bod cynlluniau cynaliadwy o ansawdd uchel sydd wedi eu hystyried yn dda ac sy'n gwella'r amgylchedd ac iechyd a llesiant pobl yn hanfodol. Mae'n rhaid i'r holl ddatblygiadau gael eu tanategu gan y defnydd o Ddylunio Da (gweler y sylw uchod) a dull Creu Lleodd yn Gynaliadwy o leoli, dylunio, adeiladu a gweithredu.
- 5.2.3 Un elfen bwysig o Greu Lleodd yn Gynaliadwy yw cymryd camau i ddiogelu a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg. Nid yw data lefel lleol yn nodi unrhyw setliad penodol

gyda chrynnodiad nodedig o siaradwyr Cymraeg ac felly ni ystyrir bod angen polisi Cymraeg penodol yn rhan o'r Cynllun. Fodd bynnag, cynhwyswyd darpariaeth briodol ar gyfer cyfleusterau i gefnogi'r Gymraeg, gan ei hystyried, mewn polisiâu thematig gwahanol sy'n ymwneud â thwristiaeth, cadwraeth a seilwaith cymdeithasol a chymunedol.

SP3: Cynllunio Da a Gwneud Lleoedd yn Gynaliadwy

Mae'n rhaid i bob datblygiad gyfrannu at greu lleoedd cynaliadwy, deniadol o ansawdd uchel sy'n cefnogi bywydau egnïol ac iach ac yn gwella'r gymuned y mae wedi ei leoli ynddi, gan roi sylw llawn i'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig, drwy:

- 1) Dangos aliniad ag egwyddorion Dylunio Da; a
- 2) Dangos dull Creu Lleoedd yn Gynaliadwy o'i leoli, ei ddylunio, ei adeiladu a'i weithredu.

Mae'n rhaid cefnogi ceisiadau cynllunio trwy gyflwyno gwybodaeth dylunio a thechnegol briodol er mwyn dangos eu bod yn cydymffurfio â meini prawf a) i n). Mae'n rhaid i bob datblygiad:

- a) Fod â dyluniad o'r ansawdd uchaf posibl, gan barchu a gwella gwahanolrwydd lleol a chymeriad y dirwedd;
- b) Bod yn briodol i'w gyd-destun lleol o ran maint, graddfa, uchder, masio, triniaeth weddluniol, deunyddiau a manylu, cynllun, ffurf, cymysgedd a dwysedd;
- c) Defnyddio tir yn effeithlon trwy fod o ddwysedd sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial datblygu'r tir, gan barchu potensial datblygu'r datblygiadau o'i gwmpas;
- d) Darparu ar gyfer cymysgedd priodol o ddefnyddiau tir er mwyn hybu cymdogaethau trefol cywasgedig, y gellir cerdded iddynt;
- e) Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer teithio llesol a rhagor o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a hybu cysylltiadau o fewn a thu allan i'r safle er mwyn sicrhau mynediad effeithlon a chyfartal i bawb;
- f) Lleihau'r cyfleoedd i drosedd gael ei gynhyrchu neu i gynyddu, gan hybu diogelwch cymunedol yn unol ag egwyddorion Diogelu Drwy Ddylunio;
- g) Osgoi neu leihau llygredd sŵn, aer, a phridd a dŵr;
- h) Ymgorffori dulliau i sicrhau bod y safle'n rhydd o halogiad (gan gynnwys rhywogaethau ymledol);
- i) Diogelu a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol integredig;
- j) Gwneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol, gan gynnwys tir a dŵr, a mabwysiadu egwyddorion economi gylchol sy'n:
 - i. blaenoriaethu deunyddiau adeiladu lleol er mwyn helpu i leihau allyriadau trafndiaeth
 - ii. Dangos bod ystyriaeth wedi ei rhoi i'r defnydd o agregau neu ddeunyddiau eilaidd sydd wedi eu hailgylchu cyn defnyddio

deunyddiau sylfaenol, er mwyn helpu i sicrhau bod deunyddiau ar gael yn yr hirdymor; k) Sicrhau na fydd hyfywedd nac amwynder defnyddiau cyfagos na'u defnyddwyr/meddianwyr yn cael eu heffeithio'n andwyol; l) Ymgorffori trefniadau priodol ar gyfer gwaredu carthion, gwastraff a dŵr budr; m) Ymateb i'r argyfwng hinsawdd drwy: - Leihau gofynion ynni a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy neu garbon isel, ymgorffori adeiladau a chynlluniau sy'n effeithlon/addasadwy gan ddefnyddio technegau cynllunio ac adeiladu cynaliadwy - Diogelu a chynyddu cadernid ecosystemau a chymunedau er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau anochel newid yn yr hinsawdd; ac n) Cyfrannu'n briodol at y seilwaith lleol, ffisegol, cymdeithasol a chymunedol y mae'r datblygiad yn effeithio arno. Mae'n rhaid datblygu Dyraniadau Strategol yn unol â'r polisiau sy'n benodol i'r safle a'r egwyddorion datblygu uwchgynllun cysylltiedig a nodir yn y CDLI Newydd. Bydd angen datblygu uwchgynllun manwl yn unol â hyn, gan gytuno arno gyda'r Cyngor, cyn i'r datblygiad ddechrau. Mae'n rhaid i Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol ddod gyda chynigion datblygu ar safleoedd dynodedig pan fo effeithiau andwyol sylweddol tebygol (cyn lliniaru) wedi eu nodi mewn cysylltiad ag Amcan 14 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Tirwedd).	
Amcanion y CDLI	ISAMCAN: 1, 2, 3, 4 AMCAN: 1a, 1b, 1c, 1d, 1e, 1f
Dyfodol Cymru	Siapio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol Darparu Tai Fforddiadwy
Polisi Cynllunio Cymru	Byw mewn Lle Creu Lleoedd Strategol Gwneud y Gorau o Lesiant a Chreu Lleoedd Cynaliadwy Creu Lleoedd ar Waith
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Cymru iachach Cymru o gymunedau cydlynol Cymru fwy cyfartal
Cynllun Llesiant Lleol	Dechrau gorau mewn bywyd Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynol Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	Polisi Cynllunio Cymru NCT 12: Dylunio Dylunio Da a Phroses y Cynllun Datblygu Lleol, Comisiwn Dylunio Cymru 2014 Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 Siarter Creu Lleoedd Cymru

5.2.4 Mae Creu Lleoedd Cynaliadwy yn hanfodol i gyflawni'r CDLI Newydd a dyheadau Cymru'r Dyfodol yn llwyddiannus. Bydd gweithredu dull Cymru'r Dyfodol o greu lleoedd strategol, a'i

egwyddorion, yn sicrhau bod datblygu'n cyfrannu'n gadarnhaol at adeiladu mannau cynaliadwy sy'n cefnogi ffyrdd egniïol ac iach o fyw, gyda chymdogaethau trefol sy'n gryno ac y gellir cerdded ynddynt, sydd wedi eu trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus, a'u hintegreiddio â seilwaith gwyrdd. Mae'r Cyngor yr un mor ymrwymedig i Siarter Creu Lleoedd Cymru a datblygu lleoedd o ansawdd uchel er lles cymunedau. Mae'r Siarter yn amlinellu chwe egwyddor creu lleoedd (pobl a chymuned, symud, tir y cyhoedd, lleoliad, cymysgedd o ddefnyddiau a hunaniaeth) sy'n cwmpasu'r ystod o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleoedd da. Mae'r egwyddorion hyn wedi llywio a chael eu hymgorffori yn y CDLI Newydd. Mae SP3 yn cynnwys dau faen prawf polisi trosfwaol er mwyn sicrhau bod egwyddorion Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy yn cael eu hymgorffori ym mhob cynnig datblygu ledled y Fwrdeistref Sirol, wedi eu galluogi trwy gymhwyso 14 o feini prawf manylach. Mae'r Polisi hwn yn fan cychwyn ar gyfer asesu'r holl geisiadau cynllunio a dderbynnir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae pob maen prawf yn ymwneud â materion manwl yr eir i'r afael â nhw ymhellach mewn Polisiâu Rheoli Strategol a Datblygu eraill.

- 5.2.5 Asesir pob cynnig datblygu yn y dyfodol er mwyn sicrhau y byddant yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at gryfhau hunaniaeth leol, cyflawni cymunedau cynaliadwy, annog ffordd fwy cynaliadwy o fyw, a hybu cydlyniant ac ymgysylltiad cymunedol. Mae SP3 hefyd yn ceisio sicrhau nad yw hyfywedd nac amwynder defnyddiau cyfagos na'u defnyddwyr/meddianwyr yn cael eu cyfaddawdu gan ddatblygiadau newydd. Mae'r Polisi hwn yn ceisio hybu cysylltedd i bawb drwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ar gyfer teithio llesol. Bydd datblygiadau sydd wedi eu cysylltu'n dda yn helpu i hybu gwelliannau iechyd a llesiant trwy annog pobl i fabwysiadu ffyrdd iachach ac egniïol o fyw, gan gyfrannu hefyd at greu lleoedd llwyddiannus. Mae rhwydwaith seilwaith gwyrdd hefyd yn darparu gwerth amwynder pwysig yn ogystal â manteision iechyd a llesiant. Felly, bydd y CDLI Newydd yn ceisio integreiddio llwybrau teithio llesol a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd, pan fo hynny'n briodol, er mwyn ysgogi creu amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n annog ffyrdd egniïol o fyw. Ystyrir bod dyluniad ac ymarferoldeb strydoedd yn agwedd sylfaenol o ran sicrhau bod lleoedd cynaliadwy yn cael eu creu i'r perwyl hwn. Cydnabyddir ymdeimlad o le yn y polisi sy'n diogelu'r asedau treftadaeth hanesyddol a diwylliannol yn y Fwrdeistref Sirol.

Safleoedd Datblygu Strategol Defnydd Cymysg

- 5.2.6 Mae'r Polisiâu Thematig canlynol (PLA1-PLA5) yn manylu ar y gofynion sy'n benodol o ran safleoedd ar gyfer y Safleoedd Datblygu Strategol defnydd cymysg mewn Ardaloedd Twf Adfywio ac Ardaloedd Twf Cynaliadwy. Caiff y Polisiâu Thematig manwl hyn eu gosod yng nghyd-destun SP3 a byddant yn galluogi'r broses o'i weithredu, yn unol â'r Strategaeth Twf a Gofodol a nodir yn SP1 a Dyraniadau Strategol a nodir yn SP2. Bydd cyflawni'r Safleoedd Strategol hyn yn hanfodol o ran cyflawni Gweledigaeth ac Amcanion y CDLI Newydd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol.

PLA1 Ardal Adfywio Glannau Porthcawl, Ardal Twf Adfywio Porthcawl

Maint y Safle:	41.72 hectar
Math o Ddyraniad:	Safle Adfywio Defnydd Cymysg Strategol
Defnyddiau Tir:	• 1,240 o unedau preswyl • 30% yn dai fforddiadwy • 1.8 hectar 1 Dosbarth Mynediad Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg ac estyniad 4 bloc ystafell ddosbarth yn yr Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg bresennol • Oddeutu 2,000m² o siopau bwyd • 3.51 hectar o Fannau Agored Cyhoeddus • Llwybrau Teithio Llesol
Cyfran Fesul Cam:	Cyfeirier at y llwybr 2018-2022: 0 2023-2027: 420 2028-2033: 600

Dyrennir tir wrth Lannau Porthcawl, fel y dangosir ar y Map Cynigion, ar gyfer datblygiad cynhwysfawr defnydd cymysg a arweinir gan adfywio. Bydd y safle'n darparu oddeutu 1,115 o gartrefi yn ystod cyfnod y Cynllun (gan gynnwys 30% / 335 o unedau tai fforddiadwy), gan ymgorffori ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg newydd ag un dosbarth mynediad, estyniad pedwar bloc ystafell ddosbarth yn yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg bresennol, siop fwyd newydd, cyfleusterau hamdden, terfynfa fysiau, cyfleusterau adloniant, mannau agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol a defnyddiau masnachol.

EGWYDDORION CREU LLEOEDD

Mae'n rhaid i'r datblygiad hwn gyd-fynd â'r egwyddorion canlynol, a ystyrir yn allweddol o ran cyflawni lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiadau sy'n gymdeithasol gynhwysol a hybu cymunedau mwy cydlynol. Dylid darparu'r egwyddorion hyn fesul cam a'u clymu'n ffurfiol i ganiatâd cynllunio:

- a) Creu datblygiad defnydd cymysg cynaliadwy sydd wedi ei gysylltu'n dda, a fydd yn adfywio Porthcawl, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd cymeriad sy'n integreiddio'n gadarnhaol â'r glannau, clystyrau tai presennol, defnyddiau cyfleusterau cymunedol cyfagos, Rhwydweithiau Teithio Llesol a chyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus;
- b) Dilyn datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafndiaeth, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau dibyniaeth ar gerbydau modur preifat. Mae'n rhaid ymgorffori llwybrau cerdded a beicio diogel sydd wedi eu cynllunio'n dda ym mhob rhan o'r safle, er mwyn meithrin cymdogaethau iach, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac y gellir cerdded ynddynt;
- c) Creu rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol yn y safle, sy'n hwyluso teithio llesol, yn gwella bioamrywiaeth, yn darparu draenio cynaliadwy ac yn meithrin cymunedau iach. Mae'n rhaid rhoi pwyslais arbennig ar ymgorffori tirlunio priodol, diogelu bioamrywiaeth, darparu

cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau lleol a chefnogi amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, yn ogystal â thyfu bwyd dan arweiniad y gymuned;

- d) Sicrhau bod dyluniad a chynllun y safle yn rhoi sylw i'r dirwedd y mae'n eistedd ynddi, gan ystyried y rhyngwyneb rhwng y safle, y glannau ac anheddiad ehangach Porthcawl. Mae'n rhaid lleihau effeithiau gweledol trwy gynnwys mesurau lliniaru sy'n darparu cysylltiadau â'r dirwedd bresennol a nodweddion mynediad er mwyn diogelu cymeriad y dirwedd, gan greu ymdeimlad o le;
- e) Cyfeirio adeiladau fel eu bod yn wynebu mannau agored a strydoedd er mwyn gwella cydlynoldeb, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol;
- f) Darparu cymysgedd o ddwysedd uwch mewn pwyntiau allweddol yn y cynllun, a dwysedd is ar yr ymylon gwledig/sensitif; ac
- g) Cydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yn Fframwaith Defnydd Tir a Strategaeth Creu Lleoedd Glannau Porthcawl a ddatblygwyd gan y Cyngor.

EGWYDDORION DATBLYGU UWCHGYNLLUN

Mae'n rhaid i'r datblygiad hwn gyd-fynd â'r egwyddorion canlynol, a ystyrir yn allweddol o ran cyflawni lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiadau sy'n gymdeithasol gynhwysol a hybu cymunedau cydlynol. Mae'n rhaid paratoi a chytuno ar uwchgynllun â'r Cyngor cyn datblygu'r safleoedd, er mwyn dangos sut y caiff yr egwyddorion hyn eu cyflawni mewn modd cam wrth gam priodol:

- 1) 1,115 o gartrefi, sy'n cynnwys cymysgedd priodol o ran maint a mathau o anheddau i ddiwallu anghenion tai lleol, gan gynnwys 30% o unedau tai fforddiadwy i'w hintegreiddio trwy'r datblygiad mewn clystyrau cynaliadwy nad ydynt yn fwy na deg uned, yn unol â gofynion y Cyngor;
- 2) 1.8 hectar o dir ar gyfer ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ag o leiaf un dosbarth mynediad, ehangu Ysgol Gynradd Newton bresennol (gyda chyfleuster meithrin sydd wedi ei gydleoli) a chyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth meithrin ac ysgolion cynradd fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae'n rhaid sicrhau'r cyfraniad ariannol (gan gynnwys amseru a'r broses o'i gyflwyno fesul cam) drwy Adran 106 o Rwymedigaethau Cynllunio yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyfleusterau Addysg a'r Datblygiad Preswyl. Mae'n rhaid i'r ysgol fod yn hygyrch i breswylwyr newydd a phreswylwyr sydd eisoes yn bodoli trwy bob dull teithio, a alluogir gan y datblygiad;
- 3) 3.51 hectar o fannau agored cyhoeddus sy'n cynnwys Mannau Lleol ar gyfer Chwarae, Mannau Lleol ar gyfer Chwarae a Ddarperir yn Lleol a Mannau Chwarae a Ddarperir gan y Gymdogaeth ym meysydd y mannau agored hyn;
- 4) 2.76 hectar o dir at ddibenion hamdden a masnachol, gan gynnwys siop fwyd;
- 5) Gwelliannau priffyrdd er mwyn sicrhau mai oddi ar gylchfan Portway y mae'r prif bwynt mynediad i gerbydau ar gyfer siop fwyd;

- 6) Cylchfan a ffordd gyswllt newydd er mwyn galluogi mynediad i leiniau datblygu Sandy Bay;
- 7) Mynediad brys trwy Dock Street a Sandy Lane;
- 8) Gwelliannau i briffyrdd oddi ar y safle o ran y gofynion sy'n deillio o'r Asesiad Trafnidiaeth ac fel y nodir yn Atodlen Flaenoriaeth y Mesurau Trafnidiaeth;
- 9) 0.12 hectar o dir ar gyfer darparu terfynfa trafndiaeth gyhoeddus;
- 10) Mesurau ar y safle, ac oddi arno, er mwyn darparu cysylltiadau cerdded a beicio o ansawdd da, sy'n ddeniadol, yn eglur, yn ddiogel ac yn hygyrch, yn unol â dyluniad Teithio Llesol. Mae'n rhaid darparu gwell cysylltiadau ar hyd y glannau, er mwyn cysylltu â Phromenâd y Dwyrain, Canol Tref Porthcawl ac Ysgol Gyfun Porthcawl. Mae'n rhaid cysylltu â llwybr teithio llesol presennol PORC3, a dylid darparu llwybrau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig sydd ym Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-POR-12, INM-POR-13, INM-POR-14, INM-POR-15, INM-POR-17 ac INM-POR-18;
- 11) Clustogfeydd addas i gynefinoedd, yn enwedig y twyni creiriau y tu ôl i Sandy Bay;
- 12) Integreiddio cadarnhaol rhwng y datblygiad a chraidd hanesyddol y dref trwy gadw a gwella cymeriad a lleoliad Mannau Cadwraeth Porthcawl ac Adeiladau Rhestredig Gradd II cysylltiedig;
- 13) Mesurau ar y safle, ac oddi arno, gan gynnwys unrhyw uwchraddio priodol i'r rhwydweithiau carthffosiaeth cyhoeddus neu'r cyflenwad dŵr glân;

5.2.7 Mae Glannau Porthcawl yn safle tir llwyd 41.72 hectar nas defnyddir yn ddigonol y mae ganddo safle amlwg ar lan y môr. Gan ymestyn o safle carafannau Bae Trecco a Phwynt Rhych i'r dwyrain o'r harbwr presennol a chanol y dref i'r gorllewin, fe'i meddiannir ar hyn o bryd gan amrywiaeth o ddefnyddiau tir gan gynnwys hen safle carafannau Sandy Bay yr oedd y Cyngor yn arfer bod yn berchen arno, y ffair, yr harbwr, y mannau agored/cyfleusterau adloniant a Maes Parcio Salt Lake. Lleolir y safle o fewn 6.4km (4 milltir) i gyffordd 37 yr M4 ac mae wedi ei gysylltu â'r A4229. Mae'r A4106 yn cysylltu Porthcawl â Phen-y-bont ar Ogwr (drwy'r A48), sydd oddeutu 11-12km (7-8 milltir) i'r dwyrain. Mae Parc Gwyliau Bae Trecco yn union gerllaw ffin ddwyreiniol y safle, ac mae'n cadarnhau Porthcawl fel cyrchfan i dwristiaid sy'n arwyddocaol yn strategol yn Ne Cymru. Ystyrir Rest Bay, sydd i'r gorllewin o'r safle, yn un o'r prif draethau syrffio yn Ne Cymru, ac mae ganddo statws Baner Las.

5.2.8 Neilltuir y safle adfywio ar gyfer cynllun defnydd cymysg a arweinir gan y preswylwyr a fydd yn darparu hyd at 1,115 o dai gyda chyfleusterau cysylltiedig, gan gynnwys twristiaeth, hamdden, manwerthu, a therfynfa fysiau a darpariaeth gymunedol. Bydd hyn yn cynnwys cyfraniad ariannol er mwyn ehangu Ysgol Gynradd bresennol y Drenwydd yn Notais (gyda chyfleuster meithrin wedi ei gydleoli) a chyfraniad ariannol ychwanegol er mwyn galluogi darpariaeth ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg un dosbarth mynediad

newydd ar y safle. Bydd y cyfraniad olaf yn peri bod angen neilltuo 1.8ha o dir ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, yn cynnwys tir clustogi i alluogi ehangu yn y dyfodol.

- 5.2.9 Mae'r rhan fwyaf o'r safle yn agored i lifogydd llanw ac mae'n gofyn am waith diogelu'r arfordir er mwyn cael ei ystyried yn addas ar gyfer datblygiad preswyl. Sicrhawyd cyllid Rhaglen Rheoli Risgiau Arfordirol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaith mawr o ran amddiffyn rhag llifogydd, a fydd yn galluogi'r safle i gael ei ddarparu'n gynhwysfawr. Bydd y safle'n cael ei ddatblygu fesul cam, yn gysylltiedig â'r gwaith o baratoi amddiffynfeydd arfordirol fesul cam. Nid yw gorllewin y safle (sy'n cynnwys rhannau o Faes Parcio presennol Salt Lake) yn dibynnu'n llwyr ar ddarparu gwell amddiffynfeydd môr ac felly disgwylir iddo gael ei gyflwyno yn gyntaf. Mae camau datblygu diweddarach ar hyd Promenâd y Dwyrain (y tu ôl i Sandy Bay) yn dibynnu ar amddiffynfeydd arfordirol ac felly byddant yn cael eu darparu'n olynol er mwyn cyd-fynd â chwblhad y gwaith o baratoi amddiffynfeydd rhag llifogydd. Bydd y safle'n cael ei ddarparu yn unol â'r Fframwaith Defnydd Tir a'r Strategaeth Creu Lleodedd a ddatblygwyd gan y Cyngor. Bydd y safle'n ategu'r gwaith llwyddiannus diweddar o ailwampio'r Harbwr, adeilad rhestredig Jennings a'r cynigion hamdden arfaethedig yn Cosy Corner.
- 5.2.10 Mae'r safleoedd bysiau agosaf oddeutu 30m oddi wrth ffin ogleddol y safle ar New Road ger Parc Griffin, sy'n darparu cysylltiadau ymlaen i Borthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys yr orsaf drenau). Mae astudiaeth ddichonoldeb wedi ei pharatoi i archwilio'r posibilrwydd o ailddatblygu Gorsaf Rheilffordd y Pîl (oddeutu 4.5 milltir i'r gogledd o'r safle) gan ei gwneud yn ganolfan drafnidiaeth. Byddai hyn yn cynnwys adleoli'r orsaf reilffordd bresennol i Dir i'r Dwyrain o'r Pîl (PLA5) ac ymgorffori cyfleusterau parcio a theithio estynedig er mwyn gwella cysylltiadau â Phorthcawl a fyddai'n gweithredu fel terfynfa ganolog. Felly, ni fydd y datblygiad yn niweidio'r cynlluniau hyn, drwy gadw 0.12 hectar o dir ar gyfer terfynfa trafnidiaeth gyhoeddus yn y dyfodol, a fyddai'n gwella lleoliad cynaliadwy Glannau Porthcawl ymhellach ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd teithio llesol. Bydd hyn yn ategu'r gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol ac arfaethedig a fydd yn gwneud cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewisiadau eraill dichonadwy yn lle defnyddio cerbydau preifat.
- 5.2.11 Bydd cyfyngiadau ecolegol yn cael eu lliniaru trwy gadw a darparu clustogfeydd addas ar gyfer cynefinoedd, yn enwedig y twyni creiriau y tu ôl i Sandy Bay, sy'n gynefin a warchodir yn genedlaethol y mae'n ofynnol i Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei ddiogelu a'i wella. Bydd uwchgynllun y safle hefyd yn ceisio cadw ac ategu Ardal Gadwraeth Porthcawl ac Adeiladau Rhestredig Gradd II cysylltiedig, gan gynnwys yr adeiladau rhestredig yn yr harbwr, sydd yn uniongyrchol i'r de o'r safle. Felly, bydd y datblygiad yn integreiddio'n gadarnhaol â lleoliad y craidd hanesyddol hwn o'r dref.
- 5.2.12 Mae'n rhaid i gais cynllunio yn y dyfodol gynnwys 'Uwchgynllun Ynni' sy'n dangos bod y systemau gwresogi ac oeri mwyaf cynaliadwy wedi eu dewis. Dylai hyn gynnwys ystyried y system arfaethedig yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys effaith ei deunyddiau cydrannol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn argymhell y dylid ystyried gosod Rhwydwaith Gwresogi Ardal newydd ar y safle hwn. Os profir bod y gofyniad datblygu hwn yn annichonadwy yn ariannol neu'n dechnegol, yna

mae'n rhaid i gynigion datblygu ddilyn y dull dilyniannol o nodi technolegau gwresogi carbon isel yn unol ag ENT10.

PLA2: Tir i'r De o Ben-y-bont ar Ogwr (Fferm Ynys), Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr	
Maint y Safle:	49.95 hectar
Math o Ddyraniad:	Estyniad Trefol Cynaliadwy Defnydd Cymysg Strategol
Defnyddiau Tir:	• 847 o unedau preswyl • 20% yn Dai Fforddiadwy • 1.8 hectar ar gyfer Ysgol Gynradd Un Dosbarth Mynediad ynghyd â Meithrinfa a Gydleolir • 4 hectar er mwyn adleoli Ysgol Anghenion Addysgol Arbennig Heronsbridge • Cyfleusterau Adloniant Awyr Agored • Defnyddiau hamdden a masnachol ategol (B1) • Llwybrau Teithio Llesol
Cyfran Fesul Cam	Cyfeirier at y llwybr 2018-2022: 0 2023-2027: 260 2028-2033: 587
Neilltuir tir i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr (Fferm yr Ynys), a ddangosir ar y Map Cynigion, ar gyfer datblygiad defnydd cymysg cynhwysfawr a arweinir gan seilwaith gwyrdd. Bydd y safle'n darparu oddeutu 847 o gartrefi yn ystod cyfnod y Cynllun (gan gynnwys 20% / 169 o dai fforddiadwy), gan ymgorffori ysgol gynradd a chanddi un dosbarth mynediad newydd â meithrinfa a gydleolir, ail-leoli Ysgol Arbennig Heronsbridge, a chyfleusterau hamdden, cyfleusterau adloniant, mannau agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol, defnyddiau masnachol a chyflogaeth. EGWYDDORION DATBLYGU UWCHGYNLLUN Mae'n rhaid i'r datblygiad hwn gyd-fynd â'r egwyddorion canlynol, a ystyrir yn allweddol o ran cyflawni lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiadau sy'n gymdeithasol gynhwysol a hybu cymunedau cydlynol. Mae'n rhaid paratoi a chytuno ar uwchgynllun â'r Cyngor cyn datblygu'r safleoedd, er mwyn dangos sut y caiff yr egwyddorion hyn eu cyflawni mewn modd cam wrth gam priodol: - Creu estyniad trefol defnydd cymysg cynaliadwy sydd wedi ei gysylltu'n dda â Phen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd cymeriad sy'n integreiddio'n gadarnhaol â'r dirwedd bresennol, Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig, Tŷ Merthyr Mawr cyfagos sydd wedi ei restru'n adeilad Gradd II*, clystyrau tai presennol, cyfleusterau cymunedol, Rhwydweithiau Teithio Llesol a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus; - Dilyn datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafnidiaeth, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau dibyniaeth ar gerbydau modur preifat. Mae'n rhaid ymgorffori llwybrau cerdded a beicio	

diogel sydd wedi eu cynllunio'n dda ym mhob rhan o'r safle, er mwyn meithrin cymdogaethau iach, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac y gellir cerdded ynddynt;

- c) Creu rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol yn y safle, sy'n hwyluso teithio llesol, yn gwella bioamrywiaeth, yn darparu draenio cynaliadwy ac yn meithrin cymunedau iach. Mae'n rhaid rhoi pwyslais arbennig ar gadw'r coed a'r gwrychoedd presennol yn nhir y cyhoedd, ymgorffori tirlunio priodol, diogelu bioamrywiaeth, darparu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau lleol a chefnogi amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, yn ogystal â thyfu bwyd dan arweiniad y gymuned;
- d) Dilyn datblygiad o ansawdd uchel sydd wedi ei gynllunio'n dda yng nghyffiniau'r llinellau pŵer uwchben, gan sicrhau bod y tir oddi tanynt a gerllaw y llwybr llinellau uwchben yn cael eu defnyddio i wneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol at rwydwaith seilwaith gwyrdd y datblygiad. Mae'n rhaid cyflawni hyn trwy greu parc llinellol sy'n ymgorffori ardaloedd tirlunio, cadwraeth natur a chysylltiadau cerddwyr er mwyn osgoi sterileiddio tir yn ddiangen ger y llinellau uwchben;
- e) Ymestyn rhwydwaith seilwaith gwyrdd y safle i Gaeau Newbridge, gan fanteisio ar lwybr teithio llesol arfaethedig INM-BR-49 a sefydlu 'ysgyfaint gwyrdd' sy'n cysylltu'r safle â Chanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr. Bydd hyn yn hwyluso rhwydwaith amlswyddogaethol allweddol o fannau a nodweddion integredig i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr, gan ddarparu llw o fanteision economaidd, iechyd a llesiant i breswylwyr newydd a phresennol;
- f) Sicrhau bod dyluniad a chynllun y safle yn rhoi sylw i'r dirwedd o'i amgylch, gan leihau effeithiau gweledol trwy gynnwys mesurau lliniaru sy'n darparu cysylltiadau â'r dirwedd a nodweddion mynediad presennol. Mae'n rhaid defnyddio triniaethau tirlunio priodol ar hyd cyrion deheuol y safle er mwyn lleihau effeithiau gweledol ar ddefnyddiau cyfagos;
- g) Cyfeirio adeiladau fel eu bod yn wynebu mannau agored a strydoedd er mwyn gwella cydlynoldeb, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol; ac
- h) Darparu cymysgedd o ddwysedd uwch mewn pwyntiau allweddol yn y cynllun, a dwysedd is ar yr ymylon gwledig/sensitif.

GOFYNION DATBLYGU

Mae'n rhaid i'r datblygiad ddarparu'r gofynion canlynol:

- 1) Darparu 847 o gartrefi, sy'n cynnwys cymysgedd priodol o ran maint a mathau o anheddau i ddiwallu anghenion tai lleol, gan gynnwys 20% o unedau tai fforddiadwy i'w hintegreiddio trwy'r datblygiad mewn clystyrau cynaliadwy nad ydynt yn fwy na deg uned, yn unol â gofynion y Cyngor;
- 2) 1.8 hectar o dir ar gyfer ysgol gynradd a chyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth meithrin ac ysgolion cynradd fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae'n rhaid sicrhau'r cyfraniad ariannol (gan gynnwys amseru a'r broses o'i gyflwyno fesul cam) drwy Adran 106 o

Rwymedigaethau Cynllunio yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyfleusterau Addysg a'r Datblygiad Preswyl. Mae'n rhaid i'r ysgol fod yn hygyrch i breswylwyr newydd a phreswylwyr sydd eisoes yn bodoli trwy bob dull teithio, a alluogir gan y datblygiad;

- 3) 4 hectar o dir ar gyfer adleoli Ysgol Anghenion Addysgol Arbennig Heronsbridge;
- 4) Dylid darparu Cyfleusterau Seilwaith Gwyrdd ac Adloniant Awyr Agored yn unol â Pholisi COM10 a Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiad Tai Newydd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored;
- 5) 4.3 hectar o dir at ddibenion hamdden a masnachol ategol;
- 6) Gwella priffyrdd er mwyn sicrhau bod y prif bwynt mynediad i gerbydau oddi ar yr A48 mewn modd sy'n integreiddio Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig a chyfleuster treftadaeth Chwt 9 gerllaw;
- 7) Mynediad brys drwy Barc Technoleg Pen-y-bont ar Ogwr, sydd hefyd yn hybu cysylltedd cerddwyr a beicio;
- 8) Gwelliannau i briffyrdd oddi ar y safle o ran y gofynion sy'n deillio o'r Asesiad Trafnidiaeth Strategol ac fel y nodir yn Atodlen Flaenoriaeth y Mesurau Trafnidiaeth;
- 9) Mesurau ar y safle, ac oddi arno, er mwyn darparu cysylltiadau cerdded a beicio o ansawdd da, sy'n ddeniadol, yn eglur, yn ddiogel ac yn hygyrch, yn unol â dyluniad Teithio Llesol. Mae'n rhaid darparu gwell cysylltiadau ar hyd yr A48, gydag Ysgol Gyfun Brynteg, Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr a Chanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys yr orsaf fysiau a'r orsaf drenau). Hefyd, mae'n rhaid darparu cysylltiadau seilwaith gwyrdd gyda Chaeau Newbridge. Felly, mae'n rhaid cysylltu â llwybrau teithio Llesol presennol, a dylid darparu llwybrau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig sydd ym Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-POR-15, INM-BR-46, INM-BR-48, INM-BR-75, INM-BR-45 ac INM-BR-49;
- 10) Cadw a darparu clustogfeydd addas ar gyfer cynefinoedd, yn enwedig gwrychoedd, coed (gan gynnwys Coetir Hynafol a/neu Led-Hynafol), a Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig;
- 11) Cyflwyno a chytuno ar gynlluniau rheoli ecolegol, gan gynnwys cynigion ar gyfer lliniaru, gwella a chynnal a chadw cynefinoedd wrth gefn a rhywogaethau a warchodir (gan gynnwys ystlumod a phathewod) a darparu cynefin digolledu a disodli priodol;
- 12) Mesurau ar y safle, ac oddi arno, gan gynnwys unrhyw uwchraddio priodol i'r rhwydweithiau carthffosiaeth cyhoeddus neu'r cyflenwad dŵr glân;
- 13) Rhwydwaith gwresogi newydd ar y safle yn unol ag ENT10; a
- 14) 'Hyb' lleol newydd gyda chrynodiad o ddefnyddiau cymysg priodol a gwasanaethau lleol. Dylai'r 'hyb' gael ffyrntiadau gweithredol o amgylch canolbwynt allweddol o'r datblygiad sy'n mae'n rhwydd ei gyrraedd i breswylwyr newydd a phresennol trwy Deithio Llesol, gan gyfyngu ar yr angen am deithiau preifat â cherbydau.

- 5.2.13 Lleolir y safle 1.5km (0.9 milltir) i'r de-orllewin o Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, i'r de o'r A48, ac yn agos at y ffin â Chyngor Bro Morgannwg. Mae'n cynnwys oddeutu 49.95 hectar o dir coed a phrysgwydd i'r gogledd, tir fferm â'r de a'r dwyrain a thir pori i'r gogledd ddwyrain. Mae'r safle'n ffinio gyda Pharc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr i'r gogledd-ddwyrain, a gyda chartref nyrsio i'r dwyrain. Mae'r rheilffordd rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a'r Barri yn rhedeg i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr ac yn nodi ffin dde-ddwyreiniol y safle. Ffordd y Dafarn Newydd sy'n darparu ffin ddeheuol y safle. Y tu hwnt i'r ffordd, ceir defnyddiau tir amaethyddol cyn belled â ffordd Aberogwr. Mae Merthyr Mawr Road a gorlifdir Afon Ogwr yn ffinio â'r ffin orllewinol. Y tu hwnt iddynt gorweddau caeau bach i ganolig o ran maint sydd wedi eu cymysgu â choetir a ffermydd, Tŷ Merthyr Mawr (Gradd II*) a phentref bach prydferth Merthyr Mawr, sy'n gorwedd 600m ac 1.2km oddi wrth y safle yn y drefn honno. Mae ffiniau'r safle yn nodi cyfyngiad ffisegol rhag ehangu ymhellach ac yn darparu terfyn rhesymegol y datblygiad.
- 5.2.14 Neilltuwyd y safle yn y CDLI presennol i fod yn Safle Cyflogaeth Strategol (11 hectar) ac mae gan y safle ehangach ganiatâd cynllunio amlinellol ar gyfer datblygiadau chwaraeon cymysg, hamdden a swyddfeydd gyda gwelliannau priodol o ran mynediad. Roedd y caniatâd amlinellol yn cynnwys yr amodau terfyn amser safonol ar gyfer cyflwyno materion a neilltuwyd a dechrau'r datblygiad, a chymeradwywyd materion a neilltuwyd yn derfynol yn 2015. Ymgwymerwyd â gwaith galluogi ar y safle hwn ac mae'n weithred berthnasol, sy'n golygu bod cydsyniadau materion neilltuedig priodol yn bodoli. Felly, ni fydd ailneilltuo'r safle hwn fel cynllun defnydd cymysg (gan gynnwys tir preswyl) yn arwain at golli unrhyw Dir amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwyrpas ychwanegol fel y nodir ymhellach ym Mhapur Cefndir Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwyrpas. Hefyd, bydd ailneilltuo'r safle hwn yn galluogi'r broses o gyflawni twf cynaliadwy sydd wedi ei ymgorffori mewn egwyddorion creu lleoedd, yn darparu tai fforddiadwy yn rhan o'r Fwrdeistref Sirol lle mae'r angen mwyaf ac yn galluogi dwy ysgol i gael eu darparu ar y safle. Bydd hefyd yn cyfoethogi rhwydweithiau teithio llesol a seilwaith gwyrdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr trwy greu 'ysgyfaint gwyrdd' a fydd yn cysylltu'r safle â Chanol y Dref trwy Gaeau Newbridge. Ar y sail hon, ystyrir bod angen hollbwysig am y datblygiad.
- 5.2.15 Mae'r safle wedi ei neilltuo ar gyfer datblygiad defnydd cymysg bellach a bydd yn darparu oddeutu 847 o dai newydd, canolfan tennis dan do (gyda chyrtau awyr agored cysylltiedig a defnyddiau ategol eraill), mannau agored cyhoeddus, cyfleusterau cymunedol priodol, defnyddiau masnachol a chyflogaeth ynghyd â gwelliannau mynediad. Hefyd, bydd y safle'n darparu ysgol arbennig newydd i gymryd lle Ysgol bresennol Heronsbridge ac ymgorffori Ysgol Gynradd un dosbarth mynediad newydd er mwyn darparu ar gyfer anghenion y datblygiad preswyl cysylltiedig. Bydd darparu'r ddwy ysgol yn darparu cyfleusterau cymunedol allweddol mewn lleoliad canolog ar gyfer defnydd gan y gymuned bresennol a newydd. Bydd y cyfraniad olaf yn golygu bod angen neilltuo 1.8 hectar o dir ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, gan gynnwys clustogfa tir ar gyfer ehangu yn y dyfodol.
- 5.2.16 Mae'n rhaid i gais cynllunio yn y dyfodol gynnwys 'Uwchgynllun Ynni' sy'n dangos bod y systemau gwresogi ac oeri mwyaf cynaliadwy wedi eu dewis. Dylai hyn gynnwys ystyried y system arfaethedig yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys effaith ei deunyddiau cydrannol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn nodi bod y safle hwn yn addas ar gyfer gosod Rhwydwaith Gwresogi Ardal newydd. Os profir

bod y gofyniad datblygu hwn yn annichonadwy yn ariannol neu'n dechnegol, yna mae'n rhaid i gynigion datblygu ddilyn y dull dilyniannol o nodi technolegau gwresogi carbon isel yn unol ag ENT10.

- 5.2.17 Bydd elfennau o'r caniatâd cynllunio presennol yn cael eu hymgorffori mewn cynigion newydd ar gyfer y defnydd ar y safle, a bydd y datblygiad yn ystyried buddiannau bioamrywiaeth hysbys a'r adeilad rhestredig, gan sicrhau bod y dyluniad a'r cynllun yn sensitif i'r ffactorau hyn. Yn benodol, bydd y datblygiad yn diogelu ac yn ymgorffori Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig a Chwt 9 (cyn-wersyll ar gyfer carcharorion rhyfel) yng nghynllun y safle.
- 5.2.18 Bydd y datblygiad yn cael ei arwain gan seilwaith gwyrdd a bydd angen tirlunio a dylunio pensaernïol o ansawdd uchel er mwyn manteisio ar hygyrchedd i Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd rhwydwaith seilwaith gwyrdd wedi ei gynllunio'n ofalus yn rhedeg trwy'r safle ac yn ymestyn y tu hwnt iddo er mwyn cysylltu â Chaeau Newbridge, gan ddarparu 'ysgyfaint gwyrdd' parhaus sy'n cysylltu'r safle â Chanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Merthyr Mawr. Bydd hyn yn ategu'r gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol ac arfaethedig a fydd yn gwneud cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewisiadau eraill dichonadwy yn lle defnyddio cerbydau preifat. Bydd diogelu a gwella gwerth bioamrywiaeth presennol y safle yn gysylltiedig â hyn, er mwyn sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer bywyd gwyllt presennol yn yr ardal, gan ei ddiogelu. Felly, bydd y datblygiad hwn a arweinir gan seilwaith gwyrdd yn darparu manteision amlswyddogaethol sy'n ymwneud ag adloniant, bioamrywiaeth, draenio cynaliadwy a defnydd o lwybrau nad ydynt yn llwybrau ceir er mwyn mynd i'r afael ag iechyd y cyhoedd a materion ansawdd bywyd.

PLA3 Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr			
Maint y Safle:	36.86 Hectar		
Math o Ddyraniad:	Estyniad	Trefol	Cynaliadwy Defnydd Cymysg Strategol
Defnyddiau Tir:	1) 850 o unedau preswyl 2) 20% yn Dai Fforddiadwy 3) 2.3h Ysgol Gynradd 1.5 Dosbarth Mynediad 4) 12.8 hectar o Gyfleusterau Adloniant Awyr Agored a Mannau Agored Cyhoeddus 5) Llwybrau Teithio Llesol		
Cyfran Fesul Cam	Cyfeirier at y llwybr 2018-2022: 0 2023-2027: 360 2028-2033: 450		
Neilltuir tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, fel y dangosir ar y Map Cynigion, ar gyfer datblygiad preswyl cynhwysfawr a arweinir gan seilwaith gwyrdd. Bydd y safle'n darparu oddeutu 850 o gartrefi yn ystod cyfnod y Cynllun (gan gynnwys 20% / 170 o unedau tai fforddiadwy), gan ymgorffori Ysgol Gynradd 1.5 dosbarth mynediad			

newydd, cyfleusterau adloniant, mannau agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol y bydd y cyfan wedi eu lleoli mewn ardaloedd cymeriad penodol.

EGWYDDORION DATBLYGU UWCHGYNLLUN

Mae'n rhaid i'r datblygiad hwn gyd-fynd â'r egwyddorion canlynol, a ystyrir yn allweddol o ran cyflawni lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiadau sy'n gymdeithasol gynhwysol a hybu cymunedau cydlynol. Mae'n rhaid paratoi a chytuno ar uwchgynllun â'r Cyngor cyn datblygu'r safleoedd, er mwyn dangos sut y caiff yr egwyddorion hyn eu cyflawni mewn modd cam wrth gam priodol:

- a) Creu estyniad trefol defnydd cymysg cynaliadwy sydd wedi ei gysylltu'n dda â Phen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd cymeriad sy'n integreiddio'n gadarnhaol â'r dirwedd bresennol, Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig, Heneb Gofrestredig, clystyrau tai presennol, cyfleusterau cymunedol, Rhwydweithiau Teithio Llesol a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus;
- b) Dilyn datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafnidiaeth, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau dibyniaeth ar gerbydau modur preifat. Mae'n rhaid ymgorffori llwybrau cerdded a beicio diogel sydd wedi eu cynllunio'n dda ym mhob rhan o'r safle, er mwyn meithrin cymdogaethau iach, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac y gellir cerdded ynddynt;
- c) Creu rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol yn y safle, sy'n hwyluso teithio llesol, yn gwella bioamrywiaeth, yn darparu draenio cynaliadwy ac yn meithrin cymunedau iach. Mae'n rhaid rhoi pwyslais arbennig ar gadw'r coed a'r gwrychoedd presennol yn nhir y cyhoedd, ymgorffori tirlunio priodol, diogelu bioamrywiaeth, darparu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau lleol a chefnogi amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, yn ogystal â thyfu bwyd dan arweiniad y gymuned;
- d) Sicrhau bod dyluniad a chynllun y safle yn rhoi sylw i'r dirwedd y mae'n eistedd ynddi, gan ystyried y rhyngwyneb rhwng y safle, Pen-y-bont ar Ogwr a Threlales. Mae'n rhaid lleihau effeithiau gweledol trwy gynnwys mesurau lliniaru sy'n darparu cysylltiadau â'r dirwedd bresennol a nodweddion mynediad er mwyn diogelu cymeriad y dirwedd, gan greu ymdeimlad o le. Ni ddylai'r datblygiad fod er afles i'r Ardal Tirwedd Arbennig ac mae'n rhaid i unrhyw gynnig datblygu ymgorffori mesurau i leihau effeithiau andwyol a/neu ymyrraeth weledol ar y dirwedd ehangach;
- e) Cynnal coridor gwyrdd strategol rhwng y safle a Threlales er mwyn cadw hunaniaethau a chymeriad ar wahân yr aneddiadau hyn, gan atal ymdoddiad;
- f) Cyfeirio adeiladau fel eu bod yn wynebu mannau agored ac yn creu ffryntiadau strydoedd gweithredol er mwyn gwella cydlynoldeb, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol; a
- g) Darparu cymysgedd o ddwysedd uwch mewn pwyntiau allweddol yn y cynllun, a dwysedd is ar yr ymylon gwledig/sensitif.

GOFYNION DATBLYGU

Mae'n rhaid i'r datblygiad ddarparu'r gofynion canlynol:

- 1) 850 o gartrefi, sy'n cynnwys cymysgedd priodol o ran maint a mathau o anheddau i ddiwallu anghenion tai lleol, gan gynnwys 20% o unedau tai fforddiadwy i'w hintegreiddio trwy'r datblygiad mewn clystyrau cynaliadwy nad ydynt yn fwy na deg uned, yn unol â gofynion y Cyngor;
- 2) 2.3 hectar o dir ar gyfer ysgol gynradd 1.5 dosbarth mynediad gyda chyfleuster meithrin sydd wedi ei gydleoli a chyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth addysg feithrin, cynradd, uwchradd ac ôl-16 fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae'n rhaid sicrhau'r cyfraniad ariannol (gan gynnwys amseru a'r broses o'i gyflwyno fesul cam) drwy Adran 106 o Rwymedigaethau Cynllunio yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyfleusterau Addysg a'r Datblygiad Preswyl. Mae'n rhaid i'r ysgol fod yn hygyrch i breswylwyr newydd a phreswylwyr sydd eisoes yn bodoli trwy bob dull teithio, a alluogir gan y datblygiad;
- 3) 4.1 hectar o seilwaith gwyrdd wrth gefn ac ardaloedd mannau agored cyhoeddus newydd ar draws y safle sy'n cynnwys saith ardal allweddol ar gyfer mannau agored ffurfiol (gan gynnwys 0.5 hectar o ddarpariaeth chwarae â chyfarpar), mannau anffurfiol a chysylltiadau, strydoedd gwyrdd, ac archwilio'r ddarpariaeth ar gyfer galluogi mynediad cyhoeddus sensitif i ran o Safle Cadwraeth Natur Pwysig Dolydd Trelales a choetir;
- 4) Gwella priffyrdd ar y safle er mwyn sicrhau y cyflawnir prif bwynt mynediad i gerbydau o gyffordd signalau newydd â'r A473 ar y ffin ddeheuol; bydd y gyffordd yn darparu ar gyfer croesfan newydd a rennir er mwyn cysylltu'r llwybr beicio/troedffordd fewnol â llwybr teithio llesol presennol BRC9b ar ochr ddeheuol yr A473;
- 5) Prif stryd, sy'n darparu ar gyfer llwybr troed/beicio a rennir a mannau plannu planhigion ar y stryd, er mwyn darparu mynediad i'r ardal ddatblygu, yr Ysgol Gynradd newydd a Maes Cymunedol.
- 6) Coridor Teithio Gwyrdd trwy gau Ffordd Llangewydd i gerbydau modur (ac eithrio pan fo argyfyngau) rhwng Bryntirion â'r man ble mae'n ymuno â'r lôn sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de.
- 7) Gwelliannau i briffyrdd oddi ar y safle o ran y gofynion sy'n deillio o'r Asesiad Trafnidiaeth ac fel y nodir yn Atodlen Flaenoriaeth y Mesurau Trafnidiaeth / Cynllun Datblygu Seilwaith.
- 8) Darparu mesurau ar y safle, ac oddi arno, er mwyn darparu cysylltiadau cerdded a beicio o ansawdd da, sy'n ddeniadol, yn eglur, yn ddiogel ac yn hygyrch, yn unol â dyluniad Teithio Llesol. Mae'n rhaid darparu gwell cysylltiadau ar hyd yr A473, gydag Ysgol Gyfun Bryntirion a Chanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys yr orsaf fysiau a'r orsaf drenau). Dylid darparu llwybrau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig ym Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-BR-52, INM-BR-55, INM-BR-57, INM-BR-58, BRC9b.
- 9) Darparu llwybr beicio / troedffordd newydd a rennir ar ochr ogleddol yr A473 er mwyn cysylltu'r safle â llwybr teithio llesol INM-BR57 sy'n cysylltu â'r siopau ym Bryntirion i'r dwyrain, a throedffordd wedi ei gwneud yn lletach i'r gorllewin o'r safle er mwyn darparu cysylltiad â'r safle bysiau tua'r dwyrain ar yr A473

- 10) Cadw a darparu clustogfeydd addas ar gyfer cynefinoedd, yn enwedig gwrychoedd, coed (gan gynnwys Coetir Hynafol a/neu Led-Hynafol) a Safle Cadwraeth Natur Pwysig Dolydd Trelales, sy'n cynnwys y man gwyrdd sy'n ffinio â ffiniau gogleddol a gogledd-orllewinol y safle.
- 11) Cyflwyno a chytuno ar gynlluniau rheoli ecolegol, gan gynnwys cynigion ar gyfer lliniaru, gwella a chynnal a chadw cynefinoedd wrth gefn a rhywogaethau a warchodir (gan gynnwys ystlumod a phathewod) a darparu cynefin digolledu a disodli priodol.
- 12) Integreiddio'n gadarnhaol weddillion Heneb Gofrestredig Eglwys a Mynwent Llangewydd mewn modd sy'n cadw ac yn gwella'r gweddillion fel rhan o'r safle ehangach.
- 13) Ymgorffori Llwybr Trelales o fewn rhan ganolog y safle, gan ddarparu mynediad i Daith Gylch Pen-y-bont ar Ogwr a'r Hawl Tramwy Cyhoeddus wedi'i hailalinio;
- 14) Mesurau ar y safle, ac oddi arno, gan gynnwys unrhyw uwchraddio priodol i'r rhwydweithiau carthffosiaeth cyhoeddus neu'r cyflenwad dŵr glân;
- 15) Rhwydwaith gwresogi newydd ar y safle yn unol ag ENT10;
- 16) Canolbwynt cymunedol yn rhan ddeheuol y safle trwy grynhoed o ddefnyddiau cymysg priodol â ffyrntiadau gweithredol o amgylch canolbwynt, gan gynnwys yr ysgol a mannau chwarae ffurfiol a fydd ar gael yn rhwydd i breswylwyr newydd a phresennol; a
- 17) Lleoli meysydd newydd ar gyfer canolbwynt hygyrch yn y gymdogaeth newydd a darparu cysylltiadau strategol â Meysydd Chwarae Bryntirion, Clwb Pêl-droed Pen-y-bont a Chanolfan Cymunedol Cylch Methrin Gwdihw.

- 5.2.19 Lleolir y safle i'r gorllewin o Fryntirion ac i'r dwyrain o anheddiad bach Trelales. Lleolir y safle i'r gogledd o'r A473, ac mae oddeutu 2.2km i'r gorllewin o Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r safle'n cynnwys ychydig dros 36 hectar.
- 5.2.20 Mae'r A473 yn brif llwybr i Ben-y-bont ar Ogwr o'r gorllewin, sy'n darparu cysylltiadau â Chyffordd 37 yr M4 (5.7km i'r gorllewin) a Phorthcawl. Mae'r ardal ehangach yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau tir, sef tir preswyl yn bennaf sy'n gysylltiedig â Threlales i'r gorllewin a Phen-y-bont ar Ogwr i'r dwyrain. Mae tir i'r gogledd yn cynnwys tir ffermio yn bennaf a'r brif reilffordd rhwng Abertawe a Llundain (2.5km i'r dwyrain). Mae tir i'r de yn cynnwys ystâd breswyl a thir ffermio ymhellach y tu hwnt i hynny.
- 5.2.21 Neilltuir y safle ar gyfer datblygiad a arweinir gan y preswylwyr a bydd yn darparu 850 o unedau er mwyn sicrhau yr eir ar drywydd datblygiad cynaliadwy sydd wedi ei gysylltu'n dda, sy'n gymdeithasol gynhwysol, mewn modd cyfannol, gan ymgorffori darpariaeth ysgol newydd ar y safle. Crëir parc llinol gorllewinol i ffurfio clustogfa werdd naturiol er mwyn atal Pen-y-bont ar Ogwr a Threlales rhag ymdoddi, a thrwy hynny, diogelu hunaniaeth a chymeriad y ddau anheddiad. Bydd hyn at y diben deublyg o leddfu golygfeydd rhwng y safle a Threlales, a chreu/cynnal coridorau bywyd gwyllt. Mae nifer o ysgolion yn yr ardal gyfagos yn ogystal â gwahanol wasanaethau lleol a chyfleusterau

cymunedol, er bod y capasiti presennol yn gyfyngedig a bod yn rhaid i'r safle ddarparu ysgol gynradd 1.5 dosbarth mynediad ar y safle ynghyd â chyfrannu tuag at ddarpariaeth ysgol uwchradd yn yr ardal. Bydd y cyfraniad blaenorol yn golygu bod angen neilltuo 2.3 hectar o dir ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, gan gynnwys clustogfa tir ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Bydd clustogfa werdd yn ffurfio ffin orllewinol y safle er mwyn atal rhagor o orgyffwrdd, y gellir ei diogelu ymhellach trwy gytundeb cyfreithiol i drosglwyddo'r rhan hon o'r safle i'r Cyngor.

- 5.2.22 Ar hyd ochr ddeheuol yr A473, ceir llwybr beicio/troedffordd a rennir sy'n darparu lôn feicio barhaus i feicwyr sy'n caniatáu cysylltedd â Threlales a Phen-y-bont ar Ogwr. Bydd y safle hwn yn cysylltu â'r llwybrau teithio llesol presennol ac yn hwyluso'r gwaith o ddarparu'r llwybrau arfaethedig sydd ym Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-BR-57 ac INM-BR-58. Mae'r safle hefyd wedi ei leoli o fewn 400m i safle bysiau ac mae'n elwa ar nifer o gyfleusterau cymunedol lleol. Mae Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr gerllaw yn darparu mynediad at ddewisiadau trafnidiaeth gyhoeddus ehangach (gan gynnwys Gorsafoedd Rheilffordd a Bysiau Pen-y-bont ar Ogwr) ynghyd â gwasanaethau cymunedol eraill. Cyflawnir mannau mynediad newydd i gerbydau yn bennaf ar ffin ddeheuol y safle trwy gyffordd newydd a reolir gan signalau â'r A473. Ceir potensial i ffurfio mynedfa frys o'r lôn ddienw ar ffin orllewinol y safle, ac o Ffordd Llangewydd i'r gogledd, yn y drefn honno. Mae Ffordd Llangewydd yn ffurfio rhan o rwydwaith ffyrdd yr ystadau preswyl a bydd yn darparu llwybr eilaidd arall i Ben-y-bont ar Ogwr.
- 5.2.23 Bydd uwchgynllun y safle yn lliniaru cyfyngiadau ecolegol trwy gadw a darparu clustogfeydd addas er gyfer cynefinoedd, yn enwedig Safle Cadwraeth Natur Pwysig Dolydd Trelales, sy'n cynnwys y man gwyrdd sy'n ffinio â ffiniau gogleddol a gogledd-orllewinol y safle. Mae'r safle hefyd o fewn Ardal Tirwedd Arbennig, a bydd y datblygiad yn ceisio lleihau effeithiau andwyol a/neu ymyrraeth weledol ar y dirwedd ehangach trwy fesurau priodol. Hefyd, lleolir gweddillion Heneb Gofrestredig Eglwys a Mynwent Llangewydd ar y safle, a fydd yn cael eu cadw a'u gwella yn rhan o'r prif gynllun.
- 5.2.24 Mae'n rhaid i gais cynllunio yn y dyfodol gynnwys 'Uwchgynllun Ynni' sy'n dangos bod y systemau gwresogi ac oeri mwyaf cynaliadwy wedi eu dewis. Dylai hyn gynnwys ystyried y system arfaethedig yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys effaith ei deunyddiau cydrannol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn nodi bod y safle hwn yn addas ar gyfer gosod Rhwydwaith Gwresogi Ardal newydd. Os profir bod y gofyniad datblygu hwn yn annichonadwy yn ariannol neu'n dechnegol, yna mae'n rhaid i gynigion datblygu ddilyn y dull dilyniannol o nodi technolegau gwresogi carbon isel yn unol ag ENT10.

PLA4: Tir i'r Dwyrain o Bencoed, Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed

Maint y Safle:	44.27 Hectar
Math o Ddyraniad:	Estyniad Trefol Cynaliadwy Defnydd Cymysg Strategol
Defnyddiau Tir:	• 770 o unedau preswyl • 20% yn unedau fforddiadwy • 2.3 hectar ar gyfer Ysgol Gynradd 1.5 Dosbarth Mynediad • 6 hectar ar gyfer Cyfleusterau Adloniant Awyr Agored • Llwybrau Teithio Llesol
Cyfran Fesul Cam	Cyfeirir at y llwybr 2018-2022: 0 2023-2027: 290 2028-2033: 480

Dyrennir tir i'r dwyrain o Bencoed, fel y dangosir ar y Map Cynigion, ar gyfer datblygiad cynhwysfawr defnydd cymysg. Bydd y safle'n darparu oddeutu 770 o gartrefi yn ystod cyfnod y Cynllun (bydd 20% / 154 ohonynt yn unedau tai fforddiadwy), gan ymgorffori ysgol gynradd newydd 1.5 dosbarth mynediad, cyfleusterau adloniant, mannau agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol a defnyddiau masnachol.

EGWYDDORION DATBLYGU UWCHGYNLLUN

Mae'n rhaid i'r datblygiad hwn gyd-fynd â'r egwyddorion canlynol, a ystyrir yn allweddol o ran cyflawni lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiadau sy'n gymdeithasol gynhwysol a hybu cymunedau mwy cydlynol. Dylid darparu'r egwyddorion hyn fesul cam a'u clymu'n ffurfiol i ganiatâd cynllunio:

- a) Creu estyniad trefol cynaliadwy sydd wedi ei gysylltu'n dda â Phencoed, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd cymeriad sy'n integreiddio'n gadarnhaol â Chanol presennol y Dref, clystyrau tai presennol, cyfleusterau cymunedol, rhwydweithiau Teithio Llesol, Parc Technoleg Pencoed, Ysgol Gyfun Pencoed a chyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus;
- b) Creu rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol yn y safle sy'n hwyluso teithio llesol, gan ystyried yr angen i greu cymunedau iach. Mae'n rhaid rhoi pwyslais penodol ar: greu parc llinelllog neu rwydwaith ffyrdd ar hyd llwybr y nwy pwysedd uchel o'r prif gyflenwad, cadw coed a gwrychoedd sydd eisoes yn bodoli yn nhir y cyhoedd, ymgorffori tirlunio priodol, diogelu bioamrywiaeth, hwyluso'r broses o greu cynefinoedd a chefnogi amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol yn ogystal â thyfu bwyd dan arweiniad y gymuned;
- c) Dilyn datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafndiaeth, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus, gan leihau dibyniaeth ar gerbydau modur preifat. Mae'n rhaid ymgorffori llwybrau cerdded a beicio diogel sydd wedi eu cynllunio'n dda ym mhob rhan o'r safle, er mwyn meithrin cymdogaethau iach, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac y gellir cerdded ynddynt;

- d) Cyfeirio adeiladau fel eu bod yn wynebu mannau agored a strydoedd er mwyn gwella cydlynoldeb, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol; ac
- e) Darparu cymysgedd o ddwysedd uwch mewn pwyntiau allweddol yn y cynllun, a dwysedd is ar yr ymylon gwledig/sensitif.

GOFYNION DATBLYGU

Mae'n rhaid i'r datblygiad ddarparu'r gofynion canlynol:

- 1) 770 o gartrefi, sy'n cynnwys cymysgedd priodol o ran maint a mathau o anheddau i ddiwallu anghenion tai lleol, gan gynnwys 20% o unedau tai fforddiadwy i'w hintegreiddio trwy'r datblygiad mewn clystyrau cynaliadwy nad ydynt yn fwy na deg uned, yn unol â gofynion y Cyngor;
- 2) 2.3 hectar o dir ar gyfer ysgol gynradd 1.5 dosbarth mynediad gyda chyfleuster meithrin sydd wedi ei gydleoli a chyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth addysg feithrin, cynradd, uwchradd ac ôl-16 fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae'n rhaid sicrhau'r cyfraniad ariannol (gan gynnwys amseru a'r broses o'i gyflwyno fesul cam) drwy Adran 106 o Rwymedigaethau Cynllunio yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyfleusterau Addysg a'r Datblygiad Preswyl. Mae'n rhaid i'r ysgol fod yn hygyrch i breswylwyr newydd a phreswylwyr sydd eisoes yn bodoli trwy bob dull teithio, a alluogir gan y datblygiad;
- 3) Dylid darparu Cyfleusterau Seilwaith Gwyrdd ac Adloniant Awyr Agored yn unol â Pholisi COM10 a Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiad Tai Newydd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored;
- 4) Gwella priffyrdd er mwyn sicrhau mai oddi ar yr A473 y mae'r prif bwynt mynediad i gerbydau;
- 5) Darparu gwelliannau i briffyrdd oddi ar y safle o ran y gofynion sy'n deillio o'r Asesiad Trafnidiaeth ac fel y nodir yn Atodlen Flaenoriaeth y Mesurau Trafnidiaeth.
- 6) Darparu mesurau ar y safle, ac oddi arno, er mwyn darparu cysylltiadau cerdded a beicio o ansawdd da, sy'n ddeniadol, yn eglur, yn ddiogel ac yn hygyrch, yn unol â dyluniad Teithio Llesol. Mae'n rhaid darparu gwell cysylltiadau ar hyd yr A473, gydag Ysgol Gyfun Pencoed, Parc Technoleg Pencoed a Chanol Tref Pencoed (gan gynnwys yr orsaf drenau a'r safleoedd bysiau). Felly, mae'n rhaid cysylltu â llwybrau teithio llesol presennol, a dylid darparu llwybrau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig sydd ym Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-PE-2, INM-PE-8, INM-PE-13 ac INM-PE-15;
- 7) Cadw a darparu clustogfeydd addas ar gyfer cynefinoedd, yn enwedig gwrychoedd, coed (gan gynnwys Coetir Hynafol a/neu Led-Hynafol), a Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig;
- 8) Cyflwyno a chytuno ar gynlluniau rheoli ecolegol, gan gynnwys cynigion ar gyfer lliniaru, gwella a chynnal a chadw cynefinoedd wrth gefn a

rhywogaethau a warchodir (gan gynnwys ystlumod a phathewod) a darparu cynefin digolledu a disodli priodol;

9) Mesurau ar y safle, ac oddi arno, gan gynnwys unrhyw uwchraddio priodol i'r rhwydweithiau carthffosiaeth cyhoeddus neu'r cyflenwad dŵr glân; a

10) Dilyn y dull dilyniannol o nodi technolegau gwresogi carbon isel yn unol ag ENT10.

- 5.2.25 Lleolir y safle i'r gogledd-ddwyrain o Ben-y-bont ar Ogwr, i'r gogledd o draffordd yr M4 (Cyffordd 35), yn uniongyrchol gerllaw'r ffin â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, er ei fod o fewn ffin weinyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r safle oddeutu 50 hectar ac fe'i trefnir yn ddwy ran: y prif safle (tir ac adeiladau i'r dwyrain o'r A473) sy'n cynnwys 46 hectar a thir ychwanegol o 6 hectar (14 erw) i'r gorllewin o'r A473. Mae Coleg Penybont hefyd yn berchen ar lain o dir i'r de-orllewin o'r prif safle, a elwir yn 'Cabbage Patch' yn lleol. Mae'r prif safle'n terfynu ar yr A473 i'r gogledd a'r gorllewin, ar Ffordd Felindre i'r de, ar nant Ewenni Fach i'r dwyrain ac ar dir ffermio i'r de-ddwyrain. Mae'r tir i'r gorllewin o'r A473 yn terfynu ar Ffordd Felindre i'r de ac ar Afon Ewenni i'r gorllewin a'r gogledd. Ceir datblygiad preswyl y tu hwnt i'r afon. Mae'r ardal ehangach yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau tir; tir preswyl a masnachol i'r gorllewin yn bennaf, sy'n gysylltiedig â Phencoed. Mae Ffatri Sony (a dyraniad tir cyflogaeth ehangach) wedi ei lleoli i'r de o'r safle. Tir ffermio yn bennaf yw'r tir i'r gogledd a'r dwyrain. Mae gwesty a bwyty wedi eu lleoli i'r de-ddwyrain o'r safle.
- 5.2.26 Mae'r safle wedi ei neilltuo ar gyfer datblygiad defnydd cymysg a bydd yn darparu oddeutu 770 o gartrefi newydd, ardal sylweddol ar gyfer mannau agored cyhoeddus, elfen bach masnachol ac ysgol gynradd un dosbarth mynediad. Bydd y cyfraniad olaf yn golygu bod angen neilltuo 2.3 hectar o dir ar gyfer adeiladu'r ysgol newydd, gan gynnwys clustogfa tir ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Hefyd, cedwir clustogfa i ymylon dwyreiniol a deheuol y campws presennol, er mwyn caniatáu hyblygrwydd yn y dyfodol o ran ehangu'r coleg. Bydd hyn yn caniatáu'r posibilrwydd o adleoli'r meysydd chwarae, naill ai i leoliadau i'r dwyrain o'r prif safle neu, i dir i'r gorllewin o'r A473.
- 5.2.27 Cyflawnir mannau mynediad newydd ar ffiniau gogleddol a deheuol y safle, i'r A473 a Ffordd Felindre yn y drefn honno. Bydd gwelliannau i lwybrau teithio llesol arfaethedig yn manteisio ar agosrwydd y safle at Ganol Tref Pencoed ac yn gwneud cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ddewisiadau eraill dichonadwy yn lle defnyddio cerbydau preifat. Bydd hyn yn gwella lleoliad cynaliadwy'r safle ar gyrion Pencoed er mwyn darparu cysylltiadau teithio llesol diogel â thrafnidiaeth gyhoeddus (gan gynnwys Gorsaf Drenau Pencoed a llwybrau bysiau), Parc Technoleg Pencoed, Ysgol Gyfun Pencoed a gwasanaethau cymunedol eraill.
- 5.2.28 Mae pibell nwy pwysedd uchel o'r prif gyflenwad yn croesi'r safle, gan redeg o'r gogledd i'r de ar draws y safle, ac mae'n rhaid cadw clustogfa o 10m y naill ochr a'r llall i'r biblinell. Defnyddir yr ardal hon i wneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol i rwydwaith seilwaith gwyrdd y datblygiad trwy greu parc llinellol sy'n ymgorffori ardaloedd tirlunio, cadwraeth natur a chysylltiadau cerdded er mwyn osgoi sterileiddio tir yn ddiangen. Yn yr un modd, ceir dau Adeilad Rhestredig ym mhrif gampws y coleg (Tŷ Tregroes a'r bont sydd wedi eu lleoli ar y dramwyfa sy'n arwain at y Tŷ), a fydd yn cael eu diogelu a'u hymgorffori yn

y safle. Bydd y ffactorau hyn yn sicrhau y darperir tir y cyhoedd o ansawdd uchel, gyda mannau a strydoedd cyhoeddus sydd wedi eu diffinio'n dda, sy'n ddiogel, yn gynhwysol ac sy'n amrywiol o safbwynt ecolegol, sy'n eu gwneud yn lleoedd dymunol i fod ynddynt. Bydd y safle wedi ei gysylltu'n dda a'i integreiddio ag anheddiad presennol Pencoed; bydd yn helpu i hybu ffyrdd mwy egniol o fyw, mynd i'r afael ag unigedd cymdeithasol ac yn darparu cysylltiadau agos a chynaliadwy â'r mannau allweddol y bydd angen i breswylwyr deithio iddynt.

- 5.2.29 Mae'n rhaid i gais cynllunio yn y dyfodol gynnwys 'Uwchgynllun Ynni' sy'n dangos bod y systemau gwresogi ac oeri mwyaf cynaliadwy wedi eu dewis, gan ddilyn y dull dilyniannol o nodi technolegau gwresogi carbon isel yn unol ag ENT10.

PLA5 Tir i'r Dwyrain o'r Pîl, Ardal Twf Cynaliadwy y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli	
Maint y Safle:	99.86 hectar
Math o Ddyraniad:	Estyniad Trefol Cynaliadwy Defnydd Cymysg Strategol
Defnyddiau Tir:	• 2,000 o unedau preswyl • 15% yn Dai Fforddiadwy • 5.7 hectar ar gyfer 2 x Ysgol Gynradd Dau Ddosbarth Mynediad • 8 hectar ar gyfer Cyfleusterau Adloniant Awyr Agored • Llwybrau Teithio Llesol newydd
Cyfran Fesul Cam	Cyfeirier at y llwybr 2018-2022: 0 Uned 2023-2027: 352 uned 2028-2033: 705 uned
Dyrennir tir i'r dwyrain o'r Pîl, fel y dangosir ar y Map Cynigion, ar gyfer datblygiad cynhwysfawr defnydd cymysg a arweinir gan y preswylwyr. Bydd y safle'n darparu oddeutu 2,000 o gartrefi (bydd 15% / 300 ohonynt yn unedau tai fforddiadwy), gan ymgorffori ysgol gynradd 2 dosbarth mynediad, cyfleusterau hamdden ac adloniant, mannau agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol a defnyddiau masnachol. EGWYDDORION DATBLYGU UWCHGYNLLUN Mae'n rhaid i'r datblygiad hwn gyd-fynd â'r egwyddorion canlynol, a ystyrir yn allweddol o ran cyflawni lleoedd cynaliadwy, darparu datblygiadau sy'n gymdeithasol gynhwysol a hybu cymunedau cydlynol. Mae'n rhaid paratoi a chytuno ar uwchgynllun â'r Cyngor cyn datblygu'r safleoedd, er mwyn dangos sut y caiff yr egwyddorion hyn eu cyflawni mewn modd cam wrth gam priodol: a) Creu estyniad trefol cynaliadwy sydd wedi ei gysylltu'n dda â'r Pîl, Gogledd Corneli a Mynydd Cynffig, sy'n cynnwys nifer o ardaloedd cymeriad sy'n integreiddio'n gadarnhaol â Chanol Trefi presennol, clystyrau tai presennol, cyfleusterau cymunedol, rhwydweithiau Teithio Llesol a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus;	

- b) Creu rhwydwaith seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol yn y safle sy'n hwyluso teithio llesol, gan ystyried yr angen i greu cymunedau iach. Mae'n rhaid rhoi pwyslais arbennig ar gadw'r coed a'r gwrychoedd presennol yn nhir y cyhoedd, ymgorffori tirlunio priodol, diogelu bioamrywiaeth, hwyluso'r broses o greu cynefinoedd a chefnogi amrywiaeth o gyfleoedd ar gyfer chwarae ffurfiol ac anffurfiol, yn ogystal â thyfu bwyd dan arweiniad y gymuned;
- c) Sicrhau bod dyluniad a chynllun y safle yn rhoi sylw i'r dirwedd y mae'n eistedd ynddi, gan ystyried y rhyngwyneb rhwng y safle ac anheddiad grŵp ehangach y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli. Mae'n rhaid lleihau effeithiau gweledol trwy gynnwys mesurau lliniaru sy'n darparu cysylltiadau â'r dirwedd bresennol a nodweddion mynediad er mwyn diogelu cymeriad y dirwedd, gan greu ymdeimlad o le. Ni ddylai'r datblygiad fod er afles i'r Ardal Tirwedd Arbennig ac mae'n rhaid i unrhyw gynnydd datblygu ymgorffori mesurau i leihau effeithiau andwyol a/neu ymyrraeth weledol ar y dirwedd ehangach;
- d) Dilyn datblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafndiaeth, sy'n blaenoriaethu cerdded, beicio a defnydd o drafndiaeth gyhoeddus, gan leihau dibyniaeth ar gerbydau modur preifat. Mae'n rhaid ymgorffori llwybrau cerdded a beicio diogel sydd wedi eu cynllunio'n dda ym mhob rhan o'r safle, er mwyn meithrin cymdogaethau iach, sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac y gellir cerdded ynddynt. Mae'n rhaid cysylltu hefyd â'r rhwydwaith teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus ehangach er mwyn sicrhau cysylltedd diogel â Chanolfannau Ardal y Pîl a Mynydd Cynffig, Canolfan Lleol Gogledd Corneli, Gorsaf Reilffordd y Pîl, Ystâd Ddiwydiannol Village Farm ac Ysgol Gyfun Cynffig;
- e) Cyfeirio adeiladau fel eu bod yn wynebu mannau agored a strydoedd er mwyn gwella cydlynoldeb, meithrin ymdeimlad cryf o le a sicrhau diogelwch cymunedol; ac
- f) Darparu cymysgedd o ddwysedd uwch mewn pwyntiau allweddol yn y cynllun, a dwysedd is ar yr ymylon gwledig/sensitif.

GOFYNION DATBLYGU

Mae'n rhaid i'r datblygiad ddarparu'r canlynol:

- 1) 2,000 o gartrefi, sy'n cynnwys cymysgedd priodol o ran maint a mathau o anheddau i ddiwallu anghenion tai lleol, gan gynnwys 15% o dai fforddiadwy i'w hintegreiddio trwy'r datblygiad mewn clystyrau cynaliadwy nad ydynt yn fwy na deg uned, yn unol â gofynion y Cyngor;
- 2) 5.7 hectar o dir ar gyfer 2 ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad gyda chyfleusterau meithrin sydd wedi eu cydleoli a chyfraniad ariannol tuag at ddarpariaeth addysg feithrin, cynradd, uwchradd ac ôl-16 fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Mae'n rhaid sicrhau'r cyfraniad ariannol (gan gynnwys amseru a'r broses o'i gyflwyno fesul cam) drwy Adran 106 o Rwymedigaethau Cynllunio yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol y Cyfleusterau Addysg a'r Datblygiad Preswyl. Mae'n rhaid i'r ddwy ysgol fod yn hygyrch i breswylwyr newydd a phreswylwyr sydd eisoes yn bodoli trwy bob dull teithio, a alluogir gan y datblygiad;

- 3) Dylid darparu Cyfleusterau Seilwaith Gwyrdd ac Adloniant Awyr Agored yn unol â Pholisi COM10 a Canllawiau Cynllunio Atodol Datblygiad Tai Newydd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored;
- 4) 1.5 hectar o dir at ddibenion masnachol, gan gynnwys 'hyb' lleol newydd gyda chrynodiad o ddefnyddiau cymysg priodol a gwasanaethau lleol. Dylai'r 'hyb' gael ffryntiadau gweithredol o amgylch canolbwynt allweddol o'r datblygiad sy'n mae'n rhwydd ei gyrraedd i breswylwyr newydd a phresennol trwy Deithio Llesol, gan gyfyngu ar yr angen am deithiau preifat â cherbydau;
- 5) Gwelliannau priffyrdd er mwyn sicrhau mai oddi ar yr A48 a'r A4229 y mae'r prif bwyntiau mynediad i gerbydau. Mae'n rhaid gwneud addasiadau priodol hefyd i'r gylchfan rhwng yr A48 a'r A4229 er mwyn gwella llif y traffig a diogelwch ar y priffyrdd;
- 6) Gwell cyfleusterau croesi, llwybrau beicio a throedffyrdd newydd a rennir ar hyd yr A48 a'r A4229 a gwella priffyrdd er mwyn gwella diogelwch cerddwyr yng nghyffiniau'r safle;
- 7) Pont gerddwyr a beicio newydd dros y rheilffordd bresennol ac ar hyd yr A48/Ffordd y Pîl, er mwyn darparu cysylltiadau diogel i gerddwyr a beiciau rhwng y safle a'r Pîl. Mae'n rhaid adeiladu'r bont yn unol â safonau mabwysiadwy'r Cyngor cyn meddiannu unrhyw gartrefi ar y datblygiad;
- 8) Gwelliannau i briffyrdd oddi ar y safle o ran y gofynion sy'n deillio o'r Asesiad Trafnidiaeth ac fel y nodir yn Atodlen Flaenoriaeth y Mesurau Trafnidiaeth;
- 9) Mesurau ar y safle, ac oddi arno, er mwyn darparu cysylltiadau cerdded a beicio o ansawdd da, sy'n ddeniadol, yn eglur, yn ddiogel ac yn hygyrch, yn unol â dyluniad Teithio Llesol. Mae'n rhaid darparu gwell cysylltiadau ar hyd yr A48 a'r A4229, ag Ysgol Gyfun Cynffig, Ystâd Ddiwydiannol Village Farm, Canolfannau Lleol y Pîl a Mynydd Cynffig, llwybrau bysiau presennol a Gorsaf Reilffordd y Pîl (gan gynnwys cysylltiadau cerdded diogel ar draws bont y rheilffordd). Felly, mae'n rhaid cysylltu â llwybrau teithio lesol presennol, a dylid darparu llwybrau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig sydd ym Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-PY-12, INM-PY-13, INM-PY-16, INM-PY-18 ac INM-PY-19;
- 10) Clustogfeydd addas ar gyfer cynefinoedd, yn enwedig gwrychoedd, coed (gan gynnwys Coetir Hynafol a/neu Led-Hynafol), a Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig;
- 11) Cynlluniau rheoli ecolegol, gan gynnwys cynigion ar gyfer lliniaru, gwella a chynnal a chadw cynefinoedd wrth gefn a rhywogaethau a warchodir (gan gynnwys ystlumod a phathewod) a chynefin digolledu a disodli priodol;
- 12) Mesurau ar y safle, ac oddi arno, gan gynnwys unrhyw uwchraddio priodol i'r rhwydweithiau carthffosiaeth cyhoeddus neu'r cyflenwad dŵr glân;
- 13) Dilyn y dull dilyniannol o nodi technolegau gwresogi carbon isel yn unol ag ENT10; a
- 14) Sicrhau nad yw'r datblygiad yn niweidio'r bwriad i adleoli Gorsaf Reilffordd y Pîl yn y dyfodol ynghyd â chyfleuster parcio a theithio cysylltiedig.

- 5.2.30 Lleolir y safle i'r dwyrain o'r Pîl, ac mae'n terfynu ar reilffordd (y Brif Linell rhwng Abertawe a Llundain) i'r gogledd, tir comin i'r dwyrain, traffordd yr M4 i'r de a'r A4229 i'r gorllewin. Hefyd, lleolir Ystâd Ddiwydiannol Village Farm yn uniongyrchol i'r gogledd, y tu hwnt i'r rheilffordd. Mae'r safle'n cynnwys cyfanswm o oddeutu 100 hectar ac mae wedi ei rannu'n 2 lain yn unol ag aliniad yr A48; mae Llain A (i'r de o'r A48) yn cynnwys 60 hectar ac mae Llain B (i'r gogledd o'r A48) yn cynnwys 40 hectar. Mae'r safle'n codi'n raddol oddi wrth gylchfan yr A48 ac ar hyn o bryd fe'i defnyddir ar gyfer tir ffermio.
- 5.2.31 Mae'r ardal ehangach yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau tir gyda datblygiadau preswyl a dyraniad cyflogaeth i'r gorllewin o'r safle (Fferm Tŷ Draw, Gogledd Corneli). Lleolir gorsaf Reilffordd y Pîl gerllaw, ar ochr ogledd-orllewinol y safle. Mae Canolfannau Ardal y Pîl a Mynydd Cynffig oddeutu 1km ac 1.5km i'r gogledd o'r safle, yn y drefn honno. Lleolir Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr oddeutu 7.4km i ffwrdd i'r dwyrain o'r safle, a gellir cael mynediad iddo ar drafnidiaeth gyhoeddus ac ar yr A48 sy'n arwain at yr A473.
- 5.2.32 Neilltuir y safle ar gyfer cynllun defnydd cymysg cynhwysfawr a arweinir gan y preswylwyr, gan gynnwys canolfan masnachol lleol, seilwaith ategol priodol a darparu dwy ysgol gynradd newydd. Bydd y cyfraniad olaf yn golygu bod angen neilltuo 5.7 hectar o dir ar gyfer adeiladu'r ysgolion newydd, gan gynnwys clustogfa tir ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Byddai'r cynnig yn ceisio darparu cysylltiadau teithio newydd ar gyfer cerddwyr a theithio llesol o'r safle i'r Pîl/Mynydd Cynffig er mwyn gwella cysylltedd. Rhoddir pwyslais arbennig ar wella'r cysylltiadau i gerddwyr â Gorsaf Reilffordd y Pîl a hwyluso tramwyfa ddiogel i gerddwyr a beicwyr rhwng y safle a'r Pîl trwy gyflwyno pont newydd dros y rheilffordd.
- 5.2.33 Mae mynediad ar gael ar hyn o bryd gan ddefnyddio'r gylchfan oddi ar yr A4229 a'r A48 tuag at yr anheddau presennol yn Fferm Tŷ Draw. Cyflawnir pwyntiau mynediad newydd ar ffiniau gogleddol a gorllewinol y safle, ar gyfer yr A48 a'r A4229, yn y drefn honno.
- 5.2.34 Bydd gwelliannau i lwybrau teithio llesol arfaethedig yn manteisio ar agosrwydd y safle at Ganolfannau Ardal y Pîl a Mynydd Cynffig, a fydd yn gwneud cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus yn ddewisiadau eraill dichonadwy yn lle defnyddio cerbydau preifat. Bydd hyn yn gwella lleoliad cynaliadwy'r safle ar gyrion y Prif Anheddiad hwn er mwyn darparu cysylltiadau teithio llesol diogel ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus (gan gynnwys Gorsaf Reilffordd y Pîl a llwybrau bysiau), Ystâd Ddiwydiannol Village Farm, Ysgol Gyfun Cynffig a gwasanaethau cymunedol eraill.
- 5.2.35 Cynhelir astudiaeth ddichonoldeb ar hyn o bryd sy'n archwilio'r posibilrwydd o ailddatblygu Gorsaf Reilffordd y Pîl â'r bwriad o'i defnyddio fel canolfan drafnidiaeth. Byddai hyn yn golygu adleoli'r orsaf rheilffordd presennol i'r gogledd o'r safle ac ymgorffori cyfleusterau parcio a theithio estynedig er mwyn gwella cysylltiadau ag Ystâd Ddiwydiannol Porthcawl ac Ystâd Ddiwydiannol Village Farm. Felly, ni fydd y datblygiad yn niweidio unrhyw gynlluniau adleoli gorsafoedd yn y dyfodol, a byddai'n gwella ymhellach leoliad cynaliadwy'r safle ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd teithio llesol.
- 5.2.36 Yn weledol, mae'r safle'n lle agored, ac mae'n agored i olygfeydd o'r gogledd, o'r gorllewin, o'r dwyrain yn lleol, yn ogystal â golygfeydd o'r M4 o gyfeiriad y de. Y rhannau mwyaf sensitif yw'r tri phwynt uchel, y llethrau uchaf a'r mân gefnau cysylltiedig, a'r llethr serth i'r gorllewin ar yr ymyl deheuol. I'r gogledd a'r gorllewin ar y llethrau isaf/tir gwastad y mae'r ardal lleiaf sensitif, sy'n ffafriol o ran bod y lleoliad mwyaf priodol ar gyfer mwyafrif y datblygiadau dwysedd uwch. Mae rhan ddeheuol Llain B mewn Ardal Tirwedd Arbennig a bydd angen cynllunio'r datblygiad yn sensitif er mwyn ystyried y dynodiad hwn.

- 5.2.37 Nid yw'r safle ei hun yn ddarostyngedig i unrhyw ddynodiadau ecolegol, er y bydd angen cynnal arolygon bywyd gwyllt a chynefinoedd ychwanegol er mwyn llywio datblygiad posibl y safle. Hefyd, lleolir dau SoDdGA yn agos at ffin y safle; lleolir SoDdGA Penycastell i'r gogledd-ddwyrain a lleolir SoDdGA Stormy Down i'r de-ddwyrain o'r safle. Mae'r ddau wedi eu gwahanu'n ffisegol oddi wrth y safle, gan lwybr y llinell drenau a'r M4 yn y drefn honno. O ystyried yr angen i gynnal clustogfa â thirwedd rhwng llwybrau trafnidiaeth mawr ac unrhyw ddatblygiad arfaethedig, nid ystyrir bod y naill na'r llall yn cyfyngu ar ddatblygiad.
- 5.2.38 Mae Archaeology Wales wedi cynnal astudiaeth Ddesg sy'n amlygu gweddillion sy'n sefyll a gweddillion claddedig o ddiddordeb archeolegol posibl. Mae safle conchrid bach isel ar gyfer drylliau peiriannol ac arfau ar gyfer ymladd yn erbyn tanciau ('pillbox' yn y Saesneg) o'r Ail Ryfel Byd yn bodoli yn ardal ogledd-orllewinol y safle, a chredir bod ardal gloddio sy'n gysylltiedig â fferm o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (neu'n hŷn o bosibl) yng ngogledd-ddwyrain y safle. Mae cledrau tram o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi eu lleoli ar hyd rhan ogleddol y safle hefyd. Bydd y datblygiad yn sicrhau bod y gweddillion hyn yn cael eu cadw, neu eu hymchwilio'n ddigonol a'u cofnodi os tarfir arnynt neu os cânt eu datgelu o ganlyniad uniongyrchol i weithgareddau datblygu.
- 5.2.39 Mae'r safle'n ffinio â Stormy Castle, sef anheddiad canoloesol, a allai ymestyn i'r safle. Bydd angen gwneud rhagor o waith er mwyn ymchwilio'n llawn i unrhyw effeithiau posibl a bydd angen cynnal arolwg geoffisegol o'r safle er mwyn ategu'r cais cynllunio.
- 5.2.40 Mae'n rhaid i gais cynllunio yn y dyfodol gynnwys 'Uwchgynllun Ynni' sy'n dangos bod y systemau gwresogi ac oeri mwyaf cynaliadwy wedi eu dewis, gan ddilyn y dull dilyniannol o nodi technolegau gwresogi carbon isel yn unol ag ENT10.

Lliniaru Effaith y Newid yn yr Hinsawdd

- 5.2.41 Datganodd Llywodraeth Cymru Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019, a nododd ei blaenoriaethau o ran mynd i'r afael â newid i Gymru er mwyn meithrin cadernid. Yn dilyn hyn, mae Llywodraeth Cymru bellach wedi ymrwymo i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cefnogi'r dull hwn ac mae wedi cynnig ei fabwysiadu yng Nghynllun Corfforaethol wedi'i ddiweddarau 2021-22. Hefyd, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydgyssylltu camau gweithredu er mwyn helpu meysydd eraill o'r economi i symud yn bendant oddi wrth danwydd ffosil, drwy gymryd rhan yng nghydweithrediad y sector cyhoeddus, y byd academiaidd, diwydiant a'r trydydd sector a helpu i greu swyddi cynaliadwy. Y meysydd penodol y dylid canolbwyntio arnynt mewn cysylltiad â datgarboneiddio yw ynni, trafnidiaeth, adeiladau a mannau agored. Y pwyslais ar ynni yw lleihau'r swm a ddefnyddir a symud y broses o gynhyrchu ynni tuag at ffynonellau glân, gan gynnwys defnyddio adeiladau'n well, cynllunio rhai newydd fel eu bod yn effeithlon o ran ynni, defnyddio mannau agored i wrthbwysu carbon a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd ynni adnewyddadwy.
- 5.2.42 Mae gan y Cyngor swyddogaeth o ran sbarduno, hwyluso a dylanwadu ar newid wrth fynd i'r afael ag allyriadau cymunedol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys trafnidiaeth gymunedol a busnes, ynni cynaliadwy a gwres ar gyfer cartrefi. Felly, mae cyfochri strategaethau carbon isel a rhannu arferion gorau â Byrddau Partneriaeth Lleol, rhanbarthau cyfagos, cymunedau, datblygwyr a busnesau yn hanfodol o ran cydgysylltu manteision a mynd i'r afael â'r holl allyriadau

anuniongyrchol (y tu mewn a'r tu allan i reolaeth y Cyngor). Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol hwyluso pob math o ddatblygu adnewyddadwy ac ynni carbon isel, y bydd y Cyngor yn ceisio'r alluogi.

SP4: Lliniaru Effaith y Newid yn yr Hinsawdd

Mae'n rhaid i bob cynnig datblygu wneud cyfraniad cadarnhaol tuag at fynd i'r afael ag achosion Newid yn yr Hinsawdd, ac addasu iddynt. Gallai dulliau o gyflawni hyn gynnwys:

- 1) Bod â lleoliad a chynllun sy'n adlewyrchu egwyddorion trafndiaeth gynaliadwy a mynediad, gan leihau'r angen cyffredinol i deithio (teithio llesol);
- 2) Gofynion ynni carbon isel / di-garbon trwy leihau'r galw am ynni, a hybu effeithlonrwydd ynni;
- 3) Defnyddio deunyddiau a chyflenwadau carbon isel lleol (gan fabwysiadu egwyddorion economi gylchol);
- 4) Annog datblygu cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel/di-garbon;
- 5) Bod â dyluniad, cynllun a thirlunio sydd: (i) yn helpu bywyd gwyllt a chynefinoedd i addasu i'r hinsawdd sy'n newid; (ii) yn helpu i oeri'r amgylchedd trefol, gan gynnwys defnyddio technegau adeiladu goddefol pan fo hynny'n briodol;
- 6) Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon, yn cynnwys osgoi gwastraff a gynhyrchir yn sgil dymchwel a lleihau'r defnydd o ddŵr gwastraff a llygredd;
- 7) Cyfeirio datblygiadau oddi wrth ardaloedd lle bo perygl o lifogydd, ac osgoi datblygiadau sy'n cynyddu'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, gan gynnwys trwy ddefnyddio systemau draenio trefol cynaliadwy pan fo hynny'n berthnasol.

Mae'n rhaid i bob cais am gynnig datblygu ddangos yn glir sut y mae'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd, gan addasu.

Amcanion y CDLI	ISAMCAN: 1, 2, 3, 4 AMCAN: 4b, 4c, 4e
Dyfodol Cymru	Rhwydweithiau Gwresogi Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol Metro De-ddwyrain Cymru Llifogydd
Polisi Cynllunio Cymru	Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus Ynni Lleihau'r Galw am Ynni a Defnyddio Ynni'n Effeithiol – Adeiladau Cynaliadwy Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel Mwynau Ynni Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau Perthnasol a Hybu'r Economi Gylchol Lleoedd Bywiog a Chymdeithasol: Trafnidiaeth Lleoedd Nodedig a Naturiol: Cydnabod Ansawdd Amgylcheddol Lleoedd

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Cymru iachach Cymru gydnherth
Cynllun Llesiant Lleol	Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	TAN15 Datblygu a'r Perygl o Lifogydd Mapiau Cyngor ar Ddatblygu (TAN15) Asesiad o Ynni Adnewyddadwy Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd

- 5.2.43 Mae'r Cyngor wrthi'n llunio cynllun gweithredu er mwyn creu Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sy'n Garbon Niwtral erbyn 2030 a bydd yn gweithio ar y cyd â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i lunio Strategaeth Ddatgarboneiddio er mwyn cydgysylltu ymdrechion datgarboneiddio ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd y strategaeth yn dwyn ynghyd lu o brosiectau amgylcheddol ac yn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r dyheadau a nodir yn Rhaglen Ymateb i Argyfwng yr Hinsawdd y Cyngor. Mae gan y system gynllunio swyddogaeth allweddol i'w chwarae wrth bennu'r fframwaith defnydd tir ar gyfer yr ymateb ehangach hwn. Fel y cydnabyddir ym Mholisi Cynllunio Cymru, dylai cynigion datblygu, "liniaru achosion newid yn yr hinsawdd trwy leihau allyriadau carbon ac allyriadau nwyon tŷ gwydr eraill sy'n gysylltiedig â lleoliad y datblygiad, ei ddyluniad, ei adeiladu, ei ddefnyddio ac yn y pen draw, ei ddymchwel; a chynnwys nodweddion sy'n addasu'n effeithiol i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn awr ac yn y dyfodol, ac sy'n darparu cadernid yn eu herbyn".
- 5.2.44 Felly, mae SP4 yn pennu meini prawf sy'n ei gwneud yn ofynnol bod datblygiadau'n lliniaru newid yn yr hinsawdd gan yn ymaddasu iddo, a thrwy hynny, byddant yn lleihau ei achosion sylfaenol ac yn cynllunio ar gyfer ei ganlyniadau. Un o swyddogaethau allweddol y CDLI yw rhoi patrymau anheddu ar waith sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon, sy'n gadarn mewn cysylltiad â newid yn yr hinsawdd, ac sy'n lleihau blerdwf trefol a'r tir a gymerir. Yn syml, mae hyn yn golygu lleoli datblygiadau mewn aneddiadau sy'n hygyrch i amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau lle gall pobl leihau'r defnydd o geir preifat a, thrwy hynny, leihau effeithiau niweidiol allyriadau carbon.
- 5.2.45 Mae SP4 hefyd yn cydnabod y perygl o lifogydd fel un o effeithiau allweddol newid yn yr hinsawdd. Mae'r Polisi'n ceisio llywio datblygiadau bregus iawn oddi wrth ardaloedd lle bo perygl o lifogydd, asesu goblygiadau datblygiadau mewn ardaloedd lle bo perygl o lifogydd a sicrhau nad yw datblygiadau newydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill. Mae'r Mapiau Cyngor Datblygu sy'n cyd-fynd â TAN15 yn nodi'r parthau y mae perygl o lifogydd ynddynt fel y'u nodir yn y TAN ac fe'u hategir gan Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd. Mae'r wybodaeth hon wedi dylanwadu ar leoli a'r math o ddyraniadau datblygu sydd yn y CDLI Newydd, a bydd hefyd yn llywio polisiâu ynghylch y perygl o lifogydd y gellir asesu cynigion datblygu dilynol drwyddynt.
- 5.2.46 Mae SP4 hefyd yn ystyried yr amgylchedd dŵr cyfan fel adnodd pwysig. Mae sicrhau cyflenwad dŵr dibynadwy yn elfen bwysig o fywyd bob dydd, ond mae angen cydbwysu hynny ag effeithiau ar ddŵr daear a dŵr wyneb o ran lefelau ac ansawdd ac unrhyw effeithiau ecolegol cysylltiedig. Wrth leoli a dylunio datblygiadau newydd, mae angen

sicrhau hefyd fod y rhwydwaith dŵr gwastraff a'r gallu i drin dŵr yn ddigonol i wasanaethu'r datblygiadau a sicrhau bod dŵr ffo o'r datblygiadau newydd yn cael ei reoli'n ddigonol. Fel yr amlygwyd gan Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru (2019), gall erydu arfordirol a llifogydd effeithio'n uniongyrchol ar weithgareddau dynol ac economaidd. Felly, mae SP4 yn ceisio osgoi datblygiadau a allai gynyddu'r perygl o lifogydd ac erydu arfordirol, a all newid tirweddau arfordirol, gwanhau amddiffynfeydd môr, a rhoi adeiladau arfordirol (gan gynnwys treftadaeth adeiledig), rhwydweithiau seilwaith (gan gynnwys porthladdoedd, marinâu, ffyrdd, rheilffyrdd ac ynni) a phobl mewn perygl fel arall.

- 5.2.47 Erbyn hyn, mae egwyddorion mesurau effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy wedi eu hymgorffori yn y Rheoliadau Adeiladu. Fodd bynnag, mae angen i'r CDLI sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried egwyddorion ehangach dylunio cynaliadwy er mwyn lleihau'n sylweddol y defnydd o ynni ac allyriadau carbon. Gall technegau adeiladu goddefol helpu i gyflawni'r egwyddorion hyn trwy ddyluniadau sy'n gwneud y defnydd gorau o insiwleiddio, cyfeiriad a chysgodi i hwyluso ynni haul ac oeri goddefol er mwyn sicrhau'r moethusrwydd thermol gorau. Mae SP4 yn ceisio annog technoleg cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel/di-garbon, yn amodol ar amrywiaeth o ystyriaethau cynllunio perthnasol. Gall dulliau polisi o'r fath helpu i sicrhau hefyd fod datblygiadau newydd yn cael eu dylunio i wrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol.

Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd

- 5.2.48 Mae'n rhaid mabwysiadu dull creu lleoedd wrth nodi, cynllunio a chyflawni'r holl fesurau trafndiaeth er mwyn sicrhau bod datblygiadau mor gynaliadwy â phosibl. Dylid ystyried lleoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd o ddefnyddiau a dyluniad yr holl ddatblygiadau yn ofalus mewn modd sy'n lleihau'r galw am drafnidiaeth ac yn gwella'r cwmpas o ddewisiadau trafndiaeth cynaliadwy. Mae'r 'rhwydwaith trafndiaeth' yn cyfeirio at y cysylltiadau a'r gwasanaethau sy'n helpu pobl i symud ar draws y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys y briffordd, trafndiaeth gyhoeddus, llwybrau i gerddwyr, llwybrau beicio, hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau ceffylau.

SP5: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd

Mae'n rhaid lleoli a dylunio datblygiadau mewn ffordd sy'n sicrhau bod datblygiadau'n cael eu lleoli a'u dylunio mewn ffordd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat ac sy'n galluogi mynediad cynaliadwy i gyflogaeth, addysg, gwasanaethau lleol a chyfleusterau cymunedol. Hefyd, mae'n rhaid i ddatblygiadau gael eu hategu gan seilwaith a mesurau trafndiaeth priodol, ac yn ddibynnol ar natur, graddfa a lleoliad y cynnig, bydd yn ofynnol iddynt:

- 1) Gydweddu â'r hierarchaeth trafndiaeth cynaliadwy ar gyfer cynllunio (fel y nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru);

- 2) Cael eu cynllunio i ddarparu mynediad diogel ac effeithlon i'r rhwydwaith trafndiaeth, sy'n cynnwys y rhwydweithiau teithio llesol, trafndiaeth gyhoeddus a strydoedd;
- 3) Diogelu, gwella ac ehangu'r rhwydweithiau teithio llesol a nodir ym Map Llwybrau Presennol a Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor, gan gynnwys cysylltiadau â'r rhwydweithiau hynny fel ffordd o wella cysylltedd;
- 4) Blaenoriaethu'r gwaith o gyflawni'r mesurau a'r cynlluniau trafndiaeth allweddol a nodir yng Nghynllun Trafndiaeth Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, y mae'n rhaid eu cyflawni mewn modd effeithlon ac amserol yn unol â datblygiad defnydd tir. Mae hyn yn cynnwys datrys problemau sy'n ymwneud â chapasiti ar gyfer cyffyrdd lleol pan fyddant yn atal twf;
- 5) Lleihau'r ddibyniaeth ar ddefnyddio ceir preifat trwy fanteisio i'r eithaf ar y potensial o symud i/o'r datblygiad â thrafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys ar gyfer yr ardal drefol gan sicrhau bod datblygiadau'n cael eu gwasanaethu trwy rhwydweithiau o lwybrau cerdded i drafnidiaeth gyhoeddus;
- 6) Mabwysiadu dull o greu lleoedd wrth nodi, dylunio a chyflawni'r holl fesurau trafndiaeth er mwyn mwylhau eu cyfraniad at ddatblygu cynaliadwy;
- 7) Darparu seilwaith trafndiaeth newydd a mesurau gwella er mwyn lliniaru effaith y datblygiad a dangos lefel a derbynioldeb yr effeithiau ar y rhwydwaith ffyrdd cyfagos;
- 8) Helpu i leihau llygredd a drosglwyddir trwy'r awyr sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth trwy alluogi dewisiadau teithio mwy cynaliadwy a lleihau'r galw am deithio â cheir; a
- 9) Sicrhau bod datblygiadau'n cael eu gwasanaethu gan ddarpariaeth parcio priodol, yn unol â chanllawiau parcio y Cyngor, gan gynnwys seilwaith sy'n darparu ar gyfer datblygiadau technolegol yn y dyfodol megis mannau gwefru cerbydau trydan, ac ardaloedd cylchredeg, gan gynnwys ffyrdd o led digonol er mwyn caniatáu mynediad i gerbydau gwasanaeth.

Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n cael effaith negyddol ar weithrediad diogel ac effeithlon y rhwydwaith trafndiaeth.

Amcanion y CDLI	ISAMCAN: 1, 2 AMCAN: 1e, 2f, 2g, 2h
Dyfodol Cymru	Siapio Twf ac Adfywio Trefol: Creu Lleoedd Strategol Cysylltedd Rhanbarthol Metro De-ddwyrain Cymru
Polisi Cynllunio Cymru	Dewisiadau Strategol a Gofodol Creu Lleoedd Strategol Hygyrchedd

	Lleoedd Bywiog a Chymdeithasol Symud o fewn/rhwng Lleoedd: Trafnidiaeth Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus Seilwaith Economaidd, Seilwaith Trafnidiaeth
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	• Cymru iachach • Cymru o gymunedau cydlynol • Cymru fwy cyfartal
Cynllun Llesiant Lleol	• Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynol • Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd
Tystiolaeth Allweddol	• Cynllun a Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru • Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru • Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 • Asesiad Trafnidiaeth Strategol Pen-y-bont ar Ogwr • Mapiau Teithio Llesol a Rhwydwaith Teithio Llesol • Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr 2015-2030

- 5.2.49 Mae SP5 yn pwysleisio bod symud, cysylltedd ac eglurder cysylltiadau trafnidiaeth yn elfennau hanfodol wrth greu lle llwyddiannus a chynaliadwy. Mae rhwydwaith trafnidiaeth effeithlon ac integredig sy'n blaenoriaethu trafnidiaeth gynaliadwy yn hanfodol er mwyn cyfrannu at ddatgarboneiddio a chefnogi twf economaidd. Mae SP5 yn ei gwneud yn ofynnol i bob cynnig datblygu ystyried gwella a/neu ehangu rhwydweithiau teithio llesol a thrafnidiaeth cyhoeddus cyfatebol. Bydd hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod teithio llesol yn fwyfwy deniadol fel dewis arall credadwy yn lle ceir preifat, gan annog newidiadau moddol oddi wrth fathau anghynaliadwy o gludiant, gan helpu i hybu gweithgarwch corfforol a lleihau effaith allyriadau sy'n seiliedig ar drafnidiaeth.
- 5.2.50 Mae'r rhwydwaith priffyrdd presennol yn profi tagfeydd traffig ar hyd rhai o'r prif lwybrau a chyffyrdd, a all gael effaith negyddol ar amwynder, iechyd a llesiant a chystadleurwydd economaidd. Mae ansawdd aer gwael yn broblem allweddol mewn rhai rhannau o'r Sir, ac mae Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer wedi eu dynodi. Gall gwell cyfleoedd cludiant cynaliadwy megis rhwydweithiau teithio llesol cydlynol, gwell mesurau traffig a rhagor o gysylltedd cyffredinol helpu i wella ansawdd yr aer trwy atal traffig sy'n geir rhag cynyddu oherwydd datblygiadau newydd.
- 5.2.51 Mewn amgylcheddau mwy gwledig, mae angen cydbwysu diffyg gallu i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus o'i gymharu â'r cyfraniad y byddai'r cynnig yn ei wneud tuag at economi wledig yr ardal honno. Os oes modd, dylid lleoli datblygiadau mewn lleoliadau gwledig mewn aneddiadau neu'n agos atynt, sy'n elwa ar wasanaethau a chyfleusterau allweddol, yn hytrach nag mewn lleoliadau cefn gwlad hwnt ac yma.
- 5.2.52 Mae'n rhaid i bob mesur trafnidiaeth gael ei integreiddio'n gadarnhaol i'r lleoedd y maent yn eu gwasanaethu neu'n pasio drwyddynt. Mae'n rhaid iddynt hefyd gadw at yr hierarchaeth ddefnyddwyr yn hytrach na pharhau i ddylunio seilwaith sy'n cefnogi

trafnidiaeth â moduron. Disgwylir datblygiadau hefyd, lle mae'r Cyngor yn ystyried bod y goblygiadau trafndiaeth posibl yn arwyddocaol, er mwyn llunio Asesiad Trafnidiaeth a Chynllun Teithio cynhwysfawr. Mae'n rhaid i'r rhain ystyried pob math o drafndiaeth yn unol â'r hierarchaeth drafndiaeth, a datblygu strategaeth i leihau'r galw am draffig a lliniaru effeithiau trafndiaeth a achosir gan y cynnig.

5.2.53 Hefyd, mae angen gwerthuso a chefnogi'r capasiti sydd ar gael o rwydweithiau sydd eisoes yn bodoli gan seilwaith newydd wedi ei dargedu pan fo hynny'n briodol. Felly, bydd yn ofynnol bod datblygiad yn cyflawni, neu'n cyfrannu tuag at ddarparu cynlluniau teithio llesol, mesurau cludiant cyhoeddus, seilwaith ffyrdd, a mesurau cludiant eraill, yn unol â Chynllun Trafnidiaeth Lleol Pen-y-bont ar Ogwr a Chynllun Rhwydwaith Integredig Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd angen darparu seilwaith a mesurau cludiant mewn modd amserol er mwyn diwallu anghenion cymunedau sydd eisoes yn bodoli a chymunedau arfaethedig, a blaenoriaethir darparu cysylltiadau teithio llesol cyn gynted â phosibl. Yn ôl yr angen, ceisir rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau yr eir i'r afael yn llawn ag effeithiau datblygiadau er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol.

5.2.54 Er y dylid annog datblygiadau mewn lleoliadau sy'n lleihau'r angen i deithio ac sy'n hybu'r defnydd o drafndiaeth gynaliadwy, mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd unrhyw dwf datblygu yn debygol o arwain at ragor o alw am deithio, a bod lefelau traffig uwch a thagfeydd yn debygol o ddigwydd os na ddarperir mesurau lliniaru trafndiaeth a seilwaith priodol. Paratowyd yr Asesiad Trafnidiaeth Strategol er mwyn ystyried effaith cynigion cynlluniau a helpu i lywio'r broses o ddarparu dyraniadau tir trwy fodelu a meintoli effaith y cynigion hyn ar drafndiaeth.

PLA6: Datblygu mewn Coridorau Cludiant

Nodir y coridorau cludiant canlynol yn brif lwybrau ar gyfer symud pobl a nwyddau yn y Fwrdeistref Sirol:

PLA6(1) M4
PLA6(2) Llynfi
PLA6(3) Garw
PLA6(4) Ogwr
PLA6(5) Abercynffig-Brynmenyn
PLA6(6) Y Pîl-Abercynffig
PLA6(7) Pencoed-Y Pîl
PLA6(8) Porthcawl-Corneli

Mae'n rhaid i ddatblygiadau:

- 1) gael eu cyfeirio at leoliadau priodol a wasanaethir gan y coridorau cludiant a nodwyd; a
- 2) pheidio ag arwain at effeithiau andwyol ar weithrediad y coridorau cludiant a nodwyd. Mae'n rhaid lliniaru yn briodol unrhyw effeithiau andwyol a ragwelir, gan gynnwys trwy welliannau lleol neu strategol i goridorau cludiant penodol yn ôl yr angen.

Mae'n rhaid i gynigion datblygu newydd gael eu lleoli mewn ardaloedd y gellir cael mynediad atynt yn effeithiol er mwyn lleihau'r effaith y caiff cludo nwyddau ar y ffyrdd ar yr amgylchedd.

- 5.2.55 Mae prif aneddiadau trefol a chymunedau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu ar hyd y prif goridorau cludiant tuag at ganol tref Pen-y-bont ar Ogwr, gan ddilyn topograffeg naturiol y Fwrdeistref Sirol. Mae natur ddaearyddol y Fwrdeistref Sirol wedi arwain at grynhoad o ddatblygiadau, ar hyd coridorau llinellol yn bennaf, felly, wrth ystyried pob math o symudiad, cysylltiadau trafndiaeth a seilwaith, mae angen ymgymryd â hyn ar 'sail coridor'.
- 5.2.56 Mae angen ystyried pob math o symudiad, cysylltiadau trafndiaeth a seilwaith ar hyd llwybrau cludiant yng nghyd-destun nodweddion topograffig y Fwrdeistref Sirol y maent yn pasio drwyddi. Felly, mae PLA6 yn ymgorffori'r 'cysyniad o goridorau', sy'n sefydlu coridorau o ddiddordeb, sy'n cwmpasu gofynion defnydd tir a hygyrchedd cysylltiedig (gan gynnwys pob math o drafndiaeth) er mwyn cynorthwyo penderfyniadau ynghylch buddsoddi mewn trafndiaeth a chynllunio defnydd tir. Mae'r dull 'coridor' hefyd yn caniatáu i'r gwaith o reoli a neilltuo y rhwydwaith ffyrdd presennol gael ei wneud yn fwy effeithiol. Er enghraifft, gellir asesu lleoliad cynigion datblygu ac ystyried eu galw am drafndiaeth a safonau amgylcheddol fel yr effeithir arnynt gan faterion cludiant ar hyd y coridor. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan asesir cynigion datblygu yng nghoridorau'r cymoedd, lle mae ansawdd y rhwydwaith trafndiaeth yn amrywio'n fawr ar hyd ei goridor priodol ac mae llwybrau trafndiaeth eraill yn gyfyngedig.
- 5.2.57 Ni fydd y safonau i'w hystyried yn gyfyngedig i gapasiti'r traffig yn unig, a bennir gan led ac aliniad y gerbyttfordd a'r cyffyrdd. Bydd ffactorau megis graddau'r flaenoriaeth sydd i'w rhoi i gerddwyr, beicwyr a chldiant cyhoeddus, gweithgarwch ffryntiadau, dynodiadau ardaloedd cadwraeth, ardaloedd preswyl, parcio ar y stryd, lleoliadau ysgolion ac ysbytai, sŵn, ansawdd aer, a'r risg o ddamweiniau yn cael eu hystyried hefyd. Bydd y ffactorau hyn yn helpu i asesu'r capasiti mwyaf posibl a natur cerbydau sy'n gydnaws â safonau amgylcheddol derbyniol sy'n gysylltiedig â materion trafndiaeth.
- 5.2.58 Rheolir y coridorau er mwyn annog cerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus, yn enwedig ar gyfer teithiau i'r gwaith. Cydnabyddir hefyd fod symud nwyddau'n effeithlon ac yn ddibynadwy yn hanfodol bwysig i economi'r Fwrdeistref Sirol. O'r herwydd, bydd yn ofynnol i ddatblygiadau sy'n peri symudiadau lorïau fod wedi eu lleoli mewn ardaloedd y gellir cael mynediad iddynt yn effeithiol fel bod effaith symud nwyddau ar y ffyrdd ar yr amgylchedd yn cael ei lleihau. Mae hyn yn enwedig o arwyddocaol i goridorau'r cymoedd am y rhesymau a nodir uchod. Nodir y coridorau a nodir yn PLA6 ar y Map Cynigion.

PLA7: Datblygiad i'r Gorllewin o'r Rheilffordd, Pencoed

Ni chaniateir datblygiad a fydd yn peri cynnydd net mewn symudiadau traffig cerbydau ym Mhen-coed i'r gorllewin o'r rheilffordd, yn yr ardal a ddangosir ar y map cynigion.

- 5.2.59 Mae'r rhwydwaith priffyrdd presennol ym Mhen-coed, sy'n rhan o Goridor Cludiant Pencoed-Y Pîl, wedi ei gyfyngu'n ddifrifol gan reilffordd y brif linell rhwng Llundain a De Cymru. Mae'r mater hirdymor hwn yn gysylltiedig â Phont Ffordd Penprysg a chroesfan Ffordd Hendre, ac mae tagfeydd sylweddol eisoes yn deillio o'r datblygiad presennol ym Mhen-coed fel y trafodir ym Mhapur Cefndir Moratoriwm Datblygu Gorllewin Pencoed. O ystyried natur gymhleth y cyfyngiad hwn, nid oes unrhyw ddisgwyliad o'i liniaru o fewn cyfnod y Cynllun. I gydnabod hyn, mae Polisi PLA7 yn cynnal moratoriwm ar ddatblygu pellach, sy'n peri cynnydd net mewn symudiadau cerbydau i'r gorllewin o'r rheilffordd. Er eglurder a sicrwydd, dynodir maes penodol y mae Polisi PLA7 yn berthnasol iddo ar y Map Cynigion.
- 5.2.60 Bydd datblygiadau newydd sy'n peri cynnydd net mewn symudiadau cerbydol yn gwaethgu tagfeydd y naill ochr i groesfan y rheilffordd ac ar y gyffordd trosbont cymhleth sydd rhwng pen dwyreiniol y ffordd liniaru a Ffordd Penybont. O ystyried maint y seilwaith sydd ei angen i fynd i'r afael â materion a nodwyd ym Mhont Ffordd Penprysg a Ffordd Hendre, mae unrhyw ateb terfynol yn debygol o ddibynnu ar fuddsoddiad gan bartneriaid yn y dyfodol gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Network Rail. Yn absenoldeb ateb terfynol sy'n cael ei gynllunio a'i ariannu o hyd, mae angen gosod y moratoriwm dwysáu datblygiadau dros dro mewn ardal benodol hwn er mwyn diogelu gweithrediad y rhwydwaith trafnidiaeth ym Mhen-coed a choridor cludiant ehangach Pencoed – Y Pîl.

PLA8: Cynigion Trafnidiaeth

Mae'r cynigion trafnidiaeth canlynol yn cael eu dyrannu a'u diogelu rhag datblygiadau a fyddai'n eu hatal rhag gweithredu:

PLA8 (1) Gwelliannau coridor bysiau ar hyd Coridor Llynfi, Garw, Ogwr, Abercynffig – Bryncethin, Y Pîl – Abercynffig, Pencoed – Y Pîl a Phorthcawl – Coridor Corneli, gan gynnwys cyfnewidfa fysiau newydd ym Mhorthcawl

PLA8 (2) Cyfleuster parcio a theithio newydd sy'n seiliedig ar fysiau ym Mhorthcawl

PLA8 (3) Gwelliannau i gapasiti rheilffordd Maesteg – Pen-y-bont ar Ogwr

PLA8 (4) Gorsaf reilffordd newydd â chyfleuster parcio a theithio ym Mracla, Pen-y-bont ar Ogwr

PLA8 (5) Ehangu'r cyfleuster parcio a theithio presennol ym Mhen-coed

PLA8 (6) Ehangu/adleoli'r orsaf reilffordd bresennol gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio strategol yn y Pîl

PLA8 (7) Cyfleuster parcio a theithio newydd yn Ffordd Ewenni, Maesteg

PLA8 (8) Gwelliannau yng nghylchfannau Ewenni a Broadland, yr A48, Pen-y-bont ar Ogwr

PLA8 (9) Deuoli'r ffordd rhwng Waterton a Threlales, yr A48 / A473, Pen-y-bont ar Ogwr

PLA8 (10) Gwelliannau i'r A4063 rhwng Sarn a Maesteg
 PLA8 (11) Gwelliannau i Bont Ffordd Penprysg, Pencoed
 PLA8 (12) Bydd angen gwaith gwella priffyrdd ar ffurf cynlluniau gwella coridorau neu gyffyrdd er mwyn lliniaru effaith datblygiadau ar y rhwydwaith priffyrdd

- 5.2.61 Mae PLA8 yn nodi (ac yn ôl yr angen), yn diogelu tir ar gyfer cynlluniau trafndiaeth strategol a fydd yn darparu gwelliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus, yn gwneud gwell defnydd o'r rhwydwaith priffyrdd presennol er mwyn caniatáu i le ar ffyrdd gael ei ailddyrannu yn briodol, a fydd yn darparu teithio mwy cynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol. Mae mwyafrif y cynigion wedi eu nodi yng Nghynllun Trafndiaeth Lleol Pen-y-bont ar Ogwr ac felly maent yn gynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cynigion a nodir yn y polisi hwn ar wahanol gamau yn eu datblygiad ac er bod aliniadau llwybrau pendant a manylion ar gael ar gyfer rhai cynigion, mae'n bosibl mai dim ond aliniadau dangosol sydd gan eraill. Dangosir yr holl lwybrau ac ardaloedd sydd i'w diogelu ar y Map Cynigion.

Trafndiaeth Gyhoeddus

- 5.2.62 Yn unol â pholisi cenedlaethol, mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais ar welliannau i rwydwaith trafndiaeth gyhoeddus y Fwrdeistref Sirol. Mae sicrhau bod trafndiaeth gyhoeddus ar gael yn effeithlon ac yn effeithiol yn rhan bwysig o sicrhau bod lle yn gynaliadwy. Bydd y gwelliannau i'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus a hybir o dan bolisiau PLA8 (1) i (7) yn annog rhagor o breswylwyr ac ymwelwyr i ymgymryd â theithiau ar fws neu drên, a fydd yn helpu i leihau nifer y teithiau mewn ceir, ac yn hwyluso mynediad i gyfleoedd cyflogaeth, cyfleusterau iechyd ac addysg i bobl heb gar.
- 5.2.63 Mae darparu coridorau bysiau o ansawdd uchel yn flaenoriaeth i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac yn hanfodol i ymdrechion i annog rhagor o bobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae PLA8 (1) yn diogelu'r gwaith o ddarparu gwelliannau i Goridorau Llynfi, Garw, Ogwr, Abercynffig – Bryncethin, Y Pîl – Abercynffig, Pencoed – Y Pîl a Phorthcawl – Corneli. Bydd y gwelliannau hyn yn cynnwys gwelliannau i safleoedd bysiau, a allai gynnwys cysgodfannau newydd, ymylon palmant sydd wedi eu codi a gwelliannau i'r cerbyttffyrdd. Gellid cynnwys mesurau sy'n rhoi blaenoriaeth i fysiau pan fo hynny'n ymarferol. Bydd gwelliannau o'r fath yn annog newid yn y modd o gludo, o geir i drafndiaeth gyhoeddus.
- 5.2.64 Mae rheilffordd Maesteg yn rhan annatod o goridor trafndiaeth Llynfi, sy'n darparu'r dewis o deithio'n gynaliadwy i'r rhai sy'n byw ac yn gweithio ym Mhorth y Cymoedd ac yng Nghwm Llynfi. Diogelir gwelliannau capasiti i'r rheilffordd rhwng Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr a gan bolisi PLA8 (3), sy'n cynnig cynyddu amllder trenau o un bob awr i un bob 30 munud. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno dolen basio ac yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer cyfleoedd cludo nwyddau ychwanegol. Mae'r gwaith o wella Llinell Maesteg wedi ei gynnwys yng nghynigion Trafndiaeth Cymru ar gyfer darparu yn ystod Cam 2 o welliannau Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chynllun Cyllid Trafndiaeth Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, ac mae'n allweddol o ran darparu datblygiad

economaidd cynaliadwy, cysylltu cymunedau â'i gilydd a chysylltu pobl â chyfleoedd cyflogaeth.

- 5.2.65 Mae Polisi PLA8 (4) yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu Gorsaf Reilffordd newydd ym Mracla. Bydd yr orsaf arfaethedig yn cael ei lleoli ar Reilffordd De Cymru o Lundain i Abergwaun. Bydd yr orsaf yn darparu cyfleusterau ar gyfer cyfnewid, gan gynnwys dau blatfform, pont droed i gerddwyr/beicwyr ynghyd â gwelliannau ehangach ar gyfer mynediad i deithio llesol, a darpariaeth ar gyfer parcio a theithio. Bydd y cyfleusterau hyn yn galluogi teithiau cynaliadwy i drigolion un o ardaloedd preswyl mwyaf Pen-y-bont ar Ogwr i gyfleoedd cyflogaeth yng Nghastell-nedd Port Talbot/Abertawe, a Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ehangach.
- 5.2.66 Mae PLA8 (5) yn hybu'r gwaith o ehangu'r cyfleusterau parcio a theithio presennol yng ngorsaf reilffordd Pencoed. MAE PLA8 (6) yn cefnogi'r gwaith o ehangu'r cyfleusterau parcio a theithio presennol yng ngorsaf reilffordd y Pîl. Mae'r polisi hwn hefyd yn cefnogi'r posibilrwydd o adleoli Gorsaf Reilffordd y Pîl a chyfleuster parcio a theithio strategol newydd. Hefyd, mae PLA8 (7) yn diogelu'r ddarpariaeth parcio a theithio newydd yn Ffordd Ewenni, Maesteg. Bydd y polisïau hyn yn darparu cyfleoedd i gyfnewid yn effeithiol rhwng teithio llesol, trafnidiaeth gyhoeddus a cheir er mwyn hwyluso gostyngiad yn hyd a nifer y teithiau mewn ceir, yn enwedig ar gyfer teithiau i'r gwaith. Mae darparu ar gyfer cyfnewid cyfleus ac effeithlon rhwng dulliau trafnidiaeth yn hanfodol o ran gwneud dewisiadau teithio cynaliadwy yn fwy deniadol ac yn ymarferol i breswylwyr.

Y Rhwydwaith Priffyrdd

- 5.2.67 Mae rhwydwaith priffyrdd y Fwrdeistref Sirol o dan bwysau traffig sylweddol gan fod tagfeydd yn digwydd yn ystod cyfnodau brig ac mewn mannau lle ceir problemau yn lleol. Mae'n rhaid canolbwyntio gwelliannau priffyrdd ar wneud gwell defnydd o'r rhwydwaith priffyrdd presennol, gan bwysleisio ar wella dibynadwyedd o ran amseroedd teithio a llif traffig, lleihau tagfeydd, gwella ansawdd yr aer a diogelwch ar y ffyrdd ar y rhwydwaith strategol.
- 5.2.68 Mae cynnal rhwydwaith priffyrdd cadarn yn hanfodol er lles economaidd ac amgylcheddol y Fwrdeistref Sirol. Mae Polisi PLA8 (8) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwelliannau yng nghylchfannau Ewenni a Broadland ar yr A48, ac mae PLA8 (9) yn diogelu tir ar gyfer deuli'r A48/A473 rhwng Waterton a Threlales. Bydd mesurau sy'n gwella capasiti, effeithlonrwydd a diogelwch y coridorau cludiant hyn a'u cyffyrdd cysylltiedig o fudd i bob defnyddiwr ffordd a datblygiad ar eu hyd. Mae cyfyngiadau sylweddol ar hyd yr A4063 rhwng Sarn a Maesteg sy'n creu pryderon ynghylch capasiti a diogelwch. Bydd gwelliannau priodol ar hyd y llwybr hwn yn cael eu hybu trwy bolisi PLA8 (10). Mae Polisi PLA8 (11) yn diogelu'r ddarpariaeth o welliannau i'r gyffordd trosbont gymhleth yn Ffordd Penprysg, Pencoed. Mae gan y gyffordd hon problemau capasiti difrifol, darpariaeth teithio llesol gwael ac, ynghyd â'r rheilffordd, mae'n ffactor sy'n hollti'r gymuned yn sylweddol.
- 5.2.69 Mae Astudiaeth Trafnidiaeth Strategol wedi ei chynnal er mwyn ystyried y materion capasiti o ganlyniad i'r twf a hybir trwy'r Cynllun. Mae'r Astudiaeth wedi nodi cyffyrdd a

choridorau y bydd angen eu gwella. O ganlyniad, mae Polisi PLA8 (12) yn amlinellu'r angen am nifer o ymyriadau sydd eu hangen i liniaru effeithiau datblygu ar y rhwydwaith trafnidiaeth. Ceisir cyflawni'r ymyriadau hyn trwy gyfraniadau datblygwyr megis Adran 106, neu unrhyw ddull ariannu arall y bydd y Cyngor yn ei fabwysiadu.

- 5.2.70 Nodir y rhestr o welliannau coridor a chyffordd sy'n ofynnol gan Bolisi PLA8 (12) er mwyn lliniaru effaith datblygiadau ar y rhwydwaith priffyrdd yn y Cynllun Cyflawni Seilwaith a thrwy bolisiau sy'n benodol i safle. Gallai'r Cynlluniau Gwella Coridor gynnwys cynlluniau teithio llesol, mesurau blaenoriaeth bysiau, gwella arwyddion a ffyrdd newydd ac ati. Gallai'r Cynlluniau Gwella Cyffyrdd gynnwys uwchraddio signalau, cyffyrdd newydd, gwella capasiti cylchfannau, a allai gynnwys ymestyn/creu lonydd dynesu ychwanegol ac ati.

PLA9: Datblygiad sy'n effeithio ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Yn rhan o fabwysiadu dull cynaliadwy o greu lleoedd, mae'n rhaid i ddatblygiad gysylltu â'r rhwydwaith hawl dramwy gyhoeddus, ond gan geisio lleihau ei effeithiau. Mae'n rhaid lliniaru unrhyw effeithiau andwyol a ragwelir mewn cysylltiad â chymeriad, diogelwch, mwynhad a'r defnydd cyfleus o hawl dramwy gyhoeddus trwy ddarparu llwybr arall derbyniol.

- 5.2.71 Mae "Hawliau Tramwy Cyhoeddus" fel y cyfeirir atynt yn PLA9 yn ymwneud â ffyrdd nad ydynt yn briffyrdd. Maent yn cynnwys cilffyrdd cyfyngedig, cilffyrdd sy'n agored i'r holl draffig, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a llwybrau troed presennol ac arfaethedig, y mae pob un ohonynt yn briffyrdd statudol.
- 5.2.72 Yn wreiddiol, roedd llwybrau troed a llwybrau ceffylau yn fodd hanfodol o gyrraedd y gwaith, ymweld â pherthnasau a ffrindiau, ac o gael mynediad at lawer o weithgareddau eraill. Heddiw, gwneir llawer o'r teithiau hyn gan ddefnyddio car modur neu fathau eraill o dtrafnidiaeth, ac fel arfer ystyrir y cyfleusterau hyn yn ased adloniadol. Mae'r mynediad parod hwn yn helpu i hybu iechyd a llesiant yn y gymuned, trwy roi cyfle i bob sector o'r boblogaeth gael mynediad i gefn gwlad at ddibenion adloniadol. Fodd bynnag, yng nghyd-destun creu datblygiadau a chymunedau sy'n fwy cynaliadwy, mae'n bwysig bod cerdded a beicio yn cael eu hannog fel dulliau teithio. Felly, dylid diogelu a datblygu'r hawliau tramwy cyhoeddus presennol er mwyn ddiwallu anghenion y cerddwr a'r beiciwr. Felly, bydd y Cyngor yn diogelu hawliau tramwy cyhoeddus er mwyn ffafrio cerdded, beicio a, phan fo hynny'n briodol, marchogaeth.
- 5.2.73 Mae'n rhaid i ddatblygiad ddarparu ar gyfer hawliau tramwy sydd eisoes bodoli eisoes naill ai trwy ddiogelu'r hawl tramwy, neu trwy ddarparu llwybr arall sydd yr un mor effeithiol a deniadol. Yn y naill achos neu'r llall, mae'n rhaid i'r hawl tramwy y mae'r datblygiad yn effeithio arni ddarparu amgylchedd diogel a dymunol i bob cerddwr er mwyn ei annog i'w ddefnyddio yn y dyfodol. Fel cerdded, nid yw beicio'n creu llygredd ac mae'n ddull cynaliadwy o gludo y dylid ei annog. Mae'n rhaid i ddatblygiad ddarparu hefyd ar gyfer llwybrau beicio naill ai trwy ddiogelu'r llwybrau presennol, neu drwy

ddarparu llwybr arall sydd yr un mor effeithiol, sy'n ddiogel ac yn ddymunol i'w ddefnyddio.

- 5.2.74 Mae'n rhaid i gynllun dyluniadau ar gyfer datblygiadau preswyl, cyflogaeth, manwerthu, hamdden a datblygiadau eraill gynnwys darpariaeth ar gyfer cerdded a beicio a, phan fo hynny'n bosibl, mae'n rhaid iddo gynnwys cysylltiadau neu fynediad i'r rhwydwaith teithio llesol sy'n datblygu.

PLA10: Diogelu Seilwaith Rheilffordd Segur

Ni chaniateir datblygiadau sy'n atal y posibilrwydd o ailagor seilwaith rheilffyrdd diddefnydd neu segur neu'r posibilrwydd o'u hailddefnyddio at ddibenion trafnidiaeth arall neu Deithio Llesol.

- 5.2.75 Yn unol â pholisi cenedlaethol, bydd rheilffyrdd diddefnydd y Fwrdeistref Sirol yn cael eu diogelu rhag datblygiadau a allai eu hatal rhag cael eu hadfer ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Gellid ystyried ei bod yn briodol defnyddio aliniadau rheilffyrdd na ddefnyddir mwyach at ddefnydd teithio llesol fel mesur dros dro. Mae nifer o lwybrau teithio llesol sydd eisoes wedi eu rhoi ar waith trwy ailddatblygu'r seilwaith rheilffyrdd diddefnydd. Mae nifer o reilffyrdd diddefnydd o hyd yn y Fwrdeistref Sirol sydd â photensial ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth, a bydd gweddill yr adrannau'n cael eu hasesu o ran eu haddasrwydd ar gyfer eu hailddatblygu fel llwybrau trafnidiaeth cynaliadwy. Mae Map Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor yn cynnwys nifer o gynigion teithio llesol mewn coridorau rheilffordd diddefnydd. Felly, mae PLA10 yn diogelu'r holl seilwaith rheilffyrdd diddefnydd rhag datblygiadau nad ydynt yn ddatblygiadau trafnidiaeth, nes y gwneir asesiad o'u haddasrwydd ar gyfer cynlluniau trafnidiaeth yn y dyfodol.

PLA11: Safonau Parcio

Mae'n rhaid i bob datblygiad gael ei wasanaethu gan lefelau parcio priodol. Dylai hyn fod yn unol â safonau parcio mabwysiedig. Mae'n rhaid ystyried y gofynion ar gyfer beiciau, ceir, beiciau modur a cherbydau gwasanaeth.

- 5.2.76 Mae'r mannau parcio ceir sydd ar gael yn dylanwadu'n fawr ar sut mae pobl yn dewis teithio, felly, bydd y Cyngor yn ceisio cyfyngu ar ddatblygiadau sy'n creu lefel uchel o deithiau (e.e. swyddfeydd, siopau a defnyddiau hamdden) gan ffafrio lleoliadau sy'n cael eu gwasanaethu'n dda gan gludiant cyhoeddus. Mae angen dull a ystyrir yn ofalus i sicrhau y darperir parcio priodol ar gyfer gwasanaethu datblygiadau, ochr yn ochr â'r gydnabyddiaeth bod y mannau parcio sydd ar gael a'r taliadau parcio a gymhwysir, yn offer allweddol ar gyfer hwyluso gostyngiad yn nifer y teithiau a wneir gan ddefnyddio

ceir preifat ac annog pobl i newid eu dulliau teithio gan ddewis dulliau teithio sy'n fwy cynaliadwy.

- 5.2.77 At ddibenion y polisi hwn, mae'r cyfeiriad at 'priodol' mewn cysylltiad â chwantwm parcio yn cyfeirio at yr hyn sy'n gyson â'r Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig ynghylch Parcio. Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ynghylch Safonau Parcio yn ceisio sicrhau dull tryloyw a chyson o ddarparu parcio ac o gyflwyno cynlluniau teithio ac ystyriaethau cynaliadwyedd a fydd yn rhoi gwybod i ddatblygwyr, dylunwyr ac adeiladwyr am yr hyn a ddisgwylir ganddynt yn gynnar yn y broses ddatblygu.
- 5.2.78 Gall parcio ceir ar y stryd achosi problemau trwy leihau lled y ffordd, a thrwy hynny effeithio ar lif rhydd y traffig ac ychwanegu at beryglon i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr eraill y ffordd. Felly, gwrthodir ceisiadau pan fo'r tebygolrwydd o barcio ar y stryd yn arwain at y pryderon hyn. Mewn rhai achosion, gall hyn effeithio hefyd ar amwynder preswylwyr y mae'n rhaid iddynt gystadlu am fannau parcio ceir.

Teithio Llesol

PLA12: Teithio Llesol

Mae'n rhaid i ddatblygiadau gynyddu mynediad i gerddwyr a seiclwyr i'r eithaf trwy flaenoriaethu'r ddarpariaeth sydd ar y safle, a darparu neu wneud cyfraniadau ariannol tuag at gyflawni'r mesurau canlynol oddi ar y safle fel y bo'n briodol:

- 1) Llwybrau cerdded a beicio athraidd, darllenadwy, uniongyrchol, cyfleus, deniadol a diogel sy'n cysylltu'r datblygiad arfaethedig â:
 - a) aneddiadau cyfagos;
 - b) mathau o gludiant cyhoeddus;
 - c) cyfleusterau cymunedol;
 - d) ardaloedd masnachol a chyflogaeth;
 - e) cyfleusterau addysgol;
 - f) cyrchfannau a chyfleusterau twristiaeth; ac
 - g) cyfleoedd hamdden;
- 2) Cyflawni cynigion a nodir ym Map Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor;
- 3) Gwelliannau, cysylltiadau a/neu estyniadau i:
 - a) Llwybrau a chynigion a nodir ar y Map Llwybrau Presennol a'r Map Rhwydwaith Teithio Llesol;
 - b) Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol;
 - c) Hawliau Tramwy Cyhoeddus presennol;
 - d) Llwybrau Diogel presennol ac arfaethedig i'r Ysgol; ac
 - e) llwybrau sy'n rhan o'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd.
- 4) Cyflawni seilwaith a ddyluniwyd yn unol â Safonau Dylunio Deddf Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, neu'r hyn sy'n ei amnewid, ac unrhyw safonau ategol priodol; a

- 5) Cyfleusterau sy'n hybu nifer y bobl sy'n cerdded ac yn beicio, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: arwyddion priodol; manau parcio diogel a chyfleus ar gyfer beiciau; seddau; cyfleusterau ar gyfer cynnal a chadw beiciau ar strydoedd; a chyfleusterau newid a chawod.

5.2.79 Mae PLA12 yn cefnogi datblygiadau newydd sy'n ymgorffori nodweddion a chyfleusterau diogel sydd wedi eu cynllunio'n dda a fydd yn hygyrch i bawb gerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd, gan leihau'r ddibyniaeth fawr bresennol ar geir preifat. Nod y CDLI Newydd yw lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat a helpu'r Fwrdeistref Sirol i gyflawni'r egwyddorion a nodir gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, gyda'r nod terfynol o wella ac ehangu'r llwybrau teithio llesol cyfredol fel y nodir yn y Mapiau Llwybrau Presennol.

5.2.80 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynhyrchu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol er mwyn nodi'r llwybrau cerdded a beicio sydd eu hangen i greu rhwydweithiau integredig llawn ar gyfer cerdded a beicio i'r gwaith, addysg, gwasanaethau a chyfleusterau. Mae Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor yn nodi cynlluniau manwl ar gyfer rhwydwaith o lwybrau a chyfleusterau teithio llesol yn y Fwrdeistref Sirol ar gyfer y 15 mlynedd nesaf. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y gellir eu gweld ar wefan y Cyngor. Nod y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol yw gwella mynediad at wasanaethau a chyfleusterau allweddol gan gynnwys canol trefi, safleoedd cyflogaeth, ardaloedd manwerthu a chanolfannau trafnidiaeth, gwell mynediad at gyfleusterau addysgol megis ysgolion a cholegau a gwelliannau i'r rhwydwaith beicio strategol presennol yn y Fwrdeistref Sirol, gan ehangu'r rhwydwaith hwnnw. Mae'r llwybrau teithio llesol presennol yn y Fwrdeistref Sirol yn cynnwys:

- Betws
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Gilfach Goch
- Maesteg
- Cwm Ogwr
- Pencoed
- Pontycymer
- Porthcawl
- Y Pîl

5.2.81 Aliniadau dangosol yw'r llwybrau a'r cynigion a ddangosir ar y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol ac mae'n bosibl y byddant yn newid wrth i lwybrau gael eu datblygu ymhellach. Dylid manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i wella'r llwybrau hyn ymhellach, gan ddarparu cysylltiadau cerdded a fydd yn caniatáu i ddatblygiadau newydd a chymunedau sydd eisoes yn bodoli integreiddio.

5.2.82 Bydd y dasg o roi'r polisi hwn ar waith yn cael ei hwyluso gan y broses ddatblygu. Wrth ystyried cynigion datblygu, bydd cynllun y dyluniad yn cael ei ystyried a rhoddir blaenoriaeth i'r cynigion sy'n cynnwys cerdded a beicio. Bydd dyluniad o ansawdd uchel sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at wahanolrwydd cymunedau a lleoedd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cerdded a beicio yn ddewis teithio deniadol a phoblogaidd. Felly, dylai datblygwyr sicrhau y defnyddir egwyddorion allweddol dylunio er mwyn cyflawni

teithio llesol. Gall cadw at Ganllawiau Dylunio'r Ddeddf Teithio Llesol a chanllawiau perthnasol eraill helpu i gyflawni safonau arferion da.

- 5.2.83 Hefyd, dylai datblygiadau geisio gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd yn rhan o gynigion teithio llesol, gan gydnabod y potensial o gyfuno systemau plannu naturiol, glesni a/neu ddŵr er mwyn creu llwybrau gwyrdd sy'n ddeniadol ac yn ddiogel i feicwyr a cherddwyr. Gall ychwanegu seilwaith gwyrdd at lwybrau teithio llesol gynnig nifer o fanteision gan gynnwys lliniaru llifogydd, addasu i'r newid yn yr hinsawdd, gwell bioamrywiaeth, gwell cysylltedd ac effeithiau cadarnhaol ar lesiant. Bydd datblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â llwybrau o'r fath yn helpu i hybu ffyrdd mwy egnïol o fyw, yn mynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol ac yn darparu cysylltiadau agos â'r mannau allweddol (h.y. cyflogaeth, addysg neu adloniant) y bydd trigolion y Fwrdeistref Sirol yn debygol o'u defnyddio.



Rhwydwaith Llwybrau Beicio, Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

- 5.2.84 Bydd ystyried teithio llesol yn allweddol wrth uwchgynllunio safleoedd strategol yn y Fwrdeistref Sirol. Dylid ystyried PLA12 yn hanfodol wrth gyflawni unrhyw safle strategol neu unrhyw gynnig, gan sicrhau bod datblygiad yn cyfrannu at hybu ffordd gynaliadwy ac iach o fyw. Sicrheir darpariaeth seilwaith trwy amodau cynllunio, rhwymedigaethau cynllunio a chytundebau Adran 106. Bydd gweithredu'r Polisi hwn yn helpu i fynd i'r afael â llygredd a gludir yn yr aer sy'n cael ei allyrru gan draffig ffyrdd, a fydd yn cyfrannu at ddatgarboneiddio'r Fwrdeistref Sirol.
- 5.2.85 Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn chwarae rhan bwysig yn natblygiad a thwf economaidd rhanbarth De-ddwyrain Cymru. Mae'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr ag awdurdodau lleol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd er mwyn mynd i'r afael â materion megis bod heb waith a chysylltiadau trafnidiaeth gwael. Mae 'Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd' yn bwriadu adeiladu ar gryfderau sectoraidd y rhanbarth

a bydd yn darparu cyfleoedd i fynd i'r afael â rhwystrau i dwf economaidd trwy: wella cysylltedd trafnidiaeth; cynyddu lefelau sgiliau ymhellach fyth; cefnogi pobl i gael gwaith; a rhoi'r cymorth sydd ei angen arnynt i fusnesau fel y gallant arloesi a thyfu. Mae prosiectau allweddol yn cynnwys cyflawni Metro De-ddwyrain Cymru a moderneiddio rheilffyrdd y Cymoedd.

5.3 Creu Cymunedau Egniïol, Iach, Cydlynol a Chymdeithasol

- 5.3.1 Mae'r adran hon o'r Cynllun yn canolbwyntio ar gyflawni cymunedau cydlynol sydd wedi eu cysylltu'n dda ac sy'n egniïol, yn iach ac yn gymdeithasol. Wrth fynd i'r afael ag anghenion ehangach y gymuned, mae pwyslais penodol ar ddarparu cymysgedd o ddefnyddiau cyflenwol sy'n hygyrch ac a fydd yn diwallu anghenion pob aelod o gymdeithas. Mae'r syniad eang hwn yn ymestyn y tu hwnt i sicrhau bod digon o dir ar gael i ddiwallu'r angen am dai newydd (marchnad a fforddiadwy), mae'n gofyn am groesawu mewn modd integredig y broses o greu lleoedd cynaliadwy. Felly, mae angen cydfuddiannol o ran sicrhau bod amrywiaeth a dewis o ddarpariaeth tai i ymateb i anghenion newidiol aelwydydd dros gyfnod y CDLI Newydd, er mwyn cyflawni gwasanaethau a swyddi yn nes at ble mae pobl yn byw a chydabod swyddogaeth yr amgylchedd ehangach o ran iechyd a llesiant da. Mae'r CDLI Newydd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng cymunedau a chefnogi pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw sy'n gyflawn yn ddiwylliannol trwy wella'r gallu i gael gafael ar wasanaethau, cyfleoedd diwylliannol a gweithgareddau adloniant.
- 5.3.2 Mae diwallu'r angen am dai yn hanfodol i'r CDLI Newydd, fel angen ynddo ei hun, a gynhyrchir o nodweddion poblogaeth sy'n newid, a hefyd oherwydd bod tai yn rhan bwysig o'r seilwaith cymorth sydd ei angen i gyflawni agenda creu lleoedd y Cyngor. Mae'n hanfodol y cynhelir ansawdd bywyd trigolion y Fwrdeistref Sirol ac y diwellir yn ddigonol ar ei gyfer. Mae'n rhaid i wasanaethau cymunedol a chyfleusterau cymdeithasol barhau i fynd i'r afael â'u hanghenion, heb gael eu llesteirio na'u tanseilio gan dwf cynlluniedig. Yn ogystal â chyflawni cartrefi newydd i ddiwallu anghenion aelwydydd sydd wrthi'n ffurfio, bydd y CDLI felly yn darparu twf angenrheidiol er mwyn sicrhau buddsoddiad mewn seilwaith, cyfleusterau a manteision ychwanegol i gymunedau lleol. Bydd y cynnydd arfaethedig yn y cyflenwad tai hefyd yn gweithredu fel sbardun allweddol i dwf economaidd ledled Pen-y-bont ar Ogwr a'r rhanbarthau ehangach.
- 5.3.3 Er mwyn creu cymunedau cymysg a chytbwys, manteisir i'r eithaf ar y dewis o dai er mwyn darparu ar gyfer amrywiaeth o feintiau, mathau a deiliadaethau llety a all gynyddu'r gallu i gael gafael ar gartrefi newydd o safon, gan gynnwys tai sydd ar y farchnad a thai fforddiadwy. Mae cyflawni cartrefi newydd yn helpu i leddfu pwysau'r farchnad dai trwy roi hwb i'r cyflenwad ac atal prisiau tai rhag codi'n afreolus mewn marchnad dai y cyfyngir arni fel arall. Mae hyn yn helpu i wella fforddiadwyedd cyffredinol y farchnad ac yn darparu eiddo digonol fel y gall **cenedlaethau'r dyfodol** fyw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr trwy ddarparu datblygiadau deiliadaeth cymysg. Felly, mae twf tai cynaliadwy yn galluogi'r broses o gyflawni **tai fforddiadwy** cyflenwol ychwanegol er mwyn cynnig diogelwch a sicrwydd i deuluoedd lleol nad ydynt yn gallu diwallu eu hanghenion yn y farchnad dai. Gall hyn gynnwys rhent cymdeithasol, pan

bennir rhenti yn nodweddiadol ar lefelau meincnod, a thai canolradd i brynwyr tro cyntaf sy'n ei chael hi'n anodd mynd ar yr ysgol eiddo. Felly, mae cynllunio ar gyfer twf yn chwarae swyddogaeth bwysig o ran sicrhau cyfraniadau gan ddatblygwyr er mwyn darparu tai fforddiadwy integredig mewn datblygiadau newydd gyda'r nod o greu cymunedau cynaliadwy, deiliadaeth gymysg.

- 5.3.4 Mae twf cynaliadwy yn cael effaith enfawr ar y farchnad lafur hefyd drwy greu **cyfleoedd cyflogaeth newydd**. I ddechrau, mae datblygiadau preswyl yn creu swyddi i weithwyr adeiladu ynghyd â'r rhai sydd mewn galwedigaethau cysylltiedig a chwmnïau cyflenwi. Mae hyn yn peri effaith luosydd, wrth i drigolion newydd symud i'r cyffiniau ac wrth i fusnesau a gwasanaethau lleol elwa ar refeniw uwch. Yna daw twf economaidd tymor hwy yn gynaliadwy wrth i weithlu medrus, buddsoddwyr a chyflogwyr mawr gael eu denu i'r ardal, gan arwain at ail-droi rhagor o refeniw yn yr economi leol. Gall hyn wella'r rhagolygon swyddi cymunedol a lleihau'r angen i breswylwyr gymudo allan o'r Fwrdeistref Sirol at ddibenion cyflogaeth.
- 5.3.5 Mae lefelau priodol o dwf cynaliadwy hefyd yn creu cyfleoedd newydd i **sicrhau seilwaith cysylltiedig** megis gwell darpariaeth addysg, cyfleusterau hamdden a chysylltiadau trafndiaeth. Yn y pen draw, mae meddianwyr cartrefi newydd yn rhoi rhagor o alw ar y seilwaith presennol, sydd eisoes yn llawn i'w gapasiti mewn rhai ardaloedd. Felly, mae cynllunio ar gyfer twf yn darparu cyfle allweddol i arfarnu'r effeithiau ar y seilwaith presennol, nodi gofynion cyflawni ac yna mynd i'r afael â diffygion trwy rwymedigaethau cynllunio. Er enghraifft, bydd twf sylweddol mewn tai yn arwain at alw am leoedd mewn ysgolion yn y dyfodol. Os yw'r lleoedd yn gyfyngedig neu os nad oes lleoedd dros ben yn yr ysgol(ion) presennol, mae'r datblygiad arfaethedig yn rhoi baich ar y gymuned y gellir ei ddatrys trwy gyfraniadau datblygwyr. Efallai mai dim ond atebion interim megis estyniadau y bydd lefelau twf bach eu cefnogi, er y cefnogir twf cynaliadwy ar raddfa strategol gan **ddarpariaeth ysgol newydd** a'r seilwaith angenrheidiol arall.
- 5.3.6 Yn yr un modd, gellir mynd i'r afael â materion capasiti ar gyffyrdd ffyrdd mawr (y gellid eu gwaethygu ymhellach gan ddatblygiadau newydd) drwy ei gwneud yn ofynnol i gael darpariaeth rheoli traffig newydd, ffyrdd newydd, a gwell cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus er mwyn darparu ar gyfer y lefelau twf angenrheidiol. Mae'n anorfod bod graddfa'r gwelliannau yn dibynnu ar raddfa unrhyw ddatblygiad newydd yn y cyffiniau ac mae datblygiadau sydd wedi eu cynllunio'n gynhwysfawr yn darparu rhagor o gyfleoedd i uwchraddio seilwaith mawr gan gynnwys **llwybrau Teithio Llesol**. Felly, cynllunnir ar gyfer lefelau twf cynaliadwy mewn modd a fydd yn galluogi gwelliannau sylweddol i seilwaith ffisegol a chymdeithasol er mwyn cynyddu ymarferoldeb ac apêl Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer trigolion, buddsoddwyr a busnesau.

Strategaeth Tai Cynaliadwy

- 5.3.7 Mae Polisi Cynllunio Cymru o'r farn mai cartrefi fforddiadwy o ansawdd da yw'r 'sylfaen byw'n dda sy'n dod ag ystod eang o fanteision i iechyd, dysgu a ffyniant'. Mae hyn yn hanfodol er mwyn gwella llesiant y gymuned, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Un o swyddogaethau allweddol SP6 felly yw darparu cyflenwad priodol a chynaliadwy o dir ar gyfer tai er mwyn cyflawni cymunedau cydgysylltiedig a chytbwys sy'n sail fel y

gall unigolion a theuluoedd ffynnu ym mhob agwedd ar eu bywyd. Caiff hyn ei fonitro trwy lwybr tai, sy'n offeryn allweddol ar gyfer dangos y gyfradd ddisgwyliedig wrth gyflawni tai, ar gyfer tai sydd ar y farchnad a thai fforddiadwy yn ystod cyfnod y CDLI Newydd (gweler Atodiad 1). Bydd hyn yn gwneud yn siŵr bod cyflenwad tir y gellir ei gyflawni yn cael ei sicrhau a'i gynnal er mwyn bodloni'r angen am dai.

SP6: Strategaeth Tai Cynaliadwy

Mae'r cynllun yn darparu ar gyfer 9,207 o gartrefi i hybu'r broses o greu a gwella cymunedau cynaliadwy ac mae'n bodloni'r gofyniad tai o 7,575 o gartrefi ar gyfer cyfnod y Cynllun, a bydd 1,977 o'r cartrefi hyn yn rhai fforddiadwy. Caiff datblygiadau eu dosbarthu yn unol â Pholisi Strategol SP1, yn seiliedig ar y Strategaeth Tai Cynaliadwy a fydd yn:

- 1) Blaenoriaethu ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen (Tir llwyd);
- 2) Galluogi'r broses o ddarparu Safleoedd Strategol, gan gynnwys Safleoedd Adfywio y tu mewn i ffiniau aneddiadau presennol ac Estyniadau Trefol Cynaliadwy ar gyrion aneddiadau sefydledig;
- 3) Galluogi Safleoedd Ymyl Aneddiad y tu mewn i aneddiadau sefydledig, ac ar eu cyrion;
- 4) Cefnogi datblygiadau preswyl ar hap ar safleoedd priodol yn yr anheddiad, gan ganolbwyntio ar ailddefnyddio tir a ddatblygwyd o'r blaen;
- 5) Galluogi safleoedd eithriedig y tu mewn i ffiniau aneddiadau neu'n gyfagos atynt, er mwyn cyflawni tai fforddiadwy a chartrefi sy'n darparu ar gyfer angen lleol a nodwyd; a
- 6) Cefnogi'r defnydd o Gynlluniau Bro i safleoedd datblygu lleol bach sy'n adlewyrchu nodweddion unigryw lleol ac sy'n mynd i'r afael â phroblemau ar raddfa gymunedol a phenodol a hybu cyfleoedd hunanadeiladu ac adeiadu ar archeb.

Bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu tai y tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig ym mhob ardal, oni bai yr ystyrir y cynnig yn achos eithriadol priodol fel y nodir ym Mholisi Rheoli Datblygu COM5.

Mae cyflawni'r gofyniad tai yn hanfodol i effeithiolrwydd y CDLI a bydd yn cael ei fonitro'n flynyddol trwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol.

Amcanion y CDLI	ISAMCAN: 1, 2 AMCAN: 2c
Dyfodol Cymru	Siapio Twf Trefol a Chreu Lleoedd Strategol: Adfywio Cyflawni Tai Fforddiadwy

Polisi Cynllunio Cymru	Dewisiadau Strategol a Gofodol: Creu Lleoedd Strategol Y Strategaeth Ofodol a'r Drefn o Chwilio am Safleoedd Hygyrchedd, Tir a Ddatblygwyd o'r Blaen, Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol, Byw mewn Lle: Tai Y Seilwaith Ategol
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru ffyniannus Cymru gydnerth
Cynllun Llesiant Lleol	Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	Adroddiad Dadansoddiad a Rhagolygon Demograffig (2019) ac Atodiad i'r Diweddariad Demograffeg (2020) Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (2021) Papur Cefndir y Dewisiadau Strategaeth Gofodol Papur Cefndir Dewisiadau Twf Strategol Astudiaeth Hyfywedd ar draws y Cynllun (2021) Asesiad o Aneddiadau (2019, diweddarwyd yn 2021) Papur Cefndir Lleihau'r Tir Amaethyddol Gorau a Mwyaf Amlbwrpas a Gollir (2021) Asesiad Safle Posibl

5.3.8 Mae'r Cynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer 9,207 o anheddau newydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (sy'n ymgorffori 1,632 annedd dros ben y dyraniad / lwfans hyblygrwydd o 20%) er mwyn darparu ar gyfer gofyniad tai o 7,575 o anheddau yn ystod 15 mlynedd y cyfnod CDLI rhwng 2018 a 2033. Fel y dangosir drwy'r Trywydd Tai (Atodiad 1), mae'r lefel hon o hyblygrwydd yn dangos yn glir y cyflawnwyd y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ddisgwylir (AABR) drwy gydol cyfnod y cynllun. Cafodd y lwfans hyblygrwydd ei gynnwys i sicrhau y bydd y Cynllun yn parhau'n effeithiol pe bai amgylchiadau'n newid megis methu cyflawni safleoedd allweddol a/neu broblemau eraill annisgwyl. Bydd hyn yn caniatáu i'r cynllun a'r trywydd fod yn gydnerth ac yn ddigon addasadwy i ymdrin ag unrhyw newidiadau, gan alluogi cyflawniad y gofyniad tai.

- **Ymrwymadau Banc Tir**, gan gynnwys yr hyn a gwblhawyd hyd yma, yr unedau sy'n cael eu hadeiladu a safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio ac y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod y cynllun;
- **Safleoedd ar Hap** y disgwylir iddynt ddod ymlaen yn ystod cyfnod y Cynllun, yn seiliedig ar ddadansoddiad o dueddiadau'r gorffennol ac Astudiaeth Capasiti Trefol 2020, gan gynnwys safleoedd bach (llai na 10 uned) a safleoedd ar hap mawr (10 uned neu fwy); a
- **Dyraniadau Tai Newydd**, gan gynnwys dyraniadau strategol allweddol ynghyd â dyraniadau tai llai, a nodir yn COM1 ac a ategir gan dystiolaeth gadarn gan hyrwyddwyr safleoedd er mwyn dangos eu hyfywedd a'u gallu i gyflawni. Mae'r elfen gyflenwi hon hefyd yn cynnwys dyraniadau a gyflwynwyd o'r Cynllun

blaenorol, a ategir gan dystiolaeth glir bod amgylchiadau wedi newid a bod y safleoedd yn ddichonadwy ac y gellir eu cyflawni yn ystod cyfnod y CDLI Newydd.

5.3.10 Mae darparu tai fforddiadwy yn rhan annatod o ofyniad tai cyffredinol y CDLI, sy'n ymgorffori 1,977 uned tai fforddiadwy. Mae cydbwysedd integredig o ran daliadaethau yn fodd hanfodol o greu cymunedau cynaliadwy ac mae'r CDLI Newydd yn chwarae swyddogaeth bwysig o ran sicrhau llety addas i aelwydydd sy'n gallu ac sy'n methu â diwallu eu hanghenion yn y farchnad. Diffinnir tai fforddiadwy gan Bolisiau a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol fel,

'tai lle mae trefniadau diogel yn eu lle i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r rhai hynny nad ydynt yn gallu fforddio tai ar y farchnad, ar gyfer y meddiannydd cyntaf ac ar gyfer meddianwyr dilynol'. Fodd bynnag, '[p]an fydd cynllun fforddiadwy yn darparu ffyrdd cam wrth-gam o gyrraedd perchenogaeth lawn, rhaid cael trefniadau diogel i sicrhau bod y derbyniadau cyfalaf yn cael eu hailgylchu i ddarparu tai fforddiadwy yn eu lle'.

Mae tai fforddiadwy yn cynnwys:

- Tai Rhent Cymdeithasol, a ddarperir gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig pan fo lefelau rhent yn ystyriol o ganllawiau renti a rhenti meincnod Llywodraeth Cymru; a
- Thai Canolradd: pan fo prisiau neu renti yn uwch na phrisiau tai rhent cymdeithasol ond yn is na phrisiau neu renti y tai sydd ar y farchnad. Mae hyn yn wahanol i dai cost isel sydd ar y farchnad, nad ystyrir eu bod yn dai fforddiadwy at ddibenion y system cynllunio defnydd tir.

5.3.11 Mae'r Cyngor wedi paratoi Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol wedi'i ddiweddarau (2021) ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol hwn yn nodi angen blynyddol am 451 o anheddau fforddiadwy dros y cyfnod asesu confensiynol o bum mlynedd (y mae 62% ohonynt yn rhent cymdeithasol a 38% ohonynt yn ganolradd), yn seiliedig ar y dybiaeth y bydd yr ôl-groniad presennol yn cael ei glirio yn ystod y pum mlynedd hyn. Hefyd, nodir angen blynyddol ychwanegol o 288 o anheddau fforddiadwy dros y 10 mlynedd sy'n weddill o gyfnod y CDLI (y mae 50% ohonynt yn rhent cymdeithasol a 50% ohonynt yn ganolradd), sy'n deillio o anghenion newydd sy'n codi o aelwydydd newydd sy'n ffurfio ynghyd ag aelwydydd presennol sy'n mynd i angen. Cyfanswm yr angen am dai fforddiadwy sydd wedi ei allosod ar gyfer holl gyfnod y CDLI Newydd (2018-2033) yw **5,134 o unedau tai fforddiadwy, sy'n cynnwys 2,839 o anheddau a osodir ar rent cymdeithasol a 2,295 o anheddau canolradd**. Mae hyn wedi llywio datblygiad y CDLI Newydd er mwyn sicrhau y bydd y Cynllun yn cyfrannu'n briodol at ddarpariaeth tai fforddiadwy, trwy drothwyon a chyfrannau dichonadwy. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod mai'r angen a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol yw graddfa'r bwlch fforddiadwyedd yn y farchnad ac nad y CDLI ei hun yw'r unig ddull o gyflawni tai fforddiadwy er mwyn helpu i fynd i'r afael ag ef. Felly, bydd cyfraniad y Cynllun yn ffurfio rhan o sawl ffrwd cyflenwi tai fforddiadwy er mwyn diwallu'r angen hwn a nodir, gan gynnwys y Grant Tai Cymdeithasol a chynlluniau eraill a ariennir gan grant cyfalaf/refeniw, cynlluniau hunangyllidol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, ad-drefnu stoc bresennol, cynlluniau lesio y sector preifat, cyflawni dyletswyddau digartrefedd i'r sector rhentu preifat ac ailddefnyddio eiddo gwag.

- 5.3.12 Mae'r Strategaeth yn cydnabod i'r un graddau y swyddogaeth y gall Cynlluniau Bro ei chwarae gan helpu i nodi safleoedd datblygu lleol bach sy'n adlewyrchu gwahanolrwydd lleol ac yn mynd i'r afael â materion lleol, penodol ar raddfa gymunedol. Dylai Cynlluniau Bro gwmpasu ardal gymunedol a dylai'r broses o'u paratoi gael ei harwain, yn ddelfrydol, ond nid yn gyfan gwbl, gan Gyngorau Tref a Chymuned a/neu grwpiau llywio cysylltiedig. Bydd hyn yn caniatáu i grwpiau lleol gymryd y cam cyntaf a helpu i hybu (h.y. trwy gyfarwyddiadau datblygu) ddatblygiadau nodedig lleol bach ar raddfa sy'n gymesur â'r anheddiad priodol ac yn unol â'r CDLI Newydd.
- 5.3.13 Nodir crynodeb o'r dosbarthiad gofodol tai yn Nhabl 7 drosodd, sy'n nodi sut y bydd ffigur gofyniad tai'r Cynllun yn cael ei fodloni drwy'r ystod lawn o feysydd cyflenwi tai. Nodir gwybodaeth ategol ychwanegol am bob un gydran o gyflenwad tai yn y Papur Cefndir Trywydd Tai. Amcangyfrifwyd dosbarthiad gofodol hap-safleoedd mawr a bach yn seiliedig ar lefel gymesur capasiti trefol a ddogfennir yn Astudiaeth Capasiti Trefol 2020.

Tabl 7 Crynodeb o Ddosbarthiad Gofodol Tai

Gofyniad Tai (2018-2033): 7,575 o Anheddau

Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai (2018-2033): 9,207 o Anheddau (gan gynnwys 1,632 o anheddau â lwfans hyblygrwydd o 20%)

		Haen 1	Haen 2				Haen 3	
		Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr	Ardal Twf Adfywio Maesteg a Chwm Llynfi	Ardal Twf Adfywio Porthcawl	Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed	Ardal Twf Cynaliadwy y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli	Porth y Cymoedd	Aneddiadau Lleol
A	Y Cyfanswm a Gwblhawyd (mawr a bach)	1,005	40	70	47	42	143	55
B	Yr unedau sy'n cael eu hadeiladu	56	0	69	1	0	4	11
C	Unedau â chaniatâd cynllunio (safleoedd mawr)	398	0	77	24	21	410	13
D	Dyraniadau Tai Newydd	2,442	372	1,020	770	1,057	0	0
E	Safleoedd ar hap mawr (10+ uned)	120	113	17	0	29	49	112
F	Safleoedd ar hap bach (10+ uned)	169	160	24	1	41	69	56
G	Cyfanswm y Ddarpariaeth Tai	4,190	685	1,277	843	1,190	675	347

- 5.3.14 Mae'r gofyniad tai wedi ei ddosbarthu i leoliadau cynaliadwy yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau a'r Strategaeth Ofodol. Rhoddwyd sylw dyledus i hygyrchedd aneddiadau, gwasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd cyflogaeth er mwyn hybu dulliau cynaliadwy o dyfu a phatrymau symud. Mae'r Strategaeth wedi dilyn y dilyniant chwilio am safle yn llym yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru. Ystyriwyd tir a ddefnyddiwyd o'r blaen a/neu safleoedd nas defnyddir yn ddigonol mewn aneddiadau presennol yn y lle cyntaf, ac yna safleoedd addas a chynaliadwy ar gyrion y Prif Aneddiad Allweddol a'r Prif Aneddiadau. Mae hyn wedi sicrhau bod y dyraniadau tai arfaethedig newydd yn cael eu cydbwyso'n ddaearyddol â hwyluswyr cymunedol, gwasanaethau a chyfleoedd cyflogaeth mewn aneddiadau sydd eisoes yn bodoli. Bydd grwpio prif gynhyrchwyr y galw am deithio gyda'i gilydd yn y modd hwn yn helpu i leihau'r angen am deithiau hir, yn lleihau'r ddibyniaeth ar geir preifat ac yn cynyddu'r duedd i breswylwyr gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.
- 5.3.15 Darperir dosbarthiad gofodol cyffredinol tai (fel y nodir yn Nhabl 7) er mwyn dangos sut y gellir darparu'r CDLI Newydd yn ofodol, wedi ei gyfeirio gan yr Asesiad o Aneddiadau a'r Strategaeth Ofodol. Er nad yw wedi ei neilltuo ar gyfer aneddiadau penodol, ceir tystiolaeth o gyfraniad y safle ar hap bach a mawr (rhesi E ac F) drwy ddadansoddiad sy'n seiliedig ar dueddiadau yr hyn a gwblhawyd yn y gorffennol ac astudiaeth fanwl ynghylch capasiti trefol (cyfeirir at y Papur Cefndir Tai ac Astudiaeth Capasiti Trefol 2020). Mae safleoedd o'r fath yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at y cyflenwad tir cyffredinol ar gyfer tai, gan gyflwyno elfen o ddewis a hyblygrwydd i'r farchnad dai.
- 5.3.16 Cynigir Safleoedd Adfywio Hirdymor ychwanegol i'w dyrannu hefyd, wedi eu lleoli mewn rhannau o'r Fwrdeistref Sirol a fydd yn elwa fwyaf a hefyd i'r rhai sy'n arddangos cyfleoedd i gyflawni effeithiau cadarnhaol mwyaf twf o'r fath. Fodd bynnag, fel y cyfeirir ato ym Mholisi Cynllunio Cymru, ni fydd y cyflenwad tir ar gyfer tai yn dibynnu ar y Safleoedd Adfywio hirdymor ychwanegol hyn, oherwydd bod angen amseroedd arwain hwy arnynt, gwaith galluogi paratoadol sy'n seiliedig ar adferiad a strategaethau manylach er mwyn galluogi'r broses o'u cyflawni. Felly, bydd y safleoedd hyn yn cael eu hystyried yn 'safleoedd bonws' yn ogystal â'r ddarpariaeth a nodir yn Nhabl 7. Yn benodol, Safle Adfer Coegnant (COM1(R1)), yr Hen Safle Cooper Standard, Ffordd Ewenni (COM1(R2))) a Golchfa Maesteg (COM1(R3))), ac ni chânt eu cyfrif yn rhan o'r cyflenwad o dir uniongyrchol sydd ar gael ar gyfer tai, er bod y Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w hailddatblygu trwy eu neilltuo yn Safleoedd Adfywio hirdymor. Mae hyn yn cydnabod y ffaith ei bod yn anos pennu amserlenni cyflawni y safleoedd hyn, er gwaethaf eu rhinweddau uchel o ran datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd.
- 5.3.17 Mae'r dyraniadau tai newydd (rhes D) yn cynnwys safleoedd a throsglwyddwyd o'r CDLI presennol a thir sy'n deillio o'r Broses o Asesu Darpar Safleoedd. Mae'r holl safleoedd sydd wedi eu cynnwys yn rhes D wedi bod yn ddarostyngedig i waith asesu safle manwl gan gynnwys:
- Asesiad seilwaith er mwyn sicrhau bod y safleoedd yn gallu cyflawni lefel y seilwaith ategol sydd ei angen;
 - Proses uwchgynllunio i sicrhau eu bod yn creu lleoedd cynaliadwy, cydlynol sydd wedi eu cynllunio'n dda trwy ddull creu lleoedd cryf; ac

- Asesiad hyfywedd ariannol er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r safleoedd o fewn cyfnod y Cynllun.

Mae'r broses rymus hon wedi darparu llawer o hyder bod modd cyflawni'r safleoedd a gynhwysir yn y CDLI Newydd hwn, o ystyried y llu o ofynion seilwaith cysylltiedig a'r egwyddorion creu lleoedd ar gyfer darparu cymunedau o ansawdd uchel. I gael rhagor o wybodaeth, cyfeirier at yr Adroddiad Asesu Darpar Safleoedd. Ategir y Strategaeth Tai Cynaliadwy troswaol (SP6) a chyfanswm y ddarpariaeth ofodol (Tabl 7) ymhellach gan COM1 isod, sy'n manylu ar y dyraniadau safle penodol newydd.

COM1: Dyraniadau Tai						
Er mwyn cyflawni'r gofyniad tai a nodir yn SP6, dyrennir y safleoedd canlynol ar gyfer datblygiadau preswyl yn ystod y cyfnod hyd at 2033:						
Cyfeirnod y Safle	Enw'r Safle	Ardal Dwf	Cyfanswm yr Unedau yn ystod Cyfnod y Cynllun	Cyfanswm yr Unedau Fforddiadwy yn ystod Cyfnod y Cynllun	Yr Amserlen ar gyfer Cyflawni	Unedau y Tu Hwnt i Gyfnod y CDLI
Safleoedd Strategol						
SP2(1)	Ardal Adfywio Glannau Porthcawl I	Porthcawl	1,020	335	Blwyddyn 6-15	95
SP2(2)	Tir i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr	847	169	Blwyddyn 6-15	0
SP2(3)	Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr	810	170	Blwyddyn 6-15	40
SP2(4)	Tir i'r Dwyrain o Ben-coed	Pencoed	770	154	Blwyddyn 6-15	0
SP2(5)	Tir i'r Dwyrain o'r Pîl	Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli	1,057	300	Blwyddyn 6-15	943

Dyraniadau Tai						
COM1(1)	Parc Afon Ewenni	Pen-y-bont ar Ogwr	675	135	Blwyddyn 6-15	0
COM1(2)	Craig y Parcau	Pen-y-bont ar Ogwr	110	22	Blwyddyn 6-10	0
COM1(3)	Tir i'r De o Bont-rhyd-y-cyff	Maesteg a Chwm Llynfi	140	21	Blwyddyn 6-10	0
COM1(4)	Tir i'r De o Bont-rhyd-y-cyff	Maesteg a Chwm Llynfi	102	15	Blwyddyn 6-15	0
COM1(5)	Tir i'r De o Bont-rhyd-y-cyff	Maesteg a Chwm Llynfi	130	20	Blwyddyn 6-10	0
Safleoedd Adfywio Hirdymor (heb eu cyfrif yn rhan o'r cyflenwad tir ar gyfer tai di-oed)						
COM1 (R1)	Safle Adfer Coegnant	Maesteg a Chwm Llynfi	100	Amserlenni cyflawni amhenodol		
COM1 (R2)	Hen Safle Cooper Standard , Ffordd Ewenni	Maesteg a Chwm Llynfi	138	Amserlenni cyflawni amhenodol		
COM1 (R3)	Golchfa Maesteg	Maesteg a Chwm Llynfi	135	Amserlenni cyflawni amhenodol		

- 5.3.18 Bydd y dyraniadau sy'n ddichonadwy yn economaidd ac y gellir eu cyflawni a nodir yn COM1 yn hwyluso'r broses o ddatblygu cymunedau cynaliadwy a arweinir gan y broses o greu lleoedd ac yn creu cymunedau lle ceir digon o dai fforddiadwy o ansawdd da er mwyn diwallu amrywiaeth o anghenion. Mae'r Llwybr Tai cysylltiedig (gweler Atodiad 1) yn crynhoi gwybodaeth a gyflwynir cam wrth gam yn flynyddol ar gyfer yr holl safleoedd a ddyrennir yn y Cynllun, gan nodi hefyd sut y byddant yn cael eu cyflawni er mwyn pennu'r gyfradd cyflawni tai disgwylidig ar gyfer anheddau ar y farchnad ac anheddau fforddiadwy. Bydd hyn yn galluogi'r dasg o fonitro'r Cynllun yn effeithiol ac yn dangos y gellir cyflawni'r nod o gynnal cyflenwad tir ar gyfer tai trwy gydol cyfnod y Cynllun.

Tai Fforddiadwy

- 5.3.19 Mae'n rhaid i ddatblygiadau tai newydd gynnwys cymysgedd priodol o ddeiliadaethau, meintiau a mathau tai er mwyn darparu ar gyfer yr ystod o anghenion tai a nodwyd yn lleol. Bydd hyn yn sicrhau y cynllunnir ar gyfer cymunedau cynaliadwy, cytbwys a chydlynol, gan gyflawni'r gofyniad tai trwy'r cyflenwad tir cysylltiedig. Yn ystod cyfnod y CDLI, disgwylir i gynigion datblygu gyflawni 1,977 o anheddau fforddiadwy ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn cyfrannu at lefel yr angen tai a nodwyd. Yn ogystal ag adlewyrchu cwantwm yr angen am dai ledled y Fwrdeistref Sirol (fel y nodwyd trwy'r Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol), adlewyrchir hyfywedd cyflawni tai fforddiadwy hefyd drwy gyfraniadau cynllunio (fel yr aseswyd yn yr Astudiaeth Hyfywedd ar draws y Cynllun profi safle-benodol).

COM2: Tai Fforddiadwy

Gwneir darpariaeth ar gyfer cyflawni 1,977 o gartrefi fforddiadwy yn ystod cyfnod y Cynllun trwy'r mesurau canlynol:

- 1) Pennu targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy ar y safle yn rhan o gynigion preswyl, pan fo hynny'n briodol ac yn ddichonadwy;
- 2) Galluogi tai fforddiadwy i gael eu darparu oddi ar y safle mewn amgylchiadau eithriadol;
- 3) Galluogi cynlluniau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i ddod ymlaen fel safleoedd bach a safleoedd ar hap; a
- 4) Darparu fframwaith polisi er mwyn pennu Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy.

- 5.3.20 Er bod angen tai fforddiadwy ychwanegol ledled y Fwrdeistref Sirol, mae hyn yn amrywio fesul Ardal Marchnad Tai o ran maint a math, gyda Phen-y-bont ar Ogwr wedi ei nodi fel yr ardal â'r angen uchaf am dai. Roedd y dystiolaeth hon, ynghyd ag Asesiad o Aneddiadau a Phapur Cefndir y Dewisiadau Strategaeth Ofodol, yn llywio dosbarthiad Pen-y-bont ar Ogwr fel y Prif Anheddiad Allweddol yn yr Hierarchaeth Aneddiadau a'r prif bwyslais ar gyfer twf cynaliadwy. Yn yr un modd, nododd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol angen mawr oddi fewn, a llywiodd ddosbarthiad y Prif Aneddiadau eraill yn y Strategaeth (gan gynnwys Pen-coed, Porthcawl ac anheddiad grŵp y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli), ynghyd ag angen cymedrol ym Maesteg. Felly, datblygwyd y Strategaeth Ofodol er mwyn sicrhau y cyflawnir y ddarpariaeth tai fforddiadwy fwyaf posibl mewn ardaloedd ble mae'r angen am dai yn uchel. Fodd bynnag, nid yw'r angen am dai a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol yn troi'n darged cyflenwi tai fforddiadwy ar gyfer y CDLI yn uniongyrchol, neu hyd yn oed yn cynrychioli'r ateb i'r materion fforddiadwyedd yn yr ardal. Yn hytrach, mae'n dangos graddfa'r angen am dai ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr y bydd y Cyngor yn ceisio mynd i'r afael ag ef cyn belled ag y bo hynny'n bosibl yn ymarferol.

- 5.3.21 Mae'r CDLI yn un ffordd arwyddocaol o fynd i'r afael â'r diffyg hwn, er bod yn rhaid cydnabod nad ei bolisiâu a'i ddryniadau yw'r unig ddull o ddarparu tai fforddiadwy. Felly, roedd yr Arfarniad Hyfywedd ar draws y Cynllun (2021) yn barod i bennu i ba raddau y gall y CDLI gyfrannu at yr angen a nodwyd am dai fforddiadwy ledled y Fwrdeistref Sirol yn ystod cyfnod y cynllun. Ystyriodd yr Asesiad lefelau bras hyfywedd datblygu ar draws saith Ardal Marchnad Dai y Fwrdeistref Sirol fel y nedwyd yn yr AFDL ac atodwyd profion hyfywedd penodol i safle ar gyfer y safleoedd hynny a oedd yn allweddol ar gyfer cyflawni'r Cynllun. Y Roedd y broses hon yn llywio'r cyfraniad y gall safleoedd (mewn gwahanol ardaloedd marchnad) eu gwneud er mwyn cyflawni seilwaith, tai fforddiadwy a gofynion polisi eraill. Adlewyrchir y gofynion hyn ym Mholisi Rheoli Datblygu COM3.
- 5.3.22 Yn ystod cyfnod y cynllun, disgwylir i gynigion datblygu yn y CDLI gyflawni cyfanswm o 1,977 o anheddau fforddiadwy ledled y Fwrdeistref Sirol er mwyn cyfrannu at lefel yr angen am dai a nodir gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol. Deilliwyd y targed tai fforddiadwy cyffredinol hwn trwy gymhwyso'r cyfraniadau sy'n benodol i safleoedd yn COM1 a'r targedau canran yn COM3 i gydrannau unigol y cyflenwad tai. Felly, dim ond â ffynonellau cyflenwi sy'n cael eu hariannu a'u darparu trwy'r system gynllunio fel yr amlinellir yn Nhabl 8 isod y mae'r targed tai fforddiadwy cyffredinol yn ymwneud â nhw.

Tabl 8: Cydrannau Cyflenwi Tai Fforddiadwy 2018-33

Cydrannau	Nifer yr Unedau Tai Fforddiadwy
Y Cyfanswm a Gwblhawyd (mawr a bach)	323
Yr unedau sy'n cael eu hadeiladu	53
Unedau â chaniatâd cynllunio (safleoedd mawr)	216
Dryniadau Tai Newydd	1,341
Safleoedd ar hap mawr (10+ uned)	44
Safleoedd ar hap bach (10+ uned)	0
Cyfanswm Cyflenwad Fforddiadwy y CDLI	1,977

- 5.3.23 Bydd yn rhaid cyflawni'r angen sy'n weddill am dai fforddiadwy (a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol) drwy amrywiaeth o ddulliau eraill. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys cyllid grant cyfalaf (Grant Tai Cymdeithasol neu fel arall), datblygiadau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hunangyllidol, cynlluniau lesu y sector preifat, ailddefnyddio cartrefi gwag ac ad-drefnu'r stoc bresennol. Fodd bynnag, mae'r dulliau hyn y tu allan i gwmpas y CDLI ei hun, yn enwedig o ystyried nad oedd y cyllid cyfalaf a oedd ar gael yn y gorffennol (Grant Tai Cymdeithasol yn nodedig) yn darparu syniad cadarn o'r cyllid a fydd ar gael yn y dyfodol dros oes y CDLI. Ar y sail hon, ni wnaed unrhyw lwfans ychwanegol yn Nhabl 8 i ymgorffori dulliau darparu tai fforddiadwy eraill o'r fath.
- 5.3.24 Nod COM3 yw sicrhau darpariaeth tai fforddiadwy priodol ar y safle o ddatblygiadau preswyl newydd er mwyn cyfrannu at y gofyniad tai fforddiadwy a nodir yn SP6 a COM2. Mae'r Cyngor o'r farn mai darpariaeth ar y safle yw'r ffordd orau o gyflawni tai fforddiadwy er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, cytbwys, deiliadaeth gymysg ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae'r trothwyon a'r canrannau ar gyfer y ddarpariaeth tai fforddiadwy

wedi eu pennu o ran yr angen am dai a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a'r Asesiad Hyfywedd ar draws y Cynllun profi hyfywedd safle-benodol.

COM3: Darparu Tai Fforddiadwy ar y Safle

Ceisir cyfraniadau tai fforddiadwy ar ddatblygiadau preswyl **gyda chapasiti ar gyfer 10 annedd neu fwy yn y canrannau targed canlynol:**

Ardal(oedd) Marchnad Tai	Targedu Canran Tai Fforddiadwy
Porthcawl	Cyfraniad tai fforddiadwy o 30%
- Pencoed - Pen-y-bont ar Ogwr	Cyfraniad tai fforddiadwy o 15%
Y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli	Cyfraniad tai fforddiadwy o 0%
Porth y Cymoedd	Cyfraniad tai fforddiadwy o 10%
- Maesteg a Chwm Llynfi - Cwm Ogwr a Chwm Garw	Cyfraniad tai fforddiadwy o 0%

Mae'r pum Safle Datblygu Strategol Defnydd Cymysg yn destun polisiâu tai fforddiadwy unigol, penodol i safle fel yr amlinellir ym Mholisiau PLA1-5 ac a ailadroddir isod. Hefyd, mae'r Dyraniadau Tai COM1 canlynol yn destun polisiâu tai fforddiadwy penodol i safle fel yr amlinellir isod ac a amlygir drwy brofi hyfywedd safle penodol:

Housing Allocation	Target Affordable Housing Percentage
SP2(1) – Glannau Porthcawl	Cyfraniad tai fforddiadwy o 30%
- SP2(2) – Tir i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr - SP2(3) – Tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr - SP2(4) – Tir i'r Dwyrain o Bencoed - COM1(1) – Parc Afon Ewenni, Pen-y-bont ar Ogwr - COM1(2) – Craig y Parcau, Pen-y-bont ar Ogwr	Cyfraniad tai fforddiadwy o 20%
- SP2(5) – Tir i'r Dwyrain o'r Pîl - COM1(3) – Tir i'r De o Bont-rhyd-y-cyff - COM1(4) – Tir i'r De o Bont-rhyd-y-cyff - COM1(5) – Tir i'r De –orllewin o Bont-rhyd-y-cyff	Cyfraniad tai fforddiadwy o 15%

Bydd disgwyl i dai fforddiadwy gael eu darparu ar y safle yn y lle cyntaf a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y derbynnir darpariaeth oddi ar y safle a/neu gyfraniadau ariannol yn lle darpariaeth ar y safle. Os bydd y ganran darged yn gofyn am uned tai fforddiadwy rhannol, bydd y cyfraniad yn cael ei dalgrynnu i fyny i'r rhif cyfan agosaf.

Tybir bod ceisiadau cynllunio sy'n cydymffurfio â'r Polisi hwn yn ddichonadwy ac ni ddylai fod yn angenrheidiol ystyried materion hyfywedd ymhellach yn ystod y cam ceisiadau cynllunio. Ni fydd gwriad oddi wrth y canrannau tai fforddiadwy a bennwyd yn dderbyniol oni all yr ymgeisydd ddangos yn glir bod amgylchiadau eithriadol penodol yn cyfiawnhau'r angen am asesiad hyfywedd yn ystod adeg y cais. Mewn achosion anghyffredin o'r fath, mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu'r holl wybodaeth, tystiolaeth a chyfiawnhad i'r Cyngor ar sail 'llyfr agored'.

Mae'r pum Safle Datblygu Strategol Defnydd Cymysg yn ddarostyngedig i bolisiâu tai fforddiadwy unigol sy'n benodol i safle fel yr amlinellir ym Mholisiâu PLA1-5.

- 5.3.25 Bydd cyflawni tai rhent cymdeithasol a chanolradd ar safleoedd preswyl trwy'r CDLI yn gyfraniad gwerthfawr tuag at lefel gyffredinol yr angen am dai a nodir yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd angen i gynigion preswyl ystyried lefel, math a maint yr anheddau fforddiadwy sydd eu hangen, fel y nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, er mwyn sicrhau y cyflawnir mathau priodol o dai fforddiadwy yn yr ardaloedd marchnad priod. Bydd hyn yn sicrhau bod cymunedau'n gallu cael gafael ar ddigon o dai fforddiadwy o ansawdd da a phriodol i ddiwallu amrywiaeth o anghenion a nodwyd yn lleol. Pan fo hynny'n ddichonadwy, bydd sicrhau'r cyflawniad tai fforddiadwy mwyaf posibl yn unol â chynlluniau datblygwyr preifat hefyd yn hwyluso'r broses o greu cymunedau cynaliadwy a chytbwys, sy'n hanfodol i gyflawni Amcanion Strategol Allweddol y CDLI, yn enwedig Creu Cymunedau Egniol, Iach, Cydlynol a Chymdeithasol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 5.3.26 Mae COM3 yn amlinellu cyfanswm nifer yr anheddau y mae'n ofynnol eu cyflawni fel unedau tai fforddiadwy ar safleoedd ledled y Fwrdeistref Sirol yn seiliedig ar ganrannau a throthwyon sy'n benodol i ardal. Mae COM3 yn berthnasol i'r holl ddatblygiadau preswyl arfaethedig (dosbarth defnydd C3) a leolir y tu mewn i ffiniau aneddiadau, sydd â'r capasiti i gyflawni cynnydd net o 10 annedd neu fwy. Pan fo cynigion preswyl cysylltiedig, cyfagos yn cynhyrchu niferoedd anheddau cyfunol sy'n bodloni neu'n rhagori ar y trothwyon penodedig, cânt eu trin fel un cynnig ac yna bydd canran y targed tai fforddiadwy perthnasol yn cael ei gymhwyso. Nod COM3 yw gwneud y mwyaf o gyfraniad y CDLI tuag at y ddarpariaeth tai fforddiadwy, yn enwedig ar safleoedd nad ydynt wedi eu dyrannu mewn ardaloedd ble mae'r angen am dai yn uchel. Mae arfarniadau hyfywedd penodol i safle a wiriwyd yn annibynnol hefyd wedi llywio'r polisiâu tai fforddiadwy penodol i safle fel y nodir yn COM3.
- 5.3.27 Dylid defnyddio Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol diweddaraf fel prif ffynhonnell yr angen am dai er mwyn llywio cymysgedd priodol o anheddau fforddiadwy ar y safle, ochr yn ochr ag unrhyw wybodaeth leol berthnasol arall a ddarperir gan y Cyngor. Lle darperir tai fforddiadwy, dylent gael eu hadeiladu i Safonau Gofynion Ansawdd Datblygu a'u hintegreiddio yn y datblygiad cyffredinol drwy glystyrau ar wahân o ddim mwy na deg uned fforddiadwy. Ni ddylai tai fforddiadwy gael eu gosod ar wahân mewn modd amlwg drwy gynllun, lleoliad na dyluniad. Mae hyn yn sylfaenol er mwyn sicrhau cyflawni cymunedau cynaliadwy o ddeiliadaeth gymysg a chytbwys.
- 5.3.28 Pan nodir angen pwrpasol, ac ar safleoedd priodol, efallai y bydd angen datblygiad newydd hefyd i ddarparu ar gyfer darpariaeth tai fforddiadwy mwy arbenigol, gan gynnwys llety hygyrch. Fodd bynnag, ni fyddai'n briodol i ddarpariaeth o'r fath fod yn

ofynnol ar bob safle oherwydd y bydd hyn yn dibynnu ar leoliad y safle, y math o ddatblygiad, ystyriaethau hyfywedd a lefel yr angen am dai a nodwyd ar gyfer yr ardal honno.

5.3.29 Ni ddylai fod yn angenrheidiol gwyro oddi wrth y gofynion a nodir yn COM3 a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hyn yn dderbyniol os gellir dangos yn gadarn bod cyfyngiadau sy'n benodol i'r safle, costau annormal a/neu heriau hyfywedd eraill yn golygu bod angen gostyngiad. Bydd angen tystiolaeth ategol gadarn ar y Cyngor i gyfiawnhau unrhyw ostyngiad arfaethedig yn y ddarpariaeth tai fforddiadwy ar safleoedd penodol, er y bydd yn cydweithio â datblygwyr mewn achosion o'r fath er mwyn cytuno ar ganran briodol o ddarpariaeth tai fforddiadwy ar y safle. Ystyrir amrywiaeth o newidynnau datblygu er mwyn sicrhau na fydd lefel y ddarpariaeth tai fforddiadwy a geisir yn golygu y bydd y cynllun penodol yn annichonadwy, gan gynnwys:

- Cyfanswm cost y rhwymedigaethau cynllunio sy'n ofynnol;
- Unrhyw gyfyngiadau sy'n benodol i'r safle sy'n cynhyrchu costau annormal;
- Unrhyw amrywiadau i gostau adeiladu neu gostau datblygu eraill sydd fel arall yn cael eu cysylltu yn nodweddiadol â'r math o gynllun a gynigir;
- Y rhaniad cymesur sydd ei hangen rhwng y deiliadaethau tai fforddiadwy;
- Tystiolaeth ynghylch gwerthoedd tir ac eiddo; a
- Lefel yr enillion sy'n ofynnol gan berchennog y tir a'r datblygwr.

5.3.30 Bydd angen ddatgelu'n llawn yr holl dystiolaeth hyfywedd berthnasol sy'n ymwneud â'r safle i'r Cyngor fel y gellir cynnal trafodaethau mewn modd agored a thryloyw. Os na ellir dod i gytundeb, bydd asesiad annibynnol yn cael ei gomisiynu gan y Cyngor, a bydd yn rhaid i'r datblygwr dalu ei gostau.

5.3.31 Er mwyn cyflawni cymunedau cytbwys, cymysg a chynaliadwy, ceisir sicrhau canran lawn y ddarpariaeth tai fforddiadwy ar y safle yn y lle cyntaf. Fodd bynnag, mae COM4 yn cydnabod efallai y bydd amgylchiadau eithriadol pan ystyrir bod y ddarpariaeth ar y safle yn anymarferol ac felly fe gaiff y Cyngor ystyried math arall o ddarpariaeth gan gynnwys darpariaeth oddi ar y safle a/neu dalu symiau cyfnewidiol. Bydd cynigion sy'n ceisio cyfiawnhau darpariaeth oddi ar y safle a/neu symiau cyfnewidiol yn lle darpariaeth tai fforddiadwy ar y safle yn cael eu hasesu o'u cymharu â COM4.

COM4: Darparu Tai Fforddiadwy oddi ar y Safle

Mewn amgylchiadau eithriadol, ceir ystyried darparu tai fforddiadwy oddi ar y safle yn ddewis arall derbyniol i ddarpariaeth ar y safle pan:

- 1) Darperir tystiolaeth gadarn i ddangos yn foddhaol nad yw'n ymarferol cyflawni'r targed o ran canran y tai fforddiadwy ar y safle oherwydd natur y datblygiad neu ystyriaethau eraill sy'n benodol i'r safle; a

- 2) Bydd nifer cyffredinol y tai fforddiadwy a gyflawnir gan y datblygiad yr un nifer, math ac ansawdd, o leiaf, â'r nifer a fyddai wedi eu cyflawni ar y safle pe bai'r ganran darged wedi ei chyflawni; a
- 3) Os yw'r anheddau fforddiadwy i gael eu cyflawni oddi ar y safle, bydd angen nodi safle arall addas sydd ar gael yn yr un Ardal Marchnad Tai â'r safle datblygu, bydd rhaid arddangos cyllid ar gyfer darparu'r anheddau fforddiadwy oddi ar y safle a bydd rhaid cyflawni'r anheddau fforddiadwy cyn cwblhau'r anheddau ar y safle; a
- 4) Os cytunir ar gyfraniad ariannol, mae'n rhaid i'r swm cyfnewidiol sy'n daladwy i'r Cyngor fod o werth cyfatebol i gyfraniad ariannol y datblygwr a ddisgwyld fel arall er mwyn darparu'r tai fforddiadwy ar y safle.

Ym mhob achos, mae'n rhaid i'r tai a ddarperir ar y safle ac oddi arno hwyluso'r broses o greu cymunedau cynaliadwy a chytbwys sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy yn unol â gofynion polisi SP3.

- 5.3.32 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd darpariaeth oddi ar y safle a/neu symiau cyfnewidiol yn cael eu hystyried. Gallai'r amgylchiadau hyn gynnwys, er enghraifft, pan nad oes unrhyw bartner Landlord Cymdeithasol Cofrestredig wedi mynegi diddordeb mewn caffael yr unedau fforddiadwy ar y safle neu pan allai fod yn anymarferol ymgorffori unedau fforddiadwy mewn datblygiad bach yn seiliedig ar ei gyd-destun sy'n benodol i'r safle. Mewn achosion o'r fath, bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull pragmatig o benderfynu ai darpariaeth oddi ar y safle neu symiau cyfnewidiol a fyddai fwyaf priodol ar gyfer cyflawni'r cyfraniad tai fforddiadwy, gan sicrhau yn y pen draw y darperir cartrefi fforddiadwy mor agos â phosibl at y safle datblygu gwreiddiol un yr un Ardal Marchnad Tai. Mae'n rhaid i werth y cyfraniad gyfateb i'r hyn a fyddai wedi ei sicrhau ar y safle fel arall, gan alluogi dim llai o unedau i gael eu cyflawni oddi ar y safle.

COM5: Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy

Ni chaniateir cynigion i ddatblygu tai fforddiadwy ar safleoedd y tu allan i ffiniau aneddiadau ond o dan yr amgylchiadau canlynol:

- 1) Mae'r cynnig yn diwallu angen lleol a nodwyd na ellir ei fodloni ar safleoedd eraill y tu mewn i ffin aneddiadau dynodedig yr ardal;
- 2) Mae'r cynnig yn estyniad rhesymegol i'r anheddiad presennol, ac nid yw'n fwy na deg annedd fforddiadwy, gan fod o raddfa sy'n unol â chymeriad yr anheddiad ac yn briodol iddo;
- 3) Mae'r safle mewn lleoliad cynaliadwy, yn gyfagos i ffin anheddiad sydd eisoes yn bodoli gyda mynediad rhesymol at ystod sylfaenol o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol, o leiaf;

- 4) Mae'r annedd/anheddau arfaethedig o faint, deiliadaeth a dyluniad sy'n gymesur â'r angen am dai fforddiadwy a nodwyd ar gyfer yr ardal leol;
- 5) Mae trefniadau diogel yn eu lle i sicrhau bod yr anheddau yn hygyrch i'r rhai hynny nad ydynt yn gallu fforddio tai ar y farchnad, ar gyfer y meddiannydd cyntaf ac ar gyfer meddianwyr dilynol, a
- 6) Ni chollir tir o werth adloniadol, amwynder na threftadaeth naturiol pwysig.

Ni chaniateir tai marchnad ar safleoedd pan fo tai fforddiadwy yn cael eu heithrio 100%. Mae'n rhaid i'r tai fforddiadwy arfaethedig ddiwallu anghenion pobl leol am byth, a sicrhau hynny trwy'r caniatâd cynllunio, trwy gytundeb cyfreithiol Adran 106.

- 5.3.33 Mae'r Strategaeth CDLI yn cyfeirio'r rhan fwyaf o'r twf tuag at ardaloedd sydd eisoes yn elwa o seilwaith, gwasanaethau a chyfleusterau da, neu pan ellir darparu capasiti ychwanegol, er mwyn hwyluso'r broses o greu lleoedd cynaliadwy yn unol â'r Hierarchaeth Aneddiadau. Felly, blaenoriaethir datblygiadau tir yn yr ardaloedd trefol, neu ar eu cyrion, yn enwedig ar safleoedd 'tir llwyd' a ddatblygwyd yn flaenorol. Fodd bynnag, cydnabyddir efallai y bydd rhai achosion pan nad yw bob amser yn bosibl diwallu'r angen a nodwyd yn lleol am dai fforddiadwy mewn aneddiadau sydd eisoes yn bodoli. Er bod y Cyngor yn disgwyl i fwyafrif y datblygiadau ddigwydd y tu mewn i ffiniau diffiniedig yr anheddiad, mae COM5 yn cydnabod y gallai rhai ffactorau sy'n benodol i'r ardal (megis prinder tir i'w ddatblygu a phrisiau tir uchel) amharu ar y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn y modd hwn. Felly, mae COM5 yn eithriad i bolisïau darparu tai cyffredinol y CDLI, nad ydynt fel arall yn caniatáu tai newydd y tu allan i ffiniau aneddiadau. Fodd bynnag, bydd angen i ddatblygiadau barhau i gael mynediad rhesymol at wasanaethau a chyfleusterau cymunedol lleol mewn aneddiadau cyfagos a bodloni'r meini prawf penodedig a pholisïau perthnasol eraill y CDLI, yn enwedig DNP1. Hefyd, bydd angen i ddatblygiad ymateb i angen dybryd a nodir gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol a/neu'r Awdurdod Tai Lleol.
- 5.3.34 Bydd COM5 yn hwyluso'r gwaith o gyflawni cynlluniau tai fforddiadwy bach sy'n ffinio ag aneddiadau sydd eisoes yn bodoli pan ellir dangos yn glir bod angen lleol dybryd ac na ellir darparu ar gyfer yr angen hwn fel arall y tu mewn i ffiniau yr anheddiad priodol. Ni chaiff Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy beidio gynnwys mwy na 10 uned, sef y maint priodol ar gyfer clwstwr cynaliadwy o dai fforddiadwy. Gall safleoedd sy'n fwy na 10 uned ddod yn fwyfwy anffafriol o ran cyflawni a chynnal cymunedau cytbwys, deiliadaeth gymysg, ac felly ni fyddant yn unol â COM5. Mae'n rhaid i gynigion gael eu dylunio yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf o anghenion tai fforddiadwy a nodir yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol, neu dystiolaeth fwy diweddar a gadarnheir gan yr Awdurdod Tai Lleol, gan ymateb i'r deiliadaethau, maint eiddo a'r mathau o anheddau a nodwyd.
- 5.3.35 Mae'n rhaid i bob Safle Eithriadau Tai Fforddiadwy ddarparu tai fforddiadwy er mwyn diwallu'r angen a nodwyd yn lleol am byth. Fel arfer, bydd y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r tai fforddiadwy gael eu cyflawni a'u rheoli gan Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, er ym mhob achos, mae'n rhaid i'r annedd/anheddau barhau i fod yn fforddiadwy am byth, gan fod wedi eu sicrhau trwy amod cynllunio neu gytundeb

cyfreithiol. Yr unig eithriad i hyn fydd mewn achosion pan fo'r codwr morgais mewn meddiant.

- 5.3.36 Mae'n rhaid i bob Safle Eithriadau Tai Fforddiadwy fod ar raddfa sy'n gymesur â maint yr anheddiad presennol gan gydymffurfio ag SP3 er mwyn sicrhau bod tai fforddiadwy newydd yn cael eu hintegreiddio'n briodol i'r aneddiadau sydd eisoes yn bodoli. Rhoddir ystyriaeth ddyladwy i safle, graddfa a dyluniad Safleoedd Eithriadau Tai Fforddiadwy er mwyn sicrhau bod modd darparu ar eu cyfer yn gynaliadwy o safbwynt seilwaith, mynediad a chadwraeth cynefinoedd a thirwedd. Hefyd, dylai datblygiadau gael eu lleoli'n dda er mwyn manteisio ar y ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol presennol. Fodd bynnag, bydd datblygiadau newydd yng nghefn gwlad sy'n bell oddi wrth aneddiadau presennol yn parhau i gael eu rheoli'n llym. Bydd yr holl gynigion y tu allan i ffiniau aneddiadau sydd o fewn yr ardal a ddiffinnir fel cefn gwlad yn cael eu pennu o'u cymharu â DNP1, Datblygu yng Nghefn Gwlad, sy'n cyfyngu ar waith datblygu fel y nodir yn TAN 6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010). Hefyd, mae'n rhaid i gynigion ystyried eu heffaith ecolegol, diwylliannol ac o ran tirwedd ac amwynder yn unol ag SP17, SP18 a DNP1-10.

Dwysedd Tai

COM6: Dwysedd Preswyl

Mae'n rhaid i ddatblygiadau geisio creu cymunedau cymysg, cymdeithasol gynhwysol a chynaliadwy trwy ddarparu amrywiaeth o fathau a meintiau tai er mwyn diwallu anghenion preswylwyr ar ddwysedd effeithlon a phriodol. Mae'n rhaid cyflawni dwyseddau preswyl uwch a defnyddiau cymysg ar hyd canolfannau trafndiaeth gyhoeddus mäs er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd am ddatblygiad sy'n seiliedig ar systemau trafndiaeth. Dim ond o dan yr amgylchiadau canlynol y caniateir dwysedd datblygiad is:

- 1) Mae cyfyngiadau dylunio, ffisegol neu seilwaith yn atal yr isafswm dwysedd rhag cael ei gyflawni; neu
- 2) Byddai'r isafswm dwysedd yn niweidio cymeriad a golwg amgylchoedd y safle; neu
- 3) Pan ellir dangos bod diffyg dewis penodol o ran mathau o dai yn y gymuned leol

Ym mhob achos, mae'n rhaid i ddatblygiadau tai wneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir yn unol ag egwyddorion creu lleoedd cynaliadwy. Mae'n rhaid defnyddio Dylunio Da er mwyn cynyddu dwysedd y datblygiad i'r eithaf heb gyfaddawdu ar ansawdd yr amodau byw a ddarperir, gan ddarparu'n ddigonol ar gyfer preifatrwydd a lle o amgylch anheddau.

Mae'n rhaid cyflawni datblygiadau preswyl ar safleoedd a ddyrannwyd yn unol â'r capasiti a bennir yn COM1, neu fel arall, mae'n rhaid dangos yn gadarn pam fo angen amrywiant.

- 5.3.37 Mae'n rhaid i'r holl dir a ddefnyddir ar gyfer datblygiad gael ei ddefnyddio mor effeithlon â phosibl gan ei ddwyn ymlaen ar ddwysedd sy'n manteisio i'r eithaf ar botensial datblygu y tir a lefel y ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â COM6. Gall datblygiadau dwysedd uwch helpu i leihau faint o dir sydd ei angen i ddiwallu anghenion tai yn y dyfodol, er bod rhaid cyflawni cydbwysedd er mwyn sicrhau amgylchedd byw o safon sydd wedi ei ymgorffori mewn egwyddorion creu lleoedd.
- 5.3.38 Mae'n rhaid i ddatblygiadau tai ddilyn amcanion Dylunio Da er mwyn cyflawni'r dwysedd hwn gan barhau i wneud darpariaethau digonol ar gyfer lle i anheddau, Systemau Draenio Cynaliadwy ac amgylchedd byw dymunol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd amgylchiadau unigol yn amrywio yn unol â lleoliad y safle a chymeriad yr ardal gyfagos. Felly, gellid derbyn dwyseddau is pan fo cynigion yn mynd i'r afael ag ystyriaethau Polisi eraill, pan fyddai datblygiad yn cael effaith annerbyniol ar ddyluniad neu ddiogelwch priffordd neu pan gydnabyddir cyfyngiadau ffisegol neu gyfyngiadau o ran seilwaith ar y safle. Gallai datblygiadau dwysedd is fod yn dderbyniol hefyd pan maent yn mynd i'r afael â diffyg dewis tai. Yn benodol, dominyddir rhai cymunedau yn y cymoedd gan dai teras dwysedd uchel ac mae'n bosibl y byddai math is o ddwysedd yn darparu ystod ehangach o fathau o dai na'r hyn sydd ar gael mewn marchnadoedd lleol, yn enwedig pan fo hyn yn cael ei gyflawni gan fentrau hunanadeiladu ac adeiladu pwrpasol.
- 5.3.39 Er mwyn creu cymunedau cynaliadwy, cymysg a chytbwys, bydd y Cyngor yn disgwyl i ddatblygwyr ddarparu cymysgedd priodol o ran maint a mathau o anheddau, er mwyn diwallu anghenion tai lleol, gan gyfeirio at y dystiolaeth yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol diweddaraf. Dylid osgoi cael mwyafrif o fathau mwy o anheddau â phedair ystafell wely neu fwy ac mae'n rhaid i ddatblygiadau geisio darparu ystod addas o fathau o dai er mwyn diwallu anghenion aelwydydd yn y Fwrdeistref Sirol. Dylid defnyddio dyluniadau a chynlluniau gofalus er mwyn osgoi gwahaniaeth gweledol rhwng gwahanol fathau o dai a deiliadaethau.

COM7: Tai Amlfeddiannaeth

Ni chaniateir cynigion i weddnewid adeilad presennol yn Dŷ Amlfeddiannaeth, yn fflatiau un ystafell neu'n fathau eraill o dai a rennir y tu mewn i ffiniau aneddiadau diffiniedig oni fodlonir yr amodau canlynol:

- 1) Ni fyddai effaith gronnol y datblygiad yn arwain at or-grynhoed o Dai Amlfeddiannaeth yn yr ardal ar draul cydlyniant cymunedol neu safonau byw preswyl;
- 2) Mae'n bosibl gweddnewid heb estyniadau mawr nac addasiadau i'r adeilad a fyddai'n newid cymeriad a golwg y stryd a'r ardal ehangach yn sylweddol;
- 3) Byddai graddfa a dwyster y defnydd yn gydnaws â'r adeilad presennol a defnyddiau cyfagos a gerllaw;

- 4) mae'r cynnig yn ymgorffori darpariaeth parcio ar y safle neu'n dangos na fydd yn cael effaith andwyol ar ddarpariaeth parcio lleol;
- 5) mae'r cynnig yn cynnwys storfa ddigonol ar gyfer ailgylchu/sbwriel, beiciau a man sychu dillad; a
- 6) Nid yw'r cynnig yn golygu bod unrhyw eiddo preswyl yn uniongyrchol rhwng dau Dŷ Amlfeddiannaeth na bod mwy na dau Dŷ Amlfeddiannaeth ochr yn ochr.

Ym mhob ffordd arall, bydd disgwyl i ddatblygiad fodloni'r gofynion perthnasol a nodir ym mholisiâu eraill y CDLI.

- 5.3.40 O ran cynllunio, ystyrir bod tŷ yn Dŷ Amlfeddiannaeth pan y'i meddiannir gan rhwng tri a chwech o breswylwyr nad ydynt yn perthyn, gan rannu amwynderau sylfaenol megis cegin neu ystafell ymolchi. Nododd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Lleol angen sylweddol am lety i gartrefu aelwydydd llai ledled y Fwrdeistref Sirol. Er bod llety hunangynhwysol yn cynnig y dewis mwyaf cynaliadwy yn aml ar gyfer diwallu'r angen hwn, gall Tai Amlfeddiannaeth ffurfio rhan bwysig o'r stoc dai o ran sicrhau bod ystod eang o ddewisiadau tai ar gael. Yn wir, gall Tai Amlfeddiannaeth ddarparu llety ar gyfer aelwydydd bach efallai na fyddant yn gallu diwallu eu hanghenion yn y farchnad fel arall a/neu aelwydydd y mae angen hyblygrwydd arnynt i symud cartref.
- 5.3.41 Fodd bynnag, gall trigolion Tai Amlfeddiannaeth aros yn sefydlog am gyfnodau llai o'u cymharu â thrigolion tai annedd eraill, sy'n golygu y gall ardaloedd â chrynnodiadau sylweddol o dai amlfeddiannaeth weld trosiant uwch mewn poblogaeth. Yn yr un modd, gall meddiannaeth luosog ar dŷ olygu dwysáu ei ddefnydd preswyl, oherwydd nifer fwy o oedolion annibynnol sy'n byw yn yr eiddo. Mewn rhai achosion, gall hyn arwain at lefelau uwch o weithgarwch yn y tŷ ac o'i amgylch, lefelau sŵn uwch, galw ychwanegol am fannau parcio ceir a materion gwaredu gwastraff. Serch hynny, mae'n bosibl na fydd gweddnewid tŷ annedd sengl yn Dŷ Amlfeddiannaeth yn golygu dwysâd o reidrwydd. Er enghraifft, gallai tŷ annedd sengl letya cwpl sy'n oedolion ynghyd â nifer o blant sy'n oedolion ychwanegol y mae'n debyg y byddant yn aros yng nghartref y rhieni am gyfnod amhenodol. Ar y sail hon, mae'n anodd dangos fel arfer faint o effaith y gallai gweddnewid eiddo unigol yn Dŷ Amlfeddiannaeth ei chael ar gymeriad ac amwynder ei amgylchoedd. Fodd bynnag, gall cyfran uchel o Dai Amlfeddiannaeth gael effaith gronol llawer mwy sylweddol ar gymeriad ardal, ei hamwynder preswyl, a'r cydlyniant cymunedol lleol hefyd. Gall y ffactorau hyn ynghyd â gostyngiad yn nifer y cartrefi teuluol mewn ardal rwystro'r dasg o gynnal cymunedau cynaliadwy, cymysg a chytbwys.
- 5.3.42 Felly, mae COM7 yn ceisio sicrhau bod cynigion i weddnewid anheddau yn Dai Amlfeddiannaeth yn cael eu hasesu o ran eu priodoldeb er mwyn osgoi gorddwysáu eu defnydd yn yr ardal. Mae'n rhaid i'r adeilad ei hun fod yn addas i'w weddnewid heb estyniadau nac addasiadau a fyddai'n newid ei gymeriad a'i ymddangosiad, gan osgoi mewnlennwedd ansensitif, anghymdogol. Yn yr un modd, mae'n rhaid i'r cynnig fod yn gydnaws â'r adeilad ei hun a'r ardal ehangach o ran dwysedd a graddfa, er mwyn atal

effeithiau niweidiol cronol. Dylai cynigion ystyried darparu manau parcio ar y safle neu ddangos fel arall na fyddai gweddnewid yr annedd yn Dŷ Amlfeddiannaeth yn cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth parcio lleol. Felly, dylai ymgeiswyr ystyried cynaliadwyedd y lleoliad o ran a yw cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ddewisiadau eraill deniadol a dichonadwy i ddefnyddio ceir preifat. Dylai cynigion wneud darpariaeth ar y safle hefyd ar gyfer storio sbwriel/ailgylchu, man(nau) sychu dillad, a manau parcio beiciau digonol yn ogystal â lle amwynder priodol i breswylwyr.

Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn

- 5.3.43 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau cyfle cyfartal i bob rhan o'r gymuned. Mae llety yn fater sylfaenol sy'n effeithio ar fywyd pawb ledled y Fwrdeistref Sirol, gan gynnwys y gymuned Sipsiwn a Theithwyr. Felly, yn ogystal â darpariaeth tai 'bricks a mortar', mae'r CDLI yn cydnabod anghenion llety penodol Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn rhan o ddull cyfannol o gyflawni cymunedau cydlynol sydd wedi eu cysylltu'n dda. Mae'r CDLI yn ceisio sicrhau y bydd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn (fel y'u diffinnir gan Adran 108, Deddf Tai (Cymru) 2014) yn cael mynediad cyfartal at lety sy'n briodol yn ddiwylliannol fel pob aelod arall o'r gymuned.
- 5.3.44 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor asesu anghenion llety teuluoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn ac mae ganddo bolisiau ar gyfer darparu safleoedd priodol yn y CDLI. Atgyfnerthir y safbwynt hwn gan Gylchlythyr 005/2018, sy'n darparu canllawiau ynghylch yr agweddau cynllunio ar nodi safleoedd cynaliadwy. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 hefyd yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i sicrhau bod anghenion llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn cael eu hasesu'n briodol a bod yr angen a nodir am leiniau ychwanegol yn cael ei ddiwallu.
- 5.3.45 Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, comisiynodd y Cyngor Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (ALIST) yn 2020, a gwblhawyd yn 2021. Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn cwmpasu cyfnod 2018-2033 ac yn nodi'r ddarpariaeth lleiniau ychwanegol sydd ei hangen ar Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yn y Fwrdeistref Sirol. Am 5 mlynedd cyntaf y cyfnod Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, nodwyd angen am 5 llain ychwanegol, ac am weddill cyfnod y cynllun Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, nodwyd angen am 2 lain ychwanegol. Mae'r angen hwn yn cyfateb â chyfanswm o 7 llain ychwanegol dros gyfnod cyfan y CDLI. Ar gyfer lleiniau parhaol yr oedd pob angen a nodwyd ac ni nodwyd bod angen darparu safleoedd tramwy lleol.
- 5.3.46 Mae Tabl 9 yn nodi'n glir y gwahanol gategoriâu o angen dros gyfnod y CDLI, gan egluro sut mae'r sefyllfa wedi newid ers cyhoeddiad yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Yn benodol, mae un aelwyd wedi symud yn barhaol bellach i safle awdurdodedig sy'n bodoli yn y Fwrdeistref Sirol ac wedi gwrthod yn bendant unrhyw gymorth ychwanegol gan y Cyngor. Mae'r angen am chwe llain sy'n weddill yn codi o ddau deulu ar wahân, a ddiwellir yn fwyaf priodol trwy ddarparu dau safle ar wahân y mae bob un ohonynt yn cynnwys tair llain.

Tabl 9: Anghenion Sipsiwn a Theithwyr dros Gyfnod y Cynllun

Math / Lleoliad yr Angen	2020-2025	2025 – 2033	Cyfanswm yr Angen dros Gyfnod y CDLI	A yw Dyranriad yn Ofynnol yn y CDLI?
Preswyl (Pencoed)	0 llain	1 llain	1 llain	Nac ydy – fe'u hadleoliwyd i safle preifat awdurdodedig sy'n bodoli ac nid oes angen cymorth arnynt fwyach.
Preswyl (Coetre-hen)	3 llain	0 llain	3 llain	Ydy – Mae tir wedi ei neilltuo yn SP7(1) ar gyfer 3 llain
Preswyl (Pen-y-fai)	2 llain	1 llain	3 llain	Ydy - Mae tir wedi ei neilltuo yn SP7(2) ar gyfer 3 llain
Cyfanswm y Lleiniau dros Gyfnod y CDLI	5 llain angen dybryd	2 llain (2025-2033)		7 llain

- 5.3.47 Yn seiliedig ar y dystiolaeth o angen yma, mae'r Cyngor wedi gwneud darpariaeth sy'n benodol i safle ar gyfer dau safle parhaol y mae bob un ohonynt yn cynnwys tair llain (SP7), a fwriedir ar gyfer datblygiad preifat. Dewiswyd y safleoedd a nodwyd yn seiliedig ar y canllawiau yng Nghylchlythyr 005/2018 fel y nodir yn y Papur Cefndir ar gyfer dethol Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae dyraniadau'r safle hefyd wedi eu llywio gan ymgynghoriad clos ag aelodau perthnasol y gymuned Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn, gan fod yn ddarostyngedig iddo.

SP7: Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn	
Neilltuir Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siopau yn y lleoliadau canlynol, fel y dangosir ar y Map Cynigion, er mwyn diwallu anghenion y gymuned a nodir dros gyfnod y CDLI fel y manylir arnynt yn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr: SP7 (1) Tir oddi ar Old Coachman's Lane (parhaol, safle ac iddo 3 llain) SP7 (2) Tir oddi ar Bryncethin Depot (parhaol, safle ac iddo 3 llain)	
Amcanion y CDLI	ISAMCAN: 2 AMCAN: 2c
Dyfodol Cymru	Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol
Polisi Cynllunio Cymru	Byw mewn Lle, Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol, Sipsiwn a Theithwyr
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru fwy cyfartal
Cynllun Llesiant Lleol	Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynol Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd

Tystiolaeth Allweddol	Deddf Tai (Cymru) 2014 Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018 – Cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Papur Cefndir er mwyn Asesu Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr 2020 a Phapur Cefndir ar gyfer dethol Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr 2020
------------------------------	---

- 5.3.48 Yn ogystal â'r safleoedd parhaol a nodir gan SP7, mae'r un mor bwysig bod y CDLI yn ymgorffori polisi manwl sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn diwallu unrhyw angen yn y dyfodol neu angen annisgwyl. Felly, mae COM8 yn amlinellu meini prawf er mwyn asesu unrhyw gynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr neu Siewmyn a allai godi yn ystod cyfnod y CDLI, gan ddarparu modd teg, rhesymol, realistig ac effeithiol o benderfynu ar geisiadau cynllunio er mwyn galluogi safleoedd priodol i gael eu cyflawni.
- 5.3.49 Bydd COM8 yn gymwys i gynigion a gyflwynir er mwyn diwallu'r angen a nodir yn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (2020) ynghyd ag unrhyw angen ychwanegol a allai godi trwy gydol cyfnod y cynllun. Mae'n rhaid i gynigion safleoedd fod yn unol â'r cyngor yng Nghylchlythyr Llywodraeth Cymru 005/2018: Cynllunio ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn, a ystyrir yn berthnasol fel y bo'n briodol wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau cynllunio. Hefyd, dylid dylunio safleoedd a ddatblygir gan gorff cyhoeddus, megis Awdurdod Lleol, yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru: Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

COM8: Llety ar gyfer Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn

Caniateir cynigion ar gyfer safleoedd newydd i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn, ac estyniadau i safleoedd awdurdodedig presennol, y tu mewn i ffiniau aneddiadau neu'n gyfagos atynt o dan yr amodau canlynol:

- 1) Mae'r seilwaith ffisegol, trafnidiaeth a chymdeithasol angenrheidiol yn hygyrch neu bydd yn cael ei ddarparu'n rhwydd;
- 2) Mae'r safle wedi ei ddylunio yn unol â Chanllawiau a Chylchlythyrau priodol Llywodraeth Cymru, pan fo corff cyhoeddus yn cyflwyno'r cynnig;
- 3) Mae graddfa'r cynnig yn briodol o ran amgylchoedd a lleoliad y safle, gan sicrhau ei bod yn gymesur â chymunedau sefydlog lleol;
- 4) Ni fydd y datblygiad yn cael unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar amwynder pobl; a
- 5) Yn achos safle tramwy neu deithiol, ceir mynediad da i'r prif rwydwaith priffyrdd.

Caniateir cynigion ar gyfer safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn yng nghefn gwlad, oddi wrth aneddiadau sydd eisoes yn bodoli o dan yr amodau canlynol:

- a) Mae diffyg lleoliadau cynaliadwy addas ar gyfer safleoedd y tu mewn i ffiniau'r aneddiadau sydd eisoes yn bodoli neu'n gyfagos atynt;
- b) Mae'r seilwaith ffisegol, trafnidiaeth a chymdeithasol angenrheidiol yn hygyrch neu bydd yn cael ei ddarparu'n rhwydd;
- c) Mae graddfa'r cynnig yn briodol o ran amgylchoedd a lleoliad y safle, gan sicrhau ei bod yn gymesur â chymunedau sefydlog lleol; a
- d) Ni fyddai gwerth adloniadol, amwynder na threftadaeth naturiol pwysig yn cael ei golli.

- 5.3.50 Mae'n rhaid i gynigion ddangos eu bod o safon a dyluniad priodol er mwyn caniatáu i drigolion y safle gael mynediad at gyfleusterau priodol a byw mewn cymunedau diogel, cydlynol a chynaliadwy. Ni fydd y datblygiad yn cael effaith andwyol sylweddol ar amwynder pobl. Pan gynigir defnyddiau busnes, bydd yn ofynnol i'r safle allu darparu ar gyfer defnyddiau busnes sy'n seiliedig yn y cartref heb amharu ar amwynder, golwg, cymeriad nac amgylchedd yr ardal neu feddianwyr cyfagos. Gallai hyn gynnwys darparu cyfleusterau a lle digonol ar gyfer gweithgareddau o'r fath.
- 5.3.51 Bydd yn ofynnol i'r cynigion ddangos, drwy leoli, y cynllun a'r mynediad i'r safle, na fyddai unrhyw anfantais i ddiogelwch cerddwyr na phriffyrdd. Hefyd, mae'n rhaid i gynigion ddangos bod y safle'n gallu darparu cyfleusterau seilwaith ffisegol o safon ddigonol a mynediad at gyfleustodau, gan gynnwys cyflenwad dŵr digonol, pŵer, draenio, gwaredu gwastraff a gwaredu carthion er mwyn sicrhau na fydd datblygu'r safle yn peri risgiau i iechyd a llesiant preswylwyr. Dylai'r safle fod â hygyrchedd digonol hefyd, gan gynnwys trwy gerdded a beicio, i'r seilwaith cymdeithasol angenrheidiol gan gynnwys addysg ac iechyd. Ystyrir ffactorau amgylcheddol gan gynnwys perygl o lifogydd, sefydlogrwydd y tir, halogi'r tir ac agosrwydd at osodiadau peryglus er mwyn sicrhau bod y safle'n briodol i'w ddatblygu.
- 5.3.52 Caniateir cynigion y tu allan i derfynau dynodedig yr anheddiad, neu wrth ei ymyl, pan fo'r holl feini prawf polisi wedi eu bodloni'n foddhaol.
- 5.3.53 Bydd gofynion ar gyfer lleiniau yn y dyfodol, a'r nifer sy'n manteisio arnynt, yn cael eu monitro'n ofalus gan ddefnyddio'r Fframwaith Monitro a'r Adroddiad Monitro Blynnyddol. Yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014, bydd y Cyngor yn ymgymryd hefyd ag Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd bob pum mlynedd ac felly disgwylir i Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd gael ei gyhoeddi yn 2025. Bydd unrhyw angen newydd sy'n codi a nodir mewn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr newydd yn cael ei asesu o'i gymharu â COM8.

Iechyd a Llesiant

SP8: Iechyd a Llesiant

Bydd anghydraddoldeb iechyd yn cael ei leihau a bydd dewisiadau a ffyrdd iach o fyw yn cael eu hannog trwy sicrhau bod cynigion datblygu yn gwneud y canlynol:

- 1) Adlewyrchu dosbarthiad gofodol yr angen am ddarpariaeth gofal iechyd, gan sicrhau bod cynigion o'r fath yn hygyrch trwy ddulliau nad ydynt yn cynnwys ceir a bod ganddynt y potensial i gael eu rhannu gan wahanol ddarparwyr gwasanaethau;
- 2) Creu lleoedd cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion creu lleoedd (gweler SP3) er mwyn cefnogi'r dasg o liniaru ac addasu y newid yn yr hinsawdd;
- 3) Mae'n yn cael eu cefnogi gan seilwaith cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol priodol (gweler SP9 a SP10);
- 4) Maent yn cael eu hategu gan Asesu'r Effaith ar Iechyd pan fo hynny'n briodol (mae'n rhaid i Asesiad o'r Effaith ar Iechyd gefnogi datblygiadau mawr, gan ddangos sut y bydd y cynnig yn arwain at effeithiau buddiol (ac yn osgoi effeithiau andwyol) ar benderfyniadau allweddol iechyd yn y Fwrdeistref Sirol);
- 5) Hybu ffordd iach o fyw trwy ddefnyddio'r amgylchedd ffisegol ac adeiledig, yn enwedig cynnal a/neu wella graddau, ansawdd a chysylltedd y Rhwydwaith Teithio Llesol a'r Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd; a
- 6) Gwarchod (a phan fo hynny'n bosibl gwella) diogelwch, sicrwydd a chadernid ac nid ydynt yn arwain at risg sylweddol i fywyd, iechyd na llesiant dynol, yn enwedig o ran llygredd aer, sŵn, golau, dŵr neu dir.

Amcanion y CDLI	ISAMCAN: 1, 2, 3, 4 AMCAN: pob amcan
Dyfodol Cymru	Cefnogi Twf ac Adfywio Trefol: Arweinyddiaeth y Sector Cyhoeddus Cysylltedd Rhanbarthol Polisiau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol
Polisi Cynllunio Cymru	Hybu Lleoedd Iachach
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru Iachach Cymru sy'n Fwy Cyfartal Cymru o Gymunedau Cydlynus
Cynllun Llesiant Lleol	Dechrau gorau mewn Bywyd Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynol

	Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr – Asesu Llesiant Lleol (Ebrill 2017) Asesiad o Gydawnsedd Gweledigaeth, Amcanion a Pholisïau Strategol y CDLI Newydd o'u cymharu â Chynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb Arfarniad o Gynaliadwyedd

5.3.54 Mae SP8 yn adlewyrchu'r cyfeiriad yn y Polisi a'r Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol, sef y gall iechyd fod yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd, a'i fod yn cael ei gydnabod fwyfwy fel elfen hanfodol wrth gyflawni datblygiadau cynaliadwy.

5.3.55 Mae gweithredu'r Polisi hwn yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae hefyd yn cyfrannu at gyflawni nifer o amcanion Cenedlaethol sy'n ymwneud â ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys gweithgarwch ac adloniant corfforol (Ein Dyfodol Iach). Mae'r Polisi hefyd yn cefnogi'r amcanion a nodir yng Nghynllun Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr:

- Dechrau gorau mewn bywyd.
- Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynol.
- Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd.
- Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach.

5.3.56 Mae'n bwysig cydnabod na all y CDLI gyflawni'r holl amcanion a amlinellir gan Gynllun Llesiant Pen-y-bont ar Ogwr. Mae llawer o faterion yn ymestyn y tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol 'cynllunio defnydd tir'. Fodd bynnag, mae'r CDLI yn cyfrannu tuag at greu'r amodau cywir trwy sicrhau bod datblygiadau newydd yn galluogi ac yn cefnogi'r broses o'u cyflawni.



- 5.3.57 Yn benodol, mae'r polisi hwn yn adlewyrchu dull creu lleoedd cyffredinol y Cynllun trwy gydnabod bod datblygu cynaliadwy yn bwysig o ran helpu i annog pobl i fabwysiadu ffordd o fyw sy'n egniol ac yn iach. Mae hyn yn cynnwys caniatáu mynediad cyfartal at gyfleusterau gofal iechyd newydd sy'n datblygu, yn ogystal â seilwaith cymdeithasol a chyfleusterau cymunedol eraill. Gall datblygiadau newydd annog ffordd iach o fyw hefyd drwy ddarparu mynediad i amgylchedd naturiol o ansawdd uchel, trwy fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd Teithio Llesol; sicrhau rhwydweithiau seilwaith gwyrdd integredig, gwella a chynnal mannau agored ar gyfer gweithgarwch corfforol a darparu lle ar gyfer y cyfle i dyfu bwyd drwy randiroedd.

Seilwaith Cymdeithasol a Chymunedol

SP9: Seilwaith Cymdeithasol a Chymunedol	
Er mwyn cynnal a gwella ansawdd bywyd preswylwyr, bydd y defnyddiau a/neu'r cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol canlynol yn cael eu cadw neu eu gwella:	
1) Cyfleusterau hyfforddiant ac addysgol; 2) Cyfleusterau iechyd a llesiant; 3) Cyfleusterau sy'n cefnogi'r Gymraeg; 4) Llyfrgelloedd; 5) Seilwaith Gwyrdd ac Adloniant Awyr Agored (gan gynnwys parciau, meysydd chwarae, ardaloedd chwarae â chyfarpar, ardaloedd adloniant anffurfiol, mannau agored, coetiroedd, gwlyptiroedd ac ymylon ffyrdd); 6) Cyfleusterau hamdden dan do; 7) Adeiladau cymunedol; 8) Rhandiroedd; a 9) Mynwentydd.	
Er mwyn gwella'r gwasanaethau a ddarperir, mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol newydd, neu gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol a amnewidir, ddangos bod pob ymgais resymol wedi ei gwneud i ystyried cydleoli â chyfleuster cymdeithasol a chymunedol arall cyn yr ystyrir cyfleuster annibynnol.	
Mae'n rhaid i bob cynnig datblygu preswyl ddangos hygyrchedd seilwaith addysg er mwyn darparu ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig.	
Amcanion y CDLI	ISAMCAN:1, 2 AMCAN: 2b, 2e
Dyfodol Cymru	Siapio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol
Polisi Cynllunio Cymru	Cyfleusterau Cymunedol Mannau Adloniant
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru Iachach Cymru o gymunedau cydlynol Cymru fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cynllun Llesiant Lleol	Dechrau gorau mewn bywyd Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynol Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	TAN 16 – Chwaraeon, hamdden a mannau agored Asesiad Seilwaith Gwyrdd Archwiliad o Ardaloedd Chwaraeon Awyr Agored ac Ardaloedd Chwarae i Blant Archwilio Rhandiroedd Cynllun Cyflawni Seilwaith

- 5.3.58 Mae'r term 'cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol' yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau y mae'r Cyngor yn berchen ar rai ohonynt, ac eiddo preifat yw rhai eraill. Mae cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol lleol yn bwysig i iechyd a llesiant cymunedau lleol. Eu bodolaeth yn aml yw'r penderfynydd allweddol wrth greu cymunedau lleol dichonadwy a chynaliadwy os yw cyfleusterau o'r fath o fewn pellter cerdded a beicio hawdd i drigolion lleol. Felly, mae SP9 yn ceisio cadw neu wella cyfleusterau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ran o'r gymuned yn cael ei heithrio rhag cael mynediad at wasanaethau sylfaenol, gyda'r nod cyffredinol o greu cymunedau cynaliadwy a chynhwysol.
- 5.3.59 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio swyddogaeth y system gynllunio o ran darparu fframwaith ar gyfer cyfleusterau chwaraeon, adloniant a hamdden o ansawdd da sydd wedi eu lleoli'n dda. Felly mae Polisiâu Rheoli Datblygu COM9-13, yn amlinellu'n glir ofynion polisi'r Cynllun ar gyfer darparu, diogelu a gwella cyfleusterau chwaraeon, adloniant a hamdden. Mae'r rhain yn allweddol i hwyluso llesiant plant ac oedolion fel ei gilydd, ac ar gyfer bywyd cymdeithasol, amgylcheddol, diwylliannol ac economaidd cymunedau'r Fwrdeistref Sirol.
- 5.3.60 Mae'n hanfodol bod ansawdd bywyd holl drigolion y Fwrdeistref Sirol yn cael ei gynnal a'i fodloni'n ddigonol, a bod gwasanaethau cymunedol a chyfleusterau cymdeithasol yn parhau i fynd i'r afael â'u hanghenion, ac nad ydynt yn cael eu lleihau na'u tanategu gan dwf cynlluniedig. Mae defnyddiau a/neu gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol yn cynnwys ysgolion, cyfleusterau diwylliannol, adloniant, hamdden a chwaraeon, gwasanaethau iechyd, llyfrgelloedd, cyfleusterau dysgu cymunedol, mentrau hyfforddi, mynwentydd, a phob math o adeiladau cymunedol gan gynnwys addoldai.
- 5.3.61 At ddibenion y CDLI, diffinnir 'adeilad cymunedol', fel y cyfeirir ato yn SP9, sef cyfleuster a ddefnyddir gan gymunedau lleol at ddibenion hamdden a chymdeithasol, ar sail ddi-elw yn aml. Mewn rhai achosion, gall y diffiniad hwn ymestyn i adeiladau cymunedol preifat megis meithrinfeydd, cyfleusterau hamdden dan do, campfeydd a thai cyhoeddus, yn enwedig pan mai'r olaf yw'r unig adeilad cymunedol mewn anheddiad bach. Fodd bynnag, yn gynyddol, dylai adeiladau o'r fath fod â phwrrpas deuol ac ymgorffori elfennau masnachol ategol angenrheidiol er mwyn eu gwneud yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae cydleoli defnyddiau lluosog yn agos neu mewn un adeilad yn bwysig o ran darparu amrywiaeth o weithgareddau er mwyn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau. Mae cydleoli yn rhoi cyfle ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig cynaliadwy

ac mae ganddo'r potensial i greu rhagor o ymdeimlad o berchnogaeth a chymuned. Mae'r model darparu hwn hefyd yn rhoi gwell gwerth am arian o ran costau gweithredu. Felly, pan fo hynny'n ymarferol, bydd y Cyngor yn ceisio cyfuno defnyddiau cymdeithasol a chymunedol mewn un lleoliad neu un adeilad. Mae cyfle i wireddu hyn mewn cysylltiad â dyheadau'r Cyngor i gael ysgolion bro yn rhan o'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion.

- 5.3.62 Cydnabyddir y gallai cyfleoedd ar gyfer cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol newydd fod yn gyfyngedig yn aml, yn enwedig pan nad ydynt yn cael eu hariannu'n fasnachol ond eu bod yn cael eu sybsideiddio gan y Cyngor; felly mae'r CDLI yn nodi egwyddor sylfaenol o gadw cyfleusterau sy'n bodoli pan fyddant yn darparu swyddogaeth hanfodol a chynaliadwy yn eu cymunedau. Mae SP10 hefyd yn ceisio darparu cyfleusterau newydd yn ôl yr angen a phan ellir cyfiawnhau hynny.

COM9: Diogelu Cyfleusterau Cymdeithasol a Chymunedol

Ni chaniateir cynigion a fyddai'n cael effaith andwyol ar gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol presennol neu arfaethedig na chynigion a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol presennol neu arfaethedig oni ellir eu cyfiawnhau ar un o'r seiliau canlynol:

- 1) Mae lleoliad arall ar gael sy'n gynaliadwy ac yn hygyrch a darperir cyfleuster sydd o fudd cymunedol cyfatebol gan y datblygwr ar y safle neu oddi ar y safle yn y gymuned; neu
- 2) Ym marn yr awdurdod cynllunio lleol, nid oes angen y cyfleuster presennol mwyach ar gyfer y defnydd cyfredol, nac ar gyfer unrhyw ddefnyddiau cymdeithasol a chymunedol eraill, neu fod gormod o'r fath ddarpariaeth yn yr ardal eisoes.

- 5.3.63 Nod COM9 yw diogelu'r holl gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol presennol ac arfaethedig sy'n darparu swyddogaeth werthfawr yn eu cymunedau. Ni chaniateir datblygiad a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau o'r fath ac a fyddai'n cael effaith andwyol ar y gymuned y bwriedir iddo wasanaethu ynddi oni bai bod meini prawf COM9 yn cael eu bodloni.
- 5.3.64 Mae'r Strategaeth CDLI yn cydnabod bod mynediad da at gyfleusterau cymdeithasol a chymunedol yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cymdeithasol mewn a rhwng gwahanol gymunedau yn y Fwrdeistref Sirol, gan roi cyfle i bobl fyw bywyd iach, diogel a chytbwys. Pan nodir angen, mae'r CDLI yn ceisio sicrhau y cyflawnir cyfleusterau mewn modd priodol mewn lleoliadau priodol trwy Bolisiâu perthnasol y CDLI a'r Canllawiau Cynllunio Atodol.
- 5.3.65 Wrth leoli cyfleusterau newydd neu wrth amnewid cyfleusterau, bydd gan y Cyngor a sefydliadau partner eraill swyddogaeth hanfodol wrth gefnogi a datblygu'r model

darparu. Bydd dull arloesol a chydlynol o ddarparu gwasanaethau yn cael ei flaenoriaethu, yn enwedig drwy gydeoli cyfleusterau cymdeithasol a chymunedol.

COM10: Darparu Cyfleusterau Adloniant Awyr Agored

Ar bob datblygiad tai newydd, mae angen darparu man adloniant awyr agored o safon foddhaol, sy'n seiliedig ar y safonau canlynol:

- 1) 1.2 hectar fesul 1,000 o boblogaeth ar gyfer Meysydd Chwarae;
- 2) 1.6 hectar fesul 1,000 o boblogaeth ar gyfer Chwaraeon Awyr Agored Eraill (na chaiff eu chwarae ar faes chwarae);
- 3) 0.25 hectar fesul 1,000 o boblogaeth ar gyfer Ardaloedd Chwarae â Chyfarpar/Dynodedig;
- 4) 0.3 hectar fesul 1,000 o boblogaeth ar gyfer Darpariaeth Awyr Agored Arall;
- 5) 0.2 hectar fesul 1,000 o boblogaeth ar gyfer darpariaeth Rhandiroedd;

Caiff natur a math y ddarpariaeth eu llywio gan ganfyddiadau'r Archwiliad o Randiroedd a'r Archwiliad o Ardaloedd Chwaraeon Awyr Agored ac Ardaloedd Chwarae i Blant diweddaraf. Mae'n rhaid i'r ddarpariaeth ar y safle gydymffurfio â'r safonau meincnod hygyrchedd a nodir yn Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer datblygu tai newydd a chyfleusterau adloniant awyr agored.

Gallai cyfraniadau ariannol, sy'n cyfateb i'r un gwerth a ddisgwyliid ar y safle fel arall, fod yn dderbyniol yn lle darpariaeth ar y safle ar gyfer mannau chwarae ar raddfa fwy, neu pan fo'r lle chwarae presennol o fewn pellter cerdded i ddatblygiad arfaethedig. Defnyddir y cyfraniadau hyn i wella'r ddarpariaeth sy'n bodoli trwy:

- a) gwneud ardal yn fwy hygyrch i'r gymuned;
- b) gwell rheolaeth ar gyfer bioamrywiaeth a/neu er mwynhad goddefol;
- c) gwelliannau trwy offer mwy defnyddiadwy, neu well lle neu gyfleusterau ategol;
- d) cynnydd mewn capasiti chwarae; neu
- e) cyfuniad o'r uchod.

- 5.3.66 Mae Polisi Cynllunio Cymru o'r farn bod mannau adloniant yn hanfodol ar gyfer iechyd, llesiant ac amwynder cymunedau, gan gydnabod y cyfraniad sylweddol y gall adloniant awyr agored ei wneud i seilwaith gwyrdd ardal. Bydd disgwyl i bob datblygiad tai newydd gynnwys lefel adloniant awyr agored priodol at ddibenion amwynder cyhoeddus er budd Dylunio Da. Mae hyn yn ffordd annatod o gyflawni nifer o Amcanion Llesiant Lleol, gan gynnwys lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd a sicrhau dewis iach mewn amgylchedd iach. Mae COM10 yn seiliedig ar y safonau meincnod a

gymeradwywyd gan Feysydd Chwarae Cymru, Polisïau National Society of Allotment and Leisure Gardeners a Phecyn Cymorth Mannau Gwyrdd Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gyfer darparu Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda datblygwyr er mwyn cynnal y lefel a'r cydbwysedd gorau posibl o fannau adloniant awyr agored o ansawdd da i'w holl breswylwyr. Cefnogir y safonau sy'n ofynnol gan COM10 gan Archwiliad o Ardaloedd Chwaraeon Awyr Agored ac Ardaloedd Chwarae i Blant 2020 ac Archwiliad o Randiroedd 2020, sydd wedi llywio a datblygu Asesiad Seilwaith Mannau Gwyrdd cyffwrdd (2021) i'r un graddau. Ceir canllawiau ychwanegol yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer datblygu tai newydd a chyfleusterau adloniant awyr agored. Bydd darparu adloniant awyr agored, yn unol â COM10, hefyd yn cefnogi'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach yn unol â DNP8.

5.3.67 At ddibenion y CDLI, diffinnir Cyfleusterau Adloniant Awyr Agored fel a ganlyn:

- **Meysydd Chwarae** - ardaloedd sydd wedi eu marcio ar gyfer gweithgareddau adloniant ffurfiol ar gae, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) bêl-droed, rygbi'r undeb, rygbi'r gynghrair, hoci, lacrosse a chriced. Mae'r categori hwn hefyd yn cynnwys cyfleusterau atodol at ddibenion chwaraeon awyr agored megis ystafelloedd newid, toiledau, pafiliynau a chlybiau.
- **Chwaraeon Awyr Agored Eraill** - ardaloedd ar gyfer gweithgareddau adloniant na chaiff eu chwarae ar faes chwarae, gan gynnwys cyrtiau a lawntiau sy'n cynnwys arwynebau naturiol neu artiffisial, megis cyrtiau tennis, lawntiau bowlio, traciau athletau ac ardaloedd chwaraeon awyr agored eraill.
- **Ardaloedd Chwarae â Chyfarpar/Dynodedig** - mannau a ddynodir ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n cynnwys amrywiaeth o gyfleusterau ac amgylchedd sydd wedi ei gynllunio ar gyfer darparu cyfleoedd â phwyslais i chwarae yn yr awyr agored, gan gynnwys mannau chwarae achlysurol neu anffurfiol mewn ardaloedd tai. Gall y rhain gynnwys ardaloedd sy'n cynnwys offer adloniant a mannau glaswelltog fel y gall plant bach neu blant hŷn fwynhau gweithgareddau adloniant, ynghyd â mannau chwarae â chyfarpar. Mae'r categori hwn yn cynnwys Ardaloedd Chwarae Lleol, Ardaloedd Chwarae Lleol â Chyfarpar ac Ardaloedd Chwarae Cymdogaeth â Chyfarpar.
- **Darpariaeth Awyr Agored Arall** - Ardaloedd Gemau Amldeffnydd, parciau sgrialu a darpariaeth awyr agored arall.
- **Rhandiroedd** – ardaloedd o le agored yn yr amgylchedd trefol ac sy'n hygyrch i'r amgylchedd trefol a all ddarparu ar gyfer ymarfer corff cymedrol, ymlacio a chynhyrchu ffrwythau a llysiau ffres. Cydnabyddir eu bod yn ardaloedd sy'n darparu manteision amlswyddogaethol i gymunedau o ran cynaliadwyedd, hamdden a bioamrywiaeth. Maent hefyd yn darparu manteision cymunedol, iechyd a chymdeithasol, gan annog defnyddwyr o bob oed i ryngweithio â'i gilydd, rhoi'r cyfle i addysgu a dysgu, a gwella bioamrywiaeth leol.

COM11: Darparu Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-Naturiol (gan gynnwys Mannau Gwyrdd Amwynder)

Bydd y Cyngor yn hybu'r ddarpariaeth o Fannau Gwyrdd Naturiol a Lled-Naturiol hygyrch (gan gynnwys Mannau Gwyrdd Amwynder) pryd bynnag y bydd cyfleoedd addas yn codi. Yn hyn o beth, dyrennir yr ardaloedd canlynol yn benodol:

- COM11(1) Parc Llinellol Blaengarw a Phontycymer
- COM11(2) Rhan o hen Safle Golchi Canolog, Cwm Ogwr
- COM11(3) Heol Wastad Waun, Pencoed
- COM13(4) Pwll-y-Waun, Porthcawl
- COM13(5) Brackla Ridge ac Ardaloedd Cysylltiedig, Pen-y-bont ar Ogwr
- COM11(6) Parc Tyn y Coed, Bryncethin
- COM11(7) Tir oddi ar Rodfa Waunscil, Pen-y-bont ar Ogwr
- COM11(8) Tir i'r De-orllewin o City Road, Betws
- COM11(9) Hen Olchfa Maesteg, Maesteg

- 5.3.68 Yn ogystal â manteision darpariaeth adloniant ffurfiol, mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlygu sut y gall mannau gwyrdd anffurfiol, ond hygyrch ac o ansawdd uchel, hybu cadwraeth natur, bioamrywiaeth a gwell ansawdd aer er mwyn gwella ansawdd bywyd unigolion a chymunedau. Mae gan fannau o'r fath swyddogaeth i'w chwarae hefyd o ran diogelu'r hinsawdd a galluogi ardaloedd trefol i ymaddasu i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, drwy gyfrannu at y gwaith o reoli llifogydd a helpu i leihau effeithiau ynysoedd gwres trefol. Mae Mannau Gwyrdd Naturiol a Lled-Naturiol a Mannau Gwyrdd Amwynder yn llai ffurfiol na Chyfleusterau Adloniant Awyr Agored o ran cymeriad, ac maent yn darparu cyfle i bobl o bob oedran yn y gymuned fwynhau cymysgedd o weithgareddau. Mae COM11 yn hybu'r gwaith o ddarparu mannau o'r fath, sy'n cynnwys mannau adloniant anffurfiol a mannau gwyrdd cymunedol mewn ardaloedd tai, ac o'u cwmpas. Mae ardaloedd o'r fath yn elfennau pwysig o'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach ar gyfer diogelu a gwella bioamrywiaeth a chadernid ecolegol, gan wella canlyniadau llesiant yn unol â DNP8.

COM12: Darparu Rhandiroedd a Rhwydweithiau Bwyd Cymunedol

Bydd y Cyngor yn hybu'r ddarpariaeth o randiroedd a rhwydweithiau bwyd cymunedol pryd bynnag y bydd cyfleoedd addas yn codi. Yn hyn o beth, dyrennir yr ardaloedd canlynol yn benodol:

- COM12(1) Gardd Farchnad Caerau a Bryn-glas
- COM12(2) Tir i'r De o Glwb Pêl-droed Llangeinwyr

- 5.3.69 Mae gan randiroedd a mannau tyfu cymunedol lawer o fanteision cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd ac iechyd. Gallant gyfrannu at hunaniaeth lle a'i ymdeimlad o gymuned, gan helpu i adfywio mannau agored. Nod SP9 yw cadw, diogelu a gwella

safleoedd rhandiroedd presennol a nod COM12 yw hybu'r ddarpariaeth o erddi rhandiroedd ychwanegol ledled y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn pennu'r fframwaith cynllunio defnydd tir ar gyfer Strategaeth Rhandiroedd y Cyngor ac mae'n fodd allweddol o gyflawni amcan y Cynllun Llesiant Lleol, sef dewisiadau iach mewn amgylchedd iach.

- 5.3.70 Mae COM12 hefyd yn cefnogi'r broses o greu 'rhwydweithiau bwyd cymunedol', sy'n fodd o ddod â grwpiau cynhyrchu bwyd, defnyddwyr a grwpiau cymunedol at ei gilydd i gydweithio, gyda'r amcan cyffredinol o sicrhau bod bwyd yn cael ei dyfu'n lleol a bod y bwyd dros ben ar gael i gymunedau lleol. Mae hyn yn arbennig o bwysig i gymunedau mwyaf difreintiedig y Fwrdeistref Sirol, yn enwedig yn y cymoedd ble mae'n bosibl nad yw siopau lleol yn cyflenwi llawer iawn o gynnyrch ffres am brisiau fforddiadwy. Mae'r CDLI yn cefnogi dull o'r fath, sy'n lleihau 'milltiroedd bwyd' ac angen cymuned i deithio. Mae hyn yn cyfrannu at y dasg o fynd i'r afael ag effeithiau newid yn yr hinsawdd, o gyflawni'r Amcan Llesiant Lleol gan leihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd, ac yn hybu bioamrywiaeth a'r gwaith o greu cynefinoedd yn rhan o rwydwaith seilwaith gwyrdd y Fwrdeistref Sirol.

COM13: Darparu Mynwentydd

Dyrennir y safleoedd canlynol ac fe'u diogelir ar gyfer darparu mynwentydd:

- COM13(1) Mynwent Porthcawl, Porthcawl
- COM13(2) Mynwent Corneli, Gogledd Corneli
- COM13(3) Mynwent Gelliron, Pontycymer
- COM13(4) Mynwent Pencoed, Pencoed
- COM13(5) Mynwent Sarn, Sarn

- 5.3.71 Cydnabyddir bod mynwentydd yn amlswyddogaethol eu natur, gan ddarparu tir claddu yn ogystal â mannau pwysig o heddwch a llonyddwch. Yn yr un modd, mae gan fynwentydd swyddogaeth adloniant anffurfiol, sy'n gwella bioamrywiaeth fel elfen allweddol o'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd. Yn seiliedig ar yr angen a nodwyd, mae COM13 yn dyrannu ac yn diogelu ardaloedd penodol o dir ochr yn ochr â'r ddarpariaeth bresennol er mwyn cynnal cyflenwad digonol o dir claddu.

SP10: Seilwaith

Mae'n rhaid i'r holl gynigion datblygu gael eu hategu gan seilwaith presennol digonol neu seilwaith newydd. Er mwyn lliniaru effeithiau andwyol tebygol a/neu integreiddio cynnig datblygu â'i amgylchoedd, mae'n rhaid i ddatblygwyr ddarparu seilwaith rhesymol neu gyfraniadau ariannol ar gyfer seilwaith o'r fath yn ôl yr angen. Sicrheir hyn trwy gytundebau/rhwymedigaethau cynllunio pan fo hynny'n briodol.

Bydd y gofynion ar gyfer cytundebau o'r fath yn cynnwys ystyried a darparu'n briodol ar gyfer:

- 1) Tai fforddiadwy;
- 2) Seilwaith Economaidd – Seilwaith telathrebu / band eang;
- 3) Cyfleustodau;
- 4) Cyfleusterau addysgol a/neu y cyfleusterau wedi eu huwchraddio;

- 5) Seilwaith gwyrdd ac adloniant awyr agored;
- 6) Ynni adnewyddadwy a thechnolegau carbon isel;
- 7) Seilwaith Trafnidiaeth - Gwelliannau i'r rhwydwaith priffyrdd, gan gynnwys llwybrau cerdded a beicio (Teithio Llesol) a chludiant cyhoeddus;
- 8) Diogelu, gwella a rheoli'r amgylchedd naturiol, hanesyddol ac adeiledig;
- 9) Cyfleusterau cymunedol a/neu y cyfleusterau wedi eu huwchraddio;
- 10) Cyfleusterau rheoli gwastraff ac ailgylchu;
- 11) Mentrau i reoli a lliniaru effaith y newid yn yr hinsawdd; a Gwelliannau i'r amgylchfyd cyhoeddus;
- 12) Y Gymraeg.

Ymgynghorir â darparwyr seilwaith ar geisiadau cynllunio perthnasol.

Amcanion y CDLI	ISAMCAN: 1, 2, 3, 4 Pob amcan
Dyfodol Cymru	Siapio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol Adnewyddadwy Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol
Polisi Cynllunio Cymru	Dewisiadau Strategol a Gofodol: Y Seilwaith Ategol Trafnidiaeth Tai Seilwaith Economaidd Lleoedd Cynhyrchol a Mentrus Ynni Lleoedd Nodedig a Naturiol, Seilwaith Gwyrdd
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru Iachach Cymru o gymunedau cydlynol Cymru fwy cyfartal Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
Cynllun Llesiant Lleol	Dechrau gorau mewn bywyd Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynol Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	Polisi Cynllunio Cymru TAN 2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy TAN 4 Datblygiadau Manwerthu a Masnachol TAN 5 Cadwraeth Natur a Chynllunio TAN 16 Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored TAN 18 Trafnidiaeth TAN 20 Cynllunio a'r Gymraeg Cynllun Cyflawni Seilwaith Asesiad Safle Posibl Asesiad o'r Farchnad Dai Leol Asesiad Seilwaith Gwyrdd

- 5.3.72 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori bod seilwaith digonol ac effeithlon, gan gynnwys gwasanaethau megis cyfleusterau addysg, cyfleusterau iechyd, cyflenwad dŵr, carthffosydd, rheoli gwastraff, cyfleustodau a thelathrebu, yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pob rhan o Gymru. Felly, mae SP10 yn amlinellu bod yn rhaid darparu seilwaith yn rhan o gynigion datblygu, yn ôl yr angen, er mwyn galluogi'r gwaith o greu lleoedd yn gynaliadwy. Mae SP10 hefyd yn nodi'r mathau eang o seilwaith efallai y bydd angen mynd i'r afael â nhw er mwyn gwella llesiant cymunedau. Mae'n hanfodol bod gan holl drigolion y Fwrdeistref Sirol fynediad da at amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau yn eu hardal leol.
- 5.3.73 Mae'r seilwaith ffisegol, y seilwaith cymdeithasol a'r gwasanaethau sydd eu hangen i wneud i leoedd weithredu'n effeithlon ac yn gynaliadwy wedi eu hystyried yn rhan o'r CDLI Newydd. Ymgynghorwyd â darparwyr seilwaith yn ystod y broses o baratoi'r CDLI Newydd er mwyn nodi unrhyw faterion capasiti sy'n codi o gynigion datblygu. Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat, ac yn strategol gyda Llywodraeth Cymru, er mwyn galluogi'r dasg o ddarparu gwelliannau angenrheidiol i'r seilwaith.
- 5.3.74 Dim ond pan fydd seilwaith ffisegol a chymdeithasol digonol sy'n bodoli ar waith y caniateir datblygu, neu pan fo cynigion addas ar gyfer cynyddu'r ddarpariaeth, er mwyn darparu ar gyfer unrhyw alw ychwanegol oddi wrth y datblygiad arfaethedig. Mae'n rhaid i'r rhai sy'n ymgymryd â'r datblygiad fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion o'r fath, pan fo hynny'n rhesymol, drwy rwymedigaethau cynllunio (trwy gytundeb cyfreithiol Adran 106). Mae'n rhaid i unrhyw ofynion fod yn rhesymol, gan gydymffurfio â'r profion anghenraid a nodir yng Nghylchlythyr 13/97 y Swyddfa Gymreig: 'Rhwymedigaethau Cynllunio'. Dim ond â'r anghenion sy'n deillio o'u datblygiadau penodol y bydd angen i ddatblygwyr fynd i'r afael â nhw ac fe'u hanogir i ddefnyddio trafodaethau cyn ymgeisio i nodi gofynion tebygol yn gynnar.

COM14: Seilwaith Telegyfathrebu a Thechnoleg Ddigidol

Ystyrir cynigion ar gyfer seilwaith telathrebu a thechnoleg ddigidol yng ngoleuni gofynion technegol a gweithredol, ac fe'u caniateir o dan yr amgylchiadau canlynol:

- 1) Mae'r datblygiad yn cyfrannu at yr amcanion selio rhag dŵr ac adfywio yn y dyfodol neu mae'n rhan o ddatblygiad cynlluniedig rhwydwaith ehangach; a
- 2) Mae'r datblygiad yn ymgorffori pob mesur rhesymol i leihau unrhyw effaith andwyol sylweddol oherwydd y lleoliad ac ymddangosiad allanol y cyfarpar,

ac mae'r dyluniad yn lleihau'r effaith a achosir gan ei ymddangosiad gweledol; a

- 3) Ni fyddai unrhyw effaith andwyol sylweddol ar dreftadaeth naturiol, yr amgylchedd hanesyddol nac amwynder trigolion cyfagos; a
- 4) Mae tystiolaeth o gydymffurfio â chanllawiau'r Llywodraeth ynghylch effeithiau seilwaith telathrebu ar iechyd yn cyd-fynd â'r cais.

5.3.75 Mae seilwaith telathrebu a thechnoleg digidol digonol ac effeithlon yn gynyddol hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn amlinellu bod cyfathrebu electronig fforddiadwy a diogel yn tanategu cystadleurwydd economaidd, a gall ddarparu cyfleoedd i aelwydydd a busnesau gyflawni ffyrdd o fyw a gweithio sy'n ddymunol o safbwynt cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae COM14 yn cefnogi seilwaith telathrebu yn ôl yr angen, gan ddiogelu rhag unrhyw effeithiau andwyol ar amwynder preswyl, asedau treftadaeth naturiol ac adeiledig, tirweddau sensitif a dynodiadau amgylcheddol eraill. Dylai datblygwyr ymgysylltu'n rhagweithiol â pherchnogion neu weithredwyr defnyddiau sensitif (megis ysbytai, cyfleusterau gofal plant neu sefydliadau addysgol) yn gynnar yn y broses ddatblygu er mwyn trafod unrhyw faterion technegol neu faterion amwynder eraill a allai godi o ganlyniad i'r datblygiad. Mae COM14 yn ceisio galluogi'r Fwrdeistref Sirol i ymateb yn gadarnhaol ac yn hyblyg i ddatblygiadau technolegol yn ystod cyfnod y CDLI Newydd, gan leihau'r effeithiau ar amwynder a'r amgylchedd lleol.

5.4 Creu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus

- 5.4.1 Mae strategaeth genedlaethol 'Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi', a baratowyd gan Lywodraeth Cymru, yn nodi datganiad clir o fwriad i adeiladu economi ar sylfeini cryf, atgyfnerthu diwydiannau Cymru yn y dyfodol a grymuso'r holl ranbarthau i ddod yn fwy cynhyrchiol.
- 5.4.2 Wrth geisio cefnogi'r strategaeth genedlaethol, mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol annog a chefnogi datblygiadau sy'n cynhyrchu ffyniant economaidd ac adfywiad. Dylid galluogi hyn trwy gynigion datblygu sy'n cyfrannu at adeiladu economi gref, ymatebol a chystadleuol, oherwydd bod rhaid i awdurdodau cynllunio lleol o'r fath sicrhau bod digon o dir o'r math cywir ar gael yn y mannau cywir ac ar yr adeg iawn, er mwyn cefnogi twf ac arloesedd.
- 5.4.3 Mewn cyd-destun rhanbarthol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Rhaglen fuddsoddi 20 mlynedd / £1.28 biliwn yw hon sydd â'r nod o gyflawni cynnydd o 5% yng Ngwerth Ychwanegol Gros y Rhanbarth ('Gwerth Ychwanegol Gros' - mesur o werth y nwyddau a gynhyrchir a'r gwasanaethau a gyflawnir yn yr ardal) drwy gyflawni amrywiaeth o raglenni er mwyn cynyddu cysylltedd, gwella'r seilwaith ffisegol a digidol, yn ogystal â llywodraethu busnes yn rhanbarthol. Datblygwyd y **Cynllun Diwydiannol ac Economaidd** gan Bartneriaeth Twf Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau'r rhanbarth. Mae'r Cynllun yn hybu cysylltedd byd-eang trwy fuddsoddi

mewn systemau cludiant o'r radd flaenaf, tai, seilwaith digidol a sgiliau cyflogadwy er mwyn cyflawni ei amcanion o greu swyddi, gwella cynhyrchiant a denu buddsoddiad bytholwyrdd. Ochr yn ochr â Metro De Cymru, sef "asgwrn cefn" Cynllun Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae partneriaid lleol yn disgwyl i Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gyflawni hyd at 25,000 o swyddi newydd a throsoli buddsoddiad ychwanegol o £4 biliwn gan y sector preifat erbyn 2036. Mae gan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 6 Amcan:

1. Cysylltu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
2. Buddsoddi mewn arloesedd a'r rhwydwaith digidol;
3. Datblygu gweithlu medrus a mynd i'r afael â diweithdra;
4. Cefnogi menter a thwf busnes;
5. Datblygu ac adfywio tai; a
6. Datblygu mwy o lywodraethu rhwng dinas a'r rhanbarth ledled Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

5.4.4 Gan adeiladu ar fantais gystadleuol a chyfle y rhanbarth yn yr economi, bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn targedu sectorau'n strategol ar gyfer cymorth, er mwyn eu galluogi i dyfu a ffynnu. Bydd y rhain yn cynnwys, ond ni fyddant yn cael eu cyfyngu i'r canlynol:

- Lled-ddargludyddion Cyfansawdd, eu cadwyn gyflenwi a'u cymwysiadau;
- Technoleg Ariannol;
- Dadansoddeg Seiberddiogelwch;
- Deallusrwydd Artiffisial a Gwyddor Data;
- Economi Greadigol;
- Gwyddorau bywyd ac yn fwy penodol yr is-sectorau dyfeisiau meddygol a diagnosteg;
- Peirianeg Trafnidiaeth; a
- Moduron, trenau ac awyrennau.

5.4.5 Mae cysylltedd yn hollbwysig, yn ffisegol ac yn ddigidol. Mae angen seilwaith dibynadwy ar Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n hwyluso cysylltiadau rhyngranbarthol a mewnol, er mwyn hybu cynhyrchiant a ffyniant. Mae cynlluniau presennol y Metro yn gam sylweddol i'r cyfeiriad hwn a bydd cynigion eraill yn cael eu cyflwyno er mwyn rhyddhau a manteisio i'r eithaf ar y potensial a gynigir gan ei ddatblygiad yn y dyfodol. Bydd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraethau'r DU a Chymru i ddatblygu, gwella a gweithredu'r rhwydwaith trafndiaeth ymhellach, er mwyn gwella cysylltiadau yn y rhanbarth, lleihau tagfeydd a chysylltu pobl. Bydd Cynllun Datblygu Strategol ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn y dyfodol yn darparu pwyslais strategol ledled y rhanbarth a bydd yn galluogi canolfannau allweddol i gael eu cysylltu ledled y rhanbarth gan sicrhau bod twf yr economi yn gytbwys ac yn gynhwysol.

5.4.6 Mae swyddogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn yr uchelgais ehangach hon yn arwyddocaol o ran ei lleoliad strategol fel canolbwynt economaidd ac yng nghryfder ei sylfaen economaidd a'i chymysgedd sectoraidd. Mae Cymru'r Dyfodol yn tynnu sylw at y potensial a'r cyfle i Ben-y-bont ar Ogwr weithredu canolfan allweddol, gan fanteisio ar ei



Parc Technoleg Pencoed

lleoliad pwysig strategol ar System Metro'r De-ddwyrain. Ceir cysylltiad agos rhwng economi Pen-y-bont ar Ogwr a'r sector gweithgynhyrchu, er bod ganddi economi amrywiol gyda chyflogaeth ar draws ystod o weithgareddau gan gynnwys sectorau sy'n datblygu megis 'gwyddorau bywyd'. Mae twf mewn sectorau mawr megis warysau/manwerthu, gwasanaethau proffesiynol/preifat ac adeiladu wedi cynyddu'n gyflymach ym Mhen-y-bont ar Ogwr na'r meincnodau cenedlaethol, sy'n golygu bod y Fwrdeistref Sirol yn gynhyrchydd Gwerth Ychwanegol Gros sylweddol, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Yn y cyd-destun hwn, bydd y CDLI yn darparu'r fframwaith fel y gall y Fwrdeistref Sirol gyfrannu tuag at lwyddiant y Fargen Ddinesig, a manteisio arni, ynghyd â rhyngddibyniaethau Rhanbarth Bae Abertawe.

5.4.7 Hefyd, mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr weledigaeth i wneud **Pen-y-bont ar Ogwr yn Fwrdeistref Sirol glyfar sydd wedi ei chysylltu'n ddigidol a'i datgarboneiddio**. Gan wneud hynny bydd yn pontio i system ynni carbon isel, ddatganoledig sy'n gweithio i'w hunigolion, ei chymunedau a'i busnesau. Wrth gyflawni'r weledigaeth hon, nod y Cyngor yw: datgarboneiddio'r sector ynni; ysgogi twf economaidd; darparu cyfleoedd gwaith newydd; a denu busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli i dreialu mentrau a thyfu yn y Fwrdeistref Sirol.

5.4.8 Mae ymgynghori â thrigolion a busnesau lleol wedi nodi bod cyflawni economi gref a chytbwys, sy'n darparu rhagor o swyddi i bobl leol, yn flaenoriaeth uchel. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r gwaith o geisio twf economaidd gyd-fynd yn gyfforddus ag amcanion eraill hefyd, megis diogelu a gwella'r amgylchedd a chynllunio i ddiwallu anghenion cymdeithasol y cymunedau lleol. Felly, nod strategaeth economaidd y CDLI Newydd i raddau helaeth yw 'creu lleoedd cynhyrchol a mentrus' trwy ddarparu digon o dir cyflogaeth ac amrywiaeth o safleoedd er mwyn cefnogi amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth, gan gyflawni:

- swyddi newydd a swyddi sy'n talu'n well ar gyfer trigolion o genedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol; a
- gwell cydbwysedd rhwng lleoliad swyddi a thai, a fydd yn lleihau'r angen i deithio ac yn hybu twf cynaliadwy.

5.4.9 Rhagwelir y bydd dros 30% o boblogaeth y Fwrdeistref Sirol yn 60+ oed erbyn 2033. Gyda thwf absoliwt a chymharol ar draws y grŵp oedran hwn, mae'n debygol y bydd gostyngiad eang mewn cyfraddau gweithgarwch economaidd lleol os nad yw'r Cynllun yn hwyluso lefelau cynaliadwy o dwf economaidd er mwyn gwrthbwysu'r ffenomen hon.

Felly, mae'r CDLI Newydd yn ceisio cyflawni mathau cynaliadwy o dwf a fydd yn denu ac yn cadw aelwydydd sy'n economaidd weithgar yn y Fwrdeistref Sirol. Fel y cyfiawnheir yn y Papur Cefndir Opsiynau Twf Strategol, mae'r Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy yn cael ei llywio i raddau helaeth gan aelwydydd yn y grŵp oedran 35-44. Rhagwelir y bydd y twf hwm yn cynnal y cynnydd yn nifer y bobl fydd mewn cyflogaeth sy'n seiliedig ar y gweithle dros gyfnod y Cynllun, a chyflawnir hyn drwy ddarparu hyd at 4,995 o swyddi newydd.

- 5.4.10 Mae'r lefel hon o dwf yn fwy na Phrif Amcanestyniad Llywodraeth Cymru o'r hyn sy'n angenrheidiol fel y gall y Cynllun gefnogi aelwydydd sefydledig, economaidd weithgar yn y Fwrdeistref Sirol trwy geisio sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng cyfleoedd cyflogaeth a'r cartrefi a ddarperir. Bydd alinio'n agos y mathau rhyng-gysylltiedig hyn o dwf yn helpu i annog ffyniant economaidd, hybu patrymau symud mwy cynaliadwy a lleihau'r angen i bobl leol deithio'n bell i'r gwaith. Bydd hyn yn gwrthbwysu'r boblogaeth sy'n heneiddio ac yn helpu i fynd i'r afael ag aelwydydd economaidd weithgar sy'n allfudo, a fyddai'n digwydd fel arall drwy gynllunio ar gyfer twf annigonol. Bydd gweithlu parhaus a gwell, sy'n cynnwys aelwydydd medrus, sefydledig, yn sicrhau bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn lle sydd â rhagolygon dymunol i gyflogwyr symud iddo, neu ehangu ynddo, a bydd hynny'n ysgogi twf economaidd ac yn gwella cyfleoedd cyflogaeth i bobl leol. [Gellir egluro hyn yn gryno gan ddefnyddio'r acronym 'CARM' \(Counter-balance, Attract, Retain, Magnet\) o'r Saesneg, sy'n crynhoi bwriad y Cynllun i wrthbwysu'r boblogaeth sy'n heneiddio trwy ddenu aelwydydd medrus, economaidd weithgar, cadw aelwydydd medrus, economaidd weithgar a sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn fagned i gyflogwyr symud i mewn iddi neu ehangu.](#)
- 5.4.11 Mae angen ymateb tir cyflogaeth cadarnhaol i gyflawni cydbwysedd rhwng cartrefi newydd, gweithlu medrus sy'n tyfu a chyfleoedd am swyddi er mwyn ysgogi'r economi lleol i ranbarthol. Mae Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd 2019 a Diweddariad 2021 wedi dadansoddi'r hwb arfaethedig hwn i'r gweithlu ochr yn ochr â thueddiadau cyflogaeth eraill, gan gynnwys y nifer a oedd yn manteisio ar dir cyflogaeth yn y gorffennol a rhagolygon economaidd sy'n seiliedig ar sectorau. Mae'r sylfaen dystiolaeth ddilynol wedi llywio graddfa a dosbarthiad yr angen am gyflogaeth a'r tir sydd fwyaf addas i ddiwallu'r angen hwnnw dros gyfnod y cynllun yng nghyd-destun Polisi Cynllunio Cymru a TAN 23, a gyfiawnheir ymhellach yn y Papur Cefndir Cyflogaeth, ac a nodir yn SP11.

Darparu Tir Cyflogaeth

SP11: Strategaeth Tir Cyflogaeth

Bydd cyfleoedd ar gyfer twf economaidd yn cael eu hwyluso trwy gyfeirio cyflogaeth sy'n cynhyrchu datblygiad i'r lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy, cefnogi busnesau sydd eisoes yn bodoli i ehangu a sicrhau bod aliniad gofodol cryf rhwng twf cyflogaeth a thai. Bydd y strategaeth gyfannol hon ar gyfer tir cyflogaeth yn dyrannu 71.7 hectar o dir cyflogaeth newydd i'w ddwyn ymlaen ac yn darparu ar gyfer hyd at 7,500 o swyddi ychwanegol yn ystod cyfnod y Cynllun, trwy:

- 1) Dyrannu'r Safleoedd Cyflogaeth Strategol canlynol sydd â thir ar gael at ddibenion cyflogaeth o ansawdd uchel (defnyddiau B1, B2 a B8):

- a) Brocastell (20.4 hectar); a
- b) Parc Technoleg Pencoed (5.4 hectar).

Nodwyd y ddau safle cyflogaeth allweddol hyn yn benodol fel asedau cyflogaeth amlwg i ddenu busnesau o ansawdd uchel a buddsoddiad i'r Fwrdeistref Sirol mewn modd a fydd yn cyfrannu at yr economi lleol a rhanbarthol ehangach;

- 2) Dyrannu portffolio o Safleoedd Cyflogaeth (gweler ENT1) gyda 45.9 hectar o dir ar gael at ddibenion cyflogaeth (defnyddiau B1, B2 a B8). Bydd y dyraniadau hyn yn darparu hyblygrwydd a dewis o gyflawni cyflogaeth newydd ar amrywiaeth o safleoedd ledled y Fwrdeistref Sirol;
- 3) Cadw a diogelu safleoedd cyflogaeth cynaliadwy a dichonadwy sefydledig ar gyfer defnyddiau cynhyrchu cyflogaeth (gweler ENT2); a
- 4) Caniatáu datblygiadau cyflogaeth cynaliadwy ar raddfa fach mewn aneddiadau gwasanaeth lleol, ynghyd â mentrau gwledig priodol yng nghefn gwlad er mwyn helpu i wella ac amrywio'r economi wledig.

Bydd y Strategaeth hon hefyd yn galluogi'r gwaith o ail-ddatblygu hen Safle Ford Pen-y-bont ar Ogwr (45 hectar), a bydd hynny'n manteisio ar y cyfle economaidd allweddol hwn, gan ddarparu rhagor o hyblygrwydd a dewis i'r cyflenwad tir cyflogaeth 71 hectar uniongyrchol (gweler ENT5).

Amcanion y CDLI	ISAMCAN: 1, 2, 3 AMCAN: 1a-f, 2a, 3a, 3b, 3c, 3e, 3f, 3h, 3i,3n
Dyfodol Cymru	Cefnogi Cymunedau Gwledig Cefnogi'r Economi Wledig Polisiau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol Siapio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol
Polisi Cynllunio Cymru	Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus, Seilwaith Economaidd Datblygu Economaidd Yr Economi Wledig
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru ffyniannus Cymru gydnerth
Cynllun Llesiant Lleol	Lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol ac economaidd
Tystiolaeth Allweddol	Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2019) a Diweddariad Sylfaen Dystiolaeth Economaidd (2021) Adroddiad Dadansoddiad a Rhagolygon Demograffig (2019) ac Atodiad i'r Diweddariad Demograffeg (2020) Papur Cefndir Cyflogaeth

	TAN 6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010) TAN 23 – Datblygu Economaidd (2014) Adeiladu Sail Tystiolaeth ar gyfer Datblygu Economaidd (2015) – Paratowyd gan Lywodraeth Cymru.
--	--

- 5.4.12 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gefnogi'r broses o ddarparu ddigon o dir er mwyn bodloni anghenion y farchnad gyflogaeth ar lefel strategol a lleol. Mae SP11 yn gosod y fframwaith ar gyfer galluogi lefel gytbwys o dir cyflogaeth i gael ei chyflawni er mwyn darparu ar gyfer y swyddi newydd a nodir trwy'r Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy. Mae'r dull hwn yn hanfodol er mwyn helpu i fynd i'r afael â lefelau sylweddol o ran cymudo allan neu symudiadau i broffiliau mudo, a allai gael eu hachosi fel arall gan ddiffyg sbardun economaidd digonol i annog a darparu ar gyfer creu rhagor o swyddi. Ystyrir bod hwn yn ddull anghyfyngedig a chadarnhaol o sicrhau bod amrywiaeth a chymysgedd o fathau o safleoedd ar gael ledled y Fwrdeistref Sirol hyd at 2033, gan ddarparu digon o gwmpas i barhau i fuddsoddi heb rwystro'r cyflenwad tai. Yn seiliedig ar argymhellion Astudiaeth o'r Sylfaen Dystiolaeth Economaidd 2019 a Diweddariad 2021, manylir isod ar y safleoedd cyflogaeth a nodir yn SP11, a'u swyddogaethau wrth gyflawni'r Strategaeth. Mae ENT1 yn cefnogi SP11 drwy ddyrannu tir cyflogaeth newydd ar gyfer ei ddatblygu. Mae ENT2 yn cefnogi SP11 drwy ddiogelu swyddogaeth gyflogi safleoedd busnes a chyflogaeth bresennol.

ENT1: Dyraniadau Cyflogaeth

Er mwyn cefnogi Strategaeth Tir Cyflogaeth y Cyngor, neilltuir 71.7 hectar o dir cyflogaeth sydd ar gael ar gyfer datblygu cyflogaeth yn y lleoliadau canlynol ar gyfer y defnyddiau a nodir:

Safle Cyflogaeth	Tir sydd ar Gael (hectar)	Defnyddiau
Safleoedd Cyflogaeth Strategol		
1) Brocastell, Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr	20.4	B1, B2, B8
2) Parc Technoleg Pencoed	5.4	B1, B2, B8
Safleoedd Cyflogaeth: Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr		
3) Ystad Ddiwydiannol Bracla	7.7	B1, B2, B8
4) Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr	9.2	B1, B2, B8
5) Iard Llangrallo, Pen-y-bont ar Ogwr	0.1	B1, B2, B8
6) Iard Crosby, Pen-y-bont ar Ogwr	0.8	B1, B2, B8
7) Parc Afon Ewenni	2.0	B1, B2, B8
8) Ystad Ddiwydiannol Waterton	10.0	B1, B2, B8
Safleoedd Cyflogaeth: Ardal Twf Cynaliadwy y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli		
9) Tir yn Gibbons Way, Gogledd Corneli	0.0	B1
10) Ystad Ddiwydiannol Village Farm, Y Pîl	2.6	B1, B2, B8

11) Fferm Tŷ Draw, Y Pîl	2.23	B1, B2, B8
Safleoedd Cyflogaeth: Ardal Twf Adfywio Maesteg a Chwm Llynfi		
12) Ffordd Ewenni, Maesteg	3.5	B1, B2, B8
Safleoedd Cyflogaeth: Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed		
13) Y Safle Triongl, Bocam Park, Pencoed	1.0	B1
Safleoedd Cyflogaeth: Lleoliadau Eraill		
14) Ystad Ddiwydiannol Brynmenyn	2.0	B1, B2, B8
15) Tir gerllaw Gwasanaethau Parc Sarn	2.7	B1
16) Tir i'r gorllewin o Heol Maesteg, Tondu	0.3	B1
17) Ystad Ddiwydiannol Isfryn, Melin Ifan Ddu	0.4	B1, B2, B8
18) Ystad Ddiwydiannol Abergarw, Brynmenyn	1.4	B1, B2, B8
Cyfanswm		71.7 hectar

5.4.13 Mae cyflawni portffolio eang a chytbwys o ddefnyddiau cyflogaeth yn ganolog i'r strategaeth economaidd. Bydd hyn yn caniatáu i'r economi leol ddenu defnyddiau cyflogaeth dwys ychwanegol sydd â gwerth uwch gan gynnwys gwyddorau bywyd, adeiladu, ynni a datgarboneiddio, a sectorau telathrebu. Mae hyn yn ogystal â chefnogi a chynnal y sylfaen weithgynhyrchu sylweddol a defnyddiau dosbarth B traddodiadol sy'n agwedd bwysig ac yn sbardun twf i'r economi leol, yn awr ac yn y dyfodol.

5.4.14 Er mwyn sicrhau cadernid yr economi leol yn y dyfodol, bydd y Cyngor hefyd yn annog ac yn cefnogi'r gwaith o ailddatblygu, adnewyddu a rhesymoli'r stoc bresennol o adeiladau diwydiannol mwy er mwyn gwella ansawdd arwynebedd llawr cyflogaeth sy'n addas ar gyfer anghenion modern yn arbennig ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig sydd mor bwysig i economi Cymru a Phen-y-bont ar Ogwr.

Safleoedd Cyflogaeth Strategol

5.4.15 Gwahaniaethir rhwng y safleoedd strategol a'r safleoedd cyflogaeth eraill ar sail eu nodweddion ffisegol a lleoliadol, yn enwedig eu lleoliadau amlwg gerllaw ardaloedd cefn gwlad, a'u hagosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd strategol. Y rhain yw'r asedau mwyaf i'r ardal o ran eu tuedd i ddenu busnesau o ansawdd uchel ynghyd â buddsoddiad, ac felly maent yn cynhyrchu lefelau uchel o swyddi mewn modd a fydd yn cyfrannu at yr economi leol ac ehangach. O ystyried lleoliadau sensitif y safleoedd hyn, mae'r gofyniad am safonau dylunio ac amgylcheddol sy'n uchel yn gyson mewn fframwaith cysyniad cyffredinol yn rhagofyniad ar gyfer datblygu, gan gynnwys mynediad trwy ddulliau heblaw ceir. Bydd hyn yn creu cymysgedd o gyfleoedd cyflogaeth i'r gweithlu lleol mewn amgylchedd o ansawdd uchel, gan gyflawni amcanion cyflogaeth y CDLI. Mae'r holl Safleoedd Cyflogaeth Strategol (cyfanswm o 25 hectar) yn cael eu datblygu'n unigol gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Mae perchnogaeth gyhoeddus y safleoedd hyn yn darparu rhagor o reolaeth o ran pryd a sut y caiff y safleoedd eu cyflwyno.

Brocastell, Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr (SP11 (1a))

5.4.16 Brocastell yw un o'r safleoedd mewnfuddsoddiad maes glas pwysicaf yng nghoridor yr M4 yn ne Cymru. Mae'r safle mewn lleoliad hygyrch a dymunol iawn ar gyrion Pen-y-bont ar Ogwr, ar yr A48 tuag at y Bont-faen.

5.4.17 Mae'r safle wedi'i leoli yn uniongyrchol nesaf at ardal o bwyslais ar gyfer twf Pen-y-bont ar Ogwr, wedi'i gysylltu yn agos ag Ystâd Ddiwydiannol Waterton ac i'r de o hen safle Ford. Ceir cyfle ar gyfer synergedd ag ail-ddatblygu hen safle Ford ac integreiddio pellach â Pharc Afon Ewenni, sydd hefyd wedi'i leoli yn gymharol agos ac yw datblygiad defnydd cymysg a chyfle adfywio tir llwyd mwyaf sylweddol y Fwrdeistref Sirol.



5.4.18 Ceir mynediad i gerbydau at Brocastell oddi ar yr A48, tua 4 cilomedr o Gyffordd 35 traffordd yr M4. Mae mynediad ffordd newydd (cylchfan) ac aliniad yr A48 yn weithredol bellach. Mae'r safle heb ei ddatblygu bron yn gyfan gwbl, ac yn gyfanswm o 46 hectar o faint, er bod y topograffi yn cyfyngu'r arwynebedd y gellir ei datblygu i 20.4 hectar. Mae Llywodraeth Cymru, fel y perchennog, yn hyrwyddo yn weithredol cynllun ar gyfer 71,000 milltir sgwâr o le datblygu o fewn y 20.4 hectar. Rhoddwyd caniatâd cynllun ar gyfer datblygiad o hyd at 71,441 milltir sgwâr o arwynebedd llawr cyflogaeth B1, B2 a B8, gan gynnwys mynediad, lleoedd parcio, gwyriad i hawliau tramwy cyhoeddus, gwaith adfer y safle, draenio, tirweddu a gweithrediadau peirianeg cysylltiedig. Ystyrir mai Brocastell yw ased mwyaf y Fwrdeistref Sirol o ran denu buddsoddiad cyflogaeth graddfa fawr i'r ardal. Hefyd, mae'r synergeddau rhwng Brocastell, Parc Afon Ewenni a hen safle Ford yn gyfle datblygu mwy cyfannol, a adnabyddir yn gyfunol fel Porth Deheuol Pen-y-bont ar Ogwr, a fydd yn cael ei alluogi trwy ddarparu Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy y CDLI newydd.

Parc Technoleg Pencoed, Pencoed (SP11 (1b))

5.4.19 Mae Parc Technoleg Pencoed yn eiddo i Lywodraeth Cymru. Mae'r safle wedi'i leoli y naill ochr a'r llall o ffin weinyddol ddwyreiniol Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf. Mae'r safle wedi'i leoli nesaf at Gyffordd 35 yr M4 i'r dwyrain o Ben-y-bont ar Ogwr, yn agos iawn at gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus, a Gorsaf Reilffordd Pencoed yn benodol. Fe'i nodir fel canolbwynt Gwyddorau Bywyd Ansawdd Uchel a gweithgynhyrchu ac mae eisoes yn gartref i nifer o fuddsoddiadau uchel eu proffil.

5.4.20 Mae seilwaith helaeth wedi'i sefydlu, gan gynnwys 'ffyrdd cwta' i barseli heb eu datblygu, gan gynnwys y tir yn ardal weinyddol Pen-y-bont ar Ogwr, ac ystyrir bod y safle ar gael ar unwaith i'w ddatblygu. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ym mis Ionawr 2017 i GIG Cymru ar gyfer newid defnydd hen adeilad Sanken Power Systems i greu Academi Ddelweddu Genedlaethol yn cynnig cyfleuster o'r radd flaenaf i hyfforddi Radiolegwyr Ymgynghorol a mannau gwaith swyddfa atodol. Dewiswyd y safle hwn gan y GIG oherwydd ei leoliad strategol yng nghanol 'De Cymru' a'i agosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd strategol. Mae creu Academi Genedlaethol yn arbennig o gadarnhaol gan ei fod yn dangos bod y Parc Technoleg yn y lleoliad iawn i ddenu busnesau newydd ond bod ganddo'r potensial hefyd i ddod yn ganolfan ar gyfer pencadlysoedd swyddfa i'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae cyfanswm o 5.4 hectar o dir cyflogaeth yn weddill yn y Parc Technoleg ar hyn o bryd, sy'n cynrychioli cynnig hynod ddeniadol ar gyfer datblygu.



Safleoedd Cyflogaeth Neilltuedig Eraill

5.4.21 Er mwyn i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gadw ei sail gyflogaeth gystadleuol, mae'n hanfodol i'r ardal gynnig portffolio eang o safleoedd. Felly, yn ogystal â'r Safleoedd Cyflogaeth Strategol, mae'r cynllun hefyd yn nodi amrywiaeth o Safleoedd Cyflogaeth neilltuedig sy'n addas ar gyfer pob math o ddefnydd cyflogaeth o wahanol feintiau a mathau.



Ystâd Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr

5.4.22 Y Safleoedd Cyflogaeth a nodir yn ENT1 yw'r rhai sydd â'r posibilrwydd realistig o gyfrannu at gyflenwad tir cyflogaeth yn y dyfodol. Maent yn gorchuddio 45.9 hectar o dir cyflogaeth gwag, sydd wedi'i ddosbarthu ar draws y Fwrdeistref Sirol ac a fydd yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy trwy ' greu Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus'.

5.4.23 Er mwyn darparu'r dull 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, mae'r Cyngor yn cydnabod mai'r lle gorau i leoli defnyddiau

swyddfa B1 yw canol trefi'r Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith mai canol trefi yw rhannau mwyaf hygyrch y Fwrdeistref Sirol, a'u bod yn addasu i ddod yn gynyddol aml-swyddogaeth. Mae'r Safleoedd Cyflogaeth Strategol a'r Safleoedd Cyflogaeth neilltuedig hefyd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygu swyddfeydd, er bod yn rhaid i ymgeiswyr ddangos yr ymchwiliwyd i safleoedd eraill yng nghanol trefi, a'r hierarchaeth ddilyniannol a nodir yn SP12, gan ganfod eu bod yn anaddas.

- 5.4.24 Er nad oes unrhyw ofyniad tir rhanbarthol a nodwyd ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn y dyfodol, nodir safleoedd cyflogaeth presennol a neilltuedig (lle byddai defnyddiau dosbarth B2/B8 yn dderbyniol) fel lleoliadau a allai fod yn addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

ENT2: Diogelu Safleoedd Cyflogaeth	
Er mwyn amddiffyn swyddogaeth gyflogi busnesau presennol a safleoedd cyflogaeth caniateir datblygu ar y safleoedd canlynol ar yr amod:	
1) ei fod yn cydymffurfio â Dosbarth Defnydd B1, B2 neu B8; 2) ei fod, mewn lleoliadau priodol, yn darparu cyfleuster neu wasanaeth atodol sy'n cefnogi'r defnydd cyflogaeth sylfaenol; neu 3) ei fod yn gyfleuster rheoli gwastraff priodol sy'n cydweddu â gweithgareddau diwydiannol a masnachol presennol.	
Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr	Defnyddiau
1)Ystad Ddiwydiannol Bracla 2)Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr 3)Seidins Heol Coety, Pen-y-bont ar Ogwr 4)Iard Llangrallo, Pen-y-bont ar Ogwr 5)Ystad Ddiwydiannol Litchard 6)Parc Afon Ewenni 7)Ystad Ddiwydiannol Penybont 8)Ystad Ddiwydiannol Waterton 9)Parc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr 10)Trews Field, Pen-y-bont ar Ogwr 11) Iard Crosby, Pen-y-bont ar Ogwr	B1, B2 a B8
Ardal Twf Adfywio Maesteg a Chwm Llynfi	Defnyddiau
12) Coegnant, Caerau 13) Heol Ewenni, Maesteg 14) Ystad Ddiwydiannol Forge, Maesteg 15)Heol Tŷ Gwyn, Maesteg 16) Spelter Industrial Estate, Maesteg	B1, B2 a B8

Ardal Twf Adfywio Pencoed		
17) Parc Busnes Pencoed	B1, B2 & B8	
Ardal Twf Adfywio Strategol Porthcawl		
18) Glan Road, Porthcawl 19) Pwll y Waun, Porthcawl	B1, B2 & B8	
Ardal Twf Cynaliadwy y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli	Defnyddiau	
20) Tŷ Dunraven, ger y Pîl 21) Tir yn Gibbons Way, Gogledd Corneli 22) Penllwyn-gwent, Cwm Ogwr 23) Ystad Ddiwydiannol De Corneli 24) Ystad Ddiwydiannol Village Farm 25) Fferm Tŷ Draw	B1, B2 a B8	
Ardaloedd Eraill	Defnyddiau	
26) Ystad Ddiwydiannol Abergarw 27) Depo Bryncethin 28) Ystad Ddiwydiannol Brynmenyn 29) Hen Safle Christie Tyler 30) Canolfan Menter, Ton-du 31) Tir i'r gorllewin o Heol Maesteg, Ton-du 32) Tir nesaf at Wasanaethau Parc Sarn 33) Ystad Ddiwydiannol Ffaldau 34) Georgia Pacific 35) Green Meadow, Llangeinwyr 36) Ystad Ddiwydiannol Isfryn 37) Wern Tarw	B1, B2 a B8	

- 5.4.25 Er mwyn cynnal lefel gynaliadwy o dir cyflogaeth, ac yn seiliedig ar argymhellion yr EEBS, bydd y Cyngor yn diogelu'r safleoedd a ddangosir yn ENT2 at ddibenion cyflogaeth. Bydd diogelu safleoedd ac eiddo presennol, pan fo'n briodol ac yn angenrheidiol, yn helpu i ddiwallu anghenion cyflogaeth yr economi leol ac ehangach trwy ddarparu ffynonellau hygyrch o gyflogaeth. Bydd dwysau ac ailwampio safleoedd ac eiddo a nodir yn ENT2 yn dderbyniol mewn egwyddor, cyn belled ag y bo cynigion yn bodloni polisïau eraill yn y Cynllun. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer unrhyw safleoedd neu eiddo o'r fath nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ddigonol, sy'n wag, neu'n dirywio. Mae ENT2 yn cydnabod bodolaeth yr ardaloedd cyflogaeth hyn ac yn ceisio, ynghyd â pholisïau eraill, cynnal eu defnydd yn y dyfodol at ddibenion cyflogaeth.
- 5.4.26 Mae parciau busnes a diwydiannol presennol yn rhan annatod o'r dirffurf drefol bresennol ac yn cyfrannu yn sylweddol at sail economaidd y Fwrdeistref Sirol. Mae eu nodweddion cyflogaeth wedi esblygu dros flynyddoedd lawer i fodloni gofynion economaidd penodol a nod y CDLI newydd yw eu diogelu rhag datblygiad, a fyddai'n erydu'r nodweddion hyn fel arall. Gall y golled raddol o dir ac eiddo cyflogaeth arwain at erydiad graddol o ardal gyflogaeth. Heb reolaeth ofalus, gallai darnio a phwysau ar gyfer

defnyddiau amgen arwain at golled gyfunol o dir ac eiddo gan achosi niwed i'r economïau lleol a rhanbarthol.

5.4.27 Mae ENT2 yn caniatáu datblygiad gwasanaethau neu gyfleusterau atodol sy'n cefnogi prif ddefnyddiau cyflogaeth safleoedd. Oherwydd eu diben atodol, mae'n rhaid i natur a maint y gwasanaethau a'r cyfleusterau hyn fod yn briodol ar gyfer y defnydd cyflogaeth presennol a chynnig budd amlwg ac eglur i'r safle presennol. Mae'n rhaid i ddefnyddiau o'r fath fod yn eilaidd eu natur i'r prif ddefnydd cyflogaeth. Gallent gynnwys, er enghraifft, siop fach neu gownter masnach yn gwerthu cynnyrch o'r uned, neu wasanaethau fel bariau byrbrydau, caffis, cyfleusterau gofal plant, campfeydd neu ganolfannau hyfforddi, sy'n darparu gwasanaeth i'r cyflogaion lleol neu ddefnyddwyr y safle cyflogaeth presennol. Bydd cyfleusterau atodol priodol yn cael eu cefnogi mewn ardaloedd diwydiannol a masnachol sefydledig dim ond pan:

- Fo'r cynnig o natur a maint priodol i wasanaethu'r ardal gyflogaeth yn unig ac nad yw'n debygol o gynhyrchu teithiau anghysylltiedig mewn ceir;
- Na fydd y cynnig yn achosi unrhyw effeithiau niweidiol ar swyddogaeth gyffredinol yr ardal gyflogaeth ac eiddo masnachol a phreswyl cyfagos;
- Na fydd y cynnig yn niweidiol o ran tagfeydd neu ddiogelwch ar y priffyrdd; ac
- Na fydd y cynnig yn effeithio ar fywiogrwydd neu hyfywedd Canolfannau dynodedig.

5.4.28 Mae ENT2 hefyd yn caniatáu cyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd lle byddai defnyddiau dosbarth B2/B8 yn dderbyniol cyn belled ag y bo'r rhain yn cyd-fynd â gweithgareddau diwydiannol a masnachol presennol. Byddai angen i gynigion datblygu o'r fath hefyd fodloni SP15: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy a pholisïau dylunio a diogelu'r amgylchedd eraill y Cynllun.

ENT3: Defnyddiau nad ydynt yn rhai B ar Safleoedd Cyflogaeth Neilltuedig

Ni fydd newid defnydd tir ac eiddo diwydiannol a masnachol neilltuedig (gan gynnwys tir gwag ar safleoedd cyflogaeth) o Ddosbarthiadau Defnydd B1, B2 a B8 i ddefnyddiau preswyl yn cael ei ganiatáu. Ni fydd newid defnydd o Ddosbarthiadau B1, B2 a B8 i ddefnyddiau eraill yn cael ei ganiatáu chwaith oni bai y gellir dangos:

- 1) Nad oes unrhyw safleoedd addas eraill ar gael gan gyfeirio at yr hierarchaeth manwerthu a nodir yn SP12 a pholisïau eraill yn y Cynllun hwn;
- 2) Ei bod yn ofynnol i adeilad ar safle cyflogaeth neilltuedig hwyluso'r defnydd;
- 3) Bod yr eiddo neu'r safle wedi bod yn wag am gyfnod o leiaf blwyddyn ac wedi'i farchnata drwy'r cyfnod hwnnw am werth marchnad teg ar gyfer yr ardal a chyflwr yr eiddo neu'r safle;
- 4) Na fydd y datblygiad newydd arfaethedig yn cael unrhyw effaith annerbyniol ar feddianwyr neu ddefnyddiau neilltuedig presennol cyfagos; a
- 5) Bod y safle yn hygyrch trwy ddewis modd trafnidiaeth yn hytrach na'r car ac yn hybu defnydd o gyfleoedd Teithio Llesol.

- 5.4.29 Yn gyffredinol, mae'r CDLI newydd yn cymhwyso rheolaethau llym i ddefnyddiau ar neilltuadau cyflogaeth y Fwrdeistref Sirol, er bod ENT3 yn amlinellu meini prawf i benderfynu ceisiadau ar gyfer defnyddiau rhad ydynt yn rhai B ar safleoedd o'r fath. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod pwysau sylweddol ar gyfer defnyddiau penodol o'r natur hon ar safleoedd cyflogaeth, ac yn fwyaf amlwg y rhai sydd yn Nosbarth D2, fel sinemâu, canolfannau chwarae meddal plant, canolfannau gweithgarwch dan do/awyr agored a chanolfannau ffitrwydd/chwaraeon, sydd yn eu hanfod angen lle helaeth, yn aml ag uchdwr sylweddol.
- 5.4.30 Fodd bynnag, er mwyn darparu'r dull 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' a amlinellwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, mae'r CDLI newydd yn blaenoriaethu canol trefi fel canolbwyntiau aml-swyddogaeth i gymunedau. Mae'r Cynllun yn ceisio cyfeirio cyfleusterau a gwasanaethau i ganol trefi yn y lle cyntaf, i fanteisio ar eu hiechyd a'u bywiogrwydd, gan sicrhau y gall defnyddwyr arfaethedig greded, beicio a/neu ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn rhwydd i'w cyrraedd. Felly, cyn i unrhyw ddefnyddiau nad ydynt yn rhai B gael eu caniatáu ar safleoedd cyflogaeth neilltuedig, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos bod safleoedd eraill yng nghanol trefi, a'r hierarchaeth ddilyniannol a nodir yn SP12, wedi'u hymchwilio gan ganfod eu bod yn anaddas. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, mae SP11 yn nodi'r fframwaith i alluogi'r ddarpariaeth o lefel gytbwys o dir cyflogaeth, heb rwystro cyflenwad tai, ac felly ni fydd defnyddiau preswyl yn cael eu caniatáu ar safleoedd cyflogaeth neilltuedig.
- 5.4.31 Mae hefyd yn bwysig nad yw'r datblygiad arfaethedig yn rhagfarnu'r defnydd o'r ardal at ddibenion cyflogaeth. Felly, mae'n rhaid i'r safle adeiladu dan sylw fod yn wag, ac wedi bod yn wag ers blwyddyn, a chael ei farchnata yn weithredol yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'n rhaid cyflwyno'r dystiolaeth hon gydag unrhyw gais. Yn yr un modd, ni ddylai'r datblygiad, ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, fod o faint a graddfa fel ei fod yn tanseilio cymeriad a hunaniaeth yr ardal ehangach at ddibenion cyflogaeth traddodiadol.
- 5.4.32 Bydd angen i gynigion ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn rhai B ddangos hefyd naill ai bod y defnydd presennol yn amhriodol neu nad oes angen y tir neu'r eiddo ar gyfer y farchnad gyflogaeth. Pan nad yw'r farchnad gyflogaeth angen defnyddiau presennol, mae'n rhaid darparu tystiolaeth hyfywedd a marchnata i gyfiawnhau'r golled o dir neu eiddo cyflogaeth. Bydd y math o dystiolaeth sydd ei hangen yn amrywio yn dibynnu ar amgylchiadau unigol, ond gallent gynnwys manylion pam nad yw'r tir neu'r eiddo yn cael ei ddefnyddio mwyach a thystiolaeth i ddangos y gwnaed ymdrechion priodol a rhesymol i'w farchnata i'w werthu neu ei lesu ar gyfer ei ddefnydd presennol. Gallai gwybodaeth gan yr asiant neu'r ymgeisydd am alw fod ar ffurf adroddiad marchnata neu ohebiaeth gan asiant neu arolygydd eiddo â chymwysterau priodol. Mae'n rhaid i'r math o wybodaeth gynnwys y canlynol:
- Manylion meddianwyr presennol, os oes rhai;
 - Y cyfnod o amser y mae eiddo neu safle wedi bod yn wag;
 - Y math o ddefnydd y marchnatwyd yr eiddo/safle ar ei gyfer, yr hyn yr oedd y strategaeth farchnata yn ei gynnwys a'i hyd (mae'n rhaid y bu o leiaf blwyddyn o farchnata priodol);

- Faint o ddiddordeb a gafwyd yn y safle yn ystod y cyfnod marchnata. Dylai hyn nodi manylion nifer yr ymholiadau, y math(au) o ddefnydd(iau) a geisiwyd a'r rheswm/rhesymau am beidio â mynd ar eu trywydd;
- Pan un a fydd adleoli meddianwyr presennol i lety addas arall yn cael ei hwyluso;
- Tystiolaeth fod y tir wedi'i farchnata i'w ailddatblygu ar gyfer uned gyflogaeth newydd (pan nad yw'r eiddo wedi'i ail-osod); a
- Phan nad yw ail-osod yr eiddo wedi bod yn ymarferol oherwydd ei gynllun, yna rhoddwyd ystyriaeth i rannu, gwahanu neu gyfuno unedau i fodloni galw lleol yn well.

ENT4: Yr Economi Wledig

Mewn lleoliadau y tu allan i ffin yr anheddiad, bydd pwys cadarnhaol yn cael ei neilltuo i geisiadau newydd i 'ehangu' neu adleoli cwmnïau sydd wedi gweithredu yn yr anheddiad ers o leiaf 3 blynedd, a lle:

- 1) Y dangosir nad oes unrhyw adeiladau neu safleoedd addas o fewn yr anheddiad neu'n gyfagos;
- 2) Mae'r safle yn dir a ddatblygwyd yn y gorffennol neu y gellir dangos nad oes unrhyw safleoedd addas a ddatblygwyd yn y gorffennol ar gael;
- 3) Mae'r cynnig yn cael ei gyfiawnhau gan achos busnes, sy'n dangos bod y busnes yn hyfyw;
- 4) Mae defnyddiwr a enwyd ar gyfer y datblygiad, a hwn fydd y meddiannydd cyntaf a fydd yn cael ei sicrhau gan amod cynllunio; ac
- 5) Mae gan y cynnig gysylltiad da â ffurf adeiledig yr anheddiad ac o raddfa briodol i'r anheddiad.

5.4.33 Mae Polisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol yn cydnabod bod cyfleoedd cyflogaeth lleol mewn aneddiadau gwledig yn bwysig i gynnal a gwella cymunedau. Mae'r cynllun yn cefnogi felly mentrau cynaliadwy graddfa ganolig priodol o fewn ffin yr anheddiad, fel bwytaï, busnesau crefft a gwasanaethau busnes gwybodaeth ddwys mewn aneddiadau lleol. Y tu allan i'r aneddiadau hyn, yng nghefn gwlad agored, bydd y Cynllun hefyd yn cefnogi arallgyfeirio'r economi wledig oddi wrth bwyslais ar amaethyddiaeth. Mae mentrau gwledig yn fusnesau sy'n gysylltiedig â thir ac yn cynnwys gweithrediadau traddodiadol yn gysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth, yn ogystal â busnesau gwledig eraill sy'n caffael eu prif fewnbynnau o'r safle. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys prosesu cynhyrchion amaethyddol, gweithgareddau rheoli tir a mentrau twristiaeth.

5.4.34 Mae ENT4 yn galluogi busnesau gwledig presennol i ehangu, cyn belled ag y bo'r datblygiad newydd yn cyd-fynd â'r gofynion polisi i warchod a gwella ansawdd y lleoliad cefn gwlad. Yn yr un modd, bydd defnyddiau cyflogaeth newydd yn cael eu caniatáu fel safleoedd eithriedig gwledig. Mae'n rhaid i ddefnyddiau cyflogaeth o fewn a nesaf at ffin anheddiad presennol gydweddu â'r lleoliad a defnyddiau cyfagos. Mae'n rhaid i ddefnyddiau cyflogaeth y tu hwnt i'r anheddiad presennol ddangos bod natur y busnes

yn gwneud lleoliad gwledig yn angenrheidiol ac yn lliniaru rhag unrhyw effeithiau niweidiol ar amwynder lleol.

- 5.4.35 Pan fydd gweithrediadau busnes gweithio gartref o faint neu ddwysedd sy'n debygol o wneud caniatâd cynllunio yn ofynnol, bydd ystyriaeth benodol yn cael ei rhoi wrth asesu ceisiadau i drefniadau mynediad a pharcio a'r effaith y byddai'r ymarfer gweithio yn ei chael ar eiddo cyfagos.
- 5.4.36 Mewn achosion lle na ystyrir bod lleoliad cefn gwlad yn dderbyniol ar gyfer menter arfaethedig, dylai datblygwyr ystyried ardaloedd cyflogaeth presennol ar ymyl allanol yr ardal drefol, gan y gallai safleoedd o'r fath wasanaethu'r ardal wledig yn rhesymol mewn llawer o achosion. Mae hyn yn cydnabod y rhyng-ddibyniaeth gref rhwng ardaloedd trefol a gwledig y Fwrdeistref Sirol.

Hen Safle Ford

- 5.4.37 Cyn cau Gwaith Gweithgynhyrchu Ford yn 2020, roedd y safle yn cyflogi 1,700 o weithwyr hynod fedrus ac yn neilltuedd cyflogaeth allweddol yn y Fwrdeistref Sirol. Mae ENT5 felly yn cefnogi SP11 wrth geisio mynd i'r afael â'r golled economaidd fawr hon yn economi Pen-y-bont ar Ogwr, gan ddarparu rhagor o hyblygrwydd i'r cyflenwad o dir cyflogaeth a galluogi'r gwaith o adfywio'r safle fel cyfle economaidd allweddol a all gynnig lle i fusnes presennol a newydd. Mae'r safle mawr a wasanaethir yn rheolaidd hwn, sy'n ymestyn i 45 hectar, o fewn un o brif ystadau diwydiannol y Fwrdeistref Sirol, â digonedd o gyfleoedd ar gyfer cysylltiadau cadwyn gyflenwi, lleoliad agos at fusnesau eraill, mynediad at lafurlu hynod fedrus a chysylltiadau trafnidiaeth rhagorol. Mae Ystad Waterton yn ddeniadol i feddianwyr diwydiannol a warysau, ac wedi sicrhau cyfraddau eiddo gwag isel iawn yn gyson (o 2% neu is ers 2015), hanner cyfradd gyfartalog Pen-y-bont ar Ogwr.

ENT5: Hen Safle Ford, Pen-y-bont ar Ogwr

Bydd y Cyngor yn blaenoriaethu ailddatblygu hen safle Ford fel cyfle economaidd allweddol ac yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru a pherchnogion y tir i sicrhau'r canlyniad gorau i Ben-y-bont ar Ogwr, gan geisio disodli'r swyddi a gollwyd. Mae hen safle Ford yn neilltuedd tir economaidd hollbwysig yn Ystad Ddiwydiannol lwyddiannus Waterton a bydd yn cael ei hyrwyddo fel ffordd o ysgogi'r economi ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r rhanbarthau ehangach.

- 5.4.38 Mae hen safle Ford yn dal i fod yn rhan bwysig o'r portffolio tir cyflogaeth felly, ac, fel cyfle datblygu, mae ganddo'r cwmbras i gael effaith economaidd lawer mwy (o ran swyddi a gynhelir) na'r defnydd blaenorol. Cydnabyddir y bydd ailddatblygu'r safle yn her a bydd angen gwaith galluogi helaeth i gyflwyno'r safle mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol. Mae ENT5 yn cydnabod bod angen dull unigryw yn hyn o beth ac y bydd yn angenrheidiol galluogi cymysgedd hyblyg o ddefnyddiau economaidd, nid o reidrwydd yn debyg i'r math a'r dwysedd o ddefnyddiau a fu'n bresennol ar y safle yn y gorffennol. Bydd hyn yn cynnig mwy o hyblygrwydd ac, ar yr un pryd, dewis i'r cyflenwad tir cyflogaeth. Bydd union natur, math a chymysgedd defnyddiau yn destun mireinio trwy

Ganllawiau Cynllunio Atodol yn y dyfodol, er y bydd ailddatblygiad y safle yn cael ei ysgogi yn bennaf trwy ddefnydd(iau) economaidd. Fel y cyfryw ery bydd y meini prawf ym Mholisiau ENT2 ac ENT3 yn gyffredinol yn berthnasol i'r safle hwn, mabwysiedir dull gweithredu hyblyg, gan gydnabod efallai y bydd angen datblygiad defnydd cymysg i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle economaidd hwn. Gallai hyn gynnwys lleiafrif o ddefnyddiau preswyl at ddibenion croes-sybsideiddio, na fyddent fel arall yn dderbyniol ar Safleoedd Cyflogaeth eraill o dan y meini prawf a nodir ym Mholisiau ENT2 ac ENT3.

- 5.4.39 Hefyd, mae'r synergeddau rhwng Brocastell, Parc Afon Ewenni a hen safle Ford yn cynrychioli cyfle datblygu mwy cyfannol, a adnabyddir yn gyfunol fel Porth Deheuol Pen-y-bont ar Ogwr, a fydd yn cael ei alluogi trwy uwchgynllunio dilynol a datblygiad Canllawiau Cynllunio Atodol i gyfrannu at ddarpariaeth Strategaeth Adfywio a Thwrf Cynaliadwy y CDLI newydd.

Manwerthu, Defnyddiau Masnachol a Gwasanaethau

SP12: Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaethau	
Bydd cyfleusterau manwerthu, masnachol, hamdden, addysg, iechyd, cymunedol, gwasanaeth cyhoeddus a datblygiadau cyflogaeth priodol (B1) yn cael eu canolbwyntio yn unol â'r hierarchaeth ganlynol yn y Fwrdeistref Sirol, gan roi sylw i natur, maint a lleoliad y datblygiad arfaethedig:	
1) Canolfan Is-ranbarthol – Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr 2) Canol Trefi - Maesteg a Phorthcawl 3) Canolfannau Ardal - Abercynffig (Porth y Cymoedd); Mynydd Cynffig, Cwm Ogwr; Pencoed; Pontycymer; a'r Pîl; 4) Canolfannau Lleol - Gogledd Betws; De Betws; Melin Ifan Ddu; Blaengarw; Bracla; Broadlands; Bryntirion; Caerau; Trelales; Nant-y-moel; Gogledd Corneli; Drenwydd yn Notais; Pont-rhyd-y-cyff; Sarn; Verlands Court (Pencoed); Y Felin Wylt; a Heol y Pum Cloch (Pen-y-bont ar Ogwr)	
Mae'n rhaid i ddatblygiadau newydd gynnal neu wella bywiogrwydd, hyfywedd a pha mor ddeniadol yw'r ganolfan honno, gan gefnogi'r ddarpariaeth o gyfleusterau manwerthu, swyddfa, hamdden, adloniant, diwylliannol a chymunedol sydd o gymhariaeth a chyfleustra priodol.	
Mae'n rhaid i bob cynnig datblygu newydd mewn canolfannau manwerthu a masnachol ddarparu arwynebedd llawer manwerthu, cymunedol neu fasnachol ar y llawr daear. Bydd cyfleoedd yn cael eu ceisio i adfywio a gwella'r amgylchedd manwerthu a gwella mynediad at ganolfannau manwerthu a masnachol, ac ynddynt, drwy bob modd trafndiaeth, gan flaenoriaethu cerdded, beicio (teithio llesol) a thrafnidiaeth gyhoeddus.	
Amcanion y CDLI	SOBJ: 1, 2 OBJ: 1a, 1c, 1d, 2b, 2d, 2e
Cymru'r Dyfodol	Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf Polisiau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol

Polisi Cynllunio Cymru	Lleoedd Actif a Chymdeithasol: Datblygiadau Manwerthu a Masnachol Asesu Canolfannau Dynodedig Hierarchaeth Manwerthu Diwallu anghenion manwerthu a neilltuo safleoedd manwerthu Diffinio Canolfannau Rheoli Dirywiad mewn Canolfannau
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru lewyrchus Cymru gydnerth
Nodau Llesiant	Lleihau anghydraddoldebau cymdeithasol ac economaidd
Tystiolaeth Allweddol	Astudiaeth Manwerthu Pen-y-bont ar Ogwr 2019 Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr Polisi Cynllunio Cymru Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair - Creu lleoedd a'r adferiad Covid-19 (2020) TAN 4: Datblygiadau Manwerthu a Masnachol TAN 23: Datblygu Economaidd

- 5.4.40 Mae Polisi SP12 yn hybu Canol Trefi, Canol Ardaloedd a Chanolfannau Lleol fel canolfannau o weithgarwch economaidd-gymdeithasol a'r canolbwynt ar gyfer amrywiaeth eang o wasanaethau sy'n cefnogi anghenion y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Maent yn gweithredu fel y lleoliadau mwyaf priodol a chynaliadwy ar gyfer datblygiad manwerthu, hamdden a masnachol ategol newydd. Bydd cydleoli cyfleusterau a gwasanaethau mewn lleoliadau o'r fath yn helpu i gefnogi eu hiechyd a'u hyfywedd hirdymor fel mannau cyfleus a deniadol i fyw, gweithio, siopa, cymdeithasu, astudio, defnyddio gwasanaethau ar gyfer iechyd a llesiant a chyflawni busnes. Bydd y dull hwn hefyd yn annog teithiau cysylltiedig â gostyngiad i alw teithio, gan gydnabod eu bod yn fwy na maint ardaloedd manwerthu dynodedig. Mae'n rhaid i ddatblygiadau mawr gydymffurfio â'r polisi 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' sydd wedi'i gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru a Cymru'r Dyfodol, i helpu i adeiladu cymunedau cydnerth, ac ymateb i effeithiau hirdymor Covid-19, sydd nid yn unig wedi ail-ganolbwyntio bywydau pobl a chymunedau, ond wedi gweithredu fel ysgogiad pellach tuag at wneud canolfannau yn lleoedd aml-swyddogaeth.
- 5.4.41 Trwy gydnabod bod Canol Trefi, Canol Ardaloedd a Chanolfannau Lleol yn symud oddi wrth eu swyddogaethau manwerthu traddodiadol, mae SP12, a'i bolisiâu ategol, yn ceisio sicrhau eu bod yn dod yn ganolbwynt i amrywiaeth ehangach o wasanaethau a chyfleusterau. Mae'r dull 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' yn allweddol i alluogi canolfannau o'r fath i ddod yn fannau cynyddol aml-swyddogaeth ac yn ganolbwyntiau cymunedol, gan eu gwneud yn fwy hyfyw fel cyrchfannau y mae pobl yn dymuno mynd iddynt. Bydd hyn yn ategu ymdrechion i adfywio canolfannau manwerthu a masnachol trwy greu mwy o le awyr agored, ailddefnyddio mannau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ddigonol, sefydlu canolfannau cydweithio o bell, a'r pwyslais o wasanaethau cyhoeddus mwy hygrych.

- 5.4.42 Er gwaethaf cystadleuaeth gan ddatblygiadau manwerthu y tu allan i ganol y dref, mae'r hierarchaeth sefydledig wedi parhau i esblygu dros flynyddoedd lawer. Mae'r holl ganolfannau manwerthu a masnachol presennol yn cyflawni swyddogaeth bwysig o ran diwallu anghenion siopa a gwasanaethau preswylwyr yn ogystal â gofynion diwylliannol a hamdden. Mae SP12 yn ceisio diogelu hierarchaeth fanwerthu sefydledig yr ardal felly trwy ganolbwyntio datblygiad yn y canolfannau hyn a thrwy ganiatáu datblygiadau manwerthu y tu allan i ganol y dref dim ond pan gynhaliwyd prawf angen a dilyniannol, yn unol â pholisi cenedlaethol, i ddiogelu bywiogrwydd, hyfywedd a pha mor ddeniadol yw'r canolfannau manwerthu.
- 5.4.43 Mae'r polisi hwn hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd mewn canolfannau manwerthu a masnachol gynnig arwynebedd llawr manwerthu a/neu fasnachol. Mae'n hanfodol bod cynigion datblygu neu ailddatblygu newydd yn cydnabod y ffaith eu bod wedi'u lleoli mewn ardal fanwerthu / masnachol a chynnig arwynebedd llawr priodol ar y llawr daear. Gall darparu arwynebedd llawr manwerthu a masnachol newydd a modern mewn canolfan ddenu meddianwyr o ansawdd uwch, gan gynyddu bywiogrwydd, natur ddeniadol a hyfywedd cyffredinol yr ardal fanwerthu. Yn yr un modd, caiff defnyddiau cymysg gan gynnwys, er enghraifft, darpariaeth breswyl uwchben lloriau daear, eu hannog (gweler ENT8).
- 5.4.44 Mae SP12 hefyd yn ceisio sicrhau, cyn belled â phosibl, y bydd datblygiadau newydd er budd hirdymor canolfannau masnachol presennol. Gan gydnabod y gallai lleoliad canolfannau yn yr hierarchaeth newid dros amser, dylai datblygiadau newydd gyd-fynd yn gyffredinol â chymeriad y ganolfan bresennol. Disgwylir i ddatblygwyr fod yn hyblyg ac yn arloesol o ran fformat, dyluniad a maint datblygiad arfaethedig, er mwyn cyflawni datblygiad newydd sy'n gyson â chanolfannau presennol.
- 5.4.45 Mae SP12 yn cydnabod rhan a swyddogaeth draddodiadol yr hierarchaeth fanwerthu sefydledig, yn ogystal â'r angen i ganolfannau esblygu yn o dipyn i beth i ganolfannau cymunedol aml-swyddogaeth. Bydd yr hierarchaeth yn cael ei defnyddio yn gadarnhaol i sicrhau bod Canol Trefi, Canol Ardaloedd a Chanolfannau Lleol yn parhau fel y prif leoliadau ar gyfer cyfleusterau manwerthu, swyddfa, hamdden a chymunedol newydd. Bydd hyn yn manteisio ar fywiogrwydd a hyfywedd canolfannau ac yn eu gwella, gan gynhyrchu gweithgarwch cymdeithasol ac economaidd cynyddol.

Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr

- 5.4.46 Ar frig yr hierarchaeth, mae Canol Tref Pen-y-bont wedi'i leoli yn ganolog yn y Fwrdeistref Sirol a dyma'r unig ganolfan sy'n cyflawni swyddogaeth isranbarthol, gan weithredu fel y prif ganolfan siopa i drigolion y Fwrdeistref Sirol ac i gymunedau mewn awdurdodau cyfagos. Mae'r ganolfan yn hygyrch iawn ac yn cynnwys gorsafoddd bysiau a rheilffordd canolog, â gwasanaethau rheolaidd i ganolfannau ardal a lleol yn y cyffiniau ac ohonynt. Mae gan y ganolfan gynnig cyfleustodau amrywiol â gwahanol weithredwyr archfarchnad cenedlaethol ochr yn ochr ag amrywiaeth o weithredwyr siopau bwyd annibynnol ac arbenigol. Mae'r ganolfan yn cynnig amrywiaeth dda o siopau manwerthu a gwasanaethau ategol. Mae'r cynnig bwyd a diod yn cynnwys caffis, bwytaï, tafarndai a siopau tecawê annibynnol yn bennaf a sawl gweithredwr cenedlaethol. Mae

defnyddiau hamdden eraill yn y ganolfan yn cynnwys campfeydd, arcêd ddifyrion a chlybiau nos.

- 5.4.47 Mae'r Astudiaeth Manwerthu yn nodi bod gan y ganolfan gyfran uwch o gyfraddau eiddo gwag a chyfran is o unedau cymhariaeth na chyfartaledd y DU, ac yn tynnu sylw at gynnig ffasiwn cyfyngedig a bylchau yn yr amrywiaeth o ddefnyddiau hamdden. Gellir priodoli hyn yn rhannol i gystadleuaeth gan gyrchfannau siopa cymhariaeth y tu allan i ganol y dref (gan gynnwys McArthurGlen Designer Outlet), er bod y patrymau hyn yn debygol o fod wedi'u hymwreiddio mwy gan Covid-19 ar adeg pan ddaeth fwy o bobl i arfer â gwneud siopa nad yw'n hanfodol ar-lein. Mae'r CDLI yn ceisio gwella perfformiad y ganolfan trwy alluogi mesurau a nodir yn Uwchgynllun Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr (2020). Bydd hyn yn ceisio gwella amgylchedd canol y dref a chynnig mwy o hyblygrwydd trwy gynyddu'r amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol, hamdden a chymdeithasol a gynigir. Bydd annog amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau hefyd yn helpu i leihau cyfraddau eiddo gwag, sy'n uwch na lefelau cyfartalog y DU. Yn yr hirdymor (ar ôl 2028), bydd capasiti newydd ar gyfer arwynebedd llawr cymhariaeth ychwanegol yn cael ei ganolbwyntio yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr.
- 5.4.48 Cefnogir Pen-y-bont ar Ogwr gan ganol trefi llai Maesteg a Phorthcawl, y mae'r ddau ohonynt yn cynnig amrywiaeth eang o siopau a chyfleusterau gan gynnwys siopau cyfleustra canolig eu maint i ddiwallu anghenion eu dalgylchoedd uniongyrchol.

Canol Tref Maesteg

- 5.4.49 Mae Maesteg wedi bod yn ganolbwynt i ymdrechion adfywio a welir yn ei gorsaf fysiau a gafodd ei gwella yn ddiweddar, marchnadoedd awyr agored a'r gwaith trwsio, adfer ac ehangu parhaus ar Neuadd y Dref Maesteg. Mae hyn wedi helpu i leihau cyfraddau eiddo gwag a sicrhau cynnydd cysylltiedig i nifer yr unedau cyfleustra, cymhariaeth a gwasanaeth. Mae tystiolaeth yn cadarnhau bod Maesteg yn cyflawni ei swyddogaeth fel canol tref sy'n gwasanaethu trigolion ei dalgylch uniongyrchol ac yn perfformio yn dda yn erbyn y rhan fwyaf o ddangosyddion o fywiogrwydd a hyfywedd. Mae'r cynnig cyfleustra yn darparu lefel dda o ddewis i ddefnyddwyr â gweithredwyr archfarchnadoedd lluosog cenedlaethol yn ogystal ag amrywiaeth o weithredwyr annibynnol. Mae gan Faesteg gynnig cymhariaeth dda hefyd i ganolfan o'i maint, sy'n gwasanaethu ei dalgylch uniongyrchol yn bennaf. Mae'r CDLI yn ceisio galluogi cyfleoedd i wella ansawdd amgylchedd canol y dref, ailddatblygu unedau gwag amlwg ar gyfer defnyddiau manwerthu neu ddefnyddiau ategol eraill ac ehangu'r amrywiaeth o ddefnyddiau hamdden masnachol i wella perfformiad y ganolfan, ychwanegu amrywiaeth i ystod y gwasanaethau a gwella'r economi gyda'r nos ym Maesteg trwy ehangu'r cynnig bwyd a diod.

Canol Tref Porthcawl

- 5.4.50 Mae Porthcawl wedi bod yn ganolbwynt i gynlluniau hirsefydledig ar gyfer adfywio wedi'i arwain gan dwristiaeth â'i bwyslais ar hyd y glannau. Mae tystiolaeth yn cadarnhau bod y ganolfan yn cyflawni ei swyddogaeth fel canol tref ac yn perfformio yn dda yn erbyn y rhan fwyaf o ddangosyddion o fywiogrwydd a hyfywedd. Fodd bynnag, mae cynnig

cyfleustra'r ganolfan yn gyfyngedig ac yn sylweddol is na chyfartaledd y DU. Er bod amrywiaeth o siopau bwyd llai sy'n addas ar gyfer siopa atodol yn y ganolfan, ceir un archfarchnad fawr sy'n addas ar gyfer prif siopa bwyd yn unig. Mae hyn yn cynnig dewis cyfyngedig i ddefnyddwyr ac yn golygu bod yn rhaid i'r rhan fwyaf o drigolion deithio i ganolfannau eraill u ddiwallu eu hanghenion. Mae'r CDLI yn ceisio mynd i'r afael â hyn trwy nodi capasiti ar gyfer arwynebedd llawr cyfleustra ychwanegol ym Mhorthcawl i gynyddu dewis i ddefnyddwyr, i hybu mynediad cynaliadwy at brif gyfleusterau siopa bwyd ac i leihau'r angen i deithio mewn car. Mae gan Borthcawl gynnig cymhariaeth da sy'n gwasanaethu ei dalgylch uniongyrchol. Fel cyrchfan i dwristiaid, mae Porthcawl yn elwa o amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau hamdden na Phen-y-bont ar Ogwr na Maesteg. Mae'r Astudiaeth Manwerthu yn nodi cyfle i ddatblygu cyfleusterau twristiaeth ychwanegol i ddenu lefelau cynyddol o wariant gan ymwelwyr yng nghanol y dref ac i sicrhau gwelliannau i dir y cyhoedd, gan wella bywiogrwydd a hyfywedd y ganolfan. Mae adfywiad arfaethedig glannau Porthcawl a diddordeb presennol gan fanwerthwyr yn golygu bod cyfle i sicrhau buddsoddiad pellach mewn gwelliannau i dir y cyhoedd ym Mhorthcawl. Bydd cyfleusterau newydd i ymwelwyr ar hyd Glannau Porthcawl yn gwella'r cynnig hamdden cyffredinol ac â'r potensial i gynyddu gwariant manwerthu mewn mannau eraill yn y ganolfan trwy wella pa mor ddeniadol yw Porthcawl i ymwelwyr a thrigolion.

Canolfannau Ardal a Lleol

- 5.4.51 Ar lefel is yn yr hierarchaeth, ceir nifer o Ganolfannau Ardal a Lleol wedi'u gwasgaru ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r Canolfannau Ardal yn amrywio o ran maint, gan adlewyrchu eu rhan a'u swyddogaeth amrywiol yn ogystal â ffactorau eraill gan gynnwys: pa mor agos ydynt at ganolfannau eraill; eu hamlygrwydd ar brif lwybrau prifwythiennol; lefel y boblogaeth breswyl yn lleol; a chyfyngiadau'r amgylchedd adeiledig oherwydd y cynllun hanesyddol a threfn yr unedau siop. Mae'r rhain fel rheol yn cynnwys archfarchnad fach ac yn cynnig amrywiaeth o nwyddau cyfleustra a chymhariaeth yn ogystal â gwasanaethau fel is-ganghennau banciau, siopau papur newydd, is-swyddfeydd post ac ati. Mae eu dalgylchoedd uniongyrchol yn tueddu i fod yn fwy cyfyngedig, ag amrywiaeth gyfyngedig o nwyddau cyfleustra a chymhariaeth. Ei swyddogaeth yw un canolfannau 'atodol' neu 'alw i mewn' yn bennaf, gan ddarparu nwyddau hanfodol yn feunyddiol yn aml fel atodiad i'r rhai a ddarperir mewn canolfannau ymhellach i fyny'r hierarchaeth. Mae rhai canolfannau llai hefyd yn darparu llawer o gyfleusterau cymunedol naill ai o fewn eu ffiniau neu nesaf atynt. Bydd unrhyw gynigion arwynebedd llawr newydd mewn canolfannau dynodedig yn cael eu penderfynu yn seiliedig ar eu rhinweddau.
- 5.4.52 Mae cyfleoedd datblygu yn y Canolfannau Ardal a Lleol yn fwy cyfyngedig yn gyffredinol oherwydd eu lleoliad agos at ardaloedd preswyl sefydledig. Mae'r rhan fwyaf o gyfleoedd ar gyfer datblygu ardaloedd yn y canol yn hytrach nag ehangu posibl. Oherwydd y diffyg diddordeb mewn rhai canolfannau, mae'n debygol y bydd cyfngiad pellach i osgoi'r posibilrwydd o unedau gwag hirdymor. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd cyfle i ailddatblygu unedau defnydd cymysg neu breswyl hyblyg a fyddai'n dal i ganiatáu newid i ddefnydd manwerthu yn y dyfodol. Bydd y CDLI yn ceisio cynyddu pa mor ddeniadol yw Canolfannau Ardal a Lleol, efallai y bydd nifer eu hymwelwyr wedi cynyddu yn ystod

y pandemig oherwydd patrymau cynyddol o weithio gartref. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy ddefnyddio rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau gwelliannau amgylcheddol i dir y cyhoedd (gan gynnwys creu mannau cyhoeddus newydd) a thrwy ddefnyddio'r dull 'Rhoi Canol Trefi yn Gyntaf' i hybu'r holl ganolfannau a nodir yn yr hierarchaeth ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau cymdeithasol a chymunedol sy'n cynyddu'r ddarpariaeth o wasanaethau lleol.

ENT6: Datblygiadau Manwerthu a Masnachol

Bydd adfywio canolfannau manwerthu a masnachol, trwy ailwampio neu ailddatblygu safleoedd ac adeiladau allweddol ar gyfer defnyddiau manwerthu, masnachol, hamdden, addysg a defnyddiau ategol eraill, yn cael ei ffafrio. Nodir y safleoedd canlynol fel safleoedd allweddol:

- 1) Southside – Tir yng Nghanolfan Siopa Pen-y-bont ar Ogwr, Cheapside, yr Orsaf Heddlu a Stryd Bracla, Pen-y-bont ar Ogwr – 2.31 hectar (gan gynnwys 9,990m² o unedau manwerthu a bwyd a diod)
- 2) Ardal Adfywio Glannau Porthcawl, Porthcawl – 2,500m²

Y tu allan i'r uchod, bydd cynigion manwerthu, hamdden ac ategol priodol yn cael eu cefnogi ar safleoedd Strategol defnydd cymysg neilltuedig dim ond:

- a) Pan fo wedi'i nodi yn benodol fel cyfle yn rhan o gynnig penodol i safle ac wedi'i gynnwys yn yr uwchgynllun fel elfen annatod o gymdogaeth newydd arfaethedig i atgyfnerthu synnwyr o le;
- b) Pan fo wedi'i leoli mewn lleoliad canolog priodol yn y gymuned y bydd yn ei gwasanaethu, ac yn agos at goridor trafnidiaeth gyhoeddus;
- c) Pan fo o faint priodol i ddiwallu angen a nodwyd ac a brofwyd; ac
- ch) Pan na fyddai'n cael effaith negyddol ar fywiogrwydd, hyfywedd a pha mor ddeniadol yw Canolfan ddynodedig.

5.4.53 Mae Astudiaeth Manwerthu Pen-y-bont ar Ogwr (2018) wedi cyfrifo anghenion manwerthu cymhariaeth a chyfleustra yn seiliedig ar y dull cyfrannau cyson o'r farchnad, sy'n tybio y bydd patrymau siopa presennol yn aros yn sefydlog dros gyfnod y CDLI (2018 – 2033). Mae'r Astudiaeth yn nodi anghenion meintiol cyfyngedig ar draws y Fwrdeistref Sirol ac anghenion manwerthu ansoddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr (i wella ffasiwn a hamdden cymhariaeth a'r amgylchedd siopa cyffredinol) a Phorthcawl (i wella'r cynnig prif siopa bwyd). Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau'r farchnad sy'n debygol o ddylanwadu ar alw am arwynebedd llawr manwerthu a hamdden masnachol newydd ar draws gyfnod y CDLI gan gynnwys y canlynol:

- Polareiddio i ganolfannau lefel uwch - Mae manwerthwyr cymhariaeth cenedlaethol yn symleiddio eu portffolios eiddo yn gynyddol, â llai o siopau mawr wedi'u canolbwyntio mewn canolfannau siopa a chanolfannau rhanbarthol;

- Ailstrwythuro'r sector cyfleustra - Mae manwerthwyr mawr wedi cynyddu eu rhwydwaith o siopau bach mewn canolfannau ac wedi buddsoddi mewn siopa ar-lein ac mae gweithredwyr bwyd disgownt fel Aldi a Lidl wedi cynyddu eu cyfran o'r farchnad;
- Twf y sector hamdden masnachol – Mae defnyddiau hamdden masnachol yn gyfran sy'n tyfu o arwynebedd llawr canol trefi, wedi'i ysgogi yn rhannol gan y cynnydd i wariant hamdden aelwydydd a llai o alw am arwynebedd manwerthu; ac
- Effeithiau technoleg ddigidol – Mae technolegau digidol yn hwyluso gwerthu ar-lein wedi newid y ffyrdd y mae manwerthwyr yn gweithredu arwynebedd llawr ffisegol.

5.4.54 Mae'r tueddiadau hyn yn debygol o fod wedi dod yn fwy amlwg o ganlyniad i'r pandemig, wrth i bopeth heblaw manwerthu nad yw'n hanfodol yn cau a siopa ar-lein yn dod yn arferol.

5.4.55 O ran lleoliad, gan mai canol trefi presennol Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl yw'r lleoliadau mwyaf cynaliadwy ar gyfer datblygiadau manwerthu newydd o safbwyntiau amgylcheddol a chymdeithasol, mae Polisi ENT6 yn neilltuo arwynebedd llawr i safleoedd yng nghanol trefi sy'n cael eu gwasanaethu yn dda gan rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus presennol sy'n golygu eu bod yn y lle gorau i wasanaethu trigolion (gan gynnwys y rhai nad oes ganddynt fynediad at gar). Ceir manteision cymdeithasol ac amgylcheddol eglur i'r strategaeth hon o ran lleihau dibyniaeth ar geir a gwneud defnydd o seilwaith presennol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod canolfannau fel y lleoliad gorau ar gyfer defnyddiau manwerthu/hamdden.

5.4.56 O ran ffurf a maint, mae'r Astudiaeth yn cadarnhau bod dynodiadau safle Polisi ENT6 yn cynnig digon o le i ddiwallu anghenion cymhariaeth hirdymor (9,890 medr sgwâr net). Mae'r Astudiaeth hefyd yn cadarnhau y gellid diwallu anghenion cyfleustra hirdymor (810 medr sgwâr net) yn gynnar yng nghyfnod y cynllun i ddarparu cyfleuster prif siopa bwyd newydd ym Mhorthcawl i ddiwallu anghenion meintiol a brofwyd. Mae'r rhagolygon sydd wedi hysbysu'r asesiad o angen yn cynnwys y canlynol:

- Twf Gwariant Manwerthu – mae Experian yn rhagweld y bydd gwariant cymhariaeth yn tyfu 3.4% y flwyddyn ar gyfartaledd rhwng 2018 a 2033. Disgwylir i wariant cyfleustra dyfu yn arbennig o gymedrol yn ystod cyfnod yr astudiaeth o 0.2% y flwyddyn.
- Twf mewn e-fasnach – mae Experian yn rhagweld y bydd twf i fanwerthu nad yw mewn siopau yn fwy na manwerthu traddodiadol. Rhagwelir y bydd cyfran y rhyngrwyd o gyfanswm y gwerthiannau manwerthu yn cynyddu o 12.1% i 17.3% rhwng 2018 a 2033. Bydd twf gwerthiannau rhyngrwyd yn cael eu cynnal gan y nifer gynyddol sy'n manteisio ar dechnolegau newydd, fel prynu trwy ddyfeisiau symudol.

5.4.57 O ran manteision economaidd, mae neilltuad Porthcawl yn ceisio gwella perfformiad economaidd y dref trwy liniaru'r diffyg presennol o ddarpariaeth nwyddau cyfleustra a lleihau'r gwariant ar gyfleustra sy'n cael ei golli y tu allan i'r dref. Bydd hefyd yn cynyddu

dewis i'r defnyddiwr. Mae neilltuadau Pen-y-bont ar Ogwr yn ceisio cyfnerthu cynnig siopa cymhariaeth y Fwrdeistref Sirol ym Mhen-y-bont ar Ogwr er mwyn lleihau'r gwariant cymhariaeth sy'n cael ei golli y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol, gan gyflwyno defnyddiau ategol i gynyddu nifer yr ymwelwyr/gwariant yn y dref.

5.4.58 Adfywiad defnydd cymysg Southside yw un o'r prosiectau yn Uwchgynllun Pen-y-bont ar Ogwr, sydd gyda'i gilydd yn gyfrifol am y ddarpariaeth o 23,000m² o gynigion manwerthu a bwyd a diod wedi'u had-drefnu, eu hailwampio a newydd. Mae hyn yn cynnwys 21,000m² o arwynebedd presennol wedi'i 'ad-drefnu' a'i ailwampio yn:

- Canolfan Siopa Pen-y-bont ar Ogwr (9,990m²)
- Y Rhiw (9,272m²)
- Stryd Wyndham (1,500m²)
- Heol y Frenhines (170m²)
- Cambrian House (430m²)
- ailddatblygiad Gorsaf Pen-y-bont ar Ogwr (1,810m²)

5.4.59 Caiff y rhain eu hategu gan gynigion adfywio defnydd cymysg eraill i ysgogi cynnydd i nifer yr ymwelwyr â chanol y dref, i wella adeiladau presennol ac ailddatblygu safleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio yn ddigonol. Ochr yn ochr â hyn, mae'r uwchgynllun yn nodi gwelliannau amgylcheddol ar draws canol y dref gan gynnwys gwelliannau i seilwaith gwyrdd a glas, cysylltiadau teithio llesol, mannau cyhoeddus newydd i hwyluso cadw pellter cymdeithasol, plannu coed, llwybrau treftadaeth a gwelliannau i gymeriad adeiladau a chelf stryd.

5.4.60 Mae'r Cyngor yn cydnabod y rhan bwysig y mae cyfleusterau siopa lleol yn ei chwarae o ran gwasanaethu eu cymunedau ac yn sylweddoli y gall eu darparu olygu y darperir gwasanaeth hanfodol i bobl leol. Mewn ardaloedd o dwf tai newydd, gallai hyn arwain at yr angen i ddarparu safleoedd manwerthu newyddau cyfleustra lleol newydd naill o fewn neu yn agos at y datblygiad newydd, i ddiwallu anghenion bob dydd y trigolion. Mae hyn yn debygol o ddigwydd y tu allan i'r canolfannau manwerthu a masnachol a nodir yn SP12. Felly, mae Polisi ENT6 yn ceisio hwyluso'r ddarpariaeth o safleoedd manwerthu newyddau ar raddfa leol newydd lle gellir nodi'r angen. Yn achos datblygiadau preswyl neu ddefnydd cymysg graddfa fawr yn ymgorffori elfen sylweddol o ddatblygiad preswyl, ceir dadl dros ddarparu canolfan fanwerthu newydd yn cynnwys defnyddiau manwerthu, hamdden a masnachol eraill ar raddfa a maint sy'n gymesur i'r safle yn ei gyfanrwydd.

ENT7: Datblygiadau mewn Canolfannau Masnachol

Mewn Prif Ardaloedd Siopa, mae'n rhaid i gynigion datblygu ar y llawr daear fod ar gyfer arwynebedd llawr A1 i gynnal màs critigol o unedau manwerthu. Oni bai:

- 1) Na fyddai'r datblygiad, trwy rinwedd ei natur, ei ddyluniad a'i faint, yn gwanhau yn berthnasol parhad y ffyrntiad siopa cynradd;
- 2) Na fyddai'r datblygiad yn gwaethygu crynodiad presennol, nac yn creu crynodiad newydd, diangen o ddefnyddiau nad ydynt yn rhai A1;
- 3) Na fyddai'r datblygiad yn creu ffyrntiad marw, ond yn hytrach yn ysgogi masnach sy'n mynd heibio ac yn cynnal diddordeb y cyhoedd;
- 4) Na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol, yn unigol neu'n gyfunol, ar fywiogrwydd, hyfywedd a chymeriad y ganolfan;
- 5) Na fyddai'r datblygiad yn arwain at broblemau lleol newydd, neu'n gwaethygu problemau lleol presennol yn berthnasol, o ran cynhyrchu traffig, tagfeydd, diogelwch ar y ffyrdd, sŵn, aroglau, trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ystyriaethau amwynder eraill.

Mewn Ardaloedd Siopa Eilaidd, ceir mwy o hyblygrwydd i hybu amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau manwerthu i helpu i fynd i'r afael â chyfraddau eiddo gwag hirdymor. Mae'n rhaid i gynigion datblygu fod ar gyfer defnyddiau A1, A2 ac A3 oni bai:

- a) Na fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol, yn unigol neu'n gyfunol, ar fywiogrwydd, hyfywedd a chymeriad y ganolfan;
- b) Na fyddai'r datblygiad yn arwain at broblemau lleol newydd, neu'n gwaethygu problemau lleol presennol yn berthnasol, o ran cynhyrchu traffig, tagfeydd, diogelwch ar y ffyrdd, sŵn, aroglau, trosedd, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu ystyriaethau amwynder eraill.

- 5.4.61 Mae angen i ganol trefi gynnal eu hamrywiaeth os ydynt yn mynd i gadw eu bywiogrwydd a'u hyfywedd, ond mae'r ystod a'r amrywiaeth o siopau a gwasanaethau wedi newid dros amser a byddant yn parhau i esblygu. Fodd bynnag, mae angen sicrhau nad yw canolfannau masnachol yn colli eu 'màs critigol' o unedau manwerthu i'r graddau na allant weithredu mwyach fel canolfannau siopa hyfyw. Ceir perygl y gallai defnyddiau eraill wneud 'cynnig uwch' na defnyddiau manwerthu er anfantais posibl i'r ganolfan fasnachol. Yn unol â hynny, mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng defnyddiau manwerthu ac nad ydynt yn fanwerthu mewn canolfannau masnachol i sicrhau'r gymysgedd orau posibl, ac felly gwella bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau hynny.
- 5.4.62 Mae ENT7 yn cydnabod bod Ardaloedd Siopa Cynradd canol trefi'r Fwrdeistref Sirol angen gwarchodaeth benodol gan ddefnyddiau sy'n cystadlu. Mae'r Polisi yn gorfodi meini prawf llym i ddiogelu eu hyfywedd a'u bywiogrwydd. Gall ffyrntiadau siopa cynradd hefyd ategu creu parth cerddwyr ar dir cyhoeddus ac amcanion adfywio canol trefi, sy'n

ceisio cynyddu cynnig manwerthu'r canolfannau mewn amgylchedd braf a deniadol. Mabwysiadir dull hyblyg y tu allan i Ardaloedd Siopa Cynradd.

- 5.4.63 Adolygwyd ffiniau Ardaloedd Siopa Cynradd Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl yn erbyn y dosbarthiad presennol o ddefnyddiau a gofynion tebygol yn y dyfodol. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Maesteg, cywasgwyd yr Ardaloedd Siopa Cynradd i greu craidd manwerthu wedi'i gydgrynhoi. Nodwyd Ardaloedd Siopa Eilaidd ychwanegol ar y map cynigion ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg a Phorthcawl i greu mwy o hyblygrwydd a hybu'r potensial ar gyfer amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau.
- 5.4.64 Mae archwiliadau iechyd o bob un o'r Canolfannau Lleol ac Ardal wedi nodi bod ffryntiadau ar gyrion canolfan ardal Mynydd Cynffig, Cwm Ogwr a Phontycymer i gyd yn dangos arwyddion o ddirywiad. Fodd bynnag, mae'r ffryntiadau yn dal i gynnwys cyfran uchel o unedau sydd mewn defnydd masnachol ar hyn o bryd. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro iechyd y ffryntiadau hyn yn agos dros gyfnod y cynllun ac yn ystyried newid y ffiniau os byddant yn dirywio ymhellach.

ENT8: Defnyddiau nad ydynt yn rhai A1, A2 ac A3 y Tu Allan i Ardaloedd Siopa Cynradd

Bydd datblygiadau preswyl ar loriau cyntaf ac uwch mewn Canolfannau Manwerthu a Masnachol yn cael eu hannog yn amodol ar bolisiau eraill yn y cynllun.

Bydd newidiadau i ddefnydd eiddo nad ydynt yn rhai A1, A2 neu A3 ar y llawr daear y tu allan i ardaloedd siopa cynradd ond mewn canolfan fanwerthu a masnachol dim ond:

1) Os yw at ddibenion preswyl:

- a) Pan fo'r eiddo/arwynebedd llawr wedi bod yn wag am o leiaf dwy flynedd ac wedi'i farchnata yn weithredol dros y cyfnod hwnnw; ac
- b) Pan nad yw'r eiddo/arwynebedd llawr yn rhan o amgylchedd manwerthu amlbwrpas neu'n ffryntiad parhaus o dri neu fwy o unedau masnachol presennol.

2) Os yw at ddibenion eraill:

- a) Pan nad yw'r cynnig yn golygu colli arwynebedd llawr A1 presennol.

Pryd bynnag y bo'n bosibl, mae'n rhaid dylunio cynigion ar gyfer newid defnydd arwynebedd llawr presennol fel nad ydynt yn atal newid yn ôl i ddefnydd manwerthu neu masnachol yn y dyfodol.

- 5.4.65 Fel y mynegwyd uchod, nod y Cyngor yw cynyddu bywiogrwydd a hyfywedd y canolfannau manwerthu a masnachol yn y Fwrdeistref Sirol. Mae ENT8 yn annog yn weithredol felly datblygiadau preswyl ar loriau cyntaf ac uwch mewn Canolfannau Manwerthu a Masnachol, yn rhan o ddatblygiadau defnydd cymysg. Gall ymgorffori defnyddiau preswyl ysgogi mwy o synnwyr o gymuned gyda mwy o bobl yn byw mewn canolfannau masnachol, lleihau dibyniaeth ar gerbydau preifat, cynyddu balchder

dinesig, hybu canolfannau mwy diogel, cynyddu gwariant cymudwyr lleol a denu mwy o fusnesau i ganolfannau drwy'r gweithlu medrus sy'n byw yn lleol.

- 5.4.66 Mae ENT8 hefyd yn cydnabod, mewn rhai canolfannau hŷn, bod y rhagolygon o ddenu datblygiadau masnachol newydd (defnyddiau A1, A2 ac A3) yn gyfyngedig. Mae hyn yn arbennig o wir mewn rhai o'r aneddiadau yn y cymoedd. O dan yr amgylchiadau hyn, mae angen mabwysiadu dull mwy hyblyg a pragmatig gan hefyd hyrwyddo'r fantais o ddychwelyd unedau gwag a lloriau uwch yn ôl i ddefnydd gweithredol. Yn y rhan fwyaf o aneddiadau'r cymoedd, mae datblygiadau preswyl wedi'u gwasgaru ymhlith canolfannau masnachol ac, yn wir, roedd llawer o'r siopau yn dai annedd preifat ar un adeg sydd wedi'u trosi. Byddai'r Cyngor yn bryderus pe bai siopau, o dan yr amgylchiadau hyn, yn parhau i fod yn wag am gyfnod sylweddol o amser, gan arwain at ddirywiad i'w cyflwr ac er niwed i'r amgylchedd lleol. Ystyrir felly ei bod yn briodol datblygu meini prawf y gellir newid unedau manwerthu y tu allan i'r ardaloedd siopa cynradd yn ddefnyddiau mwy hyfyw, fel preswyl, yn unol â hwy. O dan yr amgylchiadau hyn, byddai angen dangos bod yr eiddo wedi'i farchnata yn weithredol am o leiaf 2 flynedd cyn cyflwyno cais. Bydd angen i'r Cyngor fod yn fodlon bod gwaith marchnata wedi'i wneud ar delerau rhesymol ac yn ei gwneud yn ofynnol, o leiaf, i fanylion gwerthu a gwybodaeth gan asiantau gwerthu / gosod gael eu cyflwyno yn rhan o gais.
- 5.6.67 Mae newid unedau manwerthu yn aml yn arwain at ddarnio ffryntiadau masnachol, ond ystyrir bod hyn yn well nag eiddo gwag a segur hirdymor. Serch hynny, mae'n rhaid cadw cydbwysedd y rhain fel nad yw union ddiben canolfannau manwerthu a masnachol yn cael ei wanhau yn ormodol. Er bod gweithgareddau sy'n rhan o Ddosbarth B1 yn dderbyniol trwy ddiffiniad mewn ardaloedd preswyl o ran eu safonau amgylcheddol, ni fydd y Cyngor yn caniatáu defnyddiau o'r math a fyddai'n arwain at golli A1 manwerthu presennol. Gellid darparu lle yn llwyddiannus ar gyfer defnyddiau o'r fath uwchben lefel y llawr daear mewn ffryntiadau siopa cynradd ac mewn eiddo nad yw'n eiddo preswyl mewn rhannau eraill o ganolfannau masnachol sefydledig.

ENT9: Datblygiadau Manwerthu y Tu Allan i Ganolfannau Manwerthu a Masnachol

Bydd cynigion datblygu y tu allan i Ganolfannau Manwerthu a Masnachol sy'n arwain at golli arwynebedd llawr manwerthu a masnachol yn cael eu caniatáu dim ond pan brofir bod darpariaeth ddigonol arall yn lleol neu lle mae'r eiddo/arwynebedd llawr wedi bod yn wag am o leiaf blwyddyn ac wedi'i farchnata yn weithredol dros y cyfnod hwnnw.

Bydd datblygiadau manwerthu y tu allan i Ganolfannau Manwerthu a Masnachol yn cael eu canolbwyntio yn y lleoliadau presennol canlynol:

Lleoliad	Defnyddiau Derbyniol	Math
Parc Manwerthu Pen-y-bont ar Ogwr	Cymhariaeth a Chyfleustra Swmpus	Y Tu Allan i Ganol y Dref

Parc Manwerthu Waterton	Cymhariaeth a Chyfleustra Swmpus	Y Tu Allan i Ganol y Dref
Sainsbury, Cefn Hirgoed	Cyfleustra	Y Tu Allan i Ganol y Dref
Tesco, Lôn y Bragdy	Cyfleustra	Ar Gyrion Canol y Dref
Tesco, Lôn Llynfi, Maesteg	Cyfleustra	Ar Gyrion Canol y Dref
Pentref Siopau Dylunwyr Pen-y-bont ar Ogwr	Wedi'i reoli gan a106	Y Tu Allan i Ganol y Dref

- 5.4.68 Gallai colli un siop fanwerthu i ddefnydd arall arwain at ddiffyg yn y ddarpariaeth yn lleol. Mae Polisi ENT9 yn ceisio sicrhau, pan roddir caniatâd cynllunio o dan amgylchiadau o'r fath, na fydd darpariaeth annigonol o fanwerthu o'r fath yn yr ardal. Mae'n rhaid i dystiolaeth i'r perwyl hwn ategu unrhyw gais cynllunio ac mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos bod yr eiddo wedi'i farchnata yn weithredol am o leiaf blwyddyn cyn cyflwyno'r cais. Bydd angen i'r Cyngor fod yn fodlon bod gwaith marchnata wedi'i wneud ar delerau rhesymol ac yn ei gwneud yn ofynnol, o leiaf, i fanylion gwerthu a gwybodaeth gan asiantau gwerthu / gosod gael eu cyflwyno yn rhan o gais.
- 5.4.69 Dylid canolbwyntio cynigion newydd ar gyfer datblygiadau manwerthu mewn lleoliadau yn yr hierarchaeth fanwerthu. Er na fydd cynigion ar gyfer datblygiadau manwerthu **newydd** y tu allan i ganol y dref yn cael eu hannog, mae'r CDLI yn cydnabod presenoldeb datblygiadau manwerthu **presennol** y tu allan i ganol Trefi, canol Ardaloedd a chanolfannau Lleol. Dylid pwysleisio y gallai fod angen prawf anghenion, prawf dilyniannol ac asesiad o'r effaith ar fanwerthu ar estyniadau y tu mewn i ffiniau'r safleoedd hyn, cynnydd i'r arwynebedd llawr neilltuedig neu ymlacio/newidiadau i'r mathau o nwyddau a werthir, fel yr argymhellir gan bolisi cenedlaethol, yn dibynnu ar natur y cynnig a'r effeithiau posibl. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i geisiadau sy'n ceisio amrywio amodau i newid y mathau o nwyddau a werthir o'r safleoedd hyn neu isddosbarthiad unedau, y gallai'r ddau ohonynt o bosibl danseilio bywiogrwydd a hyfywedd canol Trefi ac Ardaloedd os na chânt eu rheoli yn briodol.
- 5.4.70 Fel safleoedd manwerthu sefydledig, mae'r Cyngor yn disgwyl i'r safleoedd a restrir ym Mholisi ENT9 gael eu hystyried yn rhan o'r prawf dilyniannol o safleoedd ar gyfer cynigion datblygiad manwerthu newydd ar safleoedd nad ydynt wedi'u neilltuo yn y cynllun. Mae'r safleoedd wedi'u hintegreiddio yn dda i'r adeiladwaith trefol ac yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus ac yn hygyrch drwy foddau yn hytrach na'r car. Felly, i sicrhau'r defnydd cynaliadwy o dir, mae'n rhaid archwilio safleoedd presennol o ran eu haddasrwydd, cyn i safleoedd newydd ar gyrion canol y dref neu y tu allan i ganol y dref gael eu hystyried. Mae'n rhaid dilyn y prawf dilyniannol (h.y. safleoedd ymyl canol y dref presennol cyn safleoedd ymyl canol y dref newydd, yna safleoedd y tu allan i ganol y dref presennol cyn safleoedd y tu allan i ganol y dref newydd). Os na all safleoedd presennol hwyluso datblygiad ychwanegol, neu fod safle'r cynigydd yn perfformio yn well o ran materion cynaliadwyedd, yna mae'n rhaid cynnwys tystiolaeth i'r perwyl hwn mewn Datganiad Manwerthu atodol a byddai'n ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

- 5.4.71 Ychwanegodd datblygiad Pentref Siopau Dylunwyr Pen-y-bont ar Ogwr yng Nghyffordd 36 yr M4 ddimensiwn newydd at fanwerthu y tu allan i ganol y dref yn y Fwrdeistref Sirol, gan ddenu dros 2 filiwn o ymwelwyr y flwyddyn. Mae'r pentref yn gweithredu fel cyrchfan fanwerthu a hamdden ranbarthol ac fe'i hystyrir yn fath o weithgarwch siopa sydd ar wahân i'r hierarchaeth fanwerthu.



McArthurGlen, Pentref Siopau Dylunwyr Pen-y-bont ar Ogwr

- 5.4.72 Rheolir natur y manwerthu a ganiateir gan gytundeb Adran 106 sy'n ei wneud yn fath penodol iawn o ganolfan fanwerthu y tu allan i'r dref. Bydd hyn yn parhau i fod yn wir o ran cynigion datblygu newydd yn y lleoliad hwn, er mwyn diogelu bywiogrwydd a hyfywedd canol trefi'r Fwrdeistref Sirol, gan gydnabod y rhan y mae'r pentref yn ei chwarae o ran denu ymwelwyr. Bydd y CDLI yn parhau i gydnabod presenoldeb y Pentref Siopau Dylunwyr trwy ei neilltuo at ei diben penodol ei hun.

Pentref Siopau Dylunwyr Pen-y-bont ar Ogwr

Caiff tir yng Nghyffordd 36 yr M4 ei neilltuo ar gyfer Pentref Siopau Dylunwyr Pen-y-bont ar Ogwr. Bydd ehangu pellach o fewn y neilltuad hwn yn amodol ar gydymffurfiaid â'r defnyddiau a nodir yn y cytundeb Adran 106.

Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

- 5.4.73 Mae'r system gynllunio yn chwarae rhan allweddol o ran darparu twf glân a datgarboneiddio ynni, yn ogystal â bod yn hanfodol o ran adeiladu cydnwedd yn erbyn effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, mae gan y Cyngor uchelgais i bob datblygiad tai newydd fod yn garbon sero net yn y lle cyntaf, gan barhau i hybu amrywiaeth o dechnolegau carbon isel a dim carbon fel modd i gyflawni hyn.
- 5.4.74 Mae Cymru'r Dyfodol a Pholisi Cynllunio Cymru yn cyflwyno'r gofynion ar gyfer twf glân a datgarboneiddio ynni, sy'n gysylltiedig â rhwymedigaethau cyfreithiol, anghenion a pholisïau ehangach ar lefelau rhyngwladol, y DU, Cymru, a lleol.
- 5.4.75 Y DU oedd y wlad gyntaf i bennu targedau carbon sy'n rhwymo mewn cyfraith (gostyngiad o 80% i allyriadau carbon erbyn 2050 yn erbyn llinell sylfaen o 1990) trwy Ddeddf y Newid yn yr Hinsawdd (2008). Adlewyrchwyd y targedau hyn yn ddiweddarach yn **Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)**. Mae'r ddealltwriaeth o frys a phwysigrwydd mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd wedi cynyddu ers deddfu Deddf y Newid yn yr Hinsawdd. Yn 2015, cytunodd llofnodwyr Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd i gyflymu a dwysau ymdrechion i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gyda'r nod o gadw'r cynnydd i dymheredd byd-eang yn is na 2°C

(Confensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd, 2019). Yn 2019, argymhellodd y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd (Y Pwyllgor ar Newid Hinsawdd, 2019) y dylai'r DU gynyddu eu targedau carbon i sero-net erbyn 2050 a datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd gan ymrwymo i bennu targedau carbon sero-net newydd ar gyfer 2050.

5.4.76 O dan **Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)**, mae'n ofynnol i Gymru leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o 80% o leiaf erbyn 2050 (yn erbyn llinell sylfaen a nodir mewn deddfwriaeth), a sefydlwyd targedau interim a chyllidebau carbon i sicrhau bod y targed hwn yn cael ei fodloni. Ym mis Mawrth 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel sy'n pennu blaenoriaethau ar gyfer:

- lleihau faint o ynni yr ydym yn ei ddefnyddio yng Nghymru;
- lleihau ein dibyniaeth ar ynni a gynhyrchir o danwyddau ffosil; a
- rheoli yn weithredol y newid i economi carbon isel.

5.4.77 Yn ogystal â gofynion a nodir yn **Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016)**, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'r targedau canlynol yn ymwneud yn benodol â chynhyrchiant a pherchnogaeth ynni lleol, i'w bodloni erbyn 2030:

- 70% o ddefnydd trydan Cymru i gael ei gynhyrchu o ffynonellau adnewyddadwy;
- 1 GW o gapasiti trydan adnewyddadwy sy'n eiddo lleol yng Nghymru; a
- phrosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru i gynnwys elfen o berchnogaeth leol.

5.4.78 I fodloni'r targedau uchod, bydd angen i'r Cyngor weithio gyda datblygwyr ynni adnewyddadwy a sicrhau bod cymaint â phosibl o ynni adnewyddadwy yn cael ei gynhyrchu yn eu hawdurdodau. Er mwyn sicrhau bod y swyddogaeth hon yn cael ei chyflawni, mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyflwyno gofyniad ar awdurdodau lleol i ddatblygu sail dystiolaeth i hysbysu datblygiad polisïau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon isel. Nodir Canllawiau Ymarfer Llywodraeth Cymru: *Planning for Renewable and Low Carbon Energy - A Toolkit for Planners*, Medi 2015, "y Pecyn Cymorth" (Llywodraeth Cymru, 2015) ym Mholisi Cynllunio Cymru 10 gan ei fod yn cynnig dull ar gyfer datblygu sail dystiolaeth i hysbysu polisïau ynni adnewyddadwy ar sail ofodol i'w cynnwys mewn Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI).

5.4.79 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo ran sylweddol i'w chwarae. Mae gwaith blaenorol a wnaed gan y Cyngor ac Energy Systems Catapult (ESC) yn rhan annatod o'r sail dystiolaeth, ynghyd â'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy. Hysbyswyd a llywiod yr Asesiad hwn gan y Pecyn Cymorth, er bod y dulliau wedi'u diweddarau i gymryd i ystyriaeth cyd-destun lleol ac amser Cynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr 2018-2033, pan fo'n briodol. Mae'r Asesiad yn amcangyfrif gofynion ynni'r Fwrdeistref Sirol ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, ynghyd â'r cynnydd tuag at fodloni'r gofynion hyn o asedau cynhyrchu ynni carbon isel lleol. Yn erbyn y cefndir hwn, mae tir o fewn ffin y Fwrdeistref Sirol wedi bod yn destun asesiad adnoddau i nodi'r potensial ar gyfer gweithredu prosiectau ynni adnewyddadwy a charbon isel o safbwynt adnoddau. Ystyriwyd y technolegau canlynol:

- Ynni'r gwynt;
- System ffotofoltäig solar wedi'i gosod ar y ddaear;

- Ynni biomas;
- Ynni o wastraff;
- Ynni dŵr; a
- System ffotofoltäig wedi'i hintegreiddio mewn adeiladau.

- 5.4.80 Gwnaed gwaith blaenorol gyda'r Cyngor o dan y rhaglen Systemau Clyfar a Gwres (ETI, 2018b, ESC, 2018b) yn ymwneud â'r potensial ar gyfer gwresogi carbon isel yn y Fwrdeistref Sirol. Manteisiwyd ar y gwaith hwn i hysbysu'r potensial a'r cyfleoedd gwresogi carbon isel. Cymharwyd yr adnoddau posibl sydd ar gael gyda gofynion ynni a ragwelir yn y dyfodol ac ystyrir ei bod yn annhebygol y bydd holl anghenion Ynni Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol yn gallu cael eu diwallu gan ffynonellau adnewyddadwy a charbon isel yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn oherwydd natur anymarferol defnyddio lefel y systemau ffotofoltäig wedi'u gosod ar y ddaear posibl a nodir yn yr Asesiad. Felly bydd dibyniaeth hefyd ar ynni ychwanegol a gynhyrchir mewn rhannau eraill o'r wlad ac ar y môr.
- 5.4.81 Gyda hyn mewn golwg, mae'r Cyngor wedi pennu targedau defnydd ynni adnewyddadwy uchelgeisiol i sicrhau'r defnydd mwyaf posibl o'r adnoddau lleol sydd ar gael yn y Fwrdeistref Sirol. Er mwyn lleihau'r galw am ynni yn y dyfodol, cyflwynwyd polisiau llym sy'n ceisio sicrhau bod effeithlonrwydd ynni datblygiadau newydd cymaint â phosibl, integreiddio cynhyrchiant ynni i gynigion datblygu ehangach, a sicrhau bod systemau gwresogi carbon isel yn cael eu gosod.
- 5.4.82 Mae'r Cyngor wedi bod ar flaen y gad o ran arloesi systemau ynni, trwy gymryd rhan yn y rhaglen Systemau Clyfar a Gwres, prosiect FREEDOM a phrosiectau ynni arloesol ar wahân. Yn ogystal â'r argymhellion polisi cynllunio a ddarperir yn yr adran hon, felly, bydd y Cyngor yn parhau i arwain yr agenda ddatgarboneiddio trwy:
- Barhau i fynd ar drywydd ein prosiectau arloesi ein hunain a galluogi eraill i ddarparu prosiectau arloesi yn y Fwrdeistref Sirol, trwy ddarparu'r Cynllun Ynni Clyfar (ESC, 2018b);
 - Cefnogi seilwaith systemau ynni ychwanegol newydd gan gynnwys seilwaith gwefru cerbydau trydan a storio batris;
 - Rhannu dysgu o brosiectau datgarboneiddio gydag eraill (sectorau preifat a chyhoeddus), gan gefnogi systemau ynni a ddatblygir er budd y gymuned;
 - Ei gwneud yn ofynnol i seilwaith gwyrdd a gwelliannau bioamrywiaeth gael eu cynnwys ym mhob datblygiad newydd;
 - Datblygu a buddsoddi mewn prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni ychwanegol ar ystâd y Cyngor (neu randdeiliaid eraill) ei hun; a
 - Sicrhau bod effaith y newid yn yr hinsawdd a datblygu cynaliadwy yn cael ei hystyried trwy holl weithgareddau caffael a gweithredu'r Cyngor trwy ddatblygu ei Strategaeth Ddatgarboneiddio. Bydd cyflawni'r pwyntiau gweithredu hyn yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ein nod o wneud "...Pen-y-bont ar Ogwr yn Fwrdeistref Sirol ddigarbon a chlyfar sydd wedi'i chysylltu'n ddigidol".

SP13: Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel

- 1) Bydd cynigion datblygu adnewyddadwy a charbon isel sy'n cyfrannu at fodloni targedau ynni adnewyddadwy a charbon isel ac effeithlonrwydd ynni cenedlaethol a lleol yn cael eu caniatáu:
 - a) pan ellir dangos na fydd unrhyw effeithiau annerbyniol ar yr amgylchedd naturiol a hanesyddol neu gymunedau lleol (fel llygredd sŵn ac aer) ac na fydd unrhyw effeithiau cyfunol annerbyniol eraill yn codi;
 - b) Pan ellir rhoi mesurau lliniaru boddhaol ar waith i sicrhau bod effeithiau cynigion adnewyddadwy a charbon isel a'i seilwaith cysylltiedig cyn lleied â phosibl; ac
 - c) Pan fo cynigion yn gwneud darpariaeth ar gyfer adferiad ac ôl-ofal priodol tir ar gyfer ei aildefnyddio yn fuddiol yn y dyfodol.
- 2) Nodir yr Ardaloedd Chwilio Lleol canlynol fel ardaloedd sy'n addas ar gyfer datblygu ynni'r gwynt a'r haul:
 - a) LCA1: Ucheldir Eang a Choedwigaeth Llangynwyd (Addas ar gyfer Ynni'r Gwynt);
 - b) LCA8: Coedwig Ogwr ac Ucheldir Cyfagos (Addas ar gyfer Ynni'r Gwynt); ac
 - c) LCA 12: Llwyfandir Calchfaen Twyndir Drenwydd yn Notais (Addas ar gyfer Ynni'r Haul).

O fewn yr Ardaloedd Chwilio Lleol, bydd cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni'r gwynt a'r haul yn cael eu caniatáu yn amodol ar feini prawf 1a), 1b) ac 1c) a pholisïau perthnasol eraill yn y cynllun hwn. Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau eraill yn yr ardaloedd yn cael eu caniatáu dim ond pan allant ddangos na fyddent yn rhwystro yn annerbyniol potensial cynhyrchu ynni adnewyddadwy'r Ardal Chwilio Lleol neu Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw Cymru'r Dyfodol ar gyfer Ynni'r Gwynt.

Amcanion y CDLI	SOBJ: 1, 2, OBJ: 1b, 2j, 3j, 3l, 4b, 4c
Cymru'r Dyfodol	Rhwydweithiau Gwres Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel a Seilwaith Cysylltiedig Datblygiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel o Arwyddocâd Cenedlaethol
Polisi Cynllunio Cymru	Lleoedd Cynhyrchion a Mentrus Ynni Lleihau'r Galw am Ynni a Defnyddio Ynni'n Fwy Effeithiol Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel Mwynau Ynni Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau Perthnasol a Hyrwyddo'r Economi Gylchol
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Cymru iachach Cymru gydnherth

Nodau Llesiant	Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	Asesiad Ynni Adnewyddadwy Strategaeth Ynni Ardal Leol Cymru'r Dyfodol

5.4.83 Caiff cynigion ar gyfer datblygiadau ynni graddfa fawr eu dosbarthu fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac fe'u penderfynir gan Weinidogion Cymru. Caiff cynigion islaw'r trothwy ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol eu penderfynu gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae datblygiadau ynni graddfa fawr yn cynnwys:

- Yr holl gynhyrchiant gwynt ar y tir dros 10 megawatt; a
- Safleoedd cynhyrchu ynni adnewyddadwy eraill â phŵer cynhyrchu rhwng 10 megawatt a 350 megawatt.

5.4.84 Blaenoriaeth ofodol Cymru'r Dyfodol yw i ddatblygiadau ynni'r gwynt a'r haul graddfa fawr gael eu cyfeirio tuag at Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni'r Gwynt (fel y dangosir ar y Map cysylltiedig yn Cymru'r Dyfodol). Ceir tybiaeth o blaid datblygiadau ynni'r gwynt a'r haul ar y tir graddfa fawr yn yr ardaloedd hyn, derbyniad o newid i'r dirwedd a phwyslais ar sicrhau cymaint o fanteision â phosibl a chyn lleied o effeithiau â phosibl. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn nodi y bydd cymunedau yn cael eu diogelu rhag effeithiau cyfunol sylweddol i osgoi sefyllfaoedd annerbyniol lle, er enghraifft, y gallai aneddiadau llai gael eu hamgylchynu o bosibl gan gynlluniau gwynt mawr. Bydd datblygu Ardaloedd Blaenoriaeth yn cynorthwyo i gydgysylltu camau strategol, gan ddod â mas critigol o ddatblygiadau adnewyddadwy newydd at ei gilydd i ddatblygu'r achos dros seilwaith newydd neu seilwaith grid wedi'i atgyfnerthu. Mae Cymru'r Dyfodol hefyd yn pwysleisio bod technolegau ynni adnewyddadwy heblaw ynni'r gwynt a'r haul yn cael eu cefnogi mewn egwyddor.

5.4.85 Bydd SP13 (a pholisïau rheoli datblygiad ategol) yn cynorthwyo'r Fwrdeistref Sirol i newid i system ynni carbon isel, ddatganoledig sy'n gweithio i'w hunigolion, ei chymunedau a'i busnesau trwy annog prosiectau ynni carbon isel a di-garbon. Mae SP13 yn amlinellu'r meini prawf y bydd cynigion hyd at raddfa Awdurdod Lleol gyfan yn cael eu hasesu yn eu herbyn. Bydd yn ofynnol i gynigion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar y dirwedd a/neu amwynder gweledol fod yn destun Asesiad o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol ac asesiadau technegol perthnasol eraill i nodi effeithiau sylweddol tebygol a dangos bod camau lliniaru priodol wedi'u cynnwys yn y datblygiad.

Targedau Ynni Adnewyddadwy

5.4.86 Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn nodi'r cyfraniad y mae'n bosibl y gallai'r Fwrdeistref Sirol ei wneud at fodloni'r targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol y cyfeirir atynt uchod (gweler y Tablau isod). Mae'r targedau hyn wedi llywio targedau ynni adnewyddadwy a nodwyd yn y fframwaith monitro. Bydd y nifer sy'n manteisio ar ynni adnewyddadwy yn cael ei monitro i helpu i ddangos sut mae'r CDLI yn cynorthwyo i wneud y cyfraniad a nodir yn yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy drwy'r dadansoddiad technoleg a ddarperir isod.

Tabl 10: Targedau ar gyfer Defnydd Adnoddau Seiliedig ar Ardal

Technoleg Ynni	Amcangyfrif o uchafswm yr adnodd hygyrch		Capasiti sydd wedi'i osod ar hyn o bryd		Targedau'r CDLI	
	MW	MWh y.f	MW	MWh y.f	MW	MWh y.f
Gwynt	176 MWe ¹	416 GWhe	64 MWe	151 GWhe	81 MWe	191 GWhe
System Ffotofoltäig Solar wedi'i Gosod ar y Ddaear	3,835 MWe ¹	3,359 GWhe	13 MWe	11 GWhe	218 MWe	191 GWhe
System Ffotofoltäig wedi'i Hintegreiddio mewn Adeiladau	212 MWe	186 GWhe	8MWe	7 GWhe	41 MWe	36 GWhe
Dŵr	1MWe	3GWhe	0.05MWe	0.2GWhe	Dim targed oherwydd y lefel isel o adnodd a nodwyd.	
Biomass	19MWth	51GWht h	7MW	17 GWhth	Dim targed	
Ynni o Wastraff (Pŵer)	0.2 MWe	2 GWhe	Dim – caiff gwastraff ei gludo allan o'r sir		Dim targed. Oherwydd y cyfanswm bach o adnodd sydd ar gael, ni awgrymir targed ynni o wastraff penodol. Fodd bynnag, awgrymir polisi i sicrhau bod rheoli gwastraff ar safleoedd datblygu newydd a phob gweithrediad/contract rheoli gwastraff (y mae'r Cyngor yn ymgysylltu â nhw) yn cydymffurfio â'r Hierarchaeth Gwastraff (Llywodraeth Cymru, 2010) i sicrhau bod gwastraff yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu ynni pan na ellir ei atal, ei aildefnyddio neu ei ailgylchu.	
Ynni o Wastraff (Thermol)	0.4 MWth	2 GWhth	Dim – caiff gwastraff ei gludo allan o'r sir			
Treulio anaerobig (Pŵer)	0.6 MWth	3 GWhth	Amh. (deallir bod gwres a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer llwyth parasitig y gwaith yn unig)			
Treulio anaerobig (Thermol)	0.6 MWth	3 GWhth	Amh. (deallir bod gwres a gynhyrchir yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer llwyth parasitig y gwaith yn unig)			
Cyfanswm y Pŵer a Gynhyrchir	4,225 MWe	3,970 GWhe	88 MWe	193 GWhe	340 MWe	418 GWhe
Cyfanswm y Gwres a Gynhyrchir	20 MWth	55 GWhth	7 MWth	17 GWhth	Dim targed. Mae'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy yn argymhell y dylid seilio'r rhain ar gyfran yr adeiladau mewn ardal sydd â systemau gwresogi carbon isel wedi'u gosod yn hytrach na nifer y cysylltiadau neu gapasiti.	

¹ Yn cynnwys wedi'i osod

5.4.87 Mae'r targed Cynhyrchu Ynni sydd wedi'i gynnwys yn Nhabl 10 yn adlewyrchu canfyddiadau'r Asesiad Ynni Adnewyddadwy. Ynni'r gwynt a'r haul yw'r prif adnoddau ynni adnewyddadwy yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r targed cynhyrchiant gwynt yn seiliedig ar gyfuniad o'r capasiti sydd wedi'i osod ar hyn o bryd ac amcangyfrif o'r potensial sy'n weddill yn yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd y nodwyd bod ganddynt sensitifrwydd cymedrol i ddatblygiadau tyrbinau gwynt mawr o 76-110 m o uchder (yn hytrach na sensitifrwydd uchel). Mae'r targed ynni'r haul wedi'i osod ar y ddaear yn seiliedig ar drosglwyddo'r rhan fwyaf o'r potensial cynhyrchu ynni'r gwynt i systemau ffotofoltäig ynni'r haul, o ystyried y crynodiad trwm presennol o dyrbinau gwynt yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol. Mae'r targed systemau ffotofoltäig wedi'u hintegreiddio mewn adeiladau yn seiliedig ar gyfuniad o gapasiti sydd wedi'i osod ar hyn o bryd a'r dymuniad i flaenoriaethau ymgorffori technoleg mewn cynigion ar gyfer tai newydd sbon.

Tabl 11: Targedau Uchel ac Isel a Awgrymir ar gyfer Gwresogi Domestig Carbon Isel

Technoleg Ynni	Isel (Nifer yr anheddau)	Uchel (Nifer yr anheddau)	Targed y CDLI
Pwmp Gwres Ffynhonnell Aer	4,400	9,600	Mae systemau gwresogi carbon isel wedi'u gosod yn 30% o'r anheddau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.
Pwmp Gwres o'r Ddaear	3,100	3,400	Trafodwyd yn ystod y Gweithdy Rhanddeiliaid y dylid cyflwyno polisi sy'n darparu hierarchaeth o systemau gwresogi carbon isel. Er y dylid cyfeirio at fap y Strategaeth, cyfrifoldebau datblygwyr/perchnogion cartrefi fyddai penderfynu ar y system wresogi fwyaf priodol. Penderfynwyd hefyd y dylid seilio targedau ar gyfran o anheddau sydd â system wresogi carbon isel wedi'i gosod yn hytrach na tharged sy'n cynnwys nifer y cysylltiadau/capasiti. Mae'r targed a awgrymir yn seiliedig ar y gwerthoedd a ddarperir yn adran 6 (h.y. targedau pwmp gwres isel a tharged gwresogi ardal uchel) ond fel canran o'r stoc dai bresennol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ni ellir bodloni hwn trwy dai newydd sbon yn unig, felly i sicrhau bod y posibilrwydd o fodloni'r targed hwn mor uchel â phosibl dylid gosod systemau gwresogi carbon isel ym mhob datblygiad adeiladau newydd.
Pwmp Gwres Hybrid	2,500	3,100	
Cysylltiadau rhwydwaith gwres ardal	8,000	9,700	

Boeleri biomas	700 (anheddau ychwanegol)	4,700	Dim targed

- 5.4.88 Mae'r targed ar gyfer gwresogi domestig carbon isel yn Nhabl 11 uchod yn seiliedig ar ganran o'r stoc dai sydd â system wresogi carbon isel wedi'i gosod yn hytrach na nifer y cysylltiadau neu gapasiti. Ni ellir bodloni hwn trwy dai newydd sbon yn unig, felly i sicrhau bod y posibilrwydd o fodloni'r targed hwn mor uchel â phosibl dylid gosod systemau gwresogi carbon isel ym mhob datblygiad adeiladau newydd.

Ardaloedd Chwilio Lleol


- 5.4.89 Cynhaliodd yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy asesiad cyfyngiadau lefel uchel o'r Fwrdeistref Sirol i nodi ardaloedd a ystyrir yn fwy addas ar gyfer lleoli datblygiadau ynni'r gwynt a ffotofoltäig solar wedi'u gosod ar y ddaear. Troshaenwyd y lleoliadau a nodwyd ochr yn ochr â'r 15 o Ardaloedd Cymeriad Tirwedd a ddiffiniwyd yn rhan o'r asesiad sensitifrwydd tirwedd a nodir yn SPG20: Ynni Adnewyddadwy yn y Dirwedd (2016).
- 5.4.90 Er bod yr asesiad hwn yn canfod bod holl dirweddau'r Cyngor yn arbennig o sensitif i ddatblygiadau ynni'r gwynt ac ynni'r hawl graddfa fawr, mae'n nodi dwy Ardal Cymeriad Tirwedd (1: Ucheldir Eang a Choedwigaeth Llangynwyd ac 8: Coedwig Ogwr ac Ucheldir Cyfagos) fel y rhai sydd â'r lleiaf o sensitifrwydd i ddatblygiad tyrbinau gwynt. Mae Ardal Cymeriad Tirwedd 8: Coedwig Ogwr ac Ucheldir Cyfagos wedi'i lleoli yn Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw Cymru'r Dyfodol ar gyfer Ynni'r Gwynt, ac yn unol ag SP13, bydd angen i unrhyw gynnig yn yr ardal hon sicrhau nad yw bwriad y dynodiad Ardal Blaenoriaeth yn cael ei beryglu.
- 5.4.91 Ar gyfer datblygiadau ffotofoltäig solar, ystyrir bod gan y Fwrdeistref Sirol gyfan sensitifrwydd uchel i gynlluniau ynni'r haul sy'n fwy na 15 hectar (~8.5 MW). Fodd bynnag, ystyrir mai LCA 12: Llwyfandir Calchfaen Twyndir Drenewydd yn Notais yw'r lleiaf sensitif ac fe'i nodir yn SP13 fel lleoliad addas ar gyfer datblygiadau ffotofoltäig solar yn y Fwrdeistref Sirol.
- 5.4.92 Er bod yr Asesiad Sensitifrwydd Tirwedd yn cynnig awgrym o agweddau sensitif y dirwedd, mae'r ddogfen yn nodi na ddylid ei hystyried yn ddatganiad pendant o addasrwydd lleoliad penodol ar gyfer datblygu. Fel y cyfryw, efallai y bydd safleoedd y canfyddir eu bod yn addas ar gyfer datblygu mewn ardaloedd yr ystyrir bod ganddynt sensitifrwydd uchel.

ENT10 : Technolegau Gwresogi Carbon Isel ar gyfer Datblygiadau Newydd

- 1) Mae gan y Cyngor uchelgais i wneud pob cartref newydd yn garbon sero-net yn y lle cyntaf. Mae'n rhaid i ddatblygiadau mawr newydd:
- 2) Mae'n rhaid i ddatblygiadau mawr newydd ddangos bod systemau gwresogi wedi'u dewis yn unol â'r dull dilyniannol canlynol:
 - a) Cysylltiad â rhwydwaith gwres presennol neu osod rhwydwaith neu gysylltiad gwres newydd o'r pwynt meddiannu (os nad yw'r gosodiad neu'r cysylltiad yn ymarferol neu'n hyfyw yn ariannol, yna mae'n rhaid dylunio'r datblygiad fel nad yw unrhyw osodiad neu gysylltiad â Rhwydwaith Gwres Ardal yn cael ei atal yn y dyfodol);
 - b) Os nad yw maen prawf 2a) yn dechnegol bosibl neu'n hyfyw yn ariannol, mae'n rhaid ystyried defnyddio opsiynau cynaliadwy yn hytrach na rhwydweithiau gwres fel ynni adnewyddadwy unigol neu ynni adnewyddadwy cymunedol neu osodiadau carbon isel;
 - c) Os nad yw meini prawf 2a) na 2b) yn dechnegol bosibl neu'n hyfyw yn ariannol, mae'n rhaid ystyried gosod pypiau gwres Hybrid; ac
 - ch) Os nad yw'r meini prawf 2a), 2b) a 2c) yn ddichonadwy yn dechnegol neu'n hyfyw yn ariannol, mae'n rhaid ystyried gosod systemau gwresogi trydan yn unig;

- 5.4.93 Dull o ddarparu gwres a dŵr poeth i adeiladau lluosog o ffynhonnell wres ganolog yw Rhwydweithiau Gwres ac, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, y rhain yw'r ffordd fwyaf effeithiol weithiau o ddarparu gwres carbon isel. Gall rhwydweithiau gwres amrywio o ran maint o un bloc o fflatiau, dau adeilad yn rhannu un ffynhonnell wres neu ardaloedd ehangach o adeiladau lluosog yn ffurfio Rhwydwaith Gwres Ardal.
- 5.4.94 Mae gwresogi domestig yn gyfrannwr mawr at allyriadau carbon Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac felly mae datgarboneiddio gwres yn hanfodol i sicrhau system ynni carbon isel ac yn her genedlaethol a lleol. Mae Cymru'r Dyfodol yn nodi Pen-y-bont ar Ogwr fel 'Ardal Flaenoriaeth ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Ardal' ac yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol nodi cyfleoedd ar gyfer Rhwydweithiau Gwres Ardal a chynllunio yn gadarnhaol ar gyfer eu cyflwyno. Mae Strategaeth Ynni Ardal Leol ac Asesiad Ynni Adnewyddadwy Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi'r ardaloedd hynny yr ystyrir eu bod yn addas ar gyfer datblygiad ar gyfer atebion gwres ardal, hybrid a gwresogi trydan mewn cyfuniad â gwahanol lefelau o ôl-osod adeiladwaith wedi'i dargedu fel y dangosir yn Ffigur 3 isod.

Ffigur 3: Ardaloedd sy'n Addas ar gyfer Datblygiad ar gyfer Gwres Ardal, Hybrid a Gwresogi Trydan



5.4.95 Mae Asesiad Ynni Adnewyddadwy Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi'r ateb gwresogi carbon isel mwyaf priodol ar gyfer Safleoedd Strategol y CDLI (gweler PLA1-5). Yn rhan o ddull cyfannol y Cyngor o ddatgarboneiddio gwres, mae ENT10 yn ceisio sicrhau bod technolegau gwresogi carbon isel yn cael eu gosod yn rhan o bob datblygiad mawr newydd (bydd rhwydweithiau gwres islaw'r trothwy hwn yn cael eu hannog hefyd). Bydd y polisi hwn hefyd yn helpu i sicrhau bod datblygiad yn cael ei ddylunio yn y fath ffordd fel nad yw'n atal datblygiad Rhwydwaith Gwres Ardal ar gyfer y Sir Gyfan yn y dyfodol, ac yn galluogi datblygiad i gysylltu ag ef yn ddiweddarach pan fydd yn weithredol. Bydd union aliniad y Rhwydwaith yn cael ei gwblhau yn derfynol dim ond ar ôl ymchwiliadau tir ac asesiadau dichonoldeb manwl. Anogir datblygwyr i drafod yr aliniad gyda'r Cyngor ar gam cynnar i ddarganfod a yw eu cynigion yn debygol o gael eu heffeithio. Mae'n rhaid i ddatblygiadau arfaethedig ddangos sut y bydd y cynnig yn hwyluso cysylltiad â Rhwydwaith Gwresogi Ardal, neu gyfiawnhau yn gadarn pam nad yw'r cysylltiad yn ymarferol yn dechnegol a/neu yn economaidd ac awgrymu dull amgen. Caiff y safbwynt polisi cadarn hwn ei gyfiawnhau ar sail hirhoedledd datblygiad. Dylai cynlluniau allu dangos eu bod yn addas ar gyfer system ynni carbon sero-net, neu fel arall bydd angen gwaith ôl-osod drud yn y dyfodol i sicrhau bod targedau carbon yn cael eu bodloni.

ENT11: Darpariaeth Effeithlonrwydd Ynni yn Nyluniad Adeiladau

Mae'n rhaid i ddatblygiad mawr newydd gynnwys 'Uwch-gynllun Ynni' sy'n dangos fod yr egwyddorion canlynol wedi'u hymgorffori yn y cynllun:

- 1) Mae adeiladau wedi'u lleoli a'u cyfeirio i sicrhau'r manteision solar goddefol mwyaf posibl;
- 2) Defnyddir deunyddiau adeiladu o ansawdd uchel sy'n effeithlon yn thermol;
- 3) Mae mesurau effeithlonrwydd ynni fel inswleiddiad atig/waliau, ffenestri gwydr triphlyg wedi'u gosod;
- 4) Mae'n rhaid i ddatblygiadau amhreswyl fod â'r nod o fodloni safon "Rhagorol" BREEAM;
- 5) Mae technolegau cynhyrchu ynni adnewyddadwy wedi'u hintegreiddio i'r dyluniad i ddiwallu anghenion ynni'r datblygiad (gan gynnwys ystyriaeth o system ffotofoltäig solar ar y to, canopïau solar a phaneli llai ar y ddaear);
- 6) Lleihau'r galw am ynni trwy sicrhau cymaint o effeithlonrwydd ynni â phosibl yn nyluniad yr adeiladwaith;
- 7) Mae'n rhaid ymgorffori aildefnyddio ac ailgylchu dŵr a chynaeafu dŵr glaw hefyd lle bynnag y bo'n ymarferol i leihau'r galw am ddŵr o'r prif gyflenwad, yn amodol ar hyfywedd;
- 8) Archwilio cyfleoedd i integreiddio trefniadau storio ynni i ddarparu hyblygrwydd llwyth.

- 5.4.96 Mae ENT11 yn ceisio sicrhau bod dyluniad a safon unrhyw ddatblygiad newydd mor uchel â phosibl i sicrhau effeithlonrwydd ynni a dim allyriadau carbon. Mae'n rhaid i gynigion datblygu ddangos bod safonau dylunio cynaliadwy yn rhan annatod o'r cynnig drwy'r cyfnodau adeiladu a gweithredu, gan sicrhau eu bod yn cael eu hystyried ar ddechrau'r broses ddylunio.
- 5.4.97 Ceir angen cynyddol frys i sicrhau arbedion carbon o adeiladau newydd a sicrhau bod y bwlch rhwng perfformiad ynni a ddyluniwyd ac fel y'u hadeiladwyd adeiladau newydd cyn lleied â phosibl. Ceir tystiolaeth gynyddol bod y bwlch hwn o ran perfformiad ynni yn eithaf sylweddol ac y gall adeiladau newydd fod cymaint â 200% yn llai effeithlon o ran ynni nag y byddai eu dyluniad yn ei awgrymu. Dylai datblygiadau mawr gyflawni profion ôl-adeiladu er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r mater hwn a hefyd i sicrhau bod safonau perfformiad ar gyfer adeiladau carbon isel yn cael eu cysylltu â pherfformiad fel y'u hadeiladwyd.
- 5.4.98 Gall cylch oes cyfan adeilad o'i adeiladu, i'w feddiannu a'i ailwampio, i'w ddymchwel yn y pen draw ar wain at fewnbynau mawr o ran adnoddau. Trwy sicrhau bod adeiladau wedi'u dylunio cystal â phosibl, gan ddefnyddio'r egwyddorion a gyflwynir yn y polisi hwn, ceir potensial sylweddol i leihau'r angen am fewnbynau ac ôl troed ecolegol a charbon datblygiad, a gall o bosibl wella'r amgylchedd gan leihau costau i ddatblygwyr a meddianwyr.
- 5.4.99 Mae ENT11 yn parhau dull presennol y Cyngor o geisio sicrhau tai carbon is a mwy effeithlon o ran ynni, a datblygiadau sy'n amgylcheddol gynaliadwy mewn ystyr

ehangach er mwyn cyflawni'r Weledigaeth a'r Amcanion ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Bydd canllawiau pellach ar weithredu'r egwyddorion a'r gofynion a nodir yn ENT11 wedi'u cynnwys mewn Canllawiau Cynllunio Atodol ar Adeiladu a Dylunio Cynaliadwy.

ENT12: Parc Stormy

Er gwaethaf yr ystyriaeth o faterion cynllunio perthnasol yn ymwneud â diogelu mwynau, mynediad, tirwedd, llygredd a dylunio, bydd datblygiad pellach ac estyniad o hen Faes Awyr Stormy Down yn cael eu caniatáu pan fo'n ymwneud â/yn hwyluso creu clwstwr o ddiwydiannau gwyrdd arloesol.

Mae hyn yn cynnwys parhau i brosesu gwastraff bwyd ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y Gwaith Treulio Anaerobig.

- 5.4.100 Mae Parc Stormy wedi'i leoli ar hen faes awyr Stormy Down, sydd wedi'i leoli tua 6.5 cilomedr (4 milltir) i'r gorllewin o Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. Mae gan y safle fynediad gwych at y Rhwydwaith Priffyrdd Strategol â chysylltiadau agos i'r A48 a Chyffordd 37 yr M4. Mae'r safle yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer amrywiaeth o dechnolegau cynhyrchu ynni carbon isel gan gynnwys gwaith treulio anaerobig, tyrbîn gwynt ar y tir, paneli solar, batri Tesla, Tŷ Solcer. Yn fwyaf diweddar, rhoddwyd cydsyniad ar gyfer cyfleuster nwy i'r grid biomethan i uwchraddio bionwy a gynhyrchir yn y gwaith treulio anaerobig a'i chwistrellu i'r rhwydwaith nwy.
- 5.4.101 Mae gwastraff bwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael ei brosesu yn y cyfleuster Treulio Anaerobig ar hyn o bryd. Mae hwn yn prosesu tua 50,000 tonnell o wastraff bwyd y flwyddyn (gan gynnwys gwastraff sy'n cael ei fewnforio o'r tu allan i'r Fwrdeistref Sirol) ac mae ganddo gapasiti o 3 MWe. Os caiff yr uchelgais i leihau'r gwastraff bwyd a gynhyrchir ei wireddu dros gyfnod y CDLI, gallai gael ei gael ei fantoli os yw'r gwaith presennol yn gallu arallgyfeirio a derbyn gwastraff fferm organig. Caiff y bionwy a gynhyrchir yn Stormy Down ei hylosgi mewn peiriant gwres a phŵer cyfunedig ar hyn o bryd, a defnyddir rhywfaint o'r gwres ar gyfer y prosesau treulio anaerobig ond caiff y gwres sy'n weddill ei wastraffu. Mae Severn Trent (perchnogion y cyfleuster) yn ymchwilio ar hyn o bryd i'r posibilrwydd o uwchraddio'r bionwy i biomethan a chwistrellu hwn i'r rhwydwaith nwy (BCBC, 2019).
- 5.4.102 Mae ENT12 yn ceisio parhau gweithrediad presennol cynhyrchiant ynni adnewyddadwy arloesol ym Mharc Stormy ac yn annog cynigion datblygu ar gyfer y dyfodol sy'n ceisio ymestyn y swyddogaeth honno.

Adnoddau Mwynol

SP14: Datblygu Adnoddau Mwynol yn Gynaliadwy

Bydd y defnydd effeithlon a phriodol o fwynhau yn y Sir yn cael ei annog, gan gynnwys ailddefnyddio ac ailgylchu mwynau addas fel opsiwn yn hytrach nag agregau crai. Bydd cloddio adnoddau mwynol yn cael ei ganiatáu pan fo'n bodloni'r meini prawf canlynol:

- 1) Gellir dangos bod gofyniad am y mwyn i ddiwallu angen cymdeithas naill ai'n genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol, ac na ellir diwallu'r angen o ddeunyddiau eilaidd neu ailgylchu neu gronfeydd wrth gefn presennol. Bydd banc tir o graig fathredig o 10 mlynedd o leiaf yn cael ei gynnal trwy gydol cyfnod y Cynllun;
- 2) Mae defnydd terfynol arfaethedig yr adnodd mwynol yn briodol ac yn cynrychioli defnydd effeithlon a chynaliadwy o'r adnodd;
- 3) Ni fyddai'r datblygiad yn achosi niwed amlwg i amwynderau cymunedau lleol, yn enwedig o ran mynediad, cynhyrchu traffig, sŵn, dirgryndod, llwch, ansawdd aer ac arogl;
- 4) Ni fyddai'r cynnig yn arwain at unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar iechyd a llesiant y cyhoedd;
- 5) Ni fyddai unrhyw effaith niweidiol sylweddol, gan gynnwys effaith weledol, ar y dirwedd, treftadaeth naturiol ac amgylcheddau hanesyddol;
- 6) Ni fyddai unrhyw effaith niweidiol sylweddol ar ansawdd a chyfanswm dyfroedd a reolir a dim perygl llifogydd ychwanegol o ddraenio tir;
- 7) Gellir dangos na fyddai unrhyw berygl, difrod neu darfu yn deillio o ymsuddiant neu ansefydlogrwydd tir;
- 8) Ni fyddai'r cynnig yn cael effaith niweidiol ar fuddiannau amaethyddol, yn enwedig ar dir amaethyddol o ansawdd uchel;
- 9) Ceir cymaint a phosibl o gyfleoedd i ailddefnyddio a/neu ailgylchu gwastraff mwynol;
- 10) Bydd y mwynau yn cael eu cludo ar y rheilffordd pryd bynnag y bo'n ymarferol; a,
- 11) Cyflwynwyd mesurau adfer ac ôl-ofal blaengar, gan gynnwys rheoli'r safle ar ôl ei gau a'r ddarpariaeth o welliannau gwneud iawn priodol eraill.

Ni fydd y Cyngor yn cefnogi datblygiad gweithrediadau olew neu nwy anghonfensiynol ar y tir, gan gynnwys archwilio, gwerthuso, a chloddio am olew a nwy trwy ddulliau anghonfensiynol (gan gynnwys drilio tyllau turio archwiliadol).	
Amcanion y CDLI	SOBJ: 3, 4 OBJ: 3K, 3L, 3M, 4B, 4C
Cymru'r Dyfodol	Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol
Polisi Cynllunio Cymru	Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus Mwynau Ynni Mwynau Diogelu Nodweddion a Phriodweddau Arbennig Lleoedd Diogelu Adnoddau Mwynau a Seilwaith Sicrhau Cyflenwad Agregau Lleihau Effeithiau Cloddio am Fwynau a Gwaith Cysylltiedig
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang Cymru iachach Cymru gydnerth
Cynllun Llesiant Lleol	Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	Mapiau Adnoddau Mwynau BGS Mapiau Diogelu Agregau BGS Mapiau'r Awdurdod Glo 2 ^{il} Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol Asesiad Diogelu o Safleoedd

- 5.4.103 Mae SP14 yn nodi'r meini prawf y bydd pob cynnig ar gyfer datblygu mwynhau yn cael ei asesu yn eu herbyn. O ystyried amrywiaeth a natur amrywiol ceisiadau o'r fath, fodd bynnag, efallai y bydd angen ystyried ffactorau eraill fel yr angen am gytundebau/rhwymedigaethau cynllunio yn unol â SP10, ar gyfer datblygiadau mawr hefyd. Mae rhai safleoedd mwynau, oherwydd eu maint, yn cynnig cyfle delfrydol ar gyfer creu cynefin i helpu i fodloni amcanion yn y Cynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth Lleol a'r Cynllun Seilwaith Gwyrdd arfaethedig. Er mwyn cynnal cynefin newydd o'r fath, bydd fel rheol yn angenrheidiol sicrhau cyllid gan y datblygwr i sicrhau cyfanrwydd hirdymor y safle.
- 5.4.104 Mae'r diwydiant mwynau yn dal i fod yn weithredol yn y Fwrdeistref Sirol wrth i waith cloddio am galchfaen a thywod a graean barhau i gael ei wneud mewn nifer o wahanol safleoedd. Mae mwynau yn adnodd pwysig y dylid ei ddiogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol trwy leoliad datblygiadau nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau oddi wrth yr ardaloedd lle ceir mwynau o bwysigrwydd economaidd oddi tanynt, pan fo'n ymarferol.
- 5.4.105 O gofio'r dosbarthiad o fwynau yn y Fwrdeistref Sirol, a lleoliad aneddiadau presennol, ystyrir ei bod yn anochel y bydd rhywfaint o golled mwynau, er y bydd hyn cyn lleied â phosibl trwy ddewis safleoedd yn ofalus. Bydd polisi diogelu manwl yn cael ei gynnwys i sicrhau yr ystyrir yr angen i warchod yr adnodd mwynau cyn unrhyw ddatblygiad nad

yw'n gysylltiedig â mwynau y tu allan i safleoedd neilltuedig neu ffiniau datblygu a nodwyd. Bydd yr angen i wneud gwaith cloddio ymlaen llaw i fynd i'r afael â materion o ansefydlogrwydd hefyd yn cael sylw o fewn ffiniau datblygu.

- 5.4.106 Mae Nodiadau Cyngor Technegol Mwynau 1 a 2, ac 2^{il} Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau yn cynnig canllawiau/cyngor ar sut y dylai cynlluniau datblygu fynd i'r afael â materion mwynau. Maent yn cefnogi dull cryf a chynaliadwy o gynlluniau mwynau, gan sicrhau bod adnoddau cyfyngedig gwerthfawr yn cael eu diogelu i'w cloddio yn y dyfodol o bosibl. O ran y cyflenwad o agregau, caiff y defnydd mwyaf posibl o agregau eilaidd ac ailgylchu o ffynonellau masnachol a dymchwel yn hytrach nag agregau crai ei hyrwyddo. Mae Polisi Strategol 14 yn cefnogi'r gofynion polisi cenedlaethol a rhanbarthol hyn felly.
- 5.4.107 Mae'r Ail Adolygiad hwn o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn cyflwyno gofyniad newydd i bob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) gytuno Datganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol o ran eu cyfraniadau at y ddarpariaeth o agregau crai o'r tir yn y dyfodol. Mae'n ofynnol i Ddatganiadau o Gydweithrediad Is-ranbarthol gael eu paratoi, ar y cyd, gan bob ACLI sy'n rhan o bob isranbarth y Datganiad Technegol Rhanbarthol (fel y'i diffinnir gan 2^{il} Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol) yn rhan o'r sail dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi bob CDLI. Grwpwyd Pen-y-bont ar Ogwr yn is-ranbarth Dinas Caerdydd lle cytunwyd ar Ddatganiad o Gydweithrediad Is-ranbarthol gan bob ACLI gan gynnwys Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Diben y Datganiad o Gydweithrediad Is-ranbarthol yw cadarnhau bod pob ACLI sy'n rhan o is-ranbarth penodol Datganiad Technegol Rhanbarthol yn derbyn y dosbarthiadau unigol ar gyfer agregau ar gyfer eu hardaloedd Awdurdod unigol, fel y'u nodir yn yr adolygiad diweddaraf o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol.
- 5.4.108 Mae'n ofynnol i'r Fwrdeistref Sirol fodloni'r dosbarthiadau a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol drwy'r broses CDLI er mwyn cyfrannu at fodloni'r galw rhanbarthol am agregau (craig fathredig galed, a thywod a graean). 17.471 MT o graig fathredig dros y 25 mlynedd nesaf yw cyfanswm y gofyniad. Mae gan y Fwrdeistref Sirol warged o gronfeydd craig fathredig wrth gefn a ganiateir ar hyn o bryd sydd oddeutu 27.27 MT i'w rhoi tuag at y gofyniad hwn. Felly, mae ffigurau banc tir y Sir ar gyfer craig fathredig yn amlwg yn llawer uwch na'r isafswm gofynnol a nodir yn MTAN1. Mae MTAN 1 yn ei gwneud yn ofynnol i ACLlau feddu ar gyflenwad 10 mlynedd o leiaf o agregau (banc tir) trwy gydol cyfnod y Cynllun i sicrhau bod galw cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn cael ei fodloni. Mae'r chwareli calchfaen yn y Fwrdeistref Sirol yn cyfrannu tua 8.7% o gyfanswm gwerthiannau craig fathredig rhanbarth De Cymru ar gyfer y farchnad agregau. Ar hyn o bryd, tua 42 mlynedd yw cyfanswm y ffigur cronfeydd wrth gefn (banc tir) agregau.
- 5.4.109 Nid oes unrhyw ofyniad wedi'i nodi yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer tywod a graean. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gloddio am dywod a graean ar y tir yn is-ranbarth Dinas Caerdydd, a dyma fu'r sefyllfa ers degawdau yn gyffredinol. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod tywod wedi'i gloddio o'r môr yn Aber Afon Hafren a Môr Hafren

ar gael yn rhwydd, ond hefyd yn adlewyrchu sensitifrwydd amgylcheddol llawer o'r ardaloedd mewndirol lle gallai adnoddau sydd o bosibl yn addas fod yn bresennol.

- 5.4.110 Yn unol â'r argymhellion yn 2^{il} Adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol, ni nodwyd unrhyw ddarpariaeth yn y dyfodol ar gyfer agregau crai o'r tir, gan gynnwys neilltuadau ar gyfer gwaith yn y dyfodol, wedi'i nodi yn y Cynllun.

ENT13: Datblygiadau mewn Parthau Diogelu Mwynau

Mae'n rhaid i gynigion datblygu mewn ardaloedd diogelu mwynau, parhaol neu dros dro, ddangos:

- 1) Os yw'n ddatblygiad parhaol, y gellir cloddio'r mwyn cyn y datblygiad, a/neu mae'r mwyn yn bresennol mewn symiau neu ansawdd mor gyfyngedig i wneud cloddio o ddim gwerth neu fawr ddim gwerth fel adnodd cyfyngedig; a
- 2) Yn achos datblygiad preswyl, ni fyddai maint a lleoliad y datblygiad e.e. mewnlenni cyfyngedig/estyniadau tai, yn cael unrhyw effaith sylweddol ar y cloddio posibl am yr adnodd; a
- 3) Yn achos datblygiad dros dro, y gellir ei weithredu ac adfer y safle yn unol â'r amserlen y mae'n debygol y bydd angen y mwyn.

- 5.4.111 Fel y nodir mewn canllawiau cynllunio cenedlaethol, mae diogelu adnoddau mwynau cyfyngedig yn fodd o ddiogelu adnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Nid yw hyn yn awgrymu y bydd y rhain byth yn cael eu cloddio ac yn y mwyafrif o achosion dim ond defnydd cyfyngedig iawn fydd yn cael ei wneud ohonynt. Mae hefyd yn bwysig cofio nad yw diogelu yn rhoi unrhyw ganiatâd/neilltuad i gloddio/datblygu. Mae'r ardaloedd a ddiogelir a ddangosir ar y Map Cynigion yn ymwneud â Map Diogelu Agregau Arolwg Daearegol Prydain ar gyfer De-ddwyrain Cymru.
- 5.4.112 Yn y mwyafrif o achosion, gall datblygiadau ddigwydd mewn ardaloedd diogelu cyn belled ag y bo datblygwyr yn dangos bod yr adnodd dan sylw naill o ansawdd/cyfanswm gwael ac na fyddai ei ddatblygu yn cynnig gwerth am arian, neu na fyddai natur y datblygiad dan sylw yn atal datblygiad yr adnodd. Bydd ystyriaeth o'r fath fel rheol yn cael ei gwneud ar y cam cais cynllunio a dylai fod yn rhan o unrhyw gynnig i'w gymeradwyo.
- 5.4.113 O ran agregau (craig galed, a thywod a graean) a nodwyd ac a ddiogelwyd ar y map cynigion, ni fydd cloddio am adnoddau mwynol yn dderbyniol yn gyffredinol o fewn 200 medr i'r aneddiadau a nodir yn y CDLI (ar gyfer craig galed) ac o fewn 100 medr (ar gyfer thywod a graean).

ENT14: Datblygiadau mewn Clustogfeydd Mwynau

Mae'n rhaid i ddatblygiadau arfaethedig mewn clustogfeydd ddangos:

- 1) Na fydd yr adnodd mwynol yn cael ei sterileiddio; a

2) Na fydd y cynigion yn cael eu heffeithio yn niweidiol i raddfa annerbyniol gan weithrediadau mwynau.

- 5.4.114 Dangosir Clustogfeydd Mwynau ar y Map Cynigion o gwmpas pob chwarel a gweithrediad mwynau, gan gynnwys safleoedd segur. Diben clustogfeydd yw diogelu cronfeydd mwynau (adnoddau â chaniatâd cynllunio) ac adnoddau mwynol rhag datblygiad a allai eu sterileiddio, ond hefyd i sicrhau nad yw effeithiau amgylcheddol cloddi/mwyngloddio yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiadau sensitif fel tai. O'r herwydd, byddai datblygiadau fel estyniadau i eiddo presennol a datblygiadau mewnlenni bach o fewn ffiniau aneddiadau yn cael eu caniatáu fel rheol. At ddibenion y CDLI, nodwyd clustogfeydd mwynau ar y Map Cynigion o amgylch safleoedd â 'Chronfeydd Mwynau' yn unig.
- 5.4.115 Yn unol ag MTAN(1), diffiniwyd y clustogfeydd gan bellter 200 metr (ar gyfer chwareli calchfaen/tywodfaen) o ffin i safle mwynau. Rhoddwyd sylw mwy manwl i'r materion hyn yn y Papur Cefndir ar Fwynau.
- 5.4.116 Gallai rhai defnyddiau tir fel defnyddiau swyddfa, diwydiannol a masnachol gael eu caniatáu o fewn clustogfeydd gan eu bod yn llai sensitif i unrhyw effeithiau niweidiol fel sŵn, llwch a ffrwydradau. Byddai defnyddiau eraill fel ysgolion ac eiddo iechyd yn llai goddefgar ac ni fyddent yn cael eu caniatáu yn gyffredinol.

Rheoli Gwastraff

SP15: Rheoli Gwastraff Cynaliadwy

Bydd rheoli gwastraff yn gynaliadwy yn cael ei hwyluso drwy:

- 1) sicrhau cyfleoedd i gadw cynhyrchiant gwastraff mor isel â phosibl ym mhob datblygiad a sicrhau bod gwastraff yn cael ei reoli yn gynaliadwy ar ôl iddo gael ei gynhyrchu;
- 2) Cefnogi cynigion ar gyfer rheoli gwastraff i fyny'r hierarchaeth gwastraff (a nodir mewn polisi cenedlaethol);
- 3) Cefnogi cynigion i leihau effeithiau gwaith rheoli gwastraff presennol ar gymunedau a'r amgylchedd;
- 4) Er mwyn rheoli gwastraff yn y Fwrdeistref Sirol mewn modd cynaliadwy, bydd datblygu cyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy mewn adeilad sy'n cynnwys trosglwyddo, trin, aildddefnyddio, ailgylchu, compostio caeedig neu adfer ynni o wastraff, yn cael ei ganiatáu yn yr ardaloedd canlynol:
 - Tir yn Heol y Sblot, De Corneli;
 - Ystad Ddiwydiannol Brynmenyn, Brynmenyn;
 - Ystad Ddiwydiannol Village Farm, y Pîl;
 - Ystad Ddiwydiannol Bracla/Litchard, Pen-y-bont ar Ogwr;
 - Ystad Ddiwydiannol Waterton, Pen-y-bont ar Ogwr; a
 - Parc Stormy.

Gallai cyfleusterau rheoli gwastraff eraill gael eu caniatáu mewn lleoliadau priodol yn bennaf o fewn safleoedd cyflogaeth neilltuedig â neilltuadau dosbarth defnydd cyflogaeth B2 penodedig, cyn belled â'u bod yn cael eu cefnogi gyda rhaglen a gytunwyd o waith rheoli safle ar gyfer hyd y datblygiad ac nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar:

- a) Defnyddiau tir cyfagos;
- b) Amwynder defnyddiau tir cyfagos neu eiddo unigol, gan gynnwys effeithiau symudiadau traffig a chynhyrchiant sŵn, llwch, mygdarth, dirgryndod ac arogl;
- c) Y rhwydwaith priffyrdd;
- ch) Effaith weledol;
- d) Treftadaeth naturiol, yr amgylchedd diwylliannol a hanesyddol;
- dd) Math, ansawdd a ffynhonnell y gwastraff;
- e) Dyfroedd a reolir, gan gynnwys cyfanswm ac ansawdd y dŵr;
- f) Ansawdd Aer; a
- ff) Iechyd a llesiant y cyhoedd.

Gellid cefnogi datblygiad cyfleusterau rheoli gwastraff cynaliadwy mewn lleoliadau gwledig priodol, gan gynnwys compostio a threulio anaerobig, hefyd yn amodol ar y meini prawf uchod.

Amcanion y CDLI	SOBJ: 3, 4 OBJ: 3K, 3I, 3M, 4B, 4C
Cymru'r Dyfodol	Polisiâu Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol
Polisi Cynllunio Cymru	Gwneud y Defnydd Gorau o Adnoddau Perthnasol a Hyrwyddo'r Economi Gylchol Dewisiadau Dylunio i Atal Gwastraff Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Cynaliadwy
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cynllun Llesiant Lleol	Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	TAN 21 – Gwastraff Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd Cynllun Gwastraff Rhanbarthol De-orllewin Cymru

5.4.117 Mae lleihau gwastraff yn fater trawsbynciol a dylid creu cyfleoedd i atal neu leihau'r gwastraff a gynhyrchir ym mhob datblygiad, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.

5.4.118 Wrth asesu cynigion ar gyfer pob math o gyfleuster rheoli gwastraff, bydd i ba raddau y mae'r datblygiad yn cyfrannu at yr amcanion a'r egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Wastraff Genedlaethol (Tuag at Ddyfodol Diwastraff (2010)) a'r Cynlluniau Sector perthnasol, o safbwynt amgylcheddol, economaidd, a chymdeithasol, yn ystyriaeth gynllunio berthnasol. Nodir materion cynllunio y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi ceisiadau yn Atodiad C TAN21. Mae'n rhaid i ddatblygwyr gyfiawnhau yn eglur pam mae cynnig yn angenrheidiol a'i fod yn diwallu angen a nodwyd yn rhanbarthol neu'n lleol. Bydd angen Asesiad Cynllunio Gwastraff i gefnogi pob cais am gyfleuster gwastraff a ddosberthir fel cyfleuster gwaredu, adfer neu ailgylchu. Mae'n rhaid i'r Asesiad Cynllunio Gwastraff gynnwys gwybodaeth ddigonol i alluogi asesiad o'r cais a'i gyfraniad at fodloni'r gofynion a nodir yng Nghynlluniau'r Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd. Mae cyngor ar yr wybodaeth i'w chynnwys mewn Asesiad Cynllunio Gwastraff ar gael yn Atodiad B TAN21.



Ailgylchu Cymunedol

5.4.119 Defnyddir yr hierarchaeth gwastraff i gynghori ar opsiynau rheoli gwastraff. Mae'n rhaid i gynigion datblygu ddangos bod y broses drin yn adlewyrchu tref flaenoriaeth yr hierarchaeth gwastraff cyn belled â phosibl, yn fwyaf amlwg sut mae'r rheolaeth o wastraff yn cael ei hysgogi i fyny'r hierarchaeth. Mae'n rhaid i gynigion roi sylw i'r cysyniad gosod priodol agosaf ac egwyddorion hunangynhaliaeth pan fo'n angenrheidiol. Dylid cyfiawnhau peidio â chyd-fynd â'r hierarchaeth trwy ddefnyddio Asesiad Cylch Oes a'i gynnwys yn yr Asesiad Cynllunio Gwastraff. Yn unol â pholisi cenedlaethol, bydd sylw penodol yn cael ei roi i sut mae cynigion ar gyfer gwastraff y

rhoddir sylw iddynt o dan Erthygl 16 y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff diwygiedig yn cyd-fynd â'r cysyniad Gosodiad Priodol Agosach ac Egwyddorion Hunangynhaliath.

- 5.4.120 Bydd cynigion ar gyfer ymgorffori cyfleusterau rheoli gwastraff yn cael eu cyfeirio at y safleoedd cyflogaeth a nodir yn SP15. Bydd cydleoli cyfleusterau rheoli gwastraff i alluogi datblygiad rhwydweithiau gwres yn cael ei gefnogi, yn amodol ar y meini prawf a nodir yn SP15. Gellir ystyried ardaloedd eraill yn cael budd defnydd B2 cyfreithlon (fel y'i dosberthir o dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd)) hefyd, yn amodol ar fodloni'r meini prawf a nodir uchod yn SP15. Fodd bynnag, efallai y bydd angen lleoli rhai gweithrediadau gwastraff fel rhesgompustio a threulio anaerobig y tu allan i ffiniau aneddiadau lle na fydd allyriadau fel bioaerosolau yn niweidio'r cyhoedd. Bydd angen i bob cais gael ei benderfynu felly ar sail ei rinweddau yn unol â meini prawf rheoli datblygiadau arferol a pholisïau cefn gwlad perthnasol eraill, wedi'u llywio gan yr ardaloedd o fapiau chwilio a gynhyrchir yn rhan o sail dystiolaeth y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol.
- 5.4.121 Gwastraff masnachol a diwydiannol yw tua 60% o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir mewn unrhyw ardal benodol. Daw gwastraff o'r fath mewn nifer o wahanol ffurfiau fel gwastraff bwyd busnesau, gwastraff garddwriaethol gwyrdd, plastigau, pren, gwydr, papur, metel a gwastraff adeiladu a dymchwel fel pridd, briciau, concrit a charreg ac ati.
- 5.4.122 Mae nifer y cyfleusterau i ymdrin ag ailgylchu gwastraff o'r fath wedi tyfu yn ddramatig yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i dargedau cenedlaethol a rhanbarthol i leihau gwaredu i safleoedd tirlenwi. Mae'r tueddiad hwn yn debygol o barhau trwy gydol cyfnod y cynllun a chan fod gan y rhan fwyaf o waith prosesu gwastraff elfennau o ddefnydd B1/B2/B8, aseswyd capasiti ar ystadau diwydiannol presennol i fodloni'r galw am gyfleusterau o'r fath yn unol â TAN 21 a'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol. Felly, anogir cyfleusterau o'r fath i leoli ar safleoedd presennol sydd â seilwaith priodol yn gyffredinol i gynnal cyfleusterau o'r natur hon. Mae hyn hefyd yn galluogi, pan fo'n briodol, rhannu ynni a gynhyrchir o brosesau rheoli gwastraff i ddefnyddwyr diwydiannol cyfagos neu i dderbynyddion priodol yn yr ardal drefol ehangach.

ENT15: Gwastraff Anadweithiol

Bydd cynigion ar gyfer gwaredu gwastraff anadweithiol a gynhyrchwyd yn lleol mewn safleoedd yng nghefn gwlad yn cael eu caniatáu dim ond pan fo'n angenrheidiol ar gyfer hwyluso datblygiad derbyniol fel y'i diffinnir ym Mholisi SP15 a phan fodlonir yr holl feini prawf canlynol:

- 1) Mae'r gwastraff yn cyd-fynd â'r diffiniad o wastraff anadweithiol fel y'i diffinnir gan ddeddfwriaeth gyfredol;
- 2) Mae natur y gwastraff o'r fath na ellir ei aildddefnyddio neu ei ailgylchu ac eithrio ar gyfer defnydd llenwi sylfaenol;
- 3) Mae'r tirlurf terfynol yn cyd-fynd â'r lefelau daear cyfagos presennol;
- 4) Ni fyddai draeniad naturiol y safle neu dir cyfagos yn cael ei rwystro;
- 5) Gellir gwneud trefniadau i atal llygru dŵr wyneb neu danddaearol;

- 6) Mae'r tirffurf wedi'i dirlunio yn briodol oni bai fod angen ardaloedd wedi'u cywasgu ar gyfer datblygiad adeiledig; a
- 7) Nid oes unrhyw effeithiau niweidiol sylweddol ar dreftadaeth naturiol.

- 5.5.36 Er mwyn mynd ati mewn ffordd gyfannol o warchod natur a/neu ardaloedd o ddiddordeb gwyddonol yn y Fwrdeistref Sirol, mae DNP5 yn adeiladu ar SP17 ac yn darparu ail haen o ddiogelwch uwchlaw'r hyn a gynigir gan bolisi cenedlaethol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r safleoedd hynny a ddiffinnir yn y CDLI fel rhai o bwysigrwydd rhanbarthol neu leol. Mae'r safleoedd sy'n bwysig yn rhanbarthol ac yn lleol a nodir yn DNP5 (sy'n cynnwys yr holl Warchodfeydd Natur Lleol dynodedig, Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig, a Safleoedd Geoamrywiaeth Sy'n Bwysig yn Rhanbarthol) yn bwysig i fioamrywiaeth a chadwraeth diddordeb gwyddonol yn y Fwrdeistref Sirol.
- 5.5.37 Pan ystyrir bod datblygiad yn gorbwyso diogelwch y safleoedd hyn sy'n bwysig yn rhanbarthol ac yn lleol, rhaid i ddatblygwyr ddangos bod pob ymgais wedi'i gwneud i leihau'r effaith ar y safle a/neu ddarparu mesurau digolledu neu liniaru ar gyfer colli'r safle, ei fioamrywiaeth neu ei ddiddordeb gwyddonol. Rhaid i gynigion hefyd gynnwys mesurau ar gyfer cynnal a chadw'r safle yn y tymor hwy (gan gynnwys unrhyw gynefinoedd) i sicrhau eu bod yn parhau'n gynaliadwy. O ran bioamrywiaeth, bydd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Asesu a Diwygio Gwasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau 2014) yn cael ei ystyried wrth bennu priodoldeb lliniaru effaith neu ddisodli unrhyw safle.
- 5.5.38 Dangosir yr holl LNRs a RIGS presennol ar Fap Cynigion y CDLI fodd bynnag, er mwyn eglurder, ac o ystyried eu nifer a'u hamrywiaeth o ran maint, mae Safleoedd cadwraeth Natur Pwysig wedi'u heithrio o'r Map Cynigion.

DNP6: Bioamrywiaeth, Rhwydweithiau Ecolegol, Cynefinoedd a Rhywogaethau

Rhaid i bob cynnig datblygu gyfrannu at enillion net bioamrywiaeth a gwella cydnerthedd ecosystemau, fel y dangosir drwy gyflwyno ceisiadau cynllunio. Rhaid i gynigion datblygu gynnal, diogelu a gwella rhwydweithiau / gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecolegol. Rhaid rhoi pwys arbennig ar gynnal a gwella cysylltedd rhwydweithiau ecolegol sy'n galluogi gwasgaru a gweithredu rhywogaethau a warchodir a rhywogaethau â blaenoriaeth.

Caniateir cynigion datblygu sy'n arwain at effaith andwyol ar gysylltedd bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol a/neu sy'n cael effaith andwyol sylweddol ar gydnerthedd cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir dim ond pan fydd:

- 1) Mae'r angen am ddatblygiad yn drech na phwysigrwydd cadwraeth natur y safle;
- 2) Gellir dangos nad oes lleoliad amgen boddhaol ar gyfer y datblygiad sy'n osgoi effeithiau cadwraeth natur;
- 3) Mae elfen gysylltiedig swyddogaethol o'r adnodd naturiol yn cael ei chadw fel rhan o ddyluniad y datblygiad; a
- 4) Caiff unrhyw niwed na ellir ei osgoi ei leihau drwy liniaru effeithiol er mwyn sicrhau nad oes gostyngiad yng ngwerth cadwraeth natur cyffredinol yr ardal. Lle nad yw hyn yn ymarferol, rhaid i fesurau digolledi a gynlluniwyd i warchod, gwella, rheoli a, lle y bo'n briodol, adfer cynefinoedd a rhywogaethau naturiol be ddarparu. Rhaid i ddarpariaeth ddigolledi fod o werth ecolegol tebyg neu fwy i'r hyn a gollwyd o ganlyniad i'r datblygiad.

Rhaid i Asesiad o'i Effaith Ecolegol ar Lefel Prosiect gyd-fynd â chynigion datblygu ar safleoedd a ddyrannwyd gydag unrhyw effeithiau andwyol sylweddol tebygol a nodwyd (cyn lliniaru) yn gysylltiedig ag Amcan 9 yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd).

5.5.39 O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydbnerthedd ecosystemau. Felly, mae'n hanfodol sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ddatblygu a'r angen i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bodoli eisoes sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth gyffredinol y Fwrdeistref Sirol. Nod Polisi DNP6 yw sicrhau'r cydbwysedd hwnnw rhwng lleoliad, dyluniad a chynllun datblygu neu ailddatblygu, a'r angen i warchod buddiannau bioamrywiaeth y safle hwnnw, gan hefyd ystyried buddiannau unrhyw adnoddau cadwraeth natur cyfagos.

5.5.40 Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (Asesu a Diwygio Gwasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau 2014) yn mapio'r rhwydwaith ecolegol presennol ac mae hefyd yn nodi lleoliadau lle mae gan gysylltedd ecolegol y potensial i wella. Rhaid i gynigion datblygu sicrhau cynnydd net bioamrywiaeth neu welliant ecolegol drwy weithredu ystod o gyfleoedd fel y nodwyd yn y Cynllun Gweithredu, gan gynnwys:

- Cynyddu a chynnal cysylltedd cynefinoedd er mwyn cynnal llifau a symudedd rhywogaethau;
- Gwella rhwydweithiau o wrychoedd ac ymylon caeau, gan gynnal planhigion blodeuo ac felly pryfed peillio;
- Hyrwyddo cysylltiadau hamdden, gan ganiatáu rhyngweithio rhwng y boblogaeth a'r ardaloedd agored;
- Plannu rhywogaethau brodorol o flodau a choed i gynyddu'r adnodd peillio, hyrwyddo amrywiaeth bywyd gwyllt, cynyddu storio carbon llystyfiant ac oeri a puro'r aer;
- Cynnal gerddi â phridd naturiol a llystyfiant ac ymgorffori mannau gwyrdd i helpu i gynnal ymdreiddiad dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd; a
- Hybu hamdden a mwynhad o natur drwy rwydweithiau seilwaith gwyrdd, teithio llesol, arwyddion a chodi ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth leol.

5.5.41 Rhaid cymryd pob cyfle i gofnodi nodweddion bioamrywiaeth pwysig mewn safle cyn iddynt gael eu dadleoli a'u rheoli'n barhaus, neu yn y sefyllfaoedd gwaethaf, cyn y gellir colli nodweddion o'r fath yn barhaol. Fodd bynnag, bydd y sefyllfa olaf yn cael ei hosgoi lle bynnag y bo modd gan y Cyngor sy'n gofyn am fesurau lliniaru a digolledu priodol er mwyn sicrhau bioamrywiaeth y safleoedd hynny yn y dyfodol. Bydd y mesurau hyn yn cael eu sicrhau drwy gyfrwng amodau cynllunio a/neu rwymedigaethau neu gytundebau cynllunio gyda datblygwyr.

5.5.42 Ystyrir bod diogelu a gwella coridorau a rhwydweithiau bywyd gwyllt yn hanfodol er mwyn diogelu bioamrywiaeth yn y Fwrdeistref Sirol yn y tymor hwy. Felly, rhaid i gynigion datblygu ystyried, ac ni ddylent gael effaith andwyol (ond ceisio adfer a gwella), uniondeb neu barhad nodweddion tirwedd presennol, tirffurfiau a chynefinoedd sy'n bwysig i ffawna a fflora lleol. Felly, bydd y Cyngor yn disgwyl i ddarpar ddatblygwyr ddarparu ar gyfer y gwaith parhaus angenrheidiol o warchod a rheoli coridorau bywyd gwyllt yn eu cynigion datblygu, a, pan fetho popeth arall, darparu ar gyfer disodli'r nodweddion hynny sy'n cefnogi ac yn darparu coridorau ar gyfer bywyd gwyllt yn lleol.

5.5.43 Rhaid i gynigion datblygu fod â'r nod o leihau effeithiau niweidiol cynefinoedd a rhywogaethau a warchodir a chydnerthedd ecosystemau. Dylid gweithredu'r polisi hwn ar y cyd â pholisïau eraill yn y cynllun hwn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw golled net mewn bioamrywiaeth gyffredinol o ganlyniad i ddatblygiad a phan fo'n bosibl dylid bod ag enillion bioamrywiaeth.

5.5.44 Cyhoeddir y rhestr o gynefinoedd a rhywogaethau o'r pwys mwyaf i Gymru o dan Adran 7 o Ddeddf Amgylcheddol (Cymru) 2016. Y ffactorau sydd i'w hystyried wrth asesu'r effaith andwyol sylweddol y mae cynigion datblygu yn debygol o'i wneud ar gynefinoedd a rhywogaethau yw:

- Dosbarthiad a statws presennol y cynefin neu'r rhywogaethau a warchodir yn y Sir;
- Yr holl effeithiau tebygol, gan gynnwys effeithiau cronol ac effeithiau yn ystod y gwaith adeiladu;

- Rôl y cynefinoedd fel llwybrau cysylltedd;
- A ddarparwyd mesurau lliniaru a/neu ddigolledu effeithiol; a
- Cynnal a gwella cydnertheddd ecosystemau.

5.5.45 Os yw cynefinoedd a rhywogaethau yn debygol o gael eu tarfu neu eu niweidio, caiff cynigion datblygu eu hasesu yn unol â Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol. Bydd disgwyl i ddatblygwyr ddarparu: arolwg ecolegol; asesiad o effaith debygol y cynnig ar y rhywogaeth/cynefinoedd a warchodir; a, lle bo angen, gwneud darpariaeth briodol ar gyfer eu mesurau diogelu, lliniaru a/neu ddigolledu. Yn ogystal, disgwylir mesurau i wella bioamrywiaeth, megis drwy greu cynefinoedd.

5.5.46 Anifeiliaid estron, planhigion neu organebau eraill sydd â'r gallu i ledaenu, gan achosi niwed i'r amgylchedd, yr economi, ein hiechyd a'r ffordd rydym yn byw yw Rhywogaethau Estron Goresgynol. Mae deddfwriaeth bresennol yn mynd i'r afael â nhw. Os yw rhywogaethau estron goresgynol yn bresennol mewn safle datblygu ac o'i amgylch, dylid cymryd camau priodol i'w rheoli neu eu dileu cyn dechrau unrhyw ddatblygiad cymeradwy. Pan roddir caniatâd cynllunio, bydd yn ddarostyngedig i amodau a rhwymedigaethau cynllunio priodol i sicrhau rheolaeth, monitro, lliniaru, iawndal a rheolaeth.

DNP7: Coed, Gwrychoedd a Datblygiad

Ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n cael effaith andwyol ar goed, 'coed arbennig', choetiroedd a gwrychoedd amwynder cyhoeddus neu werth treftadaeth naturiol/diwylliannol, neu sy'n darparu gwasanaethau ecosystem pwysig.

Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu ar safleoedd sy'n cynnwys coed neu sy'n gyfagos iddynt, asesu'r coed yn unol â BS 5837:2012 Coed o ran dylunio, dymchwel ac adeiladu. Rhaid i'r asesiad gynnwys:

- 1) arolwg coed;
- 2) asesiad effaith coedyddiaeth;
- 3) datganiad dull coedyddiaeth;
- 4) a/neu gynllun diogelu coed.

Pan fydd coed yn cael eu disodli gan goed newydd, rhaid cytuno ar gynllun i blannu coed newydd cyn dechrau'r datblygiad, gan gynnwys manylion plannu ac ôl-ofal.

Os argymhellir gwaith coed, rhaid i'r gwaith gydymffurfio â BS 2998:2010 Gwaith Coed. Argymhellion.

5.5.47 Mae'r Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn darparu ar gyfer diogelu coed a choetiroedd. Mae Polisi Cynllunio Cymru a TAN 5 yn cyfeirio'n benodol at ba mor bwysig yw coed a choetiroedd i fioamrywiaeth a'u harwyddocâd wrth gysylltu cynefinoedd ar gyfer rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Mae hyn yn ychwanegol at y cyfraniad ehangach a wnânt i gymeriad tirwedd, ymdeimlad o le, ansawdd aer, hamdden a chymedroli hinsawdd lleol.

5.5.48 Mae asesiad Eco i-tree Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am y gwasanaethau ecosystem a ddarperir gan goed a cynhaliwyd astudiaeth Eco i-Tree gan

Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2015 i brisio eu gwerth. Cynhaliwyd yr ymchwil hon mewn partneriaeth ag Ymchwil Coedwigoedd ac roedd yn cwmpasu ardaloedd trefol Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg, Porthcawl, Pencoed a'r Pîl. Amlygodd yr astudiaeth hon pa mor werthfawr yw ased Coed Trefol Pen-y-bont ar Ogwr i gymdeithas, a'u rôl o ran helpu i liniaru llifogydd, darparu manteision iechyd (drwy amsugno llygryddion) cefnogi bywyd gwyllt a darparu gwerth esthetig drwy wneud aneddiadau'r Fwrdeistref Sirol yn fwy deniadol. I gydnabod pwysigrwydd coed i'r Fwrdeistref Sirol, mae DNP7 yn ceisio sicrhau bod coed addas, p'un a ydynt yn cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth ai peidio, yn cael eu cadw a'u diogelu ar unrhyw safle datblygu.

5.5.49 Nododd astudiaeth Eco i-Tree, 'Valuing the Urban Trees in Bridgend County Borough' fod coedwig drefol y Fwrdeistref Sirol:

- â thros 439,000 o goed, gan arwain at ddwysedd coed trefol cyfartalog o 99 coeden yr hectar (ha); mae hyn yn uwch na'r amcangyfrifon presennol ar gyfer ardaloedd eraill yn y DU
- â gorchudd coed trefol o 12%, sy'n hafal i arwynebedd o 533 ha. Canfuwyd y coed yn bennaf mewn parciau, ar dir preswyl ac ar dir gwag ac roedd ganddynt gyfran isel o goed mawr o gymharu ag astudiaethau Eco i-Tree blaenorol a gynhaliwyd yn y DU, a byddent yn elwa o goed mwy canolog a mawr
- â hyd at 27% o'r gofod trefol ar gael i blannu coed neu lwyni
- yn cynnwys 60 o rywogaethau coed a llwyni, a gofnodwyd ar draws 12 categori defnydd tir, a choed ynn, drain gwynion a helyg fel y rhywogaethau a gafwyd amlaf

5.4.50 Daeth yr adroddiad i'r casgliad y gallai coed trefol ar eu pennau eu hunain ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

- ddal nôl tua 124 miliwn litr o ddŵr bob blwyddyn, sy'n cyfateb i amcangyfrif o £163,790 mewn taliadau carthffosiaeth a osgowyd
- cael gwared ar tua 61 tonnelli o lygryddion a gludir yn yr aer bob blwyddyn, sy'n werth mwy na £326,000 mewn costau difrod
- tynnu tua 2,080 tonnelli o garbon o'r atmosffer bob blwyddyn, amcangyfrifir bod y swm hwn o garbon yn werth £461,400
- storio tua 53,500 tonnelli o garbon, amcangyfrifir bod y swm hwn o garbon yn werth £12.1 miliwn
- â gwerth disodli o £142 miliwn
- â gwerth asedau o £686 miliwn, prisiad yn seiliedig ar amwynder gweledol.

Coed Arbennig

5.5.51 Ar draws Pen-y-bont ar Ogwr mae llawer o goed arbennig. Efallai eu bod yn rhagorol am eu bod yn hen, yn darparu cynefin pwysig, y mwyaf o'u rhywogaethau, yn gysylltiedig â digwyddiad hanesyddol pwysig neu fod ganddynt rywaint o arwyddocâd diwylliannol eithriadol. Mae coed arbennig yn cynnwys rhai:

- Hynafol neu oedrannus;

- Hynod;
- Treftadaeth;
- Unigol; a
- Nodedig

- 5.5.52 Mae coeden hynafol yn un sydd wedi mynd y tu hwnt i aeddfedrwydd ac sy'n hen, neu'n oedrannus, o'i chymaru â choed eraill o'r un rhywogaeth. Gall ei chanopi fod yn fach. Mae'n debyg y bydd ganddi foncyff lydan iawn o'i chymharu â choed eraill o'r un rhywogaeth ac mae'n debygol iawn y bydd yn wag.
- 5.5.53 Mae hynod yn derm sy'n disgrifio coeden â nodweddion cynefin fel clwyfau neu bydredd. Fodd bynnag, mae'r termau hynafol a hynod wedi'u defnyddio'n gyfnewidiol yn y gorffennol, ond mae'n bwysig gwybod beth yw'r gwahaniaethau rhyngddynt. Mae coeden hynod yn oroeswr sydd wedi datblygu rhai o'r nodweddion a geir ar goeden hynafol, nid o reidrwydd o ganlyniad i amser, ond o'i bywyd neu ei hamgylchedd. Mae coed hynafol hynod yn goed hynafol, ond nid yw pob coeden hynod yn ddigon hen i fod yn hynafol. Gall coeden hynod fod yn goeden ifanc gyda thrwch gymharol fach yn wahanol i goeden hynafol, ond yn dwyn 'creithiau' oedran fel pydredd yn y boncyff, y canghennau neu'r gwreiddiau, cyrff ffrwythloni ffwngaidd, neu bren marw. Bydd y nodweddion hynodi hyn yn dal i ddarparu cynefin bywyd gwyllt.
- 5.5.54 Mae coeden unigol yn un sy'n dalaf neu sydd â'r boncyff mwyaf o'i bath yn y DU (neu ranbarth penodol). Bydd coed unigol â thrwch mawr iawn fel arfer yn goed hynafol. Fodd bynnag, mae rhai sy'n goed unigol oherwydd eu taldra yn annhebygol o fod yn rai hynafol. Gall y coed unigol talaf fod yn goed aeddfed, ar anterth eu twf. Fodd bynnag, gallant hefyd fod yn goed eithaf ifanc: gall coeden sy'n rhywogaeth brin neu wedi'i chyflwyno fod yn eithaf ifanc o gymharu â'i rhywogaeth ond gall fod y talaf neu gall fod â'r boncyff lletaf o'i chymharu ag eraill o'r un rhywogaeth sy'n tyfu yma yn y DU. Mae Cofrestr Coed Ynysoedd Prydain yn cadw manylion holl goed mwyaf pob rhywogaeth – y cofnod diffiniol o goed unigol Prydain ac Iwerddon.
- 5.5.55 Mae coeden dreftadaeth yn un sydd wedi cyfrannu at ein hanes a'n diwylliant neu sy'n gysylltiedig â nhw. Mae priodoleddau perthnasol yn cynnwys:
- Cysylltiadau hanesyddol, archeolegol neu ddiwylliannol yn enwedig gyda digwyddiadau pwysig neu liwgar neu bobl enwog (e.e. y Dderwen Fawr yng Nghoedwig Sherwood). Fel arall, gallant fod yn goed a blannwyd i goffáu achlysur neu yn hen goeden wedi'i thocio sy'n dangos pwysigrwydd y system hon o reoli coed dros y canrifoedd.
 - Golwg esthetig, cymeriad tirwedd neu leoliad pensaernïol. Efallai y bydd ganddynt siapiau rhyfedd o dwf naturiol neu ymyrraeth ddynol (e.e. coed haenog mawr neu 'Cage Pollard' yn Burnham Beeches). Gall y coed hefyd fod o bwysigrwydd eithriadol gan eu bod yn gwneud datganiad dylunio penodol (e.e. cedrwydd Albert a Victoria ym Mharc Stowe). Gallant fod yn grwpiau o goed fel y gwelir mewn coedlannau, perllannau, llwyni o bwysigrwydd eithriadol arbennig (e.e. y coedlannau calch yn Hampton Court neu'r berth ffawydd

Meikleour yn Perthshire). Gallant fod yn dirnodau poblogaidd mewn cymunedau lleol.

- Prin neu o ddiddordeb botanegol o bwys. Gallent fod yn goed brodorol prin (e.e. 'Whitty Pear'), neu goed cyntaf o hadau a blannwyd gan gasglwr coed (e.e. y pinwydd Douglas cyntaf a blannwyd), neu gyltifarau arbennig o ddiddordeb hanesyddol (e.e. y goeden afalau Bramley gyntaf). Mae coed treftadaeth yn aml yn hynafol ond nid felly o reidrwydd. Bydd gan goeden sydd wedi'i phlannu gan ryw berson nodedig, fel y Frenhines Elizabeth II, neu i goffáu digwyddiad, werth hanesyddol ond mae'n annhebygol o fod yn hynafol. Fodd bynnag, mae pob coeden hynafol yn goeden dreftadaeth.

5.5.56 Mae coed nodedig fel arfer yn goed aeddfed godidog sy'n sefyll allan yn eu hamgylchedd lleol am eu bod yn fawr o'u cymharu â choed eraill o'u cwmpas. Maent yn aml yn dalach na choed hynafol a gallant fod yn fwy trwchus na llawer o goed hynod ond nid oes ganddynt unrhyw nodweddion amlwg o ran bod yn hynod.

Coedwig Drefol Pen-y-bont ar Ogwr

5.5.57 Gall coed trefol helpu i liniaru rhai o effeithiau negyddol a chanlyniadau cymdeithasol trefoli, ac felly sicrhau bod ardaloedd trefol yn gallu gwrthsefyll y newidiadau hyn yn well. Mae coed a choedwigoedd trefol yn cyfrannu at wneud dinasoedd yn fwy cynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol drwy nifer o ffyrdd:

1. Gall coed gyfrannu at y cynnydd mewn diogelwch bwyd a maeth lleol, gan ddarparu bwyd fel ffrwythau, cnau a dail i'w bwyta gan bobl ac fel porthiant i anifeiliaid. Gellir defnyddio eu pren, yn ei dro, ar gyfer coginio a gwresogi.
2. Mae coed yn chwarae rhan bwysig o ran cynyddu bioamrywiaeth drefol, gan ddarparu cynefin, bwyd a diogelwch ffafriol i blanhigion ac anifeiliaid.
3. Gall coeden aeddfed amsugno hyd at 150 kg o CO₂ y flwyddyn. O ganlyniad, mae coed yn chwarae rhan bwysig mewn lliniaru newid yn yr hinsawdd. Yn enwedig mewn dinasoedd sydd â lefelau uchel o lygredd, gall coed wella ansawdd aer, gan wneud dinasoedd yn lleoedd iachach i fyw ynddynt.
4. Gall lleoli coed mewn dinasoedd yn strategol helpu i oeri'r aer rhwng 2 ac 8 gradd Celsius, gan leihau'r effaith "ynys wres" drefol, a helpu cymunedau trefol i addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
5. Mae coed mawr yn hidlyddion ardderchog ar gyfer llygryddion trefol a gronynnau mân. Maent yn amsugno nwyon llygredig (fel carbon monocsid, ocsidiau nitrogen, osôn ac ocsidiau sylffwr) ac yn hidlo gronynnau mân fel llwch, baw neu fwg allan o'r aer drwy eu dal ar ddail a rhisgl.
6. Dengys ymchwil y gall byw'n agos at fannau gwyrdd trefol a chael mynediad atynt wella iechyd corfforol a meddyliol, er enghraifft drwy leihau pwysedd gwaed uchel a straen. Mae hyn, yn ei dro, yn cyfrannu at les cymunedau trefol.
7. Mae coed aeddfed yn rheoleiddio llif dŵr ac yn chwarae rhan allweddol wrth atal llifogydd a lleihau'r risg o drychinebau naturiol. Gall coeden fythwyrdd aeddfed, er enghraifft, gyfnewid mwy na 15,000 litr o ddŵr y flwyddyn.

8. Mae coed hefyd yn helpu i leihau allyriadau carbon drwy helpu i arbed ynni. Er enghraifft, gall lleoli coed o amgylch adeiladau yn gywir leihau'r angen am aerdymheru 30 y cant, a lleihau biliau gwresogi'r gaeaf 20-50 y cant.
9. Gall cynllunio tirweddau trefol gyda choed gynyddu gwerth eiddo, hyd at 20 y cant, a denu twristiaeth a busnes.

Mathau o Goetiroedd

- 5.5.58 Mae nifer o ddiffiniadau'n ymwneud â choetiroedd Prydain, y mae nifer ohonynt yn gorgyffwrdd. O ran asesiad cychwynnol, mae'n ymddangos bod y diffiniadau hyn sy'n gorgyffwrdd yn drysu dosbarthiad mathau o goetiroedd. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio, o safbwynt ecolegol o leiaf, mai'r hynaf y mae'r coetir wedi bod mewn bodolaeth, y mwyaf yw ei werth i fywyd gwyllt. Amlinellir y mathau hyn o goetiroedd yn Nhabl 12.

Tabl 12: Mathau o Goetiroedd	
Prif Goetir	Mae hwn yn cyfeirio at safle sydd wedi bod yn goediog ers yr oes iâ ddiwethaf. Fodd bynnag, mae hefyd yn cyfeirio at safleoedd sydd wedi bod yn goediog ers y 1600au, hyd yn oed os cânt eu rheoli. Mae prif goetiroedd yn tueddu i fod yn goed oedrannus anwastad ac yn cynnwys clwstwr aeddfed.
Coetir eilaidd	Mae hwn yn cyfeirio at safle nad yw wedi bod yn goediog yn barhaus ers y 1600au a gall felly fod yn hen neu'n gymharol newydd.
Coetir hynafol	Mae hwn yn dynodi coetir sydd wedi bodoli ers cyn y 1600au ac sydd felly'n debyg i brif goetiroedd.
Coetir eilaidd hynafol	Hen goetiroedd eilaidd yw'r rhain, hynny yw, maent wedi'u torri i lawr ers y 1600au, ond bu hynny mor bell yn ôl fel bod ganddynt nodweddion tebyg i brif goetir/coetir hynafol.
Coetir lled-naturiol hynafol	Unwaith eto, mae hwn yn cyfeirio at hen goetir a allai fod wedi bodoli cyn y 1600au, ond mae cynnwys y gair lled yn dangos ei fod wedi'i reoli ar ryw adeg.
Coetir lled-naturiol	Mae hwn yn cyfeirio at goetir sydd wedi'i ddatblygu o dir agored yn y tua 100 mlynedd diwethaf.
Coetiroedd Coedlannau/Porfeydd	Gall eu gwreiddiau fod wedi'u lleoli mor bell yn ôl â'r cyfnod Neolithig, ond yn enwedig yn achos coedlannau sy'n dal i gael eu defnyddio fel arfer rheoli mewn llawer o goetiroedd, gall hwn gyfeirio at goetir a sefydlwyd yn fwy diweddar.
Coetiroedd brodorol newydd	Coetiroedd wedi'u plannu yn ddiweddar yw'r rhain sy'n cael eu plannu i annog bywyd gwyllt. Cânt eu plannu yn y fath fodd fel bod ganddynt amrywiaeth strwythurol.

Planhigfeydd

Mae coetiroedd o'r fath yn cyfeirio at gnydau pren, sy'n cynnwys plannu rhywogaethau gan ddilyn trefn bendant. Fel arfer, mae planhigfeydd yn cynnwys rhywogaethau conwydd anfrodorol ar gyfer y diwydiant coed.

Coedwig uchel

Yn wahanol i goedwigoedd wedi'u plannu fel yr uchod, mae hyn yn cyfeirio at goed a blannwyd o hadau. Gall hyn gynnwys rhywogaethau brodorol ac anfrodorol.

Diogelu ein Coed

- 5.5.59 Pan fo'n briodol, defnyddir amodau cynllunio neu Orchmynion Cadw Coed (TPO) i ddiogelu coed a choetiroedd pwysig. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymryd camau gorfodi priodol yn erbyn gwaith heb awdurdod i goed a warchodir.
- 5.5.60 Amlinellir o dan ba amgylchiadau y bydd angen rhagor o wybodaeth i gefnogi cais cynllunio yn DNP7. Rhaid i'r wybodaeth hon fod yn unol â Safon Brydeinig bresennol BS5837 a rhoi sylw i effaith hirdymor y datblygiad arfaethedig ar y coed wrth iddynt dyfu a lle bynnag y bo modd ceisio osgoi gwrthdaro yn y dyfodol, fel yr un a achosir gan ganghennau sy'n hongian drosodd, cysgodi ac sy'n cymryd gormod o le.
- 5.5.61 Fel arfer, dim ond pan fydd y coed ar y safle wedi'u diogelu'n llawn yn yr hirdymor y rhoddir Caniatâd Cynllunio, neu pan na ellir osgoi cael gwared ar goeden neu goed. Ni fyddai tynnu coed ond yn dderbyniol pan nad oes lleoliad arall ar gyfer y datblygiad; ac mae'r angen am y datblygiad a'r manteision ohono yn drech na phwysigrwydd y goeden neu'r coed. Rhaid ailblannu coed yn unol â Safon Brydeinig BS8545 a rhoddir TPO fel arfer ar goed ailblannu.
- 5.5.62 Defnyddir Amodau Cynllunio, Erthygl 4 Cyfarwyddiadau a/neu Rwymedigaethau Cynllunio i sicrhau unrhyw fesurau lliniaru/digolledu/gwella angenrheidiol yn gysylltiedig â choed a chynigion datblygu. Dylid cynllunio plannu coed newydd neu liniaru i gyflawni aeddfedrwydd ac i sicrhau bod cyfraniad parhaus at amwynder gydag effeithiau negyddol dibwys.

DNP8: Seilwaith Gwyrdd

Bydd yn ofynnol i gynigion datblygu integreiddio, diogelu a chynnal asedau seilwaith gwyrdd presennol a gwella graddau, ansawdd, cysylltedd a gallu amlswyddogaethol y rhwydwaith seilwaith gwyrdd. Os na ellir osgoi colli neu ddifrodi'r seilwaith gwyrdd presennol, bydd angen lliniaru ac iawndal priodol.

Rhaid i bob datblygiad geisio sicrhau cymaint â phosibl, cyn belled ag y bo'n ymarferol, o seilwaith gwyrdd ar y safle, yn ogystal â chydgyssylltedd seilwaith gwyrdd o fewn ac o amgylch y safle i'r rhwydwaith seilwaith gwyrdd ehangach. Rhaid i ddatblygu hefyd fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyflawni gallu amlswyddogaethol drwy ddod â swyddogaethau seilwaith gwyrdd at ei gilydd.

Bydd yn ofynnol i bob datblygiad mawr gyflwyno Asesiad Seilwaith Gwyrdd.

- 5.5.63 Rhwydwaith o fannau gwyrdd â swyddogaeth, nodweddion naturiol a systemau rheoli amgylcheddol yw Seilwaith Gwyrdd sy'n helpu i ddarparu system cymorth bywyd naturiol i bobl a bywyd gwyllt. Gallant ddarparu cyfleoedd ar gyfer hamdden a thwristiaeth, mynediad i'r cyhoedd, addysg, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, rheoli dŵr, diogelu a gwella'r dirwedd leol a lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.
- 5.5.64 Mae Polisi DNP8 yn ceisio sicrhau bod asedau seilwaith gwyrdd Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu gwerthfawrogi, eu diogelu, eu gwella a'u rheoli drwy rwydwaith seilwaith gwyrdd. Ar raddfa'r dirwedd gall asedau seilwaith gwyrdd gynnwys ecosystemau cyfan fel gwlyptiroedd, coetiroedd, rhostiroedd a dyfrffyrdd. Ar raddfa leol, gallai gynnwys parciau, caeau, llwybrau troed, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, ffyrdd beicio, tir comin, tir mynediad agored, rhandiroedd, mynwentydd, ardaloedd wedi'u tirlunio a gerddi. Ar raddfeydd llai, gall ymyriadau trefol unigol fel coed stryd, ymylon ffyrdd, a thoeau gwyrdd oll gyfrannu at rwydweithiau seilwaith gwyrdd. Mae'r Sir yn cefnogi cyfoeth o asedau Seilwaith Gwyrdd sydd gyda'i gilydd yn cynnwys y rhwydwaith strategol, a nodir yn yr Asesiad Seilwaith Gwyrdd (2021).
- 5.5.65 Pan gaiff seilwaith gwyrdd ei gynllunio, ei ddylunio a'i reoli'n briodol, mae ganddo'r potensial i sicrhau ystod ehangach o fanteision i bobl a bywyd gwyllt. Drwy ystyried y swyddogaethau lluosog y gall ased Seilwaith Gwyrdd eu darparu ar yr un pryd, gall leihau costau unigolion, busnesau a chyrff cyhoeddus yn sylweddol, tra'n gwella ansawdd bywyd ac iechyd trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr â Phen-y-bont ar Ogwr.
- 5.5.66 Bydd disgwyl i gynigion datblygu wella asedau presennol Seilwaith Gwyrdd. Bydd cynlluniau o'r fath yn cael eu cynllunio i ystyried yr asedau seilwaith gwyrdd presennol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddarnio na cholli cysylltedd gan sicrhau bod ecosystemau mor gydnerth â phosibl a bod cymaint â phosibl o wasanaethau ecosystem. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen creu Seilwaith Gwyrdd newydd a chreu cysylltiadau â'r rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd presennol: gwell cysylltedd drwy lwybrau troed a llwybrau beicio; lle ar gyfer natur sy'n cyfrannu at batrwm lleol neu isranbarthol cynefin cysylltiedig, a chyfleusterau hamdden dychmygus sy'n rhoi manteision addysgol ac iechyd corfforol i bobl leol. Mae'r Ardaloedd Adfywio a Thwf Cynaliadwy a ddisgrifir ym Maes Polisi SP1 a safleoedd strategol a nodir ym Maes Polisi SP2 yn cynnig cyfleoedd sylweddol yn hyn o beth o ystyried eu natur a'u maint strategol. Yn ogystal â hyn, bydd yn ofynnol i bob datblygiad mawr gyflwyno Asesiad Seilwaith Gwyrdd sy'n dangos:
1. lleoliad, ansawdd a chyflwr yr holl asedau Seilwaith Gwyrdd presennol ac elfennau a nodweddion tirwedd ac ecolegol ar y safle, ac yn gyfagos iddo, a'r rhai sy'n ddarostyngedig i:
 - i) effeithiau posibl y datblygiad, a manylion am sut y mae'r effeithiau wedi'u hosgoi a'u lleihau drwy fesurau dylunio a diogelu penodol;
 - ii) effeithiau na ellir eu hosgoi o'r datblygiad, a manylion sut y mae'r effeithiau wedi'u lliniaru, neu eu digolledi o fewn y cynllun datblygu arfaethedig a'r cynllun dylunio tirwedd;

2. atebion dylunio effeithiol sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i: wella ansawdd a graddau'r Seilwaith Gwyrdd presennol; a galluogi creu asedau Seilwaith Gwyrdd newydd ac elfennau a nodweddion tirwedd ac ecolegol, er mwyn gwella cysylltedd ac amlswyddogaeth y Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd.

5.5.67 Bydd canllawiau ar Seilwaith Gwyrdd yn rhan o'r datblygiad yn cael eu paratoi fel Canllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r agenda creu lleoedd a chreu amgylcheddau byw bioamrywiol o ansawdd uchel.

DNP9: Diogelu Adnoddau Naturiol ac Iechyd y Cyhoedd

Caniateir cynigion datblygu dim ond pan ellir dangos na fyddent yn achosi risg newydd, neu'n gwaethygu risg annerbyniol o niwed i iechyd, bioamrywiaeth a/neu amwynder lleol sy'n bodoli eisoes, oherwydd:

1. Llygredd aer;
2. Llygredd sŵn;
3. Llygredd golau;
4. Llygredd dŵr;
5. Halogiad (gan gynnwys rhywogaethau goresgynnol);
6. Ansefydlogrwydd tir;
7. Datblygu adnoddau mwynau yn gynaliadwy;
8. Rheoli gwastraff yn gynaliadwy;
9. Unrhyw risg arall a nodwyd i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd.

Bydd angen i ddatblygiadau mewn ardaloedd sy'n ddarostyngedig i'r uchod ar hyn o bryd ddangos mesurau lliniaru i leihau'r risg o niwed i iechyd y cyhoedd, bioamrywiaeth a/neu amwynder lleol i lefel dderbyniol. Anogir y defnydd o'r Cynlluniau Darparu Llygredd yn ystod y cyfnod adeiladu, pan fo'n briodol, i ddangos sut y gall cynigion atal dŵr ffo o'r datblygid rhag achosi llygredd i'r amgylchedd dŵr. Rhaid i bob cynnig o fewn parthau ymgynghori'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch hefyd ddangos derbynioldeb a'r angen i ddatblygu.

Rhaid i'r holl ddatblygiadau mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd fod wedi'u hategu gan Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd/Risg ac ymgorffori unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen i osgoi neu reoli mwy o berygl llifogydd.

5.5.68 Mae DNP9 yn ceisio sicrhau bod amgylchedd naturiol y Sir yn cael ei ddiogelu rhag datblygiad niweidiol iawn. Mae hyn yn ymwneud yn benodol ag effaith datblygiad ar ansawdd aer, sŵn, golau a dŵr. Hefyd, mae DNP9 yn ceisio sicrhau bod risgiau posibl i iechyd pobl yn cael eu nodi a'u hasesu'n llawn. Mae'r egwyddor hon yn ymestyn i ddatblygiad mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd ac ailddatblygu neu adfer tir halogedig/ansefydlog, neu ddatblygiad o fewn y parthau ymgynghori statudol a bennir gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar gyfer gosodiadau peryglus. Bydd derbynioldeb effeithiau andwyol yn dibynnu ar natur y datblygiad a'r lleoliad, gyda'r safleoedd mwyaf sensitif, megis ardaloedd preswyl, yn fwy agored i niwed. Mewn rhai amgylchiadau, gellir lliniaru effeithiau andwyol i wneud y datblygiad yn dderbyniol. Fodd bynnag, yn achos perygl llifogydd, bydd y Cyngor yn mabwysiadu dull cynaliadwy o ymdrin

â llifogydd drwy geisio osgoi datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd yn unol â Pholisi a Chanllawiau Cynllunio Cenedlaethol.

- 5.5.69 Anogir gwella ansawdd yr amgylchedd o ganlyniad i ddatblygiad yn gadarnhaol. Gellir cyflawni hyn, er enghraifft, drwy: adfer tir halogedig fel rhan o ailddatblygu; defnyddio Systemau Draenio Cynaliadwy a all wella'r broses o leihau dŵr ffo ar yr wyneb ac yn y pen draw leihau'r perygl o lifogydd; neu ddisodli goleuadau ymwthiol presennol â chynllun lefel isel.
- 5.5.70 Nodir y cyfyngiadau amgylcheddol canlynol ar y Map Cyfyngiadau a Materion a byddant yn cael eu diwedddaru'n rheolaidd:
- Perygl Llifogydd;
 - Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA); a
 - Meysydd Blaenoriaeth Cynllunio Gweithredu ar Sŵn (NAPPA)
- 5.5.71 Gall llygredd achosi risg sylweddol i iechyd pobl, ansawdd bywyd, amwynder preswyl, a'r amgylchedd naturiol a hanesyddol. Mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau bod datblygiadau a fyddai'n arwain at lefelau sylweddol uchel o lygredd aer, sŵn neu olau wedi'u lleoli'n briodol i fwrdd o ardaloedd preswyl, datblygiadau sensitif eraill ac ardaloedd o bwysigrwydd tirwedd, amgylchedd naturiol a threftadaeth. Mae'r Cynllun hefyd yn ceisio sicrhau nad yw datblygiad anghydnaws a defnyddiau tir wedi'u lleoli'n agos at ffynonellau llygredd posibl sy'n bodoli eisoes. Lle cynhyrchir llygredd aer a sŵn o'r un ffynhonnell dylid eu hystyried a mynd i'r afael â nhw gyda'i gilydd a dylid rhoi sylw priodol hefyd i bolisiau trafnidiaeth a Theithio Llesol y Cynllun a strategaethau perthnasol eraill y Cyngor ar gyfer lleihau'r defnydd o gerbydau. Bydd polisiau Seilwaith Gwyrdd y Cynllun hefyd yn sicrhau bod darpariaeth briodol yn cael ei gwneud mewn datblygiadau newydd ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau cronol llygredd aer a sŵn.
- 5.5.72 Pan fo'n bosibl, defnyddir amodau cynllunio i leihau niwed amgylcheddol a gwella'r amgylchedd. Bydd y Cyngor yn edrych ar yr asiantaethau amgylcheddol statudol i ddefnyddio eu pwerau deddfu gwrth-lygredd i fonitro a gorfodi yn erbyn gollyngiadau, sŵn a niwsansau eraill.

Llygredd Sŵn

- 5.5.73 Pan allai datblygiad arwain at amlygiad i ffynhonnell o lygredd sŵn, rhaid dangos y bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu gweithredu, a'u hymgorffori yn y datblygiad er mwyn lleihau'r effeithiau ar ddeiliaid presennol a deiliaid yn y dyfodol. Ni chaniateir datblygiadau sy'n sensitif i sŵn oni bai bod mesurau lliniaru effeithiol a phriodol yn cael eu gwneud i atal amlygiad i ddefnyddiau sy'n cynhyrchu sŵn sy'n bodoli eisoes.
- 5.5.74 Paratowyd Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd (2018-2033) ar gyfer Cymru gyfan sy'n nodi Meysydd Blaenoriaeth Cynllunio Gweithredu ar Sŵn (NAPPA) lle mae eiddo preswyl yn profi lefelau uchel o sŵn amgylcheddol. O fewn yr ardaloedd hyn bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddangos bod mesurau rheoli traffig a lliniaru priodol ar waith. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ceisio sicrhau'r manteision sŵn mwyaf posibl o waith gwella priffyrdd a rheoli ansawdd aer yn lleol; a chymryd mapiau sŵn, ardaloedd â

blaenoriaeth a mannau gwyrdd trefol tawel i ystyriaeth pan gynigir datblygiad sy'n sensitif i sŵn neu sy'n cynhyrchu sŵn.

- 5.5.75 Pan fydd datblygiad arfaethedig yn cael ei leoli yn agos at ffynhonnell llygredd sŵn, neu'n cynnwys gwrthdaro sŵn posibl o fewn y safle arfaethedig, bydd angen cynigion i ymgorffori dylunio, tirlunio a mesurau eraill i leihau'r effeithiau ar ddeiliaid yn y dyfodol. Yn aml, gellir dylunio neu addasu cynllun adeiladau i leihau effeithiau amhariad yn sgil sŵn a chreu seinweddau priodol. Yn yr un modd, gellir cynllunio cynlluniau i gynnwys deunyddiau, nodweddion a thirlunio sy'n lleihau effaith sŵn ar yr adeiladau cyfagos. Yn unol â'r egwyddor 'asiant newid', y busnes neu'r person sy'n gyfrifol am gyflwyno newid sy'n gyfrifol am reoli'r newid hwnnw. Felly, dylai'r broses o asesu cynigion ystyried natur y seinwedd sy'n bodoli mewn ardal a nodweddion y lle, neu weithgareddau penodol sydd wedi'i lunio. Pan fo goblygiadau sŵn posibl, efallai y bydd yn ofynnol i ddatblygwyr ddarparu asesiad o'r effaith ar sŵn, ynghyd â chynigion ar gyfer lliniaru i gefnogi ceisiadau cynllunio. Os nad yw canlyniadau'r asesiad a'r mesurau lliniaru arfaethedig yn foddhaol, gallai fod sail dros wrthod caniatâd cynllunio. Er gwaethaf y defnydd o ddylunio a deunyddiau da, bydd rhai achosion lle na fydd defnyddiau preswyl newydd a defnyddiau eraill sy'n sensitif i sŵn, megis ysbytai ac ysgolion, yn dderbyniol yn agos at ddefnyddiau neu weithgareddau sy'n cynhyrchu sŵn sy'n bodoli eisoes.

Llygredd Aer

- 5.5.76 Ardal Rheoli Ansawdd Aer Pen-y-bont ar Ogwr (AQMA) yw'r unig AQMA o fewn ffin y Sir ar hyn o bryd ac fe'i dangosir ar y Map Cyfyngiadau. Cynghorir datblygwyr i ymgynghori'n gynnar â Thîm Rheoli Llygredd y Cyngor i gadarnhau lle mae angen Asesiad Ansawdd Aer (AQA) i gefnogi cais. Caiff hyn ei ystyried fesul achos gan roi sylw i raddfa a math y datblygiad. Er enghraifft, mae datblygiad preswyl yn debygol o sbarduno'r angen am AQA, gan fod mater o ddiddordeb sylfaenol yn gysylltiedig ag ansawdd aer yn yr AQMA yn ymwneud ag amlygiad preswyl ar hyd ochr y ffordd. Felly, efallai y bydd yn ofynnol i liniaru gael ei ddangos drwy AQA er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn osgoi datblygiad wrth ymyl y ffordd. Bydd graddfa'r datblygiad a fydd yn sbarduno'r angen am AQA hefyd yn cael ei hystyried fesul achos gan roi sylw i leoliad y datblygiad a sut mae'n rhyngweithio â'i amgylcheddau cyfagos. Lle nodir yr angen am liniaru, bydd yr AQA yn dangos y bydd mesurau lliniaru priodol yn cael eu gweithredu i sicrhau nad yw'r datblygiad yn achosi risg sylweddol i ansawdd aer yn rhinwedd allyriadau o'r datblygiad ei hun o'r symudiadau traffig newydd ychwanegol y byddai'n eu cynhyrchu. Bydd yr AQA yn darparu rhagor o wybodaeth am y graddau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cynyddu nifer yr unigolion agored mewn ardal sy'n debygol o fethu amcanion ansawdd aer y DU (a gynigir neu mewn rheoliadau), naill ai o fewn AQMA neu ardal a allai ddod yn AQMA pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu.

Llygredd Golau

- 5.5.77 Gall llygredd golau gael effaith niweidiol ar amwynder defnyddiau tir cyfagos, diogelwch traffig a'r amgylchedd naturiol. Fodd bynnag, gall goleuadau hefyd helpu i atal troseddau ac ofn troseddau a hwyluso mwy o ddefnydd o chwaraeon ac ardaloedd hamdden. Felly, mae angen sicrhau cydbwysedd, a, lle bo angen, bydd amodau ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio i sicrhau bod dyluniad a gweithrediad systemau goleuo yn foddhaol a/neu i atal llygredd

golau. Gall hyn gynnwys mesurau i atal golau, sicrhau amwynder defnyddiau tir cyfagos, diogelu'r amgylchedd naturiol a hanesyddol a lleihau allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â goleuadau.

Llygredd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr

- 5.5.78 Ni chaniateir datblygiad sy'n peryglu ansawdd yr amgylchedd dŵr, neu nad yw'n cydymffurfio â rheoli adnoddau dŵr yn dda. Rhaid i gynigion datblygu wneud defnydd effeithlon o adnoddau dŵr a, lle y bo'n briodol, cyfrannu at welliannau i ansawdd dŵr. Rhaid gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy lle bynnag y byddent yn effeithiol ac yn ymarferol.
- 5.5.79 Bydd cyrsiau dŵr yn cael eu diogelu drwy goridoriau gwyrdd/clustogfeydd glannau: i ddiogelu ansawdd dŵr a chynefinoedd a rhywogaethau dŵr; ac i ddarparu ar gyfer capasiti gorlifdir. Ni chaniateir cynigion datblygu a fyddai'n cael effaith andwyol sylweddol ar fioamrywiaeth, pysgodfeydd, mynediad cyhoeddus na defnydd hamdden sy'n gysylltiedig â dŵr o adnoddau dŵr.
- 5.5.80 Mae'r CDLI yn ceisio diogelu ac adfer dŵr glân er mwyn sicrhau ei ddefnydd cynaliadwy hirdymor. Mae materion fel llygredd dŵr, perygl llifogydd a diogelu a gwella ecosystemau dyfrol yn ystyriaethau pwysig ar gyfer datblygu. Rhaid rhoi sylw llawn i Gyfarwydddeb y Fframwaith Dŵr (WFD) 2000/60/EC sy'n nodi'r gofynion yn gysylltiedig â'r amgylchedd dŵr ac sy'n gofyn am statws ansawdd dŵr da i bob corff dŵr a Rheoliad Trin Dŵr Gwastraff Trefol 91/91 271/EEC sy'n diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau andwyol gollyngiadau dŵr gwastraff trefol a Pharthau Diogelu Dŵr Daear (SPZ) sy'n darparu amddiffyniad ychwanegol i ddiogelu ansawdd dŵr yfed drwy gyfyngu ar agosrwydd gweithgaredd a allai effeithio ar echdynnu dŵr yfed.
- 5.5.81 Gall llygredd dŵr ac ansawdd dŵr gwael dilynol fod o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r WFD wedi rhoi cyfle i weithio gyda sefydliadau partner, yn enwedig Cyfoeth Naturiol Cymru, i gydnabod yr angen i wella'r amgylchedd dŵr cyfan a hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o ddŵr er budd pobl a bywyd gwyllt.
- 5.5.82 Mae Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru (RBMP) yn nodi amcanion amgylcheddol, safonau a rhaglen o fesurau y gellir eu cyflawni yn yr ardal. Os yw cynigion datblygu yn ymwneud â phrif afon neu gwrs dŵr cyffredin, dylid manteisio ar gyfleoedd i ymgorffori clustogfa glannau o hyd at 7 metr yn y datblygiad sy'n ffinio â'r ddwy lan. Bydd hyn yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud y gwaith cynnal a chadw angenrheidiol a bydd yn diogelu ac yn annog bioamrywiaeth leol. Ystyrir bod cynigion datblygu nad ydynt yn cydymffurfio ag amcanion a safonau'r RBMP yn cael effaith gyfaddawdu ar adnoddau dŵr a byddant yn cael eu gwrthod.
- 5.5.83 Gall tynnu dŵr gael effaith andwyol ar ansawdd dŵr a bydd angen cyfyngu datblygiad i ardaloedd lle mae adnoddau dŵr digonol yn bodoli neu lle gellir eu darparu'n rhesymol heb effeithio'n andwyol ar ansawdd dŵr presennol. Rhaid cynnal a chadw dŵr daear a lefelau afonydd sy'n bodoli eisoes. Gellir gwella ansawdd dŵr drwy ddarparu seilwaith dŵr gwastraff effeithiol. Dŵr Cymru yw ymglymerwr carthffosiaeth y Fwrdeistref Sirol ac mae ganddo

ddyletswydd gyffredinol i ddarparu'r system garthffosiaeth. Ar y sail hon, mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo ar hyn o bryd i wneud gwelliannau i gapasiti y Gwaith Trin Dŵr Gwastraff, lefelau triniaeth ac ansawdd y dŵr sy'n cael ei ryddhau drwy gamau gweithredu yn RBMP Gorllewin Cymru a thrwy ddyraniadau a blaenoriaethau cyllid a sicrhawyd drwy broses eu Rhaglen Rheoli Asedau.

- 5.5.84 Nid oes angen trin dŵr wyneb ac ni ddylai draeniau dŵr wyneb gysylltu â draen budr. Mae Rheoliadau Adeiladu yn darparu dull hierarchaidd o ddraenio dŵr wyneb yn y drefn ganlynol: ffos gerrig/Systemau Draenio Cynaliadwy, yna cwrs dŵr, ac yna os nad yw'r naill na'r llall yn rhesymol ymarferol, defnyddio carthffos. Dim ond pan wneir darpariaeth ar gyfer y seilwaith dŵr gwastraff angenrheidiol i ddiogelu ansawdd dŵr y caniateir datblygu.
- 5.5.85 Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithredu dulliau cynaliadwy o ddraenio dŵr wyneb ac mae'n disgwyl i ddatblygiadau ymgorffori Systemau Draenio Cynaliadwy lle bynnag y bo modd. Mae systemau draenio cynaliadwy yn dynwared draeniad naturiol i wella ymdreiddiad dŵr glaw i bridd a thir a gellir ei weithredu ar bob graddfa ddatblygu. Gallant gynnwys: toeau gwyrdd; systemau cynaeafu dŵr glaw; systemau ffos gerrig/ymdreiddiad; arwynebau athraidd; gerddi glaw; basnau a phantiau dal dŵr. Gall Systemau Draenio Cynaliadwy wella datblygiad drwy greu cynefinoedd sy'n gwella bioamrywiaeth yn ogystal â darparu manteision amwynder a hamdden posibl.
- 5.5.86 Pan na ellir rhoi Systemau Draenio Cynaliadwy ar waith, mae'n ofynnol i ddatblygwyr ddangos eu bod wedi archwilio opsiynau Systemau Draenio Cynaliadwy a rhoi manylion penodol i egluro pam na fyddai Systemau Draenio Cynaliadwy yn effeithiol fel rhan o'u cynigion datblygu penodol. Lle gellir gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy, rhaid i'w dyluniad gyd-fynd â Safonau Statudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Draenio Cynaliadwy yng Nghymru – Dylunio, Adeiladu a Chynnal Systemau Draenio Dŵr (2019) a ellir ei gymeradwyo'n llawn gan y Cyngor, fel Corff Cymeradwyo'r Systemau Draenio Cynaliadwy.
- 5.5.87 Defnyddir amodau a rhwymedigaethau cynllunio i sicrhau bod Systemau Draenio Cynaliadwy yn cael eu gweithredu, gan gynnwys gofynion fesul cam, gwaith cynnal a chadw hirdymor a darparu draeniad oddi ar y safle. Mae integreiddio cyrsiau dŵr a phyllau yn rhoi cyfle i Systemau Draenio Cynaliadwy gael eu hymgorffori mewn cynlluniau ar raddfa fwy fel nodweddion tirwedd. Disgwylir defnyddio nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy uwchben y ddaear mewn datblygiadau o'r fath, ar gyfer cludo ac arafu yn hytrach nag unrhyw system berchenogol arall, a dylid eu cynllunio i'r tirlun datblygu. Dylid ystyried darparu Seilwaith Gwyrdd, gan gynnwys plannu coetiroedd, fel mesur i leihau dŵr ffo ar yr wyneb. Bydd unrhyw gyfleoedd i adfer, neu greu gorlifdir swyddogaethol naturiol ychwanegol drwy'r broses ddatblygu hefyd yn cael eu hannog.
- 5.5.88 Er mwyn darparu draeniad effeithiol yn y tymor hir, bydd angen i ddatblygwyr wneud trefniadau ar gyfer cynnal Systemau Draenio Cynaliadwy a chysiau dŵr sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn y dyfodol. Sicrheir hyn drwy Gytundebau Adran 106. Lle bynnag y bo modd, dylai cynigion geisio ymgorffori technegau cadwraeth dŵr gan gynnwys cynaeafu glaw ac ailgylchu dŵr llwyd. Gall datblygiad ar dir halogedig effeithio ar ansawdd dŵr. Er mwyn atal hyn, dylai safleoedd halogedig gael eu selio'n ddigonol yn erbyn gollwng deunydd llygredig a dylid cyfeirio draeniad wyneb oddi wrth ffynhonnell halogi a rhaid trin unrhyw ddŵr

halogedig (tir neu arwyneb) yn ddigonol cyn ei ryddhau. Ni roddir caniatâd cynllunio os bydd tarfu ar dir halogedig, ym marn y Cyngor, yn cael effaith andwyol sylweddol ar ansawdd dŵr wyneb a dyfroedd daear.

Cadwraeth yr Amgylchedd Hanesyddol

- 5.5.89 Mae creu lleoedd nodedig a naturiol drwy'r system gynllunio yn galluogi awdurdodau lleol i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru i ddiogelu, gwarchod, hybu a gwella'r amgylchedd hanesyddol fel adnodd ar gyfer lles cyffredinol cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol. Dylai ymgeiswyr ystyried effaith unrhyw gynnig datblygu ar arwyddocâd a gwerthoedd treftadaeth asedau hanesyddol unigol, eu lleoliad a'u cyfraniad at gymeriad eu lle yn llawn drwy baratoi asesiad o'r effaith ar dreftadaeth a datganiad fel rhan o'r broses gynllunio.



Adeilad Jennings, Porthcawl

SP18: Cadwraeth yr Amgylchedd Hanesyddol

Mae gan y Fwrdeistref Sirol dreftadaeth adeiledig gyfoethog ac amgylchedd hanesyddol. Rhaid i gynigion datblygu ddiogelu, gwarchod, hybu neu wella arwyddocâd asedau hanesyddol, gan gynnwys eu lleoliadau. Yn benodol, mae rhagdybiaeth gyffredinol o blaid cadw neu wella arwyddocâd asedau hanesyddol a'u lleoliadau:

- 1) Safleoedd Treftadaeth y Byd
- 2) Henebion Cofrestredig
- 3) Olion Archaeolegol
- 4) Adeiladau Rhestredig
- 5) Ardaloedd Cadwraeth
- 6) Parciau a Gerddi Hanesyddol
- 7) Tirweddau Hanesyddol
- 8) Asedau hanesyddol o Ddiddordeb Lleol arbennig

Bydd angen i unrhyw gais am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth gynnwys Datganiad o'r Effaith ar Dreftadaeth yn unol â Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016.

Amcanion y CDLI	SOBJ: 4 OBJ: 4a, 4b, 4c, 4d, 4e
Cymru'r Dyfodol	Ein Treftadaeth, Treftadaeth Ddiwylliannol
Polisi Cynllunio Cymru	Lleoedd Nodedig a Naturiol Cydnabod Nodweddion Arbennig Lleoedd Amgylchedd Hanesyddol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	Cymru iachach Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang
Cynllun Llesiant Lleol	Cefnogi cymunedau yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr i fod yn ddiogel ac yn gydlynus Dewisiadau iach mewn amgylchedd iach
Tystiolaeth Allweddol	Rhestr o Adeiladau sydd â Diddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol Arbennig Arfarniadau Ardal Gadwraeth Rhestr Leol o asedau hanesyddol lleol sydd o ddiddordeb arbennig i'r ardal

- 5.5.90 Mae'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys holl elfennau ffisegol gweithgarwch dynol blaenorol sydd wedi goroesi ac mae'n dangos sut mae cenedlaethau'r gorffennol wedi llunio'r byd o'n cwmpas. Yn aml, mae gan yr asedau hanesyddol pwysicaf warchodaeth statudol neu maent wedi'u cynnwys mewn cofrestrau ffurfiol sy'n nodi eu bod o ddiddordeb hanesyddol arbennig. Mae nifer o asedau treftadaeth statudol a heb eu cofnodi'n statudol o fewn y Fwrdeistref Sirol fel yr amlinellir yn SP18.
- 5.5.91 Diogelir cydrannau uchod y dreftadaeth adeiledig gan Ddeddfau Seneddol eraill ar wahân i'r Deddfau Cynllunio, yn fwyaf diweddar Deddf Amgylchedd Hanesyddol Cymru 2016 ynghyd â chyfres o ganllawiau cenedlaethol ac arfer gorau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gwerthfawrogi'r asedau treftadaeth hyn yn gryf, a dylai unrhyw gynigion datblygu sy'n effeithio ar unrhyw un o'r asedau hanesyddol uchod, neu leoliadau unrhyw un o'r rhain, roi ystyriaeth lawn i'r ddeddfwriaeth berthnasol ond ar wahân a'r canllawiau arfer gorau cenedlaethol. Diffinnir ardaloedd Cadwraeth ar lefel leol ac felly cynhwysir Polisi Rheoli Datblygiad *DNP11) i gefnogi SP18. Rhaid i'r datganiad dylunio a mynediad a / neu asesiad o'r effaith ar dreftadaeth a'r datganiad sy'n cyd-fynd ag unrhyw gais am ganiatâd cynllunio, lle y bo'n berthnasol, nodi'n glir sut mae'r datblygiad yn gydnaws â chadw, gwarchod neu wella asedau treftadaeth.
O ran amcanion sylfaenol y CDLI, bydd y fframwaith monitro yn caniatáu asesiad parhaus o'u dilysrwydd parhaus, neu a yw'r amgylchiadau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol sy'n bodoli wedi newid yn sylweddol ers paratoi'r cynllun. Yn ei hanfod, bydd y fframwaith monitro'n caniatáu asesiad o weithrediad strategaeth, polisiau a chynigion y CDLI Newydd. Bydd y gwaith monitro yn bwydo i mewn i Adroddiad Monitro Blynnyddol (AMB), a bydd hyn yn helpu i lywio Adolygiad Dilynol o'r Cynllun hefyd, a fydd yn digwydd o fewn pedair blynedd i fabwysiadu'r Cynllun.

Mae'r AMB yn hanfodol i asesu cynnydd y CDLI wrth weithredu'r polisiau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun, a bydd yn rhoi cyfle i'r Cyngor asesu'r polisiau yn erbyn y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Bydd yn cynnwys monitro cynlluniau a dogfennau cysylltiedig

hefyd sy'n nodi meysydd ble bydd newid posibl yn ystod cyfnod yr adolygiad. Gall yr AMB gynorthwyo'r Cyngor i:-

- Nodi lle nad yw rhai polisiâu'n llwyddo i gyflawni'r amcan a fwriadwyd;
- Nodi bylchau yn y sylfaen dystiolaeth, efallai drwy newid yn yr economi, y mae angen mynd i'r afael â hwy a'u hadlewyrchu yn y CDLI;
- Nodi meysydd llwyddiant; a
- Nodi'r camau y mae bwriad i'r Cyngor eu cymryd wrth unioni unrhyw faterion er mwyn sicrhau bod y polisi, neu unrhyw ddiwygiad sydd ei angen, yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

Mae'r Cyngor wedi llunio cyfres o dargedau a dangosyddion sy'n gweithredu fel meincnod y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn. Gall targedau ymwneud â chyflawni lefelau penodol o ddatblygiad a gellir eu pennu'n flynyddol neu dros dro o fewn cyfnod y cynllun. Y targed ar gyfer y cynllun cyfan yw cyflawni'r gwaith o weithredu'r strategaeth CDLI Newydd.

Dangosyddion Monitro

Mae'r fframwaith monitro'n nodi nifer o ddangosyddion sy'n sail ar gyfer asesu perfformiad y Cynllun. Fe'u datblygwyd yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn cynnwys cyfuniad o ddangosyddion gorfodol, penodol leol a chyd-destunol. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar bolisiâu allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r Cynllun, megis darparu tai, darparu tai fforddiadwy, defnydd tir cyflogaeth a darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r fframwaith monitro yn nodi'n glir pa amcanion, polisiâu a chynigion sy'n berthnasol i bob un o'r dangosyddion. Bydd hyn yn galluogi monitro strategaeth eang y Cynllun a'i bolisiâu allweddol, lle bo angen.

Targedau

Mae gan bob un o'r Dangosyddion uchod darged cyfatebol, sydd naill ai'n darged rhifiadol neu'n gyfeiriad penodol. Ym mhob achos, mae'r targedau wedi'u llunio er mwyn bod yn benodol, yn fesuradwy ac yn realistig. Yn gyffredinol, cyflwynir y targedau fel rhai rhifiadol (e.e. cartrefi i'w darparu), gofodol (e.e. % y twf mewn haenau anheddu penodol) neu gyd-destunol (e.e. tueddiadau demograffig).

Pwyntiau Sbardun

Mae'r dangosyddion a thargedau yn cynnwys pwyntiau sbardun hefyd i ddangos a yw rhan o'r cynllun yn methu â chyflawni'r canlyniad(au) a ddymunir. Os caiff y sbardunau hyn eu rhoi ar waith, yna bydd yr AMB yn ystyried y camau angenrheidiol sydd eu hangen o ganlyniad. Mae nifer o ddeilliannau y gallai'r Cyngor weithredu arnynt yn yr achos hwn. Byddant yn dibynnu ar y graddau nad yw'n ymddangos bod y targed wedi'i gyflawni a'r angen i weithredu ar agwedd benodol ar strategaeth y Cynllun, neu bolisi. Dyfeisiwyd pwyntiau sbardun i fod yn fesuradwy ac yn benodol er mwyn gallu nodi pryderon. Mewn achosion lle mae pwyntiau sbardun yn rhifiadol, ystyrir yn gyffredinol bod angen eu mesur dros ddwy flwyddyn yn olynol i weld a yw'n 'wyrriad' blwyddyn yn unig neu'n duedd tymor hwy. Bydd gwybodaeth gyd-destunol yn cael ei defnyddio yn yr AMB hefyd i werthuso ai'r Cynllun sy'n methu â chyflawni'r targedau mewn gwirionedd, neu os oes ffactorau allanol (fel

yr economi neu newidiadau mewn ffynonellau ariannu ac ati) sydd y tu hwnt i reolaeth y system gynllunio.

Monitro Camau Gweithredu

Os caiff pwyntiau sbarduno eu rhoi ar waith, yna bydd angen ymchwilio i'r rhesymau pam nad yw polisiau neu gynigion yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a/neu pam nad yw'r amcanion yn cael eu cyflawni. Bydd y broses o fonitro ac adolygu yn helpu i benderfynu pa gamau y gallai fod angen eu cymryd. Mae'r opsiynau canlynol ar gael i'r Cyngor mewn perthynas â phob un o'r dangosyddion a'u pwyntiau sbardun. Bydd yr AMB yn asesu difrifoldeb y sefyllfa sy'n gysylltiedig â phob dangosydd ac yn argymhell ymateb priodol. Mae camau cychwynnol dangosol tebygol wedi'u cynnwys yn y fframwaith monitro er hwylustod.

Parhau i Fonitro
Mae polisiau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n effeithiol.
Angen Hyfforddiant
Nid yw polisiau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen hyfforddiant i swyddogion neu Aelodau.
Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)
Nid yw polisiau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu'n ôl y bwriad ac mae angen canllawiau pellach, a pharatoi CCA ychwanegol o bosibl.
Angen Ymchwilio/ Gwaith Ymchwil Pellach
Nid yw polisiau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac mae angen gwaith ymchwil a/neu ymchwilio pellach.
Angen Adolygiad Polisi
Nid yw polisiau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid ydynt yn llwyddo i gyflawni; efallai y bydd angen adolygu'r polisi penodol.
Adolygu'r Cynllun
Nid yw polisiau'r cynllun datblygu'n cael eu gweithredu ac nid yw strategaeth y cynllun yn cael ei chyflawni, gan sbarduno adolygiad ffurfiol cyn yr adolygiad pedair blynedd statudol.

Fframwaith Monitro

Amcan: Pob Amcan Strategol (Fframwaith Strategol, Strategaeth Adfywio a Thwf)					
Polisiâu / cynigion allweddol	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell Gwybodaeth	Cam Gweithredu
SF1: Hierarchaeth Aneddiadau a Rheolaeth Drefol SP1: Strategaeth Adfywio a Thwf Cynaliadwy SP2: Dyraniadau Strategol Ardal Twf Adfywio ac Ardal Twf Cynaliadwy	1: Dosbarthiad gofodol datblygu tai	Ffigurau cwblhau tai blynyddol i fodloni'r strategaeth dwf a'r hierarchaeth aneddiadau fel y nodir yn nhabl 6 (Pennod 5).	Amrywiad o 10% o'r dosbarthiad disgwylledig am o leiaf ddwy flwyddyn yn olynol.	Camau gwaith y taflwybr tai. AMB Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio pellach.

Amcan: Amcan Strategol 1, 'Creu Mannau Cynaliadwy o Ansawdd Uchel (Creu Lleodedd).'					
Polisiâu / cynigion allweddol	Dangosyddion	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell Gwybodaeth	Cam Gweithredu
SP3: Dylunio Da a Chreu Lleodedd Cynaliadwy	2: Ceisiadau a ganiatawyd heb fod yn unol â Pholisi SP3: Dylunio Da a Chreu Lleodedd Cynaliadwy	Dim un cais yn groes i Bolisi SP3 wedi'i ganiatáu.	Un cais yn groes i Bolisi SP3 wedi'i ganiatáu yn ystod dwy flwyddyn olynol.	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio pellach. Angen hyfforddiant

PLA1: Ardal Adfywio Glannau Porthcawl, Ardal Twf Adfywio Porthcawl	3a: Nifer yr anheddau a gyflenwyd. 3b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd a gyflenwyd.	Ffigurau cwblhau yn unol â chamau'r taflwybr tai. Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd a gyflenwyd yn unol â PLA1.	Ffigurau cwblhau blynyddol yn is na'r taflwybr a ragwelwyd am ddwy flwyddyn yn olynol. Seilwaith na chafodd ei gyflenwi yn unol â Pholisi PLA1.	Taflwybr Tai, Cytundeb Adran 106	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
PLA2: Tir i'r de o Ben-y-bont ar Ogwr (Island Farm), Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr	4a: Nifer yr anheddau a gyflenwyd. 4b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd a gyflenwyd.	Ffigurau cwblhau yn unol â chamau'r taflwybr tai. Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd a gyflenwyd yn unol â PLA2.	Ffigurau cwblhau blynyddol yn is na'r taflwybr a ragwelwyd am ddwy flwyddyn yn olynol. Seilwaith na chafodd ei gyflenwi yn unol â Pholisi PLA2.	Taflwybr Tai, Cytundeb Adran 106	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
PLA3: Tir i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr	5a: Nifer yr anheddau a gyflenwyd. 5b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd a gyflenwyd.	Ffigurau cwblhau yn unol â chamau'r taflwybr tai. Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd a gyflenwyd yn unol â PLA3.	Ffigurau cwblhau blynyddol yn is na'r taflwybr a ragwelwyd am ddwy flwyddyn yn olynol. Seilwaith na chafodd ei gyflenwi yn unol â Pholisi PLA3.	Taflwybr Tai, Cytundeb Adran 106	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
PLA4: Tir i'r dwyrain o Ben-coed, Ardal Twf Cynaliadwy Pen-coed	5a: Nifer yr anheddau a gyflenwyd. 5b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion	Ffigurau cwblhau yn unol â chamau'r taflwybr tai. Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd a	Ffigurau cwblhau blynyddol yn is na'r taflwybr a ragwelwyd am ddwy flwyddyn yn olynol.	Taflwybr Tai, Cytundeb Adran 106	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.

	Creu Lleoedd a gyflenwyd.	gyflenwyd yn unol â PLA4.	Seilwaith na chafodd ei gyflenwi yn unol â Pholisi PLA4.		
PLA5: Tir i'r dwyrain o'r Pîl, Ardal Twf Cynaliadwy y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli	6a: Nifer yr anheddau a gyflenwyd. 6b: Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd a gyflenwyd.	Ffigurau cwblhau yn unol â chamau'r taflwybr tai. Gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleoedd a gyflenwyd yn unol â PLA5.	Ffigurau cwblhau blynyddol yn is na'r taflwybr a ragwelwyd am ddwy flwyddyn yn olynol. Seilwaith na chafodd ei gyflenwi yn unol â Pholisi PLA5.	Taflwybr Tai, Cytundeb Adran 106	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP4: Lliniaru Effaith Newid Hinsawdd	7: Cyfanswm y datblygiadau nad ydynt yn bodloni pob prawf TAN 15 a ganiatawyd mewn ardaloedd Gorlifdir C1	Dim un cais wedi'i gymeradwyo o fewn ardaloedd Gorlifdir C1 oni bai bod pob prawf TAN 15 yn cael ei fodloni.	Un neu fwy o geisiadau datblygu nad ydynt yn bodloni pob prawf TAN 15 wedi'u caniatáu yn ystod unrhyw un flwyddyn.	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant
SP4: Lliniaru Effaith Newid Hinsawdd	8: Graddfa/math o ddatblygiad agored iawn i niwed wedi'i ganiatáu mewn ardaloedd perygl llifogydd C2.	Dim un cais perthnasol wedi'i ganiatáu o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2.	Un cais am ddatblygiad agored iawn i niwed o fewn Gorlifdir C2 wedi'i ganiatáu yn ystod unrhyw un flwyddyn.	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant
SP5: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd	9: Ceisiadau a ganiatawyd heb fod yn unol â Pholisi SP5: Trafnidiaeth	Dim un cais yn groes i Bolisi SP5 wedi'i ganiatáu.	Un cais yn groes i Bolisi SP5 wedi'i ganiatáu yn ystod unrhyw un flwyddyn.	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.

	Gynaliadwy a Hygyrchedd.				Angen hyfforddiant
--	--------------------------	--	--	--	--------------------

Amcan: Amcan Strategol 2, 'Creu Cymunedau Egnïol, Iach, Cydlynus a Chymdeithasol'					
Polisiâu / cynigion allweddol	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell Gwybodaeth	Cam Gweithredu
SP6: Strategaeth Tai Cynaliadwy	10: Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLI.	Cyfanswm cyfradd adeiladu flynyddol o 505 o anheddau'r flwyddyn, y mae 132 ohonynt yn unedau tai fforddiadwy.	Cyflawniad islaw cyfradd / targed adeiladu blynyddol y Cynllun am o leiaf ddwy flwyddyn yn olynol.	AMB Taflwybr Tai	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP6: Strategaeth Tai Cynaliadwy	11: Lefel flynyddol y tai a gwblhawyd wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (AABR).	Ffigurau cwblhau tai blynyddol yn unol â'r AABR o fewn y taflwybr tai mabwysiedig.	Cyflawniad islaw'r AABR am o leiaf ddwy flwyddyn yn olynol.	AMB Taflwybr Tai	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP6: Strategaeth Tai Cynaliadwy	12: Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi'i monitro yn erbyn y gyfradd gwblhau gronol ddisgwyliedig o fewn y taflwybr tai mabwysiedig.	Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd yn unol â'r gyfradd gwblhau gronol ddisgwyliedig o fewn y taflwybr tai mabwysiedig.	Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd islaw'r gyfradd gwblhau gronol ddisgwyliedig am o leiaf ddwy flwyddyn yn olynol.	AMB Taflwybr Tai	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.

SP6: Strategaeth Tai Cynaliadwy COM2: Tai Fforddiadwy	13: Lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi'u monitro yn erbyn targed cyffredinol y cynllun.	Tai fforddiadwy a gwblhawyd yn flynyddol drwy'r system gynllunio yn unol â'r gyfradd darged a nodwyd yn SP6 a COM2.	Amrywiad o 10% o'r targed disgwyledig am o leiaf ddwy flwyddyn yn olynol, oni bai bod asesiadau hyfywedd penodol i safle yn dangos yn gadarn bod angen gwriad er mwyn gallu darparu safleoedd.	AMB Taflwybr Tai	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP6: Strategaeth Tai Cynaliadwy COM2: Tai Fforddiadwy	14: Deiliadaeth tai fforddiadwy a gwblhawyd.	Deiliadaeth tai fforddiadwy a gwblhawyd yn flynyddol i fodloni'r angen a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ddiweddaraf.	Tai fforddiadwy a gwblhawyd yn gwro oddi wrth yr hollt ddeiliadaeth a nodwyd yn yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol ddiweddaraf am o leiaf ddwy flwyddyn yn olynol.	AMB Taflwybr Tai Asesiad o'r Farchnad Dai Leol	Parhau i fonitro. Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant.
SP6: Strategaeth Tai Cynaliadwy COM2: Tai Fforddiadwy COM3: Darparu Tai Fforddiadwy ar Safle	15: Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy – trothwyon a thargedau canrannol ar gyfer pob maes is-farchnad.	Tai fforddiadwy a gwblhawyd yn flynyddol yn unol â'r targedau polisi a throthwyon a ddiffinnir yn COM3 a PLA1-5.	Amrywiad o 10% o'r targed disgwyledig am o leiaf ddwy flwyddyn yn olynol, oni bai bod asesiadau hyfywedd penodol i safle yn dangos yn gadarn bod angen gwriad er mwyn gallu darparu safleoedd.	AMB Taflwybr Tai	Parhau i fonitro. Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP6: Strategaeth Tai Cynaliadwy	16: Hyfywedd – tueddiadau ym mhrisiau tai, gwerth tir, costau adeiladu.	Dim targed.	Dim pwynt sbardun.	Bydd y Cyngor yn monitro ac yn cofnodi'r holl newidynnau hyfywedd datblygu a gyflwynwyd yn ystod unrhyw werthusiadau penodol i safle	Parhau i fonitro

				a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.	
SP7: Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn COM8: Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn	17: Ffigurau cwblhau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen a nodwyd.	Angen a nodwyd gan Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) (2020) i'w fodloni'n llawn erbyn 2033.	Dim caniatâd cynllunio ar safleoedd dynodedig lle mae angen sydd heb ei ddiwallu yn dal i fodoli.	Cofrestr Gynllunio Adolygiad Cydymffurfio Blynnyddol	Adolygu canfyddiadau Adolygiadau Cydymffurfio Blynnyddol a diweddariadau GTAA. Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio pellach.
COM8: Llety Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn	18: Diwallu unrhyw angen newydd sy'n codi am safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn sy'n codi y tu allan i'r GTAA.	Diwallu'r angen yn unol â COM8 a Chylchlythyr 005/2018.	Y ddarpariaeth heb ei diwallu yn unol â Pholisi COM8.	Cofrestr Gynllunio	Parhau i fonitro. Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant.
SP9: Seilwaith Cymdeithasol a Chymunedol SP10: Seilwaith	19: Nifer y cyfleusterau cymunedol a gollwyd drwy ddatblygiad.	Dim ceisiadau wedi'u caniatáu ar gyfer datblygiadau sy'n groes i SP9 sydd â'r potensial i arwain at golled annerbyniol o gyfleusterau cymunedol mewn ardaloedd lle mae angen.	Un neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu nad oeddent yn unol â SP9.	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant.

Amcan: Amcan Strategol 3, 'Creu Mannau Cynhyrchiol a Mentrus'					
Polisiâu / cynigion allweddol	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell Gwybodaeth	Cam Gweithredu
SP11: Strategaeth Tir Cyflogaeth ENT1: Dyraniadau Cyflogaeth	20: Hawliadau tir cyflogaeth yn erbyn dyraniadau.	Hawliad tir cyflogaeth yn unol â SP11.	Hawliad tir cyflogaeth yn ôl hectar ar safleoedd cyflogaeth dynodedig am o leiaf ddwy flwyddyn yn olynol.	Arolwg Tir Cyflogaeth Blynnyddol Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro. Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP11: Strategaeth Tir Cyflogaeth ENT1: Dyraniadau Cyflogaeth	21: Galluogi twf swyddi.	Cyflenwi hyd at 500 o swyddi newydd y flwyddyn yn unol â SP11.	Amrywiad o 10% o'r targed disgwylidig am o leiaf dair blwyddyn yn olynol, gan ganiatáu ar gyfer adferiad wedi'r pandemig.	Arolwg Tir Cyflogaeth Blynnyddol Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro. Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP12: Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth ENT6: Datblygiadau Manwerthu a Masnachol ENT9: Datblygiadau Manwerthu y tu allan i Ganolfannau	22: Cyfanswm datblygiadau manwerthu mawr (metr sgwâr) wedi'u caniatáu y tu allan i ffiniau trefi a chanolfannau lleol sefydledig.	Dim datblygiadau manwerthu mawr (metr sgwâr) wedi'u caniatáu y tu allan i ffiniau trefi a chanolfannau lleol sefydledig.	Un neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu ar gyfer datblygiadau manwerthu mawr yn groes i Bolisi ENT9 yn ystod unrhyw un flwyddyn.	Monitro Rheoli Datblygu	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant.

Manwerthu a Masnachol					
SP12: Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth	23: Cyfraddau eiddo masnachol gwag blynyddol yng nghanol trefi'r Fwrdeistref Sirol.	Cyfraddau eiddo masnachol gwag yng nghanol trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg neu Borthcawl yn parhau'n is na 15% drwy gydol cyfnod y cynllun.	Cyfraddau eiddo masnachol gwag yng nghanol trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Maesteg neu Borthcawl yn cynyddu i fwy na 15%.	Adroddiad Blynyddol Canolfannau Manwerthu a Masnachol	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP12: Canolfannau Manwerthu, Masnachol a Gwasanaeth ENT7: Datblygiadau mewn Canolfannau Masnachol	24: Cyfran y defnyddiau manwerthu A1 yn y Prif Barthau Siopa	60% neu fwy o unedau yn y Prif Barthau Siopa mewn defnydd A1.	Llai na 60% o unedau yn y Prif Barthau Siopa mewn defnydd A1 .	Adroddiad Blynyddol Canolfannau Manwerthu a Masnachol Ceisiadau Cynllunio	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP13: Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy ENT10: Technolegau Gwresogi Carbon Isel ar gyfer Datblygiadau Newydd (Gwresogi Ardal)	25: Nifer y ceisiadau cynllunio mawr gydag 'Uwchgynllun Ynni' wedi'i atodi yn unol â Pholisi ENT10.	100% o'r holl geisiadau cynllunio mawr gydag 'Uwchgynllun Ynni' wedi'i atodi yn unol â Pholisi ENT10.	Un neu fwy o geisiadau cynllunio mawr wedi'u caniatáu heb 'Uwchgynllun Ynni' yn unol â Pholisi ENT10 yn ystod unrhyw un flwyddyn.	Monitro Rheoli Datblygu	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.

SP13: Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy	26: Nifer a chapasiti (MW) y datblygiadau adnewyddadwy, carbon isel a dim carbon a gymeradwywyd / a weithredwyd.	Targedau ar gyfer defnyddio adnoddau ar sail ardal yn unol â Thabl 10, Pennod 5.	Dim ceisiadau wedi'u caniatáu na'u gweithredu o fewn 5 mlynedd.	Monitro Rheoli Datblygu	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP14: Datblygu Adnoddau Mwynol yn Gynaliadwy	27: Banc tir cyfanredol agregau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn blynyddoedd.	Cynnal adnodd agregau am o leiaf 10 mlynedd.	Banc tir o gronfeydd agregau a ganiateir o lai na 10 mlynedd yn ystod unrhyw un flwyddyn.	Datganiad Technegol Rhanbarthol Monitro Rheoli Datblygu	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
SP14: Datblygu Adnoddau Mwynol yn Gynaliadwy ENT13: Datblygu mewn Ardaloedd Diogelu Mwynol	28: Cyfanswm y datblygiadau sterileiddio parhaol a ganiateir o fewn Ardal Diogelu Mwynol.	Dim ceisiadau wedi'u caniatáu i ddatblygu o fewn Ardaloedd Diogelu Mwynol yn groes i Bolisi ENT13.	Un neu fwy o geisiadau datblygu wedi'u caniatáu o fewn Ardal Diogelu Mwynol yn groes i Bolisi ENT13 yn ystod unrhyw un flwyddyn.	Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP) Monitro Rheoli Datblygu	Parhau i fonitro Angen archwilio / adolygu pellach.
SP15: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy	29: Capasiti i ymdopi â gwastraff y Fwrdeistref Sirol.	Cynnal digon o gapasiti i ymdopi â gwastraff y Fwrdeistref Sirol (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol) yn unol â TAN 21.	Pwyntiau sbardun i'w sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN 21.	Cofrestr gynllunio	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.

SP16: Twristiaeth	30: Nifer yr ymwelwyr blynyddol â'r Fwrdeistref Sirol.	Cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer yr ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol	Gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â'r Fwrdeistref Sirol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.	Monitor Gweithgaredd Economaidd Twristiaeth Scarborough (STEAM) Monitro Rheoli Datblygu	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.
ENT18: Diogelu Llety Twristiaeth Presennol	31: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth neu hamdden.	Dim ceisiadau wedi'u caniatáu yn groes i Bolisi ENT18 a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth neu hamdden heb gyfiawnhad.	Un neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu yn groes i Bolisi ENT18	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.

Amcan: Amcan Strategol 4, 'Gwarchod a Gwella ein Mannau Naturiol ac Unigryw'					
Polisiau / cynigion allweddol	Dangosydd	Targed	Pwynt Sbardun	Ffynhonnell Gwybodaeth	Cam Gweithredu
SP17: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol DNP1: Datblygu yng Nghefn Gwlad	32: Cyfanswm y tir gwledig (hectarau) a gollwyd i ddatblygiadau sy'n cael eu caniatáu drwy gais gwro i Bolisi DNP1.	Dim tir gwledig wedi'i golli i ddatblygiadau sy'n cael eu caniatáu drwy gais gwro i Bolisi DNP1.	Un neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu nad oeddent yn unol â Pholisi DNP1.	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant.
DNP4: Ardaloedd Tirwedd Arbennig	33: Nifer y datblygiadau a ganiatawyd gyda'r	Dim ceisiadau wedi'u caniatáu i ddatblygu yn groes	Un neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu nad	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro

	potensial i gael effaith andwyol ar Ardal Tirwedd Arbennig.	i Bolisi DNP4 a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig.	oeddent yn unol â Pholisi DNP4.		Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant.
SP17: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol DNP5: Safleoedd Cadwraeth Natur Lleol a Rhanbarthol	34: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n achosi niwed i werth cadwraeth cyffredinol Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig, Safleoedd Daearegol Rhanbarthol Pwysig a Gwarchodfeydd Natur Lleol.	Dim ceisiadau wedi'u caniatáu i ddatblygu yn groes i Bolisi DNP5	Un neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu nad oeddent yn unol â Pholisi DNP5	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant.
SP17: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol DNP6: Cynefinoedd a Rhywogaethau	35: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n achosi niwed i Gynefinoedd neu Rywogaethau a warchodir yn gyfreithiol.	Dim ceisiadau wedi'u caniatáu i ddatblygu yn groes i Bolisi DNP6	Un neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu nad oeddent yn unol â Pholisi DNP6	Monitro Rheoli Datblygu.	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach. Angen hyfforddiant.
SP18: Gwarchod yr Amgylchedd Hanesyddol	36: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd nad ydynt yn diogelu nac yn	Dim ceisiadau wedi'u caniatáu i ddatblygu yn groes i Bolisi DNP10 sydd â'r potensial i	Un neu fwy o geisiadau cynllunio wedi'u caniatáu yn groes i Bolisi DNP10	Ceisiadau Cynllunio	Parhau i fonitro Angen archwilio / ymchwilio / adolygu pellach.

DNP10: Amgylchedd Hanesyddol Adeiledig ac Adeiladau Rhestredig DNP11: Ardaloedd Cadwraeth	gwella Tirweddau, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth neu Adeiladau Rhestredig.	effeithio ar Dirweddau, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth neu Adeiladau Rhestredig; neu ble mae gwrthwynebiad yn parhau gan dîm Cadwraeth a Dylunio'r Cyngor, CADW neu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent (GGAT).	o fewn cyfnod o un flwyddyn.		Angen hyfforddiant.
--	---	--	---------------------------------	--	------------------------

Cysylltiadau â'r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)/Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG)

Fel yr amlinellwyd yn yr Adroddiad AG, er eu bod yn ymwneud â phynciau unigol, mae pedwar Amcan Strategol ac Amcanion ategol y CDLI Newydd yn rhoi sylw cryf i'r Amcanion AG. O'r herwydd, mae synergeddau clir rhwng Proses Fonitro'r AG/AAS a Phroses Fonitro'r CDLI, sydd wedi cael eu hystyried i'r eithaf drwy ystyried y 14 Amcan SA/AAS wrth ddatblygu'r Fframwaith Monitro CDLI hwn.

Felly, yn ogystal â monitro cyflawni'r cynllun a'i effeithiolrwydd, mae'r Fframwaith Monitro'n cynnwys mecanweithiau penodol i fonitro effeithiau sylweddol tebygol y CDLI Newydd ar yr amgylchedd, fel y rhagwelwyd drwy'r broses AG. Mae hyn yn cynnwys mecanweithiau i fonitro a yw egwyddorion datblygu'r uwchgynllun (Polisiâu PLA1-5) a lliniaru lefel polisi'r AG (SP1 ac Atodlenni 6) yn cael eu gweithredu'n briodol wedyn drwy:

- Gymhwyso polisiâu pwnc perthnasol wrth wneud penderfyniadau;
- Darparu asesiadau technegol perthnasol i gefnogi cynigion datblygu ar safleoedd a ddyrannwyd; a
- Lle bo angen, gweithredu mesurau lliniaru ffisegol priodol gan ymgeiswyr sydd am ddatblygu'r safleoedd hyn.

Mae'r Fframwaith Monitro'n cynnwys mecanweithiau hefyd i asesu a yw polisiâu allweddol sy'n hanfodol i gyflawni'r Cynllun yn cael eu gweithredu'n unol â'u bwriad a heb unrhyw ganlyniadau andwyol na chafodd eu rhagweld. Yn benodol, bydd 14 Amcan yr AG yn cael eu hasesu yn erbyn y dangosyddion a nodwyd fel y rhai mwyaf perthnasol, y manylir yn eu cylch drosodd.

Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG)	Dangosyddion y Fframwaith Monitro CDLI Newydd
1. Iechyd a Lles: Gwella iechyd a lles y boblogaeth, gan gynnwys o ran iechyd corfforol a meddyliol, lles cymdeithasol a diogelwch cymunedol.	• 2: Ceisiadau a ganiatawyd heb fod yn unol â Pholisi SP3: Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy • 19: Nifer y cyfleusterau cymunedol a gollwyd drwy ddatblygiad. • 36: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd nad ydynt yn diogelu nac yn gwella Tirweddau, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth neu Adeiladau Rhestredig.
2. Cydraddoldeb a Chynhwysiant Cymdeithasol: Lleihau tlodi ac anghydraddoldeb, mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol, gan gynnwys drwy wella mynediad i gyfleusterau cymunedol.	• 2: Ceisiadau a ganiatawyd heb fod yn unol â Pholisi SP3: Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy • 14: Deiliadaeth tai fforddiadwy a gwblhawyd. • 17: Ffigurau cwblhau safleoedd Sipsiwn a Theithwyr i ddiwallu'r angen a nodwyd. • 18: Diwallu unrhyw angen newydd sy'n codi am safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn sy'n codi y tu allan i'r GTAA. • 19: Nifer y cyfleusterau cymunedol a gollwyd drwy ddatblygiad.
3. Cyflogaeth a Sgiliau: Cynyddu nifer ac ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth i ddiwallu anghenion a nodwyd, tra'n gwella lefel cyrhaeddiad a sgiliau addysgol ymhlith preswylwyr.	• 20: Hawliadau tir cyflogaeth yn erbyn dyraniadau. • 21: Galluogi twf swyddi. • 23: Cyfraddau eiddo masnachol gwag blynyddol yng nghanol trefi'r Fwrdeistref Sirol.
4. Trafnidiaeth a Chyfathrebu: Gwella hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus, cyfleoedd economaidd a marchnadoedd drwy wella seilwaith a chreu rhwydwaith trafndiaeth gynaliadwy, tra'n sicrhau mynediad at gyfathrebu a chyfleustodau o ansawdd uchel ar yr un pryd.	• 9: Ceisiadau a ganiatawyd heb fod yn unol â Pholisi SP5: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd. • 23: Cyfraddau eiddo masnachol gwag blynyddol yng nghanol trefi'r Fwrdeistref Sirol.

	• 24: Cyfran y defnyddiau manwerthu A1 yn y Prif Barthau Siopa
5. Tai: Darparu cyfanswm ac amrywiaeth digonol o dai fforddiadwy o ansawdd da mewn lleoliadau cynaliadwy i ddiwallu anghenion a nodwyd.	• 1: Dosbarthiad gofodol datblygu tai • 10: Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLI. • 11: Lefel flynyddol y tai a gwblhawyd wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol a Ragwelir (AABR). • 12: Cyfanswm cronol y tai a gwblhawyd wedi'i monitro yn erbyn y gyfradd gwblhau gronol ddisgwyliedig. • 13: Lefel y tai fforddiadwy a gwblhawyd wedi'u monitro yn erbyn targed cyffredinol y cynllun. • 14: Deiliadaeth tai fforddiadwy a gwblhawyd. • 15: Cyflawni'r polisi tai fforddiadwy – trothwyon a thargedau canrannol ar gyfer pob maes is-farchnad.
6. Twf Economaidd: Sicrhau twf economaidd cynaliadwy a chynyddu i'r eithaf gyfraniad economaidd ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr at Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys drwy arallgyfeirio a chryfhau'r sylfaen economaidd leol.	• 1: Dosbarthiad gofodol datblygu tai • 10: Nifer yr anheddau fforddiadwy a marchnad ychwanegol net a adeiladwyd yn ardal yr ACLI. • 16: Hyfywedd – tueddiadau ym mhrisiau tai, gwerth tir, costau adeiladu. • 21: Galluogi twf swyddi.
7. Ansawdd Aer: Atal a lleihau allyriadau a chrynodiadau o lygryddion atmosfferig niweidiol a lleihau amlygiad i ansawdd aer gwael i'r eithaf.	• 9: Ceisiadau a ganiatawyd heb fod yn unol â Pholisi SP5: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd. • 26: Nifer a chapasiti (MW) datblygiadau adnewyddadwy, carbon isel a dim carbon
8. Newid yn yr Hinsawdd: Mabwysiadu mesurau lliniaru ac addasu priodol i leihau ac ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd.	• 7: Cyfanswm y datblygiadau nad ydynt yn bodloni pob prawf TAN 15 a ganiatawyd mewn ardaloedd Gorlifdir C1 • 8: Graddfa/math o ddatblygiad agored iawn i niwed a ganiateir mewn ardaloedd perygl llifogydd C2.

	• 9: Ceisiadau a ganiatawyd heb fod yn unol â Pholisi SP5: Trafnidiaeth Gynaliadwy a Hygyrchedd. • 25: Nifer y ceisiadau cynllunio mawr gydag 'Uwchgynllun Ynni' wedi'i atodi yn unol â Pholisi ENT10 • 26: Nifer a capasiti (MW) datblygiadau adnewyddadwy, carbon isel a dim carbon
9. Bioamrywiaeth, Geoamrywiaeth a Phridd: Gwarchod, diogelu a gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth, gan gynnwys drwy ddiogelu safleoedd a rhywogaethau pwysig, gwella'r ddarpariaeth seilwaith gwyrdd a diogelu adnoddau pridd pwysig.	• 27: Banc tir cyfanredol agregau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn blynyddoedd. • 28: Cyfanswm y datblygiadau sterileiddio parhaol a ganiateir o fewn Ardal Diogelu Mwynol. • 32: Cyfanswm y tir gwledig (hectarau) a gollwyd i ddatblygiadau sy'n cael eu caniatáu drwy gais gwyrdd i Bolisi DNP1. • 35: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n achosi niwed i Gynefinoedd neu Rywogaethau a warchodir yn gyfreithiol.
10. Perygl Dŵr a Llifogydd: Gwarchod, diogelu a gwella amgylcheddau dŵr ac arfordirol, ansawdd dŵr ac adnoddau dŵr, tra'n lleihau'r perygl o lifogydd. Rhaid lleoli datblygiadau er mwyn peidio â chynyddu'r perygl o lifogydd, a dylid eu llywio i ffwrdd o'r ardaloedd sy'n wynebu'r risg fwyaf.	• 7: Cyfanswm y datblygiadau nad ydynt yn bodloni pob prawf TAN 15 a ganiatawyd mewn ardaloedd Gorlifdir C1 • 8: Graddfa/math o ddatblygiad bregus iawn a ganiateir mewn ardaloedd perygl llifogydd C2.
11. Deunyddiau a Gwastraff: Cyfrannu at weithredu'r economi gylchol, rheoli gwastraff gyda'r effaith amgylcheddol lleiaf posibl a sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu defnyddio'n gynaliadwy, gan gynnwys ar gyfer cynhyrchu ynni a darparu cyflenwad digonol o fwynau a deunyddiau ar gyfer adeiladu.	• 27: Banc tir cyfanredol agregau Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mewn blynyddoedd. • 28: Cyfanswm y datblygiadau sterileiddio parhaol a ganiateir o fewn Ardal Diogelu Mwynol. • 29: Capasiti i ymdopi â gwastraff y Fwrdeistref Sirol.
12. Creu Lleoedd Cynaliadwy: Gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o dir a seilwaith, a gwella ansawdd dylunio er mwyn creu lleoedd gwych i bobl.	• 2: Ceisiadau a ganiatawyd heb fod yn unol â Pholisi SP3: Dylunio Da a Chreu Lleoedd Cynaliadwy

	• 3a-6a: Nifer yr anheddau a gyflenwyd ar Safleoedd Defnydd Cymysg Strategol • 3b-6b: Cyflawni gofynion seilwaith ac egwyddorion Creu Lleodedd ar Safleoedd Defnydd Cymysg Strategol. • 22: Cyfanswm datblygiadau manwerthu mawr (metr sgwâr) a ganiateir y tu allan i ffiniau trefi a chanolfannau lleol sefydledig.
13. Treftadaeth Ddiwylliannol: Gwarchod, diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol ac asedau diwylliannol, gan gynnwys defnyddio'r Gymraeg.	• 30: Nifer yr ymwelwyr blynyddol â'r Fwrdeistref Sirol. • 31: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n arwain at golli cyfleusterau twristiaeth neu hamdden. • 36: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd nad ydynt yn diogelu nac yn gwella Tirweddau, Parciau a Gerddi Cofrestredig, Henebion Cofrestredig, Ardaloedd Cadwraeth neu Adeiladau Rhestredig.
14. Tirwedd: Diogelu a gwella cymeriad tirwedd, amwynder gweledol ac eglurder aneddiadau yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.	• 32: Cyfanswm y tir gwledig (hectarau) a gollwyd i ddatblygiadau sy'n cael eu caniatáu drwy gais gwyro i Bolisi DNP1. • 33: Nifer y datblygiadau a ganiatawyd gyda'r potensial i gael effaith andwyol ar Ardal Tirwedd Arbennig. • 34: Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd a fyddai'n achosi niwed i werth cadwraeth cyffredinol Safleoedd Cadwraeth Natur Pwysig, Safleoedd Daearegol Rhanbarthol Pwysig a Gwarchodfeydd Natur Lleol.

Atodiad 5: Gweithredu a Chyflawni

Gweithredu a Chyflawni

Diben yr Atodiad Gweithredu a Chyflawni yw nodi'r materion, y cyfyngiadau, y camau cyflawni a'r mesurau lliniaru allweddol sy'n ofynnol i gyflawni'r cynigion yn y CDLI, sy'n sail i bennu dangosyddion monitro a sbardunau. Mae'n cynnwys disgrifiad cryno o'r safleoedd allweddol, ynghyd â throsolwg o'r materion cyflawni a gweithredu ar gyfer safleoedd penodol, yn cynnwys cyfyngiadau safle, mesurau lliniaru / digolledu angenrheidiol a gofynion polisi / rhwymedigaethau a106 / seilwaith.

Bydd y wybodaeth hon yn egluro gofynion safleoedd allweddol o ran seilwaith ac yn rhoi gwybod i ddatblygwyr posibl am ddisgwyliadau wrth gyflwyno safleoedd yn y cam cais cynllunio gyda'r holl wybodaeth berthnasol yn hysbys. Bydd pob parti'n gwybod, ymlaen llaw, beth fydd i'w ddisgwyl ac o ganlyniad dylid ei gynnwys yng nghostau cyflwyno safleoedd o'r cychwyn cyntaf.

SP2(1) / PLA1: Ardal Adfywio Glannau Porthcawl, Ardal Twf Adfywio Porthcawl

Enw /Cyfeirnod Dyraniad Safle	Maint y Safle (ha)	Math o Ddyraniad (Tai, Cyflogaeth, Defnydd Cymysg)	Cyfanswm Unedau (Preifat a Fforddiadwy) Unedau P ac Ff	Cyfnodau Camau Cyflawni
PLA1: Ardal Adfywio Glannau Porthcawl, Ardal Twf Adfywio Porthcawl	41.72 ha	Safle Adfywio Defnydd Cymysg Strategol	1,115 o unedau preswyl 335 o unedau fforddiadwy	2018-2022: 0 2023-2027: 420 2028-2033: 600
Disgrifiad o'r Safle				
Mae Glannau Porthcawl yn safle tir llwyd 41.72 hectar segur mewn lleoliad amlwg ar lan y môr. Mae'n ymestyn o faes carafannau Trecco Bay a Rhych Point yn y dwyrain i'r harbwr presennol a chanol y dref yn y gorllewin, ac mae'r tir yn cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd wahanol ar hyn o bryd gan gynnwys Maes Carafannau Sandy Bay a oedd yn arfer bod yn eiddo i'r Cyngor, y ffair, yr harbwr, mannau agored/cyfleusterau hamdden a Maes Parcio Salt Lake. Lleolir y safle o fewn 6.4km (4 milltir) i gyffordd 37 yr M4 ac mae wedi'i gysylltu gan yr A4229. Mae'r A4106 yn cysylltu Porthcawl â Phen-y-bont ar Ogwr (drwy'r A48) sydd tua 11-12km (7-8 milltir) i'r dwyrain. Mae Parc Gwyliau Trecco Bay yn union drws nesaf i ffin ddwyreiniol y safle.				
Prif Broblemau a Chyfyngiadau'r Safle				
<u>Priffyrdd a Chludiant</u>				
<u>Gwelliannau Teithio Llesol</u>				

Mae darparu teithio llesol o fewn y cynllun yn ofyniad seilwaith allweddol y bydd disgwyl i gynigion y dyfodol eu cyflawni, o ran darparu digon o arwynebedd tir ac ariannu costau llwybrau teithio llesol newydd. Disgwylir i'r gofynion teithio llesol yn yr ardal adfywio hwyluso'r defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio ar draws y safle, o'r dwyrain i'r gorllewin ac o'r gogledd i'r de. Yn ogystal â hwyluso'r defnydd o ddulliau trafndiaeth cynaliadwy o fewn y safle, bydd disgwyl i unrhyw gynig sy'n dod i law wella cysylltedd llesol â chanol presennol y dref ac anheddiad ehangach Porthcawl. Rhaid cysylltu â'r llwybr teithio llesol presennol PORC3 a dylid darparu llwybrau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig o fewn Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-POR-12, INM-POR-13, INM-POR-14, INM-POR-15, INM-POR-17 ac INM-POR-18.

Ffordd Fynediad a Chylchfan Newydd

Er mwyn darparu digon o gapasiti i gefnogi mynediad i gerbydau i Sandy Bay, bydd angen cylchfan newydd ym Mharc Griffin yn ardal ddwyreiniol y safle adfywio nesaf at ffordd fynediad newydd. Mae costau dangosol ac aliniad y seilwaith priffyrdd hwn wedi'u llywio gan ddyluniad cychwynnol a baratowyd gan beirianwyr priffyrdd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a ddefnyddiwyd i lywio'r cynllun dangosol hwnnw o'r ardal adfywio a llywio hyfywedd y cynllun. Disgwylir y bydd gwaith manwl pellach yn cael ei gwblhau mewn perthynas ag aliniad, manyleb a chostau terfynol y seilwaith priffyrdd hwn pan fydd cynigion manylach yn cael eu cyflwyno.

Gorsaf Fysiau

Mae'r Cyngor wedi gwneud gwaith dichonoldeb i archwilio cynigion i greu gorsaf fysiau yn Ardal Adfywio Porthcawl. Mae'r prosiect gorsaf fysiau hwn yn cael ei gyflwyno mewn cysylltiad â phrosiect CCR Metro Plus ac fe'i hystyrir yn elfen allweddol o'r cynlluniau adfywio ehangach. Mae gan yr Awdurdod awydd cryf i hwyluso a mynd ati o ddifrif i annog symudiad moddol tuag at ddefnyddio mwy o Drafnidiaeth Gyhoeddus ac mae darparu gorsaf fysiau newydd yn rhan annatod o hyn yn ogystal â bod yn rhan o gynllun ehangach Cymru'r Dyfodol.

Datganiad Trafnidiaeth

Mae Jacobs wedi cwblhau asesiad manwl i gefnogi cynigion yr ardal adfywio (amgaeir yr adroddiad yn Atodiad D). Roedd yr asesiad hwn yn seiliedig ar derfyn uchaf o 1500 o unedau preswyl ar draws yr ardal adfywio ac mae'n cynnwys dadansoddiad cymharol rhwng Asesiad Trafnidiaeth 2007 a data arolwg cysylltiedig a nodir yn y dogfennau canlynol:

- Strategaeth Trafnidiaeth a Mynediad Adfywio Porthcawl 2007; a
- Strategaeth Parcio i Ymwelwyr Glannau Porthcawl 2007.

Roedd yr asesiad cymharol yn cynnwys tybiaethau megis uchafswm cwantwm o ddatblygiad a oedd yn cynnwys 1500 o anheddau, sy'n sylweddol uwch na'r 1240 o unedau preswyl a nodwyd drwy'r Fframwaith Defnydd Tir hwn. Er gwaethaf y dadansoddiad cadarn hwn, sy'n rhoi amcangyfrif rhy uchel o nifer y teithiau a gynhyrchir gan y cynigion, daw'r Asesiad Trafnidiaeth i'r casgliad nad yw'n ymddangos bod cynnydd mewn teithiau a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar y briffordd.

Gan roi sylw penodol i barcio, mae'r Asesiad yn cydnabod bod perchnogaeth ceir fesul aelwyd ym Mhorthcawl yn gyffredinol yn is na lefel y ddarpariaeth parcio preswyl sy'n ofynnol gan y SPG17 mabwysiedig cyfredol. Ar y sail hon, ac o ystyried lleoliad cynaliadwy'r ardal adfywio tir llwyd, rhagwelir y byddai cynigion yn y dyfodol yn ceisio lleihau llefydd parcio ceir mewn ymateb i'r angen a gynhyrchir gan y datblygiad. Mae'r dull hwn yn caniatáu i rywfaint o hyblygrwydd cadarnhaol gael ei arfer yn ystod y cam datblygu dyluniad a byddai'n parhau i gyd-fynd â'r pwyslais presennol ar lefel polisi cenedlaethol i symud tuag at gymhwyso'r safonau parcio ceir uchaf yn hytrach na'r safonau gofynnol.

Perygl Llifogydd

Y prif berygl llifogydd ym Mhorthcawl yw llifogydd llanw, er mai dim ond ardaloedd cyfyngedig o Borthcawl sydd ym Mharth DAM C2 ac C1, gyda'r rhan fwyaf o'r prif anheddiad wedi'i leoli ym Mharth DAM A. Mae'r ardaloedd ym Mharth C2 yn cynnwys West Drive a'r Esplanade, maes parcio Salt Lake a Mackworth Road. Mae amddiffynfeydd rhag llifogydd ffurfiol yn Beach Road, Newton yn creu'r unig ardal o Barth C1. Dim ond datblygiad llai agored i niwed sy'n addas mewn ardaloedd o Barth C2, yn amodol ar gymhwyso'r Prawf Cyfiawnhau, gan gynnwys Meini Prawf derbynioldeb.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi cwblhau gwaith modelu llanw manwl o Sandy Bay i ddeall y potensial ar gyfer llifogydd llanw yn y dyfodol. Mae canlyniadau'r modelu hwn yn dangos y bydd newid yn yr hinsawdd, heb fesurau atal, yn cynyddu risg llifogydd yn sylweddol ym maes parcio Sandy Bay ac yn achosi llifogydd mewn ardal eang o Borthcawl o gornel ogledd-ddwyreiniol Sandy Bay i The Wilderness. Dangosir maint a dyfnder y llifogydd a ragwelir drwy Borthcawl yn Atodiad A yr SFCA. O ganlyniad i'r perygl o lifogydd llanw ym Mhorthcawl yn y dyfodol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi datblygu cynlluniau ar gyfer cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Porthcawl. Mae'r cynllun wedi'i ddatblygu i'w gyflawni mewn dau gam. Bydd Cam 1 (Promenâd y Dwyrain) yn diogelu ardal Salt Lake a'r datblygiad presennol i'r gogledd. Bydd y cam hwn o'r cynllun yn cynnwys y mesurau canlynol:

- Atgyweirio a chynnal a chadw'r Morglawdd Gorllewinol er mwyn diogelu cyfanrwydd strwythurol y strwythur.
- Cryfhau a chodi'r wal barapet bresennol i leihau'r risg o donnau'n gorlifo ar hyd Promenâd y Dwyrain.
- Mân fesurau rheoli i gadw twyni creiriol Sandy Bay.
- Gosod arfogaeth greigiog i ddiogelu gwddf Rhych Point.

Bydd Cam 2 (Traeth Coney) yn cynnwys mesurau llifogydd ac erydu arfordirol ar hyd tu blaen Traeth Coney i ddiogelu a gwella'r amddiffyniad llifogydd presennol i'r tu blaen a ddarperir gan y gwrthglawdd ad hoc presennol. Dangosir yr ardaloedd y disgwylir iddynt elwa ar ddau gam cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Porthcawl yn yr SCFA. Y disgwyl yw y bydd y ddau gam yn diogelu'r ardaloedd hyn am y 100 mlynedd nesaf i isafswm o 0.5% AEP safon amddiffyniad.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi sicrhau cyllid a'r holl ganiatâd angenrheidiol ar gyfer Cam 1 Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd Porthcawl a disgwylir i'r gwaith ddechrau'n fuan. Ar ôl cwblhau gwaith amddiffyn rhag llifogydd Cam 1 CLV-JBAU-00-00-RP-Z-0001-S3-P02-Bridgend_SFCA 74, dylai'r dosbarthiad DAM sy'n cwmpasu cyfran fach o'r safle newid o C2 i C1. Gall perygl o lifogydd barhau yn 0.1% AEP ond bydd hyn yn cael ei leihau'n sylweddol gan yr amddiffynfeydd rhag llifogydd a dylai bod modd ei reoli drwy ddylunio da. O ganlyniad, o fewn yr ardal sy'n elwa ar Gam 1 Cynllun Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Porthcawl dylai pob math o ddatblygiad fod yn briodol.

Mae Cam 2 Cynllun Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Porthcawl wedi cael cymeradwyaeth i gael arian gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o'r ardal wedi'i lleoli ym Mharth DAM A a rhagwelir y bydd perygl llifogydd yn y dyfodol yn gyfyngedig o ran maint ac yn gymedrol

o ran dyfnder, mae pob math o ddatblygiad yn briodol yn amodol ar Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd manwl a boddhaol. Gan y gall perygl llifogydd llanw ac effeithiau newid yn yr hinsawdd fod yn gymhleth, cynghorir y dylid cael Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gydag unrhyw gynlluniau i ddatblygu o fewn ardaloedd Cam 1 a 2 waeth beth fo'i leoliad ym Mharth A y DAM.

Crynodeb o'r SFCA

Mae safle Adfywio Porthcawl yn safle tir llwyd helaeth sy'n ymestyn o faes carafanau Bae Trecco a Rhych Point yn y dwyrain i'r harbwr presennol a chanol y dref yn y gorllewin, gan gynnwys hen faes carafannau Sandy Bay sy'n eiddo i'r Cyngor a maes parcio Salt Lake. Mae ffin bresennol y safle datblygu strategol yn cynnwys rhannau sylweddol o'r blaendraeth arfordirol ac felly maent wedi'u lleoli ym Mharth C2 DAM. Fodd bynnag, nid yw'r ardaloedd hyn yn cael eu cynnig ar gyfer datblygiad adeiledig ac felly mae'r canran arwynebedd C2 braidd yn gamarweiniol, gyda'r rhan fwyaf o ardaloedd datblygu wedi'u lleoli ym Mharth A y DAM. Mae lleoliad arfordirol y safle hwn yn ei golygu ei bod yn arbennig o bwysig ystyried effeithiau newid yn yr hinsawdd ar berygl llifogydd llanw. Rhagwelir y bydd rhai rhannau o'r safle strategol sydd wedi'u lleoli ym Mharth A DAM ar hyn o bryd mewn perygl o lifogydd yn y dyfodol heb i welliannau gael eu gwneud i'r amddiffynfeydd rhag llifogydd arfordirol. Fodd bynnag, wrth weithredu Cynllun Amddiffynfeydd Rhag Llifogydd Porthcawl, mae'n debygol y gellir datblygu safle Adfywio Porthcawl gan gydymffurfio'n llawn â gofynion TAN15. Serch hynny, dylai fod Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar gyfer pob datblygiad yn yr ardal.

Perchenogaeth Tir

Mae pob tirfeddiannwr wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau safle datblygu y gellir ei ddarparu fel datblygiad cynhwysfawr. Mae dogfennau priodol ar ffurf cytundeb Tirfeddiannwr yn cael eu dosbarthu a'u cwblhau rhwng yr holl bartïon.

Amgylcheddau / Rhywogaethau Ecologol a Warchodir a Dynodiadau

Er mwyn llywio'r fframwaith defnydd tir hwn a'r gallu cyffredinol i ddatblygu safle, mae arolwg cynefin Cam 1 wedi'i gwblhau gan David Clements. Roedd yr arolwg hwn yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith ac ymweliad safle trylwyr er mwyn darparu sail gadarn ar gyfer penderfynu pa gyfyngiadau ecoleg a allai fodoli o fewn y safle. Er bod adroddiad llawn yr arolwg wedi'i gynnwys fel Atodiad J, darparwyd y prif gasgliadau ac argymhellion canlynol:

- Nid ystyrir y byddai'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw effaith andwyol ar unrhyw safleoedd bioamrywiaeth dynodedig yn yr ardal gyfagos.
- Ar wahân i SINC Rhych Point a gerddi pleser segur mae'r rhan fwyaf o'r safle'n darparu cynefin o werth ecolegol isel gydag ardaloedd cyfyngedig o laswelltir morol niwtral yr ystyrir eu bod o werth lleol uchel o fewn y safle
- Argymhellir cynnal rhagor o arolygon ystlumod cyn datblygu / dymchwel adeiladau lle gallai ystlumod glwydo o fewn y safle er mwyn rhoi mesurau lliniaru priodol ar waith.
- Cyn belled â bod mesurau lliniaru digonol yn cael eu gweithredu (i'w llywio gan arolygon y dyfodol) nid yw datblygiad arfaethedig y safle wedi'i gyfyngu'n annerbyniol gan faterion bioamrywiaeth a chadwraeth natur.

Yng ngoleuni'r uchod, a'r canfyddiadau manylach yn arolwg cynefin Cam 1, mae'n amlwg bod cynllun enghreifftiol yr ardal adfywio arfaethedig yn parhau i fod yn gwbl gyraeddadwy o safbwynt ecolegol. Er mwyn sicrhau bod cynigion manwl yn cynnwys mesurau lliniaru priodol, disgwylir i ymgynghoriad ag Ecolegydd â chymwysterau addas gael ei gynnal yn gynnar yn y broses datblygu dyluniad.

Bydd cyfyngiadau ecolegol yn cael eu lliniaru drwy gadw a darparu clustogfeydd addas i gynefinoedd, yn enwedig y twyni creiriol y tu ôl i Sandy Bay, sy'n gynefin a warchodir yn genedlaethol y mae'n ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ei ddiogelu a'i wella.

Cyfleustodau

Cydnabyddir yn eang bod Ardal Adfywio Glannau Porthcawl yn gyfle sylweddol i gyflawni amrywiaeth o amcanion strategol o ran darparu tai ac adfywio a fydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at dref Porthcawl. Fel gyda phob safle adfywio ar raddfa fawr mae amrywiaeth o ddarnau allweddol o seilwaith y bydd angen eu darparu er mwyn datgloi potensial datblygu'r safle tir llwyd hwn. Yn ogystal â'r seilwaith allweddol sydd ei angen i hwyluso'r datblygiad, mae'r ardal adfywio yn gyfle i gydleoli seilwaith strategol arall a fyddai o fudd i'r datblygiad arfaethedig a'r dref bresennol.

Bydd yr ardal adfywio yn ei gwneud yn ofynnol darparu system ddraenio dŵr budr a dŵr wyneb newydd i gysylltu â'r system bresennol, yn ogystal ag unrhyw waith capasiti rhwydwaith ehangach y gallai fod ei angen pan ddaw cais i ddatblygu.

O ran draenio dŵr wyneb, bydd yr ardal adfywio yn gofyn am system SDCau sy'n seiliedig ar ymdreiddiad ar draws ardal Sandy Bay y safle gydag ardaloedd Traeth Coney a Salt Lake i'w draenio'n bennaf i'r môr drwy bibell ollwng newydd i gymryd lle pibell ollwng bresennol a storfa arafu SDCau yn y ffynhonnell er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion perthnasol.

O ran draenio dŵr budr, mae amrywiaeth o bibellau presennol a fydd yn galluogi cysylltiad â'r rhwydwaith sefydledig. O'r herwydd, bydd y seilwaith draenio dŵr budr newydd sydd ei angen ar gyfer yr ardal adfywio yn cynnwys darparu draeniad dŵr budr newydd o fewn y safle ei hun yn bennaf, wedi'i ategu gan unrhyw uwchraddio capasiti a allai fod yn ofynnol gan Dŵr Cymru, yn unol â'r gwaith modelu hydrologig, pan ddaw cais i ddatblygu.

Paratowyd astudiaeth ddichonoldeb bwrdd gwaith gan SMS er mwyn llywio a chefnogi'r Fframwaith Defnydd Tir. Mae'r astudiaeth hon yn ystyried elfennau ar y safle ac oddi ar y safle ar gyfer pob cyfleustod fel a ganlyn:

- Manylion lleoliad yr holl gyfarpar rhwydwaith statudol yn agos at ac o fewn ffin y datblygiad.
- Asesu gwasanaethau sy'n bodoli eisoes ar gyfer datgysylltiadau a gwyradau.
- Amcangyfrif o'r costau ar gyfer gwyradau a datgysylltiadau sydd eu hangen.
- Amcangyfrif o'r costau ar gyfer trydan, nwy, dŵr yfed a thelathrebu addas i'r datblygiad.

Yn gryno, mae'r astudiaeth ddichonoldeb yn cadarnhau ei bod yn ymarferol cysylltu trydan, nwy, dŵr a thelathrebu â'r safle. Mae cost debygol cysylltiadau o'r fath wedi'i chynnwys yn yr astudiaeth hefyd, ac mae'n nodi mai'r unig gostau annormal posibl fyddai mewn perthynas â chysylltiadau trydan. Yn hyn o beth, ac er y cydnabyddir y gallai cynnwys ynni adnewyddadwy ar y safle leihau faint o drydan sydd ei angen o'r grid, yr arwyddion cychwynnol yw y byddai angen 4,135 kVA ar y datblygiad. Er mwyn darparu'r trydan hwn, byddai angen pwynt cysylltu o Brif Is-orsaf Nottage ynghyd â 2 gebl foltedd uchel o'r is-orsaf i'r datblygiad. Amcangyfrifwyd mai cost y cysylltiad hwn fyddai tua £1.1 miliwn gyda hyn yn cynrychioli cost annormal allweddol y mae angen ei hystyried fel rhan o'r broses hyfywedd a datblygu dyluniad cysylltiedig.

Y Gymraeg

Nid yw'r safle wedi ei leoli mewn ardal sensitif o ran y Gymraeg.

Archaeoleg

Bydd Fframwaith Defnydd Tir y safle'n ceisio cadw ac ategu Ardal Gadwraeth Porthcawl ac Adeiladau Rhestredig Gradd II cysylltiedig, gan gynnwys yr adeiladau rhestredig yn yr harbwr, yn union gerllaw de'r safle. Felly, bydd y datblygiad yn integreiddio'n gadarnhaol â'r lleoliad craidd hanesyddol hwn yn y dref.

Halogiad

Mae'r ardal adfywio ehangach wedi bod yn destun cryn dipyn o waith ymchwilio safle blaenorol sydd wedi llywio penderfyniadau blaenorol, gan gynnwys y dyraniad presennol a'r Canllawiau Cynllunio Atodol mabwysiedig, yn ogystal â'r cynigion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r gwaith blaenorol hwn yn cynnwys y canlynol, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt:

- Asesiad Amgylcheddol Cam 1 a baratowyd gan Jubb yn 2007 (ynghlwm fel Atodiad H)
- Asesiad Geo Amgylcheddol a Geodechnegol a baratowyd gan Earth Science Partnership yn 2019 sydd ynghlwm fel Atodiad I)

Yn ei hanfod, nid yw'r safle'n destun unrhyw halogiad hysbys a fyddai'n rhwystr i'r safle fod yn addas i'r defnydd a fwriedir.

Yn ogystal â'r gwaith ymchwilio safle a amlinellir uchod, comisiynwyd Quantum i ymgymryd â gwaith ymchwilio pellach ar y safle gan ganolbwyntio'n benodol ar ymchwilio i gyflwr y tir o fewn Sandy Bay a'i addasrwydd ar gyfer draeniad sy'n seiliedig ar ymdreiddiad (amgaeir yr adroddiad fel Atodiad G). Er bod y canfyddiadau manwl wedi'u cynnwys yn yr adroddiadau y cyfeirir atynt uchod, mae'n berthnasol nodi nad ydynt wedi nodi unrhyw halogyddion a fyddai'n atal mabwysiadu strategaeth ddraenio sy'n seiliedig ar ymdreiddiad ar draws rhan Sandy Bay o'r safle. Ymhelaethir ar y dull hwn, fel y mae'n ymwneud yn benodol â materion draenio, yn y Strategaeth Ddraenio ar gyfer y safle cyfan a baratowyd gan Capita.

Gofynion Allweddol o ran Seilwaith a Pholisi (gan gynnwys costau bras neu fformiwlâu a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol lle maent yn hysbys) er enghraifft:

Mynediad

Cyfeiriwch at PLA5, Yr Atodlen Gwella Priffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Addysg

Bydd y datblygiad yn creu 33 o leoedd meithrin, 209 o leoedd cynradd (ynghyd â 3 lle anghenion addysgol arbennig) a 0 o leoedd uwchradd (digon o gapasiti).

2ha Ysgol Gynradd Cyfrwng Cymraeg 1 Dosbarth Mynediad ac estyniad 4 bloc ystafell ddosbarth yn yr Ysgol Gynradd Cyfrwng Saesneg bresennol. Rhaid gwneud cyfraniadau ariannol hefyd at ddarpariaeth addysg feithrin, gynradd, uwchradd ac ôl-16 fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol, a sicrheir drwy Adran 106 yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol Cyfleusterau Addysg a Datblygiad Preswyl. Rhaid i'r ysgol fod yn hygyrch i drigolion newydd a'r trigolion presennol drwy bob dull teithio, wedi'u galluogi gan y datblygiad.

Tai Fforddiadwy

Rhaid i'r datblygiad ddarparu 30% o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â pholisi PLA1.

Mannau Agored

3.51 Hectar o Fannau Agored Cyhoeddus. Seilwaith Gwyrdd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored i'w darparu yn unol â Pholisi COM10 a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored a Chanllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Tai Newydd a dogfen Fframwaith Defnydd Tir Glannau Porthcawl.

Cyfleustodau

I'w gyflawni yn unol â'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Gofynion gwybodaeth ategol allweddol

- Fframwaith Defnydd Tir Ardal Adfywio Glannau Porthcawl (2021)
- Adroddiad Astudiaeth Ddichonoldeb Amddiffynfeydd Arfordirol Traeth Coney a baratowyd gan Arup
- Asesiad Trafnidiaeth a baratowyd gan Jacobs
- Asesiad Tirwedd / Morwedd ac Effaith Weledol a baratowyd gan Soltys Brewster Consulting
- Cynllun Arolwg Topograffig a baratowyd gan Landmark
- Adroddiad Ymchwiliad Halogiad Daear a baratowyd gan Quantum
- Asesiad Amgylcheddol Cam 1 a baratowyd gan Jubb
- Asesiad Geo Amgylcheddol a Geodechnegol a baratowyd gan Earth Science Partnership yn 2019
- Arolwg Ecoleg a baratowyd gan David Clements Ecology
- Adroddiad Strategaeth Ddraenio CDLI Ardal Adfywio Glannau Porthcawl a baratowyd gan Capita Redstart
- Adroddiad Cyfleustodau a baratowyd gan SMS
- Prawf Dilyniannol a baratowyd gan Peter Brett Associates
- Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Pen-y-bont ar Ogwr a baratowyd gan JBA
- Briff Datblygu Siop Fwyd Porthcawl a baratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

SP2(2) / PLA2: Tir i'r De o Ben-y-bont ar Ogwr (Island Farm), Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr

Enw /Cyfeirnod Dyranriad Safle	Maint y Safle (ha)	Math o Ddyranriad (Tai, Cyflogaeth, Defnydd Cymysg)	Cyfanswm Unedau (Preifat a Fforddiadwy) Unedau P a Ff	Cyfnodau Camau Cyflawni
PLA2: Tir i'r De o Ben-y-bont ar Ogwr (Island Farm), Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr	49.95 ha	Estyniad Trefol Cynaliadwy Defnydd Cymysg Strategol	847 o unedau preswyl 169 o unedau fforddiadwy	Cyfeiriwch at lwybr 2018-2022: 0 2023-2027: 260 2028-2033: 587

Disgrifiad o'r Safle

Lleolir y safle 1.5km (0.9 milltir) i'r de-orllewin o Ganol Tref Pen-y-bont ar Ogwr, i'r de o'r A48, ac yn agos at y ffin â Chyngor Bro Morgannwg. Mae'n cynnwys tua 49.95 hectar o goed a phrysgwydd i'r gogledd, tir fferm â'r de a'r dwyrain a thir pori i'r gogledd-ddwyrain. Mae'r safle'n ffinio i'r gogledd-ddwyrain â Pharc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, ac i'r dwyrain â chartref nyrsio.

Prif Broblemau a Chyfyngiadau'r Safle

Priffyrdd a Chludiant

Gwelliannau Teithio Llesol

Mae'r safle wedi'i leoli mewn lleoliad cynaliadwy o ran mynediad i gyfleusterau ac amwynderau, a fydd yn cael ei wella ymhellach gan natur defnydd cymysg y safle a fydd yn lleihau'r angen i deithio ymhellach i ffwrdd. Mae Asesiad Teithio Llesol wedi'i gynnal gan Corun Associates Ltd, a ddaeth i'r casgliad bod y safle mewn lleoliad ffafriol i gyfrannu'n sylweddol tuag at strategaeth drafnidiaeth integredig Pen-y-bont ar Ogwr a helpu i ddarparu teithio llesol lleol yn unol â Deddf Teithio Llesol Cymru 2013.

Mesurau ar y safle ac oddi ar y safle i ddarparu cysylltiadau cerddwyr a beicio o ansawdd da, deniadol, clir, diogel a hygyrch yn unol â dylunio Teithio Llesol. Rhaid darparu gwell cysylltiadau ar hyd yr A48, gydag Ysgol Gyfun Brynteg, Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr a Chanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys yr orsaf fysiau a'r orsaf drenau). Rhaid darparu cysylltiadau seilwaith gwyrdd hefyd gyda Newbridge Fields. Rhaid cysylltu felly â'r llwybrau teithio llesol presennol a dylid darparu llwybrau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig o fewn Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-POR-15, INM-BR-46, INM-BR-48, INM-BR-75, INM-BR-45 ac INM-BR-49.

Ffyrdd Mynediad Newydd

Er mwyn darparu digon o gapasiti i gefnogi mynediad i gerbydau i'r Safle Strategol hwn, bydd mynediad arfaethedig i'r safle'n cael ei sicrhau o'r A48 i'r dwyrain o Ffordd Merthyr Mawr. Cynigir llwybr troed ar wahân o'r A48. Cyfeiriwch at yr Asesiad Trafnidiaeth Strategol

a'r Rhestr Flaenoriaeth Mesurau Trafnidiaeth ar gyfer gwelliannau eraill i briffyrdd oddi ar y safle.

Asesiad Trafnidiaeth

Mae asesiad manwl wedi'i gyflawni gan Corun Associates Ltd i gefnogi'r safle. Mae nifer y tripiâu a'r dosbarthiad disgwylledig o gynigion Fferm yr Ynys a ganiatawyd ac a ddiwygiwyd yn flaenorol wedi'u hasesu trwy gyfres o Arfarniadau Strategol Trafnidiaeth ac adroddiadau Asesu Trafnidiaeth ar gyfer gwahanol unedau o'r safle ehangach. Mae Nodyn Technegol wedi'i baratoi i gyfuno'r holl waith asesu sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn, ac i nodi sut y mae disgwyl i'r traffig o gynigion diwygiedig Fferm yr Ynys fod wedi'u dosbarthu ledled y rhwydwaith asesu cyfagos, a sut maent yn cymharu â'r llifoedd o gynigion Fferm yr Ynys a ganiatawyd.

Mae'r holl waith asesu nifer y tripiâu ar gyfer cynigion diwygiedig Fferm yr Ynys wedi'i wneud ar brawf sensitifrwydd achos gwaethaf, gan alluogi cymhariaeth fwy uniongyrchol â'r caniatâd gwreiddiol. Nododd yr asesiad, ac eithrio cyffordd mynediad safle arfaethedig yr A48, a Chylchfan Ffordd Ewenni yn ystod oriau brig y bore, a Chyffordd y B4265/Ffordd Ewenni yn y ddau gyfnod oriau brig, y bydd datblygiadau'n arwain at lif traffig is drwy bob cyffordd ledled y rhwydwaith asesu yn ystod cyfnodau oriau brig y bore a'r prynhawn, o'i gymharu â'r cynigion datblygu blaenorol a ganiatawyd ar Safle Fferm yr Ynys. Felly, mae'r Nodyn Trafnidiaeth yn dadlau y bydd y cynigion diwygiedig yn cael effaith fuddiol ar y rhwydwaith dosbarthu o gymharu â'r cynllun a ganiatawyd.

Dylid nodi hefyd bod y cynnydd yn y llifoedd wrth gyffordd y B4265 / Ffordd Ewenni yn ganlyniad i'r gyffordd fynediad arfaethedig ar gyfer cynigion diwygiedig y Ganolfan Tennis, gan nad oedd y gyffordd hon wedi'i chynnig fel pwynt mynediad i'r safle o fewn y cynllun a gafodd caniatâd. Mae modd cyflwyno cynigion y Ganolfan Tennis cyn safle ehangach Fferm yr Ynys, ac mae cais yn fyw ar hyn o bryd gyda'i Asesiad Trafnidiaeth ei hun sy'n cynnwys effaith traffig wrth y gyffordd hon.

Nododd gwaith asesu blaenorol ar y cynllun a gafodd caniatâd fod Cylchfan Broadlands, Cylchfan Ewenni, a Chyffordd Picton Close i gyd yn dangos problemau o ran gallu mewn senarios asesu blwyddyn y rhagolwg gan gynnwys ac yn eithrio traffig cynigion Fferm yr Ynys a ganiatawyd. Er bod cynigion diwygiedig Fferm yr Ynys yn gyffredinol yn dod â gostyngiadau traffig ledled y cyffyrdd hyn (o'r hyn a ganiatawyd yn flaenorol), gan ystyried twf traffig cefndirol yn unig, mae'n debygol y bydd dal angen lliniaru'r cyffyrdd hyn i weithredu o fewn eu gallu yn ystod y blynyddoedd y rhagolwg. Byddai mesurau lliniaru o'r fath a gafodd eu hamlinellu ar gyfer y cyffyrdd hyn, fel y cyfeirir atynt yn y cynllun a ganiatawyd, yn galluogi'r cyffyrdd i ddarparu dim niwed neu'n well o ran y cynllun diwygiedig. Bydd gwaith arolygu wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyflawni yn rhan o Asesiad Trafnidiaeth yn y dyfodol a fyddai'n cefnogi cais cynllunio ar gyfer datblygu'r safle ehangach.

Perygl Llifogydd

Mae'r safle i gyd o fewn Parth Llifogydd A ac felly ystyrir bod y perygl o lifogydd yn fach iawn neu nad oes perygl o lifogydd. Mae'r Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd yn nodi bod PLA2: Tir i'r De o Ben-y-bont ar Ogwr (Island Farm), wedi'i nodi fel 'Gwyrdd' yn yr asesiad RAG ar gyfer yr SFCA. Mae gan Island Farm ardaloedd bach o'r safle lle nodwyd

bod perygl o lifogydd dŵr wyneb. Mae'r ardaloedd hyn yn cyfateb i'r tir isel topograffig ar draws y safle a'r ardal felly disgwylir y bydd modd eu rheoli drwy ddefnyddio SDCau a dyluniad safle ystyriol. Mae gan y rhan fwyaf o Island Farm ddyfnder dŵr daear o rhwng 0.025m a 0.5m islaw lefel y ddaear. Dangosir bod gan ardaloedd lleol o'r safle strategol hwn ddŵr daear o fewn 0.025m i wyneb y ddaear. Gall lefelau dŵr daear bennu lleoliad a dyfnder asedau SDCau a gynigir ar gyfer unrhyw ddatblygiad ar y safle hwn ac felly dylid eu hystyried ymhellach.

Mae CNC yn cynghori bod y safle wedi'i leoli ger Parth Gwarchod Ffynhonnell 1. Felly, bydd angen i gynigion datblygu yn y dyfodol sicrhau bod dŵr daear yn cael ei ddiogelu.

Perchenogaeth Tir

Mae pob tiffeddiannwr wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau safle datblygu y gellir ei ddarparu fel datblygiad cynhwysfawr. Mae dogfennau priodol ar ffurf cytundeb Tiffeddiannwr yn cael eu dosbarthu a'u cwblhau rhwng yr holl bartion.

Amgylcheddau / Rhywogaethau Ecolegol a Warchodir a Dynodiadau

Mae'r coetir yn y gogledd yn rhan o Safle o Bwysigrwydd ar gyfer Cadwraeth Natur (SINC), a ddynodwyd ar gyfer mosaig o gynefinoedd a phresenoldeb y pathew. Ystyriodd Adroddiad Ecoleg a baratowyd gan Ethos Environmental Planning y rhywogaethau canlynol.

Y pathew

Mae'r safle'n cynnwys gwrychoedd a choetir yr aseswyd bod eu bod yn werthfawr iawn o ran y pathew. Nododd yr arolygon blaenorol bresenoldeb pathewod yn y SINC a leolir yng ngogledd y safle. Aseswyd felly y byddai angen arolygon pellach i ddiweddarau statws y safle ar gyfer y rhywogaeth hon ac i lywio cynigion manwl ar gyfer y safle.

Mamaliaid glan afon

Roedd Afon Ogwr yn bresennol ar hyd ymyl ddwyreiniol Craig-y-Parcau, gyda chofnodion o ddyfrgwn a llygod pengrwn y dŵr wedi'u canfod i'r de o'r safle. Fodd bynnag, ni nododd yr arolygon blaenorol unrhyw dystiolaeth o famaliaid glan afon yn yr ardal ddatblygu. O ystyried presenoldeb cofnodion blaenorol yn yr ardal a chynefin addas yn ffinio'n uniongyrchol â'r safle, argymhellir cynnal arolygon ar gyfer y rhywogaethau gwarchodedig hyn a lywio cynigion manwl ar gyfer y safle.

Madfall ddŵr gribog

Roedd yr arolygon blaenorol wedi asesu bod y pyllau'n anaddas ar gyfer y madfall ddŵr gribog ac nad oedd y rhywogaeth yn bresennol ar y safle. Ers hynny, deallir nad yw'r pyllau a arolygwyd yn flaenorol yn bodoli mwyach a bod pyllau bywyd gwyllt newydd wedi'u creu yn ne-orllewin y prif safle. Yn y ddau gorff dŵr a nodwyd yn ystod yr ymweliad safle, roedd y lefelau dŵr yn gymharol isel a'r llystyfiant dyfrol yn gyfyngedig. Mae'r cynigion presennol yn dangos y byddai'r pyllau'n cael eu cadw a'u diogelu. Serch hynny, gallent ddarparu cynefin bridio addas ar gyfer amffibiaid ac argymhellir Mynegai Addasrwydd Cynefinoedd o bob un o'r pyllau o fewn 500m i'r safle datblygu i lywio cais cynllunio manwl.

Adar

Roedd cymysgedd o dir pori parhaol a thir â'r yn darparu cynefin addas ar gyfer adar tir fferm. Hefyd, aseswyd bod y gwrychoedd a'u hymylon yn y caeau yn darparu cynefin posibl

ar gyfer adar sy'n nythu ar y ddaear. Aseswyd bod gan y coetir, y gwrychoedd, y prysgwydd a'r coed gwasgaredig botensial mawr ar gyfer adar bridio. Cafwyd tystiolaeth o dylluan wen mewn stabl yn ne-ddwyrain y safle. Argymhellwyd arolygon pellach ar gyfer adar bridio yn adran 5 i lywio cynigion manwl ar gyfer y safle.

Ystlumod

Nododd yr arolygon blaenorol fod ystlumod pedol lleiaf ac ystlumod hirglust yn clwydo yn Hut 9 yn y coetir yn y SINC. Ers cynnal yr arolygon blaenorol, mae clwyd ystlumod pwrpasol wedi'i chreu yn ne-orllewin y prif safle. Yn ogystal, roedd y strwythurau adeiledig yn ardal Craig-y-Parcau mewn cyflwr strwythurol gwael iawn ac roedd amrywiaeth eang o nodweddion clwydo ystlumod i'w gweld yn ystod yr ymweliad allanol. Aseswyd bod ganddynt botensial mawr ar gyfer ystlumod sy'n clwydo. Felly, aseswyd y dylid cynnal asesiad wedi'i ddiweddarau o'r strwythurau i asesu eu statws ar gyfer ystlumod sy'n clwydo. Yn ogystal, argymhellir arolygon mynd a dod. Roedd y cynefinoedd yn y ddau safle yn cynnwys coetiroedd a gwrychoedd, gan gynnig cynefinoedd cymudo, porthi a chlwydo posibl ar gyfer ystlumod. Nodwyd nifer o goed aeddfed hefyd a allai fod â nodweddion clwydo posibl ar gyfer ystlumod.

Moch daear

Roedd y cynefinoedd ar y safle'n cynnwys coetir, glaswelltir a thir â'r sydd â'r potensial i gynnal moch daear. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr arolwg blaenorol wedi nodi nad oedd moch daear yn bresennol ar y safle.

Ymlusgiaid

Roedd llawer o'r safle'n dir â'r glaswelltir wedi'i ddwysáu'n amaethyddol felly nid oedd fawr ddim potensial ar gyfer ymlusgiaid. Aseswyd mai'r nodweddion allweddol oedd y rhannau o laswelltir a phrysgwydd a leolir ar ymylon coetiroedd. Roedd y safle'n cynnwys cynefinoedd cyffredin ac eang nad oeddent yn cynnig rhyw lawer o botensial ar gyfer infertebratau. Ni fydd angen unrhyw arolygon manwl.

Adolygiad SINC – Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt

Mae'r ddogfen hon yn nodi nad yw'n ymddangos bod y SINC hwn wedi newid yn sylweddol ers arolwg 2011 ac felly mae'n dal i fod yn gymwys fel SINC. Mae'n werth tynnu'r darn bach o goetir yn y cae i'r de-ddwyrain o'r cofnod gan ei fod ar wahân ac nid yw'n ymddangos ei fod yn ychwanegu at werth y safle. Mae'r coetir yn amrywio o ran ansawdd ond mae'n ymddangos ei fod yn cynnig cynefin ar gyfer pathewod ac ystlumod ac mae yna rywogaethau dangosol coetiroedd niferus. Nid yw'r glaswelltir yn arbennig o gyfoethog o ran rhywogaethau ond mae'n ychwanegu at y safle yn ei gyfanrwydd. Mae'r safle'n dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys tipio anghyfreithlon, pobl yn defnyddio cyffuriau yno'n rheolaidd ac arwyddion o breswyllo lled-barhaol sy'n niweidiol i fioamrywiaeth y safle.

Argymhellir bod tiwbiau pathewod yn cael eu hailosod a'u monitro a bod gweithgareddau gwrthgymdeithasol yn cael eu lleihau lle bo hynny'n ymarferol. Er nad yw'r ardaloedd glaswelltir yn amrywiol iawn, maent yn ychwanegu at amrywiaeth y safle ac argymhellir rhywfaint o waith rheoli prysgwydd i atal eu colli er nad yw'n flaenoriaeth.

Mae'r Uwchgyllun wedi cynnwys nifer o fesurau i fynd i'r afael â chyfyngiadau ecolegol a nodwyd yn flaenorol gan gynnwys cadw'r rhan fwyaf o'r SINC a diogelu'r clwydi ystlumod artiffisial a gwrychoedd. At hynny, mae'r uwchgyllun ar gyfer Island Farm wedi nodi cadw tir SINC o fewn ffin y safle, ac eithrio'r ffordd fynediad o'r A48. Cynigir cadw ardaloedd o werth ecolegol gan gynnwys suddfannau presennol; sy'n cynnig gwerth i amrywiaeth o infertebratau, ac ardal gwella ecolegol sydd wedi'i lleoli yn y cae de-orllewinol; a gafodd ei gwella'n flaenorol ar gyfer ecoleg mewn perthynas â'r cais am bentref chwaraeon yn 2008. Mae'r uwchgyllun yn dangos cadw ardaloedd gwyrdd di-dor hefyd er mwyn sicrhau rhwydwaith parhaus o seilwaith gwyrdd a glas.

Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud o safbwynt ecolegol yn unol ag argymhellion yr adroddiad. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw 'drysorau' ar hyn o bryd, gyda mesurau lliniaru priodol ar gael i sicrhau bod datblygiad y safle'n dderbyniol ac y gellir lleihau unrhyw effeithiau cysylltiedig.

Cyfleustodau

Bydd buddsoddi mewn seilwaith cyfleustodau'n sicrhau y gall y safle ymdopi â lefel y datblygiad arfaethedig. O ystyried lleoliad y safle, yn agos at adeiladau sy'n bodoli eisoes, ystyrir y gellir gwneud cysylltiadau dŵr, nwy a chyfleustodau eraill priodol â'r safle.

Ar gyfer trydan, bydd angen i'r datblygiad ariannu cysylltiadau, gwyradau a chylched gylch WPD HV (11kV) newydd i wasanaethu'r safle gydag is-orsafoedd newydd fel a ganlyn:

- Anheddau – saith is-orsaf HV / LV 1MVA.
- Ysgol Gynradd – un is-orsaf HV / LV 250kV
- Cyfleuster Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) – is-orsaf HV / LV 500kV

Bydd angen gwneud cysylltiadau â'r rhwydwaith nwy hefyd a bydd angen gwneud cysylltiadau/gwyradau i alluogi darpariaeth band eang.

Mae DCWW wedi dweud bod gan y gwaith trin dŵr gwastraff ddigon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y llifoedd dŵr budr a ragwelir o'r datblygiad arfaethedig, er y bydd angen modelu hydrolog ychwanegol i gynghori ar gapasiti'r rhwydwaith cyflenwi dŵr a dŵr budr a phwyntiau cysylltiadau posibl. O ystyried maint mwyaf posibl y datblygiad, mae'n debygol y bydd angen gwelliannau seilwaith lleol i rwydwaith DCWW.

Y Gymraeg

Nid yw'r safle wedi ei leoli mewn ardal sensitif o ran y Gymraeg.

Archaeoleg a Threftadaeth

Mae'r tir Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i leoli o fewn sector gogleddol y safle yn union i'r de o'r A48 ac roedd yn rhan o hen Glwb Gwledig Crossways a gwersyll carcharorion rhyfel yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae adeilad un llawr, yr unig adeilad sydd wedi goroesi o'r gwersyll (Hut 9) wedi'i restru (Gradd II) ac mae wedi'i leoli yng ngogledd-ddwyrain y safle. Mae gweddill y tir sy'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys prysgwydd, glaswelltir garw a thir cynefin dan goed yn bennaf. Mae'r

Uwchgynllun a'r Polisi Safle Strategol yn ceisio sicrhau y bydd Hut 9 yn cael ei integreiddio'n llawn â chynigion datblygu yn y dyfodol.

Cyflwr y Ddaear

Gan adlewyrchu hanes cynllunio helaeth y safle, mae llawer yn hysbys am gyflwr tir y Safle, diolch i wahanol gamau ymchwiliadau safle a gwaith arolygu/monitro. Mae Crynodeb o Ymchwiliadau Safle a baratowyd gan wL2 yn Atodiad 7.

Mae'r dogfennau hyn yn ystyried materion sy'n ymwneud â chyflwr y ddaear, athreiddedd / ffiltro, a halogiad sydd, lle y bo'n briodol ac os oes angen, wedi'u defnyddio i lywio'r broses uwchgynllunio a chynllun y safle. Mae'n dod i'r casgliad, er nad yw'n anghyffredin yn ystod y cam hwn o'r broses ddatblygu, y bydd angen ymchwiliadau safle manwl pellach i lywio'r dyluniad manwl (yn arbennig presenoldeb a risg tyllau suddfannau ychwanegol posibl), nad oes unrhyw gyfyngiadau sylweddol, hysbys, i ddatblygu'r safle o ganlyniad i gyflwr y ddaear.

Gofynion Allweddol o ran Seilwaith a Pholisi (gan gynnwys costau bras neu fformiwlâu a nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol lle maent yn hysbys) er enghraifft:

Mynediad

Cyfeiriwch at PLA5, Yr Atodlen Gwella Priffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Addysg

Bydd y datblygiad yn creu 35 o leoedd meithrin, 232 o leoedd cynradd (ynghyd â 3 lle anghenion addysgol arbennig).

Rhaid i'r datblygiad ddarparu 1.3 hectar o dir ar gyfer 1 ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad gyda chyfleusterau meithrin ar yr un safle ynghyd â 0.5ha ar gyfer unrhyw ehangu yn y dyfodol. Rhaid gwneud cyfraniadau ariannol hefyd at ddarpariaeth addysg feithrin, gynradd, uwchradd ac ôl-16 fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol, a sicrhau drwy Adran 106 yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol Cyfleusterau Addysg a Datblygiad Preswyl. Rhaid i'r ysgol fod yn hygyrch i drigolion newydd a'r trigolion presennol drwy bob dull teithio, wedi'u galluogi gan y datblygiad.

Rhaid i'r datblygiad ddarparu 4ha o dir i hwyluso adleoli Ysgol Anghenion Arbennig Heronsbridge hefyd.

Tai Fforddiadwy

Rhaid i'r datblygiad ddarparu 20% o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â pholisi PLA2.

Mannau Agored

Seilwaith Gwyrdd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored i'w darparu yn unol â Pholisi COM10 a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored a Chanllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Tai Newydd.

Cyfleustodau

I'w gyflawni yn unol â'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Gofynion gwybodaeth ategol allweddol

- Adroddiad Uwchgynllun Roberts Limbrick

- Strategaeth Ynni Adnewyddadwy Troup Bywaters
- Adroddiad Cyfleustodau Troup Bywaters + Anders
- Arfarniad Ecoleg Ethos Ecology
- Arfarniad Strategol Trafnidiaeth Corun Associates Ebrill 2020
- Asesiad Teithio Llesol Corun Associates Ebrill 2020
- Strategaeth Draeniad Island Farm wL2 Ebrill 2020
- Asesiad Hyfywedd Lefel Uchel Savills Ebrill 2020
- Nodyn Materion Tirwedd Savills Medi 2020
- Nodyn Atodol ALC Savills Medi 2020 Medi
- Arfarniad Strategol Trafnidiaeth Corun Associates Mehefin 2020
- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd Savills Medi 2020 Medi 2020
- Asesiad Hyfywedd

SP2(3) / PLA3: Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr

Enw /Cyfeirnod Dyranriad Safle	Maint y Safle (ha)	Math o Ddyranriad (Tai, Cyflogaeth, Defnydd Cymysg)	Cyfanswm Unedau (Preifat a Fforddiadwy) Unedau P a Ff	Cyfnodau Camau Cyflawni
PLA3: Tir i'r Gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, Ardal Twf Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr	36.86 ha	Estyniad Trefol Cynaliadwy Defnydd Cymysg Strategol	850 o unedau preswyl 170 o unedau fforddiadwy	2018-2022: 0 2023-2027: 360 2028-2033: 450

Disgrifiad o'r Safle

Lleolir y safle yn union wrth ymyl ffin orllewinol Pen-y-bont ar Ogwr, a'r datblygiad adeiledig ym Mryntirion. Mae anheddiad llai Trelales ymhellach i'r gorllewin. Mae Canol Tref Pen-y-bont ar Ogwr tua 2.2km i ffwrdd. Mae'r safle'n ffinio â'r A473 i'r de; lôn wledig ddienw i'r gorllewin; Ffordd Llangewydd i'r gogledd; ac ymyl anheddiad Bryntirion i'r dwyrain. Mae eiddo ar gyrion Bryntirion ar hyn o bryd, sy'n rhan o ffin dde-ddwyreiniol y safle a thair annedd ar y ffin dde-orllewinol, gyda mynediad iddynt drwy'r lôn wledig.

Mae'r rhan fwyaf o'r safle'n ffermdir pori agored gydag ardal o goetir gyda chaeau corstir caeedig i'r gogledd-ddwyrain. Mae'r ffermdir agored yn cynnwys caeau bach a chanolig, afreolaidd eu siâp, o laswelltir wedi'i wella gyda ffiniau caeau o lystyiant. Mae rhan goedig y safle i'r gogledd-ddwyrain yn rhan o SINC Dolydd Trelales, dynodiad ecolegol lleol. Mae'r safle a'i ffiniau caeau mewnol yn y ffermdir agored yn cynnwys ffensys da byw, gwrychoedd a chloddiau sy'n cael eu cynnal a'u cadw, llain goed a wal gerrig.

Mae nifer o fynedfeydd gât amaethyddol preifat yn bodoli eisoes sy'n caniatáu mynediad i'r safle ehangach o bob ffin, yn ogystal â 2 bwynt mynediad i gerddwyr o'r gogledd-ddwyrain i'r ffin dde-orllewinol. Mae'r cyntaf yn gilffordd gul a chaeedig. Mae'r ail yn Hawl Tramwy Cyhoeddus sy'n rhan o Daith Gerdded Gylchol Pen-y-bont ar Ogwr, Llwybr Cerdded Pellter Hir, sy'n croesi'r safle o tua hanner ffordd ar hyd ymyl orllewinol y safle sy'n rhedeg tua'r gogledd-ddwyrain drwy'r SINC cyn ymuno â Ffordd Llangewydd.

Mae'r safle wedi'i ddyrannu ar gyfer datblygiad preswyl cynhwysfawr gyda seilwaith gwyrdd. Bydd y safle'n darparu tua 850 o gartrefi yn ystod cyfnod y Cynllun (gan gynnwys 20% / 170 o unedau tai fforddiadwy), gan ymgorffori Ysgol Gynradd 1.5 dosbarth mynediad newydd, cyfleusterau hamdden, mannau agored cyhoeddus, ynghyd â chyfleusterau cymunedol priodol i gyd wedi'u lleoli mewn ardaloedd â chymeriad penodol.

Prif Broblemau a Chyfyngiadau'r Safle

Priffyrdd a Chludiant

Mae tir yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn safle cynaliadwy sydd wedi'i leoli'n dda sy'n manteisio ar y cyfleusterau cyfagos niferus, gyda llawer ohonynt wedi'u lleoli'n gymharol agos i'r safle ym Bryntirion a Broadlands, a mwy wedi'u lleoli yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr. At hynny, mae modd cyrraedd y safle gan ddefnyddio sawl math o drafnidiaeth ac mae'n cysylltu'n dda â'r ffin drefol bresennol i'r dwyrain.

Gwelliannau Teithio Llesol

Bydd mesurau ar y safle ac oddi ar y safle'n cael eu darparu i gyflawni cysylltiadau cerddwyr a beicio o ansawdd da, deniadol, clir, diogel a hygyrch yn unol â dylunio Teithio Llesol. Darperir gwell cysylltiadau ar hyd yr A473 i gysylltu ag Ysgol Gyfun Bryntirion a Chanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr (gan gynnwys yr orsaf fysiau a'r orsaf drenau). Darperir cysylltiadau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig o fewn Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-BR-52, INM-BR-55, INM-BR-57, INM-BR-58, BRC9b.

Bydd y llwybr troed presennol ar hyd ochr ogleddol yr A473 yn cael ei uwchraddio. I'r dwyrain o fynedfa'r safle bydd yn cael ei uwchraddio i llwybr troed / llwybr beicio a rennir a fydd yn cysylltu'r safle â siopau lleol Bryntirion yn ogystal â llwybr Teithio Llesol INM-BR-57. I'r gorllewin o fynedfa'r safle bydd y llwybr troed yn cael ei ledu i ddarparu gwell cysylltiad i gerddwyr â'r safle bws presennol tua'r dwyrain sydd wedi'i leoli ar yr A473.

Ffyrdd Mynediad Newydd

Er mwyn darparu mynediad diogel i gerbydau i'r safle, darperir cyffordd 3 cangen newydd â goleuadau traffig gyda'r A473 ar y ffin ddeheuol. Bydd hyn yn diwallu anghenion pob defnyddiwr, gan ddarparu croesfan defnydd a rennir newydd i gysylltu'r llwybr beicio/cerdded mewnol â'r llwybr teithio llesol presennol BRC9b ar ochr ddeheuol yr A473.

Bydd y brif ffordd asgwrn cefn fewnol yn cael ei chynllunio i ddarparu ar gyfer symudiadau bysiau dwyffordd, bydd yn caniatáu blaenoriaeth i feicwyr dros ffyrdd ochr, a bydd yn cynnig amgylchedd rhagorol ar gyfer symudiadau cerddwyr. Bydd ffyrdd llesol ar y ffordd asgwrn cefn, gan ddarparu llwybr deniadol ar gyfer dulliau teithio llesol a bysiau. Bydd y datblygiad yn ymgorffori'r hawliau tramwy cyhoeddus presennol o fewn ei ddyluniad mewnol, gan eu gwneud mor ddeniadol â phosibl a chaniatáu i gerddwyr gyrraedd gweddill y safle, a'r cymunedau lleol fel Trelales a Bryntirion. Bydd gweddill y safle'n darparu'r seilwaith angenrheidiol i gerddwyr a beicwyr i annog cerdded a beicio a'r trawstoriadau stryd a'r terfynau cyflymder priodol i gefnogi hyn.

Bydd y mynediad brys yn rhan ogleddol y safle'n darparu cysylltiad ar gyfer defnyddwyr Teithio Llesol i Ffordd Llangewydd hefyd lle cynigir gwahardd cerbydau modur rhwng Bryntirion a lle mae'n ymuno â'r lôn sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de drwy'r safle (i'r gorllewin). Bydd hyn yn ffurfio coridor teithio gwyrdd rhwng y safle a gogledd Bryntirion, a dim ond dulliau Teithio Llesol a cherbydau'r gwasanaethau brys gaiff ei ddefnyddio. Bydd y rhan o'r lôn rhwng y fynedfa argyfwng a Bryntirion yn cael ei huwchraddio yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddylunio Teithio Llesol. Ar ôl cyrraedd Bryntirion byddai cerddwyr yn defnyddio llwybrau troed presennol a byddai beicwyr yn mynd ar hyd strydoedd tawel i gysylltu â llwybrau Teithio Llesol presennol INM-BR-55 yn y dwyrain neu INM-BR-57 yn y de.

Asesiad Trafnidiaeth

Cynhyrchwyd Asesiad Trafnidiaeth, yn ogystal â Strategaeth Symudedd, gan Vectos. Mae'r asesiad yn cadarnhau y rhagwelir y bydd effaith traffig 850 o anheddau tua 269 o symudiadau dwyffordd yn ystod oriau brig y bore a 243 yn ystod oriau brig y prynhawn, er yr ystyrir mai dyma'r achos gwaethaf wrth i agweddau tuag at deithio barhau i newid. Mae'r cwantwm hwn o deithiau yn cyfateb i ychydig dros 4 cerbyd y funud yn y ddau gyfeiriad, ar draws y rhwydwaith priffyrdd lleol.

Daw'r asesiad i'r casgliad bod y datblygiad yn darparu cyfleoedd i greu ymyl orllewinol newydd i Ben-y-bont ar Ogwr mewn safle hunangynhaliol sy'n cynnig cyfleusterau cymunedol sy'n addas ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Fel hyn, mae'r achos trafndiaeth dros symudedd yn darparu'r opsiynau angenrheidiol i hyrwyddo dulliau teithio cynaliadwy cyn y cerbyd preifat. Mae dyluniad yr amgylchedd, y cynllunio teithio a'r manteision lleoliadol, ynghyd â'r Strategaeth Symudedd yn golygu bod mantais fawr i drigolion presennol a newydd, gan wella'n sylweddol y dewisiadau teithio, ar gyfer teithiau cymudo, hamdden a chymdeithasol ac felly cynhwysiant cymdeithasol. Bydd gweithio gartref ac o drydydd lle fel Hwb Gwaith ar y safle'n cael ei annog o'r cychwyn cyntaf, yn unol â dyheadau Llywodraeth Cymru.

Perygl Llifogydd

Mae JBA Consulting wedi paratoi strategaeth ddraenio lefel uchel ar gyfer y safle sy'n cadarnhau bod y safle wedi'i leoli o fewn Parth A DAM, a ddefnyddir o fewn TAN15 i ddangos nad ystyrir bod fawr ddim neu ddim risg o lifogydd afon neu lanw mewn lleoliad o'r fath. Adlewyrchir hyn yn y sylwadau a gafwyd gan CNC, ac yn yr Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd sy'n llywio'r CDLI ac yn nodi'r safle fel un gwyrdd yn ei asesiad RAG. Felly, caniateir pob defnydd tir arfaethedig heb fod angen asesiad o ganlyniadau llifogydd. Mae'r Asesiad yn tynnu sylw at y ffaith bod cyfran fach o'r safle (4.9%) yn wynebu risg isel o lifogydd oherwydd dŵr wyneb, sy'n cyfateb i bantiau topograffig sy'n rhedeg o'r gogledd i'r de. Mae dwy ardal sydd fwyaf tebygol o ddioddef llifogydd dŵr wyneb. Mae'r gyntaf yn cyd-fynd â llwybr dŵr wyneb sy'n llifo i lawr i gornel ogledd-orllewinol y safle. Coetir sydd yn y rhan hon o'r safle ar hyn o bryd a bydd yn cael ei gadw fel rhan o'r cynigion. Ystyrir felly na fydd yr ardal hon o berygl llifogydd dŵr wyneb yn cael fawr o ddylanwad ar gynigion datblygu. Mae'r ail ardal yn llwybr llif dŵr wyneb allweddol sy'n rhedeg drwy ganol y safle tuag at yr A473 lle dangosir ardal fach o berygl llifogydd dŵr wyneb uchel. Bydd y llwybrau llif dŵr wyneb yn y rhan hon o'r safle'n cael eu cadw lle bo hynny'n bosibl a'u hymgorffori yn y strategaeth draenio dŵr wyneb drwy ddefnyddio SDCau a choridorau gwyrdd.

Perchenogaeth Tir

Mae gan Llanmoor Development Co. Ltd reolaeth lwyr dros yr holl dir sy'n ffurfio'r dynodiad safle, drwy Gytundebau Opsiwn Tirfeddianwyr unigol ynghyd â Chyd-gytundeb Tirfeddianwyr ffurfiol a gafodd ei gyfnewid a'i gwblhau'n gyfreithiol ym mis Hydref 2020. Mae hyn yn sicrhau bod y tirfeddianwyr unigol yn gweithio gyda'i gilydd ac y gellir datblygu'r safle yn ei gyfanrwydd heb unrhyw fath o gyfyngiadau perchenogaeth tir.

Amgylcheddau / Rhywogaethau Ecologol a Warchodir a Dynodiadau

Mae astudiaeth ddesg ecolegol ac arolwg Cam 1 Estynedig wedi'u cynnal gan yr EDP. Mae'r astudiaeth ddesg wedi nodi, o fewn parth dylanwad y Safle Astudio, fod nifer o safleoedd

dynodedig statudol ac anstatudol yn bresennol, yn fwyaf nodedig SINC Dolydd Trelales sy'n gorgyffwrdd â'r safle ei hun.

O ystyried y cyfuniad o safleoedd dynodedig, bydd angen i unrhyw gyflwyniad cynllunio yn y dyfodol ystyried y potensial am effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar nodweddion cymwys, gan gynnwys SINC Dolydd Trelales. Fodd bynnag, mae'n rhan annatod o'r uwchgynllun sy'n datblygu y bydd SINC Dolydd Trelales a'i nodweddion dynodedig cysylltiedig yn cael eu cadw. At hynny, bydd nodweddion o'r fath a gedwir yn cael eu diogelu ymhellach rhag niwed, difrod ac aflonyddwch posibl drwy ddylunio datblygiadau adeiledig yn sensitif i ffwrdd oddi wrth ffiniau SINC a chynnwys clustogfeydd addas.

Mae'r astudiaeth ddesg yn cadarnhau y bydd cynnwys SINC Dolydd Trelales o fewn ffin Safle'r Astudiaeth yn darparu potensial sylweddol ar gyfer darpariaeth gytbwys o ardaloedd o fannau agored cyhoeddus anffurfiol a pharthau bywyd gwyllt. O'i gysylltu â'r POS a'r mannau chwarae arfaethedig ar draws y safle y gellir ei ddatblygu, bydd hyn o fudd sylweddol i amwynder gweledol a hamdden, cadwraeth a gwella bioamrywiaeth. O ran yr olaf, mae'r SINC yn darparu lle posibl i ddarparu ar gyfer mesurau lliniaru ecolegol a mesurau gwella bioamrywiaeth ac felly'n gwrthbwysio effeithiau ecolegol a allai godi wrth ddatblygu tir cyfagos.

Cafodd arolwg Cam 1 Estynedig ei gynnal ym mis Chwefror 2020, wedi'i ategu gan ragor o waith clwydi ystlumod ym mis Mawrth 2020. Daeth yr arolwg Cam 1 i'r casgliad mai glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol o ddiddordeb botanegol cyfyngedig sydd ar y safle gan mwyaf ac felly mae ganddo werth ecolegol cynhenid isel. Mae cynefinoedd o'r pwys ecolegol mwyaf yn cynnwys y gwrychoedd brodorol ar y ffin ogleddol a'r ffiniau caeau mewnol yn ogystal â chynefin coetir a glaswelltir corsiog sy'n gysylltiedig â SINC Dolydd Trelales. Nododd yr arolygon o ystlumod yn clwydo sawl coeden â photensial isel i uchel i ystlumod glwydo ynddynt tra bod pyllau ar y safle wedi'u hystyried am eu potensial i gynnal y madfall ddŵr gribog.

Mae canlyniadau'r astudiaeth ddesg a'r arolwg Cam 1 Estynedig wedi dylanwadu ar yr uwchgynllun sydd wedi ceisio lleoli datblygiadau ar draws y cynefinoedd hynny o werth ecolegol cyfyngedig yn bennaf tra'n cadw cynefinoedd terfyn cyn belled ag y bo modd. Lle y'u cadwyd, mae nodweddion o'r fath wedi'u hystyried mewn mannau gwyrdd anffurfiol arfaethedig a chysylltiadau trafndiaeth gynaliadwy, sydd yn y pen draw yn gwella cysylltedd drwy'r Safle ac yn cyfrannu at yr adnodd seilwaith gwyrdd ehangach.

Fodd bynnag, lle nad yw osgoi'n bosibl, ac y bydd yn arwain at golli ffiniau caeau mewnol (er eu bod yn dlawd o ran rhywogaethau neu'n ddarfodedig gan mwyaf), ystyrir bod y safle o faint a graddau digonol i alluogi cynigion datblygu yn y dyfodol i osgoi a/neu liniaru'n hyblyg ar gyfer unrhyw gyfyngiadau ecolegol sylweddol a gwneud iawn lle bo angen. Bydd hyn yn ychwanegol at leoli datblygiadau adeiledig yn sensitif i ffwrdd o nodweddion ffiniau a gedwir er mwyn lleihau difrod.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw hefyd at arolygon manwl pellach o gynefinoedd a rhywogaethau a argymhellir i lywio cais cynllunio a sicrhau bod y mesurau lliniaru

arfaethedig yn briodol ac yn gymesur. Mae'r rhain yn cynnwys arolwg Pathewod, a godwyd mewn sylwadau a dderbyniwyd gan CNC.

Coedyddiaeth

Mae'r EDP hefyd wedi cynnal arolwg llawn o Goed mewn perthynas â Dylunio, Dymchwel ac Adeiladu sy'n cydymffurfio â BS 5837:2012 o goed a gwrychoedd ar y safle. Mae'r arolwg yn cadarnhau bod y coed a nodwyd ledled y safle o werth cymysg ar y cyfan. Mae'r Arolwg Coed yn nodi presenoldeb Coetiroedd Lled-naturiol Hynafol, Coetir Hynafol wedi'i Adfer, a Phlanhigfeydd ar Goetir Hynafol mewn rhannau o'r safle, yn ogystal â nodi bod Gorchmynion Cadw Coed (TPO) ar hyd ffiniau'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain.

Mae'r wybodaeth am gyfyngiadau coedyddiaeth a ddarperir yn dangos nad oes unrhyw gyfyngiadau cyffredinol i ddatblygu'r safle, gyda rhai coed y mae'n rhaid eu blaenoriaethu i'w cadw. Mae'r llinell sylfaen a ddarparwyd wedi dylanwadu ar yr uwchgynllun a'r gwaith cynllun i ddarparu datblygiad addas.

Cyfleustodau

Paratowyd Adroddiad Asesu Cyfleustodau gan Utilitas. Mae'r adroddiad yn cadarnhau presenoldeb a lleoliad asedau seilwaith presennol y mae angen eu cynnal a'u cadw ar y safle, neu fod yn destun gwaith gwyrho yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys 3 rhychwant o linellau pŵer trydan uwchben a phrif bibell nwy pwysedd canolig o fewn y safle. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion gwaith gwyrho posibl hefyd wrth fynedfa newydd y safle oddi ar yr A473 o ran ceblau prif gyflenwad trydan 11kV a LV, prif bibell ddŵr 6 modfedd a cheblau ffibr Openreach.

Mae'r adroddiad yn cadarnhau'r sefyllfa hefyd o ran darparu seilwaith cyfleustodau newydd i wasanaethu'r datblygiad arfaethedig. Yn hyn o beth, mae Western Power wedi cadarnhau y gellir cyflenwi pŵer i'r safle o'u his-orsaf sylfaenol bresennol i'r dwyrain o'r safle. Bydd ceblau HV 11kV newydd yn cael eu gosod o'r lleoliad hwn i'r safle, lle bydd yr Is-orsafoedd dosbarthu safonol angenrheidiol wedi'u lleoli mewn modd sensitif, yn unol â gofynion WPD i wasanaethu'r datblygiad. Mae Wales & West wedi cadarnhau bod gan eu prif bibell pwysedd canolig bresennol sydd ar y safle ar hyn o bryd y capasiti i wasanaethu'r datblygiad. Efallai y bydd rhywfaint o gapasiti hefyd i wasanaethu cam cychwynnol y gwaith adeiladu o'r rhwydwaith Pwysedd Isel yn yr A473. Mae DCWW wedi cadarnhau bod angen gwaith atgyfnerthu ar y rhwydwaith dŵr glân a dŵr budr i ddarparu ar gyfer y safle cyfan a bydd angen Asesiad Modelu Hydrolig i lywio'r gwaith hwnnw. Maent wedi cadarnhau hefyd nad oes unrhyw rwystrau anorchfygol i ddatblygu'r safle. Yn olaf, mae Openreach wedi cadarnhau y gellir darparu band eang ffibr cyflym iawn i bob adeilad ar y safle.

I gloi, mae'r adroddiad yn nodi bod gwasanaethau cyfleustodau ar gael i wasanaethu'r datblygiad gan gynnwys Trydan, Dŵr, Nwy a Ffibr ac mae costau'r gyllideb wedi'u cynnwys yn yr Asesiad Hyfywedd sy'n cefnogi'r safle.

Y Gymraeg

Nid yw'r safle wedi ei leoli mewn ardal sensitif o ran y Gymraeg.

Archaeoleg

Paratowyd Asesiad Archaeolegol a Threftadaeth gan EDP. Mae'r asesiad yn dangos nad yw'r safle'n cynnwys unrhyw Safleoedd Treftadaeth y Byd, Henebion Cofrestredig, adeiladau rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig na thirweddau hanesyddol, lle byddai rhagdybiaeth o blaid eu diogelu'n ffisegol yn y fan a'r lle ac yn erbyn datblygiad. O ran olion archaeolegol, nodir bod gan y safle botensial cymedrol i uchel o gynnwys olion o'r cyfnod canoloesol, yn enwedig yn y rhannau mwyaf gogleddol, sydd ger safle hen Eglwys Llangewydd. Fodd bynnag, mae'r tir yn SINC ac ni chaiff ei ddatblygu.

Er bod ychydig o dystiolaeth o weithgarwch cyn-hanesyddol hwyr a Rhufeinig yn yr ardal astudio 1km amgylchynol, bernir bod y tebygolrwydd bod archaeoleg y cyfnodau hyn o fewn y safle'n isel. Safai aneddiadau ôl-ganoloesol mewn mannau eraill yn yr ardal ac mae unrhyw archaeoleg o'r cyfnod hwn o fewn y safle yn fwyaf tebygol o ymwneud ag amaethyddiaeth. Yn gyffredinol, mae'r data llinell sylfaen yn dangos bod y tebygolrwydd y bydd archaeoleg arwyddocaol yn bresennol yn isel. Gellir sicrhau unrhyw ymchwiliad archaeolegol pellach yn rhesymol drwy gynnwys amod cynllunio wedi'i eirio'n briodol fel atodiad i ganiatâd cynllunio.

Mae effeithiau posibl ar leoliad asedau hanesyddol yn yr ardal wedi canolbwyntio ar yr ardal astudio 1km. Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol sy'n deillio o newidiadau i leoliad ar gyfer henebion cofrestredig, adeiladau rhestredig a pharciau a gerddi cofrestredig.

O ran Ardal Gadwraeth Trelales, ni fydd unrhyw newidiadau sylweddol i'w lleoliad gweledol chwaith. Cydnabyddir y bydd datblygiadau yn rhan ddeheuol y safle'n cael gwared ar ran o'r dirwedd amaethyddol o amgylch Trelales sy'n ffurfio clustogfa o Fryntirion i'r dwyrain. Fodd bynnag, bydd tir amaethyddol yn parhau ar bob ochr o amgylch Trelales, a fydd yn cadw ei gymeriad fel anheddiad ar wahân, tra bydd mesurau tirlunio sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn lliniaru unrhyw argraff bod y cyfan yn mynd yn un anheddiad. Asesir hyn fel mân effaith, gyda diddordeb arbennig yr ardal gadwraeth yn cael ei gadw.

Halogiad/adfer

Paratowyd astudiaeth ddesg geoamgylcheddol a geodechnegol o'r safle gan Intégral Géotechnique. Mae'r astudiaeth yn cadarnhau bod y safle wedi parhau'n gyffredinol fel caeau heb eu datblygu a bod y rhan fwyaf o'r safle'n gorwedd ar Aelod Bae Ffynnon y Santes Fair, band o Siâl Larnog o fewn ardal y gogledd-ddwyrain ac Aelod Porthceri o dan yr ardal ddeheuol. Mae'r astudiaeth yn nodi na ddylai unrhyw halogion ddod o'r safle heb ei ddatblygu, ac nad oes unrhyw halogion sylweddol o ddefnyddiau cyfagos.

Rhagwelir yr ystyrir bod risg amgylcheddol gyffredinol y safle'n isel i ganolig ac awgrymir cynigion ymchwilio i'r safle, gan gynnwys arolwg geoffisegol ac yna tyllau treialu ac ymchwiliad tyllau turio i archwilio cyflwr bas i ganolig y ddaear.

Mae Kernon Countryside Consultants wedi cadarnhau bod y safle'n cynnwys tir Isradd 3b a Graddau 4 a 5 gydag ardal o dir anamaethyddol, yn unol â Dosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) Rhagfynegol Llywodraeth Cymru,.

Gofynion Allweddol o ran Seilwaith a Pholisi (gan gynnwys costau bras neu fformiwlâu a nodir yn y CCA lle maent yn hysbys) er enghraifft:

Mynediad

Cyfeiriwch at PLA5, Yr Atodlen Gwella Priffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Addysg

Bydd y datblygiad yn creu 38 o leoedd meithrin, 251 o leoedd cynradd (ynghyd â 3 lle Anghenion Addysgol Arbennig), 152 o leoedd uwchradd (ynghyd â 2 le Anghenion Addysgol Arbennig) a 24 o leoedd ôl-16.

Mae'r uwchgynllun yn gwneud darpariaeth ar gyfer Ysgol Gynradd 1.5 dosbarth mynediad gyda darpariaeth feithrin ar y safle. Rhaid darparu clustogfa ychwanegol o 0.45ha ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Sicrhau cyfraniad at ddarpariaeth Meithrin, Cynradd ac Uwchradd drwy Gytundeb Adran 106 ac yn unol â'r CCA Cyfleusterau Addysg a Datblygiad Preswyl. Rhaid i'r ysgol fod yn hygyrch i drigolion newydd a'r trigolion presennol drwy bob dull teithio, wedi'u galluogi gan y datblygiad.

Tai Fforddiadwy

Bydd y safle'n darparu 20% o dai fforddiadwy yn unol â Pholisïau PLA3 a COM2.

Mannau Agored

Seilwaith Gwyrdd a Chyfleusterau Hamdden i'w darparu yn unol â Pholisi COM10 a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored a CCA Datblygiadau Tai Newydd.

Cyfleustodau

I'w gyflawni yn unol â'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Gofynion gwybodaeth ategol allweddol

- Llyfryn Lluniadau Parc Llangewydd (Hammonds Architectural Ltd)
- Nodyn Mannau Agored Parc Llangewydd (Hammonds Architectural Ltd)
- Nodyn Dosbarthiad Tir Amaethyddol (Kernon Countryside Consultants)
- Asesiad Ansawdd Aer (Ymgynghorwyr Ansawdd Aer)
- Nodyn Llinell Sylfaen Coedyddiaeth (EDP)
- Asesiad Archaeolegol a Threftadaeth (EDP)
- Datganiad Ysgrifenedig o Ymchwiliad - Archaeolegol a Threftadaeth (EDP)
- Strategaeth Draenio (JBA Consulting)
- Nodyn Briffio Ecoleg (EDP)
- SINC Dolydd Trelales: Nodyn Crynodeb Asesiad Cynefinoedd (EDP)
- SINC Dolydd Trelales: Nodyn Briffio Ecolegol (EDP)
- Astudiaeth Ddesg Geoamgylcheddol a Geodechnegol (Intégral Géotechnique)
- Asesiad Trafnidiaeth (Vectos)
- Cynllun Teithio Preswyl Dros Dro (Vectos)
- Arfarniad Tirwedd a Gweledol (EDP)
- Datganiad Ynni Adnewyddadwy (Llanmoor Development Co. Ltd)
- Asesiad Cyfleustodau (Utilitas)

SP2(4) / PLA4: Tir i'r Dwyrain o Bencoed, Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed

Enw /Cyfeirnod Dyraniad Safle	Maint y Safle (ha)	Math o Ddyraniad (Tai, Cyflogaeth, Defnydd Cymysg)	Cyfanswm Unedau (Preifat a Fforddiadwy) Unedau P a Ff	Cyfnodau Camau Cyflawni
PLA4: Tir i'r Dwyrain o Bencoed, Ardal Twf Cynaliadwy Pencoed	50.23 ha	Estyniad Trefol Cynaliadwy Defnydd Cymysg Strategol	770 o unedau preswyl 154 o unedau fforddiadwy	2018-2022: 0 2023-2027: 290 2028-2033: 480

Disgrifiad o'r Safle

Lleolir y safle i'r gogledd-ddwyrain o Ben-y-bont ar Ogwr, i'r gogledd o draffordd yr M4 (Cyffordd 35), yn union ger y ffin â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, er o fewn ffin weinyddol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r prif safle wedi'i amgylchynu i'r gogledd a'r gorllewin gan yr A473, i'r de gan Heol Felindre, i'r dwyrain gan nant Ewenni Fach ac i'r de-ddwyrain gan dir fferm. Mae'r tir i'r gorllewin o'r A473 wedi ei amgylchynu gan yr A473 ar ei ffin ddwyreiniol, gan Heol Felindre i'r de a chan Afon Ewenni i'r gorllewin a'r gogledd. Y tu hwnt i'r afon mae datblygiad preswyl (Pencoed).

Mae'r ardal ehangach yn cynnwys cymysgedd o ddefnyddiau tir, preswyl a masnachol yn bennaf i'r gorllewin sy'n gysylltiedig â thref Pencoed. Mae Ffatri Sony (a dynodiad tir cyflogaeth ehangach) wedi'i lleoli i'r de o'r safle. Tir fferm yn bennaf yw tir i'r gogledd a'r dwyrain. Mae gwesty a bwyty wedi'u lleoli i'r de-ddwyrain o'r safle.

Prif Broblemau a Chyfyngiadau'r Safle

Priffyrdd a Chludiant

Gwelliannau Teithio Llesol

Mae'r safle wedi'i leoli mewn lleoliad cynaliadwy o ran mynediad i gyfleusterau ac amwynderau, a fydd yn lleihau'r angen i deithio ymhellach i ffwrdd. Mae WSP wedi ystyried cyfleoedd trafndiaeth gynaliadwy sy'n bodoli eisoes, gan gynnwys mynediad at wasanaethau bysiau, trenau a seilwaith teithio llesol. Daethpwyd i'r casgliad bod y safle mewn sefyllfa ffafriol i gyfrannu'n sylweddol tuag at strategaeth drafndiaeth integredig Pen-y-bont ar Ogwr yn unol â Deddf Teithio Llesol Cymru 2013 a helpu i gyflawni gwelliannau llesol lleol ar hyd yr A473, gydag Ysgol Gyfun Pencoed, Parc Technoleg Pencoed a Chanol Tref Pencoed (gan gynnwys yr orsaf drenau a'r arosfannau bysiau). Rhaid cysylltu felly â'r llwybrau teithio llesol presennol a dylid darparu llwybrau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig o fewn Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-PE-2, INM-PE-8, INM-PE-13 ac INM-PE-15.

Mae'r uwchgynllun yn dangos hefyd y byddai mynediad i gerddwyr yn cael ei ddarparu yng nghornel ogledd-ddwyreiniol y safle i'r A473. Bydd cyswllt mynediad i gerddwyr yn cael ei ddarparu yng nghornel dde-orllewinol y safle i'r A473 hefyd. Byddai trydydd mynediad i gerddwyr yn cael ei ddarparu ar gyffordd yr A473 â Ffordd Pen-y-bont yn lleoliad Campws y Coleg presennol. Byddai'r holl gysylltiadau cerddwyr a beicwyr drwy'r safle'n cael eu hadeiladu i safon a byddant yn addas i ddiwallu anghenion y datblygiad

Ffyrdd Mynediad Newydd

Er mwyn darparu digon o gapasiti i gefnogi mynediad i gerbydau i'r Safle Strategol hwn, bydd mynedfeydd arfaethedig i'r safle'n cael eu gwasanaethau gan ddau bwynt mynediad newydd i gerbydau i'r rhwydwaith priffyrdd presennol. Bwriedir i'r mannau mynediad fod yn gyffyrdd â blaenoriaeth i'r A473 ym mhen gogleddol y safle a'r llall i Heol Felindre ym mhen deheuol y safle.

Asesiad Trafnidiaeth

Mae WSP wedi cwblhau asesiad trafndiaeth manwl i archwilio'r materion priffyrdd a chludiant sy'n gysylltiedig â'r Safle Strategol. Roedd yr asesiad hwn yn seiliedig ar gyflwyno'r safle ar gyfer hyd at 800 o anheddau ac ysgol gynradd 1.5 dosbarth mynediad wedi'i lleoli oddi ar yr A473 ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Daeth yr Asesiad i'r casgliad y byddai'r safle'n cydymffurfio'n llawn ag amcanion polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae'r trefniadau mynediad arfaethedig wedi dangos bod y cyffyrdd arfaethedig yn briodol ar gyfer maint y datblygiad. Nid oes unrhyw dueddiadau na phatrymau cyffredin mewn gwrthdrawiadau ar y rhwydwaith priffyrdd lleol dros y cyfnod pum mlynedd diweddaraf, ac ni fydd y cynigion yn cael effaith negyddol ar ddiogelwch priffyrdd. At hynny, byddai'r trefniadau arfaethedig ar gyfer cael mynediad i'r safle'n gweithredu o fewn capasiti ac felly ni fyddai'r datblygiad yn arwain at effaith ddifrifol ar y rhwydwaith priffyrdd lleol.

Mae'r Asesiad yn dangos bod y cynigion datblygu yn cyd-fynd â pholisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Ni fydd y cynigion yn debygol o greu nifer sylweddol o deithiau ac mae modelu'n dangos na fyddai'r teithiau'n cael effaith sylweddol ar weithrediad a diogelwch y rhwydwaith priffyrdd lleol.

Perygl Llifogydd

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud bod y safle wedi'i leoli'n rhannol o fewn Parth Llifogydd C2 (prif afon Ewenni Fach) a'i leoli'n rhannol o fewn Parth Gwarchod Tarddiad Dŵr (Ffynnon Schwyll). Paratowyd strategaeth ddraenio a nodyn cyngor ar lifogydd gan WSP, gan dynnu sylw at y ffaith bod tir sy'n ymwneud â ffin ddwyreiniol a ffin dde-ddwyreiniol y safle wedi'i ddynodi'n Barth Llifogydd C2 TAN15, tir sydd heb seilwaith amddiffyn rhag llifogydd sylweddol. Lleolir y rhan fwyaf o'r tir i'r gorllewin o'r A473 o fewn Parth Llifogydd C2 hefyd. Er y bydd angen asesiad manylach o berygl llifogydd a gwaith dylunio i lywio cais cynllunio ffurfiol, mae'r risgiau a nodir yn y ddogfen hon yn effeithio ar rannau bach o'r safle yn unig felly ni ystyrir eu bod yn gyfyngiad sylweddol ar ddatblygu'r safle. Mae'r uwchgynllun presennol wedi ystyried y cyfyngiadau hyn ac wedi lleoli datblygiad yn briodol o'u cwrmpas.

Nid ystyrir bod angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd gan nad yw'n gyfyngiad sylfaenol i'r safle ac mae'r dynodiad wedi'i 'ddylunio allan'.

Perchenogaeth Tir

Mae datblygu cae pêl-droed 2.1ha 3G yn y dyfodol sydd o fewn cwmpas y safle y tu allan i berchnogaeth yr hyrwyddwr. Nodir y tir ar yr uwchgynllun presennol ar gyfer yr ailddatblygiad ym Mhen-coed fel lleoliad posibl ar gyfer ysgol gynradd newydd. Disgwylir i strategaeth realistig a chyflawnadwy sicrhau y bydd tir y cae 3G yn gallu ffurfio/yn ffurfio rhan o'r safle datblygu ehangach ac yn cael ei ddarparu fel rhan o'r uwchgynllun ehangach ar gyfer y safle a fydd yn gweld ysgol gynradd newydd a chartrefi newydd yn cael eu datblygu ar y tir hwn.

Amgylcheddau / Rhywogaethau Ecologol a Warchodir a Dynodiadau

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud bod y safle gerllaw Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Brynna a Wern Tarw, sy'n amlygu'r angen am asesu ac ystyried gofalus er mwyn osgoi unrhyw effaith andwyol ar y safle dynodedig. Cynhaliwyd Arfarniad Ecologol gan Soltys Brewster, a gadarnhaodd fod SoDdGA Brynna a Wern Tarw tua 550m i'r gogledd-ddwyrain o'r safle. Mae SoDdGA Brynna a Wern Tarw o ddiddordeb arbennig am ei ardal helaeth o laswelltir iseldir cymysg sy'n llawn rhywogaethau, gan gynnwys ardaloedd sylweddol o laswelltir corsiog a niwtral sych, ac am gysylltiad y cynefinoedd hyn ag eraill gan gynnwys coetir llydanddail a rhostir. O ystyried y cynefinoedd sy'n bresennol ar y safle a'r ffaith bod datblygiadau a seilwaith presennol yn gwahanu'r safle oddi wrth y safleoedd dynodedig, ystyrir nad yw'r SoDdGA yn berthnasol iawn yn ecolegol os o gwbl i unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol.

Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai ystlumod fod yn bresennol ar y safle hefyd. Ni wnaeth canfyddiadau arolwg Arfarniad Ecolog Soltys Brewster nodi unrhyw fflora a ffawna gwarchodedig neu nodedig sy'n gysylltiedig â'r safle ei hun. Er bod cofnodion o sawl rhywogaeth warchodedig a nodedig wedi'u nodi yn yr ardal gyfagos gan gynnwys y Pathew *Muscardinus avellanarius*, y Madfall Ddŵr Gribog *Triturus Crested*, ymlusgiaid, adar ac ystlumod. Mae'r materion allweddol ar y safle o safbwynt ecolegol, yn ogystal ag argymhellion ar gyfer gwaith arolygu / lliniaru pellach fel a ganlyn:

- O ystyried bod presenoldeb y Pathew a/neu'r Madfall Ddŵr Gribog yn debygol o effeithio ar yr ardal sydd ar gael i'w datblygu, argymhellir arolygon pellach i gadarnhau presenoldeb neu absenoldeb tebygol y rhywogaethau hyn er mwyn pennu'r gofyniad am drwydded gan CNC.
- Argymhellir arolygon ychwanegol ar gyfer ymlusgiaid ac ystlumod hefyd cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio manwl.
- Mae'r safle'n cynnig cyfleoedd ar gyfer gwelliannau ecolegol hefyd y gellid eu hymgorffori yn y dyluniad yn gynnwys yn y broses. Ar hyn o bryd mae cysylltedd cynefinoedd yn wael o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws y safle ac ar hyd y ffiniau gorllewinol a deheuol.

Mae uwchgynllun enghreifftiol hyrwyddwr y safle wedi cynnwys nifer o fesurau i wella a mynd i'r afael â chyfyngiadau ecolegol a nodwyd gan gynnwys cadw'r coetiroedd presennol lle y bo'n bosibl, tra'n creu coridor natur o'r dwyrain i'r gorllewin yn ogystal â gwella'r llain

goed bresennol o'r gogledd i'r de i'r dwyrain o'r safle. Bydd casgliad amrywiol o gynefinoedd yn cael eu darparu hefyd gan gynnwys pyllau arafu/gwelyau cyrs, gerddi glaw/gwrychoedd a choetiroedd.

Cyfleustodau

Bydd buddsoddi mewn cyfleustodau yn sicrhau y gall y safle wireddu lefel y datblygiad sydd mewn golwg. Mae OPUS Ltd wedi arfarnu cyfyngiadau posibl cael cyfleustodau'n croesi'r safle a'r gallu posibl i gysylltu ag amrywiaeth o wasanaethau.

O ran y cyflenwad dŵr, mae prif bibell ddŵr dosbarthu 200mm o ddiamedr sy'n rhedeg ar hyd ffin orllewinol y safle. O ran carthffosiaeth, mae carthffos gyfun gyhoeddus yn croesi'r safle o'r gogledd i'r de ar hyd ffin ddwyreiniol y safle cyn croesi'r safle tuag at yr A474 i'r de o gampws y coleg. Mae DCWW wedi dweud bod gan y gwaith trin dŵr gwastraff (Pen-y-bont ar Ogwr) ddigon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y llifoedd dŵr budr a ragwelir o'r datblygiad arfaethedig, er y bydd angen modelu hydrologig ychwanegol i gynghori ar gapasiti'r rhwydwaith cyflenwi dŵr a dŵr budr a phwyntiau cysylltiadau posibl oherwydd maint y safle.

Ar gyfer gwasanaethau trydanol, mae ceblau tanddaearol Foltedd Uchel sy'n rhedeg ar hyd ffin orllewinol y safle o fynedfa'r campws i'r gylchfan rhwng yr A474 a Heol Felindre. Ar hyd y ffin ogleddol mae ceblau Foltedd Uchel hefyd sy'n rhedeg ar hyd y ffin o gornel ogledd-ddwyreiniol i safle'r campws ac yna'n rhedeg ar hyd ffin safle'r campws tua'r de i'r is-orsaf bresennol a leolir ar hyd de'r safle datblygu ger Heol Felindre. Mae uwchgynllun enghreifftiol hyrwyddwr y safle yn ystyried yr hawddfaint gofynnol o 3m y naill ochr a'r llall i'r cyfarpar. Bydd y cysylltiadau i is-orsafoedd cebl cylch 11kV.

Ar gyfer ffôn llinell dir / band eang, mae blwch cyswllt a chebl BT Openreach yng nghornel dde-orllewinol y safle. O ystyried pa mor agos yw i ffin y safle, ni ragwelir y bydd angen gwyrto'r ased hwn.

Ar gyfer cyflenwad nwy, mae'r bibell prif gyflenwad agosaf wedi'i lleoli 2m o ffin y safle, ac mae wedi'i lleoli i'r dwyrain o'r safle. Pibell prif gyflenwad pwysedd isel 180mm PE yw hon. Hefyd mae pibell prif gyflenwad nwy pwysedd uchel yn croesi'r safle o'r gogledd i'r de ar draws y safle. Mae Wales and West Utilities wedi rhoi manylion yr hawddfreintiau sy'n gysylltiedig â'r biblinell hon sy'n nodi na ddylid codi unrhyw strwythur o fewn 6.096m (20 troedfedd) y naill ochr na'r llall i'r biblinell. Oherwydd natur pwysedd uchel y biblinell fe'i hystyrir yn berygl ac felly mae parthau gwahardd datblygu yn gysylltiedig â'r biblinell hefyd. Mae uwchgynllun enghreifftiol hyrwyddwr y safle wedi mabwysiadu clustogfa 10m y naill ochr a'r llall i'r biblinell. Defnyddir yr ardal hon i wneud cyfraniad sylweddol a chadarnhaol i rwydwaith seilwaith gwyrdd y datblygiad drwy greu parc llinellol sy'n ymgorffori ardaloedd tirlunio, cadwraeth natur a chysylltiadau cerddwyr er mwyn osgoi sterileiddio tir yn ddiangen. Ni ragwelir cysylltiadau oherwydd gwres/poptai trydan.

Y Gymraeg

Nid yw'r safle wedi ei leoli mewn ardal sensitif o ran y Gymraeg.

Archaeoleg

Mae'r safle wedi'i leoli yn agos at ddau Adeilad Rhestredig o fewn y prif gampws (Tŷ Tregroes House a'r bont ar y dramwyfa sy'n arwain i'r Tŷ). Dywed Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg Gwent (GGAT) fod y safle hwn yn safle tŷ, fferm, ystad a thirwedd a reolir o'r 18fed ganrif; ffiniau fel ar y Map Degwm, olion lonydd coed wedi'u plannu. Anheddiad canoloesol gerllaw, rheoli dŵr a melino. Argymhellir asesiad cyn penderfynu fel cam cyntaf tuag at liniaru; mae hyn yn annhebygol o atal datblygiad.

Mae uwchgynllun enghreifftiol hyrwyddwr y safle'n cydnabod yr adeiladau hyn ac mae wedi'i ddylunio wedyn i sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad yn agos ac nad yw'n cael unrhyw effaith andwyol ar yr adeiladau rhestredig.

Halogiad/adfer

Dywed Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai'r safle fod mewn perygl o gael ei halogi (Redroofs EAHL14950). Fodd bynnag, nid yw hyrwyddwr y safle o'r farn bod y safle mewn perygl. Bydd ymchwiliad pellach yn cael ei gynnal yn ystod y cam cais cynllunio manwl.

Gofynion Allweddol o ran Seilwaith a Pholisi (gan gynnwys costau bras neu fformiwlâu a nodir yn y CCA lle maent yn hysbys) er enghraifft:

Mynediad

Cyfeiriwch at PLA5, Yr Atodlen Gwella Priffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Addysg

Bydd y datblygiad yn creu 34 o leoedd meithrin, 233 o leoedd cynradd (ynghyd â 3 lle anghenion addysgol arbennig), 46 o leoedd uwchradd (ynghyd â 2 le anghenion addysgol arbennig) a 12 o leoedd ôl-16.

Rhaid i'r datblygiad ddarparu 1.8ha o dir i ddarparu ysgol gynradd 1.5 dosbarth mynediad gyda chyfleuster meithrin ar yr un safle, a chlustogfa ychwanegol o 0.5ha ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Rhaid gwneud cyfraniadau ariannol hefyd at ddarpariaeth addysg feithrin, gynradd, uwchradd ac ôl-16 fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol, a sicrhau drwy Adran 106 yn unol â'r CCA Cyfleusterau Addysg a Datblygiad Preswyl. Rhaid i'r ysgol fod yn hygyrch i drigolion newydd a'r trigolion presennol drwy bob dull teithio, wedi'u galluogi gan y datblygiad.

Tai Fforddiadwy

Rhaid i'r datblygiad ddarparu 20% o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â pholisi PLA5.

Mannau Agored

Seilwaith Gwyrdd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored i'w darparu yn unol â Pholisi COM10 a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored a Chanllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Tai Newydd.

Cyfleustodau

I'w gyflawni yn unol â'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Gofynion gwybodaeth ategol allweddol

- Adroddiad Uwchgynllun Austin-Smith: Lord Ebrill 2020
- Adroddiad Strategaeth Ynni Savills Gorffennaf 2020

- Datganiad Draenio a Chyfleustodau OPUS Ltd Tachwedd 2018
- Strategaeth Draenio a Chyngor Llifogydd WSP Medi 2020
- Arfarniad Ecolegol Soltys Brewster Tachwedd 2018
- Asesiad Hyfywedd Lefel Uchel Savills Ebrill 2020
- Nodyn Materion Tirwedd Savills Medi 2020
- Nodyn Atodol ALC Savills Medi 2020
- Asesiad o'r Brif Effaith ar Iechyd Savills Medi 2020
- Asesiad Trafnidiaeth WSP Hydref 2020
- Nodyn Strategaeth Cae 3G Savills Chwefror 2021
- Asesiad Hyfywedd

SP2(5) / PLA5: Tir i'r Dwyrain o'r Pîl, Ardal Twf Cynaliadwy y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli

Enw /Cyfeirnod Dyranriad Safle	Maint y safle (ha)	Math o Ddyranriad (Tai, Cyflogaeth, Defnydd Cymysg)	Cyfanswm Unedau (Preifat a Fforddiadwy) Unedau P a Ff	Cyfnodau Camau Cyflawni
PLA5: Tir i'r Dwyrain o'r Pîl, Ardal Twf Cynaliadwy y Pîl, Mynydd Cynffig a Gogledd Corneli	99.86 ha	Estyniad Trefol Cynaliadwy Defnydd Cymysg Strategol	2,000 o unedau preswyl 300 o unedau fforddiadwy	2018-2022: 0 uned 2023-2027: 352 uned 2028-2033: 705 uned

Disgrifiad o'r Safle

Lleolir y safle i'r dwyrain o'r Pîl, wedi'i ffinio gan y rheilffordd (prif lein Abertawe i Lundain) i'r gogledd, tir comin i'r dwyrain, traffordd yr M4 i'r de a'r A4229 i'r gorllewin. Lleolir Ystad Ddiwydiannol Village Farm yn union i'r gogledd hefyd, y tu hwnt i'r rheilffordd. Mae'r safle'n cynnwys cyfanswm o bron i 100 hectar ac fe'i rhennir yn 2 barsel yn ôl aliniad yr A48; Mae Parsel A (i'r de o'r A48) yn 60 ha a Pharsel B (i'r gogledd o'r A48) yn 40ha. Mae'r safle'n codi'n raddol i ffwrdd o gylchfan yr A48 ac mae'n cael ei ddefnyddio fel tir fferm ar hyn o bryd.

Mae'r safle wedi ei glustnodi ar gyfer cynllun defnydd cymysg cynhwysfawr gydag adeiladau preswyl yn bennaf. Bydd yn cynnwys canolfan fasnachol leol, seilwaith ategol priodol a darparu dwy ysgol gynradd newydd, gyda chlustogfa tir i er mwyn gallu ehangu'r ysgolion hyn yn y dyfodol. Byddai'r cynnig yn ceisio darparu cysylltiadau teithio newydd i gerddwyr a theithio llesol o'r safle i'r Pîl/Mynyddcynffig er mwyn gwella cysylltedd. Rhoddir pwyslais arbennig ar wella'r cysylltiadau i gerddwyr â Gorsaf Reilffordd y Pîl a hwyluso llwybr diogel i gerddwyr a beicwyr rhwng y safle a'r Pîl drwy godi pont newydd dros y rheilffordd.

Prif Broblemau a Chyfyngiadau'r Safle

Priffyrdd a Chludiant

Gwelliannau Teithio Llesol

Mae'r safle wedi'i leoli mewn lleoliad cynaliadwy o ran mynediad i gyfleusterau ac amwynderau, a fydd yn cael ei wella ymhellach gan natur defnydd cymysg y safle a fydd yn lleihau'r angen i deithio ymhellach i ffwrdd. Mae Asesiad Teithio Llesol wedi'i gynnal gan Corun Associates Ltd, a ddaeth i'r casgliad bod y safle mewn lleoliad ffafriol i gyfrannu'n sylweddol tuag at strategaeth drafnidiaeth integredig Pen-y-bont ar Ogwr a helpu i ddarparu gwelliannau teithio llesol lleol i'r Pîl, Gogledd Corneli, Porthcawl a Phen-y-bont ar Ogwr yn unol â Deddf Teithio Llesol Cymru 2013. Rhaid cysylltu felly â'r llwybrau teithio llesol presennol a gwella'r rheini a dylid darparu llwybrau newydd i gyd-fynd â'r llwybrau arfaethedig o fewn Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor: INM-PY-12, INM-PY-13, INM-PY-16, INM-PY-18 ac INM-PY-19.

Darperir mynediad i gerddwyr a beicwyr gan lwybr troed/llwybr beicio newydd a rennir 3m o led a fydd yn cael ei ddarparu ym mhob pwynt mynediad ac ar hyd holl ffin y safle. Bydd

croesfannau toucan yn cael eu darparu hefyd i alluogi cerddwyr a beicwyr i groesi'r A48 a'r A4229 yn ddiogel a chael mynediad i'r rhwydwaith llwybrau troed ehangach.

Bydd y datblygiad yn darparu pont newydd i gerddwyr a beicwyr dros y rheilffordd bresennol hefyd ac ar hyd yr A48/Ffordd y Pîl i ddarparu cysylltiadau diogel i gerddwyr a beicwyr rhwng y safle a'r Pîl. Mae dyluniadau manwl ar gyfer y bont wedi'u llunio gan RVW Consulting ac mae costau lefel uchel wedi'u cynnwys yn yr arfarniad o hyfywedd y safle.

Cyfleuster Parcio a Theithio

Mae astudiaeth ddichonoldeb wedi'i pharatoi i archwilio'r potensial i ailddatblygu Gorsaf Reilffordd y Pîl (tua 4.5 milltir i'r gogledd o'r safle) fel hwb trafnidiaeth. Byddai hyn yn golygu adleoli'r orsaf reilffordd bresennol i'r gogledd o'r safle hwn a chynnwys cyfleusterau parcio a theithio estynedig i wella cysylltiadau â Phorthcawl fel terminws allweddol. Felly, ni fydd y datblygiad yn niweidio'r cynlluniau hyn, drwy neilltuo tir i'r gogledd o'r safle ar gyfer cyfleuster parcio a theithio newydd.

Ffordd Mynediad Newydd

Er mwyn darparu digon o gapasiti i gefnogi mynediad i gerbydau i'r Safle Strategol hwn, bydd mynedfeydd arfaethedig i'r safle wedi'u lleoli ar dair cyffordd wahanol, un ar yr A4229 a dwy ar yr A48.

Bydd y fynedfa ar yr A4229 yn darparu mynediad i'r parcel gorllewinol o dir. Bydd y gyffordd yn ffurfio cyffordd signal dan reolaeth MOVA 3 cangen gyda ffordd fynediad 7.3m. Ar gangen ddeheuol y gyffordd, cynigir lôn 3m ychwanegol i droi i'r dde i ganiatáu mynediad i'r datblygiad arfaethedig

Darperir mynediad ychwanegol i'r parcel gorllewinol o dir drwy gyffordd croesffordd signalau groesgam dan reolaeth MOVA ar yr A48. Bydd ochr ddeheuol y gyffordd yn darparu mynediad i'r parcel gorllewinol drwy ffordd fynediad 7.3m, felly hefyd mynediad i'r parcel dwyreiniol ar ochr ogleddol y gyffordd.

Bydd y mynediad terfynol ar yr A48 yn darparu mynediad i'r parcel dwyreiniol o dir. Bydd y gyffordd yn ffurfio cyffordd signal dan reolaeth MOVA 3 cangen gyda ffordd fynediad 7.3m. Ar gangen ddeheuol y gyffordd, cynigir lôn 3m ychwanegol i droi i'r dde i ganiatáu mynediad i'r datblygiad arfaethedig.

Asesiad Trafnidiaeth

Mae Corun Associates Ltd wedi cwblhau asesiad trafnidiaeth manwl i archwilio'r materion priffyrdd a chludiant sy'n gysylltiedig â'r Safle Strategol. Roedd yr asesiad hwn yn seiliedig ar derfyn uchaf o 2,320 o unedau preswyl ar draws dau barsel y safle (1,250-1,430 o anheddau ar Barsel A a 780-890 o anheddau ar Barsel B).

Daeth yr Asesiad i'r casgliad, yn dilyn ymchwiliad rhagarweiniol i ddamweiniau, nad oes clystyrau amlwg ac felly nad oes unrhyw bryderon amlwg ynghylch diogelwch priffyrdd yng nghyffiniau'r datblygiad arfaethedig. Gwnaeth yr Asesiad ddadansoddiad capasiti ar 7 cyffordd, fel y cytunwyd gydag Adran Briffyrdd y Cyngor, gan ddod i'r casgliad na fydd 5 o'r 7 yn gweld unrhyw broblem berthnasol gyda llif traffig o ganlyniad i gyflwyno'r cwantwm datblygu. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd dwy gyffordd yn gweld ciwiau ac oedi a allai gyfiawnhau mesurau lliniaru fel rhan o ddatblygiad y safle.

Yn gyntaf, rhagwelir y bydd cwantwm y datblygiad ar y safle yn cael effaith gymedrol ar weithrediad signalau'r A473/B4622 yn y rhan fwyaf o'r senarios a aseswyd. Gan fod y gyffordd fymryn dros gapasiti, bydd angen cyfraniad Adran 106 addas yn ystod y cam cais cynllunio naill ai i allu uwchraddio'r gyffordd hon i reolaeth Ysgogi Cerbydau wedi'i

Optimeiddio gan Ficrobrosesydd (MOVA) a/neu i wella ffurfweddiad y rheolydd signalau presennol.

Yn ail, rhagwelir y bydd Cyffordd Flaenoriaeth yr A48 / Heol Mostyn yn profi problemau capasiti yn y senarios asesu, a fydd yn debygol o gael eu gwaethygu, i ryw raddau, gan draffig y safle. Mae'r Cyngor yn ymchwilio i signalau'r gyffordd a fydd yn darparu gwelliannau sylweddol o ran capasiti a diogelwch ac yn caniatáu i giwiau ac oedi gael eu rheoli ym mhob cyfeiriad. Fodd bynnag, bydd angen asesiad pellach o'r gyffordd hon yn ystod y cam cais cynllunio ac efallai y bydd angen gosod y signalau fel rhan o gytundeb Adran 106 neu Adran 278. Bydd disgwyl i'r gyffordd ddarparu rheolaeth MOVA hefyd er mwyn lleihau oedi.

Perygl Llifogydd

Paratowyd nodyn rhagarweiniol yn rhoi trosolwg o'r perygl llifogydd a draenio gan JBA Consulting, a ddangosodd fod ffin ogleddol y parcel dwyreiniol o dir o fewn Parth C2 DAM. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adleisio'r sylwadau hyn hefyd, gan dynnu sylw at y ffaith bod y safle yn rhannol ym mharth C2 prif afon Fach (Y Pîl) ar y ffin ogleddol. Felly, bydd datblygiadau wedi'u lleoli i ffwrdd o'r ardal hon o dir ac wedi'u cyfyngu i ardaloedd o fewn Parth A DAM yn unig (Ardaloedd lle nad oes fawr ddim perygl o lifogydd, os o gwbl). Mae ardaloedd sydd mewn perygl mawr o lifogydd i'w cyfyngu i ddefnyddiau nad ydynt yn agored iawn i niwed gan lifogydd, megis Mannau Agored Cyhoeddus neu SDCau. Ymhellach, daethpwyd i'r casgliad bod gan y safle risg isel i ganolig o lifogydd oherwydd dŵr wyneb, er bod perygl bach iawn o lifogydd ar y safle o bob ffynhonnell arall o lifogydd. Cynigir bod llwybrau llif dŵr wyneb presennol yn cael eu cadw lle bo hynny'n bosibl a'u hymgorffori yn y strategaeth draenio dŵr wyneb ar gyfer y safle. Felly, ni ddarperir ffurfiau adeiledig yn yr ardal hon, a chaiff ei defnyddio'n briodol ar gyfer manau agored cyhoeddus.

Nid ystyrir bod angen Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd ar hyn o bryd gan nad yw'n gyfyngiad sylfaenol i'r safle ac mae'r dynodiad wedi'i 'ddylunio allan'.

Perchenogaeth Tir

Mae pob tîrfeddiannwr wedi ymrwymo i weithio tuag at sicrhau safle datblygu y gellir ei ddarparu fel datblygiad cynhwysfawr. Mae dogfennau priodol ar ffurf cytundeb Tîrfeddiannwr yn cael eu dosbarthu a'u cwblhau rhwng yr holl bartion.

Amgylcheddau / Rhywogaethau Ecologol a Warchodir a Dynodiadau

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dweud bod y safle gerllaw ACA Glaswelltiroedd Cefn Cribwr a SoDdGA Penycastell, Cefn Cribwr, sy'n amlygu'r angen am asesu ac ystyried gofalus er mwyn osgoi unrhyw effaith andwyol ar y safle dynodedig. Cafwyd Adroddiad Ecolog gan Wildwood Ecology, a gadarnhaodd fod rhan o SoDdGA/ACA drws nesaf (Glaswelltiroedd Cefn Cribwr - adrannau 9 a 10), sydd wedi'i ddynodi am ei ddolydd glaswellt y gweunydd a phresenoldeb gloynnod byw brith y gors. Mae'r dynodiad hwn wedi'i wahanu oddi wrth y safle gan heol a rheilffordd i'r gogledd o'r gornel ogledd-ddwyreiniol. Ni chanfuwyd unrhyw damaid y cythraul na glaswellt y gweunydd ar y safle yn ystod yr ymweliad maes, gyda'r tir naill ai'n cael ei bori gan ddefaid neu wartheg, neu wedi'i dorri ar gyfer gwair/silwair. Ni ragwelir unrhyw effeithiau negyddol ar y safle dynodedig hwn, nac unrhyw rai eraill yn yr ardal leol (gan gynnwys SoDdGA Stormy Down, yn union i'r de-ddwyrain o'r safle). Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud o safbwynt ecolegol yn unol ag argymhellion yr adroddiad. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw 'drysorau' ar hyn o bryd, gyda mesurau lliniaru priodol ar gael i sicrhau bod datblygiad y safle yn dderbyniol ac y gellir lleihau unrhyw effeithiau cysylltiedig.

Dywedodd Cyfoeth Naturiol Cymru y gallai pathewod ac ystlumod fod yn bresennol ar y safle hefyd. Roedd Afarniad Wildwood Ecology yn amlinellu'r materion allweddol ar y safle o safbwynt ecolegol, yn ogystal â nifer o argymhellion ar gyfer gwaith arolygu / lliniaru pellach fel a ganlyn:

- Mae'r adeiladau ar y safle yn Nhŷ Draw a Stormy, ynghyd â'r strwythur gwarchodle milwrol a'r ysgubor yn rhan dde-ddwyreiniol y safle, a sawl coeden wasgaredig ar draws y safle yn cynnig lleoliadau clwydo addas i ystlumod.
- Mae nodweddion ffiniau (coed a gwrychoedd) yn debygol o fod yn bwysig ar gyfer rhywogaethau blaenoriaeth a gwarchodedig sy'n mynd a dod a hela (e.e., ystlumod a phathewod).
- Mae'r pwll ar y safle yn cynnig cynefin addas i amffibiaid.
- Daethpwyd o hyd i frochfa moch daear (allanolyn) ar y safle o fewn clawdd gwrych, ynghyd â llwybrau mamaliaid anhysbys i'r de.
- Mae'r gwrychoedd a'r coed/prysgwydd yn cynnig amodau da i adar bridio nythu ynddynt.

Bydd cadw gwrychoedd (cynefin â blaenoriaeth ynddynt eu hunain) a llinellau coed o bwys yn fuddiol o ran lliniaru rhai o'r effeithiau posibl, er y bydd angen arolygon pellach i lywio cynlluniau goleuo ac unrhyw fesurau lliniaru/digolledu penodol os bydd rhywogaethau â blaenoriaeth yn cael eu canfod (e.e. pyllau ar gyfer madfallod; clwydi ystlumod). Bydd gwaith pellach yn cael ei wneud o safbwynt ecolegol yn unol ag argymhellion yr adroddiad. Fodd bynnag, ni chanfuwyd unrhyw 'drysorau' ar hyn o bryd, gyda mesurau lliniaru priodol ar gael i sicrhau bod datblygiad y safle yn dderbyniol ac y gellir lleihau unrhyw effeithiau cysylltiedig.

Cyfleustodau

Bydd buddsoddi mewn seilwaith cyfleustodau'n sicrhau y gall y safle wireddu lefel y datblygiad sydd mewn golwg. O ystyried lleoliad y safle, yn agos at adeiladau sy'n bodoli eisoes a rhwng anheddiad y Pîl, ystyrir y gellir gwneud cysylltiadau dŵr, nwy a chyfleustodau eraill priodol â'r safle.

Ar gyfer trydan, bydd angen i'r datblygiad ariannu cysylltiadau, gwiriadau a Phrif Is-orsaf EHV 33/11 kV ar y safle. Bydd angen gwneud cysylltiadau â'r rhwydwaith nwy hefyd a bydd angen gwneud cysylltiadau/gwiriadau i alluogi darpariaeth band eang.

Mae DCWW wedi cyngori nad oes carthffosydd cyhoeddus yng nghyffiniau'r safle felly ymddengys mai'r opsiwn agosaf ar gyfer cysylltiad dŵr budr (gan osgoi tir preifat a chroesi'r rheilffordd) fyddai'r garthffos gyfun 300mm yn Ffordd yr Eglwys, wrth y gyffordd â Pill-y-Cynffig. Gellid ymdopi â 200 o anheddau cychwynnol ar hyn o bryd, er y bydd angen gwneud gwaith modelu pellach. Dywedodd DCWW nad oedd unrhyw bryderon sylweddol pellach ynghylch capasiti ar wahân i hyn. Bydd angen cynyddu maint y rhwydwaith lleol presennol, ynghyd â thynnu dŵr wyneb, i wrthbwysu'r cynnydd sylweddol mewn llifoedd dŵr budr. Fodd bynnag, bydd hyn yn gofyn am fodelu hydrolog manylach, a fyddai'n cael ei

gynnal i gefnogi cais cynllunio amlinellol. Byddai hyn yn llywio unrhyw waith atgyfnerthu sy'n angenrheidiol hefyd i wasanaethu'r safle â dŵr glân.

Y Gymraeg

Nid yw'r safle wedi ei leoli mewn ardal sensitif o ran y Gymraeg.

Archaeoleg

Mae Archaeoleg Cymru wedi cynnal Asesiad Desg o'r safle. Mae'r asesiad yn amlygu'r nodweddion penodol canlynol:

- Gwarchodle milwrol o'r Ail Ryfel Byd ar gyfran ogledd-orllewinol y safle,
- Fferm bresennol yn y dwyrain;
- Ardal o wrthgloddiau yn y gornel ogledd-orllewinol yn ymwneud â fferm o'r 19eg ganrif (ond o bosibl yn llawer hŷn); a
- Lein dramffordd o'r 19eg ganrif yn rhedeg drwy ran ogleddol y safle.

Mae'r safle gerllaw Stormy Castle, anheddiad canoloesol gyda maenor fynachaidd o'i amgylch, a allai ymestyn i'r safle. Credir hefyd bod yr A48 ei hun yn dilyn llinell ffordd Rufeinig, er nad yw union lwybr ffordd Rufeinig drwy'r ardal hon wedi'i brofi. O ran mesurau lliniaru tebygol, mae'r cynghorwyr cynllunio archeolegol (GGAT) wedi dweud y dylid cynnal arolwg geoffisegol o'r safle. Bydd hwn yn cael ei gynnal i gefnogi'r cais cynllunio yn y dyfodol.

Halogiad/adfer

Mae Intégral Géotechnique (Wales) Limited wedi cynnal astudiaeth ddesg geoamgylcheddol a geodechnegol o'r safle. Canfu'r astudiaeth ddesg fod potensial halogiad cyffredinol y safle yn isel / canolig, gyda'r defnydd tir blaenorol a chyfredol yn annhebygol o gynhyrchu halogyddion sylweddol a bod y risg o niwed i iechyd pobl yn isel. O'r herwydd, o safbwynt amgylcheddol, daw'r adroddiad i'r casgliad ei bod yn annhebygol y bydd y mater yn codi fel rhwymedigaeth/cost.

Gofynion Allweddol o ran Seilwaith a Pholisi (gan gynnwys costau bras neu fformiwlâu a nodir yn y CCA lle maent yn hysbys) er enghraifft:

Mynediad

Cyfeiriwch at PLA5, Yr Atodlen Gwella Priffyrdd a'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Addysg

Bydd y datblygiad yn creu 94 o leoedd meithrin, 615 o leoedd cynradd (ynghyd â 9 o leoedd anghenion addysgol arbennig), 237 o leoedd uwchradd (ynghyd â 5 o leoedd anghenion addysgol arbennig) a 62 o leoedd ôl-16.

Rhaid i'r datblygiad ddarparu 4.6ha o dir i ddarparu ysgol gynradd 2 dosbarth mynediad gyda chyfleuster meithrin ar yr un safle, a chlustogfa ychwanegol o 1.1ha ar gyfer ehangu yn y dyfodol. Rhaid gwneud cyfraniadau ariannol hefyd at ddarpariaeth addysg feithrin, gynradd, uwchradd ac ôl-16 fel sy'n ofynnol gan yr Awdurdod Addysg Lleol, a sicrhau drwy Adran 106 yn unol â'r CCA Cyfleusterau Addysg a Datblygiad Preswyl. Rhaid i'r ddwy ysgol fod yn hygyrch i drigolion newydd a'r trigolion presennol drwy bob dull teithio, wedi'u galluogi gan y datblygiad.

Tai Fforddiadwy

Rhaid i'r datblygiad ddarparu 15% o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn unol â pholisi PLA5.

Mannau Agored

Seilwaith Gwyrdd a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored i'w darparu yn unol â Pholisi COM10 a Chyfleusterau Hamdden Awyr Agored a Chanllawiau Cynllunio Atodol Datblygiadau Tai Newydd.

Cyfleustodau

I'w gyflawni yn unol â'r Cynllun Cyflawni Seilwaith.

Gofynion gwybodaeth ategol allweddol

- Uwchgynllun Safle Dangosol
- Asesiad Trafnidiaeth
- Arfarniad Ecolegol
- Asesiadau o'r Effaith ar y Dirwedd a'r Effaith Weledol;
- Arolwg Coed a Gwrychoedd
- Adroddiad perygl llifogydd a draenio
- Adroddiad Archaeoleg Desg
- Chwiliad Cyfleustodau
- Asesiad Sŵn
- Astudiaeth ddesg geoamgylcheddol a geodechnegol
- Asesiad Tir Amaethyddol
- Asesiad Teithio Llesol
- Asesiad Hyfywedd
- Strategaeth Ynni
- Dyluniadau Sgematig Pont Croesi Rheilffordd

Atodiod 6: Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyedd

Dyraniadau Arfaethedigli: Ail gam safleoedd tai, cyflogaeth, manwerthu a Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn

Cyfeirnod y Polisi	Enw'r Safle	Enw'r Safleoedd Ymgeisiol	Math o Safle	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyeddi					
	Safleoedd Strategol (SP2 & PLA1 – 5)								
SP2 (1)	Ardal Adfywio Glannau Porthcawl	Sandy Bay (Cam 2)	Defnydd Cymysg Strategol	N/A					
		(Cam 1)		N/A					
COM1(R3)	Golchfa Maesteg	Golchfa Maesteg	Defnydd Cymysg Strategol (Adfywio)	PLA6	SP4, DNP9	SP3, SP6			
COM1 (R2)	Hen Safle Cooper Standard, Ffordd Ewenny	Hen Safle Cooper Standard	Defnydd Cymysg Strategol (Adfywio)	PLA6	COM3 COM4	SP4, DNP9	SP18		
SP2 (2)	Tir i'r de O Ben-y-Bont ar Ogwr (Fferm Ynys),	Fferm Ynys	Defnydd Cymysg Strategol a arweinir gan Breswyl	PLA2					
SP2 (3)	Tir i'r Gorllewin o Ben-y-Bont ar Ogwr	Pen-y-Bont ar Ogwr (Tir i'r Gorllewin) - Llanmoor	Defnydd Cymysg Strategol – tai	SP10	PLA6				
		Pen-y-Bont ar Ogwr (Tir i'r Gorllewin) - Ardal Ehangu (rhan o'r cynnig gwreiddiol)		PLA3	SP5, PLA6	DNP9	SP17, DNP6, DNP7	DNP5, DNP6	SP3, SP18, DNP4

Cyfeirnod y Polisi	Enw'r Safle	Enw'r Safleoedd Ymgeisiol	Math o Safle	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyddi					
SP2(4)	Tir i'r Dwyrain O Bencoed	Campws Pencoed	Defnydd Cymysg Strategol	SP18					
SP2 (5)	Tir i'r Dwyrain o'r Pîl	Tir i'r Dwyrain o'r Pîl	Defnydd Cymysg Strategol	PLA5	SP18				
SP11 (1a)	SP11 – Safleoedd Cyflogaeth Strategol a ENT1	Brocastell	Cyflogaeth Strategol	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP4, DNP9		
SP11 (1b)		Parc Technoleg Pencoed	Cyflogaeth Strategol	SP4, DNP9	SP3, SP15, ENT16				
	COM 2 Safleoedd Tai a Defnydd Cymysg nad ydynt yn strategol								
COM1 (1)	Parc Afon Ewenni	Parc Afon Ewenni	Defnydd Cymysg Strategol (Adfywio)	SP4	DNP9				
COM1 (2)	Craig y Parcau	Craig y Parcau	Preswyl	SP10	PLA6	SP17, DNP6, DNP7	SP4, DNP9		
COM1(3-5) Tir i'r de-ddwyrain / de / de orllewin o Pont Rhyd-y-cyff	COM1(3)	Ffordd Pen-y-Bont ar Ogwr (Tir i'r Dwyrain)	Defnydd Cymysg Strategol (Adfywio)	SP4, DNP9	SP3, DNP4				
	COM1(4)	Llangynwyd (hen orsaf wasanaeth)		SP4, DNP9					
	COM1(5)	Llangynwyd (i'r de o)		PLA6	SP4, DNP9				
COM1(R1)/ ENT2	Safle Adfer Coegnant	Safle Adfer Coegnant	Preswyl / Cyflogaeth / Hamdden	SP10	PLA6	SP5, PLA6	SP4, DNP9	SP18	
Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn									

Cyfeirnod y Polisi	Enw'r Safle	Enw'r Safleoedd Ymgeisiol	Math o Safle	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyddi					
SP7(1)	GTAA1	Pen-y-fai	Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn	COM8					
SP7(20)	GTAA2	Depo Bryncethin Ardal y Safle	Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn	COM8					
	Safleoedd Cyflogaeth								
ENT1/ENT2	ENT1(15) / ENT2(32)	Tir gerllaw Gwasanaethau Parc Sarn	Cyflogaeth	SP10	SP4, DNP9				
ENT1/ENT2	ENT1(6)/ ENT2(11)	Iard Crosby, Pen-y-Bont ar Ogwr	Cyflogaeth	SP4, DNP9	SP3, SP19	SP15, ENT16			
ENT2	ENT2(34)	Georgia Pacific	Cyflogaeth	SP10	PLA6	SP4, DNP9	SP3, SP19	DNP4	SP15, ENT16
ENT1/ENT2	ENT1(8)/ ENT2(8)	Ystad Ddiwydiannol Waterton	Cyflogaeth	SP10	SP5, PLA6	SP4, DNP9	SP3	SP15, ENT16	
ENT1/ ENT2	ENT1(16)	Tir i'r gorllewin o Heol Maesteg, Tondu	Yn cynnwys REG1(21)	SP10	SP5, PLA6	SP4, DNP9	SP18		
ENT1/ ENT2	ENT1(4)/ENT2(2)	Ystad Ddiwydiannol Pen-y-bont ar Ogwr	Cyflogaeth	PLA6	SP5, PLA6	SP4, DNP9	SP3	SP15, ENT16	SP18
ENT1/ENT2	ENT1(18)	Ystad Ddiwydiannol Abergarw, Brynmenyn	Cyflogaeth	SP10	SP4, DNP9				

Cyfeirnod y Polisi	Enw'r Safle	Enw'r Safleoedd Ymgeisiol	Math o Safle	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyeddi					
ENT2	ENT2(23)	Ystad Ddiwydiannol De Corneli	Cyflogaeth	SP10	SP4, DNP9				
ENT1/ ENT2	ENT1(17)	Ystad Ddiwydiannol Isfryn, Melin Ifan Ddu	Cyflogaeth	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP3, DNP4	SP4, DNP9	SP17
ENT2	ENT2(14)	Ystad Ddiwydiannol Forge, Maesteg	Cyflogaeth	SP5, PLA9	PLA6	SP4, DNP9			
ENT2	ENT2(35)	Dôl Werdd, Llangeinwyr	Cyflogaeth	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP4, DNP9		
ENT2	ENT2(22)	Penllwyn-gwent, Cwm Ogwr	Cyflogaeth	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP4, DNP9	SP3	SP15, ENT16
ENT1/ENT2	ENT1(14) /ENT2(28)	Ystad Ddiwydiannol Brynmenyn	Cyflogaeth	SP10	SP5, PLA6	SP4, DNP9			
ENT1	ENT1(10)	Ystad Ddiwydiannol Village Farm, Pîl	Cyflogaeth	SP5, PLA6	SP4, DNP9	SP17	SP17, DNP8		
ENT2	ENT2(20)	Tŷ Dunraven, ger y Pîl	Cyflogaeth	SP5, PLA6	SP4, DNP9				
ENT2	ENT2(15)	Heol Ty Gwyn, Maesteg	Cyflogaeth	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP4, DNP9		
ENT2	ENT2(37)	Wern Tarw	Cyflogaeth	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP3	SP4, DNP9	SP15, ENT16
ENT1/ ENT2	ENT1(4)/ENT2(2)	Ystad Ddiwydiannol Penybont	Cyflogaeth	SP5, PLA9	PLA6	SP4, DNP9	SP15, ENT16	SP18	SP3
ENT1/ENT2	ENT1(8)/ENT2(8)	Ystad Ddiwydiannol Waterton	Cyflogaeth	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP4, DNP9	SP15, ENT16	SP3

Cyfeirnod y Polisi	Enw'r Safle	Enw'r Safleoedd Ymgeisiol	Math o Safle	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyeddi					
ENT1/ ENT2	ENT1(5)/ENT2(4)	Iard Crosby, Pen-y-bont ar Ogwr	Cyflogaeth	SP5, PLA9	PLA6	SP4, DNP9	SP15, ENT16	SP3	
ENT2	ENT2(18)	Glan Road, Porthcawl	Cyflogaeth	SP5, PLA9	PLA6	SP4, DNP9			
ENT2	ENT1(10)	Trews Field, Pen-y-bont ar Ogwr	Cyflogaeth	SP4, DNP9					
ENT2	ENT2(30)	Canolfan Menter, Ton-du	Cyflogaeth	SP10	SP5, PLA6	SP4, DNP9			
ENT2	ENT2(16)	Ystad Ddiwydiannol Spelter, MAesteg	Cyflogaeth	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP4, DNP9		
ENT2	ENT2(33)	Ystad Ddiwydiannol Ffaldau, Blaengawr	Cyflogaeth	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP4, DNP9	SP3	SP15, ENT16
ENT2	ENT2(7)	Ystad Ddiwydiannol Penybont	Cyflogaeth	SP4, DNP9					
ENT1/ENT2	ENT1(6)/ENT2(11)	Iard Crosby, Pen-y-bont ar Ogwr	Cyflogaeth	SP4, DNP9					
ENT2	ENT2(9)	Parc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr	Cyflogaeth	SP5, PLA9	PLA6	SP4, DNP9	SP3	SP15, ENT16	
ENT2	ENT2(17)	Tir De-Orllewin o Parc Technoleg Pencoed (Parc Busnes Pencoed)	Cyflogaeth	SP4, DNP9	SP3, SP15, ENT16				
ENT1	ENT1(13)	Y Safle Triongl, Bocam Park, Pencoed	Cyflogaeth	SP4, DNP9	SP3, SP15, ENT16				
ENT1/ ENT2	ENT1(7)/ENT2(6)	Parc Afon Ewenni	Cyflogaeth	SP10	SP4, DNP9				

Cyfeirnod y Polisi	Enw'r Safle	Enw'r Safleoedd Ymgeisiol	Math o Safle	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyeddi					
ENT1/ ENT2	ENT1(15)/ ENT2(32)	Tir gerllaw Gwasanaethau Parc Sarn	Cyflogaeth	SP10	SP4, DNP9				
ENT2	ENT2(19)	Pwll y Waun, Porthcawl	Cyflogaeth	SP5, PLA9	PLA6	SP4, DNP9			
ENT2	ENT2(27)	Depo Bryncethin	Cyflogaeth	SP10	SP4, DNP9				
ENT1/ ENT2	ENT1(12)/ ENT2(13)	Ffordd Ewenni, Maesteg	Cyflogaeth	SP5, PLA9	PLA6	SP4, DNP9			
ENT2	ENT2(5)	Ystad Ddiwydiannol Litchard	Cyflogaeth	SP4, DNP9					
ENT1/ ENT2	ENT1(3)/ENT2(1)	Ystad Ddiwydiannol Bracla	Cyflogaeth	SP4, DNP9					
ENT2	ENT2(12)	Safle Adfer Coegnant, Maesteg	Preswyl / Cyflogaeth / Hamdden	SP5, PLA9	SP10	PLA6	SP4, DNP9		
ENT2	ENT2(3)	Seidins Heol Coety, Pen-y- bont ar Ogwr	Cyflogaeth	SP4, DNP9					
ENT2	ENT2(29)	Hen Safle Christie Tyler	Cyflogaeth	SP10	SP4, DNP9				
ENT1/ ENT2	ENT1(9)/ ENT2(21)	Tir yn Gibbons Way, Gogledd Corneli	Cyflogaeth	SP10	SP4, DNP9				
ENT1/ENT2	ENT1(11)/ ENT2(25)	Ty Draw Farm, Pyle Fferm Tŷ Draw, Pŵl	Cyflogaeth	SP5, PLA6	SP4, DNP9				

Cyfeirnod y Polisi	Enw'r Safle	Enw'r Safleoedd Ymgeisiol	Math o Safle	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyeddi					
	Safleoedd Manwerthu								
ENT6	ENT6(2)	Ardal Adfywio Glannau Porthcawl	Y Ddarpariaeth Fanwerthu yn y Cynllun Datblygu Adfywio a Defnydd Cymysg	PLA1	SP5, PLA6	SP17, DNP7	SP4, DNP9	SP18	SP3, DNP4
ENT6	ENT6(1)	Southside, Tir yng Nghanolfan Brackla, Cheapside, Gorsaf yr Heddlu a Maes Parcio Arwyneb, Pen-y-bont ar Ogwr	Safle Datblygu Manwerthu a Masnachol	PLA6	SP5, PLA6	SP4, DNP9			
ENT9	ENT9	Parc Manwerthu Waterton	Safle Datblygu Manwerthu Presennol y Tu Allan i'r Canol	SP10	SP5, PLA6	SP17, DNP7	SP4, DNP9	SP3, SP15, ENT16	
ENT9		Sainsburys, Cefn Hirgoed	Safle Datblygu Manwerthu Presennol y Tu Allan i'r Canol	SP10	SP5, PLA6	SP17, DNP7			
ENT9		Tesco, Lôn y Bragdy, Pen-y-Bont ar Ogwr	Safle Datblygu Manwerthu Presennol y Tu Allan i'r Canol	PLA6	SP5, PLA6	SP4, DNP9			
ENT9		Canolfan Siopa McArthurGlen	Canolfan Siopa McArthurGlen	SP10	SP5, PLA6	SP17, DNP7	SP4, DNP9		

Cyfeirnod y Polisi	Enw'r Safle	Enw'r Safleoedd Ymgeisiol	Math o Safle	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyddi					
		Pen-y-bont ar Ogwr	Pen-y-bont ar Ogwr						
ENT9		Tesco, Lôn Llynfi, Maesteg	Ganolfan fanwerthu y tu allan i'r dref	PLA6	SP4, DNP9				
ENT9		Parc Manwerthu Pen-y-bont ar Ogwr	Ganolfan fanwerthu y tu allan i'r dref	SP5, PLA6	SP4, DNP9	SP3, SP15, ENT16			

Dyraniadau Arfaethedig - Lliniaru Seilwaith ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyddi

Cyfeirnod y Safle	Enw'r Cynnig	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyeddi				
Seilwaith Trafnidiaeth						
PLA8(1)	Coridor Bws - Maesteg - Pen-y-bont ar Ogwr	SP3, DNP4	SP5, PLA6	SP17, DNP5, DNP6, , DNP7	SP4, DNP9	SP18
PLA8(1)	Coridor Bws – Blaengarw - Pen-y-bont ar Ogwr	SP3, DNP4	SP10	SP5, PLA6	SP17, DNP7	SP4, DNP9
PLA8(1)	Corridor Bws – Cwm Ogwr - Pen-y-bont ar Ogwr	SP3, DNP4	SP10	SP5, PLA6	SP17, DNP6, DNP7	SP4, DNP9
PLA8(1)	Corridor Bws - Pen-y-bont ar Ogwr - Tonysguboriau	SP5, PLA6	SP17, DNP6, DNP7	SP4, DNP9		
PLA8(1)	Corridor Bws – Pen-y-bont ar Ogwr - Y Bont-faen	PLA6	SP5, PLA6	SP17, DNP6, DNP7	SP4, DNP9	
PLA8(8)	Gwelliannau yng nghylchfannau Ewenni a Broadland, yr A48, Pen-y-bont ar Ogwr	PLA6	SP5, PLA6	SP4, DNP9		

Cyfeirnod y Safle	Enw'r Cynnig	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyddi				
PLA8(5)	Ehangu'r cyfleuster parcio a theithio presennol ym Mhencoed	SP5, PLA6	SP4, DNP9	SP3, SP15, ENT16		
PLA8(11)	Gwelliannau i Bont Ffordd Penprysg, Pencoed	SP5, PLA6	SP4, DNP9	SP3, SP15, ENT16		
PLA8(2)	Cyfleuster parcio a theithio newydd sy'n seiliedig ar fysiau ym Mhorthcawl	PLA6				
PLA8(4)	Gorsaf reilffordd newydd â chyfleuster parcio a theithio ym Mracla, Pen-y-bont ar Ogwr	PLA6	SP3, SP15, ENT16			
PLA8(6)	Ehangu/adleoli'r orsaf reilffordd bresennol gan gynnwys cyfleusterau parcio a theithio strategol yn y Pîl	SP5, PLA6	SP4, DNP9			
PLA8(10)	Gwelliannau i'r A4063 rhwng Sarn a Maesteg	SP3, DNP4	SP5, PLA6	SP17, DNP5, DNP6	SP17, DNP7	SP4, DNP9
Rhwydwaith Rhandiroedd a Bwyd Cymunedol						
COM12(1)	Gardd Farchnad Caerau a Bryn-glas	SP10	PLA6	SP4, DNP9		
COM12(2)	Tir i'r De o Glwb Pêl-droed Llangeinwyr	SP10	PLA6	SP17, DNP6, DNP7	SP4, DNP9	
Mynwentydd						
COM13(1)	Mynwent Porthcawl, Porthcawl	SP10	PLA6			
COM13(2)	Mynwent Corneli, Gogledd Corneli	SP10	SP5, PLA6	SP4, DNP9		
COM13(3)	Mynwent Gelliron, Pontycymer	SP10	PLA6	SP4, DNP9	SP3, SP15, ENT16	SP3, DNP4
COM13(4)	Mynwent Pencoed, Pencoed	SP4, DNP9	SP3, SP15, ENT16			
COM13(5)	Mynwent Sarn, Sarn	SP10	SP5, PLA6	SP4, DNP9		
Ynni						

Cyfeirnod y Safle	Enw'r Cynnig	Lliniaru ar Lefel Polisi Arfarnu Cynladwyddi				
ENT12	Parc Stormy	SP10				